
Cor mundum crea in me Deus.

T.d/18

LLYFR GWEDDI GYFFREDIN, A GWENIDOGAETH Y SACRAMENTAU:

A Chynneddſau a Ceremoniau
eraill yn Eglwys Loegr.

Printiedig yn LLUNDAIN gan
ROBERT BARKER Printiwr i
Ardderchoccaf fawrhydi y Brenin: a chan *Aſsignes* IOHN BILL.
Anno Dom. 1630.

*624405

Queſtion.

BEth yw dylêd deiliaid tuag at eu Brenhin?

Atteb.

Yr Apoſtolion ſanctaidd, Saint *Paul* a Saint *Peter* yn ôl iddynt ſynegi fod yr awdurdodau goruchel wedi eu hordeinio gan Dduw, a bod pwy bynnac a ymoſodo yn erbyn yr awdurdod yn gorthwynebu ordin-hâd Duw, ac yn derbyn barnedigaeth iddynt eu hunain, ſydd yn gorchymmyn i bôb deiliaid ofni, caru, ac anrhydeddu eu Brenhin; ac yn oſtyngedig vfyddhau i hôll gyfreithiau, gorchymynion, a ſwyddogion eu Brenhin; a hynny nid rhag ofn yn vnic, ond er mwyn cydwybod hefyd Talu pob mâth ar deyrnged, a threth dyledus iw Brenhin, ac a'i holl dda, ac a'i cyrph gwaſanaethu eu Brenhin yn ffyddlon, gweddio dros eu Brenhin yn ewyllyſgar ar barhau, a chynnyddu o honaw ym mhob daioni a duwioldeb neu ar wellhau o honaw os digwydd mai drwg fyddo. Ac ym mhob peth bôd eu hunain yn ddeiliaid da, fel y rhyglyddont yn well gael Brenhin da.

Queſt. Bellach adroddwch i mi ddylêd plant tu ag at eu Rhieni?

Atteb. Yr ſcrythyrau ſanctaidd a ddyſcant i blant vfyddhau i'w Rhieni, a'i gwaſanaethu hwynt, eu hofni, a'i caru, eu hanrhydeddu a'i perchi nid yn vnic ar air, a gweithrêd, eithr yn eu calonnau, a'u meddyliau hefyd. Dilyn eu cynghorion da, ac eſamplau eu buchedd. A derbyn eu ceryddon hwynt yn ddioddefgar. Gweddio ar Dduw troſtynt yn waſtadol, ac yn ddifrifol; ymgeleddu eu Rhieni, a'u cynnorthwyo os byddant wedi ſyrthio mewn tlodi, a bod arnynt ddiffyg; ac ym mhôb peth (drwy fod yn blant vfydd a graſlon yn eu ymddygiad tu ag attynt) cynnyrfu eu Rhieni i fod yn gariadus, ac yn ddaionus iddynt.

Queſt. Beth yw dylêd plwyfolion a gwrandawyr tu ag at eu Bugeiliaid, a'u Pregeth-wyr.

Atteb. Plwyfolion a gwrandawyr a orchymynnir yngair Duw i roddi anrhydedd dau-ddyblyg iw Bugeiliaid, a'u Pregethwyr; ſef eu perchi ac vfyddhau iddynt, eu cynnorth hefyd a'u cynnorthwyo ar air a gweithred: A gofal mawr a ddylent ei gymmeryd rhag digwyddo i'r hâd da a hauer yn eu plith, drwy ddiffyg iawn yſtyriaeth a gwneuthur defnydd o honaw, ſethu a bod yn anffrwythlawn megis peth a hauid mewn tiroedd caregog, ac anfuddiol.

Queſt. Mynegwch bellach ddylêd gwaſanaeth-ddynion.

Atteb. Gwaſanaeth-ddynion a ddyſcir eu dylêd tu ag at eu meiſtred fel hyn yn yr ſcrythyrau, y gweiſion vfyddhewch i'ch meiſtred o herwydd y cnawd ym mhôb dim mewn ofn a dychryn, ac mewn purdeb eich calonnau megis i Griſt; nid a llygad-waſanaeth, megis rhyngwyr bodd dynion, ond megis gweiſion Criſt: a pha beth bynnac a wnelech, gwnewch yn galonnog, ac yn ewyllyſgar megis i'r Arglwydd ac nid i ddynion, gan wybod mai gan yr Arglwydd y derbyniwch daledigaeth yr etifeddiaeth: Canys yr Arglwydd Griſt yr ydych yn ei waſanaethu.

Queſt. Beth yw dylêd Rhieni tu ag at eu plant

Atteb. Dyled rhieni tu ag at eu plant (megis y dyſc yr vn-rhyw Apoſtol) yw eu meithrin o'u mebyd yn ofn, ac athrawiaeth yr Arglwydd; mewn diweirdeb, caſineb i ddrygioni, a ſerch i bôb rhinwedd dda: a bôd eu hunain yn eſamplau i'w plant o bob duwioldeb a ſancteiddrwydd. Ac hwy a ddylent ofalu am gadw eu plant rhag ſeguryd, yr hwn yw mam pob drygioni, a'u meithrin naill ai mewn dyſc, ai mewn rhyw gelfyddyd dda fel y gallont ynnill eu bywyd drwy oneſtrwydd, a gwirionedd pan ddelont mewn oedran.

Queſt. Ewch rhagoch bellach at ddyledion meiſtred, a pherchen-tai?

Atteb. Mi a ddyſcais am feiſtred a phen teuluoedd megis y maent hwy yn lle rhieni i'w gwaſanaeth-ddynion a'u teuluoedd; felly y dylent eu cadw rhag ſeguryd, a thrwy ddyfal athraw[illegible] ac eſampl dda meithrin eu gweiſion, a'u [illegible] mewn ymwreddiad oneſt, a gweddol, [illegible] rhinweddoldeb. Ac hwy a ddylent [illegible] tified mewn gwybodaeth o'u celfy[illegible] rhieni yn dyſcu eu plant eu han[illegible] ddidwyll heb nacaodi, na ch[illegible] a ddylent ei wybod. A p[illegible] ryddu, hwy a ddylent w[illegible] yn doſturus ac mor ewyl[illegible] wellhau, a diwygio eu b[illegible] dig yn arfer o wneuthur [illegible] ſio beunydd fod ganddynt [illegible] nefoedd.

Queſt. Mynegwch i mi bellach [illegible] i'w gwragedd?

Atteb. Mi a ddyſcais fod yr Apoſtol S. *Peter* (yr hwn oedd ei hûn yn wr gwreigiog) a S. *Paul* hefyd yn cynghori gwŷr gwreigiog i gyttal a'u gwragedd yn bwyllig yn ôl gwybodaeth, ac yn ddichwerwedd: ac i garu, i faethu a mawrhau eu gwragedd megis eu cyrph eu hunain; ie y dylei gwŷr garu eu gwragedd fel y carodd Criſt ei Eglwys, ac y rhoddes ei hûn troſti iw ſancteiddio.

Queſt. Dangoſwch i mi weithian pa fodd y dylei gwragedd eu hymddwyn eu hunain tu ag at eu gwŷr?

Atteb. Mi a ddyſcais hefyd fod yr vn rhyw Apoſtolion ſanctaidd S. *Paul* a S. *Peter* yn dywedyd y dylei gwragedd berchi eu gwŷr, ac ymddaroſtwng, a bod yn vfydd iw gwyr priod megis i'r Arglwydd. Canys y gŵr yw pen y wraig fel y mae Chriſt yn ben yr Eglwys. Am hynny megis y mae yr Eglwys neu 'r Gynnulleidfa yn ddaroſtyngedig i Griſt: felly hefyd y dylei y gwragedd fod yn oſtyngedig iw gwŷr ym mhôb peth megis y mae yn weddaidd yn yr Arglwydd, fel yr vfyddhaodd Sara i Abraham gan ei alw ef yn Arglwydd. Ac yn yr Scrythur lân y gwaherddir i wragedd wiſco dillad gwychion megis o blethiadau gwallt ac amgylch-oſodiad aur; ond bod iddynt yn ôl eſampl y gwragedd ſanctaidd a obeithient yn Nuw fod yn ſobr yn eu trwſiad oddi allan, ac ymdrwſio oddimewn a rhinweddau y meddwl: ſef a lledneiſrwydd, addfwynder, diſtawrwydd a [illegible] y rhai ſydd bethau gwerthfawr ger bron Duw.

¶ Act am vnffurfiad Gweddi Gyffredin, a gwaſanaeth yn yr Eglwys, a miniſtriad y SACRAMENTAV.

Le yr ydoedd ar farwolaeth ein diweddar ardderchawg Arglwydd Brenin *Edward* y chweched, vnffurfiwyd drefn ar gyffredin waſanaeth a gweddi, a miniſtriad y Sacramentau, Rhithiau, a defodau, yn aros yn Eglwys Loegr, yr hon drefn a oſodaſid allan yn vn llyfr, a elwid, *Llyfr gweddi gyffredin, a miniſtriad y Sacramentau, a Chynneddfau eraill a Ceremoniau yn Eglwys Loegr:* wedi eu hawdurdodi drwy Act o Barliament wedi ei gynnal yn y bummed ar chweched flwyddyn o'n dywededic ardderchawg Arglwydd Frenin *Edward* y chweched, tituledic, *Act am vnffurfiad Cyffredin weddi, a miniſtriad y Sacramentau*, yr hon a repeliwyd, ac a gymmerwyd ymmaith drwy Act o Barliament yn y flwyddyn gyntaf o deyrnaſiad ein hardderchawg Arglwyddes Frenhines *Mari*, i fawr adfail dyledus anrhydedd Duw, ac anghyſur i broffeſſwyr gwirionedd Crefydd Criſt.

Enacter gan hynny drwy awdurdod y Parliament preſennol hwn, fod y ddywededic ſtatut o Ddirymiad, a phob dim cynnwyſedic ynddi o ran y dywededic lyfr yn vnic, a'r gwaſanaeth, a miniſtriad y Sacramentau, cynneddfau, a Ceremoniau cynnwyſedic neu oſodedic yn, neu gan y dywededic lyfr; yn ofer, ac yn ddirym, yn ol, a chwedi gwyl Genedigaeth S. *Ioan* Fedyddiwr neſaf i ddyfod. A bod y dywededic lyfr, a threfn y Gwaſanaeth, a miniſtriad y Sacramentau, cynneddfau a Ceremoniau, ynghyd a'r cyfnewidion, a'r ychwanegion a chwanegwyd ynddo, ac a oſodwyd drwy yr ſtatut hon, yn ſefyll, ac yn bod, yn ol, a chwedi y ddywededic wyl Genedigaeth Sanct *Ioan* Fedyddiwr, mewn cyflawn rym ac effect, yn ol tenor ac effect yr ſtatut hon: Er dim ac y ſydd yn y ddywededic ſtatut o ddirymmiad i'r gwrthwyneb.

A phellach enacter gan vchelder y Frenhines, ynghyd a chydſynniad yr Arglwyddi a'r Cyffredin ſydd wedi ymgynnull yn y Parliament preſennol hwn, a chan awdurdod yr vn-rhyw, fod pob vn, a chwbl o'r Gweinidogion ym-mhob Eglwys Gadeiriol, a phlwyfol, neu mewn lle arall o fewn y Deyrnas hon o Loegr, Cymbru, ac ardaloedd yr vn-rhyw, neu eraill o arglwyddiaethau y Frenhines, yn ol, a chwedi Gwyl Genedigaeth Sanct *Ioan* Fedyddiwr neſaf i ddyfod, yn rhwymedic i ddywedyd ac i arfer y Plygain, Goſper, gweinidogaeth Swpper yr Arglwydd, a miniſtriad pob vn o'r Sacramentau a'r holl Gyffredin, a chyhoedd weddi arall, yn y cyfryw drefn a ffurf ac a adroddir yn y dywededic lyfr, felly wedi ei awdurdodi gan Barliament yn y ddywededic bummed a'r chweched flwyddyn o deyrnaſiad Brenin *Edward* y chweched, gyd ag vn newidiad neu anghwanegiad o ryw Lithiau i'w harfer ar bob Sul yn y flwyddyn, a ffurf y Letani wedi ei newidio a'i gorrectio, a dwy ſentens yn vnic wedi ei anghwanegu wrth roddi y Sacrament i'r Cymmunwyr, ac nid arall, neu yn modd amgen.

Ac o bydd i neb rhyw Berſon, Vicar, neu arall pa weinidog bynnac, a ddylei, neu a fydd iddo ganu neu ddywedyd y weddi gyffredin, a goffawyd yn y dywededic lyfr, neu ſiniſtrio y Sacramentau, yn ol a chwedi Gwyl Nadalic S. *Ioan* Fedyddiwr neſaf i ddyfod, wrthod arferu y dywededic weddiau cyffredin, neu ſiniſtrio y Sacramentau, yn y cyfryw Eglwys Gadeiriol, neu Eglwys blwyfol, neu leoedd eraill, ac y dylei efe ſiniſtrio yr vn rhyw, yn y cyfryw ffurf a threfn ac a adroddir, ac a ddatcenir yn y dywededic lyfr, neu o'i wirfodd, neu o gyndynder (gan ſefyll yn hynny) arferu o ryw eraill gynneddfau a Ceremoniau, Trefn, ffurf neu wedd ar weinidogaeth Swpper yr Arglwydd, ar gyhoedd neu yn ddirgel, neu Blygain, Goſper, miniſtriad y Sacramentau, neu eraill weddiau ar oſteg, amgen nac a adroddir ac a ddeclarir yn y dywededic lyfr (*Gweddi ar oſteg yn a thrwy yr holl Act hon, a ddeallir y weddi fydd i eraill ddyfod iddi i'w gwrando, mewn Eglwyſſeu cyffredin, neu Gapelau dirgel, neu Oratoriau, yr hon a elwir yn gyffredin Gwaſanaeth yr Eglwys*) neu bregethu, declario, neu leſaru dim oll er diſtadlu, neu anmherchi y dywededic Lyfr, neu ddim ar y ſydd yndaw, neu ryw barth o honaw, a bod o hynny yn gyfraith-lawn wedi ei farnu yn ol cyfreithiau y Deyrnas hon, trwy verdict deuddeng wyr, neu trwy ei gyffes ei hun, neu trwy hynod eglurdab y weithred: i efe a gyll ac a fforffetta i vchelder y Frenhines, ei hetifeddion, a'i ſucceſſoriaid, am ei gamwedd cyntaf, broffit ei holl renti yſprydawl neu bromoſhonau yn dyfod, neu yn cyfodi yn y flwyddyn neſaf ar ol ei gonuictiad: A bod hefyd i'r neb a gonuicter felly, am yr vn rhyw gamwedd, ddioddef carchar dros yſpaid chwemis, heb na meichiau na mayniprif. A bod i'r cyfryw vn, ac a gonuicter vn-waith am vn camwedd herwydd y pethau a grybwyllwyd, os bydd iddo gwedi ei gonuictiad cyntaf, [illegible]ddu, a bod o hynny yn y ffurf ddywededic yn gyfreith-lawn wedi ei gonuictio, yna bod i'r vn [illegible] ddyn am ei ail gamwedd ddioddef carchar dros yſpaid vn flwyddyn gyfan, a hefyd bod ei ddiſpelio *Ipſo facto*, o'r holl bromoſhonau yſprydol. A bod yn gyfreith-lawn i bob Patron, neu roddwr, y cwbl, a phob vn o'r promoſhonau yſprydol hynny, neu i neb vn o honynt, breſentio, neu gollatio i'r vn rhyw megis pe buaſſei y neb, neu yr neb [illegible] a droſeddo felly wedi marw. Ac o bydd i neb, neu i'r rhai yn ol ei gonuictio ddwywaith yn y ffurf ragdywededic, droſeddu yn erbyn neb vn o'r pethau a grybwyllwyd, y drydedd waith, a bod o hynny yn y ffurf ragddywededic yn gyfreith-lawn wedi ei gonuictio, yna y neb a droſeddo felly [illegible] y drydedd waith, a ddiſpelir *Ipſo facto* [illegible] bromoſhonau yſprydol, a hefyd [illegible] ddef carchar tra fyddo byw.

Ac o bydd y neb a droſeddo [illegible] y ffurf ragddywededic, [illegible] grybwyllwyd, heb rent [illegible] moſionau yſprydol: Yna bod i'r vnrhyw wr hwnnw a droſeddo felly, ac a gonuicter, am y troſedd cyntaf ddioddef carchar tros y flwyddyn gyfan neſaf ar ol ei ddywededic gonfictiad, heb na meichiau na mainpriſ. Ac os y cyfryw vn, heb iddo ddim promoſionau yſprydol, wedi ei gonuictiad cyntaf, a droſedda drachefn mewn dim oblegid y petheu a grybwyllwyd, ac yn y ffurf ddywededic yn gyfreith-lawn a gonuicter o hynny, yna bod i'r cyfryw vn hwnnw, am ei ail droſedd ddioddef carchar tra fyddo byw.

Ac fe a ordeiniwyd, ac a enactiwyd drwy yr awdurdod a ddywedpwyd vchod, o bydd i ryw vn, neu ryw rai, pwy bynnac font, wedi y ddywededic wyl o Enedigaeth Ioan Fedyddiwr neſaf i ddyfod, mewn vn-rhyw Enterlud, Chwareon, Caniadau, Rhymmyn-nau, new drwy eraill eiriau agored, ddeclario neu ddywedyd dim rhyw beth er diſtadlu, diſtyru, a dirmygu yr vn rhyw lyfr, neu ddim a gynhwyſir ynddo, neu neb rhan o honaw, neu drwy ffact agored, gweithred, neu drwy fygythiau agored, gymmell neu beri, neu trwy fodd arall brocurio neu gynnal neb Perſon, Vicar, neu weinidog arall, mewn vn Eglwys Gadeiriol, neu Eglwys blwyfol, neu mewn Capel, neu mewn vn lle arall, i gann, neu i ddywedyd Gweddi gyffredin neu agored, neu i Weini vn Sacrament, yn amgenach neu mewn gwedd a ffurf amgen nac a oſodwyd yn y dywededic lyfr, neu drwy yr vn o'r dywededic foddion, yn anghyfreithlawn rwyſtro, luddias i neb Perſon, Vicar neu Weinidog arall, mewn vn Eglwys Gadeiriol, neu blwyfol, Capel, neu mewn vn lle arall, i gann neu ddywedyd Gweddi gyffredin neu agored, neu Finiſtrio y Sacramentau, neu neb o honynt, yn y cyfryw wedd a ffurf ac a grybwyllwyd yn y dywededic lyfr: Yna bod i bob rhyw vn, wedi yn gyfreithlawn ei gonuictio o hynny, yn y ffurf ddywededic, fforfettio i'r Frenhines ein Goruchel Arglwyddes, ei hetiſeddion, a'i ſucceſſoriaid, am y troſedd cyntaf, gan-Morc.

Ac os bydd i ryw vn, neu i ryw rai, a gonuictwyd vn-waith am y cyfryw droſedd, droſeddu trachefn yn erbyn neb vn o'r troſeddion diwethaf a adroddwyd, ac iddynt fod yn y ffurf ddywededic yn gyfreithlawn wedi eu confictio, Yna bod i'r vn-rhyw vn felly yn troſeddu ac yn gonfictiedic, am yr ail droſedd fforffettio i'r Goruchel Arglwyddes Frenhines, ei hetiſeddion, a'i ſucceſſoriaid bedwar cant o forciau. Ac o bydd i neb, wedi iddo yn y ffurf ddywededic fod ddwywaith yn gonfictiedic o neb troſedd yn perthynu i'r troſeddion diwethaf a adroddwyd, droſeddu y dryddedwaith, a bod o hynny, yn y ffurf vchod, yn gyfreithus wedi ei gonfictio: bod yna i bob vn yn troſeddu felly, am ei drydedd droſedd fforfettio i'r Goruchel Arglwyddes Frenhines ei holl dda a chatteloedd, a dioddef carchar yn ei fyw. Ac o bydd i ryw vn, neu i ryw rai, yr hwn am ei droſedd cyntaf o herwydd y petheu a grybwyllwyd, gael ei gonfictio yn y ffurf ddywededic, na thalo y ſwm taladwy o rym ei gonfictiad, yn y cyfryw wedd a ffurf ac y dirper talu yr vn-rhyw, o fewn chwech wythnos neſaf yn ol ei gonfictiad, bod yna i bob vn a gonficter felly, ac heb dalu yr vn-rhyw, am y troſedd cyntaf, yn lle y ſwmm dywededic, ddioddef ei garcharu dros yſpaid chwe-mis, heb na meichiau na mainpriſ. Ac o bydd i ryw vn, neu i ryw rai, yr hwn am yr ail droſedd herwydd y petheu a grybwyllwyd, a gonficter yn y ffurf ddywededic, na thalo y ſwmm dywededic, taladwy drwy rym ei gonfictiad, a'r Statut hon, yn y cyfryw wedd a ffurf ag y dyleir talu yr vn-rhyw, o fewn chwech wythnos cyntaf ar ol ei ail confictiad: bod yna i bob rhyw vn felly a gonfictiwyd, ac heb felly dalu yr vn-rhyw, am yr vn-rhyw ail droſedd, yn lle y dywededic ſwmm, gael dioddef ei garcharu dros yſpaid 12. mis, heb na meichiau na mainpriſ. Ac yn ol a chwedi y ddywededic wyl Natalic S. Ioan Fedyddi-wr neſaf i ddyfod, fod i bawb oll yn gwbl, ac y ſydd yn preſwylio o fewn y deyrnas hon, neu le arall o arglwyddiaethau Mawredd y Frenhines yn ddieſcaelus, ac yn ffyddlawn, oddi eithr bod eſcus cyfreithiol a rheſymmol i fod ymaith, wneuthur eu goreu ar fynychu iw Heglwys blwyf, neu Gapel delodedic, neu o ran rhwyſtr reſymmol rhag hynny, i ryw fan arferedic, lle y byddo Gweddi gyffredin, a chyfryw waſanaeth Duw yn arferedic, yn y cyfryw amſer rhwyſtr, ar bob Sul a dyddiau eraill ordeiniedic ac arferedic iw cadw megis yn wyliau: ac yna, ac ydo aros yn dreſnus, ac yn bwyllog ar hyd amſer y weddi gyfredin, pregethau neu arall Waſanaeth Duw, a arferer, neu a finiſtrer yno, dan boen coſpedigaeth gan Cenſurau yr Eglwys, a hefyd dan boen, fod i bob vn yn troſeddu felly fforffettio am bob cyfryw droſedd ddeuddec ceiniog iw codi gan wardeniaid y plwyf y gwneler y cyfryw droſedd ynddo i fwyniant y tlodion o'r vn-rhyw blwyf, o dda, tiroedd, a thyddynnau y cyfryw droſedd-wr, drwy attafael. Ac er mwyn iawn gyflawni y pethau hyn, y mae rhagorawl Fawredd y Frenhines, yr Arglwyddi temporal, a'r holl gyffredin cynnulledic yn y Parliament preſennol, yn Enw Duw yn ddifrifol yn erchi, ac yn gorchymyn i'r holl Arch-eſcobion, Eſcobion, ac eraill Ordinariaid, ar iddynt ymoſod hyd yr eithaf o'i gwybodaeth, ar fod dyledus a gwir gyflawni y petheu hyn yn gwbl trwy eu holl Eſcobaethau, a'u Curiau, fel y byddo iddynt atteb ger bron Duw, am gyfryw ddrygau a phlaau, ac y gallo yr holl-gyfoethog Dduw yn gyfiawn boeni ei bobl am ddirmygu ei ddaionus a'i iachus Gyfraith. Ac er mwyn bod awdurdod yn yr achos hyn, Bydded ym mhellach enactiedic gan y ddywededic awdurdod, fod i bawb oll o'r Arch-eſcobion, Eſcobion, a phawb eraill o'i ſwyddogion hwy, yn arferu awdurdod Eglwyſic, yn gyſtal mewn lleoedd eſempt ac aneſempt o fewn eu heſcobaethau, gael llawn feddiant ac awdurdod gan yr Act hon i adffurfio, coſpi, a phoeni wrth Cenſurau yr Eglwys, oll a phob dyn a droſeddant o fewn yr vn o'u ſwyddogaethau, neu o'u heſcobaethau hwynt, wedi y dywededic wyl Nadalic Sanct Ioan Fedyddi-wr neſaf i ddyfod, yn erbyn yr Act hon a'r Statut: Er neb arall gyfraith, Statut, Priſileg, braint, neu ragwelliad cyn na hyn wedi ei wneuthur neu ei ddioddef i'r gwrthwyneb, yn ddiwrthladd.

Ac fe a ordeiniwyd ac a enactiwyd gan y rhacddywededic awdurdod, bod i bawb oll o'r Iuſtiſiaid Oyer a Determiner, neu Iuſtiſiaid Aſiſ, gael cwbl feddiant ac awdurdod ym-mhob vn o'i agored, a'i cyfredin Seſſionau, i ymofyn, gwrando, a therfynu pob rhyw droſedd a gommittier, neu a wneler yn gwrthwyneb i vn pwngc a gynhwyſir yn yr Act gyndrychiol hon, o fewn terfynau y Commiſſiwn a roddir iddynt, a gwneuthur proceſſ i eſecutio yr vn-rhyw, megis ag y gallant wneuthur am neb vn a enditier ger eu bron hwy am ſarhaed, neu yn gyfreith-lawn a gonfictiwyd o hynny.

Profidier yn waſtad, ac enacter gan yr awdurdod ddywededic, fod i bawb oll o'r Archeſcobion, ac Eſcobion, allu bob amſer ac amſerau wrth ei rydd-did a'i fodd, ymwaſcu ac ymgyſylltu, gan rym yr Act hon, a'r dywededic Iuſtiſiaid o Oyer a Determiner, neu a'r dywededic Iuſtiſiaid o Aſiſ, ym mhob vn o'r dywededic agored a chyffredin Seſiwnau a gynnalier mewn neb rhyw le o'i Eſobaeth, er mwyn ac i ymoſyn, gwrando, a therfynu y camweddau dywededic.

Profidier hefyd, ac Enactier trwy yr awdurdod ragddywededic, bod y llyfrau y ſy o'r dywededic waſanaeth, ar goſt a ſiars plwyfolion pob plwyf ac Eglwyſau Cadeiriol, wedi eu darparu a'i caffael cyn y ddywededic wyl Natalic Ioan Fedyddiwr neſaf yn canlyn, a bod i'r holl gyfryw blwyſeu ac Eglwyſi Cadeiriol neu leoedd eraill, lle y darparer, ac y caffer y dywededic lyfrau cyn gwyl Nadalic Sanct *Ioan* Fedyddiwr, o fewn tair wythnos wedi darpar a chaffael y dywededic lyfrau, ymarfer o'r dywededic waſanaeth, a'i fynychu yn ol yr Act hon.

Ac enactier ym-mhellach wrth yr awdurdod ddywededic, na byddo yn amſer rhag llaw, rhwyſtro neb-vn, neu neb rhai, nac ym modd arall ei ſaleſtu, neu am neb o'r camweddau a goſwyd vchod, a gommittier neu a wneler rhag llaw yngwrthwyneb i'r Act hon, oddieithr iddo ef, neu hwynt yn troſeddu felly, fod o hynny yn ddiitiedic yn y Seſſiwn gyffredin neſſaf, a gynnalier ger bron y cyfryw Iuſtuſiaid o Oyer a Determiner, neu Iuſtuſiaid o Aſſiſ, yn neſaf yn ol committio rhyw droſedd yngwrthwyneb i Deunr yr Act hon.

Profidier yn waſtad, ac ordeinier, ac enactier trwy yr awdurdod ragddywededic am gwbl oll o Arglwyddi y Parliament, am y drydedd droſedd a goſwyd vchod, bod eu treio hwy trwy eu gogyfurdd.

Profidier hefyd, ac ordeinier, ac enacter gan yr awdurdod ragddywededic, fod i Faior Llundain, ac i Faioriaid eraill, Bailiaid, a phenſwyddogion eraill, o bawb oll o'r dinaſoedd, Borouchen, a Threfi corphoredic o fewn y deyrnas hon, Cymru, a marſoedd yr vn-rhyw, i'r rhai nid yw Iuſtuſiaid o Aſſiſ yn cyrchu yn gyffredin, gaffael cwbl feddiant ac awdurdod trwy rym yr Act hon i ymoſyn, i wrando a therfynu y troſeddau a ddywedpwyd vchod, a phob vn o honynt bob blwyddyn o fewn pymtheng-nhiwrnod wedi Gwyl y Paſc, a Sanct *Michael* Archangel, yn y cyfryw fodd, a ffurf ag y mae yr Iuſtuſiaid o Aſſiſ, ac o Oyer a Determiner yn gallu gwneuthur.

Profidier yn waſtad, ac ordeinier, ac enactier trwy y ragddywededic awdurdod, fod i gwbl, ac i bob vn o'r Archeſcobion ac Eſcobion a phob vn o'i Canghellwyr, Commiſſariaid, Archdiaconiaid, ac eraill Ordinariaid, y rhai ſy iddynt ohanredawl ſwyddogaeth Eglwyſic, gael cwbl feddiant ac awdurdod trwy rym yr Act hon, yn gyſtal i ymoſyn yn eu Viſitation, Senedddau, neu mewn lle arall o fewn eu ſwyddogaeth, ac ryw amſer arall a lle, i gymmeryd cyhuddiadau ac informaſiwnau am oll, a chwbl a goſſawyd vchod, a wnaethpwyd, a gommittiwyd, neu a berpetrariwyd o fewn terfynau eu ſwyddogaethau a'u hawdurdod, ac i goſpi yr vn-rhyw trwy rybudd, eſcymmundod, ſecweſtraſion, neu ddepreifaſion, ac eraill Cenſurau a phroceſſau, yn y cyfryw fodd a ffurf ag y mae hyd hyn yn arferwyd yn y cyffelyb ddigwyddion gan Eglwyſic gyfreithiau y Frenhines.

Profidier hefyd yn waſtad ac enactier, bod i bwy bynnac a droſeddo yn y pethau a grybwyllwyd, ac yn gyntaf a dderbynio goſpedigaeth gan yr Ordinari, a theſtiolaeth ganddo o hynny tan ſel y dywededic Ordinari, Na byddo am yr vn droſedd ei ail conficto ger bron yr Iuſtuſiaid. A'r vn modd, ac efe wedi derbyn am y dywededic droſedd yn gyntaf goſp gan yr Iuſtuſiaid, ni bydd iddo am yr vn troſedd ail derbyn coſp gan yr Ordinari: er dim a gynhwyſir yn yr Act hon i'r gwrth-wyneb.

Profidier yn waſtad, a bid yn actiedic, bod cyfryw addurnau yr Eglwys a'i Gweinidogion, iw cynnal a'u cadw yn arfer, fel yr oedd yn yr Eglwys hon o Loegr drwy awdurdod Parliament yn yr ail flwyddyn o deyrnaſiad Brenin *Edward* y chweched, hyd oni gymmerer trefn arall yn hynny gan awdurdod Mawredd y Frenhines, ynghyd a chyngor ei Chomiſſionariaid, goſodedic ac awdurdodedic dan ſel fawr Loegr, am achoſion Eglwyſic, neu ſel Metropolitan y Deyrnas hon. A hefyd o ddamwain arferu rhyw ddirmyg neu ammarch yn Ceremoniau a chynneddfau yr Eglwys, gan gamarfer y trefnau a oſodwyd yn y llyfr hwn: bod i Oruchelddab y Frenhines allu trwy cyngor y dywededic Gommiſſionariaid, neu yr Metropolitan, ordeinio, a chyhoeddi y cyfryw anghwaneg Ceremoniau neu gynneddfau ac a fyddo fwyaf er derchafiad gogoniant Duw, adeilad ei Eglwys, a dyledus barch ar ſanctaidd ddirgeledigaethau Chriſt, a'i Sacramentau.

Ac ym-mhellach enacter gan yr awdurdod ragddywededic, fod holl gyfreithiau, Statutau, ac ordinhadau, yn y rhai, neu drwy y rhai y mae rhyw fath waſanaeth arall, miniſtriad y Sacramentau, neu Gyffredin weddi, wedi eu terfynu, eu cadarnhau; neu eu goſod allan iw harferu o fewn y Deyrnas hon, neu arall o arglwyddiaethau, neu wledydd y Frenhines, o hyn allan yn llwyr ofer, ac heb ddim grym.

Y RHAG-YMADRODD.

NI bu er ioed ddim wedi ei ddychymmygu mor ddiball, neu wedi ei gyſnerthu mor gadarn, drwy ſynhwyr dyn, yr hwn mewn yſpaid amſer nis llygrwyd: megis, ym-mhlith pethau eraill, y mae yn eglur ddigon wrth y gweddiau cyffredin yn yr Eglwys, y rhai a elwir yn ſathredic, Gwaſanaeth Duw. Bonedd a dechreuad cyntaf pa rai, pes chwilid am danynt ym-myſc gwaith yr hen dadau, fe geid gweled nad ordeiniwyd y gwaſanaeth hwnnw, onid er amcan daionus, ac er mawr dderchafiad duwioldeb. Canys hwynt hwy a dreſnaſant y matter felly, fel y darllennid yr holl Fibl troſto (neu y rhan fwyaf o hono) vn-waith yn y flwyddyn: gan amcanu wrth hynny, fod i'r Gwyr llen, ac yn enwedic i'r ſawl a fyddent weinidogion y Gynnulleidfa, allu (trwy fynych ddarllen a myfyrio gair Duw) fod wedi ymddarparu i dduwioldeb, a bod hefyd yn aplach i annog eraill trwy ddyſceidiaeth iachus, i'r vn peth, ac i allu gorthrechu dadl y rhai a wrthynebent y gwirionedd. Ac ym-mhellach, fel y gallei yr bobl (trwy glywed beunydd ddarllen yr Scrythur lan yn yr Eglwys) gynnyddu yn waſtad fwy-fwy mewn gwybodaeth am Dduw, a dyſod i garu yn gynheſach ei wir Grefydd ef, Ond er ys talm o flynyddoedd, y darfu newidio, torri, ac eſcaeluſo y dwywol a'r weddus dreſn yma o waith yr hen Dadau, trwy blannu i mewn yn eu lle Hiſtoriau amheus Legendau, Attebion, Gwerſi, Adwerſi gweigion, Caſſodwriaethau, a Seneddolion, megis yn gyffredinol pan ddechreuid vn llyfr o'r Bibl, cyn darfod darllein tair neu bedair pennod o honaw, y cwbl onid hynny a adewid heb ei ddarllein. Ac yn y wedd hon y dechreuid llyfr Eſai yn yr Adfent, a llyfr Geneſis yn Septuageſima: eithr eu dechreu a wneid vn vnic, heb orphen eu darllen byth. A'r vn ffunyd yr arferid am lyfrau eraill or Scrythur lan. A chyd a hynny lle mynnei S. Paul, fod dywedyd y cyfryw iaith wrth y bobl yn yr Eglwys ac a allent hwy ei deall, a chaffael lleſhad o'i chlywed; y gwaſanaeth yn yr Eglwys hon o Loegr (er ys llawer o flynyddoedd) a ddarllenwyd yn lladin i'r bobl yr hwn nid oeddynt hwy yn ei ddeall: ac felly yr oeddynt yn vnic yn clywed a'u cluſtiau, ond eu calonnau, a'u hyſpryd, a'u meddwl oedd yn ddiadeilad oddi wrtho. Ac heb law hynny, er darfod i'r hen Dadau barthu y Pſalmau yn ſaith ran, a phob vn o honynt a elwid Nocturn; yn awr er yn hwyr o amſer, y chydig o honynt a ddywedid beunydd, gan eu mynych ad-ddywedyd, a gadu y darn arall heibio, heb yngan vn gair. Gyd a hynny, niſeiri a chaledrwydd y Rheolau y rhai a elwyd y Pica, ac amraſael gyfnewidiau gwaſanaeth, oedd yr achos, fod mor galed ac mor rhwyſtrus droi at gyfnodau y llyfr yn vnic; megis yn fynych o amſer y byddei mwy o drallod yn chwilio am y peth a ddarllennid, nag yn ei ddarllein wedi ei gael. Felly wrth yſtyried yr anghymhesurwydd hynny, fe a oſodir yma y cyfryw dreſn, fel y diwygir yr vn-rhyw bethau. Ac er mwyn parodrwydd yn y matter yma, y tynnwyd Calender i'r vn-rhyw bwrpas, yr hwn ſydd eglur a hawdd ei ddeall, ym mha vn (hyd y gellid) y goſodwyd allan wedd i ddarllen yr Scrythur lan, fel y gwneler pob peth mewn treſn, heb wahanu vn darn o honi oddi-wrth ei gilydd. Ac oblegit hyn y torred ymmaith Anthemau, Reſpondau, Inſitatoriau, a chyfryw wag bethau amherthynaſol ac oedd yn torri cwrs cyfan ddarllenaid yr Scrythur. Etto gan nad oes fodd amgen, na byddo amgenrheidiol bod ymbell reol; am hynny y goſodwyd yma ryw reolau, y rhai megis nad ydynt onid ychydig o niſer, felly y maent yn rhwydd, ac yn hawdd eu deall. Wrth hynny y mae i chwi yma ffurf ar weddio (tuag at am ddarllen yr

Scrythur lan) yn gwbl gyſſon a meddwl ac amcan yr hen Dadau, ac o lawer yn fwy proffidiol, a chymmwys na'r vn yr oeddid yn ddiweddar yn ei arfer. Y mae yn fwy proffidiol, o achos bod yma yn gadu allan lawer o bethau, o ba ſawl y mae rhai heb fod yn wir, rhai yn ammheus, rhai yn wag ac o ofer goeli: ac nid ydys yn ordeinio darllen dim onid Pur-wir air Duw, yr Scrythur lan, neu yr cyfryw a ſeilir arni yn eglur, a hynny yn y cyfryw iaith a threſn ag y ſydd eſmwythaf a hawſaf eu deall gan y darllen-wyr, a'r gwrandaw-wyr.

Y mae hefyd yn fwy cymmwynaſol, yn gyſtal o herwydd ei fyrred, ac o herwydd eglured ei dreſn, ac o herwydd bod y rheolau yn ychydig o rifer ac yn hawdd. A chyd a hynny, wrth y dreſn hon, nid rhaid i'r Curadiaid vn llyfr arall i'w gwaſanaeth cyffredin, ond y llyfr hwn a'r Bibl. O herwydd pa ham nid rhaid i'r bobl fyned mewn cymmeint o draul am lyfrau ag y byddent amſer a fu.

A lle bu ym-mlaen llaw amrafael mawr wrth ddywedyd a chanu yn yr Eglwyſi o fewn y Deyrnas hon, Rhai yn canlyn arfer Salesburi, rhai arfer Henffordd, rhai arfer Bangor, rhai arfer York, a rhai eraill arfer Lincoln: yn-awr o hyn allan ni bydd i'r holl deyrnas ond vn arfer. Ac o barna neb fod y ffordd hon yn fwy poenus, o achos bod yn rhaid darllen pob peth ar y llyfr, lle o'r blaen o herwydd mynych ddywedyd, y gwyddent lawer peth ar dafod leferydd, eithr os y cyfryw rai a gyd-bwyſant eu llafur ynghyd a'r budd a'r gwybodaeth a gaffant beunydd wrth ddarllen ar y llyfr, ni wrthodant hwy y boen wrth weled meint y budd a dyf o hyn yma.

Ac yn gymmaint ag na ellir goſod dim gan-mwyaf mor eglur, ag na chyfotto petruſter wrth ymarfer o honaw: I oſtegu pob cyfryw amrafael (os cyfyd yr vn) ac am ddoſparth pob rhyw betruſter ynghylch y modd a'r wedd y mae deall a gwneuthur, a chwplau pob peth a gynnwyſir yn y llyfr hwn: y partiau a fyddont yn ammeu felly, neu a fyddont yn cymmeryd dim mewn amrafael foddion, a ant at Eſcob yr Eſcobaeth, yr hwn wrth ei ddoethineb a rydd dreſn er llonyddu, a heddychu y ddadl, trwy na byddo y dreſn honno yn wrthwyneb i ddim ar y ſydd yn y llyfr hwn. Ac o bydd Eſcob yr Eſcobaeth mewn dim petruſter, yna y gall efe anfon am hyſpyſrwydd at yr Archeſcob.

Er bod yn oſodedic yn y Rhagymadrodd a ſcrifennwyd o'r blaen, fod pob peth a'r a ddarllenir neu a genir yn yr Eglwys, yn yr iaith Gamberaec, er mwyn adeiladu y Gynnulleidfa: er hynny nid ydys yn meddwl, pan ddywedo neb Blygain a Goſper wrtho ei hun, na ddichon efe eu dywedyd ym-mha iaith bynnag a ddeallo.

A phob Offeiriad a Diacon ſydd rwymedic i ddywedyd beunydd y foreuol, a'r Prydnhawnol weddi, naill ai yn neillduol ai ar oſteg, oddieithr bod rhwyſtr arnynt gan bregethu, ſtudio diſiniti, ac o ryw achos arall rhy anghenrheidiol.

A'r Curad, ſef y periglor, a fo yn gwaſanaethu yn-mhob Eglwys blwyf neu Gapel, ac efe gartref, heb ludd rheſymol arno, a ddylei iddo ddywedyd y gwaſanaeth hwnnw, yn yr Eglwys blwyf neu y Cappel lle y bo efe yn gwaſanaethu, a bod canu cloch iddo ar amſer cymmheſur, cyn iddo ddechreu, modd y gallo y neb a ſyddo ganddo ddefoſiwn, ddyfod i wrando gair Duw, ac i weddio gyd ag ef.

¶ Tabl a Chalendar, yn hyſpyſu trefn y Pſalmau a'r llithiau a draethir ar Foreuol a Phrydnhawnol weddi trwy 'r flwyddyn, oddieithr ychydig wyliau priodol, fel y dengys y rheolau hyn yn helaethach.

¶ *Y drefn yr appwyntir darllain y Pſallwyr, neu Lyfr y Pſalmau.*

Y Pſallwyr a ddarllennir vnwaith bob mis. Eithr am fod rhai o'r miſoedd yn hwy na'r lleill, fe dybiwyd yn dda eu cymhwyſo hwy fel hyn.

I'r perwyl yma yr appwyntir i bob mis ddeg ar hugain o ddiwrnodiau.

Ac o herwydd bod Ionawr a Mawrth yn ddiwrnod hwy na xxx. ac nad oes i Chwefror ſy rhyngthynt ill dau, ond xxviij. Chwefror a fenthygia vn diwrnod gan bob vn o'r ddau fis Ionor a Mawrth: ac felly Pſalmau mis Chwefror ſy raid eu dechreu ar y dydd diwethaf o Ionor, a'i diweddu ar y dydd cyntaf o Fawrth.

A lle y mae i fis Mai, Gorphenhaf, Awst, Hydref, a Rhagfyr, xxxi o ddyddiau bob vn, fe a ordeiniwyd fod darllein y dydd diwethaf o'r miſoedd hynny, y Pſalmau a ddarllenawyd y dydd o'r blaen: fel y gallo y Pſalmau ddechreu drachefn ar y dydd cyntaf o'r mis a fyddo 'n canlyn.

Ac i gael gwybod pa pſalmau a ddarllennir edrych yn y Calender y rhifedi a appwyntiwyd i'r Pſalmau, ac yna cais yr vn rhifedi yn y Tabl ſydd yn canlyn, ac ar gyfer y rhifedi hwnnw y cai weled pa Pſalmau a ddarllennir ar Foreuol a Phrydnhawnol weddi.

A lle y cyfrennir y 119. Pſalm yn ddwy ran ar hugain, a'i bod yn rhyhir iw darllain ar vnwaith, fe a drefnwyd na bo darllain vwch law pedair neu bump o'r rhannau hynny ar yr vn amſer, fel y mae wedi ei yſpyſu yn y Tabl ſydd yn canlyn.

¶ Y Drefn pa wedd heb law 'r Pſalmau y dyſpwyntiwyd bod darllain y rhann arall o'r Scrythur lân.

YR hen Deſtament a oſodwyd yn llithoedd cyntaf ar foreu, a phrydnhawn weddi, ac a ddarllennir trwyddo bob blwyddyn vnwaith, oddieithr rhyw lyfrau a phennodau, y rhai ſy leiaf yn adeilad, ac a ellid yn oreu eu hepcor, ac am hynny a adowir heb ddarllein.

Y Teſtament newydd a oſodwyd yn ail llithoedd ar foreu a phrydnhawn weddi, ac a ddarllennir droſto mewn trefn bob blwyddyn deirgwaith, heb law 'r Epiſtolau a'r Efengylau: oddieithr Datguddiad Ioan, o'r hwn y goſodwyd bod rhyw Lithoedd ar amrafael wyliau priodol.

Ac i wybod pa lithoedd a ddarllennir bob dydd, myn gael y dydd o'r mis yn y Calendar ſydd yn canlyn, ac yno y cei ddeall y llyfrau a'r pennodau a ddarllennir yn llithoedd ar foreu a phrydnhawn weddi.

A rhaid yw nodi hyn yma, yn hwn lle bynnac y byddo Pſalmau priod, neu Lithoedd, wedi eu goſod i'r Suliau, neu i ryw wyl ſymmudol neu anſymmudol, yna y Pſalmau a'r Llithoedd goſodedig yn y Calendar a adewir yr amſer hynny.

Rhaid yw ei nodi hefyd, fod y Colect, yr Epiſtol, a'r Efengyl, a oſodir ar y Sul, yn gwaſanaethu tros yr holl wythnos rhag llaw, oddieithr digwyddo rhyw wyl y bo iddo ei phriod.

Pan ddel pa rhai blynyddoedd yr Arglwydd yn bedair rhan gyfniſer, yr hyn ſydd bob pedair blynedd, yna y neidia llythyr y Sul, a'r flwyddyn honno, y Pſalmau a'r llithoedd, y rhai a waſanaethant i'r 23. o Chwefror, a ddarllennir y dydd neſaf, oddieithr ei fod yn ddydd Sul, yr hwn ſydd iddo Lithoedd priod o'r hen Deſtament goſodedic yn y Tabl ſy yn gwaſanaethu i'r defnydd hynny.

Hefyd, ple bynnac ni bo dechreu y Llith, Epiſtol neu Efengyl wedi ei yſpyſu: yna y bydd rhaid dechreu yn nechreuad y bennod.

A pha le bynnac nid yſpyſer pa gyhyd y darllennir, yna y darllennir hyd ddiwedd y bennod.

Hefyd, cyn fynyched ac y darllennir y bennod gyntaf o S. Matthew yn llith neu yn Efengyl, dechreuer ar y 18. wers, *A genedigaeth Ieſu Griſt oedd fel hyn, &c.* A'r drydedd bennod o Efengyl S. Luc a ddarllennir hyd y 23. wers, *Mab (fel y tybid) i Ioſeph, &c.*

¶ Pennodau neilltuol, neu briod, iw darllen yn llithieu cyntaf ar Forcuol a Prydnhawnol weddi, ar y Sulieu trwy 'r holl Flwyddyn, a rhai o'r ail Llithiau.

Sulieu yr Adfent.	¶ *Plygain.*	¶ *Gosper.*
Y cyntaf.	Esai i.	Esai ii.
ii.	v.	xxiiii.
iii.	xxv.	xxvi.
iiii.	xxx.	xxxii.
Sulieu gwedi Natalic Christ.		
Y cyntaf.	Esai xxxvii.	Esai xxxviii.
ii.	xli.	xliii.
Sulieu gwedi 'r Ystwyll.		
Y cyntaf.	Esai xliiii.	Esai xlvi.
ii.	li.	liii.
iii.	lv.	lvi.
iiii.	lvii.	lviii.
v.	lix.	lxiiii.
¶ *Septuagesima.*	Genesis i.	Genesis ii.
¶ *Sexagesima.*	Genesis iii.	vi.
¶ *Quinquagesi.*	Genesis ix.	xii.
¶ *Grawys.*		
Sul cyntaf.	Genesis xix.	Genesis xxii.
ii.	xxvii.	xxxiiii.
iii.	xxxix.	xlii.
iiii.	Genesis xliii.	Genesis xlv.
v.	Exod. iii.	Exod. v.
vi.	ix.	x.
¶ *Dydd Pasc.*		
i. Llith.	Exod. xii.	Exod. xiiii.
ii. Llith.	Rhuf. vi.	Actes ii.

¶ Suliau gwedi 'r Pasc.

	¶ *Plygain.*	¶ *Gosper.*
Y Cyntaf.	Num. xvi.	Num. xxii.
ii.	xxiii.	xxv.
iii.	Deut. iiii.	Deut. v.
iiii.	vi.	vii.
v.	viii.	ix.
¶ *Sul gwedi yr Derchafael.*	Deut. xii.	Deut. xiii.
¶ *Sulgwyn.*		
i. Llith.	Deut. xvi.	Doeth. i.
ii. Llith.	Act. 10. 34. Yna yr agorodd Petr ei enau.	Act. 19. Hyd wers 21. Gwedi cyflawni hyn.
Sul y Drindod.		
i. Llith.	Genesis xviii.	Iosua. i.
ii. Llith.	Math. iii.	

¶ Suliau gwedi 'r Drindod.

	¶ *Plygain.*	¶ *Gosper.*
Y Cyntaf.	Iosua x.	Iosua xxiii.
ii.	Barn. iiii.	Barn. v.
iii.	i. Sam. ii.	i. Sam. iii.
iiii.	i. Sam. xii.	i. Sam. xiii.
v.	xv.	xvi.
vi.	ii. Sam. xii.	ii. Sam. xxi.
vii	xxii.	xxiii.
viii.	i. Bren. xiii.	i. Bren. xvii.
ix.	xviii.	xix.
x.	xxi.	xxii.
xi.	ii. Bren. v.	ii. Bren. ix.
xii.	x.	xviii.
xiii.	xix.	xxiii.
xiiii.	Ierem. v.	Ierem. xxii.
xv.	xxxv.	xxxvi.
xvi.	Ezec. ii.	Ezec. xiii.
xvii.	xvi.	xviii.
xviii.	xx.	xxiiii.
xix.	Dan. iii.	Daniel vi.
xx.	Ioel ii.	Mic. vi.
xxi.	Abac. ii.	Dihareb. i.
xxii.	Dihareb. ii.	iii.
xxiii.	xi.	xii.
xxiiii.	xiii.	xiiii.
xxv.	xv.	xvi.
xxvi.	xvii.	xix.

¶ Llithiau priod, neu neilltuol, i bob dydd gwyl.

	¶ *Plygain.*	¶ *Gosper.*
S. *Andreas.*	Dihareb. xx.	Dihar. xxi.
¶ *S. Tho. Apost.*	xxiii.	xxiiii.
Natalic Christ.		
i. Llith.	Esai ix.	Esa. 7. 10. Ac yr Arglwydd a chwanegodd.
ii. Llith.	Luc. ii. Hyd, Ac i ddynion ewyllys da. gwers. 14.	Tit. 3. 4. wedi i ddaioni Duw.
¶ *S. Stephan.*		
i. Llith.	Dihar. xxviii.	Pregeth. iiii.
ij. Llith.	Act. 6. 8. Stephan yn llawn ffydd a nerth. Hyd 7. 30. Ac wedi cyflawni deugain, &c.	Act. 7. 30. Ac wedi cyflawni deugain mlynedd. Hyd ac efe yn gyflawn o'r Yspryd glân gwers. 55.
¶ *S. Ioan.*		
i. Llith.	Eccle. v.	Eccle. vi.
ii. Llith.	Datc. i.	Dat. xxii.

	Plygain.	Goſper.
Gwirioniaid	Ier. xxxi. Hyd. clywaw Spbr. gw. 18.	Doeth. i.
Dydd yr Enwaediad.		
i. Llith.	Geneſ. xvii.	Deu. x. Hyd wer. 12. Ac yr awrhon Iſrael.
ii. Llith.	Rhuſ. ii.	Coloſſ. ii.
Ystwyll		
i. Llith.	Eſai lx.	Eſai. xlix.
ii. Lith.	Luc. iii. Hyd. Mab (fel y tybid) i Ioſeph. gwer. 23	Ioan. ii. Hyd Gwedi hynny efe a aeth i wared. gwerſ. 12.
Troad S. Paul.		
i. Llith.	Doeth. v.	Doeth. vi.
ii. Llith.	Actau. xxii. Hyd, A hwy a'i, &c. gw. 22.	Actau. xxvi.
¶ Puredigaeth Mair forw.	Doeth. ix.	Doeth. xii.
¶ S. Matthias.	Doeth. xix.	Eccle. i.
¶ Cennadwri Mair forwyn.	Eccleſ. ii.	Eccle. iii.
¶ Dydd Merchur cyn y Paſc.	Oſee xiii.	Oſee xiiii.
¶ Dydd Iau cyn y Paſc.	Daniel ix.	Ierem. xxxi.
¶ Gwener y croglith.	Gene. xxii.	Eſai. liii.
¶ Nos Paſc.	Zach. ix.	Exodus xiii.
¶ Dydd Llun Paſc.		
i. Llith.	Exodus xvi.	Exodus xvii.
ii. Llith.	Math. xxviii.	Actau iii.
¶ Dydd Mawrth. Paſc.		
i. Llith.	Exodus xx.	Exod. xxxii.
ii. Llith.	Luc. xxiiii. Hyd werſ. 12. Ac wele ddau o honynt	i. Cor. xv.
¶ S. Marc.	Eccle. iiii.	Eccle. v.
¶ Phil. ac Iac.	Eccle. vii.	Eccle. ix.

	Plygain.	Goſper.
¶ Dydd y Dyrchafael.	Deut. xii.	ii Bren. ii.
¶ Dydd Llun y Sul-gwyn.		
i. Llith.	Gene. xi. Hyd Dymma genedlaethau Sem. gwerſ. 10.	Num. xi. 16. Yna y dywedodd yr Arglwydd. Hyd werſ. 30. A Moſes a aeth i'r gwerſyll.
ii. Llith.	i. Cor. xii.	
¶ Dydd Mawrth y Sul-gwyn.	i. Sam. xix. Felly Dafydd a ffoodd, &c. gwer. 18.	Deut. xxx.
¶ S. Barnabe.		
i. Llith.	Eccle. x.	Eccle. xii.
ii. Llith.	Actau xiiii.	Act. xv. Hyd. Gwedi nifer o ddyddiau. gwer. 36.
¶ S. Ioan fedyddiwr.		
i. Llith.	Mala. iii.	Mala. iiii.
ii. Llith.	Math. xiii.	Mat. xiiii. Hyd A phan glybu yr Ieſu. gwerſ. 13.
¶ S. Petr.		
i. Llith.	Ecclu. xv.	Ecclu. xix.
ii. Llith.	Actau iii.	Act. iiii.
¶ S. Iaco.	Ecclu. xxi.	Ecclu. xxiii.
¶ S. Bartholom.	xxv.	xxix.
¶ S. Matthew.	xxxv.	xxxviii.
¶ S. Mihang.	xxxix.	xliiii.
¶ S. Luc.	li.	Iob. i.
¶ Simon a Iud.	Iob xxiiii. xxv.	Iob xlii.
¶ Holl Saint.		
i. Llith.	Doeth. iii. Hyd. Canys dedwydd yw'r amlhantadwy. werſ. 13.	Doeth. v. Hyd. Efe a gymmer ei eiddigedd. gwerſ. 18.
ii. Lith.	Heb. xi. 33. Saint trwy, &c. Hyd pen. 12. 7. Os goddefwch.	Dat. xix. Hyd Ac mi a welais Angel yn ſefyll. gwerſ. 17.

¶ Pſalmau priod ar ryw ddyddiau.

	¶ Plygain.	Goſper.		Plygain.	Goſper.
Dies Natalis.	Pſal. xix. xlv. lxxxv.	Pſal. lxxxix. cx. cxxxii.	Dydd y Dyrchafael.	Pſalm. viii. xv. xxi.	Pſalm. xxiiii. lxviii. cviii.
Dydd Paſc.	ii. lvii. cxi.	cxiii. cxiiii. cxviii.	Sul-gwyn.	xlv. xlvii.	ciiii. cxlv.

¶ Y TABL I DDANGOS pa drefn y darllenir y Pſalmau ar Forenol a Phrydnhawnol weddi.

	Boreol weddi.	*Prydnhawnol weddi.*
1	1.2.3.4.5.	6.7.8.
2	9.10.11.	12.13.14.
3	15.16.17.	18.
4	19.20.21.	22.23.
5	24.25.26.	27.28.29.
6	30.31.	32.33.34.
7	35.36.	37.
8	38.39.40.	41.42.43.
9	44.45.46.	47.48.49.
10	50.51.52.	53.54.55.
11	56.57.58.	59.60.61.
12	62.63.64.	65.66.67.
13	68.	69.70.
14	71.72.	73.74.
15	75.76.77.	78.
16	79.80.81.	82.83.84.85.
17	86.87.88.	89.
18	90.91.92.	93.94.
19	95.96.97.	98.99.100.101.
20	102.103.	104.
21	105.	106.
22	107.	108.109.
23	110.111.112.113.	114.115.
24	116.117.118.	119. Inde 4.
25	Inde 5.	Inde 4.
26	Inde 5. (124.125.	Inde 4. (130.131.
27	120.121.122.123.	126.127.128.129.
28	132.133.134.135.	136.137.138.
29	139.140.141.	142.143.
30	144.145.146.	147.148.149.150.

¶ Y rhai hyn a gedwir yn ddyddiau Gwyliau, ac nid yr un arall.

SEf yw hynny, Yr holl Suliau yn y flwyddyn. Gwyliau, Enwaediad ein Harglwydd Ieſu Griſt. Yr Ystwyll. Puredigaeth y wynfydedig Fair forwyn. S. Matthias Apoſtol. Cyfarchiad y wynfydedig forwyn. S. Marc yr Efangylwr. S. Philip ac Iaco yr Apoſtolion. Dyrchafael ein Harglwydd Ieſu Griſt. Genedigaeth S. Ioan Fedyddiwr. S. Petr yr Apoſtol. S. Iaco yr Apoſtol. S. Bartholomeus Apoſtol. Matthew Apoſtol. S. Michael Archangel. S. Luc Efangylwr. S. Simon a Iud yr Apoſtolion. Gwyl yr holl Saincts. S. Andreas Apoſtol. S. Thomas Apoſtol. Natalic ein Harglwydd Ieſu Griſt. S. Stephan Ferthyr. S. Ioan Efengylwr. Gwyl y Gwirioniaid. Dydd Llun a Dydd Mawrth Paſc, Dydd Llun a Dydd Mawrth Sul-gwyn.

¶ I gael y Paſc dros byth.

Prif	A	B	C	D	E	F	G
i	Ebr. 9.	10	11	12	6	7	8
ii	Maw. 26	27	28	29	30	31	Eb. 1
iii	Ebr. 16	17	18	19	20	14	15
iiii	Ebr. 9.	3	4	5	6	7	8
v	Maw. 26	27	28	29	23	24	25
vi	Ebr. 16	17	11	12	13	14	15
vii	Ebr. 2.	2	4	5	6	Ma. 31	Eb. 1
viii	Ebr. 23	24	25	19	20	21	22
ix	Ebr. 9.	10	11	12	13	14	8
x	Ebr. 2.	3	Ma. 28	29	30	31	Eb. 1
xi	Ebr. 16	17	18	19	20	21	22
xii	Ebr. 9.	10	11	5	6	7	8
xiii	Maw. 26	27	28	29	30	31	25
xiiii	Ebr. 16	17	18	19	13	14	15
xv	Ebr. 2.	3	4	5	6	7	8
xvi	Maw. 26	27	28	22	23	24	25
xvii	Ebr. 16	10	11	12	13	14	15
xviii	Ebr. 2.	3	4	5	Ma. 30	31	Eb. 1
xix	Ebr. 23	24	18	19	20	21	22

¶ pan gaffoch lythyren y ſul yn y llin uchaf, edrychwch yn iniawn i lawr oddiwrth lythyren y ſul hyd oni ddeloch gyferbyn a'r prif ac yna y dangoſir i chwi y mis, a'r dydd o'r mis, ar yr hwn y mae y Paſc yn ſyrthio yn y flwyddyn honno.

Septuageſima. *Sexageſima.* *Quinquageſima.* *Quadrageſima.*	o flaen y Paſc.	9. wythnos. 8. wythnos. 7. wythnos. 6. wythnos.
Wythnos y gweddiau. Y Sul-gwyn. Sul y Drindod.	ar ôl y Paſc.	5. wythnos. 7. wythnos. 8. wythnos.

¶ Hyſpyſrwydd i wybod pa bryd y *dechreu ac y terfyna pob Term.*

TErm y Paſc ſy bob amſer yn dechreu xviij. diwrnod gwedi 'r Paſc, gan gyfrif Dydd Paſc yn un, ac yn terfynu ar ddydd Llun neſaf gwedi 'r Dyrchafael.

TErm y Drindod ſy yn dechreu xij. diwrnod gwedi y Sul-gwyn, ac yn parhau xix. diwrnod.

TErm Mihangel ſy yn dechreu y ix. neu y x. dydd o Hydref, ac yn diweddu yr xxviij. neu 'r xxix. o Dachwedd.

TErm Hilar ſy yn dechreu y xxiij. neu 'r xxiiij. o Ionawr, ac yn terfynu y xij. neu y trydydd ar ddeg o Chwefror.

¶ Almanac

¶ Almanac tros xl. flynyddoedd.

Oedran yr Arglwydd.	Y Prif.	Llythyren y Sul.	Y dydd cyntaf o'r Garawys.	Y Pasc.	Wythnos y gweddiau.	Dydd y Dyrchafel.	Sul yr Advent.
1627	13	G	4.Chw.	25.Maw.	29.Ebrill	13.Mai.	2.Rhag.
1628	14	F E	24	13.Ebrill	18.Mai.	1.Mehe.	30.Tac.
1629	15	D	15	5	10	24.Mai.	29
1630	16	C	7	28.Maw.	2	16	28
1631	17	B	20	10.Ebrill	15	29	27
1632	18	A G	12	1	6	20	2.Rhag.
1633	19	F	3.Maw	21	26	9.Mehe.	1
1634	1	E	16.Ch.	6	11	25.Mai.	30.Tac.
1635	2	D	8	29. Maw	3	17	29
1636	3	C B	28	17.Ebrill	22	5.Mehe.	27
1637	4	A	19	9	14	28.Mai.	3.Rhag.
1638	5	G	4	25.Maw.	29.Ebrill	13	2
1639	6	F	24	14.Ebrill	19.Mai.	2.Mehe.	1
1640	7	E D	16	5	10	24.Mehe	29.Tac.
1641	8	C	7.Maw	25	30	13.Mehe.	28
1642	9	B	20.Ch.	10	15	29.Mai.	27
1643	10	A	12	2	7	21	3.Rhag.
1644	11	G F	3.Maw	21	26	9.Mehe.	1
1645	12	E	16.Ch.	6	11	25.Mai.	30.Tac.
1646	13	D	8	29.Maw	3	17	29
1647	14	C	28	18.Ebrill	23	6.Mahe.	28
1648	15	B A	13	2	7	21.Mai.	3,Rhag.
1649	16	G	4	25.Maw	29.Ebrill	13	2
1650	17	F	24	14.Ebrill	19.Mai.	2.Mehe.	1
1651	18	E	9	30. Maw	4	18.Mai.	30.Tac.
1652	19	D C	28	18.Ebrill	23	6.Mehe.	28
1653	1	B	20	10	15	29.Mai.	27
1654	2	A	5	26. Maw	30.Ebrill	14	3 Rhag.
1655	3	G	25	15.Ebrill	20.Mai.	3.Mehe.	2
1656	4	F E	17	6	11	25.Mai.	30.Tac.
1657	5	D	8	29. Maw	3	17	29
1658	6	C	21	11.Ebrill	16	30	28
1659	7	B	13	3	8	22	27
1660	8	A G	4.Maw	22	27	10.Meh.	2,Rhag.
1661	9	F	24.Ch.	14	19	2	1
1662	10	E	9	30. Maw	4	18.Mai.	30.Tac.
1663	11	D	1.Maw	19.Ebrill	24	7.Mehe.	29
1664	12	C B	21.Ch.	10	15	29.Mai.	27
1665	13	A	5	26. Maw	30.Ebrill	14	3.Rhag.
1666	14	G	25	5.Ebrill.	20.Mai.	3. Mehe.	2

¶ Nota, fod y Prif a llythyren y Sul yn newidio bob blwyddyn ar y dydd cyntaf o Ionawr.

¶ Nota, mai y Sul cyntaf o'r Advent fydd y Sul ar ol Gwyl Lini, yr hwn sydd y 26 o Dachwedd. Noda hefyd, fod cyfrif blwyddyn oedran yr Arglwydd, yn Eglwys Loegr, yn dechreu y 25. o fis Mawrth, yr hwn a dybir ei fod y dydd cyntaf y crewyd y byd arno, a'r dydd yr ymddygwyd Chriſt ym-mru Mair forwyn.

¶ Ionawr y ſydd iddo 31. o ddyddiau.

			Boreuol weddi.		Prydn. weddi.	
			1. Llith.	2. Llith.	1. Llith.	2. Llith.
1	A	Enwaed- diad.	Gen.17.	Rhuf.2.	Deut.10	Col. 2.
2	b		Gen.1.	Matth.1.	Gene. 2	Rhuf.1.
3	c		3	2	4	2
4	d		5	3	6	3
5	e		7	4	8	4
6	f	*Ystwyll.*	Esa. 60.	Luc 3.	Esa.49.	Ioh. 2.
7	g		Gen.9.	Matth.5.	Gen. 12.	Rhuf.5.
8	A	Lucian.	13	6	14	6
9	b		15	7	16	7
10	c		17	8	18	8
11	d		19	9	20	9
12	e	*Sol in Aq.*	21	10	22	10
13	f	Hillarie.	23	11	24	11
14	g		25	12	26	12
15	A		27	13	28	13
16	b		29	14	30	14
17	c		31	15	32	15
18	d	Priſca.	33	16	34	16
19	e		35	17	37	1.Cor.1
20	f	Fabian.	38	18	39	2
21	g	Agnes.	40	19	41	3
22	A	Vincent.	42	20	43	4
23	b		44	21	45	5
24	c		46	22	47	6
25	d	Conu. ol Paul.	Doeth.5.	Acts.22.	Doet.6.	Acts.26
26	e		Gen.48.	Matt.23.	Gen 49.	1.Co. 9
27	f		50	24	Exod.1.	8
28	g		Exod.2.	25	3	9
29	A		4	26	5	10
30	b		7	27	8	11
31	c		9	28	10	12

¶ Chwefror y ſydd idde 28. ddyddiau.

			Boreuol weddi		Prydn weddi	
			1. Llith.	2. Llith.	1. Llith.	2. Llith.
1	d	Ympryd.	Exo.11	Mar.1.	Exo.12.	1.Co.13
2	e	*Pur. Mair.*	Doet.9.	2	Doet.12	14
3	f	Blaſii.	Exo.13.	3	Exo.14	15
4	g		15	4	16	16
5	A	Agatha.	17	5	18	2.Cor.1
6	b		19	6	20	2
7	c		21	7	22	3
8	d		23	8	24	4
9	e		32	9	33	5
10	f		34	10	Leui.18	6
11	g	*Sol in Piſc.*	Leuit.19	11	20.	7
12	A		26	12	Num.11	8
13	b		Num.12	13	13	9
14	c	Valentine.	14	14	16	10
15	d		17	15	10	11
16	e		21	16	22	12
17	f		23	Lu.di.1.	24	13
18	g		25	di.2.	27	Gal.1.
19	A		30	2	31	2
20	b		32	3	35	3
21	c		36	4	Deut.1.	4
22	d		Deut.2.	5	3	5
23	e	Ympryd.	4	6	5	6
24	f	*S. Mat-* *thias.*	Doet.19	7	Eccle 1	Eph.1.
25	g		Deut.8.	8	Deut.7	2
26	A		8	9	9	3
27	b		10	10	11	4
28	c		12	11	13	5

¶ Mawrth ſy iddo 31. o ddyddiau.

			Boreuol weddi.		Prydn weddi.	
			1. Llith.	2. Llith.	1. Llith.	2. Llith.
1	d	Dewi.	Deu.26.	Luc. 12	Deut.27	Ephe.6
2	e	Ced.	18	13	19	Phil.1.
3	f		20	14	21	2
4	g		22	15	24	3
5	A		25	16	26	4
6	b		27	17	28	Col.1.
7	c	Perpetue	29	18	30	2
8	d		31	19	32	3
9	e		33	20	34	4
10			Ioſue 1.	21	Ioſue 2.	1.Theſ.1
11	g	*Sol in Ar.*	3	22	4	2
12	A	Gregor.	5	23	6	3
13	b		7	24	8	4
14	c		9	Ioan 1.	10	5
15	d		23	2	24	2.Th.1
16	e		Barn.1.	3	Barn. 2.	2
17	f		3	4	4	3
18	g	Edward.	5	5	6	1.Tim.1
19	A		7	6	8	2.3
20	b		9	7	10	4
21	c	Benedict.	11	8	12	5
22	d		13	9	14	6
23	e		15	10	16	2.Tim.1
24	f		17	11	18	2
25	g	Ympryd.	Eccle.2.	12	Eccle.3.	3
26	A	*Cenn. Mair*	Barn.15	13	Barn.16	4
27	b	*Iui. R. Car.*	21	14	Ruth 1.	Titus 1
28	c		Ruth 2.	15	3	2.3
29	d		4	16	1.Sam.1	Phile.
30	e		1.Sam.2	17	3	Heb.1.
31	f		4	18	5	2

¶ Ebrill ſy iddo 30 o ddyddiau.

			Boreuol weddi		Prydn weddi.	
			1. Llith.	2. Llith.	1. Llith.	2. Llith.
1	g		1.Sam.6	Ioh.19.	1.Sam.7	Heb.3
2	A		8	20	9	4
3	b	Richard.	10	21	11	5
4	c	Ambroſ.	12	Acts.1.	13	6
5	d		14	2	15	7
6	e		16	3	17	8
7	f		18	4	19	9
8	g		20	5	21	10
9	A		22	6	23	11
10	b		24	7	25	12
11	c	*Sol in Tau-*	26	8	27	13
12	d	*ro.*	28	9	29	Iames.1
13	e		30	10	31	2
14	f		2.Sam.1	11	2.Sam.2	3
15	g		3	12	4	4
16	A		5	13	6	5
17	b		7	14	8	1.Pet.1
18	c		9	15	10	2
19	d	Alpheg.	11	16	12	3
20	e		13	17	14	4
21	f		15	18	16	5
22	g		17	19	18	2.Pet.1
23	A	S.Georg.	19	20	20	2
24	b		21	21	22	3
25	c	*Marc*	Eccle.4.	22	Eccle.5	[illegible]
26	d	*Efan.*	2.Sam.23	23	[illegible]	2
27	e		1.Bren.1	24	[illegible]	3
28	f		3	25	[illegible]	[illegible]
29	g		5	26	6	[illegible]
30	A		7	27	[illegible]	[illegible]

UMI

Mai ſydd iddo 31. o ddyddiau.

			Boreuol weddi.		*Prydn.weddi*	
			1.Lith.	*2.Lith.*	*1.Lith.*	*2.Lith.*
1	b	*Philip ac*	Eccles.7.	Act. 8.	Eccl.9.	Iude.
2	c	*Iacob.*	1.Bren.9.	28	1.br.10	Rhuf.1.
3	d	Caſſael y	11	Mat.1.	12	2
4	e	Grees.	13	2	14	3
5	f		15	3	16	4
6	g	IoāPort.	17	4	18	5
7	A		19	5	20	6
8	b		21	6	22	7
9	c		2.Bren.1.	7	2.bre.2	8
10	d		3	8	4	9
11	e		5	9	6	10
12	f	*Sol in Ge.*	7	10	8	11
13	g		9	11	10	12
14	A		11	12	12	13
15	b		13	13	14	14
16	c		15	14	16	15
17	d		17	15	18	16
18	e		19	16	20	1.Cor.1
19	f	Dunſtan.	21	17	22	2
20	g		23	18	24	3
21	A		25	19	Ezr.1.	4
22	b		Eſra.3.	20	4	5
23	c		5	21	6	6
24	d		7	22	9	7
25	e		Nehe.1.	23	Neh.2	8
26	f	Auguſtin.	4	24	5	9
27	g		6	25	8	10
28	A		9	26	10	11
29	b		13	27	Heſt.1	12
30	c		Heſt.2.	28	3	13
31	d		4	Mar.1.	5	14

¶ Meheſin ſy iddo 30. o ddyddiau.

			Boreuol weddi.		*Prydnh. weddi.*	
			1.Lith.	*2.Lith.*	*1.Lith.*	*2.Lith.*
1	e		Heſt.6.	Mar.2.	Heſt.7	1.Cor.15
2	f		8	3	9	16
3	g	Nichom.	Iob.1.	4	Iob.2.	2.Cor.1
4	A		3	5	4	2
5	b	Boniffas	5	6	6	3
6	c		7	7	8	4
7	d		9	8	10	5
8	e		11	9	12	6
9	f		13	10	14	7
10	g		15	11	16	8
11	A	Bar.Apo	Eccl.10.	Act.14	Eccl.12	Act.15.
12	b	*Sol in Cã.*	Iob.27.28	Mar.12	Iob.29	2.Cor.9
13	c	Solſ.eſti.	20	13	21	10
14	d		22	14	24	11
15	e		24.25.	15	26.27.	12
16	f		28	16	29	13
17	g		30	Luc.1.	31	Galat.1.
18	A		32	2	33	2
19	b		34	3	35	3
20	c	Edward.	36	4	37	4
21	d		38	5	39	5
22	e		40	6	41	6
23	f	Ympryd	42	7	Diha.1.	Ephe.1.
24	g	*Ioan*	Mala.3.	Mat.3.	Mal.4.	Matt.14.
25	A	*fedydd.*	Diha.2.	Luc.8.	Dih.3.	Ephe.2.
26	b		4	9	5	3
27	c		6	10	7	4
28	d	Ympryd	8	11	9	5
29	e	*S.Pedr Apo*	Eccl. 15.	Act. 3.	Ecc.19	Act.4.
30	f		Diha.20.	Luc.12	Dih.21	Ephe.6.

¶ Gorphenhaf ſy iddo 31.o ddyddiau.

			Boreuol weddi.		*Prydnha.weddi.*	
			1.Lith.	*2.Lith.*	*1.Lith.*	*2.Lith.*
1	g	Goſwy	Diha.12	Luc.13	Diha.13	Phil.1.
2	A	Mair.	14	14	15	2
3	b	Martin.	16	15	17	3
4	c		18	16	19	4
5	d		20	17	21	Coloſſ.1.
6	e	Dechreu	22	18	23	2
7	f	dyddiau	24	19	25	3
8	g	'r ci.	26	20	27	4
9	A		28	21	29	1.Theſ.1.
10	b		31	22	Eccle.1	2
11	c		Eccle.2.	23	3	3
12	d	*Sol in Leo*	4	24	5	4
13	e		6	Ioa.1.	7	5
14	f		8	2	9	2.Theſ.1.
15	g	Swithun.	10	3	11	2
16	A		12	4	Iere.1.	3
17	b		Iere.2.	5	3	1.Tim.1.
18	c		4	6	5	2.3.
19	d		6	7	7	4
20	e	Margaret	8	8	9	5
21	f		10	9	11	6
22	g	Magdal.	12	10	13	2.Tim.1.
23	A		14	11	15	2
24	b	Ympryd	16	12	17	3
25	c	*Iaco.Ap.*	Eccl.21	13	Eccl.23	4
26	d	Anne.	Iere. 18.	14	Iere.19	Titus 1.
27	e		20	15	21	2.3.
28	f		22	16	23	Phile.
29	g		24	17	25	Heb.1.
30	A		26	18	27	2
31	b	Garmon.	28	19	29	3

Awſt ſy iddo 31.o ddyddiau.

			Boreuol weddi.		*Prydnhaw. weddi.*	
			1.Lith.	*2.Lith.*	*1.Lith.*	*2.Lith.*
1	c		Iere.30.	Ioh.20	Iere.31	Heb.4.
2	d		32	21	33	5
3	e		34	Act. 1.	35	6
4	f		36	2	37	7
5	g		38	3	39	8
6	A	Ymrithiad.Ein	40	4	41	9
7	b		42	5	43	10
8	c	Ieſu.	44	6	45.46	11
9	d		47	7	48	12
10	e	Laurens.	49	8	50	13
11	f		51	9	52	Iaco.1.
12	g	*Sol in Vi.*	Galar.1.	10	Galar.2.	2
13	A		3	11	4	3
14	b		5	12	Eze.2.	4
15	c		Ezec.3.	13	6	5
16	d		7	14	13	1.Pet.1.
17	e		14	15	18	2
18	f		33	16	34	3
19	g		Dan.1.	17	Dan.2.	4
20	A		3	18	4	5
21	b		5	19	6	2.Pet.1.
22	c		7	20	8	2
23	d	Ympryd	9	21	10	3
24	e	*Bart. A.*	Eccl.25.	22	Ec.29.	1.Ioa.1.
25	f		Dan.11.	23	Dan.12	2
26	g		(⁂)13	24	14	3
27	A		Oſe.1.	25	Oſ.2.3.	4
28	b	Auguſtin	4	26	5.6.	5
29	c	Lladdpen	7	27	8	2.3. Ioa.
30	d	Ioan	9	28	10	Iude.
31	e	fedydd.	11	Mat.1.	12	Rhuf.1.

(⁂) Y 13. o Daniel yw Hiſtori Suſanna: 14 yw Hiſtori Bel a'r Ddraig.

¶ Medi ſy iddo 30 o ddyddiau.

			Boreuol weddi.		*Prydn. weddi.*	
			1. Llith.	*2. Llith.*	*1. Llith.*	*2. Llith.*
1	f	Gilis.	Oſee.13.	Mat.2.	Oſee.14	Rhuf.2
2	g		Ioel.1.	3	Ioel.2.	3
3	A		3	4	Amos.1	4
4	b		Amos.2.	5	3	5
5	c	diwedd dy-	4	6	5	6
6	d	ddiau 'r ci.	6	7	7	7
7	e	Geni Eliz.	7	8	9	8
8	f	Geni Mair	Abdi.1.	9	Iona.1	9
9	g		Iona.2.3.	10	4	10
10	A		Mich.1.	11	Mich.2.	11
11	b		3	12	4	12
12	c	*Sol in Lib.*	5	13	6	13
13	d		7	14	Nah.1.	14
14	e	Derc.ygro	Nahu.2.	15	3	15
15	f	*Aequinoc.*	Abac.1.	16	Abac.2.	16
16	g	*Autumn.*	3	17	Soph.1.	1.Cor.1
17	A	Lambert.	Soph.2.	18	3	2
18	b		Agge.1.	19	Agge.2.	3
19	c		Zach.1.	20	Zac.2.3	4
20	d	Ympryd.	4.5.	21	6	5
21	e	*S.Matthew*	Ecclu.35.	22	Eccl.38	6
22	f		Zach.7.	23	Zach.8.	7
23	g		9	24	10	8
24	A		11	25	12	9
25	b		13	26	14	10
26	c	Cyprian.	Mala.1.	27	Mala.2.	11
27	d		3	28	4	12
28	e		Tobi.1.	Mar.1.	Tobi.2.	13
29	f	*S.Michael.*	Ecclu.39	2	Eccl.44	14
30	g	Hierome.	Tob.3.	3	Tobi.4.	15

¶ Hydref ſy iddo 31 o ddyddiau.

			Boreuol weddi.		*Prydnh. weddi.*	
			1. Llith.	*2. Llith.*	*1. Llith.*	*2. Llith.*
1	A	Remig.	Tob.7.	Mar.4.	Tobi.8.	1.Co.16
2	b		9	5	10	2.Corin.1
3	c		11	6	12	2
4	d		13	7	14	3
5	e			8		4
6	f	S.Ffydd.	Iudit.1.	9	Iudit.2.	5
7	g		3	10	4	6
8	A		5	11	6	7
9	b	Denis.	7	12	8	8
10	c		9	13	10	9
11	d		11	14	12	10
12	e	*Sol in Sc.*	13	15	14	11
13	f	Edward.	15	16	16	12
14	g		Doct.1.	Lu. di.1	Doe.2.	13
15	A		3	di.1.	4	Galat.1
16	b		5	2	6	2
17	c	Etheldr.	7	3	8	3
18	d	*Luke Ef.*	Eccl.51.	4	Iob.1.	4
19	e		Doet.9.	5	Doe.10	5
20	f		11	6	12	6
21	g		13	7	14	Ephe.1.
22	A		15	8	16	2
23	b		17	9	18	3
24	c		19	10	Eccl.1.	4
25	d	Criſpin.	Ecclu.2.	11	3	5
26	e		4	12	5	6
27	f	Ympryd.	6	13	7	Phil.1.
28	g	*Simon &*	Io.24.25	14	Iob.42.	2
29	A	*Iude.*	Ecclu.8.	15	Ecclu.9	3
30	b		10	16	11	4
31	c	Ympryd.	12	17	13	Coloſ.1

¶ Tachwedd ſy iddo 30 o ddyddiau.

			Boreuol weddi.		*Prydnh. weddi.*	
			1. Llith.	*2. Llith.*	*1. Llith.*	*2. Llith.*
1	d	*Holl Saint.*	Doet.3	He.11.12	Doet.5	Dat.19.
2	e		Eccl.14	Luc.18.	Eccl.15.	Col.2.
3	f		16	19	17	3
4	g		18	20	19	4
5	A	*Brad y pow*	20	21	21	1.Th.1.
6	b	Leonard.	22	22	23	2
7	c		24	23	25 (*)	3
8	d		27	24	28	4
9	e		29	Ioan.1.	30	5
10	f		31	2	[illegible]	2.Thes.1
11	g	S.Martin.	33	3	[illegible]	2
12	A	*Sol in Sag.*	35	4	[illegible]	3
13	b	Briſius	37	5	38	1.Tim.1
14	c		39	6	40	2.3.
15	d	Machut.	41	7	42	4
16	e		43	8	44	5
17	f	Hew Eſcob	45	9	46 (*)	6
18	g		47	10	48	2.Tim.1
19	A		49	11	50	2
20	b	Edmund.	51	12	Baruc.1	3
21	c		Baruc.2.	13	3	4
22	d	Cicili.	4	14	5	Titus 1.
23	e	Clement.	6	15	Eſai 1.	2.3.
24	f		Eſai 2.	16	3	Phile.1
25	g		4	17	5	Heb.1.
26	A	Katherin.	6	18	7	2
27	b	Lini	8	19	9	3
28	c		10	20	11	4
29	d	Ympryd.	12	21	13	5
30	e	*Andr. Ap.*	Dih.20.	Act.1.	Dih.21	6

(*) Noda, y gorfydd darllen dechreu y 26. Pen. o Ecclus. hyd y 12. gwers. gyd a'r 25. Pen.

(*) Noda hefyd y bydd rhaid darllen y 46. o Ecclus hyd, Ac ar ol ei farwolaeth &c. gwers 20.

¶ Rhagfyr ſydd iddo 31 o ddyddiau.

			Boreuol weddi.		*Prydnh. weddi.*	
			1. Llith.	*2. Llith.*	*1. Llith.*	*2. Llith.*
1	f	Grwst.	Eſai 14.	Act.2.	Eſai 15.	Heb.7
2	g		16	3	17	8
3	A		18	4	19	9
4	b		20,21.	5	23	10
5	c		[illegible]	6	24	11
6	d	Nich.Eſc	25	dim.7.	26	12
7	e		27	dim.7.	28	13
8	f	Ymddwyn	29	8	30	Iago.1.
9	g	Mair.	31	9	32	2
10	A		33	10	34	3
11	b		35	11	36	4
12	c	*Sol in Cap.*	37	12	38	5
13	d	Luci.	39	13	40	1.Pet.1
14	e		41	14	42	2
15	f		43	15	44	3
16	g		45	16	46	4
17	A	O ſapien-	47	17	48	5
18	b	tia.	49	18	50	2.Pet.1
19	c	Tydecho.	51	19	52	2
20	d	Ympryd.	53	20	[illegible]	3
21	e	S.Tho.Apo.	[illegible]	21	[illegible]	1.Ioan.1
22	f		[illegible]	22	[illegible]	2
23	g		57	23	58	3
24	A	Ympryd.	59	24	60	[illegible]
25	b	*Christmas.*	Eſai 9.	Luc.2.	Eſai 7.	[illegible]
26	c	*S.Steven.*	Dih.28.	Act.6.7.	[illegible]	[illegible]
27	d	*S.Ioan.*	Eccl.5.	Dat.1.	[illegible]	[illegible]
28	e	*Gwirio-*	Ier.31.	[illegible]	[illegible]	[illegible]
29	f	*naid.*	Eſai 61.	26	[illegible]	[illegible]
30	g		63	27	[illegible]	[illegible]
31	A	Silveſter	65	28	[illegible]	[illegible]

¶ Y DREFN YM-MHA LE YR arferir ac y dywedir y Foreuawl a'r Brynhawnawl weddi.

Y Foreuawl a'r Brydnhawnawl weddi a arferir yn y lle defodedic o'r Eglwys; Capel, neu Gangell; oddieithr i'r Ordinari derfynu yn amgenach am y lle. A bid y Corau yn aros megis ydd oeddynt ym mlaen hyn.

A noter hyn yma, Bod i'r Gwenidog ar bryd Cymmun, ac ar bob pryd arall yn ei weinidogaeth, ymarfer o gyfryw wiſcoedd ac addurneu, yn yr Eglwys, ac oeddynt mewn arfer trwy awdurdod y Parliament yn yr ail flwyddyn o deyrnaſiad Brenin EDWARD y chweched, yn ôl yr Act o Barliament a oſſoded yn nechreu y llyfr hwn.

¶ TREFN

¶ TREFN AM WEDDI FOREOL bob dydd trwy 'r flwyddyn.

¶ Ar ddechreu y weddi foreuol ac yr un ffunyd ar y weddi Bryd-nhawnol, darllenêd y Gweinidog â llef uchel rai o'r ſynhwyrau hyn o'r Scrythur lân, y rhai ſydd yn canlyn. Ac yno dyweded yr hyn ſydd ſcrifennedic ar ôl y Sentenſiau.

Ezec. 18. PA bryd bynnac y bo yn edifar gan bechadur ei bechod o ddyfnder ei galon, mi a ollyngaf tros gof yr holl anwiredd a'r a wnaeth ef medd yr Arglwydd.

Psal. 51. Ydd wyf yn cydnabod fy anwiredd, a'm pechod ſydd yn waſtad yn fy erbyn.

Psal. 51. Ymchwel dy wyneb oddi wrth fy mhechodau, Arglwydd, a dilea fy holl gamweddau.

Psal. 51. Yſpryd cyſtuddiedic ſydd aberth i Dduw, na thremyga Arglwydd Dduw, galonnau yſydd cyſtuddiedig.

Ioel 2. Rhwygwch eich calonnau, ac nid eich dillad, ac ymchwelwch at yr Arglwydd eich Duw, canys tirion a thrugarog ydyw efe ſydd ddiodefgar a mawr ei drugaredd, a chyfryw un ac ſydd edifus ganddo drwg eich blinder.

Dan. 9. Ti Arglwydd bieu toſturi a maddeuant, canys aethom ymaith oddi wrthit, ac ni wrandawſom ar dy leferydd, modd y gallem rodio yn dy gyfreithiau y rhai a oſodaiſt i ni.

Iere. 10. Coſpa ni Arglwydd, ac etto yn dy farn nid yn dy gynddaredd, rhac na bo dim mwy o honom.

Mat. 3. Gwellhewch eich buchedd, canys bod teyrnas Dduw yn agos.

Luc. 15. Mi a âf at fy Nhâd, ac a ddywedaf wrtho, fy Nhâd, mi a bechais yn erbyn y nefoedd, ac yn dy erbyn di, ac mwyach nid wyf deilwng i'm galw yn fab i ti.

Psal. 143. Na ddwg i'r farn dy weiſion, Arglwydd, canys nid byw neb cyfiawn yn dy olwg di.

1. Ioan. 1. Os dywedwn ein bod heb pechod, ydd ym yn ein twyllo ein hunain, ac nid oes wirionedd ynom.

FY anwyl gariadus frodyr, y mae yr Scrythur lân yn ein cynhyrfu mewn amryfael fannau, i gydnabod ac i gyffeſſu ein aml bechodau a'n anwiredd, ac na wnelem na'i cuddio na'i celu yngwydd yr Hollalluog Dduw ein Tâd nefol, eithr eu cyffeſſu â gostyngedic, edifarus, ac vfudd galon, er mwyn caffael o honom faddeuant am danynt, trwy ei anfeidrol ddaioni a'i drugaredd ef. A chyd dylem ni bob amſer addef yn oſtyngedic ein pechodau gerbron Duw. Etto ni a ddylem yn bennaf wneuthur hynny pan ymgynhullom i gyd-gyfarfod, i dalu diolch am yr aml ddaioni a dderbyniaſom ar ei law ef, i ddatgan ei haeddedicaf foliant, i wrando ei ſancteiddiaf air ef, ac i erchi y cyfryw bethau ac a fyddo cymmwys ac angenrheidiol, yn gystal er lles y corph a'r enaid. O herwydd paham mi a attolygaf i chwi, cynnifer ac y ſydd yma yn bresennol, gyd-fyned â myfi â chalon lân, ac â llef oſtyngedic, hyd yngorſeddfa y nefol râd, gan ddywedyd ar fy ôl i.

¶ Cyffes gyffredinol i'w dywedyd gan yr holl gynnulleidfa ar ôl y Gweinidog, [illegible] ar eu gliniau.

HOll-alluog Dduw, a thrugarocaf Dâd, ni a aethom ar gyfeiliorn allan o'th ffyrdd di fal defaid [illegible] [illegible] ormod ar [illegible] a chwantau ein calonnau ein hunain. Ni a [illegible] yn erbyn dy ſancteiddiol gyfreithiau. Nyni a adawſom heb wneuthur y pethau, a ddylaſem eu gwneuthur: Ac a wnaethom y pethau ni ddylaſem eu gwneuthur, Ac nid oes iechyd ynom. Eithr tydi ô Arglwydd, cymmer drugaredd arnom ddrwg-weithredwyr truain, Arbed di hwynt-hwy o Dduw, y rhai ſy yn cyffeſſu eu beiau. Cyweiria di y ſawl ſydd yn edifarus, Yn ôl dy addewidion a gyhoeddwyd i ddyn, yngHriſt Ieſu ein Harglwydd. A chaniatta drugarocaf Dâd er ei fwyn ef, fyw o honom rhac llaw yn dduwiol, vnion, a ſobr fuchedd, i ogoniant dy ſancteiddiol Enw. Amen.

¶ Gollyngdod neu faddeuant pechodau, i'w ddatgan gan y Gweinidog yn vnic.

YR Holl-alluog Dduw, Tâd ein Harglwydd Ieſu Griſt, yr hwn ni ddeiſyf farwolaeth pechadur, eithr yn hytrach ymchwelyd o hono oddi wrth ei anwiredd, a byw: ac a roddes allu a gorchymyn iw weinidogion, i ddeclario ac i fynegi i'w bobl ſydd yn edifarus, absolution a maddeuant am eu pechodau. Efe a bardwna ac a ollwng y rhai oll ſy wîr edifeiriol, ac yn ddiffuant yn credu iw ſanctaidd Efengyl ef. Herwydd paham nyni a attolygwn iddo ganiadtau i ni wîr edifeirwch, a'i Yſpryd glân, fel y byddo bodlon ganddo y pethau ydd ym yn y pryd hyn yn eu gwneuthur, a bod y darn arall o'n bywyd rhac llaw yn bur ac yn ſancteiddiol, megis y delom o'r diwedd i'w lawenydd tragywyddol, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd.

Atteb y bobl, Amen.

¶ *Yno y dechreu y Gweinidog weddi yr Arglwydd â llef vchel.*

EIn Tâd yr hwn wyt yn y nefoedd, ſancteiddier dy Enw. Deued dy deyrnas. Bid dy ewyllys ar y ddaiar megis y mae yn y nefoedd. Dyro i ni heddyw ein bara beunyddiol. A maddeu i ni ein dyledion, fel y maddeuwn ni i'n dyledwyr. Ac nac arwain ni i brofedigaeth. Eithr gwared ni rhag drwg. Amen.

¶ *Yna y dywaid yntau yn [illegible]*

Arglwydd agor ein gwefuſau.

Atteb.

A'n genau a fynega dy foliant.

Offeiriad.

Duw bryſia i'n cynorthwyo.

Atteb.

Arglwydd pryſura i'n cymmorth.

Offeiriad.

Gogoniant i'r Tâd, ac i'r Mab, [illegible]

Megis yr oedd [illegible]

y bydd yn [illegible]

¶ Yna y [illegible]

DEuwch, canwn [illegible]

2 Deuwn [illegible]

3 Canys [illegible]

3 Oblegit yn ei law ef y mae gorddyfnderau y ddaiar: ac ef biau uchelder y mynyddoedd.

4 Y môr ſydd eiddo, canys efe a'i gwnaeth: a'i ddwylaw a luniaſant y ſych-dir.

5 Deuwch addolwn, a ſyrthiwn i lawr, a goſtyngwn ger bron yr Arglwydd ein gwneuthur-wr.

6 Canys efe yw ein Duw ni: a ninneu ym bobl ei borfa ef, a defaid ei ddwylaw.

7 Heddyw o gwrandewch ar ei leferydd, na chaledwch eich calonnau: megis yn yr ymryſonfa, fel yn nydd Profedigaeth yn yr anialwch.

8 Lle y temptiodd eich tadau fi: y profaſant fi, a gwelſant fy ngweithredoedd.

9 Deugain mhlynedd yr ymryſonais â'r genhedlaeth hon, a dywedais: pobl gyfeiliornus yn eu calonnau ydynt hwy, canys nid adnabuant fy ffyrdd.

10 Wrth y rhai y tyngais yn fy llîd: na ddelent i'm gorphwyſfa.

Gogoniant i'r Tâd, ac i'r Mâb, ac i'r Yſpryd glân:
Megis yr oedd yn y dechreu, y mae yr awr hon, ac y bydd yn waſtad yn oes oeſoedd. Amen.

¶ *Yn ôl hyn y dilyn rhyw Pſalmau mewn trefn, megis yr appwyntiwyd hwy yn y tabl a wnaethbwyd er mwyn hynny: oddieithr bod Pſalmau priodol i'r diwrnod hwnnw. Ac ar ddiwedd pob Pſalm drwy yr flwyddyn, a'r un modd ar ddiwedd* Benedictus, Benedicite, Magnificat, *a* Nunc dimittis, *y dywedir,* Gogoniant i'r Tâd, ac i'r Mâb, &c.

¶ *Yna y darllenir dwy llith yn llawn Eglwyr, â lleferydd uchel, fel y gallo y bobl glywed. Y gyntaf o'r hên Destament; yr ail o'r newydd, megis ac yr appwyntiwyd wrth y Calendar, oddieithr bod llithiau priod wedi 'r aſſeinio i'r dydd hwnnw. Y gweinidog a ddarlleno y llith, ſafed, ac ymchweled, megis y galler ei glywed yn oreu gan lawb oll ar a fo yn bresennol. Ac o flaen bob llith, dyweded y gweinidog fel hyn. Y pennod cyntaf, neu yr ail, neu 'r trydydd, &c.* o Geneſis, o Exodus, Matthew, Marc, *neu 'r cyffryw, megis yr appwyntiwyd yn y Calendar. Ac ar ddiwedd pob pennod dyweded:* Yma y terfyna y cyfryw bennod o'r cyfryw lyfr.

¶ *Ac er mwyn cael o'r bobl glywed yn well, mewn cyffryw leoedd ac y byddir yn arfer o ganu, hîd yn addas darllen y llithiau mewn tôn eglwys, er modd darllen llawn Eglwyr, a'r un modd yr Epiſtol a'r Efengyl. Yn ôl y llith gyntaf y canlyn* Te Deum laudamus *yn Gymraeg, ac beunydd trwy 'r holl flwyddyn.*

Te Deum *laudamus.*

TI Dduw a folwn: ti a gydnabyddwn yn Arglwydd.

Yr holl ddaiar a'th fawl di: y Tâd tragywyddawl.

Arnat ti y llefa yr holl Angelion: y nefoedd a'r holl nerthoedd o'u mewn.

Arnat ti y llefa Cherubin a Seraphin: â llefarydd dibaid.

Sanct, Sanct, Sanct Arglwydd Dduw Sabaoth.

Nefoedd a daiar ſydd yn llawn o'th ogoniant.

Gogoneddus gôr yr Apoſtolion a'th fawl di.

Moliannus nifer y Prophwydi a'th fawl di.

Ardderchawg lu y Merthyri a'th fawl di.

Yr Eglwys lân trwy 'r holl fŷd a'th addef di;

Y Tâd o anfeidrawl fawredd.

Dy anrhydeddus wir ac unig Fab.

[illegible] Yſpryd Glân y diddanydd.

Ti Crist yw Brenin y gogoniant.

Ti yw tragywyddawl Fab y Tâd.

Pan gymeraiſt arnat waredu dyn: ni ddiyſtyraiſt [illegible]

Pan orchfygaiſt holl [illegible] angeu: yr agoraiſt deyrnas nef i bawb a gredant.

Ti ſydd yn eiſtedd ar ddeheu-law Dduw: yn gogoniant y Tâd.

Ydd ym ni yn credu mai tydi a ddaw: yn farn-wr arnom.

Gan hynny yr attolygwn i ti gynnorthwyo dy weiſion: y rhai a brynaiſt â'th werth-fawr waed.

Pâr iddynt gael eu cyfrif gyd â'th Sainct: yn y gogoniant tragywyddol.

Arglwydd cadw dy bobl a bendithia dy etifeddiaeth.

Llywia hwy: a dyrcha hwy yn dragywydd.

Beunydd ac fyth: y clodforwn dydi.

Ac anrhydeddwn dy Enw: byth ac yn oes oeſoedd.

Teilynga Arglwydd: ein cadw y dydd hwn yn ddibechod.

Arglwydd trugarhâ wrthym: trugarhâ wrthym.

Arglwydd poed dy drugaredd a ddêl arnom: megis ydd ym yn ymddiried ynot.

Arglwydd ynot yr ymddiriedais: na'm gwradwydder yn dragywydd.

¶ *Neu 'r caniad hwn:* Benedicite omnia opera Domini Domino.

Benedicite.

CHwychwi holl weithredoedd yr Arglwydd, bendithiwch yr Arglwydd: molwch ef, a mawrhewch yn dragywydd.

Chwychwi Angelion yr Arglwydd: bendithiwch yr Arglwydd: molwch ef, a mawrhewch yn dragywydd.

Chwychwi nefoedd, bendithiwch yr Arglwydd: molwch ef, a mawrhewch yn dragywydd.

Chwychwi yr dyfroedd ſydd uwchben y ffurfafen, bendithiwch yr Arglwydd: molwch ef, a mawrhewch yn dragywydd.

Chwychwi nerthoedd yr Arglwydd, bendithiwch yr Arglwydd: molwch ef, a mawrhewch yn dragywydd.

Chwychwi haul a lleuad, bendithiwch yr Arglwydd: molwch ef, a mawrhewch yn dragywydd.

Chwychwi ſêr y nefoedd, bendithiwch yr Arglwydd: molwch ef, a mawrhewch yn dragywydd.

Chwychwi gafodau a gwlith, bendithiwch yr Arglwydd: molwch ef, a mawrhewch yn dragywydd.

Chwychwi wyntoedd Duw, bendithiwch yr Arglwydd: molwch ef, a mawrhewch yn dragywydd.

Chwychwi dân a gwrês, bendithiwch yr Arglwydd: molwch ef, a mawrhewch yn dragywydd.

Chwychwi aiaf a hâf, bendithiwch yr Arglwydd: molwch ef, a mawrhewch yn dragywydd.

Chwychwi wlithoedd a rhewoedd, bendithiwch yr Arglwydd: molwch ef, a mawrhewch yn dragywydd.

Chwychwi rew ac oerfel, bendithiwch yr Arglwydd: molwch ef, a mawrhewch yn dragywydd.

Chwychwi îâ ac eira, bendithiwch yr Arglwydd: molwch ef, a mawrhewch yn dragywydd.

Chwychwi noſau a dyddiau, bendithiwch yr Arglwydd: molwch ef, a mawrhewch yn dragywydd.

Chwychwi oleuni a thywyllwch, bendithiwch yr Arglwydd: molwch ef, a mawrhewch yn dragywydd.

Chwychwi fellt ac wybrennau, bendithiwch yr Arglwydd: molwch ef, a mawrhewch yn dragywydd.

Bendithied y ddaiar yr Arglwydd: molied ef, a mawrhaed yn dragywydd.

Chwychwi fynyddoedd a bryniau, bendithiwch yr Arglwydd: molwch ef, a mawrhewch yn dragywydd.

Chwychwi oll wyrddion bethau ar y ddaiar, bendithiwch yr Arglwydd: molwch ef, a mawrhewch yn dragywydd.

Chwychwi ffynhonnau, bendithiwch yr Arglwydd: molwch ef, a mawrhewch yn dragywydd.

Chwychwi foroedd a llifeiriaint, bendithiwch yr Arglwydd: molwch ef, a mawrhewch yn dragywydd.

Chwychwi for-filod, ac oll ac ſydd yn ymſymmudo yn y dyfroedd, bendithiwch yr Arglwydd: molwch ef, a mawrhewch yn dragywydd.

Chwychwi oll adar yr awyr, bendithiwch yr Arglwydd: molwch ef, a mawrhewch yn dragywydd.

Chwychwi oll anifeiliaid ac yſcrubliaid, bendithiwch yr Arglwydd: molwch ef, a mawrhewch yn dragywydd.

Chwychwi blant dynion, bendithiwch yr Arglwydd: molwch ef, a mawrhewch yn dragywydd.

Bendithied Iſrael yr Arglwydd: molwed ef, a mawrhaed yn dragywydd.

Chwychwi offeiriaid yr Arglwydd, bendithiwch yr Arglwydd: molwch ef, a mawrhewch yn dragywydd.

Chwychwi waſanaeth-wyr yr Arglwydd, bendithiwch yr Arglwydd: molwch ef, a mawrhewch yn dragywydd.

Chwychwi yſprydion ac eneidiau y cyfiawnion, bendithiwch yr Arglwydd: molwch ef, a mawrhewch yn dragywydd.

Chwychwi y rhai ſanctaidd a goſtyngedig o galon, bendithiwch yr Arglwydd: molwch ef, a mawrhewch yn dragywydd.

Chwychwi Ananias, Azarias, a Miſael, bendithiwch yr Arglwydd: molwch ef, a mawrhewch yn dragywydd.

Gogoniant i'r Tâd, ac i'r Mâb, ac i'r Yſpryd glân:
Megis ydd oedd yn y dechreu, y mae yr awr hon,
ac y bydd yn waſtad yn oes oeſoedd. Amen.

¶ Ac yn ôl yr ail lith, yr arferir, ac y dywedir Benedictus, *yn Gamber-aec, megis y mae yn canlyn.*

ndi-
s.
c.1.68

BEndigedic fyddo Arglwydd Dduw 'r Iſrael: canys efe a ymwelodd, ac a brynodd ei bobl.

Ac a dderchafodd iechydwriaeth nerthol i ni yn nhŷ Ddafydd ei waſanaethwr.

Megis y dywedodd trwy enau ei ſanctaidd *brophwydi*: y rhai oedd o ddechreuad y bŷd.

Yr anfonei efe i ni ymwared rhag ein gelynion; ac oddi-wrth ddwylo pawb o'n digaſogion.

Y gwnai efe drugaredd â'n tadau; ac y cofiai ei ſanctaidd gyfammod:

A'r llw yr hwn a dyngodd ef wrth ein Tâd Abraham: ſef bod iddo ganiadtau i ni gwedi ein ymwared oddi wrth ddwylo ein gelynion, allu i waſanaethu ef yn ddiofn,

Mewn ſancteiddrwydd a chyfiawnder ger ei fron ef: holl ddyddiau ein bywyd.

A thitheu fâb a elwir yn brophwyd i'r Goruchaf; canys ti a ei o flaen wyneb yr Arglwydd, i baratoi ei ffyrdd ef,

Ac i roddi gwybodaeth iechydwriaeth iw bobl ef; gan faddeu eu pechodau,

O herwydd tiriondeb trugaredd ein Duw; trwy yr hon yr ymwelodd â ni godiad haul o'r uchelder:

I roddi llewyrch i'r rhai ſy yn eiſtedd mewn tywyllwch a chyſcod angeu: ac i gyfeirio ein traed i ffordd tangnheddyf.

Gogoniant i'r Tâd, ac i'r Mâb, ac yr Yſpryd glân:
Megis ydd oedd yn y dechreu, y mae yr awr hon,
ac y bydd yn waſtad, yn oes oeſoedd. Amen.

¶ Neu yr Pſalm a ganlyn.

bilate
eo.
ſal.100

CEnwch yn llafar i'r Arglwydd, yr holl ddaiar: Gwaſanaethwch yr Arglwydd mewn llawenydd: deuwch yn ei ffydd ef mewn gorfoledd.

2 Gwybyddwch mai yr Arglwydd ſydd Dduw: efe a'n gwnaeth, ac nid ni ein hunain: ei bobl ef ydym, a defaid ei borfa.

3 Ewch i mewn iw byrth ef a diolch, ac iw lyſoedd â moliant gennwch, diolchwch iddo, a chlodforwch ei Enw.

4 Canys daionus yw yr Arglwydd, a'i drugaredd ſydd yn dragywydd, a'i wirionedd a bery o genhedlaeth i genhedlaeth byth.

Gogoniant i'r Tâd, ac i'r Mâb, ac i'r Yſpryd glân.
Megis yr oedd yn y dechreu, y mae yr awr hon, &c.

¶ Yna y dywedir y Credo gan y Gweinidog ar bobl yn eu ſefyll.

CRedaf yn Nuw Dâd oll-gyfoethawg, Creawdr nef a daiar. Ac yn Ieſu Grist ei unig Mâb ef, ein Harglwydd ni: yr hwn a gâd trwy yr Yſpryd glân, a aned o Fair forwyn: a ddioddefodd dan Pontius Pilatus yn groes-hoeliwyd, a fu farw ac a gladdwyd, a ddeſcynnodd i uffern; y trydydd dydd y cyfododd o feirw; a eſcynnodd i'r nefoedd, ac y mae yn eiſtedd ar ddeheu-law Duw Dâd oll-gyfoethawg. Oddi yno y daw i farnu byw a meirw. Credaf yn yr Yſpryd glân, yr Eglwys lân gatholic; Cymmun y ſaint, Maddeuaint pechodau, Cyfodiad y cnawd, a'r bywyd tragywyddol. Amen.

¶ Ac yn ôl hynny, y gweddiau hyn ſy yn calyn, yn gyſtal ar bryndhawn weddi, ac ar foreu weddi: a phawb yn goſtwng yn ddefoſiynol, y Gweinidog yn gyntaf a lefara â llef uchel.

Yr Arglwydd a fo gyd â chwi.

Atteb.

A chyd â'th yſpryd dithau.

Y Gweinidog.

Gweddiwn.

Arglwydd trugarhâ wrthym.

Christ trugarhâ wrthym.

Arglwydd trugarhâ wrthym.

¶ Yna y Gweinidog, ar yſcolheigion, ar bobl a ddywedant weddi yr Arglwydd yn Gamberaec â llefaryd uchel.

Ein Tâd yr hwn wyt yn y nefoedd, &c.

Yna y Gweinidog yn ei ſefyll a ddywaid.

Arglwydd dangos dy drugaredd arnom.

Atteb.

A chaniadhâ i ni dy iechydwriaeth.

Offeiriad.

Arglwydd cadw y Brenhin.

Atteb.

A gwrando ni yn drugarog pan alwom arnat.

Offeiriad.

Gwiſc dy weinidogion ag iawnder.

Atteb.

A gwna dy ddewiſol bobl yn llawen.

Offeiriad.

Arglwydd cadw dy bobl.

Atteb.

A bendithia dy etifeddiaeth.

Offeiriad.

Arglwydd dyro dangnheddyf yn ein dyddiau.

Atteb.

Can nad oes neb arall a ymladd trosom ond tydi Dduw yn unic.

Offeiriad.

Duw glanhâ ein calonnau ynom.

Atteb.

Ac na chymmer dy Yſpryd glân oddi wrthym.

¶ Yna y canlyn tri Cholect. Y cyntaf o'r dydd, yr hwn a fydd yr un ac a appwyntir ar y Cymmun. Yr ail, am dangnefeddyſ. Y trydydd, am râd i fyw yn dda. Ac ar ddau Golect diwethaf ni chyfnewidir byth, ond eu dywedyd beunydd ar foreuol weddi, trwy yr holl flwyddyn, fel y canlyn.

¶ Yr ail Colect am dangnefeddyſ.

DUw, yr hwn wyt Awdur tangnefeddyſ, a charwr cyttundeb, yr hwn o'th iawn adnabod y mae ein buchedd dragywyddol yn ſefyll arnaw, a'th waſanaeth yw gwir-fraint: Amddiffyn ni dy oſtyngedig weiſion, rhag holl ruthrau ein gelynion; fel y gallom trwy gwbl ymddiried yn dy amddiffyn di, nac ofnom allu neb gwrthwyneb-wyr; trwy nerth Ieſu Griſt ein Harglwydd. Amen.

¶ Y trydydd Colect am gael rhâd.

O Arglwydd nefol Dâd, Holl-alluog, a thragywyddol Dduw, yr hwn a'n cedwaiſt yn ddiangol hyd ddechreu yr dydd heddyw, amddiffyn ni ynddo â'th gadarn allu, a chaniadhâ na ſyrthiom y dydd hwn mewn un pechod, ac nad elom mewn un rhyw berygl, eithr bod ein holl weithredoedd wedi eu trefnu a'u llywodraethu wrth dy lywodraeth, i wneuthur yn waſtad y peth y ſydd gyfiawn yn dy olwg di, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd. Amen.

¶ Y DREFN AM BRYD-NHAWNOL weddi, trwy gydol y flwyddyn.

¶ Yr offeiriad a dywed.

EIn Tâd yr hwn wyt yn y nefoedd, ſancteiddier dy Enw. Deued dy deyrnas. Bid dy ewyllys ar y ddaiar megis y mae yn y nefoedd. Dyro i ni heddyw ein bara beunyddiol. A maddeu i ni ein dyledion, fel y maddeuwn ni i'n dyled-wyr. Ac nac arwain ni i brofedigaeth: Eithr gwared ni rhag drwg. Amen.

¶ Ac efe a dywed yn yr un ſanyd.

Arglwydd agor ein gwefuſau.

Atteb.

A'n genau a fynega dy foliant.

Offeiriad.

Duw bryſſia i'n cymmorthwyo.

Atteb.

Arglwydd pryſura i'n cymmorth

Offeiriad.

Gogoniant i'r Tâd, ac i'r Mâb, ac i'r Yſpryd glân.
Megis ydd oedd yn y dechreu, y mae yr awr hon, ac y bydd yn waſtad yn oes oeſoedd. Amen.

Molwch yr Arglwydd.

¶ Yna y Pſalmau mewn trefn, megis yr appwyntiwyd hwy yn y Tabl i'r Pſalmau, oddieithr bod Pſalmau priod wedi eu happwyntio i'r dydd hwnnw. Yna Llith o'r hên Deſtament, megis ac yr appwyntiwyd hefyd yn y Calendar, oddieithr bod Llithiau priod wedi eu appwyntio i'r dydd hwnnw. Yn ôl hynny Magnificat yn Gymraec, megis y canlyn.

Magnificat. Luc. 1.46

FY enaid a fawrhâ yr Arglwydd: a'm hyſpryd a lawenychodd yn Nuw fy Iachawdwr.

Canys efe a edrychodd: ar oſtyngeiddrwydd ei waſanaethwyddes.

Oblegid wele o hyn allan: yr holl genhedlaethau a'm geilw yn wynfydedic.

Canys yr hwn ſydd Alluog a wnaeth i mi fawredd: a ſanctaidd yw ei Enw ef.

A'i drugaredd ſydd yn oes oeſoedd: ar y rhai a'i hofnant ef.

Efe a ddangoſodd nerth â'i fraich: efe a waſcarodd y rhai beilchion ym mwriadau eu calonnau.

Efe a dynnodd i lawr y cedyrn o'u heiſteddfaau: ac a ddyrchafodd y rhai iſel-radd.

Efe a lanwodd y rhai newynog â phethau da: ac a anfonodd ymaith y rhai goludog mewn eiſiau.

Efe a gynnorthwyodd ei wâs Iſrael, gan goffa ei drugaredd: fel y dywedodd wrth ein tadau, Abraham a'i hâd yn dragywydd.

Gogoniant i'r Tâd, ac i'r Mâb, ac i'r Yſpryd glân.

Megis yr oedd yn y dechreu, y mae yr awr hon, ac y bydd yn waſtad yn oes oeſoedd. Amen.

Neu ynte y Pſalm a ganlyn.

Canta Domi Pſal.

CEnwch i'r Arglwydd ganiad newydd, canys efe a wnaeth bethau rhyfedd: â'i ddeheulaw, ac â'i fraich ſanctaidd y parodd iddo ei hun iechydwriaeth.

2 Yſpyſodd yr Arglwydd ei iechydwriaeth: a datcuddiodd ei gyfiawnder yngolwg y cenhedloedd.

3 Coſſodd ei drugaredd, a'i wirionedd i dŷ Iſrael: a holl derfynau y ddaiar a welſant iechydwriaeth ein Duw ni.

4 Cenwch yn llafar i'r Arglwydd, yr holl ddaiar: llefwch, ac ymlawenhewch, a chenwch.

5 Cenwch i'r Arglwydd gyd â'r delyn: ie gyd â'r delyn, â llef canmoliaeth.

6 Cenwch yn llafar o flaen yr Arglwydd y Brenin: ar yr ud-cyrn, a ſain trwmpet.

7 Rhued y môr ac ſydd ynddo, y byd a'r rhai a drigant o'i fewn.

8 Cured y llifeiriaint eu dwylaw: a chyd-ganed y mynyddoedd o flaen yr Arglwydd, canys efe a ddaeth i farnu y ddaiar.

9 Efe a farna yr bŷd mewn cyfiawnder: a'r bobloedd mewn uniondeb.

Gogoniant i'r Tâd, ac i'r Mâb, ac i'r Yſpryd glân.
Megis yr oedd yn y dechreu, &c.

¶ Yna llith o'r Teſtament newydd. Ac yn ôl hynny Nunc dimittis yn Gymraec, megis y canlyn.

Nunc mitti Luca

YR awrhon Arglwydd y gollyngi dy wâs mewn tangnefeddyſ, yn ôl dy air.
Canys fy llygaid a welſant dy iechydwriaeth,
Yr hon a baratoaſt gar bron wyneb yr holl bobl,
I fôd yn oleuni i oleuo y Cenhedloedd, ac yn ogoniant i'th bobl Iſrael.
Gogoniant i'r Tâd, ac i'r Mâb, ac i'r Yſpryd glân.
Megis yr oedd yn y dechreu, &c.

Neu yr Pſalm hon.

Deu ſerea Pſal

DUw a drugarhao wrthym, ac a'n bendithio, a thywynned llewyrch ei wyneb arnom, a thrugarhaed wrthym. *Selah.*

2 Fel yr adwaener dy ffordd ar y ddaiar, a'th iechydwriaeth ym mhlith yr holl genhedloedd.

3 Molianned y bobl di ô Dduw: molianned yr holl bobl dydi.

4 Llawenhaed y cenhedloedd a byddant hyfryd, canys tydi a ferni y bobl yn uniawn, ac a lywodraethi y Cenhedloedd ar y ddaiar. *Selah.*

5 Molianned y bobl di ô Dduw: molianned yr holl bobl dydi.

6 Yna yr ddaiar a rydd ei ffrwyth a Duw, ſef ein Duw ni a'n bendithia,

7 Duw an bendithia: a holl derfynau yr ddaiar a'i hofnant ef.

Gogoniant i'r Tâd, ac i'r Mab, ac i'r Yſpryd glân:

Megis ydd oedd yn y dechreu, y mae yr awr, &c.

¶ Yna y canlyn y Credo, a gweddiau ereill, megis yr appwyntiwyd ym-molaen ar y Foreol weddi, ar ol Benedictus; *a thri Cholect. Y cyntaf o'r dydd. Yr ail, am dangnefedd. Y trydydd am gynhorthwy yn erbyn pob perygl, fel y canlyn ym-mhen ychydig. A'r ddau Golect diweddaf a ddywedir bob dydd ar brydnhawn weddi heb gyfnewid.*

¶ Yr ail Colect ar brydnhawn weddi.

DUw, oddi wrth ba vn y daw pob adduned ſanctaidd, pob cyngor da, a phob gweithred gyfiawn, dyro i'th waſanaeth-ddynion y rhyw dangnefedd a'r na ddichon y byd ei roddi, modd y gallo ein calonnau ymroi i vfyddhau i'th orchymynion; a thrwy dy amddeffyniad i ni rhag ofn ein gelynion, allu o honom dreulio ein amſer mewn heddwch a thangnefedd, drwy haeddedigaethau Ieſu Griſt ein Iachawdwr. Amen.

¶ Y trydydd Colect am gynhorthwy yn erbyn pob perygl.

GOleua ein tywyllwch, ni a attolygwn i ti o Arglwydd; a thrwy dy fawr drugaredd amddeffyn nyni rhag pob perygl ac enbydrwydd y nos hon, er ſerch ar dy vn Mab ein Iachawdwr Ieſu Griſt. Amen.

¶ Ar ddydd Nadolic Chriſt, dydd-gwyl Ystwyll, dydd gwyl Fatthias; dydd Paſc; y Dyrchafael, y Sul gwyn, dydd gwyl Ioan fedyddiwr, S. Iaco, S. Bartholomew, S. Matthew, S. Simon a Iud, S. Andrew, a Sul y Drindod; y canlyn hon y dywedir yn neſaf ar ol Benedictus, *y [illegible] [illegible] ſydd [illegible].*

PWy bynnac a fynno fod yn gadwedic: o flaen dim rhaid iddo gynnal y ffydd gatholic.

Yr hon ffydd, onid ceidw pob dyn yn gyfan, ac yn ddihalogedig: diammeu y collir ef yn dragywydd.

A'r ffydd gatholic yw hon: bod i ni addoli vn Duw yn Drindod, a'r Drindod yn vndod.

Nid cymmyſcu o honom y perſonau: na gwahanu y ſylwedd.

Canys vn perſon ſydd i'r Tâd, arall i'r Mab: ac arall i'r Yſpryd glân.

Eithr Duwdod y Tâd, y Mab, a'r Yſpryd glân ſydd vn-rhyw: gogoniant gogyfuwch, mawrhydi gyd-dragywyddol.

Vn-rhyw a'r Tâd, vn-rhyw yw'r Mab; vn-rhyw yw'r Yſpryd glân.

Digreedic Dâd, digreedic Fâb: digreedic Yſpryd glân.

Anfeſuredig Dâd, anfeſuredig Fâb, anfeſuredig Yſpryd glân.

Tragywyddol Dâd, tragywyddol Fâb: tragywyddol Yſpryd glân.

Ac etto nid ydynt dri tragywyddolion; onid vn tragywyddol.

Ac fel nad ynt dri anfeſuredigion, na thri digreedigion: onid vn digreedic, ac vn anfeſuredig.

Felly yn gyffelyb, Holl-alluog yw'r Tâd, Holl-alluog yw'r Mab: Holl-alluog yw'r Yſpryd glân.

Ac etto nid ynt dri Holl-alluogion: onid vn Holl-alluog.

Felly y Tâd ſy Dduw, y Mab ſy Dduw: a'r Yſpryd glân ſy Dduw.

Ac etto nid ynt dri Duwiau: onid vn Duw.

Felly y Tâd ſydd Arglwydd, y Mab ſydd Arglwydd: a'r Yſpryd glân ſydd Arglwydd.

Ac etto nid ynt dri Arglwyddi, namyn vn Arglwydd.

Canys fel i'n cymhellir trwy y gwirionedd Griſtianogaidd: i gyfaddef bod pob perſon o honaw ei hun yn Dduw, ac yn Arglwydd;

Felly i'n gwaherddir trwy'r Gatholic Grefydd: i ddywedyd, bod tri Duwiau, na thri Arglwyddi.

Y Tâd ni wnaethpwyd gan neb: ni's crewyd, ac ni's genhedlwyd.

Y Mab ſydd o'r Tâd yn vnic: heb ei wneuthur na'i greu, eithr wedi ei genhedlu.

Yr Yſpryd glân ſydd o'r Tâd a'r Mab: heb ei wneuthur, na'i greu, na'i genhedlu, eithr yn deilliaw.

Wrth hynny vn Tâd y ſydd, nid tri Thad, vn Mab, nid tri Mab, vn Yſpryd glân, nid tri Yſprydion glân.

Ac yn y Drindod hon, nid oes vn cyntaf, nac vn gwedi ei gilydd: nid oes vn mwy na llai na'i gilydd.

Eithr yr holl dri pherſonau ydynt gyd-dragywyddol: a gogyfuwch.

Ac felly ym mhob peth, fel y dywedpwyd vchod: yr vndod yn y Drindod, a'r Drindod yn yr vndod ſydd i'w addoli.

Pwy bynnac gan hynny a fynno fod yn gadwedic: ſynied felly a'r Drindod.

Y mae hefyd yn angenrheidiol er mwyn tragywyddol iechydwriaeth: credu o ddyn yn ffyddlawn am gnawdoliaeth ein Harglwydd Ieſu Griſt.

Canys yr iawn ffydd yw, credu, a chyffeſſu o honom: fod ein Harglwydd ni Ieſu Griſt, Fâb Duw, yn Dduw ac yn ddyn.

Duw, o ſylwedd y Tâd, wedi ei genhedlu cyn no'r oeſoedd: a dyn, o ſylwedd ei fam, wedi ei eni yn y byd.

Perffaith Dduw, a pherffaith ddyn, o enaid rheſymol: a dynol gnawd yn hanfod.

Gogyfuwch a'r Tâd oblegit ei Dduwdod: yn llai na'r Tâd, oblegit ei ddyndod.

Yr hwn, er ei fod yn Dduw, ac yn ddyn: er hynny, nid yw efe ddau, onid vn Chriſt.

Vn, nid trwy ymchwelyd y Duwdod yn gnawd: onid trwy gymmeryd y dyndod yn Dduw.

Vn i gyd oll, nid trwy gymmyſcu y ſylwedd: onid trwy vndod perſon.

Canys fel y mae yr enaid rheſymol a'r cnawd yn vn dyn: felly Duw a dyn ſydd vn Chriſt.

Yr hwn a ddioddefodd troſom am i'n iechydwriaeth: a ddiſcynnodd i vffern, a gyfododd y trydydd dydd o feirw.

Efe a eſcynnodd i'r nefoedd, ac y mae yn eiſtedd ar ddeheu-law'r Tâd, Duw holl-alluog: oddi yno y daw i farnu byw a meirw.

Ac ar ei ddyfodiad, y cyfyd pob dyn yn eu cyrph eu hunain: ac a roddant gyfrif am eu gweithredoedd priawd.

A'r rhai a wnaethant dda, a ânt i'r bywyd tragywyddol: a'r rhai a wnaethant ddrwg, i'r tân tragywyddol.

Hon yw'r ffydd gatholic: yr hon pwy bynnac nis credo yn ffyddlawn ni all efe fod yn gadwedic.

Gogoniant i'r Tâd, &c.

Megis yr oedd yn y dechreu, &c.

¶ Fel hyn y terfyna trefn y Foreol a'r Brydnhawnol weddi trwy'r flwyddyn.

¶YMA Y CANLYN Y LETANI, IW ARFER ar y Suliau, y Merchurau, ar Gweneruau, ac ar amſerau eraill, pan *orchymynner gan yr Ordinari.*

DUw Tad o'r Neſ: trugarhâ wrthym wir bechaduriaid.

Duw Tâd o'r neſ: &c.

Duw Fab, bryn-wr y byd: trugarhâ wrthym wir bechaduriaid.

Duw Fab, bryn-wr y byd: trugarhâ &c.

Duw Yſpryd glân, yn deilliaw oddi wrth y Tâd a'r Mab, trugarhâ wrthym wir bechaduriaid.

Duw Yſpryd glân, yn deilliaw oddi wrth &c.

Y gogonedd, lân, fendigaid Drindod, tri pherſon, ac vn Duw: trugarhâ wrthym wir bechaduriaid.

Y gogonedd, lân, fendigaid Drindod, &c.

Na chofia Arglwydd ein anwiredd, nac anwiredd ein rhieni, ac na ddyro ddial am ein pechodau: arbet nyni Arglwydd daionus, arbet dy bobl a brynaiſt â'th werth-fawr waed, ac na lidia wrthym yn dragywydd.

Arbet ni Arglwydd daionus.

Oddi-wrth bob drwg ac anffawd, oddi-wrth bechod, oddi-wrth yſtryw a chyrch y cythrael, oddi-wrth dy lid, ac oddi-wrth farnedigaeth dragywyddol.

Gwaret ni Arglwydd daionus.

Oddi-wrth bob dallineb calon, oddi-wrth falchder, a gwâg ogoniant, a ffûg ſancteiddrwydd, oddi-wrth genfigen, digaſedd, a bwriad drwg, a phob angharìadoldeb.

Gwaret nyni Arglwydd daionus.

Oddi-wrth anniweirdeb, a phob pechod marwol, ac oddi-wrth oll dwyll y byd, y cnawd, a'r cythrael.

Gwaret ni Arglwydd daionus.

Oddi-wrth fellt a thymeſtl, oddi-wrth blâ, haint y nodau, a newyn, oddi-wrth ryfel ac ymladd, ac oddi-wrth angau dyſyfyd.

Gwaret nyni Arglwydd daionus.

Oddi-wrth bob terfyſc a dirgel frâd, oddi-wrth bob ffals ddyſceidiaeth ac opinion anuwiol, oddi-wrth galedrwydd calon, a dirmyg ar dy air a'th orchymmyn.

Gwaret nyni Arglwydd daionus.

Trwy ddirgelwch dy gnawdoliaeth, trwy dy ſanctaidd enedigaeth, a'th enwaediad, trwy dy fedydd, dy vmpryd, a'th brofedigaeth.

Gwaret nyni Arglwydd daionus.

Trwy dy ddirfawr ing, a'th chwys gwaedlyd, drwy dy grôg a'th ddioddefaint, drwy dy werthfawr angau a'th gladdedigaeth, drwy dy anrhydeddus gyfodiad, a'th eſcyniad, a thrwy ddyfodiad yr Yſpryd glân.

Gwaret nyni Arglwydd daionus.

Yn holl amſer ein trallod, yn holl amſer ein gwynfyd, yn awr angeu, ac yn nydd y farn.

Gwaret nyni Arglwydd daionus.

Nyni bechaduriaid a attolygwn i ti ein gwrando, ô Arglwydd Dduw, a theilyngu o honot gadw, rheoli, a llywodraethu dy lân Eglwys yn hollawl yn y ffordd vnion.

Nyni a attolygwn i ti ein gwrando Arglwydd trugarog.

Teilyngu o honot gadw a nerthu i'th wir addoli, mewn iawnder a glendid buchedd, dy waſanaethwr *Charles* ein graſuſaf Frenhin a'n pen-llywydd.

Nyni a attolygwn i ti ein gwrando Arglwydd trugarog.

Teilyngu o honot lywodraethu ei galon yn dy ffydd, ofn, a chariad, ac iddo ymddiried byth ynot, ac ymgais yn waſtad â'th anrhydedd, a'th ogoniant.

Nyni a attolygwn i ti ein gwrando Arglwydd trugarog.

Teilyngu o honot ei amddeffyn a'i gadw, gan roddi iddo y fuddugoliaeth ar ei holl elynion.

Nyni a attolygwn i ti ein gwrando Arglwydd trugarog.

Teilyngu o honot fendithio a chadw ein Ardderchog Frenhines *Mair*, dywyſog *Charles*, *Frederic* y Tywyſog Palatin, a'r Arglwyddes *Elizabeth* ei wraig, a'i Tywyſogawl eppil.

Nyni a attolygwn i ti ein gwrando Arglwydd trugarog.

Teilyngu o honot lewyrchu yr holl Eſcobion, Bugeiliaid a Gweinidogion yr Eglwys, ag iawn wybodaeth a deall dy air: ac iddynt hwy trwy eu pregeth a'u buchedd, ei fynegi a'i ddangos yn ddyladwy.

Nyni a attolygwn i ti ein gwrando Arglwydd trugarog.

Teilyngu o honot gynnyſcaeddu Arglwyddi 'r Cyngor, a'r holl fonedd, â grâs, doethineb, a deall.

Nyni a attolygwn i ti ein gwrando Arglwydd trugarog.

Teilyngu o honot fendithio a chadw y pen-ſwyddogion, gan roddi iddynt râs i weinidio cyfiawnder, ac i faentumio yr gwir.

Nyni a attolygwn i ti ein gwrando Arglwydd trugarog.

Teilyngu o honot fendithio a chadw dy holl bobl.

Nyni a attolygwn i ti ein gwrando Arglwydd trugarog.

Teilyngu o honot roddi i bob cenhedloedd, vndeb, tangneddyf a chyd-gordio.

Nyni a attolygwn i ti ein gwrando Arglwydd trugarog.

Teilyngu o honot roddi i ni galon i'th garu a'th ofni, ac i fyw yn ddieſceulus yn ôl dy orchymynion.

Nyni a attolygwn i ti ein gwrando Arglwydd trugarog.

Teilyngu o honot roddi i'th bobl ychwaneg o râd, i wrando yn vfydd dy air, ac iw dderbyn o bur ewyllys, ac i gynhyrchu ffrwyth yr Yſpryd.

Nyni a attolygwn i ti ein gwrando Arglwydd trugarog.

Teilyngu o honot ddwyn i'r ffordd wir, bawb ar a aeth ar gyfeiliorn ac a dwyllwyd.

Nyni a attolygwn i ti ein gwrando Arglwydd trugarog.

Teilyngu o honot nerthu y rhai ſy yn ſefyll, a chonfforddio a chynnorthwyo y rhai ſy â gwan galon, a chyfodi y ſawl a ſyrthiaſant, ac o'r diwedd curo i lawr Satan dan ein traed.

Nyni a attolygwn i ti ein gwrando Arglwydd trugarog.

Teilyngu o honot gymmorth, a helpio, a diddanu pawb ar y ſydd mewn perigl, anghenoctid a thrallod.

Nyni a attolygwn i ti ein gwrando Arglwydd trugarog.

Teilyngu o honot gadw pawb a'r ſydd yn ymdaith ar fôr na thîr, pob gwraig wrth eſcor plant, pob clwyfus a rhai bychain, a thosturio wrth bawb a fyddo mewn caethiwed a charchar.

Nyni a attolygwn i ti ein gwrando Arglwydd trugarog.

Teilyngu o honot amddiffyn ac ymgeleddu y plant amddifaid, a'r gwragedd gweddwon, a phawb y sydd yn unic, ac yn goddef pwys plaid orthrech.

Nyni a attolygwn i ti ein gwrando Arglwydd trugarog.

Teilyngu o honot drugarhau wrth bob dŷn.

Nyni a attolygwn i ti ein gwrando Arglwydd trugarog.

Teilyngu o honot faddeu i'n gelynion, erlynwyr, ac ſclandr-wyr, a throi eu calonnau.

Nyni a attolygwn i ti ein gwrando Arglwydd trugarog.

Teilyngu o honot roddi a chadw er ein lles, amserol ffrwythau y ddaiar, modd y caffom mewn amser dyledus eu mwynhau.

Nyni a attolygwn i ti ein gwrando Arglwydd trugarog.

Teilyngu o honot roddi i ni wir edifeirwch, a maddeu i ni ein holl bechodau, ein esceulusdra, a'n anwybodaeth, a'n cynyſcaeddu â rhad dy Yſpryd glân: i wellhau ein buchedd yn ôl dy air ſanctaidd.

Nyni a attolygwn i ti ein gwrando Arglwydd trugarog.

Mab Duw: attolygwn i ti ein gwrando.

Mab Duw: attolygwn i ti ein gwrando.

Oen Duw, yr hwn wyt yn dileu pechodau yr byd.

Caniadhâ i ni dy dangnefedd.

Oen Duw, yr hwn wyt yn dileu pechodau yr byd.

Trugarhâ wrthym.

Christ clyw nyni.

Christ clyw nyni.

Arglwydd trugarhâ wrthym.

Arglwydd trugarhâ wrthym.

Christ trugarhâ wrthym.

Christ trugarhâ wrthym.

Arglwydd trugarhâ wrthym.

Arglwydd trugarhâ wrthym.

Ein Tâd yr hwn wyt yn y nefoedd, &c.

Ac na thywys ni i brofedigaeth.

Eithr gwared ni rhag drwg. Amen.

Gwerſe.

Arglwydd na wna â nyni yn ôl ein pechodau.

Atteb.

Ac na thalwyn ni yn ôl ein anwiredd.

Gweddiwn.

DUw Tad trugarog yr hwn nid wyt yn dirmygu uchenaid calon gystuddiedic, nac adduned y gorthrymmedic: cymmorthwya yn drugarog ein gweddiau, y rhai ydym ni yn eu gwneuthur ger dy fron, yn ein trallod a'n blin-fyd, pa bryd bynnag y gwaſcant arnom: a gwrando ni yn raſol, fel y bo i'r drygau hynny, y rhai y mae yſtryw a dichell diafol neu ddyn yn eu gwneuthur i'n herbyn, fyned yn ofer, a thrwy ragluniaeth dy ddaioni di, iddynt fod yn waſcaredig, modd na'n briwer dy weiſion drwy erlyn neb, a gallu o honom byth ddiolch i ti yn dy lân Eglwys, trwy Ieſu Grist ein Harglwydd.

Arglwydd cyfod, cymmorth ni, a gwared ni er mwyn dy Enw.

O Dduw, ni a glywſom â'n clustiau, a'n tadau a fynegasant i ni y gweithredoedd ardderchawg a wnaethost yn eu dyddiau, ac yn y cynfyd o'u blaen hwy.

Arglwydd cyfod, cymmorth ni, a gwared ni er dy anrhydedd.

Gogoniant i'r Tâd, ac i'r Mâb, ac i'r Yſpryd glân,

Megis ydd oedd yn y dechreu, y mae &c.

Rhag ein gelynion amddiffyn ni Christ.

Edrych yn drugarog ar ein gofidiau.

Yn dostur edrych ar drymder ein calonnau.

Yn drugarog maddeu bechodau dy bobl.

Yn garedigol gan drugaredd gwrando ein gweddiau.

Iesu Fab Dafydd, trugarhâ wrthym.

Yr awr hon a phob amser teilynga ein gwrando ô Christ.

Yn raſol clyw nin ô Christ, yn raſol clyw nyni ô Arglwydd Grist.

Gwerſe.

Arglwydd dangos dy drugaredd arnom.

Atteb.

Fel ydd ŷm yn ymddiried ynot.

Gweddiwn.

NYni a attolygwn i ti ô Arglwydd Dad, yn drugarog edrych ar ein gwendid, ac er gogoniant dy Enw, ymchwel oddi-wrthym yr holl ddrygau a ddarfu i ni o wîr gyfiawnder eu haeddu, a chaniadhau fod i ni yn ein holl drallod ddodi ein cyfan ymddiried a'n gobaith yn dy drugaredd, ac byth dy wasanaethu mewn ſancteiddrwydd a phurdeb buchedd i'th anrhydedd a'th ogoniant, trwy ein unic gyfryngwr a'n dadleu-wr Ieſu Grist &c.

Gweddi tros Fawrhydi y Brenin.

O Arglwydd ein Tâd nefol goruchel, a galluog, Brenin y Brenhinoedd, Arglwydd yr Arglwyddi, unic lywiawdr y Tywysogion, yr hwn wyt o'th eisteddle yn edrych ar holl drigolion y ddaiar: a attolygwn, ac a erfyniwn i ti, edrych o honot yn ddarbodus ar ein graſuſaf ddaionus Arglwydd Frenhin *Charles*, ac felly ei gyflawni ef ô rad dy ſanctaidd Yſpryd, fel y bo iddo yn wastadol bwyſo at dy feddwl, a rhodio yn dy ffordd, cynnyſcaedda ef yn ehelaeth â doniau nefol, caniadhâ iddo mewn llwyddiant ac iechyd hir hoedl, nertha ef, modd y gallo orchfygu a gorchfygu ei holl elynion, ac o'r diwedd yn ôl y fuchedd hon, bod iddo fwynhau llawenydd a dedwyddyd tragywyddol, trwy Ieſu Grist &c.

Gweddi tros y frenhines, y Tywyſog, a phlant ereill y Brenin.

O Hollalluog Dduw, yr hwn a addewaist fod yn Dâd i'th etholedigion ac i'w hâd, yr ydym ni yn ostyngedig yn attolwg i ti fendithio ein Ardderchog frenhines *Mary*, Tywyſog *Charles*, *Frederic* y Tywyſog Palatin, a'r Arglwyddes *Elizabeth* ei wraig, a'i Tywyſogawl epil: graſusa hwy â'th Yſpryd glân, cyfoethoga hwy â'th nefol râd, llwydda hwy â phob dedwyddwch, a dwg hwy i'th dragwyddol deyrnas, trwy Ieſu Grist &c.

HOll-gyfoethog a thragywyddol Dduw, yr hwn wyt yn unic yn gwneuthur rhyfeddodau, danfon i lawr ar ein Escobion a'n Curadiaid, a'r holl gynulleidfaoedd a orchymynwyd tan eu gofal, arnynt iachol Yſpryd dy rad, ac fel y gallont wir ryngu bodd i ti, tywallt arnynt ddyfal wlith dy fendith: Caniadhâ hyn Arglwydd, er anrhydedd ein dadleuwr, a'n cyfryngwr Ieſu Grist. Amen.

Gweddi S. Ioan Chryſoſtom.

HOll-alluog Dduw, yr hwn a roddaist i ni râd yr awr hon, drwy gyttundeb, a chyd-gyfarch ein gweddiau arnat, ac wyt yn addaw pan ymgynullo dau neu dri yn dy Enw, bod i ti ganiadhau eu gofynion: cyflawna yr awr hon ô Arglwydd, ddymuniadau a deiſyfiadau dy weiſion, fel y bo mwyaf buddiol iddynt, gan ganiadhau i ni yn y byd hwn wybodaeth o'th wirionedd, ac yn y byd a ddaw, bywyd tragywyddol. Amen.

RHâd ein Harglwydd Ieſu Grist, a cariad Duw, a chymdeithas yr Yſpryd glân, a fyddo gyd â ni oll byth bythoedd. Amen.

¶ Gweddi am gael [illegible]

O Dduw nefol Dad, yr hwn drwy dy Fab Iesu Griſt, a addewaiſt i bawb a geiſio dy Deyrnas a'th gyfiawnder, bob peth angenrheidiol i'w cynhaliaeth corphorol: danfon i ni, ni a attolygwn i ti, [illegible] dywydd a [illegible] ardymherus, modd y gallom dderbyn ffrwythau y ddaiar, i'n mwyniant ni, ac i'th urddiant tithau, trwy Iesu Griſt ein Harglwydd. Amen.

Am [illegible] dywydd teg.

ARglwydd Dduw, yr hwn am bechod dyn a foddaiſt unwaith yr holl fyd, oddieithr wythnyn o bobl, ac yn ôl hynny o'th fawr drugaredd a addewaiſt na's diſtrywit felly byth drachefn: ni a attolygwn i ti, er i ni am ein anwiredd haeddu y pla hon o law a dyfroedd, etto wrth ein gwir edifeirwch, danfon i ni y cyfryw dywydd a hinon, modd y gallom dderbyn ffrwythau yr ddaiar mewn amſer dyladwy, a dyſcu trwy dy gospedigaeth wellhau ein buchedd[illegible], ac am dy warder roddi i ti foliant a gogoniant, trwy Iesu Griſt ein Harglwydd. Amen.

Ar amſer drudaniaeth a newyn.

O Dduw Tad o'r Nef, drwy ddawn yr hwn y diſcyn y glaw, ac y mae y ddaiar yn ffrwythlawn, yr hilia anifeiliaid, ac yr amlha yr pyſcod: edrych attolwg ar adfyd dy bobl, a chaniadhâ am y prinder ar drudaniaeth ydd ym ni yr awrhon yn ei ddioddef, yn gwbl gyfiawn am ein anwiredd, iddo drwy dy drugarog ddaioni di, ymchwelyd yn rhâd ac yn helaethrwydd, er cariad ar Iesu Griſt ein Harglwydd, i'r hwn gyd â thydi a'r Yſpryd glân, y bo moliant yn oes oeſoedd. Amen.

Ar amſer Rhyfel.

HOll-alluog Dduw, Brenin yr holl frenhinoedd a phen-llywiawdur pob peth, yr hwn ni ddichon neb creadur wrthladd ei nerth, i'r hwn y perthyn o gyfiawnder gospi pechaduriaid, a bod yn drugarog wrth y rhai a fyddont wir edifeiriol, Cadw a gwaret nyni, yn oſtyngedic ni a attolygwn i ti, rhag dwylaw ein gelynion, goſtwng eu balchder, toſta eu drygioni, a gwradwydda eu bwriadau, modd y gallom yn arfogion gan dy amddiffyn di, fod bythyn gadwedic rhag pob perygl, i'th ogoneddu di yr hwn wyt unic roddwr pob buddugoliaeth a gorchafiaeth, drwy haeddedigaeth dy unic Fab Iesu Griſt ein Harglwydd. Amen.

Yn amſer plâ cyffredin neu haint cyffredinol.

HOll-alluog Dduw, yr hwn yn dy lid yn amſer y Brenin Dafydd, a leddaiſt â'r plâ y nodau ddengmil a thrugain mil, ac yn y man gan gofio dy drugaredd, a faddeuaiſt y lleill: trugarhâ wrthym wir bechaduriaid, y rhai a ddaeth i ddioddef haint a marwolaeth ynnwedd: fel megis ac y gorchymynaiſt yr amſer hynny i'th Angel beidio â chospi, felly bod yn awr yn deilwng gennit wrthladd oddiwrthym y blâ a'r clefyd hwn yma, trwy Iesu Griſt ein Harglwydd. Amen.

O Dduw, yr hwn [illegible] a phriodoldeb [illegible] yn wastad a maddeu, derbyn ein uſydd weddiau, ac er ein bod ni yn rhwymedig gan gadwynau ein pechodau, er hynny dattoded tosturi dy drugaredd, er anrhydedd Iesu Griſt ein cyfryngwr a'n dadleuwr. Amen.

Diolch am gael glaw.

O Dduw ein Tâd nefol, yr hwn drwy dy raſol ragluniaeth wyt yn peri i'r glaw cynnar a'r diweddar ddiſcyn ar y ddaiar, fel y gallo ddwyn ffrwyth er mwyniant dyn: i ti yr ydym ni yn rhoi i ti oſtyngedic ddiolch, am [illegible] ein dirfawr angenrheidrwydd, danfon i ni o'r diwedd law hyfryd ar dy etifeddiaeth, a'i hireiddio pan oedd ſych, i'n mawr ddiddanwch ni dy weiſion annheilwng, ac i ogoniant dy ſanctaidd Enw, trwy dy drugareddau yn Iesu Griſt ein Harglwydd. Amen.

Diolch am dywydd teg.

O Arglwydd Dduw, yr hwn yn gyfiawn a'n diſtrywiaiſt ni drwy dy [illegible] pla o anfeidrol law a dyfroedd, ac yn dy drugaredd a'n cymmorthaiſt ac a ddiddenaiſt ein heneidiau drwy y tymmorhaidd a'r bendigedic gyfnewid yma o dywydd, Nyni a folianwn, ac a ogoneddwn dy ſanctaidd Enw drwy dy drugaredd hyn, ac a ddatcanwn byth dy drugarowgrwydd o genhedlaeth i genhedlaeth, trwy Iesu Griſt ein Arglwydd, Amen.

Diolch am helaethrwydd.

O Drugarocaf Dâd, yr hwn o'th raſol ddaioni a wrandawaiſt ddefoſiynol weddiau dy Eglwys, ac a droiſt ein prinder ni a'n drudaniaeth yn rhâd ac yn helaethrwydd: yr ydym yn rhoi i ti oſtyngedig ddiolch dros dy ragorol haelioni hyn, ac yn attolwg i ti barhau dy ragorol haelioni hyn, ac yn attolwg i ti barhau dy garedigrwydd [illegible] attom, fel y rhoddo 'n tir ini ei ffrwythau toraethog, i'th ogoniant di a'n diddanwch ninnau, trwy Iesu Griſt ein Arglwydd, Amen.

Diolch am heddwch a buddugoliaeth.

O Holl-alluog Dduw, yr hwn wyt gadarn dŵr ydd i'th weiſion, rhag wyneb eu gelynion, yr ydym ni yn rhoddi i ti foliant a diolch am ein hymwared ni oddiwrth y mawr a'r amlwg beryglon oedd i'n hamgylchu, yr ydym ni yn cydnabod mai dy ddaioni di yw na'n rhoddwyd ni i fynu yn yſclyfaeth iddynt hwy, ac yn attolwg i ti yn wastadol barhau dy gyfryw drugareddau tu ac attom, fel y gallo yr holl fyd wybod mai tydi yw ein iachawdwr a'n gadarn waredwr ni, drwy Iesu Griſt ein Harglwydd, Amen.

Diolch am ymwared oddi-wrth blâ [illegible].

O Arglwydd Dduw, yr hwn a'n harchollaiſt ni am ein pechodau, ac a'n difethaiſt am ein hanwireddau, drwy dy ddiweddar ymweliad gorthrwm ac ofnadwy, ac [illegible] dy farnedigaeth a gofiaiſt dy drugaredd, ac a achubaiſt ein heneidiau allan o ſafn angeu: yr ydym ni yn offrwm i'th dadol ddaioni ein hunain, ein heneidiau a'n cyrph, y rhai a waredaiſt di, i fod yn aberth bywiol i ti, gan foliannu a mawrygu yn wastadol dy drugareddau ynghanol y gynnulleidfa, trwy Iesu Griſt ein Harglwydd, Amen.

Neu hyn.

YR ydym ni yn oſtyngedig yn cydnabod ger dy fron di, ô drugarocaf Dâd, y gallaſai yr holl gospedigaethau a fygythir yn dy gyfraith, yn gyfiawn ddiſcyn arnom ni, o herwydd ein [illegible] a chaledwch ein calonnau: Etto gan fod yn wiw gennit o'th dyner drugaredd, ar ein [illegible] ni, [illegible] niweidiol, i'r hwn yn ddiweddar i'n [illegible], ac edfryd i ni gorfoledd ac iechydwriaeth yn ein cyfannedd: yr ydym ni yn offrwm i'th ddwyfol fawredd, aberth moliant a diolch, gan glodfori a mawrygu dy ogoneddus Enw o herwydd dy ymgeledd a'th ragluniaeth drosom, drwy Iesu Griſt ein Harglwydd. Amen.

Y COLECT.

¶ Y COLECTAU, YR EPISTOLAU, A'r EFENGYLON a arferir ar amser gweinidogaeth Swpper yr Arglwydd, a'r Cymmun bendigedig trwy 'r flwyddyn.

Y Sul cyntaf yn Adfent.

Y Colect.

HOll alluog Dduw dyro râd i nyni i ymwrthod â gweithredoedd y tywyllwch ac i wiſco arfau y goleuni, yn awr yn amſer y fuchedd farwol hon, (pryd y daeth dy Fab Ieſu Griſt, i ymweled â nyni mewn mawr oſtyngeiddrwydd) fel y bydo i ni yn y dydd diweddaf, pan ddelo ef drachefn yn ei ogoneddus fawredd, i farnu byw a meirw, gyfodi i'r fuchedd anfarwol, trwyddo ef, yr hwn ſydd yn byw, ac yn teyrnaſu gyd â thi a'r Yſpryd glân, yr awr hon ac yn dragywydd. Amen.

Yr Epiſtol.

Na fyddwch yn nyledus — Rhuf. 13.
gwers 8. hyd y diwedd.

Yr Efengyl.

A phan ddaethant yn — Mat. 21.
gwers 1. hyd wers 14.

Yr ail Sul yn Adfent.

Y Colect.

YGwynfydedig Arglwydd, yr hwn a beraiſt yr holl Scrythur lân yn ſcrifennedic er ein athrawiaeth, a'n addyſc ni, Caniadhâ fod i ni mewn cyfryw fodd ei gwrando, ei darllain, ei chwilio, a'i dyſcu, ac i'n mewn ei ymborthi, fel y gallom trwy ddioddefaint a chonfforddd dy ſanctaidd air, gofleidio ac yn oeſtadol gynnal bendigaid obaith y fuchedd dragywyddol, yr hon a roddaiſt i ni, drwy ein Iachawdur Ieſu Griſt. Amen.

Yr Epiſtol.

Pa bethau bynnag a — Rhuf. 15.
gwers 4. hyd wers 13.

Yr Efengyl.

A bydd arwyddion — Luc. 21.
gwers 25. hyd wers 34.

Y trydydd Sul yn Adfent.

Y Colect.

ARglwydd, attolygwn i ti glustymwrando ein gweddiau, a thrwy dy radlawn ymweliad, goleua dywyllwch ein meddyliau, trwy ein Harglwydd Ieſu Griſt. Amen.

Yr Epiſtol.

Felly cyfrifed dyn — 1 Cor. 4.
gwers 1. hyd wers 6.

Yr Efengyl.

Ac Ioan, pan glybu — Mat. 11.
gwers 2. hyd wers 11.

Y pedwerydd Sul yn Adfent.

Y Colect.

DEffro Arglwydd attolwg i ti dy gadernid, a dyred i'n plith, ac â mawr nerth cymmorth ni, ac am y rhwyſtr a'r lluddias y ſydd arnom o ran anwiredd ein pechodau, bydded i'th ddaioni rad ti ein gwaredu ni yn ebrwydd, trwy ddiwygiad dy Fab ein Harglwydd: i'r hwn gyd â thi a'r Yſpryd glân, y bydde anrhydedd a gogoniant, yn oes oeſoedd. Amen.

Yr Epiſtol.

Llawenhewch yn — Phil. 4.
gwers 4. hyd wers 8.

Yr Efengyl.

Hon yw tyſtiolaeth Ioan. — Ioan 1.
gwers 19. hyd wers 29.

¶ Dydd Natalic Chriſt.

Y Colect.

HOllalluog Dduw, yr hwn a roddaiſt i ni dy un Mab i gymeryd ein natur arno, ac ei eni heddyw o forwyn bûr: Caniadhâ i ni fod wedi ein hadgenhedlu, a'n gwneuthur yn blant i ti trwy fabwys a rhâd, a pheunydd ein hadnewyddu trwy dy lân Yſpryd, trwy yr unrhyw ein Harglwydd Ieſu Griſt yr hwn ſydd yn byw ac yn teyrnaſu gyd â thi yn oes oeſoedd. Amen.

Yr Epiſtol.

Duw, wedi iddo lefaru — Hebr. 1.
gwers 1. hyd wers 13.

Yr Efengyl.

Yn y dechreuad — Ioan 1.
gwers 1. hyd wers 15.

¶ Dydd gwyl Sanct Stephan.

Y Colect.

CAniadhâ i ni Arglwydd, ddyſcu caru ein gelynion, drwy eſampl dy ferthyr Sanct Stephan, yr hwn a weddiodd tros ei erlidwŷr arnat ti, yr hwn wyt yn byw yn oes oeſoedd. Amen.

¶ Yna ychwaneger y Colect o'r Natalic, yr hwn a ddywedir yn oeſtad hyd Ddydd Calan.

Yr Epiſtol.

Ac Stephan yn gyflawn — Act. 7.
gwers 55. hyd y diwedd.

Yr Efengyl.

Wele, yr ydwyf — Matth. 23.
gwers 34. hyd y diwedd.

¶ Dygwyl Ioan Efengylwr.

Y Colect.

ARglwydd trugarog, ni a attolygwn i ti fwrw dy ddiſclair belydr goleuni ar dy Eglwys, fel y bo iddi, wedi ei goleuo trwy athrawiaeth dy wynfydedic Apoſtol ac Efengylwr Ioan, allu dyfod i'th oleuni tragywyddol, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd. Amen.

Yr Epiſtol.

Yr hyn oedd o'r dechreuad. — 1 Ioan 1.
gwers 1. hyd y diwedd.

Yr Efengyl.

Yr Ieſu a ddywedodd — Ioan 21.
gwers 19. hyd y diwedd.

¶ Dygwyl y Gwirioniaid.

Y Colect.

HOll-alluog Dduw, yr hwn [illegible] rhai yn ſugno [illegible] ymarweddiad, [illegible] ffydd [illegible], trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd. Amen.

Yr Epiſtol.

Ac mi a edrychais. — Datc. 14.
gwers 1. hyd wers 6.

Yr Efengyl.

Angel yr Arglwydd. — Matth. 2.
gwers 13. hyd wers 19.

¶ Y Sul gwedi y Natalic.

Y Colect.

OLl alluog Dduw, yr hwn a roddaiſt [illegible]
Megis ar Ddydd Natalic Chriſt. Ep.

Yr Epiſtol.

A hyn yr wyf yn ei ddywedyd: Gal. 4
gwers 1. hyd wers 8.

Yr Efengyl.

Llyfr cenhedliad Ieſu Griſt. Mat. 1
gwers 1. hyd y diwedd.

¶ *Dydd Calan, neu Enwaediad Chriſt.*

Y Colect.

HOll-alluog Dduw, yr hwn a wnaethoſt i'th wynfydedic Fab dderbyn enwaediad, a bod yn vfydd i'r Ddeddf er mwyn dyn: Caniadhâ i ni iawn enwaediad yr Yſpryd, fel y bo i'n calonnau a'n holl aelodau, wedi eu marwolaethu oddi wrth fydol a chnawdol anwydau, allu ym-mhob rhyw beth vfyddhau i'th wynfydedic ewyllys, trwy 'r vn-rhyw dy Fab Ieſu Griſt ein Harglwydd. Amen.

Yr Epiſtol.

Dedwydd yw y gŵr Rhuf. 4
gwers 8. hyd wers 13.

Yr Efengyl.

A bu pan aeth yr Angelion Luc. 2
gwers 15. hyd wers 22.

¶ *Os bydd Sul rhwng yr Yſtwyll a'r Calan, Yna 'r arferir yr vn Colect, Epiſtol, ac Efengyl ar y Cymmun, ac a ddywetpwyd ar Ddydd Calan.*

¶ *Dydd Gwyl Yſtwyll.*

Y Colect.

DUw, yr hwn trwy dywyſogaeth ſeren a ddangoſaiſt dy vn Mab i'r cenhedloedd: Caniatâ yn drugarog i ni y ſawl ydym i'th adnabod yr awr hon drwy ffydd, allu yn ôl y fuchedd hon gael mwynhiant dy ogoneddus dduwdod, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd. Amen.

Yr Epiſtol.

Er mwyn hyn yr wyf fi Ephes. 3
gwers 1. hyd wers 13.

Yr Efengyl.

Ac wedi geni yr Ieſu Mat. 2
gwers 1. hyd wers 13.

¶ *Y Sul cyntaf gwedi 'r Yſtwyll.*

Y Colect.

ARglwydd nyni a attolygwn i ti dderbyn yn drugarog weddiau dy bobl sydd yn galw arnat: a chaniadhâ iddynt ddeall a gwybod yr hyn a ddylent ei wneuthur, a chael hefyd râd a gallu i wneuthur yr vn-rhyw, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd. Amen.

Yr Epiſtol.

Am hynny yr wyf yn Rom. 12
gwers 1. hyd wers 6.

Yr Efengyl.

Rhieni yr Ieſu a aent Luc. 2
gwers 41. hyd y diwedd.

¶ *Yr ail Sul gwedi 'r Yſtwyll.*

Y Colect.

HOll-alluog a thragywyddol Dduw, yr hwn wyt yn llywiaw pob peth yn y nef a'r ddaiar, clyw yn drugarog ddeiſyfiadau dy bobl, a chaniadhâ i ni dy dangnefedd holl ddyddiau ein bywyd. Amen.

Yr Epiſtol.

Gan fod i ni Rom. 12
gwers 6. diwedd yn wers 16. o ſlaen, na fyddwch

Yr Efengyl.

A'r trydydd dydd Ioan 2
gwers 1. hyd wers 12.

¶ *Y Trydydd Sul gwedi 'r Yſtwyll.*

Y Colect.

HOll-alluog a thragywyddol Dduw, edrych yn drugarog ar ein gwendid; ac yn ein holl beryglon, a'n anghenion, eſtyn dy ddehau-law i'n cymmorth ac i'n hamddiffyn, trwy Griſt ein Harglwydd. Amen.

Yr Epiſtol.

Na fyddwch ddoethion Rom. 12
gwers 16. hyd y diwedd.

Yr Efengyl.

Gwedi dyfod yr Ieſu. Mat. 8
gwers 1. hyd wers 14.

Y pedwerydd Sul gwedi'r Yſtwyll.

Y Colect.

DUw, yr hwn a wyddoſt ein bod ni wedi ein goſod mewn cymmaint a chynnifer o beryglon, ac nas gallwn o herwydd gwendid dynol, ſefyll bob amſer yn vniawn: caniadhâ i ni iechyd enaid a chorph, fel y bo am yr holl bethau ydd ym ni yn eu dioddef am bechod, allu o honom drwy dy borth di eu gorfod a'u gorchfygu, trwy Griſt ein Harglwydd. Amen.

Yr Epiſtol.

Ymddaroſtynged pob enaid Rom. 13
gwers 1. hyd wers 8.

Yr Efengyl.

Ac wedi iddo fyned Mat. 8
gwers 23. hyd y dywedd.

Y pummed Sul gwedi 'r Yſtwyll.

Y Colect.

ARglwydd, ni a attolygwn i ti gadw dy Eglwys a'th deulu yn waſtad yn dy wir grefydd, fel y gallont hwy oll, y ſawl ſydd yn ymgynnal yn vnic wrth dy nefol râd, byth gael nawdd dy ddiogel amddiffyn, trwy Griſt ein Harglwydd. Amen.

Yr Epiſtol.

Megis etholedigion Duw, Coloſ. 3
gwers 12. hyd wers 18.

Yr Efengyl.

Teyrnas nefoedd ſydd Mat. 13
gwers 24. hyd wers 31.

Y chweched Sul (o bydd cynnifer) yr arferir yr vn Colect, yr vn Epiſtol, a'r Efengyl, ac ar y pummed Sul.

Y Sul a elwir Septuageſima.

Y Colect.

ARglwydd ni a attolygwn i ti wrando yn ddarbodus weddiau dy bobl, fel y byddo i ni y rhai a goſpir yn gyfiawn am ein camweddau, allu yn drugarog gael ein ymwared gan dy ddaioni di, er gogoniant dy Enw, trwy Ieſu Ghriſt ein Ceidwad, yr hwn ſydd yn byw, ac yn gwladychu yn oes oeſoedd, Amen.

Yr Epiſtol.

Oni wyddoch chwi 1 Cor.
gwers 24. hyd y diwedd.

Yr Efengyl.

Teyrnas nefoedd ſydd Mat.
gwers 1. hyd wers 17.

Y Sul a elwir Sexageſima.

Y Colect.

O Arglwydd Dduw, yr hwn a weli nad ydym ni yn ymddiried mewn vn weithred a wnelom: Caniadhâ yn drugarog fod i ni drwy dy nerth, gael ein amddiffyn rhag pob gwrthwyneb, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd. Amen.

Yr Epiſtol.

Yr ydych yn goddef 2 Cor.
gwers 19. hyd wers 32.

Yr Efengyl.

Gwedi i lawer o Luc. 8
gwers 4. hyd wers 16.

Y Sul a elwir Quinquageſima.

Y Colect.

O Arglwydd, yr hwn wyt yn dyſcu i ni na thâl dim ein holl weithredoedd a wnelom heb gariad perffaith; anfon dy Yſpryd glân, a thywallt yn ein calonnau rhagorol ddawn cariad perffaith, gwir rwymyn tangnefedd, a holl rinweddau dyheb yr hwn pwy bynnag ſydd yn byw a gyfrifir yn farw ger dy fron di: Caniadhâ hyn er mwyn dy vn Mab Ieſu Griſt. Amen.

Yr Epiſtol.

Pe llefarwn â thafodau 1 Cor. 13
gwers 1. hyd y diwedd.

Yr Efengyl.

Yr Ieſu a gymmerodd Luc. 18
gwers 31. hyd y diwedd.

§ *Y Dydd cyntaf o'r Grawys.*

Y Colect.

HOll-gyfoethog a thragywyddol Dduw, yr hwn ni chaſhei ddim a'r a wnaethoſt, ac a faddeui bechodau pawb y ſy edifeiriol; crëa a gwna ynom newydd a drylliedic galon; fel y bo i ni gan ddyledus ddoluriaw am ein pechodau, a chyfaddef ein trueni, allu caffael gennit, Dduw yr holl drugaredd, gwbl faddeuaint a gollyngdod, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd. Amen.

Yr Epiſtol.

Dychwelwch attafi Ioel 2
gwers 12. hyd wers 18.

Yr Efengyl.

Pan ymprydioch, Mat. 6
gwers 16. hyd wers 22.

§ *Sul cyntaf yn y Grawys.*

Y Colect.

O Arglwydd, yr hwn er ein mwyn a ymprydiaiſt ddeugain niwarnod a deugain nos, dyro i ni râd i ymarfer o gyfryw ſel y byddo i ni gan ddaroſtwng ein cnawd i'r Yſpryd, byth vfyddhau i'th dduwiol annog, mewn cyfiawnder a gwir ſancteiddrwydd, i'th anrhydedd a'th ogoniant, yr hwn wyt yn byw ac yn teyrnaſu yn oes oeſoedd. Amen.

Yr Epiſtol.

Nyni gan gydweithio, 2 Cor. 6
gwers 1. hyd wers 11.

Yr Efengyl.

Yna yr Ieſu a Mat. 4
gwers 1. hyd wers 12.

§ *Yr ail Sul o'r Grawys.*

Y Colect.

HOll-alluog Dduw, yr hwn wyt yn gweled nad oes gennym ddim meddiant o'n nerth ein hunain i'n cymmorth ein hunain: cadw di ni oddifewn ac oddi allan, ſef enaid a chorph, ac amddiffyn ni rhag pob gwrthwyneb a ddigwyddo i'r corph, a rhag pob drwg feddwl a wnêl niwed na chynnwrf i'r enaid, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd. Amen.

Yr Epiſtol.

Yn-mhellach gan hynny, 1 Theſſ. 4
gwers 1. hyd wers 9.

Yr Efengyl.

A'r Ieſu a aeth Mat. 15
gwers 21. hyd wers 29.

§ *Y trydydd Sul o'r Grawys.*

Y Colect.

NI a attolygwn i ti, Holl-alluog Dduw, edrych o honot ar ddeiſyfiadau dy vfydd weiſion, ac eſtyn ddeheu-law dy fawredd i fod yn ymwared i ni yn erbyn ein gelynion, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd. Amen.

Yr Epiſtol.

Byddwch ddilynwyr Duw, Eph. 5
gwers 1. hyd wers 15.

Yr Efengyl.

Ac yr oedd efe yn Luc. 11
gwers 14. hyd wers 29.

§ *Y Pedwerydd Sul o'r Grawys.*

Y Colect.

CAniadhâ, ni a attolygwn i ti Holl-alluog Dduw, fod i ni y [illegible] ddeſam ein drwg weithredoedd, trwy [illegible] dy râd ti, allu yn drugarog gael [illegible], trwy ein Harglwydd Ieſu Griſt. Amen.

Yr Epiſtol.

Dywedwch i mi, Gal. 4
gwers 21. hyd y diwedd.

Yr Efengyl.

Yr Ieſu a aeth Ioan 6
gwers 1. hyd wers 15.

§ *Y pummed Sul o'r Grawys.*

Y Colect.

NI a attolygwn i ti Holl-alluog Dduw, edrych o honot yn drugarog ar dy bobl: fel y bo iddynt trwy dy fawr ddaioni, gael byth eu llywodraethu mewn enaid a chorph, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd. Amen.

Yr Epiſtol.

Chriſt wedi dyfod Heb. 9
gwers 11. hyd wers 16.

Yr Efengyl.

Pwy o honoch a'm Ioan 8
gwers 46. hyd y diwedd.

§ *Y Sul neſaf o flaen y Paſc.*

Y Colect.

HOll gyfoethog a thragywyddol Dduw, yr hwn o'th garedigol ſerch ar ddyn, a ddanfonaiſt ein Iachawdwr Ieſu Griſt i gymmeryd arno ein cnawd, ac i ddioddef angau ar y groes, fel y gallai bob rhyw ddyn ddilyn eſampl ei fawr oſtyngeiddrwydd ef: Caniadhâ o'th drugaredd fod i ni ganlyn eſampl ei ddioddefaint, a bod yn gyfrannogion o'i gyfodiad, trwy yr vn Ieſu Griſt ein Arglwydd. Amen.

Yr Epiſtol.

Bydded ynoch y Phil. 2
gwers 5. hyd wers 12.

Yr Efengyl.

A bu wedi i'r Ieſu Mat. 26
gwers 1. hyd pennod 27. wers 57.

§ *Dydd Llun neſaf o flaen y Paſc.*

Yr Epiſtol.

Pwy yw hwn Eſay 63
gwers 1. hyd y diwedd.

Yr Efengyl.

Ac wedi dau-ddydd Marc 14
gwers 1. hyd y diwedd.

§ *Dydd Mawrth neſaf o flaen y Paſc.*

Yr Epiſtol.

Yr Arglwydd Dduw a Eſay 50
gwers 5. hyd y diwedd.

Yr Efengyl.

Ac yn y fan Marc 15
gwers 1. hyd y diwedd.

§ *Dydd Mercher neſaf o flaen y Paſc.*

Yr Epiſtol.

Lle bydd o Teſtament, Heb. 9
gwers 16. hyd y diwedd.

Yr Efengyl.

A neſſaodd gŵyl y Luc 22
gwers 1. hyd y diwedd.

§ *Dydd Iau neſaf o flaen y Paſc.*

Yr Epiſtol.

Wrth ddywedyd hyn, 1 Cor. 11
gwers 17. hyd y diwedd.

Yr Efengyl.

A'r holl liaws o Luc 23
gwers 1. hyd y diwedd.

§ *Dydd Gwener y Croglith.*

Y Colectau.

HOll-alluog Dduw, ni a attolygwn i ti edrych o honot yn raſol ar dy deulu hwn, yr hwn y bu fodlawn [illegible]

Ieſu Griſt gael ei fradychu, a'i roddi yn nwylaw dynion anwir, a dioddeſ angau ar y groes, yr hwn ſydd yn byw ac yn teyrnaſu gyda thydi a'r Yſpryd glân, yr awrhon ac yn dragywydd. Amen.

HOll-alluog a thragywyddol Dduw, trwy Yſpryd pa vn y llywodraethir ac y ſancteiddir holl gorph yr Eglwys, derbyn ein erfynion, a'n gweddiau, y rhai yr ydym ni yn eu hoffrwm ger dy fron di dros bob gradd o ddynion yn dy ſanctaidd gynnulleidfa, fel y bo i bob aelod o honynt yn ei alwedigaeth a'i waſanaeth, allu yn gywir, ac yn dduwiol dy waſanaethu di, trwy ein Harglwydd Ieſu Griſt. Amen.

O Drugarog Dduw, yr hwn a wnaethoſt bob dyn, ac ni chaſſeaiſt ddim ar a wnaethoſt, ac ni fynnit farwolaeth pechadur, onid yn hytrach ymchwelyd o honaw a byw: trugarhâ wrth yr holl Iuddewon, Twrciaid, Anffyddlonion, a Hereticiaid, a chymmer oddi-wrthynt bob anwybodaeth, caledwch calon, a thremyg ar dy air: ac felly dwg hwynt adref, wynfydedig Arglwydd, at dy ddefaid, fel y bônt gadwedig ym-mhlith gweddillion y gwir Iſraeliaid, a bod yn vn gorlan dan yr vn bugail Ieſu Griſt ein Harglwydd, yr hwn ſydd yn byw ac yn teyrnaſu, &c. Amen.

Yr Epiſtol.

Y gyfraith, yr hon Hebr. 10
gwers 1. hyd wers 26.

Yr Efengyl.

Gwedi i'r Ieſu ddywedyd Ioan 18
gwers 1. hyd diwedd pennod 19.

¶ Nôs Paſc.

Yr Epiſtol.

Gwell ydyw, os 1 Pet. 3
gwers 17. hyd y diwedd.

Yr Efengyl.

Wedi ei myned hi yn Mat. 27.
gwers 57. hyd y diwedd.

¶ Dydd Paſc.

¶ Ar Foreuol weddi, yn lle y Pſalm, Deuwch, canwn i'r Argl. &c. y canir, neu y dywedir yr Anthemau hyn.

CHriſt yn cyfodi o feirw, yr awr-hon ni bydd marw: nid arglwyddiaetha angau arno ef mwyach. Canys fel y bu efe farw, efe a fu farw vnwaith i dynnu ymmaith bechod, ac fel y mae yn fyw, byw y mae i Dduw. Felly meddyliwch chwithau hefyd eich meirw i bechod, ond bod yn fyw i Dduw, yng-Hriſt Ieſu ein Harglwydd.

CHriſt a gyfododd oddiwrth y meirw, ac a wnaed yn flaen-ffrwyth y rhai a hunaſant. O herwydd gan fod marwolaeth trwy ddyn, trwy ddyn hefyd y mae adgyfodiad y meirw. Oblegit, megis yn Adda y mae pawb yn meirw, felly yng-Hriſt y bywheir pawb.

Y Colect.

HOll-alluog Dduw, yr hwn drwy dy vnig-anedig fab Ieſu Griſt a orchfygaiſt angeu, ac a agoraiſt i ni borth y bywyd tragywyddol; yn vfydd yr attolygwn i ti, megis (drwy dy râd yſpyſawl yn ein hachub) ydd wyt yn peri deiſyfiadau da i'n meddyliau: felly trwy dy ddyfal gymmorth, allu o honom eu dwyn i berffeithrwydd cyfiawn, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd, yr hwn ſydd yn byw, ac yn teyrnaſu gyda thydi a'r Yſpryd glân, yr awrhon ac yn dragywydd. Amen.

Yr Epiſtol.

Os cyd-gyfodaſoch gyd â Coloſ. 3
gwers 1. hyd wers 8.

Yr Efengyl.

Y dydd cyntaf o'r wythnos Ioan 20
gwers 1. hyd wers 11.

¶ Dydd Llun Paſc.

Y Colect.

HOll-alluog Dduw, yr hwn drwy dy vnig-anedig fab Ieſu Griſt a orchfygaiſt angau, ac a agoraiſt i ni borth y bywyd tragywyddol: yn vfydd yr attolygwn i ti, megis (drwy dy râd eſpyſol yn ein hachub) y ddi wyt yn peri deiſyfiadau da i'n meddyliau, felly trwy dy ddyfal gymmorth allu o honom eu dwyn i ben da, trwy Ieſu Griſt ein Arglwydd, &c. Amen.

Yr Epiſtol.

Petr a agorodd ei enau, Act. 10
gwers 34. hyd wers 44.

Yr Efengyl.

Wele, dau o honynt Luc. 24
gwers 13. hyd wers 36.

¶ Dydd mawrth Paſc.

Y Colect.

HOll-alluog Dâd, yr hwn a roddaiſt dy vn Mab i farw dros ein pechodau, ac i gyfodi drachefn dros ein cyfiawnhâd: Caniadhâ i ni felly farw ymmaith ſurdoes drygioni ac anwiredd, fel y gallom yn waſtad dy waſanaethu di mewn purdeb buchedd a gwirionedd, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd. Amen.

Yr Epiſtol.

Ha-wyr frodyr, Act. 13
gwers 26. hyd wers 42.

Yr Efengyl.

Yr Ieſu a ſafodd, Luc. 24
gwers 36. hyd wers 49.

¶ Y Sul cyntaf gwedi y Paſc.

Y Colect.

HOll-alluog Dduw, &c. *Megis ar y Dydd Paſc.*

Yr Epiſtol.

Beth bynnag a aned 1 Ioan 5
gwers 4. hyd wers 13.

Yr Efengyl.

Yna, a hi yn hwyr Ioan 20
gwers 19. hyd wers 24.

¶ Yr ail Sul yn ôl y Paſc.

Y Colect.

HOll-alluog Dduw, yr hwn a roddaiſt dy vn Mab i ni yn aberth tros bechod, a hefyd yn eſampl o fuchedd dduwiol, dyro i ni dy râs, fel y gallom byth yn ddiolchgar dderbyn ei anrhaethawl leſhâd ef: a hefyd beunydd ymroi i ganlyn bendigedig lwybrau ei wîr ſancteiddrwydd ef. Amen.

Yr Epiſtol.

Hyn ſydd raſol, os 1 Pet. 2
gwers 19. hyd y diwedd.

Yr Efengyl.

Chriſt a ddywedodd, Ioan 10
gwers 11. hyd wers 17.

¶ Y Trydydd Sul yn ôl y Paſc.

Y Colect.

HOll-alluog Dduw, yr hwn wyt yn dangos i bawb ſy ar gyfeiliorn lewyrch dy wirionedd, er eu dwyn i ffordd cyfiawnder: Caniadhâ i bawb a dderbynier i gymdeithas crefydd Griſt, allu o honynt ymogel cyfryw bethau ac y ſydd wrthwyneb i'w proffeſs, a chanlyn y fath bethau oll ac ſydd yn cydtuno â'r vn-rhyw, trwy ein Harglwydd Ieſu Griſt. Amen.

Yr Epiſtol.

Anwylyd, yr wyf yn 1 Pet. 2
gwers 11. hyd wers 18.

Yr Efengyl.

Yr Ieſu a ddywedodd, Ioan 16
gwers 16. hyd wers 23.

¶ Y ped

Y pedwerydd Sul yn ôl y Pâſc.

Y Colect.

HOll-gyfoethog Dduw, yr hwn wyt yn gwneuthur meddyliau yr holl ffyddloniaid i fod o vn ewyllys: Caniadhâ i'th bobl, fod iddynt garu yr hyn yr wyt yn ei orchymyn, a deiſyfu yr hyn yr wyt yn ei addo, fel ym-mhlith amryfael ddamweiniau y byd, allu o'n calonnau gwbl aros yn y lle y mae gwir lawenydd iw gaffael, trwy Griſt ein Harglwydd. Amen.

Yr Epiſtol.

Pob rhoddiad daionus — Iaco 1
gwers 17. hyd wers 22.

Yr Efengyl.

Yr Ieſu a ddywedodd — Ioan 16
gwers 5. hyd wers 16.

Y Pummed Sul gwedi y Pâſc.

Y Colect.

ARglwydd, oddi-wrth ba vn y daw pob daioni, caniadhâ i ni dy wylaidd weiſion, allu o honom trwy dy ſanctaidd yſprydoliaeth dyfeddwl y pethau a fo vniawn, a thrwy dy ymgeleddus dywyſogaeth eu gwneuthur yn ddibennus, trwy ein Harglwydd Ieſu Griſt. Amen.

Yr Epiſtol.

Byddwch wneuthur-wyr — Iaco 1
gwers 22. hyd y diwedd.

Yr Efengyl.

Yn wîr, yn wîr, meddaf — Ioan 16
gwers 23. hyd y diwedd.

Dydd Iau Dyrchafael.

Y Colect.

CAniadhâ ni a attolygwn i ti Holl-alluog Dduw megis ac yr ym ni yn credu ddarfod i'th vnig-anedic fab ein Harglwydd dderchafel i'r nefoedd: felly bod i ninnau â meddwl-fryd ein calon allu ymdderchafel yno, a chyd ag ef drigo yn waſtadol.

Yr Epiſtol.

Y traethawd cyntaf a — Act. 1
gwers 1. hyd wers 12.

Yr Efengyl.

Yr Ieſu a ymddangoſodd — Marc 16
gwers 14. hyd y diwedd.

Y Sul yn ôl y Dyrchafel.

Y Colect.

O Dduw, y brenin y gogoniant, yr hwn a dderchafaiſt dy vn Mab Ieſu Griſt â mawr orchafiaeth i'th deyrnas yn y nefoedd: Attolwg i ti na âd ni yn anniddan, eithr danfon i ni dy Yſpryd glân i'n diddanu, a dyrcha ni i'r vn fan lle yr aeth ein Iachawdur Chriſt o'r blaen; yr hwn ſydd yn byw, ac yn teyrnaſu yn oes oeſoedd.

Yr Epiſtol.

Diwedd pôb peth a neſaodd — 1. Pet. 4
gwers 7. hyd wers 12.

Yr Efengyl.

Pan ddêl y Diddanudd — Ioan 15
gwers 26. diwedd Pennod 15. yn wers 4.

Y Sul gwyn.

Y Colect.

DVw, yr hwn ar gyfenw i'r amſer yma a ddyſgaiſt galonnau dy ffyddloniaid, gan anfon iddynt lewyrch dy lân Yſpryd: Caniadhâ i ninnau trwy yr vn-rhyw Yſpryd, ddeall yr iawn farn ym-mhob peth, a byth lawenychu yn ei wynfydedig ddiddanwch ef, trwy rinwedd ein Ieſu Griſt ein Iachawdwr, yr hwn ſydd yn byw, ac yn teyrnaſu gyd â thi yn vndeb yr vn-rhyw Yſpryd, yn vn Duw heb drangc na gorphen. Amen.

Yr Epiſtol.

Wedi dyfod dydd y Pentecoſt — Act. 2
gwers 1. hyd wers 12.

Yr Efengyl.

Yr Ieſu a ddywedodd i — Ioan 14
gwers 15. hyd y diwedd.

Dydd Llun y Sul-gwyn.

Y Colect.

Duw, yr hwn, &c. *Megis ar ddydd y Sul-gwyn.*

Yr Epiſtol.

Petr a agorodd ei enau — Act. 10
gwers 34. hyd y diwedd.

Yr Efengyl.

Felly y carodd Duw y byd — Ioan 3
gwers 16. hyd wers 21.

Dydd Mawrth y Sul-gwyn.

Y Colect.

Duw, yr hwn, &c. *Megis ar ddydd y Sul-gwyn.*

Yr Epiſtol.

Pan glybu yr Apoſtolion — Act. 8
gwers 14. hyd wers 18.

Yr Efengyl.

Yn wîr, yn wîr, meddaf — Ioan 10
gwers 1. hyd wers 11.

Sul y Drindod.

Y Colect.

HOll-alluog a thragywyddol Dduw, yr hwn a roddaiſt i ni dy weiſion râd, gan gyffeſſu ac addef dy wir ffydd, i adnabod gogoniant y dragywyddol Drindod, ac yn nerth y dwyfol fawredd i addoli yr vndod: Nyni a attolygwn i ti, fod i ni trwy gadernid y ffydd hon gael ein hamddiffyn oddi wrth bob gwrthwyneb, yr hwn wyt yn byw, ac yn teyrnaſu, yn vn Duw byth heb ddiwedd. Amen.

Yr Epiſtol.

Yn ôl y pethau hyn — Datc. 4
gwers 1. hyd y diwedd.

Yr Efengyl.

Yr oedd dŷn o'r Phariſeaid — Ioan 3
gwers 1. hyd wers 16.

Y Sul cyntaf gwedi y Drindod.

Y Colect.

DVw, yr hwn wyt wir nerth i bawb oll a'y ſy yn ymddiried ynot, yn drugarog derbyn ein gweddiau: a chan na ddichon gwendid ein marwol natur wneuthur dim da hebot ti, Caniadhâ i ni gymmorth dy râd, fel y bo i ni gan gadw dy orchymynion, ryngu bodd i ti ar ewyllys a gweithred: trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd.

Yr Epiſtol.

Anwylyd, carwn ei gilydd — 1. Ioan 4
gwers 7. hyd y diwedd.

Yr Efengyl.

Yr oedd rhyw wr goludog — Luc 16
gwers 19. hyd y diwedd.

Yr ail Sul gwedi y Drindod.

Y Colect.

ARglwydd parodd fod ir ofn ac cariad dy Sanctaidd Enw, can ni byth ni phalli gymmorth a llywodraethu y rhai a feithrinech yn ddiyſigl yn dy gariad: Caniadhâ hyn er cariad ar dy vn Mab Ieſu Griſt ein Harglwydd.

Yr Epiſtol.

Na ryfeddwch, fy mrodyr — 1. Ioan 3
gwers 13. hyd y diwedd.

Yr Efengyl.

Rhyw ŵr a wnaeth ſwpper — Luc 14
gwers 16. hyd wers 25.

Y trydydd Sul gwedi'r Drindod.

Y Colect.

ARglwydd ni a attolygwn i ti yn drugarog wrando arnom, a ninnau i'r rhai a roddaiſt galon i weddio, caniadhâ drwy dy nerth allu o honom gael ein hamddiffyn, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd. Amen.

Yr Epiſtol.

Byddwch bawb yn oſtyngedig 1.Pet.5
gwers 5. hyd wers 13.

Yr Efengyl.

Ac yr oedd yr holl Luc 15
gwers 1. hyd wers 11.

Y pedwerydd Sul gwedi'r Drindod.

Y Colect.

DUw Nawdd wr pawb oll y ſydd yn ymddiried ynot, heb pa un nid oes dim nerthawg, na dim ſanctaidd, chwanega ac amlhâ arnom dy drugaredd, fel y gallom (a thi yn llywiawdur ac yn dywyſog i ni) dreiddio drwy yr pethau bydol, modd na chollom yn llwyr y pethau tragywyddol: Caniadhâ hyn nefol Dad, er mwyn Ieſu Griſt ein Harglwydd.

Yr Epiſtol.

Yr ydwyf yn cyfrif Rhuf.8
gwers 18. hyd wers 24.

Yr Efengyl.

Byddwch drugarogion Luc 6
gwers 36. hyd wers 43.

Y pummed Sul gwedi'r Drindod.

Y Colect.

CAniadhâ Arglwydd, ni a attolygwn i ti, fod cwrs y byd hwn, trwy dy reoledigaeth di wedi ei dreſnu mor dangneddyfol ag y gallo dy gynnulleidfa di dy waſanaethu ym mhob duwiol heddwch, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd.

Yr Epiſtol.

Byddwch oll yn unfryd 1.Pet.3
gwers 8. diwedd yn wers 15.

Yr Efengyl.

Bu hefyd a'r bobl yn Luc 5
gwers 1. hyd wers 11.

Y chweched Sul gwedi'r Drindod.

Y Colect.

DUw, yr hwn a arlwyaiſt i'r rhai a'th garant gyfryw bethau daionus ac y ſydd uwch ben pob deall dŷn, tywallt i'n calonnau gyfryw ferch arnat, fel y byddo i ni gan dy garu ym mhob rhyw beth, allu mwynhau dy addewidion, y rai ſy fwy rhagorol nâ dim a fedrom ni ei ddeiſyf: trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd.

Yr Epiſtol.

Oni wyddoch chwi! Rhuf.6
gwers 3. hyd wers 12.

Yr Efengyl.

Yr Ieſu a ddywedodd Mat.5
gwers 20. hyd wers 27.

Y ſeithfed Sul gwedi'r Drindod.

Y Colect.

ARglwydd yr holl nerth a'r cadernid, yr hwn wyt Awdur a rhoddwr pob daioni, planna yn ein calonnau gariad dy Enw, ychwanega ynom wîr grefydd, Mactha nyni â phob daioni, ac o'th fawr drugaredd cadw ni yn yr un-rhyw, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd.

Yr Epiſtol.

Yn ôl dull dynol Rhuf.6
gwers 19. hyd y diwedd.

Yr Efengyl.

Yn y dyddiau hynny Marc 8
gwers 1. hyd wers 10.

Yr viij Sul gwedi'r Drindod.

Y Colect.

DUw, yr hwn ni thwyllir byth ei ragluniaeth, yn uvydd iſ a attolygwn i ti ſwrw oddiwrthym bob peth niweidiol, a rhoddi o honot i ni bob peth a fyddo da ac ein lleſ, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd, Amen.

Yr Epiſtol.

Y brodyr, dyled-wyr ydym Rhuf.8
gwers 12. hyd wers 18.

Yr Efengyl.

Ymogelwch rhag y Mat.7
gwers 15. hyd wers 22.

Y ix Sul gwedi'r Drindod.

Y Colect.

CAniadhâ i ni Arglwydd, attolwg i ti, yr Yſpryd i feddwl ac i wneuthur byth y cyfryw bethau ac a fo cyfiawn, fel y byddo i ni (y rhai ni allwn fod hebot) allu trwot ti fyw yn ôl dy ewyllys, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd. Amen.

Yr Epiſtol.

Ni fynnwn i chwi 1.Cor.10
gwers 1. hyd wers 14.

Yr Efengyl.

Yr Ieſu a ddywedodd Luc 16
gwers 1. hyd wers 10.

Y x Sul gwedi'r Drindod.

Y Colect.

BYdded dy drugarogion gluſtiau ô Arglwydd, yn agored i weddiau dy uſydd weiſion, ac fel y bo iddynt gael eu goſynion, gwna iddynt erchi y cyfryw bethau ac a ryngo bodd i ti, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd.

Yr Epiſtol.

Am yſprydol ddoniau frodyr 1.Cor.12
gwers 1. hyd wers 12.

Yr Efengyl.

Ac wedi iddo ddyfod yn Luc 19
gwers 41. diwedd yn wers 47.

Y xi Sul gwedi'r Drindod.

Y Colect.

DUw, yr hwn wyt yn eglurô dy Holl-alluog nerth yn bennaf gan ddangos trugaredd a thoſturi, amlhâ dy râd arnom, fel y bo i ni drwy gyrchu at dy addewidion, allu bod yn gyfrannogion o'th nefol dryſſor, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd.

Yr Epiſtol.

Yr ydwyf yn yſpyſu 1.Cor.15
gwers 1. hyd wers 12.

Yr Efengyl.

Chriſt a ddywedodd Luc 18
gwers 9. hyd wers 15.

Y xij Sul gwedi'r Drindod.

Y Colect.

HOll-alluog a thragywyddol Dduw, yr hwn yn waſtad wyt barottach i wrando, nâ nyni i weddio, ac wyt arferol o roddi mwy nag a archom, neu a haeddom, tywallt arnom amlder dy drugaredd, gan faddeu i ni y cyfryw bethau ac y mae ein cydwybod yn eu hofni, a rhoddi i ni y peth nîs feiddia ein gweddi ei erchi: trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd. Amen.

Yr Epiſtol.

Y cyfryw hyder ſydd 2.Cor.3
gwers 4. hyd wers 10.

Yr Efengyl.

Yr Ieſu a aeth Marc 7
gwers 31. hyd y diwedd.

Y xiij Sul gwedi'r Drindod.

Y Colect.

HOll-alluog a thrugarog Dduw, o rodd pwy yn unic y daw, bod i'th bobl ffyddlon dy waſanaethu yn gywir, ac yn fawledic: Caniadhâ, ni a attolygwn i ti, allu o honom redeg at dy nefol addewidion, megis na phallo gennym yn y diwedd eu mwynhau: trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd.

Yr Epiſtol.

I Abraham y gwnaethpwyd yr Gal.3
gwers 16. hyd wers 23.

Yr Eſengyl.

Gwyſa hyd y llygaid ſy Luc 10
gwers 23. hyd wers 38.

Y xiij Sul gwedi'r Drindod.

Y Colect.

HOll-alluog a thragywyddol Dduw, dyro i ni anghwaneg o ffydd, gobaith, a chariad perffaith: ac fel y gallom gael yr hyn ydd wyt yn ei addo, gwna i ni garu yr hyn yr wyt yn ei orchymyn, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd.

Yr Epiſtol.

Yr wyf yn dywedyd Gal. 5
gwers 16. hyd wers 25.

Yr Eſengyl.

Bu hefyd, ac efe yn Luc 17
gwers 11. hyd wers 20.

Y xv Sul gwedi'r Drindod.

Y Colect.

CAdw, attolygwn i ti Arglwydd, dy Eglwys â'th dragywyddol drugaredd: a chan na dichon gwendid dyn hebot ti ond ſyrthio, cadw ni byth trwy dy borth, ac arwain ni at bob peth buddiol i'n hiechydwriaeth, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd.

Yr Epiſtol.

Gwelwch cyhyd y llythyr Gal. 6
gwers 11. hyd y diwedd.

Yr Eſengyl.

Ni ddichon neb waſanaethu dau Mat. 6
gwers 24. hyd y diwedd.

Y xvi Sul gwedi'r Drindod.

Y Colect.

ARglwydd attolygwn i ti, fod i'th waſtadol dosturi lanhau ac amddiffyn dy gynulleidfa: a chan na all hi barhau mewn diogelwch heb dy fendigedic nodded, cadw hi byth gan dy borth a'th ddaioni, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd.

Yr Epiſtol.

Yr wyf yn dymuno Eph. 3
gwers 13. hyd y diwedd.

Yr Eſengyl.

A bu drannoeth, iddo Luc 7
gwers 11. hyd werſ. 18.

Y xvij. Sul gwedi'r Drindod.

Y Colect.

ARglwydd ni a attolygwn i ti, fod dy râd bob amſer yn ein rhagflaenu, ac yn ein dilyn; a pheri o honot i ni ynwaſtad ymroddi i bob gweithred dda, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd.

Yr Epiſtol.

Deiſyf arnoch yr wyf fi Eph. 4
gwers 1. hyd wers 7.

Yr Eſengyl.

Bu hefyd, pan ddaeth efe Luc 14
gwers 1. hyd wers 12.

Y xviij Sul gwedi'r Drindod.

Y Colect.

O Arglwydd, ni a attolygwn i ti ganiadhau i'th bobl râd i ymogelyd rhac llwgr y cythrael, ac â phur galon a meddwl i'th ddilyn di yr unic Dduw, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd.

Yr Epiſtol.

Yr ydwyf yn diolch 1. Cor. 1
gwers 4. hyd wers 9.

Yr Eſengyl.

Gwedi clywed o'r Phariſeaid Mat. 22
gwers 34. hyd y diwedd.

Y xix Sul gwedi'r Drindod.

Y Colect.

O Dduw, can na allwn ni hebot ti ryngu bodd i ti: caniadhâ fod i weithrediad dy drugaredd [illegible] lywiaw ein calonnau, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd.

Yr Epiſtol.

Hynny yr wyf yn Ephe. 4
gwers 17. hyd y diwedd.

Yr Eſengyl.

Yr Ieſu a aeth i Mat. 9
gwers 1. hyd wers 9.

Y xx Sul gwedi'r Drindod.

Y Colect.

HOll-gyfoethog a thrugarog Dduw, o'th ragorol ddaioni cadw ni rhag pob peth a'n drygo, fel y byddom yn barod yn enaid a chorph i allu â chalonnau rhyddion gyflawni y cyfryw bethau ac a fynnit ti eu gwneuthur, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd.

Yr Epiſtol.

Gwelwch gan hynny, Ephe. 5
gwers 15. hyd wers 22.

Yr Eſengyl.

Yr Ieſu a ddywedodd Matth. 22
gwers 1. hyd wers 15.

Yr xxi Sul gwedi'r Drindod.

Y Colect.

O Drugarog Arglwydd, ni a attolygwn i ti ganiadhau i'th ffyddlawn bobl faddeuant a thangnefedd, fel y glanhaer hwynt oddi-wrth eu holl bechodau, ac y gwaſanaethant ti â meddwl heddychol, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd.

Yr Epiſtol.

Fy mrodyr, ymnerthwch yn Ephe. 6
gwers 10 hyd werſ. 21.

Yr Eſengyl.

Yr oedd rhyw bendefig, Ioan 4
gwers 46 hyd y diwedd.

Y xxij. Sul gwedi'r Drindod.

Y Colect.

ARglwydd, ni attolygwn i ti gadw dy deulu, yr Eglwys mewn duwioldeb gwaſtadol, fel y bo trwy dy nodded ti, iddi gael ei gwaredu oddiwrth bob gwrthwyneb, ac yn ddefoſionol ymroi i'th waſanaethu di mewn gweithredoedd da, er gogoniant i'th Enw, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd.

Yr Epiſtol.

Fy Nuw yr ydwyf yn Phil. 1
gwers 3. hyd wers 12.

Yr Eſengyl.

Petr a ddywedodd Mat. 18
gwers 21. hyd y diwedd.

¶ Y xxiij. Sul gwedi'r Drindod.

Y Colect.

DUw ein nodded a'n cadernid, yr hwn wyt bennadur pob dwywolder, gwrando yn [illegible] ddefoſionol weddiau dy Eglwys, a chaniadhâ i ni am yr hyn ydd ym yn ei erchi yn ffyddlawn, allu o honom ei gael yn gyflawn, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd.

Yr Epiſtol.

Byddwch ddilynwyr i mi, Phil. 3
gwers 17. hyd y diwedd.

Yr Eſengyl.

Yna 'r aeth y Phariſeaid Mat. 22
gwers 15. hyd wers 22.

¶ Y xxiiij. Sul gwedi'r Drindod.

Y Colect.

ARglwydd, attolygwn i ti ollwng dy bobl oddiwrth eu camweddau, fel y byddom trwy dy ddaionus drugaredd ryddion oddiwrth rwymedigaethau ein holl bechodau, y rhai drwy ein gwendid a wnaethom: Caniadhâ hyn [illegible] rhaid ar Ieſu Griſt ein Harglwydd.

Yr Epiſtol.

Yr ydym yn diolch i Dduw Coloſſ. 1
gwers 3. hyd wers 12.

Y

Yr Efengyl.

Tra oedd yr Ieſu yn — Mat. 9
gwers 18. hyd wers 27.

Y 25. Sul gwedi'r Drindod.

Y Colect.

DEffro Arglwydd ni a attolygwn i ti, ewyllyſſion dy ffyddloniaid, fel y gallont drwy ddwyn aml ffrwyth gweithredoedd da, gael genyt ti yn helaeth eu gobrwyo, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd.

Yr Epiſtol.

Wele y dyddiau yn dyfod — Ier. 23
gwers 5. hyd wers 9.

Yr Efengyl.

Yna'r Ieſu a dderchafodd — Io. 6
gwers 5. hyd wers 15.

Os bydd mwy o Suliau cyn Sul yr Adfent, i gyflawni hynny y cymmerir gwaſanaeth rhai o'r Suliau a adawyd heibio rhwng yr Ystwyll, a Septuageſima.

Sanct Andreas Apoſtol.

Y Colect.

HOll-alluog Dduw, yr hwn a roddaiſt gyfryw râd i'th fendigedig Apoſtol S. Andreas, fel yr vfyddhaod ef yn ebrwydd i alwad dy Fab Ieſu Griſt, ac y dilynodd ef yn ddirwyſtr: Caniadhâ i ni oll, wedi ein galw gan dy air bendigedic, yn fuan ymroddi o honom yn vfydd i ddilyn dy ſanctaidd orchymynion, trwy yr vn-rhyw Ieſu Griſt ein Harglwydd.

Yr Epiſtol.

Os cyffeſi â'th enau — Rhuf. 10
gwers 9. hyd y diwedd.

Yr Efengyl.

A'r Ieſu yn rhodio — Matth. 4
gwers 18. hyd wers 22.

S. Thomas Apoſtol.

Y Colect.

HOll-alluog a bythol-fywiol Dduw yr hwn, er mwy o ſicrhawch y ffydd, a oddefaiſt i'th ſanctaidd Apoſtol Thomas ammau cyfodiad dy Fab: Caniadhâ i ni cyn berffeithied, ac mor gwbl ddiammau gredu yn dy Fab Ieſu Griſt, fel na cheryddêr ein ffydd yn dy olwg byth: a gwrando arnom, ô Arglwydd, drwy yr vn-rhyw Ieſu Griſt, i ba vn gyd â thi a'r Yſpryd glân y bo holl anrhydedd a gogoniant yn oes oeſoedd

Yr Epiſtol.

Weithian nid ydych — Eph. 2
gwers 19. hyd y diwedd.

Yr Efengyl.

Thomas, vn o'r deuddeg — Io. 20
gwers 24. hyd y diwedd.

Troad Sanct Paul.

Y Colect.

DVw, yr hwn a ddyſcaiſt yr holl fyd drwy bregeth dy wynfydedic Apoſtol S. Paul: Ni a attolygwn i ti ganiadhau i ni, (i'r rhai y mae ei ryfedd ymchweliad ef mewn coffa) allu dilyn a chyflawni dy fendigedic ddyſceidiaeth, yr hon a ddyſcodd efe, trwy Griſt ein Harglwydd.

Yr Epiſtol.

A Saul etto yn chwythu — Act. 9
gwers 1. hyd wers 22.

Yr Efengyl.

Petr a attebodd — Matth. 19
gwers 27. hyd y diwedd.

Puredigaeth y Santes Mair forwyn.

Y Colect.

HOll-alluog a thragywyddol Dduw, ni a attolygwn yn vfyddol i'th fawrhydi, megis ag y cyfryw i heddyw y preſentiwyd i'r deml dy vnig-anedig fab yn ſylwedd ein cnawd ni: felly Caniadhâ ein preſentio i ti â meddyliau pur-lan, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd.

Yr Epiſtol.

Yr vn ac a oſodwyd tros y Sul.

Yr Efengyl.

Wedi cyflawni dyddiau — Luc 2
gwers 22. diwedd yn wers 27.

Sanct Matthias.

Y Colect.

HOll-alluog Dduw, yr hwn yn lle Iudas fradwr a ddetholaiſt dy ffydd-lawn wâs Matthias i fod o nifer dy ddeuddec Apoſtol: Caniadhâ fod dy Eglwys yn gadwedic oddi-wrth Apoſtolion ffeilſion, a bod ei threfnu a'i llywodraethu gan wŷr a ffydd-lawn fugeiliaid, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd.

Yr Epiſtol.

Yn y dyddiau hynny — Act. 1
gwers 15. hyd y diwedd.

Yr Efengyl.

Yr amſer hynny yr — Matth. 11
gwers 25. hyd y diwedd.

Cyfarchiad Mair Wyryf.

Y Colect.

NI a attolygwn i ti ô Arglwydd, dywallt dy râd yn ein calonnau, fel, megis ac y gwyddom gnawdoliaeth Griſt dy Fab trwy gennadwri yr Angel, felly trwy ei groes a'i ddioddefaint, bod i ni gael ein dwyn i ogoniant ei adgyfodiad ef, trwy yr vn-rhyw Ieſu Griſt ein Harglwydd.

Yr Epiſtol.

Yr Arglwydd a chwanegodd — Eſa. 7
gwers 10. hyd gwers 16.

Yr Efengyl.

Ac yn y chweched mis, — Luc 1
gwers 26. hyd gwers 38.

Dydd S. Marc Efengyl-wr.

Y Colect.

HOll-alluog Dduw, yr hwn a ddyſcaiſt dy ſanctaidd Eglwys â nefol athrawiaeth dy Efengylwr S. Marc, dôd ti i ni râd, na byddom fel plant, ymchweledic gan bob awel o wâg ddyſceidiaeth: eithr bod i ni yn ſyrf ymgadarnhau y ngwirionedd dy lân Efengyl, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd.

Yr Epiſtol.

I bob vn o honom y — Eph. 4
gwers 7. hyd wers 17.

Yr Efengyl.

Myfi yw y wîr win-wydden. — Ioan 15
gwers 1. hyd wers 11.

S. Philip ac Iaco Apoſtolion.

Y Colect.

HOll-alluog Dduw, yr hwn dy wîr adnabod yw bywyd tragywyddol: Caniadhâ i ni berffeithiaw adnabod dy Fab Ieſu Griſt i fod yn ffordd, yn wirionedd, ac yn fywyd, megis y dyſcaiſt i S. Philip ac Apoſtolion eraill: trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd.

Yr Epiſtol.

Iaco, gwaſanaethwr Duw, — Iaco. 1
gwers 1. hyd wers 12.

Yr Efengyl.

A'r Ieſu a ddywedodd — Ioan 14
gwers 1. hyd wers 14.

S. Barnabas Apoſtol.

Y Colect.

HOll-alluog Arglwydd, yr hwn a wiſcaiſt dy ſanctaidd Apoſtol Barnabas â rhagorol roddion dy Yſpryd glân: Na âd i ni fod yn ddiffaeth o'th amryw ddoniau, na etto o râd, iw harfer

[illegible]

hwynt bob amser i'th anrhydeddu di a'th ogoniant: trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd.

Yr Epiſtol.

A'r gair a ddaeth i — Act. 11
gwerſ. 22. hyd y diwedd.

Yr Efengyl.

Dymma fy ngorchymmyn i — Io. 15
gwerſ. 12. hyd werſ. 17.

S. Ioan Fedyddiwr.

Y Colect.

HOll-alluog Dduw, o ragluniaeth pa vn y ganed yn rhyfedd dy wâs Ioan Fedyddiwr, ac yr anfonwyd ef i arlwyo ffordd dy Fâb Ieſu Griſt ein Iachawdur, gan bregethu edifeirwch: gwna i ni felly ddilyn ei ddyſceidiaeth a'i ſanctaidd fywyd ef, fel y gallom yn wir edifarhau yn ôl ei bregeth ef, ac ar ôl ei eſampl yn waſtadol draethu y gwirionedd, yn hyderus geryddu camwedd, ac yn vfydd ddioddef er mwyn y gwirionedd, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd.

Yr Epiſtol.

Cyſurwch, cyſurwch fy mhobl, — Eſa. 40.
gwerſ. 1. hyd werſ. 12.

Yr Efengyl.

A chyflawnwyd tymp — Luc. 1
gwerſ. 57. hyd diwedd.

S. Petr Apoſtol.

Y Colect.

HOll-alluog Dduw, yr hwn drwy dy Fâb Ieſu Griſt a roddaiſt i'th Apoſtol S. Petr lawer o ddoniau arbennig, ac a orchymynnaiſt iddo o ddifrif borthi dy ddefaid: gwna, ni a attolygwn i ti, i'r holl Eſcobion, a'r Bugeiliaid, yn ddyfal bregethu dy ſanctaidd air, ac i'r bobl yn vfyddgar ddilyn yr vnrhyw, fel y byddo iddynt hwy allu derbyn corôn y gogoniant tragywyddol, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd.

Yr Epiſtol.

Ynghylch y pryd hynny — Act. 12
gwerſ. 1. hyd werſ. 12.

Yr Efengyl.

Wedi dyfod yr Ieſu i — Mat. 16
gwerſ. 13. hyd werſ. 20.

S. Iaco Apoſtol.

Y Colect.

CAniattâ, ô drugarog Dduw, megis y bu i'th wynfydedic Apoſtol Iaco gan ymado â'i Dâd, a chwbl ar oedd eiddo, yn ebrwydd vfyddhau i alwad dy Fâb Ieſu Griſt, a'i ddilyn ef: felly i ninnau gan ymwrthod â holl fydol ac â chnawdol ewyllyſion, yn dragywydd fod yn barod i ddilyn dy orchymynion, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd.

Yr Epiſtol.

Yn y dyddiau hynny, — Acts 11
gwerſ. 27. diwedd yn pennod 12. werſ. 3.

Yr Efengyl.

Yna y daeth mam — Mat. 20
Gwerſ. 20. hyd werſ. 29.

S. Bartholomeus Apoſtol.

Y Colect.

HOll-alluog a bythbarhaus Dduw, yr hwn a roddaiſt râd i'th Apoſtol Bartholomeus, i wir gredu, ac i bregethu dy air, dyro ni a attolygwn i ti ganiadhau i'th Eglwys garu yr hyn a gredodd efe, a phregethu yr hyn a ddyſcwyd ganddo, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd.

Yr Epiſtol.

Trwy ddwylaw yr — Act. 5
Gwerſ. 12. hyd werſ. 17.

Yr Efengyl.

A bu ymryſon yn eu plith, — Luc. 22
gwerſ. 24. werſ. 31.

S. Matthew Apoſtl.

Y Colect.

HOll-alluog Dduw, yr hwn drwy dy wynfydedic Fâb a elwaiſt Fatthew o'r doll-fa, i fod yn Apoſtol, ac yn Efengylwr: Caniadhâ i ni râd i ymwrthod â holl gybydd-dod ddeiſyfion, ac â thrachwantus ſerch golud bydol, ac i ddilyn dy ddywededic Fâb Ieſu Griſt, yr hwn ſydd yn byw, ac yn teyrnaſu gyd â thi a'r Yſpryd glân yn oes oeſoedd. Amen.

Yr Epiſtol.

Gan fod i ni y — 2. Cor. 4
gwerſ. 1. hyd werſ. 7.

Yr Efengyl.

Ac fel yr oedd yr Ieſu — Mat. 9
Gwerſ. 9. hyd werſ. 14.

S. Michangel a'r holl Angelion.

Y Colect.

DRagywyddol Dduw, yr hwn a ordeiniaiſt, ac a oſodaiſt waſanaethau'r holl Angelion a dynion mewn trefn ryfedd: Caniadhâ yn drugarog iddynt hwy, y rhai ſy yn waſtad yn gwneuthur i ti waſanaeth yn y nefoedd, fod drwy dy drefnid di yn borth ac yn amddiffyn i ni ar y ddaear, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd. Amen.

Yr Epiſtol.

A bu rhyfel yn y nef i — Datc. 12.
gwerſ. 7. hyd werſ. 13.

Yr Efengyl.

Yr awr honno y daeth y — Mat. 18
gwerſ. 1. hyd werſ. 11.

S. Luc Efengylwr.

Y Colect.

HOll-alluog Dduw, yr hwn a elwaiſt Luc y phyſygwr, yr hwn y mae ei fol(i)ant yn yr Efengyl, i fod yn phyſygwr i'r enaid: rhynged bodd i ti drwy iachus feddyginiaeth ei ddyſceidiaeth ef, iachâu holl heintiau ein heneidiau, trwy dy Fâb Ieſu Griſt ein Harglwydd.

Yr Epiſtol.

Gwilia di ym mhob peth, — 2. Tim. 4
gwerſ. 5. hyd werſ. 16.

Yr Efengyl.

Yr Arglwydd a ordeiniodd — Luc. 10
gwerſ. 1. diwedd yn werſ y ſaith.

S. Simon a Iud Apoſtolion.

Y Colect.

HOll-alluog Dduw, yr hwn a adeiladaiſt dy gynnulleidfa ar ſail yr Apoſtolion, a'r prophwydi, ac Ieſu Griſt ei hun yn ben congl-faen: Caniadhâ i ni fod felly ein cyſylltu yng hyd yn vndeb yſpryd gan eu dyſceidiaeth hwy, fel i'n gwneler yn ſanctaidd Deml gymmeradwy genit, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd.

Yr Epiſtol.

Iudas, gwaſanaethwr Ieſu. Iud.
gwers 1 hyd wers 21.

Yr Efengyl.

Hyn yr wyf yn ei orchymmyn Io. 15
gwers 17. hyd y diwedd.

Gwyl yr holl Sainct.

Y Colect.

HOll-alluog Dduw, yr hwn a gyſylltaiſt yngghyd dy etholedigion yn vn cyſundeb, a chymdeithas yn nirgeledic gorph dy Fab Criſt ein Harglwydd: Caniadhâ i ni râd felly i ganlyn dy ddwywol Sainct ym mhob rhinweddol a ddywiol fywyd, fel y gallom ddyfod ir anrhaethawl lawenydd hynny a baratoaiſt i'r rhai yn ddyffuant ſy i'ch garu, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd. Amen.

Yr Epiſtol.

Wele, mi Ioan a welais Datc. 7
gwers 2. hyd wers 13.

Yr Efengyl.

Pan welodd yr Ieſu y Mat. 5
gwers 1. hyd wers 13.

Diwedd y Collectau.

¶ Y DREFN AM WENIDOGAETH Swpper yr Arglwydd, neu yr Cymmun bendigaid.

CYmmifer ac a fyddo yn amcaon bod yn gyfrannogion o'r Cymmun bendigedic, a arwyddocant eu henwau i'r Curat y nos o'r blaen, neu yr boreu cyn dechreu y weddi foreuol, neu yn y fan gwedi.

Ac o bydd vn o'r rhai hynny yn ddrwg-fucheddol cyhoedd, fel y byddo ef gwrthwynebus gan y gynnulleidfa: neu a wnaeth gam i'w gymmydog ar air, neu ar weithred: Y Curat wrth gael gwybyddiaeth o hynny, a'i geilw ef, ac a'i cynghôra na ryfygo efe er dim ddyfod i ford yr Arglwydd, hyd oni ddeclario efe yn gyhoeddus ei fod yn wir edifeiriol, a darfod iddo wellhau ei ddrwg fuchedd o'r blaen; fel y bodloner y gynnulleidfa wrth hynny: yr hon a rwyſtrasid yn y blaen: A darfod iddo wneuthur iawn i'r neb y gwnaethoedd gamwedd â hwynt: Neu o'r lleiaf, dadcan ei fod mewn cyflawn fryd i wneuthur felly yn gyntaf ac y gallo yn gymhedrol.

Y drefn hon a arfer y Curat am y ſawl y gwypo efe fod malis a chasineb yn teyrnasu rhyngddynt; ni ddioddef iddynt fod yn gyfrannogion o fwrdd yr Arglwydd, hyd pan wypo eu bod hwynt wedi cydtuno. Ac os vn o'r pleidiau anheddychol a fydd bodlawn i faddeu o eigion ei galon gwbl ac a wnaethpwyd yn ei erbyn, ac i wneuthur iawn i bawb ac a rwyſtrawdd yntef ei hunan; a'r blaid arall ni fyn ei ddwyn i dduwiol vndeb, onid ſefyll yn wastad yn ei wrthnyfigrwydd a'i falais: Y Gwenidog yn yr achos hynny a ddyly dderbyn y dyn edifeiriol i'r Cymmun bendigedic, ac nid y dyn ystyfnig anhydyn.

Y bwrdd ar amser y Cymmun â lliain gwyn têg arno, a faif ynghorph yr Eglwys, neu yn y Gafell, lle byddo yr foreuol a'r brydnhawnol weddi, wedi ordeinio ei dywedyd. A'r offeiriad, gan ſefyll wrth yr ystlys gogledd ir bwrdd, a ddywaid weddi yr Arglwydd, a'r Colect ſydd yn canlyn.

¶ Y CYMMVN.

EIn Tâd yr hwn wyt yn y nefoedd, ſancteiddier dy Enw. Deuet dy deyrnas. Bid dy ewyllys ar y ddaiar megis y mae yn y nefoedd. Dyro i ni heddyw ein bara beunyddiol. A madden i ni ein dyledion, fel y maddeuwn ni i'n dyled-wyr. Ac nac arwain ni i brofedigaeth. Eithr gwaret ni rhag drwg. Amen.

YR holl-alluog Dduw, i'r hwn y mae pob calon yn agored, a phob deiſyf yn gydnabyddus, a rhag yr hwn nid oes dim dirgel yn guddiedic, glanhâ feddyliau ein calonnau trwy yſprydoliaeth dy lân Yſpryd, fel y caroni dydi yn berffaith, ac y mawrhâom yn deilwng dy Enw ſanctaidd, trwy Griſt ein Harglwydd. Amen.

¶ *Yna yr offeiriad a draetha yn eglur y ddeng-air deddfol. A'r bobl ar eu gliniau ar ôl pob vn o'r gorchymynion a archant drugaredd Duw am eu torri hwynt, yn y modd hyn.*

Y Gwenidog.

DVw a leſarodd y geiriau hyn, ac a ddywedodd, Myfi yw yr Arglwydd dy Dduw: Na fydded it dduwiau eraill onid myfi.

Pobl.

Arglwydd trugarhâ wrthym, a goſtwng ein calonnau i gadw y gyfraith hon.

Gwenidog.

Na wna it dy hun ddelw gerfiedic, na llun dim a'r y ſydd yn y nefoedd vchod, neu yn y ddaiar iſod, nac yn y dwfr tan y ddaiar: Na oſtwng iddynt ac na addola hwynt. Canys myfi yr Arglwydd dy Dduw ydwyf Dduw eiddigus, yn ymweled a phechodau y tadau ar y plant, hyd y drydedd a'r bedwaredd genhedlaeth o'r rhai a'm caſânt, ac yn gwneuthur trugaredd i filoedd o'r rhai a'm carant, ac a gadwant fy ngorchymynion.

Pobl.

Arglwydd trugarhâ wrthym, a goſtwng ein calonnau i gadw yr gyfraith hon.

Gwenidog.

Na chymmmer Enw yr Arglwydd dy Dduw yn oſer, canys nid gwirion gan yr Arglwydd yr hwn a gymmero ei Enw ef yn oſer.

Arglwydd trugarhâ wrthym, a goſtwng ein calonnau i gadw y gyfraith hon.

Gwenidog.

Coſia gadw yn ſanctaidd y dydd Sabbath. Chwe diwrnod y gweithi ac y gwnei dy holl waith, eithr y ſeithfed dydd yw Sabbath yr Arglwydd dy Dduw: ar y dydd hwnnw na wna ddim gwaith, tydi, na'th fab, na'th ferch, na'th was, na'th forwyn, na'th anifail, na'r dyn dieithr a fyddo o fewn dy byrth. Canys mewn chwe diwrnod y gwnaeth yr Arglwydd nef a daiar, y môr ac oll y ſydd yddynt, ac a orphywyſodd y ſeithfed dydd: O herwydd paham y bendithiodd yr Arglwydd y ſeithfed dydd, ac ai ſancteiddiodd ef.

Pobl.

Arglwydd trugarhâ wrthym, a goſtwng ein calonneu i gadw y gyfraith hon.

Gweinidog.

Anrhydedda dy dad a'th fam, fel yr eſtynner dy ddyddiau ar y ddaiar yr hon a rydd yr Arglwydd dy Dduw i ti.

Pobl.

Arglwydd trugarhâ wrthym, a goſtwng ein calonnau i gadw yr gyfraith hon.

Gweinidog.

Na ladd.

Pobl.

Arglwydd trugarhâ wrthym, a goſtwng ein calonnau i gadw y gyfraith hon.

Gweinidog.

Na wna odineb.

Pobl.

Arglwydd trugarhâ wrthym, a goſtwng ein calonnau i gadw y cyfraith hon.

Gweinidog.

Na ledratta.

Pobl.

Arglwydd trugarhâ wrthym, a goſtwng ein calonnau i gadw y gyfraith hon.

Gweinidog.

Na ddwg gam dyſtiolaeth yn erbyn dy gymmydog.

Pobl.

Arglwydd trugarhâ wrthym, a goſtwng ein calonnau i gadw y gyfraith hon.

Gweinidog.

Na chwennych dŷ dy gymmydog, na chwennych wraig dy gymmydog, na'i wâs, na'i forwyn, na'i ych, na'i aſſyn, na dim ar ſydd eiddo.

Pobl.

Arglwydd trugarhâ wrthym, ac ſcrifenna yr holl ddeddfau hyn yn ein calonnau, ni a attolygwn i ti.

¶ *Yna y canlyn y Colect o'r dydd, gyd ag un o'r ddau Golect hyn ſy yn canlyn, dros y Brenin: a'r Offeiriad yn ei ſefyll wrth y ford a ddywed.*

Gweddiwn.

Holl-alluog Dduw, yr hwn ſydd a'i deyrnas yn dragywyddol, a'i allu yn anfeidrol, cymmer drugaredd ar yr holl gynnulleidfa, a rheola felly galon dy ddewiſedic waſanaethwr *Charles* ein Brenhin a'n llywydd; fel y gallo efe (gan wybod i bwy y mae yn weinidog) uchlaw pob dim geiſio dy anrhydedd a'th ogoniant: Ac fel y gallom ninneu ei ddeiliaid ef (gan feddylied yn ddyledus oddi-wrth bwy y mae yr awdurdod ſydd iddo) yn ffyddlon ei waſanaethu, a'i anrhydeddu, ac yn oſtyngedig ufyddhau iddo, ynot ti, ac erot ti, yn ôl dy fendigedig air a'th ordinhâd, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd, yr hwn gyd â thi a'r Yſpryd glân, ſydd yn byw, ac yn teyrnaſu yn dragywydd yn un Duw, heb drange na gorphen. Amen.

Holl-alluog a thragywyddol Dduw, i'n dyſcir gan dy air ſanctaidd, fod calonnau Brenhinoedd wrth dy reolaeth a'th lywodraeth di; a'th fod ti yn eu goſod hwynt, ac yn eu hymchwelyd, fel y mae dy dduwiol ddoethineb yn gweled bod yn oreu: Yr ydym ni yn oſtyngedig yn attolwg i ti, felly oſod a llywodraethu calon *Charles* dy waſanaethwr, ein Brenhin a'n llywydd, fel y gallo efe yn ei holl feddyliau, geiriau, a gweithredoedd, yn waſtad geiſio dy anrhydedd a'th ogoniant, a myfyrio ar gadw dy bobl a rodded yn ei gadwriaeth ef, mewn digonoldeb, tangneddyf, a duwioldeb: Caniadhâ hyn drugarog Dâd, er cariad ar dy anwyl Fab Ieſu Griſt ein Harglwydd. Amen.

¶ *Yn y fan wedi yr Colectau, y darllen yr offeiriad yr Epiſtol, gan ddechreu fel hyn.*

Yr Epiſtol ſcrifennedic yn yr   pennod o &c.

¶ *Ac wedi diweddu yr Epiſtol, efe a ddywed yr Efengyl gan ddechreu fel hyn:*

Yr Efengyl a ſcrifennir yn yr   pennod o &c.

¶ *Ac wedi gorphen yr Epiſtol a'r Efengyl, y dywedir y Credo.*

Credaf yn un Duw Tâd, Holl-alluog, Creawdwr Nefoedd a daiar, ac oll weledigion, ac anweledigion. Ac yn ein Harglwydd Ieſu Griſt, yr unic cenhedledig Fab Duw, cenhedledig gan ei Dâd cyn yr holl oeſoedd, Duw o Dduw, llewyrch o lewyrch, gwir Dduw, o wir Dduw, cenhedledig nid gwneuthuredig, yn un hanfod â'r Tâd, gan yr hwn y gwnaethpwyd pob peth; yr hwn erom ni ddynion, ac er ein iechydwriaeth a ddiſcynnodd o'r nefoedd, ac a gnawdiwyd drwy yr Yſpryd glân o Fair forwyn, ac a wnaethpwyd yn ddyn, ac a groeshoeliwyd hefyd troſom tan Pontius Pilatus. Efe a ddioddefodd ac a gladdwyd, a'r trydydd dydd efe a adgyfododd yn ôl yr Scrythyrau, ac a eſcynodd i'r nef, ac y ſydd yn eiſtedd ar ddeheu-law yr Tâd. A thrachefn y daw efe drwy ogoniant i farnu y byw a'r meirw, ac ar ei deyrnas ni bydd trange. A chredaf yn yr Yſpryd glân, yr Arglwydd a'r Bywhawdur, yr hwn ſydd yn deilliaw o'r Tâd a'r Mâb, yr hwn ynghŷd a'r Tâd a'r Mâb a gŷd addolir, ac a gŷd-ogoneddir, yr hwn a lefarodd trwy yr Prophwydi. A chredaf fod un Catholic ac Apoſtolic Eglwys. Addefaf un Bedydd er maddeuaint pechodau. Ac edrychaf am adgyfodiad y meirw, a bywyd y byd ſydd ar ddyfod. Amen.

¶ *Ar ôl y Credo, oni bydd pregeth, y canlyn un o'r homiliau a ddodwyd allan eiſus, neu a ddodir allan rhag llaw, drwy awdurdod gyffredin.*

¶ *Ac ôl cyfryw bregeth, neu homili, neu Gyngor y Curad a fynega i'r bobl, a fydd na gwyliau, nac ymprydiau [illegible] yr wythnos a fo yn canlyn, gan eu cynghori hwynt yn ddyfal i feddwl am y tlodion, a dywedyd un, neu anghwaneg o'r ymadroddion hyn ſy yn canlyn, fel y gwelo efe fod yn oreu, wrth ei ddeall ei hun.*

Diſcleirier eich goleuni ger bron dynion, fel y gwelont eich gweithredoedd da, ac yr anrhydeddont eich Tâd yr hwn ſydd yn y nefoedd. Matth. 5.16.

Na chaſclwch dryſſor i chwi ar y ddaiar, lle y mae gwyfyn a rhŵd yn llygru, a lle y mae lladron yn cloddio trwodd, ac yn lladratta: eithr caſclwch i chwi dryſſorau yn y Nef, lle nid oes na gwyfyn na rhwd yn llygru, a lle nis cloddia yr lladron trwodd, ac nis lladrattant. Matt. 6. 19, 20.

Beth bynnac a ewyllyſioch ei wneuthur o ddynion i chwi, felly gwnewch chwithau iddynt hwy: canys hyn yw y gyfraith a'r Prophwydi. Matth. 7.12.

Nid pwy bynnac a ddywed wrthif, Arglwydd Arglwydd, a ddaw i deyrnas nefoedd, ond yr hwn a wna ewyllys fy Nhâd yr hwn ſydd yn y nefoedd. Matth. 7.21.

Zaccheus a ſafodd ac a ddywedodd wrth yr Arglwydd, wele Arglwydd, yr ydwyf yn rhoddi hanner fy [illegible] i'r tlodion ac os dygym ddim oddiar neb trwy dwyll, mi a'i talaf ar ei bedwerydd. Luke 19.8.

Pwy erioed a ryfelodd ar ei draul ei hun? pwy ſydd yn plannu gwinllan, ac heb fwytta o'i ffrwyth hi? neu pwy ſydd yn porthi praidd, ac heb fwytta o laeth y praidd? 1 Cor. 9.7.

Os hauaſom i chwi bethau Yſprydol, ai mawr yw, os nyni a fedwn eich pethau cnawdol? 1 Cor. 9.11.

1.Cor.9. 13,14. Oni wyddoch chwi fod y rhai ſy yn gwneuthur pethau cyſſegredic, yn bwytta pethau o'r cyſſegr? a bod y rhai ſy yn gwaſanaethu yr allor, yn gyfrannogion o'r allor? Yr vn wedd yr ordeiniodd yr Arglwydd i'r rhai a bregethent yr Efengyl, fyw wrth yr Efengyl.

2.Cor. 9.6,7. A hauo ychydig, a fêd ychydyg, ac a hauo yn helaeth a fêd yn helaeth. Pob vn megis y mae yn amcanu yn ei galon, felly gwnaed, nid yn athriſt, neu wrth gymmell, canys y mae yn hoff gan Dduw roddwr llawen.

Gal.6. 6,7. Y neb a ddyſcwyd yn y gair, cyfranned o'i dda oll â'r hwn a'i dyſcodd ef. Na thwyller chwi, ni watwerir Duw: canys pa beth bynnac a hauo dyn, hynny a fêd efe.

Gal.6. 10. Tra caffom amſer, gwnawn dda i bob dŷn, ac yn enwedic i'r rhai ſy o deulu y ffydd.

1.Tim. 6.6,7. Duwiolder ſydd gyfoeth mawr, o bydd dŷn foddlon i'r hyn ſydd ganddo, canys ni ddaeth gennym ddim i'r byd, ac ni allwn ddwyn dim o'r byd ymaith.

1.Tim. 6.17,18. and 19. Gorchymyn i'r rhai ſy gyfoethogion yn y bŷd hwn fod yn barod i roddi, ac yn llawen i gyfrannu, gan oſod ſail dda iddynt eu hun erbyn yr amſer ſydd yn dyfod, fel y caffont y bywyd tragywyddol.

Heb.6.10. Nid ydyw Duw yn anghyfion, fel y gollyngo dros gof eich gweithredoedd a'ch trafael a ddel o gariad, yr hyn a ddangoſaſoch chwi er mwyn ei Enw ef, y ſawl a roeſoch i'r Saint, ac ydych etto yn rhoddi.

Heb.13. 16. Na ollyngwch dros gof wneuthur daioni a chyfrannu: canys â chyfryw aberth y boddloner Duw.

1.Iohn 3.17. Pwy bynnac ſydd iddo dda yr byd hwn, ac a welo ei frawd mewn eiſiau, ac a gaeo ei drugaredd odiwrtho, pa fodd y mae cariad Duw yn trigo ynddo ef?

Tob.4 7. Dyro gardod o'th dda, ac na thro vn amſer dy wyneb oddi-wrth vn dŷn tlawd, ac felly ni thrŷ'r Arglwydd ei wyneb oddi-wrthit titheu.

Tob.4. 8,9. Bydd drugarog yn ôl dy allu: os bydd llawer i'th helw dyro yn aml, os bydd ychydic, bydd ddyfal i roddi yn llawen o'r ychydic: canys felly y cynnulli i ti dy hun wobr dda yn nydd yr anghenrhaid.

Dihar. 19.17. Y neb a gymero drugaredd ar y tlawd, ſydd yn rhoddi echwyn i'r Arglwydd ac edrych beth a roddo efe ymaith, fe a delir iddo drachefn.

Pſal. 41.1. Bendigedic fyddo'r dŷn a roddo i'r claf a'r anghenus: yr Arglwydd a'i gwared ef yn amſer trwbl.

¶ Yna wardeniaid yr Eglwys, neu vn arall troſtynt, a gaſglant ddefoſiwn y bobl, ac a'i dodant yn-mlwch y tlodion: ac ar y dyddiau goſodedig i offrymmu, taled pawb i'r Curat yr offrymmau dyledus, ac arferedic. Wedi darfod hynny y dywed yr offeiriad.

¶ Gweddiwn dros holl ſtât Eglwys Griſt ſy yn milwrio yma ar y ddaiar.

Onid bydd dim eluſeni wedi ei roddi i'r tlodion, yna gadawer y geiriau hyn (gymmeryd ein eluſen a) heb ddywedyd.

HOll-alluog a thragywyddol Dduw, yr hwn trwy dy ſanctaidd Apoſtol a'n dyſcaiſt i wneuthur gweddiau ac erfyniau, ac i ddiolch dros bob dŷn: yr ydym ni yn oſtyngedic yn attolwg i ti yn drugarocaf *gymmeryd ein eluſeni, a derbyn ein gweddiau hyn, y rhai 'r ydym yn eu hoffrwm i'th ddwyfol fawredd, gan attolygu i ti yſprydoli yn waſtad yr Eglwys gyffredinol ag Yſpryd y gwirionedd, vndeb, a chyd-gordio: a chaniadhâ i bawb ac y ſy yn cyffeſſu dy Enw ſancteiddiol, gytuno yn gwirionedd dy ſanctaidd air, a byw mewn vndeb a duwiol gariad. Ni a attolygwn i ti hefyd gadw, ac ynddiffyn holl Griſtianus Frenhinoedd, Tywyſogion a llywiawd-wŷr, ac yn enwedic dy waſanaethwr *Charles* ein Brenhin, fel y caffom tano ef ein llywodraethu yn dduwiol, ac yn heddychol: A chaniad-hâ iw holl gyngor ef, ac i bawb ac y ſydd wedi eu goſod mewn awdurdod dano, allu yn gywir, ac yn vniawn rannu cyfiawnder, er coſpi drygioni a phechod, ac er maentumio gwir grefydd Duw a rhinwedd dda. Dyro râd nefol Dâd i'r holl Eſcobion, Bugeiliaid a Churadiaid, fel y gallont drwy eu buchedd a'u hathrawiaeth oſod allan dy wîr a'th fywiol air, a gwaſanaethu dy ſanctaidd Sacramentau yn iawn ac yn ddyladwy: a dyro i'th holl bobl dy nefawl râd, ac yn enwedig i'r gynnulleidfa hon ſydd yma yn gydrychiol, fel y gallont ag vfydd galon a dyledus barch wrando a derbyn dy ſanctaidd air, gan dy waſanaethu yn gywir mewn ſancteiddrwydd ac vniondeb bob dydd o'u bywyd. Ac ydd ym yn oſtyngedic yn attolygu i ti o'th ddaioni Arglwydd, gonfforddio a nerthu pawb ac y ſy yn y bywyd trangcedic hwn mewn trwbl, triſtwch, angen, clefyd, neu ryw wrthwyneb arall: Caniadhâ hyn, nefol Dâd, er cariad ar Ieſu Griſt, ein vnic gyfryng-wr a'n dadleu-wr. Amen.

¶ Yna y canlyn y cyngor hwn ar ryw amſeroedd, pan welo yr Curad y bobl yn eſceulus am ddyfod i'r Cymmun bendigedic.

YR ydym ni wedi dyfod ynghyd yr awr hon, (wîr garedigion frodyr) i ymborth a'r Swpper yr Arglwydd, i'r hwn o ran Duw i'ch gwahoddaf bawb ac y ſydd yma yn gynhyrchiol, ac a attolygaf iwch er cariad ar yr Arglwydd Ieſu Griſt, na wrthodoch ddyfod iddo, gan eich bod mor garedigol wedi eich galw, a'ch gwahodd gan Dduw ei hunan. Chwi a wyddoch mor ofidus, ac mor angharedic o beth yw, pan fo gŵr wedi arlwyo gwledd werth-fawr, ac wedi trwſio ei fwrdd â phob rhyw arlwy, megis na bai ddim yn eiſieu onid y gwahodd-wŷr i eiſtedd: ac etto y rhai a alwyd, heb ddim achos, yn annioIchuſaf, yn gwrthod dyfod: pwy vn o honoch chwi yn y cyfryw gyflwr ni chyffroci? pwy ni thybygai wneuthur cam a ſyrhaed mawr iddo? Herwydd pa ham, fy anwyl garedicaf frodyr ynGhriſt, gwiliwch yn dda rhag i chwi, wrth ymwrthod â'r Swpper ſancteiddiol hwn, annog bâr Duw i'ch erbyn. Hawdd i ddŷn ddywedyd, ni chymmunaf fi, o herwydd bod negeſau bydol i'm rhwyſtro: eithr y cyfryw eſcuſodion nid ydynt mor hawdd eu derbyn yn gymeradwy ger bron Duw. Os dywed neb, yr wyf fi yn bechadur brwnt, ac am hynny yn ofni dyfod: pa'm, gan hynny nad ydych chwi yn edifarhau, ac yn gwellhau? A chan fod Duw yn eich galw, onid oes gywilydd arnoch ddywedyd na ddeuwch? Pan ddylech chwi ymchwelyd at Dduw, a ymeſcuſodwch chwi, a dywedyd nad ydych barod? Yſtyriwch yn ddifrif ynoch eich hunain, fychaned a dâl y cyfryw goeg eſcuſodion ger bron Duw. Y rhai a wrthodaſant y wlêdd yn yr Efengyl, oblegit iddynt brynu tyddyn, neu brofi eu hieuau ychen, neu oblegit eu priodi, ni chawſant felly mo'u heſcuſodi, onid eu cyfrif yn annheilwng o'r wledd nefawl. Myfi o'm rhan i, wyf yma yn breſennol, ac o herwydd fy ſwydd, yr ydwyf yn eich gwahodd yn Enw Duw. Ydd wyf i'ch galw o ran Chriſt, a megis y caroch eich Iechydwriaeth eich hunain yr wyf i'ch cynghori i fod yn gyfrannogion o'r Cymmun bendigedic hwn. Ac fel y bu wiw gan Fâb Duw fadeu ei enaid gan angeu ar y groes dros eich iechyd chwi, felly yn yr vn modd y dylech chwithau gymmeryd y Cymmun

ynghyd

ynghŷd er coſ am ei angau ef, fel y gorchymynnodd efe ei hun. Yn awr, os chwychwi nis gwnewch fel hyn, Meddyliwch ynoch eich hunain faint y cam-wedd yr ydych yn ei wneuthur â Duw, ac mor ſlŷn yw'r boen y ſydd goruwch eich pennau am hynny. A lle yr ydych yn anfodloni Duw mor drwm, wrth ymwrthod â'r wynfydedic wlêdd hon, ydd wyf i'ch rhybuddio, i'ch cynghori, ac yn attolygu i chwi, nad anghwanegoch yr angharedigrwydd hyn ymmhellach: yr hwn beth a wnewch, os chwychwi a ſaif gan lygad-rythu, ac edrych ar y ſawl ſy yn Cymmuno, ac heb fod yn gyfrannogion o honaw eich hunain: Canys pa beth y bernir hynny amgen, nâ mwy o ddirmyg, ac angharedigrwydd tu ag at Dduw? Diau anniolch mawr yw i chwi naccau pan i'ch galwer? Ond y mae yr bai yn fwy o lawer, pan fo rhai yn ſefyll ger llaw, ac etto heb na bwyta, nac yſed y ſanctaidd Gymmun hwn gyd ag eraill. Atolwg iwch, pa beth amgenach yw hyn, onid gwatwar a diſtadlu dirgeledigaethau Chriſt? Wrth bawb yr ydys yn dywedyd, *Cymmerwch a bwytewch, Cymmerwch, ac yfwch bawb o hwn, Gwnewch hyn er coſ am danaf.* A pha wyneb gan hynny, neu â pha ddigywilydd-dra y gwrandewch chwi y geiriau hyn? Beth ſydd hyn amgen, onid eſceuluſo, diyſtyru a gwatwar Teſtament Criſt? Herwydd pam, yn gynt nac y gwneloch felly, ewch ymaith, a gedwch le i'r rhai y ſy â meddwl duwiol ganddynt. Eithr pan ſyddoch yn myned ymaith, mi a attolygaf i chwi feddwl ynoch eich hunain, oddi-wrth bwy yr ydych yn myned: Yr ydych yn myned oddi-wrth fwrdd yr Arglwydd, yr ydych yn myned oddi wrth eich brodyr, ac oddi-wrth wledd y nefolaf ymborth. Os y pethau hyn a yſtyriwch yn ddifriſol, chwi a drowch drwy râd Duw i feddwl a fo gwell. Ac er mwyn caffael hyn yr vfydd erſyniwn, tra fyddom yn cymmeryd y Cymmun bendigedic.

¶ *Ac ar ryw amſeroedd y dywedir hyn yma hefyd, pan welo y Curat fod yn berthynaſol.*

ANwyl garedigion, yn gymaint a'n bôd ni yn gwbl ddyledus i roddi i'r Holl-alluog Dduw ein Tâd nefol, wir galonnog ddiolch, am iddo roddi ei Fâb ein Iachawdwr Ieſu Griſt, nid yn vnic i farw droſom, onid hefyd i fod yn ymborth ac yn gynhaliaeth yſprydol i nyni, fel yr eglurwyd i ni, yn gyſtal drwy air Duw, a thrwy y Sacramentau bendigedic o'i gorph a'i waed ef: Yr hwn gan ei fod yn beth mor gonfforddus i'r rhai a'i cymerant yn deilwng, ac mor beryglus i'r rhai a ryſygo ei gymeryd yn annheilwng: ſy nylêd i yw eich cynghori chwi i yſtyried teilyngdod y dirgeledigaeth bendigedic, a'r mawr berigl ſydd o'i gymmeryd ef yn annheilwng, ac felly chwilio a holi eich cydwybodau eich hunain, fel y dylech ddyfod yn ſanctaidd ac yn lân i'r dduwiolaf a'r nefolaf wlêdd. Ac na ddeloch ddim, onid yn y wiſg briodas, yr hon a ofyn Duw yn yr Scrythur lân, ac felly dyfod, a chael eich derbyn, fel teilwng gyfrannogion o gyfryw fwrdd nefol. Y ffordd a'r modd i hynny, ſydd fel hyn; Yn gyntaf bod i chwi chwilio, a holi eich bucheddau, a'ch ymddygiad, wrth reol gorchymynion Duw: ac ym-mha beth bynnac y gwypoch iwch bechu, pa vn bynnag ai ar ewyllys, ai ar air, ai ar weithred, yna ymofidiwch am eich bucheddau pechadurus: Cyffeſſwch eich hunain i'r Holl-alluog Dduw, gan gyflawn frŷd i wellhau eich buchedd. Ac os chwi a welwch eich camweddau yn gyfryw, ac nad ſint yn vnic yn erbyn Duw, nâmyn hefyd yn erbyn eich cymmydogion: yna bod i chwi gymodi â hwynt, gan fod yn barod i wneuthur iddynt iawn a thâl hyd yr eithaf o'ch gallu, am bob cam a thraha a'r a wnaethoch i neb arall: Ac yn yr vn modd, bod o honoch yn barod i faddeu i eraill a wnaethant i'ch erbyn chwithau, megis ac y mynnech chwithau gael maddeuaint am eich camweddau ar law Duw: Canys mewn modd amgen, nid yw cymmeryd y Cymmun bendigedic ddim ond anghwanegu eich barnedigaeth. Ac o herwydd bôd yn angenrheidiol na ddêl neb i'r Cymmun bendigedic, onid gan gyflawn ymddiried yn nhrugaredd Dduw, ac â heddychol gydwybod: gan hynny o bydd neb o honoch, (oblegit y moddion hynny,) heb allu heddychu ei gydwybod ei hun, onid bod yn rhaid iddo ychwaneg o gyſſur, neu gyngor, yna deued attaf fi, neu at vn arall doeth, dyſcedic, y ſydd weinidog Gair Duw, ac agored ei ddolur, fel y gallo dderbyn cyfryw gyngor yſprydol, hyfforddiad, a chonfforddd, fel y gallo ei gydwybod ymyſcafnhau: a thrwy weinidogaeth gair Duw, allu o honaw dderbyn cyſſur, a daioni y gollyngdod, er heddychu ei gydwybod, ac ymochelyd pob petruſder, ac anwybodaeth.

¶ *Yna y dywed yr Offeiriad y cyngor hwn.*

ANwyl garedigion yn yr Arglwydd, y ſawl ſydd yn meddwl dyfod i fendigedic Gymmun corph a gwaed ein Iachawdwr Chriſt, rhaid i chwi yſtyried beth y mae Sanct Paul yn ei ſcrifennu at y Corinthiaid, fel y mae efe yn cynghori pawb iw profi, ac iw holi eu hunain yn dyfal, cyn iddynt ryfygu bwytta o'r bara hwnnw, ac yfed o'r cwppan hwnnw. Canys fel y mae y llês yn fawr, os â chalon wîr edifeiriol, ac â bywiol ffydd y cymmerwn y Sacrament bendigedic hwnnw (canys yna ydd ŷm ni yn yſprydawl yn bwytta cîg Chriſt, ac yn yfed ei waed ef; yna yr ydym yn trigo yng-Hriſt, a Chriſt ynom ninnau, ydd ŷm ni yn vn â Chriſt, a Chriſt â ninnau) felly y mae y perigl yn fawr, os ni a'i cymmer yn annheilwng. Canys yna ydd ŷm ni yn euog o gorph a gwaed Chriſt ein Iachawdwr, yr ydym ni yn bwyta ac yn yfed ein barnedigaeth ein hunain, heb yſtyried corph yr Arglwydd. Yr ydym yn ennyn digofaint Duw i'n herbyn, yr ŷm ni yn ei annog ef i'n plau ag amrafael glefydau, ac amryw angau. Gan hynny o bydd neb o honoch yn gabl-wr Duw, yn rhwyſtro neu yn enllibio ei air ef, yn odinebwr, neu mewn malais, neu genfigen, neu mewn rhyw fai enyddus arall, ymofidiwch dros eich pechodau ac na ddelwch i'r bwrdd ſancteiddiol hwn, rhag (yn ôl cymmeryd y Sacrament bendigedic hwnnw) i ddiafol fyned ynoch chwithau, megis ydd aeth mewn Iuddas, a'ch llenwi yn llawn o bob anwiredd, a'ch dwyn i ddinistr, enaid a chorph. Bernwch gan hynny eich hunain (frodyr) megis na'ch barner gan yr Arglwydd. Gwir edifarhewch am eich pechodau a aeth heibio. Bid gennwch ffydd fywiol a diogel ffydd yng-Hriſt ein Iachawdwr. Gwellhewch eich buchedd, a byddwch mewn cariad perffaith â phawb: felly y byddwch weddus gyfrannogion o'r dirgeledigaethau ſancteiddiol hyn. Ac o flaen pob peth y mae yn rhaid i chwi roddi goſtyngeiddiaf a charedicaf ddiolch i Dduw Tâd, y Mab, a'r Yſpryd glân, am brynedigaeth y byd, drwy angau a dioddefaint ein Iachawdwr Chriſt Duw a dyn, yr hwn a ymoſtyngodd i angau ar y groes droſom ni bechaduriaid truain, y rhai oeddym yn gorwedd mewn tywyllwch a chyſcod angau, fel y gallei efe ein gwneuthur ni yn blant i Dduw, a'n dyrchafel i fywyd tragywyddol. Ac er cofio o honom yn waſtad ddirfawr gariad ein Harglwydd a'n vnic Iachawdur Ieſu Griſt fel hyn yn marw droſom, a'r aneirif ddoniau daionus, y rhai (drwy dywallt ei werthfawr waed) a enillodd efe i ni: efe a oſododd, ac a ordeiniodd ſanctaidd ddirgeledigaethau, fel gwyſtlon o'i gariad, a gwaſtadol gof am ei angeu, er mawr ac anherfynawl gonffordd i ni. Can hynny iddo ef, gyd â'r Tad, a'r Yſpryd glân, rhoddwn (fel ydd ŷm rwymediccaf) waſtadol ddiolch, gan ymoſtwng yn gwbl iw ſanctaidd ewyllys ef: a myfyrio ei waſanaethu ef mewn gwir ſancteiddrwydd, a chyfiawnder, holl ddyddiau ein heinioes. Amen.

¶ *Yna y dywed yr Offeiriad wrth y rhai a fo yn dyfod i gymmeryd y Cymmun bendigedic.*

CHwychwi y ſawl y ſydd yn wîr, ac yn ddifriſol yn edifarhau am eich pechodau, ac y ſydd mewn cariad perffaith a'ch cymmydogion, ac yn meddwl dilyn buchedd newydd, a chanlyn gorchymynion Duw, a rhodio o hyn allan yn ei ffyrdd ſancteiddiol ef; Deuwch yn nês, a chymmerwch y Sacrament ſancteiddiol hwn i'ch conffordd, a gwnewch eich goſtyngedic gyffes i'r Holl-alluog Dduw, gar bron y gynnulleidfa hon y ſydd wedi ymgynnull yma ynghŷd yn ei ſanctaidd enw ef, gan oſtwng yn vſydd ar eich gliniau.

¶ *Yna y dywedir y gyffes gyffredin hon, yn enw pawb o'r rhai a fyddont ar feddwl cymmeryd y Cymmun bendigedig, naill ai gan vn o honynt hwy, ai gan vn o'r Gweinidogion, a'i gan yr Offeiriad ei hun, gan oſtwng o bawb yn vſydd ar eu gliniau.*

OLl-alluog Dduw, Tad ein Harglwydd Ieſu Griſt, gwneuthur-wr pob dim, barn-wr pob dyn, ydd ŷm ni yn cydnabod, ac yn ymofidio dros ein amryw bechodau an anwiredd, y rhai o ddydd i ddydd yn orthrwm a wnaethom, ar feddwl, gair, a gweithred, yn erbyn dy Dduwiol fawredd, gan annog yn gyfiawnaf dy ddigofaint a'th fâr i'n herbyn. Yr ydym yn ddifrifol yn edifarhau, ac yn ddrwg gan ein calonnau, dros ein cam-weithredoedd hyn, eu coffa ſy drwm gennym, eu baich ſydd anrhaith ei oddef: Trugarhâ wrthym, trugarhâ wrthym, drugaroccaf Dâd, er mwyn dy vn Mâb ein Harglwydd Ieſu Griſt, maddeu i ni yr hyn oll a aeth heibio, a chaniatâ i ni allu byth o hyn allan, dy waſanaethu a'th fodloni, mewn newydd-deb buchedd, er anrhydedd a gogoniant dy enw; trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd. Amen.

¶ *Yna yr Offeiriad neu yr Eſcob (os bydd yn gydrychiol) a ſaif, gan droi at y bobl, a dywedyd fel hyn.*

HOll-alluog Dduw, ein Tad nefawl, yr hwn o'i fawr drugaredd a addewis faddeuaint pechodau i bawb gan edifeirwch calon, a gwîr ffydd a ymchwel atto, a drugarhâo wrthych, a faddeuo i chwi, ac a'ch gwaredo oddiwrth eich holl bechodau, ac a'ch cadarnhâo, ac a'ch cryfhao ym-mhob daioni, ac a'ch dygo i fywyd tragywyddawl, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd. Amen.

¶ *Yn ôl hynny y dywed yr Offeiriad.*

¶ Gwrandewch pa ryw eiriau conffordddus a ddywed ein Iachawdur Chriſt wrth bawb a wîr ymchwelont atto ef.

Deuwch attaf fi bawb ac y ſydd yn trafaelu ac yn llwythog, a mi a eſmwythaf arnoch.

Felly y carodd Duw y bŷd, fel y rhoddes efe ei vnigenedic Fab, modd nad elai neb a gredai ynddo ef ynghyfrgoll, namyn caffael bywyd tragywyddol.

¶ Gwrandewch hefyd beth y mae Sanct Paul yn ei ddywedyd.

Hwn ſydd air gwîr, a theilwng i bawb iw dderbyn, ddyfod o Ieſu Griſt i'r *byd* i iachâu pechaduriaid.

¶ Gwrandewch hefyd beth a ddywaid Sanct Ioan.

Os pecha neb, y mae i ni ddadleu-wr gyd â'r Tad, Ieſu Griſt y cyfiawn; ac efe yw yr aberth dros ein pechodau.

¶ *Yn ôl y rhai hyn yr â yr Offeiriad rhagddo, gan ddywedyd.*

Derchefwch eich calonnau.

Atteb.

Yr ydym yn eu derchafael i'r Arglwydd.

Yr Offeiriad.

Diolchwn i'n Harglwydd Dduw.

Atteb.

Mae yn addas, ac yn gyfiawn gwneuthur hynny.

Yr Offeiriad

Y mae yn gwbl addas, yn gyfiawn, a'n rhwymedic ddylêd ni yw, bob amſer, ac ym-mhob lle, ddiolch i ti Arglwydd ſancteiddiol Dad, Oll-alluog, dragywyddol Dduw.

¶ *Yma iſſod y canlyn y rhagymadroddion priodawl wrth yr amſer, os bydd yr vn wedi ei oſod yn yſpyſawl. Ac onid ê, yn ddi-oed y canlyn.*

Can hynny gyd âg Angelion, ac Arch-angelion, &c.

Rhagymadroddion priawd.

¶ *Ar ddyd Natalic Chriſt, a ſaith niwrnod gwedi.*

AM i ti roddi Ieſu Griſt dy vn Mâb iw eni ar gyfenw i heddyw droſom ni: yr hwn trwy weithrediad yr Yſpryd glân a wnaethpwyd yn wîr ddyn, o hanfod y forwyn Fair ei fam, a hynny heb ddim pechod, i'n gwneuthur ni yn lân oddiwrth bob pechod. Gan hynny gyd âg Angelion, ac Arch-angelion, &c.

¶ *Ar ddydd Paſc, a ſaith ddiwrnod gwedi.*

ONd yn bendifaddef, ydd ŷm yn rhwymedic i'th foliannu, dros anrhydeddus gyfodiad dy Fab Ieſu Griſt ein Harglwydd: canys efe yw'r gwîr oen Paſc, yr hwn a offrymwyd droſom, ac a ddilêawdd bechod y byd, yr hwn trwy ei angeu ei hun a ddiniſtriodd angeu, a thrwy ei adgyfodiad i fywyd a adferodd i ni fywyd tragywyddol: Can hynny gŷd âg Angelion, &c.

¶ *Ar ddydd y Dyrchafael, a ſaith ddydd gwedi.*

TRwy dy anwyl garediccaf Fab Ieſu Griſt ein Harglwydd, yr hwn yn ôl ei anrhydeddus gyfodiad, a ymddangoſodd yn eglur iw holl Apoſtolion, ac yn eu golwg a eſcynnodd i'r nefoedd, i baratoi lle i ni, megis lle y mae efe yno yr eſcynnem ninnau hefyd, ac y teyrnaſom gyd ag ef mewn gogoniant: Can hynny gyd ag Angelion, &c.

¶ *Ar ddydd Sûl-gwyn, a chwe diwrnod yn ôl.*

TRwy Ieſu Griſt ein Harglwydd, yr hwn yn ôl ei gywiraf addewid y deſcynnodd yr Yſpryd glân heddyw o'r nef, â diſymwth ſŵn mawr megis gwynt nerthoc, ar wêdd tafodau tanllyd: gan ddiſcyn ar yr Apoſtolion iw dyſcu hwynt, ac iw harwain i bob gwirionedd, gan roddi iddynt ddawn amryw ieithoedd, a hyder hefyd gyd â chariad gwreſog, yn ddyfal i bregethu yr Efengyl i'r holl genhedloedd, trwy yr hyn i'n dygpwyd allan o dywyllwch, a chyfeiliorni, i'th eglur oleuni, ac i wîr wybodaeth am danat ti, a'th Fab Ieſu Griſt. Can hynny gyd ag Angelion, &c.

¶ Ar wyl y Drindod yn vnic.

YMae yn gwbl addas, yn gyfiawn, a'n rhwymedic ddylêd i ni yw bod i ni bob amſer, ac ym-mhob lle, ddiolch i ti Arglwydd, Holl-alluog a thragywyddawl Dduw, Yr hwn wyt vn Duw, yn Arglwydd, nid vn perſon yn vnic, onid tri pherſon mewn vn ſylwedd. Canys yr hyn yr ydym ni yn ei gredu am ogoniant y Tâd, hynny yr ydym yn ei gredu am y Mab, ac am yr Yſpryd glân heb na gwahaniaeth, nac anghymmedr. Can hynny gyd ag &c.

¶ Ar ôl y Rhagymadroddion hyn, y canlyn yn y fan.

CAn hynny gydag Angelion ac Arch-angelion, a chyd ag oll gwmpeini nef, y moliannwn ac y mawrhawn dy ogoneddus Enw, gan dy folianu yn waſtad, a dywedyd, Sanct, Sanct, Sanct, Arglwydd Dduw yr lluoedd. Nef a daiar ſydd yn llawn o'th ogoniant: gogoniant a fo i ti Arglwydd goruchaf.

¶ Yna yr Offeiriad ar ei liniau wrth fwrdd yr Arglwydd a ddywed yn enw yr holl rai a gymmerant y Cymmun yn y wedd y ſydd yn canlyn.

NId ŷm ni yn rhyfygu dyfod i'th fwrdd di yma drugarog Arglwydd, gan ymddiried yn ein cyfiawnder ein hunain, eithr yn dy aml a'th ddirfawr drugaredd di, nid ydym ni deilwng cymmaint ac i gaſclu yr briwſion tan dy fwrdd di: Eithr tydi yw yr vn Arglwydd, yr hwn biau o briodoldeb yn waſtad drugarhau. Caniata i ni gan hynny Arglwydd graſawl, felly fwyta cnawd dy anwyl Fab Ieſu Griſt, ac yfed ei waed ef, fel y gallo ein cyrph pechadurus gael eu gwneuthur yn lan drwy ei gorph ef, a'n eneidiau eu golchi drwy ei werthfawroccaf waed ef, fel y gallom byth drigo ynddo ef, ac ynteu ynom ninnau. Amen.

¶ Yna yr Offeiriad yn ei ſefyll a ddywed fel y mae yn canlyn.

HOll-alluog Dduw ein Tad nefol, yr hwn o'th dyner drugaredd a roddaiſt dy vn Mab Ieſu Griſt, i ddioddef angeu ar y groes er ein prynu, yr hwn a wnaeth yno (trwy ei offrymiad ei hun yn offrymedic vnwaith) gyflawn, berffaith, a digonawl aberth, offrwm, ac iawn, dros bechodau yr holl fyd; ac a ordeiniodd, ac yn ei ſanctaidd Efengyl a orchymynnodd i ni gadw tragywyddol goffa am ei werthfawr angeu hwnnw, nes ei ddyfod trachefn. Gwrando ni drugarog Dad, ni a attolygwn i ti, a chaniatta i ni, gan gymmeryd dy greaduriaid hyn o fara a'gwin, yn ol ſanctaidd ordinhad dy Fab Ieſu Griſt ein Iachawdur, er coff am ei angeu a'i ddioddefaint, allu bod yn gyfrannogion o'i fendigedic gorph a'i waed. Yr hwn ar y nos honno y bradychwyd, a gymmerth fara, ac wedi iddo ddiolch Efe a'i torrodd, ac a'i rhoddes iw ddiſcyblion, gan ddywedyd: Cymmerwch, bwytewch, hwn yw fy nghorph yr hwn ydd ydys yn ei roddi droſoch, gwnewch hyn er coff am danaf. Yr vn modd gwedi ſwpper, efe a gymmerth y cwpan, ac wedi iddo ddiolch, efe a'i rhoddes iddynt gan ddywedyd, Yfwch o hwn bawb, canys hwn yw fy ngwaed o'r Teſtament newydd, yr hwn yr ydys yn ei dywallt droſoch, a thros lawer er maddeuaint pechodau; gwnewch hyn cynnifer gwaith ac ei hyfoch, er coff am danaf.

¶ Yna y gweinidog a gymmer y Cymmun yn gyntaf yn y ddau ryw ei hun, ac yn neſaf y dyry i'r Gweinidogion eraill, (o bydd yno neb o honynt, fel y gallont gymmeryd y Gweinidog pennaf) ac wedi hynny i'r bobl yn eu dwylaw yn oſtyngedig ar eu gliniau: Ac wrth roddi y bara, efe a ddywed.

COrph ein Harglwydd Ieſu Griſt yr hwn a roddwyd droſot ti, a gadwo dy gorph a'th enaid i fywyd tragywyddol: a chymmer, a bwyta hwn, er coff farw o Griſt droſot, ac ymbortha arno yn dy galon trwy ffydd, gan roddi diolch.

¶ A'r Gweinidog a fo yn rhoddi y cwppan a ddywed.

GWaed ein Harglwydd Ieſu Griſt, yr hwn a dywalltwyd droſot, a gadwo dy gorph a'th enaid i fywyd tragywyddol; ac yf hwn er coff dywallt gwaed Criſt droſot, a bydd ddiolchgar.

¶ Yna yr offeiriad a ddywed weddi yr Arglwydd, yr bobl yn [illegible] pob [illegible] ar ei ôl ef, wedi hynny y dywedir fel y canlyn.

O Arglwydd, a nefawl Dad, yr ydym ni dy oſtyngedic weiſion yn ewyllyſio ar dy dadol ddaioni, yn drugarog dderbyniad yr aberth hyn o foliant a diolch, gan erfyn arnat yn oſtyngeiddiaf, bod trwy ryglyddiant ac angeu dy Fab Ieſu Griſt a thrwy ffydd yn ei waed ef, i ni ac i'th holl ſanctaidd Eglwys gael maddeuant o'n pechodau, a phob doniau eraill o'i ddioddefaint ef. Ac yma yr ydym yn offrwm ac yn cynnyrchu i ti o Arglwydd, ein hunain, ein eneidiau, a'n cyrph, i fod yn aberth rheſymol, ſanctaidd, a bywiol i ti, gan atolygu i ti yn oſtyngedic fod i bawb o honom y ſy gyfrannogion o'r cymmun bendigedic hwn, gael ein cyflawni â'th râd, ac â'th nefol fendith. Ac er ein bod ni yn anheilwng drwy ein amryfaelion bechodau, i offrwm i ti vn aberth; etto ni a attolygwn i ti gymmeryd ein rhwymedig ddylêd a'n gwaſanaeth hwn, nid gan bwyſo ein haeddedigaethau, onid gan faddeu ein pechodau, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd trwy yr hwn, a chyd â'r hwn, yn vndawd yr Yſpryd glân, holl anrhydedd a gogoniant a fyddo i ti Dad holl-alluog, yn oes oeſoedd, Amen.

Neu hyn.

HOll-alluog, a byth-fywiol Dduw, yr ydym ni yn ddirfawr ddiolch i ti, am fod yn wiw genit ein porthi ni, y rhai a gymmeraſom yn ddyledus y dirgeledigaeth ſanctaiddiol hyn, ac yſprydawl ymborth gwerthfawroccaf gorph a gwaed dy Fab ein Iachawdur Ieſu Griſt, ac wyt yn ein ſicrhau ni drwy hynny o'th ymgeledd, ac o'th ddaioni i ni, a'n bod yn wir aelodau wedi eu corpholaethu yn dy ddirgel gorph di, yr hwn yw gwynfydedic gymdeithas yr holl ffyddlon bobl, a'n bod hefyd trwy obaith yn etifeddion dy deyrnas dragywyddol, gan haeddedigaethau gwerthfawroccaf angeu a dioddefaint dy anwyl Fab. Ydd ŷm ni yr awr hon yn oſtyngedic yn attolygu i ti nefawl Dad, felly ein cynnorthwyaw ni â'th râd, fel y gallom yn waſtad aros yn y ſanctaidd gymdeithas honno, a gwneuthur pob rhyw weithredoedd da ac a ordeiniaiſt i ni rodio ynddynt, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd, i'r hwn gyd â thi a'r Yſpryd glân, y bo holl anrhydedd, a gogoniant yn dragywyddol. Amen.

¶ Yna y dywedir, neu y cenir.

GOgoniant i Dduw yn yr vchelder, ac yn y ddaiar tangnefedd, ewyllys da i ddynion. Ni a'th addolwn, ni a'th fendithiwn, ni a'th anrhydeddwn, ni a'th ogoneddwn, i ti y diolchwn am dy fawr ogoniant, Arglwydd Dduw, frenin nefol, Duw Tad holl-alluog, Arglwydd, yr vnic genedledic Fab Ieſu Griſt, Arglwydd Dduw, Oen Duw, Fab y Tad, yr hwn wyt yn dilea pechodau yr byd, trugarhâ wrthym. Ti yr hwn wyt yn ddilea pechodau yr byd, trugarhâ wrthym. Ti yr hwn wyt yn dilea pechodau yr byd, derbyn ein gweddi. Ti yr hwn wyt yn eistedd ar ddeheu-law Dduw Tad, trugarhâ wrthym. Canys ti yn unic wyt sanctaidd, ti yn unic wyt Arglwydd, ti yn unic Grist, gyd â'r Yspryd glân wyt oruchaf yngogoniant Duw Tad, Amen.

Yna yr Offeiriad neu yr Escop, os bydd ef yn bresennol, a ollwng y bobl ymaith â'r fendith hon.

TAngnheddyf Dduw yr hwn sydd uwchlaw pob deall, a gadwo eich calonnau a'ch meddyliau yngwybodaeth a chariad Duw, a'i Fab Iesu Grist ein Harglwydd. A bendith Dduw holl-alluog, y Tad, y Mab, a'r Yspryd glan a fyddo i'ch plith, ac a drigo gyd a chwi yn wastad. Amen.

¶ Colectau iw dywedyd yn ol yr offrymmiad, pryd na bo vn Cymmun, bob cyfryw ddiwrnod, vn. A'r vn rhai a ellir eu dywedyd hefyd cyn amled ac amser ac y byddo achos yn gwasanaethu, wedi yr Colectau ar y foreuol neu'r Brydnhawnol weddi, y Cymmun, neu yr Letani, fel y gwelo yr Gweinidog fod yn gymhesur.

CYnnorthwya ni yn drugarog Arglwydd, yn ein gweddiau hyn, a'n ersyniau, a llywodraetha fford dy wasanaeth-ddynion tu ag at gaffaeliad iechyd tragwyddawl, y fel ymmysc holl gyfnewidiau a damweiniau yr bywyd marwol hwn, y gallont byth gael eu hamddiffyn drwy dy radlawnaf a'th barottaf borth, trwy Grist ein Harglwydd, Amen.

HOll-alluog Arglwydd, a byth-fywiol Dduw, ni a attolygwn i ti fod yn wiw gennit vniawni, sancteiddio, a llywodraethu ein calonnau a'n cyrph, yn ffyrdd dy ddeddfau, ac yngweithredoedd dy orchymynion, megis trwy dy gadarnaf nodded, yma ac yn dragywyddol, y gallom fod yn gadwedic gorph ac enaid, trwy ein Harglwydd a'n Iachawdur Iesu Grist. Amen.

CAniatâ, ni a attolygwn i ti Holl-alluog Dduw, am y geiriau a glywsom heddyw a'n clustiau oddi allan, eu bod felly drwy dy ras, wedi eu plannu yn ein calonnau oddi mewn, fel y gallont ddwyn ynom ffrwyth buchedd dda, er anrhydedd a moliant i'th Enw, trwy Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.

RHag-flaena ni Arglwydd, yn ein holl weithredoedd, a'th radlonaf hoffder, a rhwydda ni a'th barhaus gymmorth, fel yn ein holl weithredoedd dechreuedic, anuberfynedic, a therfynedic ynot ti, y gallom foliannu dy sanctaidd Enw, ac yn y diwedd gael gan dy drugaredd fywyd tragywyddol, trwy Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.

HOll-alluog Dduw, ffynnon yr holl ddoethineb, yr hwn wyt yn gwybod ein angenrheidiau cyn ein gofynnom, a'n hanwybodaeth yn gofyn: Ni a attolygwn i ti dosturio wrth ein gwendid, a'r pethau hynny y rhai oblegid ein annheilyngdod ni feiddiwn, ac oblegit ein dallineb ni fedrwn eu gofyn, fod yn deilwng gennit eu rhoddi i ni er teilyngdod dy Fab Iesu Grist ein Harglwydd Amen.

HOll-alluog Dduw, yr hwn a addewaist wrando eirchion y rhai a ofynnant yn Enw dy Fab, ni a attolygwn i ti ostwng yn drugarog dy glustiau attom ni, y rhai a wnaethom yr awr hon ein gweddiau a'n ersynion attat, Y chaniattâ am y pethau hyn a archasom yn ffyddlawn yn ol dy ewyllys, allu o honom eu caffael yn hollawl, i borthi ein hangen, ac er eglurhau dy ogoniant, trwy Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.

Ar y dyddiau gwyliau, pryd na bydd Cymmun, y dywedir cwbl ac a osodwyd ar y Cymmun, hyd ddiwedd yr homili, gan ddibennu gyda'r weddi gyffredin (dros holl ystâd Eglwys Grist yn milwrio yma ar y ddaiar) *ac vn neu ychwaneg o'r Colectau uchod, fel y bo yr achos yn gwasanaethu.*

Ac ni bydd gwasanaethu Swpper yr Arglwydd, oddieithr bod swrn o bobl i gymmuno gyda'r offeiriad, fel y gwelo efe fod yn iawn.

Ac oni bydd mwy nag vgein-nyn yn y plwyf, o bwyll i gymmeryd y Cymmun bendigedic, etto ni bydd vn Cymmun, oni bydd pedwar, neu dri o'r lleiaf i gymmuno gyd â'r offeiriad.

Ac mewn mawr Eglwysydd, ac Eglwys Colegiat, lle byddo llawer o Offeiriaid a Diaconiaid, cymmerant hwy oll y Cymmun gyd â'r Gweinidog bob Sul o'r lleiaf, oni bydd ganddynt achos rhesymmol i'r gwrthwyneb.

Ac er dilëu yr ofer goel y sydd, neu a allo fod gan neb yn y bara a'r gwin, fe a wasanaetha bod y bara yn gyfryw ac y sydd arferedic i'w fwyta ar y bwrdd, gyd â bwydydd eraill, eithr y bara gwenith goreu ar puraf ac a aller ei gael yn gymmwys. Ac o gweddill peth o'r bara neu yr gwin, y Curat a'i caiff iddo ei hun.

Y bara a'r gwin i'r Cymmun a baratoir gan y Curat a wardeiniaid yr Eglwys, ar gost y plwyf, a'r plwyf a ryddheir o rhyw symmau arian, neu ddyledion eraill yr oeddynt arferedic o'r blaen i'w talu am danaw, wrth ddygymmod eu tai bob Sul.

Nota hefyd, bod i bob plwyfol gymmuno o'r lleiaf dair gwaith yn y flwyddyn, ac o hynny bod y Pâsc yn vn; a chymmeryd hefyd y Sacramentau a'r defodau eraill, yn ol y drefn osodedic yn y llyfr hwn. A'r Pâsc bob blwyddyn, bod i bob plwyfol gyfrif â'i Berson, Vicar, neu ei Gurat, neu ei brocuratur, neu ei brocuratoriaid, a thalu iddynt, neu iddo ef yr holl ddyledion Eglwysic, a fo yn arferedic yn ddyledus yna, ar yr amser hynny eu talu.

¶ GWEINIDOGAETH Y BEDYDD IW ARFER YN YR EGLWYS.

YMae yn eglur trwy hên scrifennyddion, nad oeddid yn gyffredinol yn yr hen amser, yn arfer o wasanaethu Sacrament y Bedydd, oddieithr dau amser yn y flwyddyn: sef y Pâsc a'r Sul-gwyn. Ac ar yr amserau hynny y gwasanaethid ef ar gyhoedd yngwydd yr holl gynnulleidfa. Yr hen ddefod yn awr aeth allan o arfer (gan na ellir er mwyn llawer o achosion ei hadnewyddu) etto er hynny fe a dybir bod yn iawn canlyn y ddefod honno cyn nesed ag y gellid yn gymhesur. Oblegit paham, rhybydder y bobl, fod yn gymhesuraf na wasanaether a Bedydd namyn ar Suliau, a dyddiau gwyliau eraill, pan allo y nifer mwyaf o'r bobl ddyfod ynghyd, yn gystal er mwyn bod i'r gynnulleidfa yno yn bresennol dystiolaethu derbyniad y rhai a fedyddier yr amser hynny, i nifer Eglwys Grist, a hefyd oblegit yn y Bedydd rhai bychain bod i bob dyn a fo yno yn bresennol alw ei gof atto am ei broffes a'i addewid a wnaeth ef gynt yn ei fedydd. Herwydd hynny hefyd y mae yn gymmhesur bod gwasanaeth y Bedydd yn ein hiaith Gamberaeg. Ac er hyn yma oll (os bydd anghenrheidiol) fe a ellir bedyddio rhai bychain bob amser gartref.

Bedydd

Bedydd Public.

Pan fyddo plant i'w bedyddio ar ddydd Sul, neu ddydd gwyl arall, fe a ddylid eu tadau roddi rhybydd tros nos, neu y borau cyn dechreu y foreuol weddi, i'r Curat. Yna bydded y tadau bedydd a'r mammau bedydd, a'r bobl, yn barod wrth y Bedyddfan, naill ai yn y man ar ôl y llith ddiwethaf o'r foreuol weddi, neu ynteu yn y man yn ôl y llith ddiwethaf ar y Brydnhawnol weddi, megis y gosoto y Curat yn ôl ei ystyriaeth ei hun. A chan ſefyll yno, gofynned yr offeiriad, a fedyddiwyd y plant, ai ni fedyddiwyd hwy. Os atebant, Na ddo: yna dyweded yr offeiriad fel hyn.

Fy Nghāredigion, yn gymmaint ac ymddwyn a geni pob dyn mewn pechod, a bod ein Iachawdwr Chriſt yn dywedyd, na ddichon neb gael myned i mewn i deyrnas Duw, oddieithr ei ail-eni ef o ddwfr ac o'r Yſpryd glân: Attolwg ydd wyf i chwi alw ar Dduw Tad, trwy ein Harglwydd Ieſu Griſt, ar fod iddo o'i ddaionus drugaredd ganiatau i'r plant hyn, y peth drwy natur ni allant ddyfod iddo, gael eu bedyddio â dwfr, ac â'r Yſpryd glân, a'u derbyn i lân Eglwys Griſt, a bod yn aelodau bywiol o'r unrhyw.

¶ *Yna y dywed yr Offeiriad.*

Gweddiwn.

HOll-alluog a thragywyddol Dduw, yr hwn o'th fawr drugaredd a gedwaiſt Noe a'i deulu yn yr Arch rhag eu cyfr-golli gan ddwfr; a hefyd a dywyſaiſt yn ddiangol blant yr Iſrael dy bobl drwy yr môr côch, gan arwyddocau wrth hynny dy lân fedydd; a thrwy fedydd dy garedic Fâb Ieſu Griſt a ſancteiddiaiſt afon Iorddonen, a phob dwfr arall, er dirgel olchedigaeth pechodau: Attolygwn i ti er dy aneirif drugareddau, edrych o honot yn drugarog ar y plant hyn, eu ſancteiddio hwy, a'u glanhau â'r Yſpryd glân, fel y byddo iddynt hwy gael eu gwared oddiwrth dy lid, a'i derbyn i Arch Eglwys Griſt, a chan fod yn gedyrn mewn ffydd, yn llawen gan obaith, ac wedi ymwreiddio ynghariad perffaith, allu o honynt, fordwyo tros donnau y byd trallodus hwn, ac o'r diwedd, allu dyfod i dir y bywyd tragywyddawl, yno i deyrnaſu gyd â thi heb drangc na gorphen, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd. Amen.

HOll-alluog ac anfarwol Dduw, porth pob anghenog, nawdd-wr pawb a gilio attat am gymhorth, bywyd y rhai a gredant, a chyfodiad y meirw: ydd ym yn galw arnat tros y rhai bychain hyn, ar iddynt hwy yn dyfod i'th lân fedydd, gael derbyn maddeuaint o'u pechodau, drwy adenedigaeth yſprydol. Derbyn hwy Arglwydd, megis yr addewaiſt trwy dy garedic Fâb, gan ddywedyd, *Goſynnwch, a rhoddir i chwi, Ceiſiwch a chwi a gewch, Curwch ac fe agorir i chwi.* Felly yr awr hon dyro i ni, a ni yn goſyn, par i ni gael, a ni yn ceiſio, agor y porth i ni ſy yn curo: fel y gallo y rhai bychain hyn fwynhau tragywyddol fendith dy nefol olchiad, a dyfod i'r deyrnas dragywyddawl, yr hon a addewaiſt trwy Griſt ein Harglwydd. Amen.

¶ *Yna y dywed yr Offeiriad.*

Gwrandewch ar eiriau yr Efengyl a ſcrifennodd Sanct Marc yn y ddecfed bennod.

Marc. 0.13. YR amſer hynny y dygaſant blant bychain at Griſt, fel y cyffyrddai efe â hwynt: a'r diſgyblion a geryddaſant y rhai oedd yn eu dwyn hwynt. A'r Ieſu pan welodd hynny fu anfodlon, ac a ddywedodd wrthynt, gedwch i blant bychain ddyfod attaf, ac na waherddwch hwynt: canys eiddo y cyfryw rai yw teyrnas Duw. Yn wîr meddaf i chwi, pwy bynnac ni dderbynio deyrnas Dduw fel dyn bach, nid â efe i mewn iddi. Ac efe a'u cymmerodd hwy yn ei freichiau, ac a ddodes ei ddwylaw arnynt, ac a'u bendithiodd.

¶ *Yn ôl darllen yr Efengyl, y traetha y Gweinidog y cyngor hyn yma ar eiriau yr Efengyl.*

Y Caredigion, chwi a glywſoch yn yr Efengyl hon eiriau ein Iachawdwr Chriſt, yn gorchymmyn dwyn plant atto, pa wedd y ceryddodd efe y rhai a fynnaſei eu cadw oddiwrtho, pa wedd y cynghora efe i bob dyn ganlyn eu gwiriondeb hwy. Yr ydych chwi yn deall, wrth ei agwedd ef a'i weithred, modd y dangoſes ei ewyllys da iddynt: canys efe a'u cofleidiodd hwy yn ei freichiau, efe a roddodd ei ddwylaw arnynt, ac a'u bendithiodd hwynt. Nac ammheuwch gan hynny, eithr credwch yn ddiſcrif, y cymmer efe yr unffunyd yn ymgeleddgar y rhai bychain hyn, y cofleidia efe hwy â breichiau ei drugaredd, y dyry iddynt fendith y bywyd tragywyddawl, ac y gwna hwy yn gyfrannogion o'i ddidrangc deyrnas. O herwydd pa ham, gan ein bod ni yn credu fel hyn am ewyllys da ein Tâd nefol tu ag at y rhai bychain hyn, wedi ei amlygu trwy ei Fâb Ieſu Griſt, ac heb ddim ammau gennym ei fod efe yn derbyn yn raſuſol ein gweithred gariadawl hon yn dwyn y plant hyn i'w ſanctaidd Fedydd ef; diolchwn yn ffyddlon, ac yn ddefoſionol iddo, gan ddywedyd.

HOll-alluog a thragywyddol Dduw, Nefol Dâd, ydd ym ni yn oſtyngedic yn diolch i ti fod yn wiw gennit ein galw i wybodaeth dy râs, a ffydd ynot: Ychwanega yr wybodaeth hon, a chadarnha y ffydd hon ynom yn waſtad, dyro dy Yſpryd glân i'r rhai bychain hyn, fel y ganer hwy eil-waith, a'u gwneuthur yn etifeddion Iechyd tragywyddol, trwy ein Harglwydd Ieſu Griſt, yr hwn ſydd yn byw, ac yn teyrnaſu gyd â thi, a'r Yſpryd glân, yr awr hon ac yn dragywydd. Amen.

¶ *Yna dyweded yr Offeiriad wrth y Tadau-bedydd a'r Mammau-bedydd yn y modd hyn.*

Y Caredigion bobl, chwi a ddygaſoch y plant hyn yma i'w bedyddio, chwi a weddiaſoch ar fod yn wiw gan ein Harglwydd Ieſu Griſt eu derbyn hwy, rhoddi ei ddwylo arnynt eu bendithio, madden iddynt eu pechodau, rhoddi iddynt deyrnas nefoedd a bywyd tragywyddol. Chwi a glywſoch hefyd ddarfod i'n Harglwydd Ieſu Griſt addo yn ei Efengyl ganiadu yr holl bethau hyn a weddiaſoch chwi am danynt: yr hwn addewid efe o'i ran ef a'i ceidw yn wir ddiogel, ac a'i cwplâ. Herwydd yr achos yn ôl yr addewid hyn a wnaeth Chriſt, rhaid yw i'r rhai bychain hyn yn ffyddlon, ac ar eu rhan hwythau, addo trwoch chwi ſy feichiau drostynt, ymwrthod â diafol, a'i holl weithredoedd, ac yn waſtad credu gwynfydedic air Duw, ac yn vfydd cadw ei orchymynion.

¶ *Yna y gofyn yr Offeiriad i'r Tadau-bedydd, a'r Mammau bedydd y gofynion hyn iſod.*

A Ydwyt ti yn ymwrthod â diafol, ac a'i holl weithredoedd, coeg ſadrwydd, a gwag-ogoniant y byd, a'i holl chwantau cybyddus, anyſprydol ewyllys y cnawd, fel na ddilynech hwynt, ac na'ch dywyſer ganddynt?

Atteb.

Yr ydwyf yn ymwrthod â hwynt oll.

Gwei-

Gwenidawc.

A Wyt ti yn credu yn Nuw Tâd holl-gyfoethog, Creawdr nef a daiar? Ac yn Ieſu Griſt ei un Mab ef ein Harglwydd? A'i genhedlu o'r Yſpryd glân? A'i eni o Fair forwyn? iddo ddioddef dan Pontius Pilatus, ei groeſ-hoelio, ei farw a'i gladdu? diſgyn o honaw i uffern, a'i gyfodi y trydydd dydd, ac eſcyn o hono i'r nefoedd, a'i fod yn eiſtedd ar ddeheu-law Dduw Tâd holl-alluog, ac y daw efe oddi yno yn niwedd y byd i farnu byw a meirw? A wyti yn credu yn yr Yſpryd glân, yr Eglwys lân Gatholic, Cymmun y Sainct, maddeuaint pechodau, adgyfodiad y cnawd, a bywyd tragywyddol gwedi angeu?

Atteb.

Hyn oll ydd wyf yn ei gredu yn ddilys.

Gwenidog.

A fynni di dy fedyddio yn y ffydd hon?

Atteb.

Hynny yw fy ewyllys.

Yna y dywed yr Offeiriad.

O Drugarog Dduw, caniatâ felly gladdu yr hên Adda yn y plant hyn, fel y cyfotter y dyn newydd ynddynt hwy. Amen.

Caniatâ fod i holl chwantau 'r cnawd farw ynddynt, ac i bob peth a berthyn i'r Yſpryd allu byw a chynnyddu ynddynt. Amen.

Caniatâ fod iddynt nerth a gallu i gael yr oruchafiaeth, a'r gorfod yn erbyn diafol, y byd, a'r cnawd. Amen.

Caniatâ fod i bwy bynnac y ſydd yma wedi ei gyſſegru i ti trwy ein ſwydd a'n gweinidogaeth ni, allu hefyd bod yn gynyſgaeddol o rinweddau nefol, a bod iddynt gael eu tragywyddol obrwyaw drwy dy drugaredd, ô fendigedic Arglwydd Dduw, yr hwn wyt yn byw, ac yn llywiaw pob peth, yn oes oeſoedd. Amen.

HOll-gyfoethog fyth-fywiol Dduw, yr hwn y bu i'th garediccaf Fâb Ieſu Griſt dros faddeuant o'n pechodau, oddef gollwng o'i werthfawr yſtlys ddwfr a gwaed, a rhoddi gorchymmyn iw ddiſcyblion fyned a dyſcu pob cenedl, a'u bedyddio yn Enw y Tâd, a'r Mâb, yr Yſpryd glân: Yſtyria attolwg i ti wrth weddiau dy gynulleidfa, a chaniatâ fod i bawb o'th weiſion a fedyddier yn y dwfr hwn, dderbyn cyflawnder dy ras, ac aros byth yn niſer dy ffyddlon blant etholedig, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd. Amen.

¶ Yna y cymmer yr Offeiriad y dyn bychan yn ei ddwylaw, ac y gofyn yr enw. A chan enwi y plentyn, efe a'i trocha ef yn y dwfr; a hynny yn ddiſcretus, ac yn ddarbodus, gan ddywedyd.

N. Yr ydwyf fi yn dy fedyddio di yn Enw 'r Tad, a'r Mab, a'r Yſpryd glan. Amen.

¶ Ac o bydd y dyn bychan yn wan, digon fydd bwrw dwfr arnaw, gan ddywedyd y geiriau dywededic uchod.

N. Yr ydwyf fi yn dy fedyddio di yn Enw 'r Tad, a'r Mab, a'r Yſpryd glan. Amen.

¶ Yna gwnaled yr Offeiriad groes yn nhalcen y dyn bach, gan ddywedyd.

YR ydym ni yn derbyn y plentyn hwn i gynulleidfa defaid Chriſt, ac yn ei nodi ef ag arwydd y grôg, yn arwyddocâd na bo iddo rhag llaw gymmeryd yn gywilydd gyffeſſu ffydd Chriſt a groeſ-hoeliwyd, ac iddo ymladd yn wrol tan ei faner ef, yn erbyn pechod, y byd, a'r cythrael, a pharhau yn filwr ffyddlawn ac yn wâs i Griſt, holl ddyddiau ei einioes. Amen.

¶ Yna y dywed yr Offeiriad.

CAn ddarfod yn awr, garedigion frodyr, ad-eni, a dodi y plant hyn ynghorph cynnulleidfa Chriſt, diolchwn ninnau i Dduw am ei ddaioni hyn, ac o gyd-undeb gwnawn ein gweddiau ar y Goruchaf Dduw, ar fod iddynt hwy ddiweddu y rhan arall o'n bywyd yn ôl hyn o ddechreuad.

Yna y dywedir.

Ein Tâd yr hwn wyt yn y nefoedd, &c.

¶ Yna y dywed yr Offeiriad.

MAwr ddiolchwn i ti drugarocchaf Dâd, ryngu bodd it ad-eni y plentyn hwn o'th Yſpryd glân, a'i dderbyn yn blentyn i ti dy hun trwy fabwys, a'i gorphori i'th gynnulleidfa ſanctaidd. Ac yn oſtyngedic yr attolygwn i ti ganiatâu, gan ei fod efe yn farw i bechod, ac yn byw i gyfiawnder, ac yn gladdedic gyd â Chriſt yn ei angeu, allu croeſhoelio yr hên ddyn, ac yn hollawl ymwrthod â holl gorph pechod, fel megis y mai efe wedi ei wneuthur yn gyfrannog o angeu dy Fâb, iddo fod yn gyfrannog o'i gyfodiad, ac felly o'r diwedd, ynghyd â'r rhan arall o'th ſanctaidd gynnulleidfa, bod o honaw yn etifedd dy deyrnas dragywyddol, drwy Ieſu Griſt ein Harglwydd. Amen.

¶ Ac yn y pen diwethaf, yr Offeiriad, gan alw y Tadau-bedydd, a'r Mammau-bedydd ynghyd, a ddywed hyn o fyr gyngor ſydd yn canlyn.

YN gymmaint a darfod i'r plant hyn addo trwyochwi, ymwrthod a diafol, a'i holl weithredoedd, credu yn-Nuw, a'i waſanaethu ef: Rhaid i chwi feddwl, mai eich rhan a'ch dyled yw, gweled dyſcu o'r plant hyn, cyn gynted ag y gallont ddyſcu, pa ryw hynod adduned, addewid, a phroffes a wnaethant hwy drwoch-chwi. Ac er mwyn gallu o honynt wybod y pethau hyn yn well, chwi a elwch arnynt i wrando pregethau. Ac yn bendifaddef rhaid i chwi weled dyſcu o honynt y Credo, Gweddi yr Arglwydd, a'r dec gorchymmyn mewn iaith a ddeallont, a phob peth arall a ddylei Griſtion ei wybod, a'i gredu, er iechyd iw enaid; a bod meithrin y plant hyn yn rhinweddol, iw hyweddu mewn buchedd dduwiol a Chriſtionogawl, gan goſio yn waſtad, bod Bedydd yn arwyddocau i nyni ein proffeſſ, hynny yw, bod i ni ganlyn eſampl ein Iachawdur Chriſt, a'n gwneuthur yn gyffelyb iddo ef: fel megis ac y bu efe farw, ac y cyfodes drachefn troſom ni, felly y dylem ni y rhai a fedyddiwyd, farw oddi wrth bechod, a chyfodi i gyfiawnder, gan farwolaethu yn waſtad ein holl ddrygioni, a'n gwyniau llygredic, a pheunydd myned rhagom ym mhôb rhinwedd dda, a buchedd dduwiol.

¶ Y Gwenidog a orchymyn ddwyn y plant at yr Eſcob i'w conffirmio ganddo cyn gynted ac y medront ddywedyd yn eu ſefyd iaith gyffredin bynciau y ffydd, Gweddi yr Arglwydd, a'r deng-air Deddf, a bod hefyd wedi eu haddyſcu yn y Catechiſm a oſodwyd ar fedr hynny, megis y mae wedi ei eglurio yno.

TAN

¶ AM Y RHAI A FO IW BEDYDDIO mewn tai gartref, ar amſer anghenraid; gan weinidog y plwyf, neu ryw weinidog arall a aller ei gael.

BId i'r Bugeiliaid, a'r Curadiaid rybuddio yn fynych y bobl, nad oedent Fedydd y plant bellach na'r Sul, neu yr dydd gwyl neſaf yn ol geni y plentyn, oddieithr ar achos mawr a rheſymol a yſpyſer i'r Curat, ac a dderbynio yntef.

A heſyd hwy a'u rhybuddiant, na pharont fedyddio eu plant gartref yn eu tai, heb achos mawr ac angen: a phan fo mhell anghenrhaid iddynt wneuthur hynny, yna y gwneir yn y modd hyn.

Yn gyntaf bid i'r gweinidog cyfreithlon, ac i'r rhai a fyddo yn y fan, alw ar Dduw am ei râd, a dywedyd gweddi yr Arglwydd, os gâd yr amſer; Ac yna, wedi henwi yr plentyn gan ryw un a fyddo yn bresennol, y gweinidog cyfreithlawn hwnnw, a'i trocha mewn dwfr, neu â fwrw ddwfr arno, gan ddywedyd y geiriau hyn.

N. Yr wyf i yn dy fedyddio di yn Enw y Tâd, a'r Mab, a'r Yſpryd glan. Amen.

¶ Ac nac amheuant am y dyn bach a fedyddier felly, nad yw efe wedi ei fedyddio yn ddeddfol, ac yn ddigonol, Ac na ddylier ei fedyddio mwy. Eithr er hynny i gyd, os y plentyn a fedyddiwyd yn y modd hwn a fydd byw rhag llaw, iawn ſydd ei ddwyn ef i'r Eglwys, fel y gallo yr Offeiriad neu'r gweinidog plwyf, os efe ei hun a fedyddiodd y dyn bach hwnnw, hyſpyſu i'r gynnulleidfa ddarfod iddo ei fedyddio yn wir ddeddfol gartref: Neu os gweinidog cyfreithlon arall a fedyddiodd y dyn bach, y gallo gweinidog y plwyf y ganwyd y plentyn ynddo, holi, a chwilio a fedyddiwyd y plentyn yn ddeddfol ai naddo. Ac yn yr achos hwnnw, os y rhai a ddygant y plentyn i'r Eglwys, a attebant ddarfod bedyddio y plentyn eiſus, yna holed y Gweinidog hwy ym mhellach, gan ddywedyd.

Gan bwy y bedyddiwyd y dyn bach?

Pwy oedd yn y fan, pan fedyddiwyd y dyn bach?

Ac o herwydd y gallai fod, ddarfod gadael heibio ryw bethau a berthyn i hanfod y Sacrament hwn, trwy ofn neu frys, yn y cyfryw gyfyngder: Am hynny y gofynnaf i chwi ym mhellach,

A pha ddefnydd y bedyddiwyd y plentyn?

A pha eiriau y bedyddiwyd y plentyn?

A ydych chwi yn tybied fod y plentyn wedi ei fedyddio yn ddeddfol ac yn berffaith?

¶ Ac os Gweinidog a brawf wrth attebion y rhai a ddygaſant y plentyn atto, fod pob peth wedi ei wneuthur modd y dylei: Yna na fedyddied efe y plentyn drachefn, eithr ei dderbyn yn un o niſer y gwir Griſtnogion, gan ddywedyd fel hyn.

Yr ydwyf fi yn hyſpyſu i chwi wneuthur o honoch yn dda yn y treigl hyn, ac wrth iawn drefn berthynaſol, wrth fedyddio y plentyn yma, yr hwn wedi ei eni mewn pechod dechreuol, ac mewn digofaint Duw, ſydd yr awr drwy olchiad yr ad-enedigaeth ym-medydd, wedi ei dderbyn i niſer plant Duw, ac etifeddion bywyd tragywyddol: Canys nid yw ein Harglwydd Ieſu Griſt yn nacau ei rad a'i drugaredd i gyfryw rai bychain, ond y mae yn garueiddiaf yn eu gwahodd atto, megis y tyſtia yr Efengyl fendigedic er ein conffordd ni, yn y wedd hon.

Marc. 10.13. YR amſer hynny y dygaſant blant bychain at Griſt, fel y cyffyrddei efe â hwynt; a'r diſcyblion a geryddaſant y rhai oedd yn eu dwyn hwynt; A'r Ieſu pan welodd hynny, fu anfodlon, ac a ddywedodd wrthynt, gedwch i blant bychain ddyfod attafi, ac na waherddwch hwynt: canys eiddo 'r cyfryw rai yw teyrnas Dduw. Yn wir meddaf i chwi, Pwy bynnag ni dderbynio deyrnas Dduw fel dyn bach, nid â efe i mewn iddi. Ac efe a'u cymmerodd hwy yn ei freichiau, ac a ddodes ei ddwylaw arnynt, ac a'u bendithiodd.

¶ Yn ôl darllen yr Efengyl, y traetha y Gweinidog y cyngor yma ar eiriau yr Efengyl.

Y Caredigion chwi a glywch yn yr Efengyl hon eiriau ein Iachawdwr Chriſt, yn gorchymmyn dwyn plant atto, pa wedd y ceryddodd efe y rhai a fynnaſei eu cadw oddi wrtho, pa wedd y mae efe yn cynghori i bob oſu ganlyn eu gwiriondeb hwy. Yr ydych chwi yn deall wrth ei agwedd ef a'i weithred, modd y dangoſes ei ewyllys da iddynt: canys efe a'u cofleidiodd hwy yn ei freichiau, efe a ddododd ei ddwy-law arnynt, ac a'u bendithiodd hwynt. Nac amheuwch gan hynny, eithr credwch yn ddiffri, ddarfod iddo gymmeryd yr un ffunud yn ymgeleddgar y dyn-bychan hwn, a'i gofleidio â breichiau ei drugaredd, rhoi iddo fendith y bywyd tragywyddol, a'i wneuthur yn gyfrannog o'i dragywyddol deyrnas. Herwydd pa ham, a ninnau yn credu fel hyn am ewyllys da ein Tad nefol, wedi ei amlygu trwy ei Fab Ieſu Griſt, tuag at y dyn-bychan hwn: diolchwn yn ffyddlon, ac yn ddefoſionol iddo, gan ddywedyd y weddi a ddyſcodd yr Arglwydd ei hun; ac er mynegi ein ffydd, adroddwn y pyngciau a gynhwyſir yn ein Credo.

¶ Yna yr Gweinidog gyd â'r Tadau bedydd, a'r Mammau-bedydd a ddywedant.

¶ Ein Tâd yr hwn wyt yn y nefoedd, &c.

¶ Yna y gofyn yr Offeiriad enw y dyn bychan a'r plant ddarfu i'r Tadau-bedydd, a'r Mammau-bedydd ei adrodd, y Gweinidog a ddywed.

A ydwyt ti yn enw y plentyn hwn yn ymwrthod â diafol a'i holl weithredoedd, gwag rodres a gogoniant y byd, a'i holl chwantau cubyddus, a'r cnawdol ewyllyſion y cnawd, ac na chanlynech hwynt, ac na'th dywyſier ganddynt?

Atteb.

Ydd wyf fi yn ymwrthod â hwynt oll.

Gweinidawc.

A wyt ti yn enw y plentyn hwn yn proffeſſu y ffydd hon, ſef Credu yn Nuw Dad, holl gyfoethog, Creawdr nef a daiar? Ac yn Ieſu Griſt ei un Mâb ef, ein Harglwydd ni, a'i genhedlu o'r Yſpryd glân, ei eni o Fair wyryf, iddo ddioddef dan Pontius Pilatus, ei groeſ-hoelio, ei farw, a'i gladdu, diſcyn o honaw i uffern, a'i gyfodi y trydydd dydd, a'i eſcyn i'r nefoedd, a'i fod yn eiſtedd ar ddeheu-law Duw Tâd holl-alluog, ac y daw oddi yno yn niwedd y byd i farnu byw a meirw?

Ac a ydych chwi yn ei enw ef yn credu yn yr Yſpryd glân, yr Eglwys lân Gatholic, Cymmun y Saint, maddeuaint pechodau, adgyfodiad y cnawd, a bywyd tragywyddol gwedi angeu?

Atteb.

Hyn oll yr wyfi yn ei gredu yn ddilys.

Gweddiwn.

HOll-alluog a thragywyddol Dduw, Nefol Dâd, ydd ym ni yn oſtyngedic yn diolch i ti fod yn wiw gennit ein galw i wybodaeth dy râd, a ffydd ynot: ychwanega yr wybodaeth hon, a chadarnhâ y ffydd hon ynom yn waſtad, dyro dy Yſpryd glân i'r plentyn hwn, fel y ganer ef ail-waith, a'i wneuthur yn etifedd Iechyd tragywyddol, trwy ein Harglwydd Ieſu Griſt, ac y gallo barhau yn wâs i ti, a mwynhau dy addewid, trwy yr vn ein Harglwydd Ieſu Griſt dy Fâb, yr hwn ſydd yn byw ac yn teyrnaſu gyd â chi, yn vndod yr vn-rhyw Yſpryd glân yn dragywydd. Amen.

¶ *Yna rhoed y Gweinidog y cyngor hwn i'r Tadau a'r Mammau-bedydd.*

YN gymmaint a darfod i'r plentyn hwn eddo trwoch chwi, ymwrthod â diafol a'i holl weithredoedd, credu yn-Nuw, a'i waſanaethu, rhaid i chwi feddwl mai eich rhan a'ch dyled chwi yw gweled dyſcu o'r plentyn hwn cyn gynted ag y gallo ddyſcu pa ryw hynod adduned, addewid, a phroffes a wnaeth efe drwoch chwi. Ac er mwyn gallu o honaw wybod y pethau hyn yn well, bod i chwi alw arnô i wrando pregethau. Ac yn bendifaddef bod i chwi weled dyſcu o honaw ef y Credo, Gweddi yr Arglwydd, a'r deng-air deddf yn yr iaith a ddeallo, a phob peth arall a ddylei Griſtion ei wybod a'i gredu er iechyd iw enaid; a bod meithrin y plentyn hwn yn rhinweddol, iw hyweddu mewn buchedd dduwiol a Chriſtianogol, gan goffa yn waſtad fod Bedydd yn arwyddocau i ni ein proffes, hynny yw bod i ni ganlyn eſampl ein Iachawdur Criſt, a'n gwneuthur yn gyffelyb iddo ef: fel megis ac y bu efe farw, ac y cyfodes drachefn droſom ni, felly y dylem ni y rhai a fedyddiwyd, farw oddiwrth bechod, a chyfodi i gyfiawnder, gan farwolaethu yn waſtad ein holl ddrygioni, a'n gwyniau llygredic, a pheunydd myned rhagom ym mhob rhinwedd dda a buchedd dduwiol.

Ac felly rhag-llaw, fel yn y Bedydd public.

¶ *Eithr os y rhai a ddygant y plant i'r Eglwys a wnant y cyfryw atteb anyſpyſol i ofynion yr Offeiriad, fel na aller gwybod a ddarfu bedyddio y plentyn â dwfr, yn enw 'r Tad, a'r Mab, a'r Yſpryd glân, yr hyn ſydd o hanfod y Bedydd: yna bedyddied yr Offeiriad ef yn ol y ffurf ſcrifennedic uchod am y Bedydd Public, oddieithr wrth drochi y dyn bach yn y ffont, efe a arfer y ffurf hon ar eiriau.*

Oni ddarfu dy fedyddio di eiſys, N. ydd wyfi yn dy fedyddio di, yn Enw 'r Tâd, a'r Mab, a'r Yſpryd glan, Amen.

¶ TREFN CONFIRMATION, NEU ARDDODIAD DWYLO AR BLANT A FEDYDDIWYD, AC A FEDRANT ROI CYFRIF O'I FFYDD, YN ÔL Y CATECHISM SYDD YN CANLYN.

ER mwyn bod miniſtrio Confirmaſion er mwy o adeilad i'r ſawl a'i derbynio (yn ol athrawiaeth Sanct Paul, yr hwn ſydd yn dyſcu y dylid gwneuthur pob peth yn yr Eglwys er adeilad iddi) fe a dybir bod yn dda na bo confirmo neb rhagllaw, onid cyfryw a fedro dywedyd yn-rhafod-iaith eu mam, fannau yr ffydd, gweddi yr Arglwydd, a'r deng-air-Deddf, a medru hefyd atteb i gyfryw ymofynion o'r Catechiſm byrr hwn, ag y byddo i'r Eſcob (neu i'r neb a oſodo efe i hyn) yn ôl ei feddwl ei opposio hwynt yn ddo. A'r dreſn hon y ſydd weddaſaf ei chadw, er mwyn amraſael ynfyrwaethau.

Yn gyntaf, o herwydd pan ddêl plant mewn oedran ſynwyr, a gwybod pa beth a addawodd eu tadau bedydd, a'u mammau-bedydd droſtynt wrth eu bedyddio; yna y gallont eu hun â'u genau eu hun ac o'u cydſynniad eu hunain, ar oſteg yngwydd yr Eglwys gonffirmio, a chadarnhau yr vn-rhyw addewid: a hefyd addo, drwy nerth rhâd Duw, ymegnio yn waſtad i gadw yn ffyddlawn y cyfryw bethau ac a fu iddynt hwy â'u genau eu hunain, ac â'u cyffes gyd-ſynniaw arno.

Ail yw, yn gymmaint a bod miniſtrio conffirmaſion i'r rhai a fedyddiwyd, megis trwy oſod dwylo arnynt a gweddi, y gallont dderbyn gallu ac ymddiffyn yn erbyn pob profedigaeth i bechu, a rhuthrau yr byd, a'r cythrael; cymmeſuraf yw miniſtrio conffirmaſion pan ddel plant i'r cyfryw oedran, ac y bo iddynt, peth o ran gwendid eu cnawd eu hun, peth o ran rhuthrau yr byd a'r cythrael, ddechreu bod mewn perigl i ſyrthio mewn amryw bechodau.

Trydydd, am fod hynny yn gyſsôn a defod yr Eglwys yn yr amſer gynt, lle darfu ordeinio bod miniſtrio conffirmaſion i'r rhai a fyddent o gyflawn oedran, fel y byddei iddynt hwy wedi eu haddyſcu mewn Crefydd Griſtionogawl, allu yn gyhoeddus broffeſſu eu ffydd eu hunain, ac addo bod yn vfydd i ewyllys Duw.

Ac fel na bo i neb dybied fod dim niwed yn dyfod i'r plant herwydd oedi ei conffirmaſion, gwybydded yn ddiau, fod yn ddilys wrth air Duw am y plant a fedyddiwyd, ddarfod iddynt gael bob peth angenrheidiol i iechyd eu henaid, a'u bod yn ddiammau yn gadwedic.

¶ Y CA-

¶ Y CATECHISM, ſef yw hynny, athrawiaeth i'w dyſcu gan bob plentyn, cyn ei ddwyn i'w gonffirmio gan yr ESCOB.

Qweſtiwn.

BEth yw dy enw di?

Atteb.

N. neu M. neu'r cyfryw.

Qweſtiwn.

Pwy a roddes yr enw hwnnw arnat ti?

Atteb.

Fy nhadau bedydd, a'm mammau bedydd wrth fy medyddio, pan i'm gwnaethpwyd yn aelod i Griſt, yn blentyn i Dduw, ac yn etifedd teyrnas nêf.

Qweſtiwn.

Pa beth a wnaeth dy dadau bedydd a'th fammau bedydd yr amſer hwnnw troſot ti?

Atteb.

Hwy a addawſant, ac a addunaſant dri pheth yn fy enw. Yn gyntaf, ymwrthod o honof â diafol, ac â'i holl weithredoedd a'i rodres, gorwagedd y byd anwir, a phechadurus chwantau y cnawd. Yn ail bod i mi gredu holl byngciau ffydd Griſt. Ac yn drydydd cadw o honof wynfydedic ewyllys Duw a'i orchymmynion, a rhodio ynddynt holl ddyddiau fy mywyd.

Qweſtiwn.

Onid wyt ti yn tybied dy fod yn rhwymedig i gredu ac i wneuthur megis ac yr addawſant hwy troſot ti?

Atteb.

Ydwyf yn wir, a thrwy nerth Duw felly y gwnâf. Ac ydd wyfi yn mawr ddiolch i'n Tâd nefol, am iddo fy ngalw i gyfryw iechydwriaeth hyn, trwy Ieſu Griſt ein Iachawdur. Ac mi a attolygaf i Dduw roddi i mi ei râd, modd y gallwyf aros ynddo holl ddyddiau fy einioes.

Qweſtiwn.

Adrodd i mi fannau dy ffydd?

Atteb.

Credaf yn Nuw Dâd holl-gyfoethog, Creawdur nef a daiar. Ac yn Ieſu Griſt ei vn Mâb ef ein Harglwydd ni, yr hwn a gaffwyd trwy yr Yſpryd glân, a aned o Fair forwyn, a ddioddefodd tan Bontius Pilat, a groes-hoeliwyd, a fu farw ac a gladdwyd. Deſcynnodd i vffern. Y trydydd dydd y cyfododd o feirw. Derchafodd i'r nefoedd, ac eiſtedd y mae ar ddeheu-law Duw Dâd holl-alluog. Oddi yno y daw i farnu byw a meirw. Credaf yn yr Yſpryd glân, Yr Eglwys lân Gatholic, Cymmun y Sainct, Maddeuant pechodau, Cyfodiad y cnawd, A'r bywyd tragywyddol. Amen.

Qweſtiwn.

Pa beth yr wyt ti yn ei ddyſcu yn bennaf yn y pyngciau hyn o'th ffydd?

Atteb.

Yn gyntaf yr wyf yn dyſcu credu yn Nuw Dâd, yr hwn a'm gwnaeth i a'r holl fyd.

Yn ail, yr ydwyf yn credu yn Nuw Fâb, yr hwn a'm prynodd i, a phob rhyw ddyn.

Yn drydydd, yr wyf yn credu yn Nuw Yſpryd glân, yr hwn ſydd i'm ſancteiddio i, a holl etholedig bobl Dduw.

Qweſtiwn.

Ti a ddywedaiſt ddarfod i'th Dadau-bedydd a'th Fammau-bedydd, addo troſot ti, fod i ti gadw gorchymmynion Duw; Dywet tithau i mi, pa nifer ſydd o honynt?

Atteb.

Dec.

Qweſtiwn.

Pa rai ydynt?

Atteb.

YRhai hynny a leſarodd Duw yn yr ugeinfed bennod o Exodus, gan ddywedyd, Myfi yw'r Arglwydd dy Dduw, yr hwn a'th ddug di ymmaith o dir yr Aipht, o dŷ caethiwed.

1 Na fydded i ti dduwiau eraill onid myfi.

2 Na wna i ti dy hun ddelw gerfiedic, na llun dim ac y ſydd yn y nefoedd uchod, neu yn y ddaiar iſod, nac yn y dwfr tan y ddaiar. Na oſtwng iddynt, ac na addola hwynt: oblegit myfi yr Arglwydd dy Dduw wyf Dduw eiddigus, yn ymweled â phechodau'r tadau ar y plant, hyd y drydedd a'r bedwaredd genhedlaeth o'r rhai a'm caſânt, ac yn gwneuthur trugaredd i filoedd o'r rhai a'm carant, ac a gadwant fy ngorchymynion.

3 Na chymmer Enw yr Arglwydd dy Dduw yn ofer, canys nid gwirion gan yr Arglwydd yr hwn a gymmero ei Enw ef yn ofer.

4 Cofia gadw yn ſanctaidd y dydd Sabbath. Chwe diwrnod y gweithi, ac y gwnei dy holl waith: eithr y ſeithfed dydd yw Sabbath yr Arglwydd dy Dduw: ar y dydd hwnnw na wna ddim gwaith, tydi, na'th fab, na'th ferch, na'th wâs, na'th forwyn, na'th anifail, na'r dyn dieithr a fyddo o fewn dy byrth. Canys mewn chwe diwrnod y gwnaeth yr Arglwydd nef a daiar, y môr, a'r hyn oll ſydd ynddynt, ac a orphwyſodd y ſeithfed dydd. O herwydd paham y bendithiodd yr Arglwydd y ſeithfed dydd, ac a'i ſancteiddiodd ef.

5 Anrhydedda dy dâd a'th fam, fel yr eſtynner dy ddyddiau ar y ddaiar, yr hon a rydd yr Arglwydd dy Dduw i ti.

6 Na lâdd.

7 Na wna odineb.

8 Na ladratta.

9 Na ddwg gam dyſtiolaeth yn erbyn dy gymmydog.

10 Na chwennych dŷ dy gymmydog; na chwennych wraig dy gymmydog, na'i wâs, na'i forwyn, na'i ŷch, na'i aſſyn, na dim a'r ſydd eiddo.

Qweſtiwn.

Beth yr wyt ti yn ei ddyſcu yn bennaf wrth y gorchymynion hyn?

Atteb.

Yr ydwyf yn dyſcu dau beth: fy nylêd tu ag at Dduw, a'm dylêd tu ag at fy nghymmydog.

Qweſtiwn.

Pa beth yw dy ddylêd tu ag at Dduw?

Atteb.

Fy nylêd tu ag at Dduw yw, Credu ynddo, ei ofni, a'i garu, â'm holl galon, â'm holl enaid, ac â'm holl nerth, Ei addoli ef, diolch iddo, rhoddi fy holl ymddiried ynddo, galw arno, anrhydeddu ei ſanctaidd Enw ef a'i air, a'i waſanaethu yn gywir holl ddyddiau fy mywyd.

Qweſtiwn.

Pa beth yw dy ddylêd tu ag at dy gymmydog?

Atteb.

Fy nylêd tu ag at fy nghymmydog yw, ei garu fel fi fy hun, a gwneuthur i bob dyn megys y chwennychwn iddo wneuthur i minnau. Caru o honof, anrhydeddu, a chymmorth fy nhâd â'm mam. Anrhydeddu, ac vfyddhau i'r Brenhin a'i ſwyddogion. Ymddaroſtwng i'm holl lywiawdwyr, dyſcawdwŷr, Bugeiliaid yſprydol, ac athrawon. Ymddwyn o honof yn oſtyngedic, gan berchi pawb o'm gwell. Na wnelwyf niwed i neb ar air na gweithred. Bod yn gywir ac yn vnion ymmhob peth a wnelwyf. Na bwyna châs na digaſedd yn fy nghalon i neb. Cadw o honof fy nwylaw rhac chwilenna a lledratta, cadw fy nhafod rhac dywedyd celwydd, cabl-eiriau, na drwg abſen. Cadw fy nghorph mewn cymhedroldeb, ſobrwydd, a diweirdeb. Na chwbyddwyf ac na ddeiſyfwyf dda na golud neb arall. Eithr dyſcu, a llafurio yn gywir, i geiſio ennill fy mywyd, a gwneuthur a ddylwyf, ymmha ryw fuchedd bynnac y rhyngo bodd i Dduw fy ngalw.

Queſtion.

Fy anwyl blentyn, gwybydd hyd ymma, nad wyt ti abl i wneuthur y pethau hyn o honot dy hûn, nac i rodio yngorchymynion Duw nac i'w waſanaethu ef, heb ei yſpyſol râd ef; yr hwn ſydd raid iti ddyſcu yn waſtad ymoralw am dano trwy ddyfal weddi. Gan hynny moes i mi glywed a fedri di ddywedyd gweddi yr Arglwydd?

Atteb.

Ein Tâd yr hwn wyt yn y nefoedd, ſancteiddier dy Enw, Deued dy deyrnas. Bid dy ewyllys ar y ddaiar megis y mae yn y nefoedd. Dyro i ni heddyw ein bara beunyddiol; A maddeu i ni ein dyledion, fel y maddeuwn ni i'n dyledwŷr, Ac na thywys ni i brofedigaeth; Eithr gwaret ni rhag drwg. Canys ti biau'r deyrnas, a'r nerth, a'r gogoniant, yn oes oeſoedd. Amen.

Queſtion.

Pa beth ydd wyt ti yn ei erchi ar Dduw yn y weddi hon?

Atteb.

Yr ydwyf yn erchi ar fy Arglwydd Dduw, ein Tâd nefol, yr hwn yw rhodd-wr pob daioni, ddanfon ei rad arnaf, ac ar yr holl bobl, fel y gallom ei anrhydeddu ef, a'i waſanaethu, ac vfyddhau iddo megis y dylem. Ac ydd wyf yn gweddio ar Dduw ddanfon i ni bob peth angenrheidiol, yn gyſtal i'n heneidiau, ac i'n cyrph; A bod yn drugarog wrthym, a maddeu i ni ein pechodau; A rhyngu bodd iddo ein cadw a'n amddeffyn ym mhob pericl yſprydol a chorphorol: A chadw o honaw nyni rhag pob pechod ac anwiredd. A rhag ein gelyn yſprydol, a rhag angeu tragywyddol. A hyn yr ydwyf yn ei obeithio y gwna efe o'i drugaredd a'i ddaioni, trwy ein Harglwydd Ieſu Griſt: ac am hynny ydd wyf yn dywedyd, Amen. Poet gwir.

Queſtion.

Pa ſawl Sacrament a ordeiniodd Chriſt yn ei Eglwys?

Atteb.

Dau yn vnig, megis yn gyffredinol yn angenrheidiol i Iechydwriaeth, ſef, Bedydd a Swpper yr Arglwydd.

Queſtion.

Pa beth yr wyt ti yn ei ddeall wrth y gair hwn Sacrament?

Atteb.

Yr wyf fi yn deall, Arwydd gweledig oddi allan, o râs yſprydol oddifewn a roddir i ni; yr hwn a ordeiniodd Chriſt ei hun, megis modd i ni i dderbyn y grâs hwnnw trwyddo, ac i fod yn wyſtl i'n ſicrhau ni o'r grâs hwnnw.

Queſtion.

Pa ſawl rhan y ſydd mewn Sacrament?

Atteb.

Dwy, yr arwydd gweledig oddiallan, a'r grâs yſprydol oddifewn.

Queſtion.

Pa beth yw'r Arwydd gweledig oddiallan, neu'r ffurf, yn y Bedydd?

Atteb.

Dwfr: yn yr hwn y trochir y neb a fedyddir, neu yr hwn a daenellir arno, Yn Enw'r Tâd, a'r Mâb, a'r Yſpryd glân.

Queſtion.

Pa beth yw'r grâs yſprydol oddifewn?

Atteb.

Marwolaeth i bechod, a genedigaeth newydd i gyfiawnder. Canys, gan ein bod ni wrth naturiaeth wedi ein geni mewn pechod, ac yn blant digofaint, drwy Fedydd y gwneir ni yn blant grâs.

Queſtion.

Pa beth a ddiſgwilir gan y rhai a fedyddier?

Atteb.

Edifeirwch, drwy'r hon y maent yn ymwrthod â phechod: A ffydd, drwy'r hon y maent yn ddiyſceg yn credu addewidion Duw, y rhai a wneir iddynt yn y Sacrament hwnnw.

Queſtion.

Pa ham wrth hynny y bedyddir plant bychain, pryd na's gallant o herwydd eu hieuengtid gyflawni y pethau hyn?

Atteb.

Ie, y maent hwy yn eu cyflawni hwy drwy eu meichiau, y rhai ſy yn addaw, ac yn addunedu pob vn o'r ddau yn eu henwau hwynt; y rhai, pan ddelont i oedran, y maent hwy eu hunain yn rhwym i'w cyflawni.

Queſtion.

Pa ham yr ordeiniwyd Sacrament Swpper yr Arglwydd?

Atteb.

Er mwyn tragwyddol gôf am aberth dioddefaint Chriſt, a'r lleſhâd yr ydym ni yn ei dderbyn oddiwrtho.

Queſtion.

Pa beth yw y rhan oddiallan, neu'r Arwydd, yn Swpper yr Arglwydd?

Atteb.

Bara a gwin, y rhai a orchymmynnodd yr Arglwydd eu derbyn.

Queſtion.

Pa beth yw y rhan oddifewn, neu'r peth a arwyddocceir wrth yr arwyddion hynny?

Atteb.

Corph a gwaed Chriſt, y rhai y mae'r ffyddloniaid yn wir ac yn ddiau yn eu cymmeryd ac yn eu derbyn, yn Swpper yr Arglwydd.

Queſtion.

Pa leſhâd yr ydym ni yn ei gael wrth gymmeryd y Sacrament hwn?

Atteb.

Cael cryfhau a diddanu ein heneidiau drwy Griſt, megis y mae ein cyrph yn cael drwy'r bara a'r gwin.

Queſtion.

Queſtiwn.

Pa beth ſy raid i'r rhai a ddêl i Swpper yr Arglwydd ei wneuthur?

Atteb.

Eu holi eu hunain, a ydynt hwy yn wir edifeiriol am eu pechodau a aeth heibio, ac yn ſiccr amcanu dilyn buchedd newydd: a oes ganthynt ffydd fywiol yn nhrugaredd Duw drwy Griſt, gyd â diolchus gôf am ei angeu ef, ac a ydynt hwy mewn cariad perffaith â phob dŷn.

¶ Ar cynted y medro y plant ddywedyd yn iaith eu mam, ſannau yr ffydd, gweddi yr Arglwydd, y dec Gorchymyn, a a hefyd medru o honynt atteb i gyfryw ymofynion o'r Catechiſm byr yma, ag y bo i'r Eſcob (neu i'r neb a oſodo efe) yn ôl ei feddwl eu oppoſio hwynt: Yna y dyger hwy at yr Eſcob gan un a fyddo yn dâd bedydd neu yn fam-fedydd iddo, fel y bo tyſt i bob un o'i gonffirmaſion. A'r Eſcob a'u conffirmia hwy fel hyn.

¶ Conffirmaſion, neu Arddodiad dwylo.

EIn porth ni y ſydd yn Enw yr Arglwydd.

Atteb.

Yr hwn a wnaeth nef a daiar.

Gweinidog.

Bendigaid yw Enw yr Arglwydd.

Atteb.

O hyn hyd yn oes oeſoedd.

Gweinidog.

Arglwydd gwrando ein gweddi.

Atteb.

A deued ein llef hyd attat.

¶ Gweddiwn.

HOll-alluog a byth-fywiol Dduw, yr hwn ſu wiw gennit adgenhedlu dy weiſion hyn trwy ddwfr, a'r Yſpryd glân, ac a roddaiſt iddynt faddeuaint o'u holl bechodau: nertha hwy, ni a attolygwn i ti Arglwydd, â'th Yſpryd glân y Diddanwr: A phennydd ychwanega ynddynt dy aml ddoniau o râd, Yſpryd doethineb a deall, Yſpryd cyngor a nerth yſprydol; Yſpryd gwybodaeth a gwir dduwioldeb; A chyflawnha hwy Arglwydd ag Yſpryd dy ſanctaidd ofn. Amen.

¶ Yna y geſyd yr Eſcob ei law ar bob plentyn wrtho ei hun, gan ddywedyd.

AMddiffyn Arglwydd, y plentyn hwn â'th râs nefol, fel y byddo iddo barhau yn eiddot ti byth, a phennydd gynnyddu yn dy Yſpryd glân fwy-fwy, hyd oni ddel i'th deyrnas dragywyddol. Amen.

¶ Yna y dywed yr Eſcob.

Gweddiwn.

HOll-alluog a byth-fywiol Dduw, yr hwn wyt yn peri i ni ewyllyſio, a gwneuthur yr hyn a wnelom o ddaioni ag y ſydd gymmeradwy gan dy fawredd: Yr ydym yn gwneuthur ein goſtyngedic erſynion attat dros y plant hyn, y rhai (yn ôl eſampl dy ſanctaidd Apoſtolion) y goſodaſom ein dwylo arnynt, i'w ſiccrhâu hwy trwy yr arwydd hwn, fod dy ymgeledd a'th radlawn ddaioni tu ac attynt: Bydded dy Dadol law, ni a attolygwn i ti, byth arnynt: Bydded dy Yſpryd glân byth gyd â hwy, ac felly tywys hwy yngwybodaeth ac ufyddod dy air, modd y gallont yn y diwedd feddiannu bywyd tragywyddol, trwy ein Harglwydd Ieſu Griſt, yr hwn gyd â thi, a'r Yſpryd glân ſydd yn byw ac yn teyrnaſu yn un Duw, heb drangc na gorphen. Amen.

¶ Yna y bendithia yr Eſcob y plant, gan ddywedyd yn y modd hyn.

BEndith yr Holl-alluog Dduw, y Tâd, y Mâb, a'r Yſpryd glân, a fyddo arnoch, ac a drigo gyd â chwi yn dragywydd. Amen.

¶ Bid i Gurat pob plwyf, neu i ryw un arall a'r a oſodo efe, yn ddieſceulus ar y Suliau a'r gwyliau, hanner awr o flaen Goſper, ar oſteg y plwyf yn yr Eglwys, ddyſcu a holi cynniſer o blant ei blwyf ac a ddanfonwyd atto, ar y gwaſanaeth hyn yr amſer, a megis y tybio efe fod yn gymheſur, yn rhyw barth o'r Catechiſm hwn.

A bid i bob tâd a mam, a phob perchen tylwyth, beri i'w plant, i'w gwaſanaethddynion, ac i'w prentiſiaid (y rhai ni ddyſcaſant eu Catechiſm) ddyfod i'r Eglwys ar yr amſer goſodedic, a gwrando yn ufydd, a bod wrth lywodraeth y Curat, hyd oni ddarffo iddynt ddyſcu pob peth ac y ſydd yma wedi ei oſod iw ddyſcu. A pha bryd bynnac y rhoddo yr Eſcob yſtyſrwydd i ddwyn y plant gar ei fron i un lle cyfaddas, i'w conffyrmio: yna dyged Curat pob plwyf, neu ddanfoned yn ſcrifennedic henwau holl blant ei blwyf, ac a fedrant ddywedyd pyngciau y ffydd, Gweddi yr Arglwydd, a'r deng air Deddf, a hefyd pa ſawl un o honynt a fedr atteb i'r Queſtiwnau eraill a gynhwyſir yn y Catechiſm hwn.

¶ Ac na dderbynier neb i'r Cymmun bendigedic, hyd oni fedro ddywedyd y Catechiſm, a'i fod wedi ei gonffyrmio.

¶ Ffurf neu dreſn Priodas.

YN gyntaf rhaid yw goſyn y gyſtegion ar dri Sul gwahanrhedol neu wyliau, ar bryd gw[illegible] yngwydd y plwyf, yn ôl yr arfer ddefodol.

Ac os y rhai a fynnent eu priodi, fydd yn trigo mewn amrafael blwyfau, rhaid yw goſyn [illegible] gion yn y ddau blwyf, ac na bo i'r Curat o'r naill blwyf eu priodi hwy, nes cael [illegible] ddarfod goſyn eu carennydd dair gwaith, gan y Curat o'r plwyf arall.

Ar y dydd goſodedic i fod y Briodas, deued y rhai a brioder i gorph yr Eglwys, a'u ceraint a'u cymmydogion: ac yno y dywed yr Offeiriad fel hyn.

Y Caredigion bobl, ydd ŷm ni wedi ymgynnull yma yngolwg Duw, ac yn wyneb ei gynnulleidfa ef, i gyſſylltu y ddeuddyn hyn ynghyd mewn glân Briodas, yr hon y ſydd ſtâd barchedic, wedi ei ordeinio gan Dduw ym Mharadwys, yn amſer diniweidrwydd dŷn, gan arwyddocâu i ni y dirgel undeb y ſydd rhwng Chriſt a'i Eglwys: yr hon wynfydedic ſtât a addurnodd, ac a brydferthodd Chriſt â'i gynnyrcholdeb ei hun â'r gwyrthiau cyntaf a wnaeth efe yn Cana Galilea. A phriodas hefyd a ddywed S. Paul ei bod yn anrhydeddus ym-mhlith yr holl ddynion: Ac am hynny ni ddylei neb ei chymmeryd arno mewn byrbwyll, o yſcafnder meddwl, neu rwyfiant, er mwyn digoni deiſyfiad a chwantau cnawdol, fel anifeiliaid yſcrublaidd, y rhai ni roddwyd rheſwm iddynt: eithr yn barchedic, yn bwyllog, yn ſobr, ac mewn ofn Duw, gan ddyledus ſyniaw er mwyn pa achoſion yr ordeiniwyd priodas. Vn achos oedd, er ennill plant, iw meithrin yn ofn ac addyſc yr Arglwydd, a moliant Duw. Yn ail, hi a ordeiniwyd yn ymwared yn erbyn pechod, ac i ymogelyd rhag godineb, megis ac y bydde i'r cyfryw rai nad oes iddynt roddiad i ymgynnal, allu priodi, a'u cadw eu hunain yn ddihalogion aelodau corph Chriſt. Y trydydd, er cydgymdeithas â'i gilydd, a'r cymmorth, a'r diddanwch a ddylei y naill ei gael gan y llall, yn gyſtal mewn hawdd-fyd ac adfyd. I'r hon ſanctaidd ſtât y mae yr ddeu-ddyn hyn wedi dyfod i ymgyſſylltu. Herwydd pa ham, o gŵyr neb vn achos cyfion, fel na ellir yn gyfreithlon eu cyſſylltu hwy ynghŷd, dyweded yr awr hon, neu na ddyweded byth rhac-llaw.

¶ *A chan grybwyll hefyd wrth y rhai a brioder, efe a ddywed.*

YDd wyf fi yn erchi, ac yn gorchymyn i chwi (fel y bo i chwi atteb ddydd y farn ofnadwy, pan gyhoedder dirgelion pob calon) o gŵyr yr vn o honoch vn anach fel na ddyloch yn gyfreithlawn fyned ynghyd mewn priodas, gyffeſſu o honoch yn y man. Canys gwybyddwch yn dda, am gynnifer ac a gyſſyllter yn amgen nag y myn gair Duw, na's cyſſylltir hwy gan Dduw, ac nad yw eu priodas yn gyfreithlawn.

¶ *Ac ar ddydd y Briodas, o bydd i neb ddywedyd bod vn anach na ddylent gael eu cyſſylltu mewn priodas, wrth gyfraith Duw, a chyfraith y deyrnas hon, ac a rwymo a meichiau digonol gyd ag ef i'r partion: neu ynteu roddi gwarthol am gostau ac a ddel cymmaint a cholled y rhai oeddynt i'w priodi, i brofi eu ddadl: yna y bydd rhaid oedi dydd y briodas hyd yr amſer y profer y gwirionedd. Ac oni bydd vn anach, yna y dywed y Curad wrth y gwr.*

N. A fynni di y ferch hon yn wraig briod i ti, i fyw ynghyd, yn ôl ordinhâd Duw, ynglân radd priodas? A geri di hi, ei diddanu, ei pherchi, a'i chadw, yn glaf ac yn iach? A gwrthod pob vn arall, a'th gadw dy hun yn vnic iddi hi, tra fyddoch byw eich deuoedd?

Y Mab a etteb.

Gwnaf.

Yna y dywed yr Offeiriad wrth y Ferch.

N. A fynni di y mab hwn yn ŵr priod i ti, i fyw ynghyd yn ôl ordinhâd Duw, ynglân ſtât priodas? A vfyddhei di iddo, a'i waſanaethu, ei garu, ei barchu, a'i gadw, yn glâf ac yn iach, a chan wrthod pawb eraill, dy gadw dy hun yn vnic iddo ef, cyhyd ag y byddoch byw eich deuoedd?

Y Ferch a etteb.

Gwnaf.

Yna y dywed y Gweinidog.

Pwy ſydd yn rhoddi y ferch hon iw phriodi i'r mâb hwn?

¶ *A'r Gweinidog, gan dderbyn y ferch o law ei thad neu ei cheraint, a bair i'r Mab gymmeryd y Ferch erbyn ei llaw ddehau; ac felly bod i bob vn ymgredu â'i gilydd: a bod i'r Mab ddywedyd yn gyntaf.*

YR ydwyf fi, N. yn dy gymmeryd ti N. yn wraig briod i mi, i gadw a chynnal, o'r dydd hwn allan, er gwell, er gwaeth, er cyfoethogach, er tlodach, yn glâf ac yn iâch, i'th garu, ac i'th fawrhau, hyd pan i'n gwahano angeu, yn ôl glân ordinhâd Duw; ac ar hynny yr ydwyf yn rhoddi i ti fy nghrêd.

¶ *Yna y dattodant eu dwylaw, a'r ferch a gymmer drachefn y Mab erbyn ei law ddehau, gan ddywedyd.*

YDd wyf fi N. yn dy gymmeryd ti N. yn ŵr priawd i mi, i gadw a chynnal, o'r dydd heddyw allan, er gwell, er gwaeth, er cyfoethogach, er tlodach, yn glâf ac yn iâch, i'th garu, i'th fawrhâu, ac i vfyddhau i ti, hyd pan i'n gwahano angau, yn ôl glân ordinhâd Duw, ac ar hynny y rhoddaf i ti fy nghrêd.

¶ *Yna drachefn y gollyngant eu dwy law yn rhyddion, ac y dyry y Mab fodrwy i'r ferch, gan ei dodi ar y llyfr, ynghyd â'r dylêd ddefodol i'r Offeiriad a'r yſcolhaig. A'r Offeiriad a gymmer y Fodrwy, ac a'i dyry i'r Mab, iw goſod ar y pedwerydd bys i law aſſwy y Ferch. A'r Mab wrth addyſc yr Offeiriad, a ddywed.*

A'r Fodrwy hon i'th briodaf, â'm corph i'th anrhydeddaf, ac â'm golud bydol i'th gynhyſcaeddaf. Yn Enw 'r Tâd, a'r Mâb, a'r Yſpryd glân. Amen.

¶ *Yna y gâd y Mab y fodrwy ar y pedwerydd bys o'r llaw aſſwy i'r Ferch, ac y dywed y Gweinidog.*

Gweddiwn.

O Dragywyddol Dduw, Creawdr a cheidwad pob rhyw ddyn, rhoddwr pob rhâd yſprydol, awdur y bywyd a bery byth: Anfon dy fendith ar dy waſanaeth-ddynion hyn, y mab hwn, a'r ferch hon, y rhai ydd ŷm ni yn eu bendithio yn dy Enw di, fel ac y bu i Iſaac a Rebeca fyw yn ffyddlawn ynghyd, felly gallu o'r dynion hyn gyflawni a chadw yr adduned a'r ammod a wnaed rhyngddynt; am yr hyn y mae rhoddiad a derbyniad y Fodrwy hon yn arwydd ac yn wyſtl, a gallu o honynt byth aros ynghyd mewn perffaith gariad a thangnheddyf, a byw yn ôl dy ddeddfau, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd. Amen.

¶ *Yna y cyſſyllta yr Offeiriad eu dwy law ddehau hwy ynghyd, ac y dywed.*

Y rhai a gyſſylltodd Duw ynghyd, na wahaned dyn.

¶ *Yna y dywed y Gweinidog wrth y bobl.*

YN gymmaint a darfod i N. ac N. gydſyniaw mewn glân Briodas, a thyſtiolaethu hynny gar bron Duw a'r gynnulleidfa hon, ac ar hynny ddarfod iddynt ymgredu, ac ymwyſtlo bob vn iw gilydd, a declario hynny gan roddi a derbyn Modrwy, a chyſſylltu dwy-law: ydd wyf fi yn hyſpyſſu eu bod hwy yn ŵr ac yn wraig ynghyd: yn Enw 'r Tad, a'r Mâb, a'r Yſpryd glân. Amen.

¶ *A'r Gweinidog a'u bendithia hwy â'r fendith hon yn anghwanecc.*

DVw Tâd, Duw Fâb, Duw Yſpryd glân, a'ch bendithio, a'ch cadwo, ac a'ch cynnortho: Edryched yr Arglwydd yn drugarog ac yn ymgeleddus arnoch, a chyflawned chwi a phob yſprydol fendith a rhad, modd y galloch fyw ynghyd yn y fuchedd hon, fel y bo i chwi yn y byd a ddaw allu meddiannu bywyd tragywyddawl. Amen.

¶ *Yna y Gwenidogion, neu yr Yſcolheigion gan fyned i fwrdd yr Arglwydd, a dywedant, neu a ganant y Pſalm hon ſydd yn canlyn.*

Beati omnes. Pſa. 128.

GWyn ei fyd pob vn ſydd yn ofni yr Arglwydd: yr hwn ſydd yn rhodio yn ei ffyrdd ef.

2 Canys mwynhei lafur dy ddwylo: gwyn dy fyd a da fydd it.

3 Dy wraig fydd fel gwin-wydden ffrwyth-lawn ar hyd yſtlyſau dy dŷ: dy blant fel planhigion olewydd o amgylch dy ford.

4 Wele fel hyn yn ddiau y bendithir y gŵr a ofno yr Arglwydd.

5 Yr Arglwydd a'th fendithia allan o Sion, a thi a gei weled daioni Ieruſalem holl ddyddiau dy einioes.

6 A thi a gei weled plant dy blant, a thangneddyf ar Iſrael.

Gogoniant i'r Tâd, ac i'r Mâb, ac i'r Yſpryd glân:
Megis yr oedd yn y dechreu, y mae yr awr hon, &c.

¶ *Neu ynteu y Pſalm yma.*

Deus miſereatur. Pſal. 67.

DVw a drugarhao wrthym, ac a'n bendithio, a thywynned ei wyneb arnom, a thrugarhaed wrthym. *Selah.*

2 Fel yr adwaener dy ffordd ar y ddaiar, a'th iechydwriaeth ym mhlith yr holl genhedloedd.

3 Molianned y bobl di ô Dduw: molianned yr holl bobl dydi.

4 Llawenhaed y cenhedloedd a byddant hyfryd, canys tydi a ferni y bobl yn vniawn, ac a lywodraethi y Cenhedloedd ar y ddaiar. *Selah.*

5 Molianned y bobl di ô Dduw: molianned yr holl bobl dydi.

6 Yna yr ddaiar a rydd ei ffrwyth: a Duw, ſef ein Duw ni, a'n bendithia.

7 Duw a'n bendithia: a holl derfynau yr ddaiar a'i hofnant ef.

Gogoniant i'r Tâd, ac i'r Mâb, ac i'r Yſpryd glân:
Megis ydd oedd yn y dechreu, y mae yr awr &c.

¶ *Wedi gorphen y Pſalm, a'r Mâb a'r Ferch yn goſtwng ger bron bwrdd yr Arglwydd, yr Offeiriad yn ſefyll wrth y bwrdd, a chan ymchwelyd ei wyneb attynt hwy, a dywed.*

Arglwydd trugarhâ wrthym.

Atteb.

Chriſt trugarhâ wrthym.

Gwenidog.

Arglwydd trugarhâ wrthym.

EIn Tâd yr hwn wyt yn y nefoedd, &c.
Ac na thywys ni i brofedigaeth:

Atteb.

Eithr gwared ni rhag drwg. Amen.

Gwenidog.

Arglwydd cadw dy waſanaeth-wr, a'th waſanaeth-wraig.

Atteb.

Y rhai ſy yn ymddiried ynot.

Gwenidog.

Arglwydd danfon iddynt gymmorth o'th gyſſegrfa.

Atteb.

Ac amddiffyn hwy yn dragywydd.

Gwenidog.

Bydd iddynt yn dŵr cadernid.

Atteb.

Rhac wyneb eu gelynion.

Gwenidog.

Arglwydd gwrando ein gweddi.

Atteb.

A deued ein llef hyd attat.

Gwenidog.

DVw Abraham, Duw Iſaac, Duw Iacob, bendithia dy waſanaeth-ddynion hyn, a heua hâd buchedd dragywyddol yn eu meddyliau, megis pa beth bynnag yn dy air cyſſegredic yn fuddiol a ddyſcant, iddynt allu cyflawni hynny yngweithred. Edrych arnynt Arglwydd, yn drugarog o'r nefoedd, a bendithia hwynt. Ac fel yr anfonaiſt dy fendith ar Abraham a Sara, iw mawr ddiddanwch hwy felly bid gwiw gennit anfon dy fendith at dy waſanaeth-ddynion hyn, modd y bo iddynt (yn vfydd i'th ewyllys, a chan fod bob amſer dan dy nawdd) allu aros yn dy ſerch hyd ddiwedd eu hoywyd, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd. Amen.

¶ *Y weddi hon ſy'n canlyn a ſâdewir pan fyddo'r ferch dros oedran planta.*

O Drugarog Arglwydd a nefol Dâd, trwy radlawn ddawn yr hwn yr amlhâ hiliogaeth dŷn: Attolygwn i ti gymmorth â'th fendith y ddeuddyn hyn, fel y gallont fod yn ffrwythlon i hilio plant, a hefyd cydfod a byw mewn cariad Duwiol a ſyberwyd, hyd oni welont blant eu plant, hyd y drydedd a'r bedwaredd genhedlaeth, i'th foliant a'th anrhydedd di, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd. Amen.

DVw, yr hwn drwy alluog nerth a wnaethoſt pob peth o ddiddim ddeſnydd, yr hwn hefyd wedi goſod pethau eraill mewn trefn, a ordeiniaiſt allan o ddyn, yr hwn a grewyd ar dy lun a'th ddelw dy hun, gael o wraig ei dechreuad, a chan eu cyſſylltu hwy ynghyd yr arwyddoccaiſt na byddei byth gyfreithlon wahanu y rhai trwy briodas a wnelit ti yn vn. O Dduw, yr hwn a gyſſegraiſt yſtad priodas i gyfryw ragorawl ddirgeledigaeth megis ac yr arwyddoceir, ac y cyffelybir ynddi y Briodas yſprydol, a'r vndeb rhwng Chriſt a'i Eglwys. Edrych yn drugarog ar y rhai hyn dy waſanaeth-ddynion, fel y gallo y gŵr hwn garu ei wraig, yn ôl dy air di (megis y carodd Chriſt ei Briawd yr Eglwys, yr hwn a'i rhoes ei hunan droſti gan ei charu, a'i mawrhau, fel ei gnawd ei hunan) a hefyd bod y wraig hon yn garuaidd, ac yn ſerchog iw gŵr megis Rachel, yn ddiſeml megis Rebecca, yn ffyddlawn ac yn vfydd megis Sara, ac ym mhob heddwch, ſobrwydd, a thangneddyf, ei bod yn canlyn cyfryw ſanctaidd a duwiol foneddigeſau. Arglwydd bendithia hwy ill dau, a chaniadhâ iddynt etifeddu dy deyrnas dragywyddol, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd. Amen.

¶ *Yna y dywed yr Offeiriad.*

HOll-gyfoethog Dduw, yr hwn yn y dechreuad a greawdd ein rhieni Adda ac Efa, ac a'u cyſſegrodd ac a'u cyſſylltodd ynghyd yn-mhriodas, a dywallto arnoch olud ei râd ef, a'ch ſancteiddio, ac a'ch bendithio, modd y galloch ei foddloni ef ynghorph ac enaid, a byw ynghyd mewn duwiol ſerch hyd ddiwedd eich oes. Amen.

¶ *Yna y dechreuir y Cymmun, ac wedi yr Efengyl y dywedir pregeth, yn yr hon yn gyffredinol (bob gwaith ac y bo priodas) y datcenir ſwydd gwr a gwraig yn ôl yr Scrythur lân. Neu oni bydd Pregeth, darllened y Gwenidog y bregeth ſy'n canlyn.*

CHwy-chwi oll y rhai a briodwyd, neu ſy yn darpar cymeryd glân yſtâd priodas arnoch, gwrandewch pa beth a ddywed yr Scrythur lân oblegit dyled gwŷr iw gwragedd, a gwragedd i'w gwŷr.

Sanct Paul yn ei Epiſtol at yr Ephesiaid, yn y pummed bennod, ſydd yn rhoddi y gorchymyn hwn i bob gŵr priod.

Chwi-chwi wŷr, cerwch eich gwraged, megis y carodd Criſt ei Eglwys, ac y rhoddes ei hun droſti, i'w chyſſegru, gan ei glanhau yn y ffynnon ddwfr trwy y gair, fel y gallei ei gwneuthud iddo ei hun yn gynnulleidfa ogoneddus, heb arni na magl, na chrychni, neu ddim cyfryw a eithr ei bod yn lân ac yn ddiargyoedd. Ac y mae yr gwŷr yn rhwymedic i garu eu gwragedd, fel eu cyrph eu hunain. Pwy bynnac a garo ei wraig, a'i câr ei hun: gan na chaſſeodd neb er ioed ei gnawd ei hun, eithr ei fagu, a'i fecthu, megis y gwna yr Arglwydd am y gynnulleidfa: canys aelodau o'i gorph ef ydym, a'i gnawd, a'i eſcyrn. O herwydd pa achos y gâd dyn ei dad a'i fam, ac y cyſſylltir â'i wraig a hwy ill dau fyddant yn vn cnawd. Y dirgelwch hyn ſydd fawr: eithr am Griſt ye am y gynnulleidfa ydd wyfi yn crybwyll. O herwydd pa ham, cared pawb o honoch ei wraig megis ei hunan.

Coloſſ.3. Yr vnffunyd yr vn rhyw S. Paul yn ſcrifennu at y Coloſſiaid, a ddywed fel hyn wrth bob gŵr gwreigioc. Y gwŷr, cerwch eich gwragedd, ac na fyddwch chwerwon wrthynt.

1.Pet.3. Gwrandewch hefyd pa beth a ddywaid Petr Apoſtol Chriſt, yr hwn hefyd oedd ei hun yn wr gwreigiog, wrth y gwyr gwreigiog. Y gwŷr, trigwch gyd â'ch gwragedd yn ôl gwybodaeth, gan berchi y wraig megis lleſtr gwannach, a megis cyd-etifeddion or rhâd y bywyd, fel na rwyſtrer eich gweddiau.

Hyd yn hyny clywſoch am ddyled gŵr tu ag at ei wraig. Yr awr hon yr vn ffunyd, y gwragedd, gwrandewch eich dylêd chwithau i'ch gwyr, fel y mae yn eglurwedi ei ddatcan yn yr Scrythur lân.

Sanct Paul (yn yr vnrhyw Epiſtol at yr Epheſiaid) a'ch dyſc fel hyn; Y gwraged, byddwch ddaroſtyngedic i'ch gwŷr priod fel i'r Arglwydd: canys y gŵr ſydd ben ar y wraig, megis y mae Criſt yn ben ar yr Eglwys: ac efe yw Iachawdur yr holl gorph. Epheſ.

Am hynny megis y mae yr Eglwys, neu yr gynnulleidfa yn ddaroſtyngedic i Griſt; felly yr vn modd, ymddaroſtynged y wragedd iw gwŷr ym mhob peth. A thrachefn y dywaid efe, Parched y wraig ei gŵr. Ac (yn ei Epiſtol at y Coluſſiaid) y mae Sainct Paul yn rhoddi i'wch y wers ferr hon; Y gwragedd, ymoſtyngwch i'ch gwŷr priod, megis y mae yn weddus yn yr Arglwydd. Coloſſ.

S. Petr ſydd hefyd yn eich dyſcu yn wîr dduwiol, gan ddywedyd fel hyn. Ymoſtynged y gwragedd iw gwŷr priod, fel os bydd neb heb vfyddhau i'r gair, y galler ei ennill heb y gair, drwy ymarweddiad y gwragedd. wrth iddynt weled eich diwair ymddygiad yn gyſſylltedic ag ofn. Ac na fid eich trwſiad oddi allan, megis oblethiadau gwallt, ac amgylchoſodiad aur, neu wyſco dillad gwychion. Eithr bydded dirgel ddyn y galon mewn anllygredigaeth yſpryd addfwyn, a llonydd, yr hyn ſydd ger bron Duw yn werth-fawr. Canys felly gynt yr ymdrwſiei yr wragedd ſanctaidd, y rhai oedd yn gobeithio ar Dduw, yn ddaroſtyngedic iw gwŷr priod. Megis yr vfyddhaodd Sara i Abraham gan ei alw ef yn Arglwydd: merched yr hon fyddwch chwi, o wneuthur yn dda, heb arnoch ofn dim dychryn. 1.Pet.3. Hebr.

¶ Rhaid i'r dynion newydd briodi, y dydd y priodir hwy, gymmeryd y Cymmun.

¶ Y dreſn am ymweled â'r Clâf.

¶ Yr Offeiriad wrth fyned i mewn i dy y Claf, a ddywed.

Tangneddyf fyddo yn y tŷ hwn, ac i bawb y ſydd yn trigo ynddo.

¶ Pan ddel efe yngŵydd y claf, y dywaid gan oſtwng i lawr ar ei liniau.

NA chofia Arglwydd ein anwiredd, nac enwiredd ein rhieni, Arbet nyni Arglwydd daionus, arbet dy bobl a brynaiſt â'th werth-fawr waed, ac na lidia wrthym yn dragywydd.

Arglwydd trugarhâ wrthym.

Chriſt trugarhâ wrthym.

Arglwydd trugarhâ wrthym.

¶ Ein Tâd yr hwn wyt yn y nefoedd, &c.

Ac na thywys ni i brofedigaeth.

Atteb.

Eithr gwaret ni rhag drwg. Amen.

Gwenidog.

Arglwydd iachâ dy wâs.

Atteb.

Yr hwn ſydd yn ymddiried ynot.

Gwenidog.

Anfon iddo borth o'ch ſancteiddfa.

Atteb.

Ac bydd yn nerthol amddiffyn ef.

Gwenidog.

Na âd i'r gelyn gael y llaw vchaf arno.

Atteb.

Nac i'r enwir neſſau iw ddrygu.

Gwenidog.

Bydd iddo Arglwydd yn dwr cadarn

Atteb.

Rhag wyneb ei elyn.

Gwenidog.

Arglwydd gwrando ein gweddiau.

Atteb.

A deled ein llef hyd attat.

ARglwydd edrych i lawr o'r nefoedd, golyga, ymwel, ac eſmwytha ar dy wâs hwn. Edrych arno â golwg dy drugaredd, dyro iddo gwaſſordd a diogel ymddiried ynot, amddiffyn ef rhag perygl y gelyn, a chadw ef mewn tangneddyf dragywyddol a diogelwch, trwy Ieſu Griſt, &c.

ERglyw ni holl-gyfoethog a thrugaroccaf Dduw, ac Iachawdur, eſtyn dy arferedic ddaioni i hwn dy waſanaeth-wr ſydd ofidus gan ddolur, ymwel ag ef Arglwydd, megis yr ymwelaiſt â mam gwraig Petr, ac â gwâs y captaen: felly ymwel a dyro i'r clâf hwn ei gynefin iechyd, (od yw dy ewyllys,) neu ddyro iddo râs i gymmeryd felly dy ymweliad, fel y bo iddo yn ol diweddu y fuchedd boenedic hon, allu trigo gyd â thi yn y fuchedd dragywyddol. Amen.

¶ Yna cynghored y Gwenidog y Claf yn y ffurf hyn, neu yr cyfryw.

YR anwyl garedic, gwybydd hyn, mai yr Hollalluog Dduw ſydd Arglwydd ar fywyd ac angeu, ac ar bob peth a berthyn iddynt, megis ieuenctid, nerth, iechyd, oedran, gwendid, a haint. Am hynny pa peth bynnac yw dy glefyd, gwybydd yn ddiammau mai ymweliad Duw ydyw. Ac am ba achos bynnac ydd anfonwyd y clefyd hwn arnat, ai er profi dy ddioddefgarwch, er eſampl i eraill, ac er mwyn caffael dy ffydd yn fydd yr Arglwydd yn ganmoledig, yn barchedic, ac yn anrhydeddus, er ychwaneg o ogoniant a didranc ddedwyddwch, neu ddanfon y clefyd hwn i goſpi ynoti beth bynnac ſydd yn anfoddhau golwg ein Tâd nefol: Gwybydd yn ddiammeu, os tydi a fyddi wir edifeiriol am dy bechodau, a chymmeryd dy glefyd yn ddioddefgar, ac ymddiried yn-nhrugaredd Dduw, er mwyn ei anwyl Fab Ieſu Griſt, a rhoddi iddo oſtyngedic ddiolch am ei dadol ymweliad, a bod i ti ymddaroſtwng yn hollawl iw ewyllys ef, yr ymchwel i'th ſûdd, ac i'th gymmorth rhagot i'r vniawn ffordd a dywys i fuchedd dragywyddol.

¶ *Os y dyn ymweledic a fydd yn drym-glaf, yna y dichon y Curad orphen y Cyngor yn y fan hon.*

AM hynny cymmer yn groeſawus goſpedigaeth yr Arglwydd, Canys y neb a garo yr Arglwydd a goſpa: Ac (fel y dywed Sanct Paul) efe a fflangella bob mab a dderbynio. Os goddefwch goſpedigaeth, y mae Duw yn ymgynnyg i chwi megis iw feibion ei hun, canys pa fab ſydd na's coſpo ei dâd ef? Eithr os heb goſpedigaeth yr ydych, o'r hon y mae pob gwir bleutyn yn gyfrannog, yna baſtardiaid ydych, ac nid meibion o briod. Heb law hynny, ni a gawſom dadau ein cyrph yn goſpwyr, ac ni a'u parchaſom: onid mwy o lawer y mae i ni ymoſtwng i Dâd yr yſprydoedd, a chael byw? Canys hwynt-hwy yn wir tros ychydic ddyddiau a'n coſpent ni, fel y byddei dda ganddynt; eithr efe ſydd yn ein coſpi er lleſâd i ni, fel y byddem gyfrannogion o'i ſancteiddrwydd ef. Y geiriau hyn, garedic frawd, yw geiriau Duw, ac yn ſcrifennedic yn yr Scrythur lân er conffordd, ac addyſc i ni, fel y gallom yn oddefgar, ac yn ddiolchgar, ddwyn coſpedigaeth ein Tâd o'r Nêf, pa bryd bynnac drwy ffodd yn y byd ar wrthwyneb yr ewyllyſio ei rad-lawn ddaioni ef ymweled â ni. Ac ni ddylei bod conffordd mwy gan Griſtionogion nâ chael eu gwneuthud yn gyffelyb i Griſt, trwy ddioddef yn vfyddgar wrthwyneb, trallod, â chlefydau. Canys nid aeth efe ei hun i'r llawenydd, nes yn gyntaf iddo ddioddef poen; nid aeth efe i mewn iw ogoniant, nes dioddef angeu ar bren crog: felly yn wir, yr vnion ffordd i ni i'r gorfoledd tragywyddol, ydyw cyd-ddioddef yma gyd â Chriſt; A'n drws i fyned i mewn i fywyd tragywyddol, ydyw marw yn llawen gyd â Chriſt, fel y gallom gyfodi drachefn o angau, a thrigo gyd ag ef ym-mywyd tragywyddol. Yn awr gan hynny, os cymmeri dy glefyd yn oddefgar, (ac yntau yn gyſtal â hyn ar dy lês) yr ydwyf fi yn eiriol arnat yn Enw Duw, goffáu y broffeſſ a wnaethoſt i Dduw yn dy fedydd. Ac o herwydd yn ol y fuchedd hon bod yn ddir gwneuthur cyfrif i'r barn-wr cyfiawn, gan ba vn y bernir pob dyn, heb dderbyn wyneb; Yddwyf yn erchi i ti ymchwilio â thi dy hun, a'th gyflwr tu ag at Dduw a dyn: fel y bo i ti drwy dy gyhuddo a'th farnu dy hunan am dy feiau, allu cael trugaredd ar law ein Tâd o'r nef er mwyn Chriſt, ac nid bod yn gyhuddedic, ac yn farnedic yn amſer y ddigllawn farn ofnadwy. Ac am hynny yr adroddaf ar fyr eiriau, fannau ein ffydd ni, fel y gellych wybod a wyti yn credu fel y dylei Griſtion, ai nad wyt.

Hebr. 12.

¶ *Yna yr adrodd y Gwenidog fannau yr ffydd, gan ddywedyd fel hyn.*

A wyt ti yn credu yn Nuw Dad holl-gyfoethog? &c. *Fel y mae yn y Bedydd.*

¶ *Yna yr ymofyn yr Offeiriad neu'r Curad ag ef, a ydyw efe ai bod mewn cariad perffaith â'r holl fyd a'i peidio? gan eiriol arno faddeu o eigion ei galon i bob dyn a wnaeth yn ei erbyn: ac os efe a wnaeth yn erbyn arall, ir efyn o honaw faddeuant iddynt. A lle y gwnaeth efe gam neu drawſter â neb, ar wneuthur o honaw iawn hyd yr eithaf y gallo. Ac oddieithr iddaw ym-blaen-llaw wneuthur ei lywodraeth am ei dda, gwnaed yna ei ewyllys. A hefyd danges o honaw am ei ddyledion pa faint ſydd arno, a pha faint ſydd o ddyled iddo, er mwyn eſmwythdra ei gydwybod, a heddwch iw ſecutorion. Ac y mae yn angenrheidiol rhybyddio dynion yn fynych am wneuthur trefn ar eu da, a'u tiroedd tra fyddont mewn iechyd.*

Y geiriau hyn y rhai a ddywetpwyd uchod, a ellir eu cymmwyll cyn dechreu o'r Gwenidog ei weddi megis ag y gwelo efe achos.

Nac anghofied y Gwenidog, ac na fadded eiriol ar y claf (a hynny yngwbl ddifrifol), ar iddo ddangos haelioni i'r tlodion.

Yma hefyd y gwna y dyn clwyfus gyffes yſprydawl, os efe a glyw ei gydwybod mewn cythryfwl gan ddefnydd o bwys. Yn ôl y gyffes honno, y gollwng yr Offeiriad efe yn y modd hon.

EIn Harglwydd Ieſu Griſt, yr hwn a adawodd feddiant iw Eglwys i ollwng pob pechadur a fyddo gwir edifeiriol, ac yn credu ynddo ef, o'i fawr drugaredd a faddeuo i ti dy gamweddau: a thrwy ei awdurdod ef a ganiadhawyd i mi, i'th ollyngaf o'th holl bechodau, yn Enw'r Tad, a'r Mab, a'r Yſpryd glân. Amen.

¶ *Ac yna y dywed yr Offeiriad y Colect yma iſod.*

¶ Gweddiwn.

ODrugarocaf Dduw, yr hwn yn ôl lliosawgrwydd dy drugaredd, wyt felly yn dilew pechodau y rhai ſydd wir edifeiriol, fel nad wyt yn eu coſio mwy: agor lygad dy drugaredd ar dy waſanaeth-wr yma, yr hwn o wir ddifrif ſydd yn dymuno gollyngdod a maddeuaint. Adnewydd ynddo garedicaf Dâd, beth bynnac a lefcwyd trwy ddichell a malis y cythrael, neu drwy ei gnawdol ewyllys ei hun, a'i wendid: cadw a chynnal yr aelod clwyfus hwn o fewn vndeb dy Eglwys, yſtyria wrth ei wir edifeirwch, derbyn ei ddagrau, yſcafnhâ ei ddoluriau, modd y gwelych di fod yn oreu er ei lês. Ac yn gymmaint a'i fod efe yn rhoddi cwbl o'i ymddiried yn vnic yn dy drugaredd di, na liwia iddo ei bechodau o'r blaen, eithr cymmer ef i'th nodded, trwy rynglyddon dy garedicaf Fab Ieſu Griſt. Amen.

¶ *Yna y dywed y Gwenidog y Pſalm hon.*

Yn te Dō
mine ſpe
ravi. Pſa
71.

YNot ti ô Arglwydd, y gobeithiais na'm cwilydder byth.

2 Achub fi, a gwaret fi yn dy gyfiawnder: goſtwng dy gluſt attaf ac achub fi.

3 Bydd i mi yn graig gadarn, i ddyfod iddi bob amſer: gorchymynnaiſt fy achub, canys ti yw fy nghraig a'm hamddeffynfa.

4 Gwaret fi ô fy Nuw, o law'r annuwiol, o law yr anghyfiawn a'r trawſ.

5 Canys ti yw fy ngobaith, ô Arglwydd Dduw, fy ymddiried o'm ieuengctid.

6 Wrthit ti i'm cynhaliwyd o'r bru; ti a'm tynnaiſt o grôth fy mam: fy mawl ſydd yn waſtad am danat ti.

7 Oeddwn i lawer megis yn rhyfeddod: eithr tydi yw fy nghadarn nodded.

8 Llanwer fy ngenau â'th foliant, ac â'th ogoniant beunydd.

9 Na fwrw fi ymmaith yn amſer henaint: na wrthod fi pan ballo fy nerth.

10 Canys fy ngelynion ſydd yn dywedyd i'm herbyn a'r rhai a ddiſgwiliant am fy enaid, a gyd-ymgynghorant.

11 Gan ddywedyd, Duw a'i gwrthododd ef, erlidiwch, a deliwch ef: canys nid oes a'i gwaredo.

12 O Dduw, na ſydd bell oddi wrthif: fy Nuw, bryſia i'm cymmorth.

13 Cywilydder, a difether y rhai a wrthwynebant fy enaid; a gwarth ac a gwradwydd y gorchuddier y rhai a geiſiant ddrwg i mi.

14 Minnau a obeithiaf yn waſtad, ac a'th foliannaf di fwy-fwy.

15 Fy ngenau a fynega dy gyfiawnder, a'th iechydwriaeth beunydd: canys ni wn rifedi arnynt.

16 Ynghadernid yr Arglwydd Dduw y creddaf, dy gyfiawnder di yn vnic a goffaf fi.

17 O'm ieuengctid i'm dyſcaiſt ô Dduw, hyd yn hyn y mynegais dy ryfeddodau.

18 Na wrthod fi ychwaith, ô Dduw, mewn henaint a phen llwydni, hyd oni fynegwyf dy nerth i'r genhedlaeth hon, a'th gadernid i bob vn a ddelo.

19 Dy gyfiawnder hefyd ô Dduw, ſydd vchel, yr hwn a wnaethoſt bethau mawrion; pwy, ô Dduw, ſydd debyg i ti?

20 Ti yr hwn a wnaethoſt i mi weled aml a blin gyſtuddiadau, a'm bywhei drachefn, ac a'm cyfodi drachefn o orddyfnder y ddaiar.

21 Amlhei fy mawredd, ac a'm cyſuri oddi amgylch.

22 Minnau a'th foliannaf ar offeryn nabl, ſef dy wirionedd ô fy Nuw: canaf it a'r delyn, ô Sanct Iſrael.

23 Fy ngwefuſau a fyddant hyfryd pan ganwyf i ti, a'm henaid, yr hwn a waredaiſt.

24 Fy nhafod hefyd a draetha dy gyfiawnder beunydd, o herwydd cywylyddiwyd, a gwradwyddwyd y rhai a geiſiant niwed i mi.

Gogoniant i'r Tâd, ac i'r Mâb, ac i'r Yſpryd glân.
Megis ydd oedd yn y dechreu, y mae yr awr hon, ac y bydd yn dragywydd. Amen.

¶ Gan ddywedyd hyn yn ychwaneg.

IAchawdur y byd, iachâ ni, yr hwn drwy dy grog a'th werthfawr waed a'n prynaiſt, cymmorth ni, nyni a attolygwn i ti ô Dduw.

¶ Yna y dywed y Gweinidog.

YR holl-alluog Arglwydd, yr hwn yw y twr cadarnaf i bawb a roddant eu hymddiried ynddo, i ba vn y mae pob peth yn y nef, ar y ddaiar, a than y ddaiar yn goſtwng ac yn vfyddhau, a fyddo yr awr hon, a phob amſer yn amddiffyn i ti, ac a wnêl i ti wybod a deall nad oes vn Enw dan y nef wedi ei roddi i ddynion, yn-mha vn, a thrwy ba vn y mae i ti dderbyn iechydwriaeth, onid yn vnic Enw ein Harglwydd Ieſu Griſt. Amen.

Cymmun y Claf.

YN gymmaint a bod pob rhyw ddyn yn ddaroſtyngedic i lawer o beryglon dyſyfyd, heintiau, a chlefydau, a byth yn anhyſpys pa bryd yr ymadawant o'r fuchedd hon: herwydd pa ham, er mwyn gallu o honynt fod bob amſer mewn parodrwydd i farw pa bryd bynnac y rhyngo bodd i'r Holl-alluog Dduw alw am danynt: Bid i'r Curadiaid yn ddyfal, o amſer i amſer, ac yn enwedic yn amſer pla, gynghori ei blwyfolion i gymmeryd yn fynych yn yr Eglwys, fendigedic Gymmun corph a gwaed ein Iachawdur Ghriſt. Yr hyn os hwyntwy a'i gwnant, ni bydd achos iddynt yn eu hymweliad diſymwth, i fod yn anheddychol eu meddwl o ddiffyg hynny. Ond os y claf ni bydd abl i ddyfod i'r Eglwys, ac etto yn dymuno cymmeryd y Cymmun yn ei dy, yna y bydd rhaid iddo fynegi dros nos, neu ynteu y boreu ddydd dranoeth i'r Curat, gan arwyddocau hefyd pa ſawl vn y ſydd yn darparu cyd-gymmuno ag ef. Ac o bydd lle cyfaddas yn-nhy y clâf, fel y gallo y Curad yn barchedic finiſtrio, a niſer da i gymmeryd y Cymmun gyd â'r clâf, a phob peth angenrheidiol i hynny, miniſtred efe yno y Cymmun bendigedic.

Y Colect.

HOll-gyfoethog a byth-fywiol Dduw, gwneuthur-wr dynawl ryw, yr hwn wyt yn coſpi y rhai a gerych, ac yn ceryddu pawb ar a dderbyniech: Nyni a attolygwn i ti drugarhau wrth dy wâs hwn yma ymweledic gan dy law, ac i ti ganiatâu gymmeryd o honaw ei glefyd yn ddioddefus, a chaffael ei iechyd drachefn, (os dy raddlawn ewyllys di yw hynny;) a pha bryd bynnac yr ymadawo ei enaid â'i gorph, bod o honaw yn ddifagl wrth ei breſentio i ti, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd. Amen.

Yr Epiſtol.

Heb. 12.5 FY mâb, na ddirmyga gerydd yr Arglwydd, ac na ymollwng pan i'th argyoedder ganddo, canys y neb y mae yr Arglwydd yn ei garu, y mae yn ei geryddu, ac yn fflangellu pob mab a dderbynio.

Yr Efengyl

Io. 5. 24. YN wir yn wir meddaf i chwi, y neb ſydd yn gwrando fy ngair i, ac yn credu i'r hwn a'm hanfonodd i, a gaiff fywyd tragywyddol, ac ni ddaw i farn, eithr efe a aeth trwodd o farwolaeth i fywyd.

¶ Pan gyfranner y Sacrament bendigedic, cymmered yr Offeiriad yntef ei hun y Cymmun yn gyntaf, ac yn ôl hynny, miniſtried i'r rhai a ddarparwyd i Gymmuno gyd â'r claf.

Eithr o bydd neb o ddirfawr dolur, neu o herwydd eiſieu rhybydd mewn amſer dyladwy i'r Curad, neu o eiſieu ſwrn i gymmeryd gyd ag ef, neu oblegit rhyw rhwyſtr cyfiawn arall, heb gymmeryd Sacrament corph a gwaed Criſt: yna dangoſed y Curad iddo, os efe ſydd wîr edifeiriol am ei bechodau, ac yn credu yn ddiyſtos ddarfod i Ieſu Griſt ddioddef angeu ar y groes droſto, a cholli ei waed dros ei brynedigaeth ef, gan goffa yn ddifrif y mawr ddaioni ſydd iddo ef o hynny, a chan ddiolch iddo o'i galon am danaw, ei fod yn bwyta ac yn yfed corph a gwaed ein Iachawdur Chriſt yn fuddiol i iechyd ei enaid, er nad yw efe yn derbyn y Sacrament â'i enau.

Pan ymweler â'r clâf, ac yntau yn cymmeryd y Cymmun bendigedic yr vn amſer: bid yna i'r Offeiriad er mwyn pryſuro yn gynt, dorri ymmaith ffurf yr ymweliad lle mae yr Pſalm, Ynot Arglwydd y gobeithiais, &c. *ac aed yn vniawn i'r Cymmun.*

Yn amſer plâ, clefyd y chwys, neu ar gyfryw amſerau heintiau neu glefydau hyn, pryd na allo cael yr vn o'r plwyf neu 'r cymmydogion i gymmuno gyd â'r cleifion yn eu tai, rhag ofn cael yr haint; ar gyſſol ddeiſyfiad y clâf, fe all y Gweinidog yn vnic gymmuno gyd ag ef.

¶ Y dreſn am gladdedigaeth y marw.

¶ Yr Offeiriad wrth gyfarfod â'r corph wrth borth y fonwent, a ddywed: neu yr Offeiriad a'r yſcolheigion a ganant, ac felly myned i'r Eglwys, neu [illegible] a'r bedd.

11.25. MYſi yw yr cyfodiad a'r bywyd, medd yr Arglwydd; y neb a gredo ynof fi, er iddo farw a fydd byw. A phwy bynnac a fo byw, ac a gredo ynofi, ni bydd marw yn dragywydd.

19.25 MYn a wn mai byw fy mhryn-wr, ac y cyfodaf o'r ddaiar y dydd diwethaf, ac i'm gwiſcir drachefn â'm croen, ac y câf weled Duw yn fy ngnhawd, Yr hwn a gafi fy hun ei weled: a'm llygaid a'i gwelant ef, ac nid arall troſof.

Tim. 7. 1. NI ddygaſom ni ddim i'r byd hwn, ac ni allwn chwaith ddwyn dim ymmaith o honaw. Yr Arglwydd ſy'n rhoddi, a'r Arglwydd ſydd yn dwyn ymaith: megis y byddo da gan yr Arglwydd felly y derfydd i bob peth. Bendigedig fo Enw yr Arglwydd.

¶ Pan ddelont at y bedd, tra fyddo yr corph yn ei baratoi i'w ddodi yn y ddaiar, y dywed yr Offeiriad, neu yr Offeiriad a'r yſcolheigion a ganant.

14.1. DYn a aned o wraig ſydd a byrr amſer iddo i fyw, ac y ſydd yn llawn trueni. Y mae efe yn blaguro fel llyſieuyn, ac a dorrir i lawr, ac a ddiflanna fel cyſcod, ac ni ſaif. Ynghanol ein bywyd yr ydym mewn angeu, gan bwy y mae i ni geiſio ymwared onid gennit ti Arglwydd, yr hwn am ein pechodau wyt yn gyfiawn yn ddigllawn? Er hynny Arglwydd Dduw ſancteiddiaf, Arglwydd galluoccaf, ô ſanctaidd a thrugarog Iachawdur, na ollwng ni i ddygyn chwerwaf boenau angau tragywyddol. Ti Arglwydd a adwaenoſt ddirgelion ein calonnau, na ymchwel dy olwg trugarog oddiwrth ein gweddiau, eithr arbed nyni ô Arglwydd ſancteiddiaf, ô Dduw galluoccaf, ô ſanctaidd a thrugarog Iachawdur, Tydi deilyngaf farn-wr tragywyddol, na âd ni yn yr awr ddiwethaf er neb rhyw boenau angeu i ſyrthio oddi-wrthit.

¶ Yna tra fydder yn bwrw pridd ar y corph gan y ſawl a fo yn ſefyll yno, yr Offeiriad a ddywed.

YN gymmaint a rhyngu bodd i'r Goruchaf Dduw o'i fawr drugaredd gymmeryd atto ei hun enaid ein hanwyl frawd yma a ymadawodd o'r byd, gan hynny ydd ŷm ni yn rhoddi ei gorph ef i'r ddaiar, ſef daiar i'r ddaiar, lludw i'r lludw, pridd i'r pridd, mewn gwîr ddiogel obaith o gyfodiad i fuchedd dragywyddol, trwy ein Harglwydd Ieſu Griſt, yr hwn a newidia ein corph gwael ni, fel y byddo yn gyffelyb i'w gorph gogoneddus ef, o herwydd y galluog weithrediad, trwy yr hwn y dichon efe ddaroſtwng pob dim iddo ei hun. 3.

¶ Yna y dywedir, neu y canir.

14. MI a glywais lais o'r nef yn dywedyd wrthif, ſcrifenna, o hyn allan gwynfydedig yw y meirw, y rhai ſy yn marw yn yr Arglwydd: felly y dywed yr Yſpryd, canys y maent yn gorphywyſo oddi-wrth eu poen gynt.

¶ Yn ôl hynny y canlyn y llith hon, wedi ei chymmeryd allan o'r pymthecfed bennod o'r Epiſtol cyntaf at y Corinthiaid.

CHriſt a gyfodwyd oddi-wrth y meirw, ac a wnaed yn flaen-ffrwyth y rhai a hunaſant. Canys, gan fod marwolaeth trwy ddŷn, trwy ddŷn hefyd y mae adgyfodiad y meirw. Oblegit, megis yn Adda y mae pawb yn meirw, felly hefyd yng-Nghriſt y bywheir pawb. Eithr pob vn yn ei dreſn ei hun. Y blaen-ffrwyth yw Chriſt, wedi hynny y rhai eiddo Chriſt, yn ei ddyfodiad ef. Yna y bydd y diwedd, wedi y rhoddo efe y deyrnas i Dduw a'r Tâd, wedi iddo ddileu pob pendefigaeth, a phob awdurdod a nerth. Canys rhaid iddo deyrnaſu, hyd oni oſodo ei holl elynion tan ei draed. Y gelyn diweddaf a ddiniſtrir yw yr angeu. Canys efe a ddaroſtyngodd bôb peth tan ei draed ef. Eithr pan yw yn dywedyd ſob pôb peth wedi eu daroſtwng, amlwg yw mai oddieithr yr hwn a ddaroſtyngodd bôb peth iddo. A phan ddaroſtynger pob peth iddo, yno y Mab ei hun hefyd a ddaroſtyngir, i'r hwn a ddaroſtyngodd bôb peth iddo ef, fel y byddo Duw oll yn oll. Os amgen, beth a wna y rhai a fedyddir tros y meirw, os y meirw ni chyſodir ddim? Pa ham ynteu y bedyddir hwy tros y meirw? A pha ham yr ydym ninnau mewn perygl bôb awr? Yr ydwyf beunydd yn marw, myn eich gorfoledd yr hon ſydd gennif yng-Nghriſt Ieſu ein Harglwydd. Os yn ôl dull dŷn yr ymleddais ag anifeiliaid yn Epheſus, pa leſhâd ſydd i mi oni chyfodir y meirw? Bwytawn, ac yſwn, canys yfory marw yr ydym. Na thwyller chwi, y mae ymddiddanion drwg yn llygru moeſau da. Deffrowch yn gyfiawn, ac na phechwch, canys nid oes gan rai wybodaeth am Dduw: i'ch cywilydd i chwi yr wyf yn dywedyd hyn. Eithr fe a ddywaid rhyw vn, Pa fodd y cyfodir y meirw? Ac â pha ryw gorph y deuant? Oh ynfyd; y peth yr wyt ti yn ei hau, ni fywheir oni bydd efe marw. A'r peth yr wyt yn ei hau, nid y corph a fydd yr ydwyt yn ei hau, ond gronyn noeth, yſcatfydd o wenith, neu o ryw rawn arall. Eithr Duw ſydd yn rhoddi iddo gorph, fel y mynnodd efe, ac i bob hedyn ei gorph ei hun. Nid yw pob cnawd vn rhyw gnawd; eithr arall yw cnawd dynion, ac arall yw cnawd anifeiliaid, a chnawd arall ſydd i byſgod, ac arall i adar. Y mae hefyd gyrph nefol, a chyrph daiarol; ond arall yw gogoniant y rhai nefol, ac arall y rhai daiarol. Arall yw gogoniant yr haul; ac arall yw gogoniant y lleuad; ac arall y ſêr: canys y mae rhagor rhwng ſeren a ſeren mewn gogoniant. Felly hefyd y mae adgyfodiad y meirw: efe a heuir mewn llygredigaeth, ac a gyfodir mewn anllygredigaeth. Efe a heuir mewn ammarch, ac a gyfodir mewn gogoniant: efe a heuir mewn gwendid, ac a gyfodir mewn nerth: efe a heuir yn gorph anianol, ac a gyfodir yn gorph yſprydol. Y mae corph anianol, ac y mae corph yſprydol. Felly hefyd y mae yn ſcrifennedig, Y dŷn cyntaf Addaf a wnaed yn enaid byw, a'r Adda diweddaf yn yſpryd yn bywhau. Eithr nid cyntaf yr yſprydol, ond yr anianol, ac wedi hynny yr yſprydol. Y dŷn cyntaf o'r ddaiar yn ddaiarol; yr ail dŷn yr Arglwydd o'r nef. Fel y mae y daiarol, felly y mae y rhai daiarol, ac fel y mae y nefol, felly mae y rhai nefol hefyd. Ac megis y dygaſom ddelw y daiarol, ni a ddygwn hefyd ddelw y nefol. Eithr hyn meddaf, o frodyr, na ddichon cîg a gwaed etifeddu teyrnas Dduw, ac nad yw llygredigaeth yn etifeddu anllygredigaeth. Wele, yr wyf yn dywedyd i chwi ddirgelwch; Ni hunwn ni oll, eithr ni a newidir oll mewn moment, ar darawiad llygad, wrth yr vdcorn diweddaf. Canys yr vdcorn a gân, a'r meirw a gyfodir yn anllygredic, a ninnau a newidir. O herwydd rhaid i'r llygradwy hwn wiſco anllygredigaeth, ac i'r marwol hwn wiſco anfarwoldeb. A phan ddarffo i'r llygradwy hwn wiſco anllygredigaeth, ac i'r marwol hwn wiſco anfarwoldeb, yna y bydd yr ymadrodd a ſcrifennwyd, Angeu a lyngcwyd mewn buddugoliaeth. O angeu pa le y mae dy golyn? O vffern pa le mae dy fuddugoliaeth? Colyn angeu yw pechod, a grym pechod yw 'r gyfraith. Ond i Dduw y byddo 'r diolch, yr hwn ſydd yn rhoddi i ni fuddugoliaeth trwy ein Harglwydd Ieſu Griſt. Am hynny fy mrodyr anwyl, byddwch ſicer, a diymmod, a helaethion yngwaith yr Arglwydd yn oeſtadol, a chwi 'n gwybod nad yw eich llafur chwi yn ofer yn yr Arglwydd.

¶ Wedi darfod y llith y dywed yr Offeiriad.

Arglwydd trugarhâ wrthym.
Chriſt trugarhâ wrthym.
Arglwydd trugarhâ wrthym.
¶ Ein Tâd yr hwn wyt yn y nefoedd, &c.
Ac na thywys ni i brofedigaeth.

Atteb.

Eithr gwaret ni rhag drwg. Amen.

Yr Offeiriad.

HOll-gyfoethog Dduw, gyd â'r hwn y mae yn byw yſprydoedd y rhai a ymadawſant oddi yma yn yr Arglwydd, ac yn yr hwn y mae eneidiau y rhai detholedic wedi darfod eu rhyddhau oddiwrth faich y cnawd, mewn llawenydd a dedwyddyd: yr ydym yn mawr ddiolch i ti, fod yn wiw gennit waredu hwn N. ein brawd, allan o drueni y byd pechadurus hwn, gan attolygu i ti ryngu bodd it o'th radlawn ddaioni, gyflawni ar fyrder nifer dy etholedigion, a phryſuro dy deyrnas, modd y gallom ni gyd â'n brawd hwn, ac eraill a ymadawſant â'r byd mewn gwîr ffydd dy Enw bendigedic, gaffael i ni ddiwedd perffaith, a gwynfyd ynghorph ac enaid, yn dy ogoniant tragywyddol. Amen.

Y Colect.

O Drugarog Dduw, Tâd ein Harglwydd Ieſu Griſt, yr hwn yw y cyfodiad a'r bywyd, ym mha vn pwy bynnac a greto, a fydd byw er iddo farw. A phwy bynnac a fo byw ac a greto ynddo ef, ni bydd marw byth, yr hwn hefyd a'n ddyſcodd (trwy ei Apoſtol S. Paul) na thriſtaem fel rhai heb obaith, dros y rhai a hunant ynddo ef: Nyni yn oſtyngedic a attolygwn i ti oruchaf Dâd, ein cyfodi ni o angeu pechod i fuchedd cyfiawnder, fel y bo i ni wedi ymado â'r fuchedd hon, allu gorphywys ynddo ef, megis y mae ein gobaith fod ein brawd hwn: Ac ar y cyfodiad cyffredin y dydd diwethaf, allu ein caffael yn gymmeradwy yn dy olwg di, a derbyn y fendith a ddatcan dy garedic Fâb yr amſer hynny i bawb a'r a'th ofnant, ac a'th garant, gan ddywedyd, Deuwch chwi fendigedig blant fy Nhâd, meddiennwch y deyrnas a baratowyd i chwi er pan ſeiliwyd y byd. Caniadhâ hyn, ni a attolygwn i ti drugaroccaf Dâd, trwy Ieſu Griſt ein Cyfryngwr a'n Pryniawdwr. Amen.

¶ Diolwch gwragedd yn ol eſcor plant, yr hwn a elwir yn gyffredin, Rhyddhâu, neu Eglwyſa.

Y wraig ddaw i'r Eglwys, ac yno y goſtwng ar ei gliniau yn rhyw le cyfaddas, yn gyfagos i'r lle y byddo yr bwrdd yn ſefyll: a'r Offeiriad yn ei ſefyll yn ei hymyl a ddywed y geiriau hyn, neu yr cyfryw, fel y bo y deſnydd yn erchi.

YN gymmaint a rhyngu bodd i'r goruchaf Dduw o'i ddaioni roddi i ti ryddhâd ymwaredol, a'th gadw yn y mawr berigl wrth eſcor: ti a ddiolchi yn ewyllyſgar i Dduw, ac a weddîi.

¶ Yna y dywed yr Offeiriad y Pſalm hon.

Pſal.121. DErchafaf fy llygaid i'r mynyddoedd, o'r lle y daw fy nghymmorth.

2 Fy nghymmorth a ddaw oddi-wrth yr Arglwydd, yr hwn a wnaeth nefoedd a daiar.

3 Ni âd efe i'th droed lithro, ac ni huna dy geidwad.

4 Wele, ni huna ac ni chwſc ceidwad Iſrael.

5 Yr Arglwydd yw dy geidwad, yr Arglwydd yw dy gyſcod ar dy ddeheu-law.

6 Ni'th dery 'r haul y dydd, na'r lleuad y nôs.

7 Yr Arglwydd a'th geidw rhag pob drwg: efe a geidw dy enaid.

8 Yr Arglwydd a geidw dy fynediad, a'th ddyfodiad, o'r pryd hyn hyd yn dragywydd.

Gogoniant i'r Tâd, ac i'r Mâb, ac i'r Yſpryd glân,
Megis yr oedd yn y dechreu, &c.
Arglwydd trugarhâ wrthym.
Chriſt trugarhâ wrthym.
Arglwydd trugarhâ wrthym.
¶ Ein Tâd yr hwn wyt yn y nefoedd, &c.
Ac na thywys ni i brofedigaeth.

Atteb.

Eithr gwaret ni rhag drwg. Amen.

Offeiriad.

Arglwydd cadw dy waſanaeth-wraig hon,

Atteb.

Yr hon ſydd yn ymddiried ynot.

Offeiriad.

Bydd iddi yn dŵr cadarn,

Atteb.

Rhag wyneb ei gelyn.

Offeiriad.

Arglwydd, erglyw ein gweddiau.

Atteb.

A deued ein llef hyd attat.

Offeiriad.

¶ Gweddiwn.

HOll-allnog Dduw, yr hwn a waredaiſt dy waſanaeth-wraig hon oddi wrth y mawr boen a'r perigl ar enedigaeth dŷn bach: Caniadhâ ni a attolygwn i ti drugaroccaf Dâd, allu o honi drwy dy gynhorthwy di, fyw a rhodio yn ffyddlawn yn ei galwedigaeth, yn ôl dy ewyllys di, yn y fuchedd breſennol hon; a hefyd bod yn gyfrannog o'r gogoniant tragywyddol yn y fuchedd a ddaw, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd. Amen.

¶ Rhaid i'r wraig a ddêl i ddalu diolch, offrymmu yr offrymmau defodawl: ac o bydd Cymmun, iawn yw iddi gymmeryd y Cymmun bendigedic.

¶ Comminaſion,

¶ Comminaſion, neu fygwth yn erbyn pechaduriaid: a rhyw weddiau i'w harfer ar amrafael amſerau yn y flwyddyn.

Yn ôl y foreuol weddi, y bobl wedi eu galw ynghyd trwy ganu clôch, ac wedi eu hymgynnull i'r Eglwys, y dywedir y Letani Camberaeg yn ôl y môdd arferedig: gwedi darfod hynny, aed yr offeiriad i'r Pulpyt, a dyweded fel hyn.

Y Brodyr, yn y brif Eglwys gynt, yr oedd diſcyblaeth Dduwiol, Nid amgen bod yn nechreu yr Grawys, roi cyfryw ddynion ac oeddynt bechaduriaid cyhoedd, i benyd cyhoedd, a'u poeni yn y byd yma, modd y byddei eu heneidiau gadwedic yn nydd yr Arglwydd: ac megis y gallei eraill, wedi eu rhybyddio drwy eu eſampl hwy, fod yn ofnuſach i wneuthur ar gam. Yn lle hynny, hyd onid adnewydder y ddywededic ddiſcyblaeth (yr hyn a ddylid ei ddymuno yn fawr) fe dybiwyd fod yn dda yr amſer hyn, yn eich gwydd chwi, ddarllen y ſententiau cyffredin o felldithion Duw yn erbyn pechaduriaid anedifeiriol, y rhai a gaſclwyd allan o'r ſeithfed bennod ar hugain o Deuteronomium, a lleoedd eraill o'r Scrythur lân: a bod i chwi atteb i bob ſentens, Amen. Er mwyn, gwedi darfod felly eich rhybuddio am fawr ddigllonder Duw yn erbyn pechaduriaid gallu eich gwahodd yn gynt i ddifrif, a gwîr edifeirwch, a bod i chwi rodio yn ddieſceuluſach y dyddiau enbyd hyn, gan gilio oddi-wrth gyfryw feiau ac yr ydych chwi yn ſiccrhau â'ch genau eich hunain fod melldith Duw yn ddyledus amdanynt.

Melldigedic yw yr neb a wnêl oddelw gerfiedic neu doddedic, yn ffieidd-beth i'r Arglwydd, gwaith dwylaw y creff-wr, ac a'i goſodo mewn lle dirgel iw haddoli.

¶ A'r bobl a attebant, ac a ddywedant.

Amen.

Gwenidog. Melldigedig yw yr hwn a felldithio ei dâd neu ei fam.

Atteb. Amen.

Gwenidog. Melldigedic yw yr hwn a ſymmudo derfyn tir ei gymmydog.

Atteb. Amen.

Gwenidog. Melldigedic yw yr hwn a ddycco y dall allan o'i ffordd.

Atteb Amen.

Gwenidog. Melldigedic yw yr hwn a rwyſtro farn y dieithr, yr ymddifad, a'r weddw.

Atteb. Amen.

Gwenidog. Melldigedic yw yr neb a darwo ei gymmydog yn ddirgel.

Atteb. Amen.

Gwenidog. Melldigedic yw yr hwn a orweddo gyd â gwraig ei gymmydog.

Atteb. Amen.

Gwenidog. Melldigedic yw yr hwn a gymmero wobr er dieneidio perchen gwaed gwirion.

Atteb. Amen.

Gwenidog. Melldigedic yw yr hwn a roddo ei ymddiried mewn dyn, ac a gymmero ddyn yn amddiffyn iddo, ac yn ei galon a gilio oddi wrth yr Arglwydd.

Atteb. Amen.

Gwenidog. Melldigedic yw yr annhrugarog, y godinebus, a'r rhai a dorrant briodas, ar cybyddion, addol-wŷr delwau, cellib-wŷr, meddwon, a'r bribwyr.

Atteb. Amen.

Gwenidog.

YN-awr, yn gymmaint a'u bod hwy oll yn felldi- Pſal. 119.
gedig (fel y tyſtia Dafydd Brophwyd) y rhai
ſy yn cyfeiliorni, ac yn myned ar ddidro oddiwrth
orchymmynion Duw: moeſwch i ni (gan feddylio
am y farn ofnadwy ſydd goruwch ein pennau, ac
fyth ger ein llaw) ymchwelyd at ein Harglwydd
Dduw â chwbl gyſtudd, a goſtyngeiddrwydd calon,
gan ddwyn galar a thrymder dros ein buchedd
bechadurus, gan gydnabod a chyffeſu ein camweddau,
a cheiſio dwyn ffrwythau teilwng i edifeirwch.
Canys yn awr y goſodwyd y fwyall ar wrei- Mat. 3.
ddyn y pren, fel y cymmynir i lawr, ac y bwrir i'r
tân, bob pren ni ddycco ffrwyth da. Peth ofnadwy Hebr. 10.
yw ſyrthio yn nwylaw y Duw byw. Efe a dywallt Pſal. 11.
law ar y pechaduriaid, maglau, tân, a brwmſtan,
ſtorme a thymeſtl, hyn ſydd eu rhan hwy iw
yfed.

Canys wele y mae'r Arglwydd wedi dyfod allan Eſa. 26.
o'i le, i ymweled ag anwiredd y rhai ſy yn trigo
ar y ddaiar. Eithr pwy a ddichon aros dydd ei Mal. 3.
ddyfodiad ef? pwy a ddichon barhau pan ymddangoſo
efe? Ei wyntill ſydd yn ei law, ac efe
a gartha ei lawr, ac a gaſcl ei wenith i'w yſcubor,
ond efe a lyſc yr ûs â thân anniffoddadwy. Dydd 1. Theſ. 5.
yr Arglwydd a ddaw fel lleidr o hyd nôs, a phan
ddywedant, Tangneddyf, ac y mae pob peth yn
ddiogel, yna y daw diſtryw dyſyfyd arnynt, fel y
daw gofid ar wraig feichiog wrth eſcor, ac ni ddi- Rhuf. 2.
angant. Yna yr ymddengys cynddaredd Duw yn y
dydd dial, yr hwn a ddarfu i'r pechaduriaid anhydyn
ei bentyrru ar eu gwarthaf trwy gyndynrwydd
eu calonnau, y rhai a ddirmygent ddaioni, ammynedd,
a hir-ymaros Duw, pan ydoedd efe yn eu galw Diha. 1.
hwy yn waſtad i edifeirwch. Yna y galwant arnaf
medd yr Arglwydd, ac ni wrandawaf; hwy a'm
ceiſiant yn forea, ac ni'm caffant, a hynny o herwydd
iddynt gaſſau gwybodaeth, ac na dderbynient ofn
yr Arglwydd, onid caſſau fy nghyngor, a diyſtyru
fy nghoſpedigaeth.

Yno y bydd rhy-hwyr curo, wedi cau'r drws,
a rhyhwyr galw am drugaredd, pan yw amſer
cyfiawnder. Och mor aruthrol llef y farn gyfiawnaf
a draethir arnynt hwy, pan ddywedir wrthynt:
Ewch y rhai melldigedic i'r tân tragywyddol,
yr hwn a ddarparwyd i ddiafol a'i angeilion. Mat. 25.

Am hynny frodyr, ymochelwn yn amſer, tra parhao
dydd yr iechyd, Canys y mae yr nôs yn dyfod, 2. Cor. 6.
pryd na allo neb weithio: felly tra fyddo i ni oleuni
credwn yn y goleuni, a rhodiwn fel plant y
goleuni; rhag ein bwrw i'r tywyllwg eithaf, lle y Ioan. 9.
mae wylofain ac yſcyrnygu dannedd. Na ddrwg-
arferwn ddaioni Duw, yr hwn ſydd yn ein galw Mat. 25.
yn drugarog i emendio, ac o'i ddidrange [illegible]
yn addo i ni faddeuaint am a aeth heibio, os
nyni (â chwbl feddwl, ac â chalon gywir) a ym-
chwelwn atto ef. Canys er bod ein pechodau yn
goched a'r yſcarlad, hwy a fyddant mor [illegible] a'r
eira: ac er eu bod fel y porphor, etto hwy fyddant Eſa. 1.
cyn wynned a'r gwlân.

Ezec.18. Ymchwelwch yn lân, medd yr Arglwydd, oddi
wrth eich holl anwiredd, ac ni bydd eich pechodau
yn ddiſtryw i chwi.

Bwriwch ymmaith oddi wrthych eich holl annuwioldeb a wnaethoch, gwnewch i chwi galonnau newyddion, ac yſpryd newydd. Paham y byddwch feirw, chwy-chwi tŷ yr Iſrael? can na'm boddheir ym marwolaeth yr vn a fo mârw, medd yr Arglwydd Dduw? Ymchwelwch chwithau a byw fyddwch.

1 Ioan 2. Er darfod i ni bechu, y mae i ni ddadleuwr gyd
â'r Tâd, Ieſu Griſt y Cyfion, ac efe a haeddodd i ni
drugaredd dros ein pechodau.

Esa.53. Canys efe a archollwyd dros ein camweddau, ac
a darawyd am ein hanwiredd. Ymchwelwn am
hynny atto ef, yr hwn yw trugarog dderbyniwr
holl wîr edifeiriol bechaduriaid, gan gwbl gredu
ei fod efe yn barod i'n derbyn, ac yn orau ei
ewyllys i faddeu i ni, od awn atto mewn ffyddlawn
Mat.11. edifeirwch, os nyni a ymoſtyngwn iddo, ac o hyn
allan rhodio yn ei ffyrdd ef: os nyni a dderbyniwyn
ei iau eſmwyth ef, a'i faich yſcafn arnom,
iw ganlyn ef mewn goſtyngeiddrwydd, dioddefaint,
a chariad perffaith, a bod o honom yn drefnedig
wrth lywodraeth ei Yſpryd glân ef, gan geiſio
yn waſtad ei ogoniant, a'i waſanaethu yn ddyladwy
yn ein galwedigaeth, gan ddiolch iddo. Os
hyn a wnawn, Chriſt a'n gwared ni oddi-wrth felldith
y gyfraith, ac oddi-wrth y felldith eithaf a
ddiſcyn ar y ſawl a fy dant ar y llaw aſſwy, ac efe
a'n gefyd ni ar ei ddeheu-law, ac a dyry i ni wynfydedig
Mat.25. fendith ei Dâd, gan orchymmyn i ni gymeryd
meddiant yn ei ogoneddus deyrnas, i'r hon poed
teilwng fo ganddo ein dwyn ni i gyd oll, er ei
anfeidrol drugaredd. Amen.

¶ Yna y goſtyngant bawb ar ei gliniau, a'r Offeiriaid a'r yſcolheigion ar eu gliniau (yn y fan lle maent arferedic o ddywedyd y Letani) a ddywedant y Pſalm hon.

Pſal.51. Miſerere mei Deus. TRugarhâ wrthif ô Dduw, yn ôl dy drugarogrwydd: yn ôl lliaws dy dosturiaethau dilea fy anwireddau.

2 Golch fi yn llwyr-ddwys oddiwrth fy anwiredd: a glanhâ fi oddiwrth fy mhechod.

3 Canys yr wyf yn cydnabod fy nghamweddau, a'm pechod ſydd yn waſtad ger fy mron.

4 Yn dy erbyn di, dydi dy hunan y pechais, ac y gwnaethum y drwg hyn yn dy olwg: fel i'th gyfiawnhaer pan lefarech, ac y byddit bur pan farnech.

5 Wele, mewn anwiredd i'm llunîwyd, ac mewn pechod y beichiogodd fy mam arnaf.

6 Wele, ceraiſt wirionedd oddi mewn, a pheri i mi wybod doethineb yn ddirgel.

7 Glanhâ fi ag Yſop, ac mi a lanheir: golch fi, a byddaf wynnach nâ'r eira.

8 Par di i mi glywed gorfoledd, a llawenydd; fel y llawenycho yr eſcyrn a ddrylliaiſt.

9 Cuddia dy wyneb oddi wrth fy mhechodau: a dilea fy holl anwireddau.

10 Crea galon lân ynof ô Dduw; ac adnewydda yſpryd vniawn o'm mewn.

11 Na fwrw fi ymmaith oddi ger dy fron; ac na chymmer dy Yſpryd ſanctaidd oddi wrthif.

12 Dyro drachefn i mi orfoledd dy iechydwriaeth: ac â'th hael Yſpryd cynnal fi.

13 Yna y dyſcaf dy ffyrdd i rai anwir: a phechaduriaid a droir attat.

14 Gwared fi oddi wrth waed ô Dduw, Duw fy iechydwriaeth: a'm tafod a gân yn llafar am dy gyfiawnder.

16 Arglwydd, agor fy ngwefusau, a'm genau a fynega dy foliant.

17 Canys ni chwennychi aberth; pe amgen mi a'i rhoddwn; poeth offrwm ni fynni.

18 Aberthau Dduw ydynt yſpryd drylliedic: calon ddrylliedic gyſtuddiedic, ô Dduw, ni ddirmygi.

19 Gwna ddaioni, yn dy ewyllyſgarwch, i Sion: adeilada furiau Ieruſalem.

20 Yna y byddi fodlon i ebyrth cyfiawnder, i boeth offrwm, ac aberth lloſc, yna'r offrymmant fyſtych ar dy allor.

Gogoniant i'r Tâd, ac i'r Mâb, ac i'r Yſpryd glân,
Megis ydd oedd yn y dechreu, y mae &c.

Arglwydd trugarhâ wrthym.
Chriſt trugarhâ wrthym.
Arglwydd trugarhâ wrthym.
¶ Ein Tâd yr hwn wyt yn y nefoedd, &c.
Ac na thywys ni i brofedigaeth.

Atteb.

Eithr gwared ni rhag drwg.

Gweinidog.

Arglwydd cadw dy waſanaeth-ddynion.

Atteb.

Y rhai a ymddiriedant ynot.

Gweinidog.

Anfon iddynt borth oddi-vchod.

Atteb.

A byth amddiffyn hwy yn gadarn.

Gweinidog.

Cymmorth nyni Dduw ein Iachawdur.

Atteb.

Ac er mwyn gogoniant dy Enw gwared ni: Bydd
drugarog wrthym bechaduriaid, er mwyn dy Enw.

Gweinidog.

Arglwydd, gwrando ein gweddiau.

Atteb.

A deued ein llef hyd attat.

Gweddiwn.

ARglwydd, ni attolygwn i ti yn drugarog gwrando ein gweddiau, ac arbed bawb a gyffeſſant eu pechodau wrthit, fel y bo i'r rhai y cyhuddir eu cydwybodau gan bechod, trwy dy drugarog faddeuaint fod yn ollyngedic, trwy Griſt, &c.

O Alluoccaf Dduw, a thrugaroccaf Dâd, yr hwn wyt yn toſturio wrth bob dŷn, ac nid wyt yn caſau dim ar a wnaethoſt, yr hwn nid ewyllyſi farwolaeth pechadur, onid byw o honaw ac ymchwelyd oddiwrth bechod, a bod yn gadwedic: yn drugaroc maddeu ein camweddau, derbyn a chyſſuredda ni, y rhai ydym yn flin ac yn orthrwm gennym faich ein pechodau. Ti biau o briodolder drugarhau, i ti yn vnic y perthyn maddeu pechodau: Arbed nyni am hynny Arglwydd ddaionus. Arbed dy bobl y rhai a brynaiſt. Na ddwg dy weiſion i'r farn, y rhai ŷnt bridd gwael, a phechaduriaid truein: Eithr ymchwel felly dy lid oddi wrthym, y rhai ŷm yn oſtyngedic yn cydnabod ein gwaeledd, ac yn wîr edifeiriol gennym ein beiau: felly bryſſia i'n cynhorthwyo yn y byd hwn, fel y gallom byth fyw gyd â thi yn y byd a ddaw, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd. Amen.

¶ Yna y dywed y bobl hyn yma ſydd yn canlyn, ar ôl y Gweinidog.

YMchwel di ni Arglwydd daionus, ac yna ydd ymchwelir ni, yſtyria Arglwydd, yſtyria wrth dy bobl, y rhai ſydd yn ymchwelyd attat trwy wylofain, ympryd io, a gweddio, canys Duw trugarog ydwyt ti, yn llawn toſturi, yn dda dy amynedd, ac yn fawr dy warder, yr wyt yn arbed pan ŷm yn haeddu poenau, ac yn dy lid ydd wyt yn meddwl am drugaredd. Arbed dy bobl Arglwydd daionus, arbed hwy, ac na ddycer dy etifeddiaeth i waradwydd: clyw nyni Arglwydd, canys mawr yw dy drugaredd, ac yn ôl lliaws dy drugareddau edrych arnom.

¶ LLYFR Y PSALMAV.

Beatus vir qui non abijt. Pſal. 1.

GWyn ei fyd y gŵr ni rodia ynghyngor yr annuwolion, ac ni ſaif yn ffordd pechaduriaid, ac nid eiſtedd yn eiſteddfa gwatwar-wŷr.

2 Onid ſydd a'i ewyllys ynghyfraith yr Arglwydd: ac yn myfyrio yn ei gyfraith ef ddydd a nôs.

3 Ac efe a fydd fel pren wedi ei blannu ar lan afonydd dyfroedd, yr hwn a rydd ei ffrwyth yn ei brŷd; a'i ddalen ni wywa, a pha beth bynnac a wnêl, efe a lwydda.

4 Nid felly y bydd yr annuwiol; onid fel man us yr hwn a chwal y gwynt ymmaith.

5 Am hynny yr annuwolion ni ſafant yn y farn, na phechaduriaid ynghynnulleidfa y rhai cyfiawn.

6 Canys yr Arglwydd a edwyn ffordd y rhai cyfiawn; ond ffordd yr annuwolion a ddifethir.

Quare fremuerunt. Pſal. 2.

PAham y terfyſca y Cenhedloedd? ac y myfyria y bobloedd beth ofer?

2 Y mae brenhinoedd y ddaiar yn ymoſod, a'r pennaethiaid yn ymgynghori ynghyd, yn erbyn yr Arglwydd, ac yn erbyn ei Griſt ef, gan ddywedyd.

3 Drylliwn eu rhwymau hwy: a thaflwn eu rheffynnau oddi wrthym.

4 Yr hwn ſydd yn preſwylio yn y nefoedd a chwardd: yr Arglwydd a'i gwatwar hwynt.

5 Yna y lleſara efe wrthynt yn ei lid, ac yn ei ddigllonedd y dychryna efe hwynt.

6 Minneu a oſodais fy Mrenin ar Sion fy mynydd ſanctaidd.

7 Mynegaf y ddeddf: dywedodd yr Arglwydd wrthif; fy Mab ydwyt ti, myfi heddyw a'th genhedlais.

8 Gofyn i mi, a rhoddaf y Cenhedloedd yn etifeddiaeth i ti: a therfynau y ddaiar i'th feddiant.

9 Drylli hwynt â gwialen haiarn, malurii hwynt fel llestr pridd.

10 Gan hynny 'r awr hon frenhinoedd, byddwch ſynhwyrol: barn-wŷr y ddaiar cymmerwch ddyſc.

11 Gwaſanaethwch yr Arglwydd mewn ofn; ac ymlawenhewch mewn dychryn.

12 Cuſſenwch y mâb rhag iddo ddigio, a'ch difetha chwi o'r ffordd, pan gynneuo ei lid ef ond ychydig: gwyn eu byd pawb a ymddiriedant ynddo ef.

Domine quid multiplicati ſunt. Pſal. 3.

ARglwydd mor aml yw fy nhraſſod-wŷr: llawer yw y rhai ſy'n codi i'm herbyn.

2 Llawer yw y rhai ſy'n dywedyd am fy enaid, nid oes iechydwriaeth iddo yn ei Dduw. *Selah.*

3 Ond tydi Arglwydd, ydwyt darian i mi: fy ngogoniant, a dyrchafydd fy mhen.

4 A'm llef y gelwais ar yr Arglwydd, ac efe a'm clybu o'i fynydd ſanctaidd. *Selah.*

5 Mi a orweddais, ac a gyſcais, ac a ddeffroais; canys yr Arglwydd a'm cynhaliodd.

6 Nid ofnaf fyrddiwn o bobl: y rhai o amgylch a ymoſodaſant i'm herbyn.

7 Cyfod Arglwydd, achub fi fy Nuw: canys tarewaiſt fy holl elynion ar garr yr ên; torraiſt ddannedd yr annuwolion.

8 Iechydwriaeth ſydd eiddo 'r Arglwydd: dy fendith ſydd ar dy bobl. *Selah.*

Cum invocarem. Pſal. 4.

GWrando fi pan alwyf, ô Dduw fy nghyfiawnder: mewn cyfyngder yr ehangaiſt arnaf: trugarhâ wrthif, ac erglyw fy ngweddi.

2 O feibion dynion, pa hŷd y trowch fy ngogoniant yn warth? yr hoffwch wegi, ac yr argeiſiwch gelwydd? *Selah.*

3 Ond gwybyddwch i'r Arglwydd neilltuo y duwiol iddo ei hun: yr Arglwydd a wrendy pan alwyf arno.

4 Ofnwch, ac na phechwch, ymddiddanwch â'ch calon ar eich gwely, a thewch. *Selah.*

5 Aberthwch ebyrth cyfiawnder, a gobeithiwch yn yr Arglwydd.

6 Llawer ſy'n dywedyd, pwy a ddengys i ni ddaioni? Arglwydd, dercha arnom lewyrch dy wyneb.

7 Rhoddaiſt lawenydd yn fy nghalon, mwy nag amſer yr amlhâodd eu hŷd, a'i gwyn hwynt.

8 Mewn heddwch hefyd y gorweddaf, ac yr hunaf: canys ti Arglwydd yn unic a wnei i mi drigo mewn diogelwch.

Verba mea auribus percipe. Pſal. 4.

GWrando fy ngeiriau Arglwydd: deall fy myfyrdod.

2 Erglyw ar lêf fy ngwaedd, fy Mrenin, a'm Duw: canys arnat y gweddiaf.

3 Yn foreu Arglwydd y clywi fy llêf: yn foreu y cyfeiriaf atat, ac yr edrychaf i fynu.

4 O herwydd nid wyt ti Dduw 'n ewyllyſio anwiredd: a drwg ni thrig gyda thi.

5 Ynfydion ni ſafant yn dy olwg: caſeaiſt holl weithred-wyr anwiredd.

6 Difethi y rhai a ddywedant gelwydd: yr Arglwydd a ffieiddia y gŵr gwaedlyd, a'r twyllodrus.

7 A minneu a ddeuaf i'th dŷ di yn amlder dy drugaredd: ac a addolaf tu a'th Deml ſanctaidd yn dy ofn di.

8 Arglwydd arwain fi yn dy gyfiawnder o achos fy ngelynion: uniona dy ffordd o'm blaen.

9 Canys nid oes uniondeb yn eu genau hwy: eu ceudod ſydd anwireddau: bedd agored yw eu ceg, gwenieithiant â'i tafod.

10 Deſtrywia hwynt ô Dduw, ſyrthiant oddi

wrth eu cynghori, gyrr hwynt ymmaith yn amlder eu camweddau: canys gwrthryfelaſant i'th erbyn.

11 Ond llawenhaed y rhai oll a ymddiriedant ynot ti: llafar ganant yn dragywydd, am i ti orchguddio troſtynt: a'r rhai a garant dy Enw, gorfoleddant ynot.

12 Canys ti Arglwydd a fendithi y cyfiawn: â charedigrwydd megis â tharian y coroni di ef.

Domine ne in furore. Pſal. 6.

Pryd-nhawnol weddi.

ARglwydd na cherydda fi yn dy lidiawgrwydd, na chospa fi yn dy lîd.

2 Trugarha wrthyf Arglwydd, canys llesc ydwyfi: iachâ fi ô Arglwydd, canys fy eſcyrn a gyſtuddiwyd.

3 A'm henaid a ddychrynwyd yn ddirfawr: titheu Arglwydd, pa hŷd?

4 Dychwel Arglwydd, gwared fy enaid: achub fi er mwyn dy drugaredd.

5 Canys yn angeu nid oes goffa am danat: yn y bêdd pwy a'th foliannu?

6 Deffygiais gan fy ochain, bob nos yr ydwyf yn gwneuthur fy ngwely yn foddfa: yr ydwyfi 'n gwlychu fy ngorweddfa â'm dagrau.

7 Treuliodd fy llygad gan ddigter: heneiddiodd o herwydd fy holl elynion.

8 Ciliwch oddi wrthif holl weithred-wŷr anwiredd: canys yr Arglwydd a glywodd lêf fy wylofain.

9 Clybu 'r Arglwydd fy neiſyfiad: yr Arglwydd a dderbyn fy ngweddi.

10 Gwradwydder, a thralloder yn ddirfawr fy holl elynion: dychweler, a chywilyddier hwynt yn ddiſymmwth.

Domine Deus in te ſperavi. Pſal. 7.

ARglwydd fy Nuw, ynot yr ymddiriedais: achub fi rhag fy holl erlid-wŷr, a gwared fi.

2 Rhag iddo larpio fy enaid fel llew: gan ei rwygo, pryd na byddo gwaredudd.

3 O Arglwydd fy Nuw, os gwneuthum hyn, od oes anwiredd yn fy nwylaw.

4 O thelais drwg i'r neb oedd heddychol â mi: (ie mi a waredais yr hwn ſydd elyn i mi heb achos:)

5 Erlidied y gelyn fy enaid, a goddiwedded: ſathred hefyd fy mywyd i'r llawr, a goſoded fy ngogoniant yn y llwch. *Selah.*

6 Cyfod Arglwydd yn dy ddigllonedd, ymddercha o herwydd llid fy ngelynion: deffro hefyd droſof i'r farn a orchymynnaiſt.

7 Felly cynnulleidfa y bobloedd a'th amgylchynant: er eu mwyn dychwel ditheu i'r vchelder.

8 Yr Arglwydd a farn y bobloedd: barn fi, ô Arglwydd, yn ôl fy nghyfiawnder, ac yn ôl fy mherffeithrwydd ſydd ynof.

9 Darfydded weithian anwired yr annuwolion, eithr cyfarwydda di y cyfiawn: canys y Duw cyfiawn a chwilia y calonnau, a'r arennau.

10 Fy amddeffyn ſydd o Dduw, iachawdur y rhai vniawn o galon.

11 Duw ſydd farnudd cyfiawn, a Duw ſy ddigllon beunydd wrth yr annuwiol.

12 Oni ddychwel yr annuwiol, efe a hôga ei gleddyf; efe a annelodd ei fwa, ac a'i paratôdd.

13 Paratôdd hefyd iddo arfau angheuol, efe a drefnodd ei ſaethau yn erbyn yr erlidwŷr.

14 Wele, efe a ymddwg anwiredd, ac a feichiogodd ar gamwedd, ac a eſcorodd ar gelwydd.

15 Torrodd bwll, cloddiodd ef, ſyrthiodd hefyd yn y clawdd a wnaeth.

16 Ei anwiredd a ymchwel ar ei ben ei hun: a'i draha a ddeſcyn ar ei goppa ei hun.

17 Clodforaf yr Arglwydd yn ôl ei gyfiawnder: a chan-molaf enw 'r Arglwydd goruchaf.

Domine Dominus noster. Pſal. 8

ARglwydd ein Iôr ni, mor ardderchog yw dy Enw ar yr holl ddaiar! yr hwn a oſodaiſt dy ogoniant vwch y nefoedd.

2 O enau plant bychain, a rhai yn ſugno y peraiſt nerth, o achos dy elynion: i oſtegu y gelyn, a'r ymddialydd.

3 Pan edrychwyf ar dy nefoedd, gwaith dy fyſedd, y lloer a'r ſêr, y rhai a ordeiniaiſt;

4 Pa beth yw dŷn i ti iw gofio? a mab dŷn i ti i ymweled ag ef?

5 Canys gwnaethoſt ef ychydig îs nâ'r angelion: ac a'i coronaiſt â gogoniant, ac â harddwch:

6 Gwnaethoſt iddo arglwyddiaethu ar weithredoedd dy ddwylo; goſodaiſt bôb peth dan ei draed ef;

7 Defaid, ac ychen oll, ac anifeiliaid y maes hefyd:

8 Ehediaid y nefoedd, a phyſcod y môr: ac y ſydd yn tramwyo llwybrâu y moroedd.

9 Arglwydd ein Ior, mor ardderchog yw dy enw ar yr holl ddaiar!

Confitebor tibi Domine. Pſal. 9.

Bore- weddi

CLodforaf di ô Arglwydd, â'm holl galon: mynegaf dy holl ryfeddodau.

2 Llawenychaf, a gorfoleddaf ynot: canaf i'th enw di, y Goruchaf.

3 Pan ddychweler fy ngelynion yn eu hôl, hwy a gwympant ac a ddiſethir o'th flaen di.

4 Canys gwnaethoſt fy marn a'm matter yn dda: eiſteddaiſt ar orſedd-faingc, gan farnu yn gyfiawn.

5 Ceryddaiſt y cenhedloedd, diſtrywiaiſt yr annuwiol: eu henw hwynt a ddileaiſt byth bythol.

6 Hâ elyn, darfu am ddiniſtr yn dragywydd, a diwreiddiaiſt y dinaſoedd, darfu eu coffadwriaeth gyd â hwynt.

7 Ond yr Arglwydd a bery yn dragywydd: efe a baratôdd ei orſedd-faingc i farn.

8 Ac efe a farn y bŷd mewn cyfiawnder: efe a farn y bobloedd mewn vniondeb.

9 Yr Arglwydd hefyd ſydd noddfa i'r gorthrymmedig, noddfa yn amſer trallod.

10 A'r rhai a adwaenant dy enw a ymddiriedant ynot: canys ni adewaiſt, ô Arglwydd, y rhai a'th geiſient.

11 Cannolwch yr Arglwydd, yr hwn ſydd yn preſſwylio yn Sion: mynegwch ymmyſc y bobloedd ei weithredoedd ef.

12 Pan ymofynno efe am waed, efe a'i coffa hwynt: nid anghofia waed y cyſtuddiol.

13 Trugarhâ wrthif Arglwydd, gwel fy mlinder gan fy nghaſeion, fy nerchafudd o byrth angau:

14 Fel y mynegwyf dy holl foliant ym mhyrth merch Sion: llawenychaf yn dy iechydwriaeth.

15 Y cenhedloedd a ſoddaſant yn y ffos a wnaethant: yn y rhwyd a guddiaſant, y daliwyd eu troed eu hun.

16 Adweinir yr Arglwydd wrth y farn a wna: yr annuwiol a faglwyd yngweithredoedd ei ddwylo ei hun. *Higaion. Selah.*

17 Y rhai drygionus a ymchwelant i vffern: a'r holl genhedloedd a anghofiant Dduw.

18 Canys nid anghofir y tlawd byth, gobaith y trueniaid ni chollir byth.

19 Cyfod Arglwydd, na orfydded dŷn: barner y cenhedloedd ger dy fron di.

20 Goſod Arglwydd ofn arnynt, fel y gwybyddo y cenhedloedd mai dynion ydynt. *Selah.*

Vt quid Domine receſſiſti. Pſal. 10.

PA ham Arglwydd y ſefi o bell, yr ymguddi yn amſer cyfyngder?

2 Yr annuwiol mewn balchder a erlid y tlawd: dalier hwynt yn y bwriadau a ddychymmygaſant.

3 Canys yr annuwiol a ymffroſtia am ewyllys ei galon; ac a fendithia y cybydd, yr hwn y mae yr Arglwydd yn ei ffieiddio.

4 Yr annuwiol gan vchder ei ffroen ni chais Dduw: nid yw Duw yn ei holl feddyliau ef.

5 Ei ffyrdd ſydd ſlin bôb amſer, vchel yw dy farnedigaethau allan o'i olwg ef: chwythu y mae yn erbyn ei holl elynion.

6 Dywedodd yn ei galon, ni'm ſymmudir, o herwydd ni byddaf mewn dryg-fyd, hyd genhedlaeth a chenhedlaeth.

7 Ei enau ſydd yn llawn melldith, a dichell, a thwyll: tan ei dafod y mae camwedd, ac anwiredd.

8 Y mae efe yn eiſtedd ynghynllwynfa y pentrefydd, mewn cilfacheu y lladd efe y gwirion: ei lygaid a dremiant yn ddirgel ar y tlawd.

9 Efe a gynllwyna mewn dirgelwch, megis llew yn ei ffau; cynllwyn y mae i ddal y tlawd, efe a ddeil y tlawd gan ei dynnu iw rwyd.

10 Efe a ymgrymma, ac a ymoſtwng: fel y cwympo tyrfa trueniaid gan ei gedyrn ef.

11 Dywedodd yn ei galon, anghofiodd Duw: cuddiodd ei wyneb, ni wêl byth.

12 Cyfod Arglwydd, ô Dduw dercha dy law: nac anghofia y cyſtuddiol.

13 Pa ham y dirmyga'r annuwiol Dduw? dywedodd yn ei galon, nid ymofynni.

14 Gwelaiſt hyn, canys ti a ganfyddi anwiredd, a cham, i roddi tâl a'th ddwylo dy hun: arnat ti y gedy y tlawd, ti yw cynnorthwy-wr yr ymddifad.

15 Torr fraich yr annuwiol, a'r drygionus: ceis ei ddrygioni ef, hyd na chaffech ddim.

16 Yr Arglwydd ſydd Frenin byth, ac yn dragywydd: difethwyd y cenhedloedd allan o'i dîr ef.

17 Arglwydd clywaiſt ddymuniad y tlodion: parottoi eu calon hwynt, gwrendy dy gluſt arnynt.

18 I farnu yr ymddifad a'r gorthrymmedig: fel na chwanego dyn daiarol beri ofn mwyach.

In Domino confido. Pſal. 11.

YN yr Arglwydd yr wyf yn ymddiried, pa fodd y dywedwch wrth fy enaid, eheda i'ch mynydd fel aderyn?

2 Canys wele, a drygionus a annelant fwa, parattoeſant eu ſaethau ar y llinyn, i ſaethu yn ddirgel y rhai vniawn o galon.

3 Canys y ſeiliau a ddiniſtriwyd: pa beth a wna y cyfiawn?

4 Yr Arglwydd ſydd yn Nheml ei ſancteiddrwydd; gorſeddfa yr Arglwydd ſydd yn y nefoedd; y mae ei lygaid ef yn gweled, ei amrantau yn profi meibion dynion.

5 Yr Arglwydd a brawf y cyfiawn: eithr ei gas gan ei enaid ef y drygionus, a'r hwn ſydd hoff ganddo drawſder.

6 Ar yr annuwolion y glawia efe faglau, tân a brwmſtan, a phoeth-wynt yſtormus: dyma ran eu phiol hwynt.

7 Canys yr Arglwydd cyfiawn a gâr gyfiawnder: ei wyneb a edrych ar yr vniawn.

Prydnhawnol weddi.

Salvum me fac Domine. Pſal. 12.

ACHub Arglwydd, canys darfu y trugarog: o herwydd pallodd y ffyddloniaid o blith meibion dynion.

2 Oferedd a ddywedant bôb yn vn wrth ei gymmydog: â gwefus wenhieithgar, ac â chalon ddau ddyblyg y llefarant.

3 Torred yr Arglwydd yr holl wefuſau gwenhieithus, a'r tafod a ddywedo fawrhydri.

4 Y rhai a ddywedant, â'n tafod y gorfyddwn: ein gwefuſau ſydd eiddom ni, pwy ſydd Arglwydd arnom ni?

5 O herwydd anrhaith y rhai cyſtuddiedic, o herwydd vchenaid y tlodion, y cyfodaf yn awr, medd yr Arglwydd: rhoddaf mewn iechydwriaeth yr hwn y magler iddo.

6 Geiriau yr Arglwydd ydynt eiriau purion, fel arian wedi ei goethi mewn ffwrn bridd, wedi ei buro ſeith-waith.

7 Ti Arglwydd a'i cedwi hwynt: cedwi hwynt rhag y genhedlaeth hon yn dragywydd.

8 Yr annuwolion a rodiant o amgylch: pan ddyrchafer y gwaelaf o feibion dynion.

Vſquequo Domine obliviſceris. Pſal. 13.

PA hyd, Arglwydd, i'm anghofi, ai yn dragywydd? pa hyd y cuddi dy wyneb rhagof?

2 Pa hyd y cymmeraf gynghorion yn fy enaid, gan fod blinder beunydd yn fy nghalon? pa hyd y derchefir fy ngelyn arnaf?

3 Edrych, a chlyw fi, ô Arglwydd fy Nuw: goleua fy llygaid rhag i'm huno yn yr angeu.

4 Rhag dywedyd o'm gelyn, gorchfygais ef: ac i'm gwrthwyneb-wŷr lawenychu os gogwyddaf.

5 Minneu hefyd a ymddiriedais yn dy drugaredd di, fy nghalon a ymlawenycha yn dy iechydwriaeth: canaf i'r Arglwydd am iddo ſynio arnaf.

Dixit inſipiens in corde ſuo. Pſal. 14.

YR ynfyd a ddywedodd yn ei galon, nid oes vn Duw: ymlygraſant, ffieidd-waith a wnaethant; nid oes a wnêl ddaioni.

2 Yr Arglwydd a edrychodd i lawr o'r nefoedd ar feibion dynion; i weled a oedd neb deallgar, yn ymgeiſio â Duw.

3 Ciliodd pawb, cyd-ymddiffwyniſant, nid oes a wnêl ddaioni, nac oes vn.

4 Oni ŵyr holl weithred-wŷr anwiredd? y rhai ſy yn bwytta fy mhobl fel y bwyttaent fara; ni alwâſant ar yr Arglwydd.

5 Yno y dychrynaſant gan ofn: canys y mae Duw ynghenhedlaeth y cyfiawn.

6 Cyngor y tlawd a wradwyddaſoch chwi, am fod yr Arglwydd yn obaith iddo.

7 Pwy a ddyry iechydwriaeth i Iſrael o Sion? pan ddychwelo yr Arglwydd gaethiwed ei bobl, yr ymhyfryda Iacob, ac y llawenhâ Iſrael.

Domine quis habitabit. Pſal. 15.

Boreuol weddi.

ARglwydd pwy a drig yn dy babell? pwy a breſwylia ym mynydd dy ſancteiddrwydd?

2 Yr hwn a rodia yn berffaith, ac a wnêl gyfiawnder, ac a ddywed wir yn ei galon:

3 Heb abſennu â'i dafod: heb wneuthur drwg iw gymmydog, a heb dderbyn enllib yn erbyn ei gymmydog.

4 Yr hwn y mae y drygionus yn ddirmygus yn ei olwg, ond a anrhydedda y rhai a ofnant yr Arglwydd: yr hwn a dwng iw niwed ei hun, ac ni newidia.

5 Yr hwn ni roddes ei arian ar vſuriaeth, ac ni chymmer wobr yn erbyn y gwirion: a wnelo hyn nid yſcogir yn dragywydd.

Conſerva me Domine. Pſal. 16.

CAdw fi ô Dduw, canys ynot yr ymddiriedaf.

2 Fy enaid, dywedaiſt wrth yr Arglwydd, fy Arglwydd ydwyt ti: fy [illegible]

3 Ond i'r ſainct ſydd ar y ddaiar, a'r rhai rhagorawl, yn y rhai y mae fy holl hyfrydwch.

4 Goſidiau a amlhânt i'r rhai a fryſiant ar ôl Duw dieithr: eu diod offrwm o waed nid offrymmaf fi: ac ni chymmeraf eu henwau yn fy ngweſuſau.

5 Yr Arglwydd yw rhan fy etifeddiaeth i, a'm phiol: ti a gynheli fy nghoelbren.

6 Y llinynnau a ſyrthiodd i mi mewn lleoedd hyfryd: ie y mae i mi etifeddiaeth dêg.

7 Bendithiaf yr Arglwydd, yr hwn a'm cynghorodd: fy arennau hefyd a'm dyſcant y nôs.

8 Goſodais yr Arglwydd bob amſer ger fy mron: am ei fod ar fy neheu-law, ni'm yſcogir.

9 O herwydd hynny llawenychodd fy nghalon, ac ymhyfrydodd fy ngogoniant: fy nghnawd hefyd a orphywys mewn gobaith.

10 Canys, ni adewi fy enaid yn uffern: ac ni oddefi i'th Sanct weled llygredigaeth.

11 Dangosi i mi lwybr bywyd: digonolrwydd llawenydd ſydd ger dy fron: ar dy ddeheu-law y mae digrifwch yn dragywydd.

Exaudi Domine iuſtitiam. *Pſal.* 17.

CLyw Arglwydd gyfiawnder: yſtyria fy llefain, gwrando fyngweddi o weſuſau didwyll.

2 Deued fy marn oddi ger dy fron, edryched dy lygaid ar vniondeb.

3 Profaiſt fy nghalon, gofwyaiſt fi y nôs, chwiliaiſt fi, ac ni chei ddim: bwriedais na throſeddai fy ngenau.

4 Tu ag at am weithredoedd dynion, wrth eiriau dy weſuſau yr ymgedwais rhag llwybrau yr yſpeiludd.

5 Cynnal fyngherddediad yn dy lwybrau, fel na lithro fy nhraed.

6 Mi a elwais arnat, canys gwrandewi arnafi o Dduw: goſtwng dy gluſt attaf, ac erglyw fy ymadrodd.

7 Dangos dy ryfedd drugareddau, ô achubudd y rhai a ymddiriedant ynot, rhag y ſawl a ymgyfodant yn erbyn dy ddeheu-law.

8 Cadw fi fel canwyll llygad: cudd fi dan gyſcod dy adenydd,

9 Rhag yr annuwolion, y rhai a'm gorthrymmant: rhag fy ngelynion marwol, y rhai a'm hamgylchant.

10 Caeaſant gan eu braſder, â'i genau y llefaſant mewn balchder.

11 Ein cynniweirfa ni a gylchynaſant hwy yr awr hon, goſodaſant eu llygaid i dynnu i lawr â'r ddaiar.

12 Eu dull ſydd fel llew a chwennychei ſclyfaethu, ac megis llew ieuangc yn aros mewn lleoedd dirgel.

13 Cyfod Arglwydd, achub ei flaen ef, cwympa ef: gwared fy enaid rhag yr annuwiol, yr hwn yw dy gleddyf di.

14 Rhag dynion, y rhai yw dy law, O Arglwydd, rhag dynion y bŷd, y rhai y mae eu rhan yn y bywyd ymma, a'r rhai y llenwaiſt eu boliau a'th guddiedic dryſſor: llawn ydynt o feibion, a gadawant eu gweddill i'w rhai bychain.

15 Myfi a edrychaf ar dy wyneb mewn cyfiawnder: digonir fi, pan ddihunwyf, â'th ddelw di.

Diligam te Domine. *Pſal.* 18.

CAraf di Arglwydd fy nghadernid.

2 Yr Arglwydd yw fyngharaig, a'm hamddeffynfa, a'm gwaredudd, fy Nuw, fy nghadernid, yn yr hwn yr ymddiriedaf; fy nharian, a chorn fy iechydwriaeth, a'm huchel-dŵr.

ryd-
awnol
oddi,

3 Galwaf ar yr Arglwydd canmoladwy: felly i'm cedwir rhag fy ngelynion.

4 Goſidiau angau a'm cylchynaſant: ac afonydd y fall a'm dychrynaſant i.

5 Goſidiau uffern a'm cylchynaſant: maglau angeu a achubaſant fy mlaen.

6 Yn fy nghyfyngder y gelwais ar yr Arglwydd, ac y gwaeddais ar fy Nuw: efe a glybu fy llef o'i Deml, a'm gwaedd ger ei fron a ddaeth iw gluſtiau ef.

7 Yna y ſiglodd, ac y crynodd y ddaiar, a ſeiliau y mynyddoedd a gynhyrfodd, ac a ymſiglodd, am iddo ef ddigio.

8 Derchafodd mŵg o'i ffroenau, a thân a yſſodd o'i enau: glô a ennynaſant gantho.

9 Efe hefyd a oſtyngodd y nefoedd, ac a ddeſcynnodd: a thywyllwch oedd tan ei draed ef.

10 Marchogodd hefyd ar y Cerub, ac a ehedodd: ie efe a ehedodd ar adenydd y gwynt.

11 Efe a wnaeth dywyllwch yn ddirgelfa iddo: a'i babell o'i amgylch oedd dywyllwch dyfroedd, a thew-gwmmylau yr awyr.

12 Gan y diſcleirdeb oedd ger ei fron, ei gwmmylau a aethant heibio: cenllyſc a marwor tanllyd.

13 Yr Arglwydd hefyd a daranodd yn y nefoedd: a'r Goruchaf a roddes ei lef; cenllyſc a marwor tanllyd.

14 Ie efe a anfonodd ei ſaethau, ac a'i gwaſcarodd hwynt: ac a ſaethodd ei fellt, ac a'i gorchfygodd hwynt.

15 Gwaelodion y dyfroedd a welwyd, a ſeiliau y bŷd a ddinoethwyd: gan dy gerydd di ô Arglwydd, a chan chwythad anadl dy ffroenau.

16 Anfonodd oddi vchod, cymmerodd fi, tynnodd fi allan o ddyfroedd lawer.

17 Efe a'm gwaredodd oddi wrth fy ngelyn cadarn, a rhag fy nghaſeion: canys yr oeddynt yn drech nâ mi.

18 Achubaſant fy mlaen yn nydd fyngofid: ond yr Arglwydd oedd gynhaliad i mi.

19 Dûg fi hefyd i ehangder, gwaredodd fi: canys ymhoffodd ynof.

20 Yr Arglwydd a'm gobrwyodd yn ôl fy nghyfiawnder: yn ôl glendid fy nwylo y talodd efe i mi.

21 Canys cedwais ffyrdd yr Arglwydd: ac ni chiliais yn annuwiol oddi wrth fy Nuw.

22 O herwydd ei holl farnedigaethau ef oedd ger fy mron ita'i ddeddfau ni fwriais oddi wrthif.

23 Bûm hefyd yn berffaith gyd ag ef: ac ymgedwais rhag fy anwiredd.

24 A'r Arglwydd a'm gobrwyodd yn ôl fy nghyfiawnder: yn ôl purdeb fy nwylo o flaen ei lygaid ef.

25 A'r trugarog y gwnei drugaredd: â'r gŵr perffaith y gwnei berffeithrwydd.

26 A'r glân y gwnei lendid: ac â'r cyndyn yr ymgyndynni.

27 Canys ti a waredi y bobl gyſtuddiedic: ond ti oſtyngi olygon vchel.

28 O herwydd ti a oleui fyngh hanwyll: yr Arglwydd fy Nuw a lewyrcha fy nhywyllwch.

29 Oblegit ynot ti y rhedais trwy fyddin: ac yn fy Nuw y llemmais dros fûr.

30 Duw ſydd berffaith ei ffordd, gair yr Arglwydd ſydd wedi ei buro: tarian yw efe i bawb a ymddiriedant ynddo.

31 Canys pwy ſydd Duw heb law 'r Arglwydd? a phwy ſydd graig ond ein Duw ni.

32 Duw ſy'n fy ngwregyſu â nerth, ac yn gwneuthur fy ffordd yn berffaith.

33 Goſod y mae efe fy nhraed fel traed ewigod, ac ar fy vchel-fannau i'm ſefydlu.

34 Efe ſy yn dyſcu fy nwylo i ryfel: fel y dryllir bwa dûr yn fy mreichiau.

35 Rhoddaiſt hefyd i mi darian dy iechydwriaeth, a'th ddeheu-law a'm cynhaliodd, a'th fwynder a'm lluoſogodd.

36 Ehangaiſt fy ngherddediad tanaf: fel na lithrodd fy nhraed.

37 Erlidiais fy ngelynion, ac a'i goddiweddais: ac ni ddychwelais nes eu diſa hwynt.

38 Archollais hwy, fel na allent godi: ſyrthiaſant dan fy nhraed.

39 Canys gwregyſaiſt fi â nerth i ryfel: daroſtyngaiſt tanaf y rhai a ymgododd i'm herbyn.

40 Rhoddaiſt hefyd i mi warrau fy ngelynion: fel y difethwn fy nghaſeion.

41 Gwaeddaſant, ond nid oedd achubudd: ſef ar yr Arglwydd, ond nid attebodd efe hwynt.

42 Maluriais hwynt hefyd fel llwch o flaen y gwynt: teflais hwynt allan megis tom yr heolydd.

43 Gwaredaiſt fi rhag cynhennau y bobl, goſodaiſt fi yn ben cenhedloedd: pobl nid adnabûm a'm gwaſanaethant.

44 Pan glywant am danaf, vfyddhânt i mi: meibion dieithr a gymmerant arnynt ymddaroſtwng i mi.

45 Meibion dieithr a ballant: ac a ddychrynant allan o'u dirgel fannau.

46 Byw yw'r Arglwydd, a bendithier fy nghraig: a derchafer Duw fy iechydwriaeth.

47 Duw ſydd yn rhoddi i mi allu ymddial: ac a ddaroſtwng y bobloedd tanaf.

48 Efe ſydd yn fy ngwared oddi wrth fy ngelynion: ie ti a'm derchefi vwch law y rhai a gyfodant i'm herbyn: achubaiſt fi rhag y gŵr traws.

49 Am hynny y molianaf di o Arglwydd, ymmhlith y cenhedloedd, ac y canaf i'th enw.

50 Efe ſydd yn gwneuthur mawr ymwared i'w frenin, ac yn gwneuthur trugaredd i'w eneiniog, i Ddafydd, ac i'w hâd ef byth.

Cæli enarrant. *Pſal.* 19.

ruol
ddi.

Y Nefoedd ſy yn dadcan gogoniant Duw: a'r ffurfafen ſy yn mynegi gwaith ei ddwylaw ef.

2 Dydd i ddydd a draetha ymadrodd: a nos i nôs a ddengys wybodaeth.

3 Nid oes iaith nac ymadrodd, lle ni chlywyd eu lleferydd hwynt.

4 Eu llinyn aeth drwy'r holl ddaiar, a'i geiriau hyd eithafoedd byd: i'r haul y goſododd efe babell ynddynt.

5 Yr hwn ſydd fel gŵr priod yn dyfod allan o'i ſtafell: ac a ymlawenha fel cawr i redeg gyrfa.

6 O eithaf y nefoedd y mae ei fynediad ef allan, a'i amgylchiad hyd eu heithafoedd hwynt: ac nid ymgudd dim oddi wrth ei wrês ef.

7 Cyfraith yr Arglwydd ſydd berffaith yn troi yr enaid: tyſtiolaeth yr Arglwydd ſydd ſicr, ac yn gwneuthur y gwirion yn ddoeth.

8 Deddfau yr Arglwydd ſydd vniawn, yn llawenhau y galon: gorchymmyn yr Arglwydd ſydd bûr, yn goleuo y llygaid.

9 Ofn yr Arglwydd ſydd lân, yn parhau yn dragywydd: barnau'r Arglwydd ydynt wirionedd, cyfiawn ydynt i gyd.

10 Mwy dymunol ynt nag aur, ie nag aur coeth lawer: melyſach hefyd na'r mêl, ac na diferiad diliau mêl.

11 Ynddynt hwy hefyd y rhybuddir dy wâs: o'i cadw y mae gwobr lawer.

12 Pwy a ddeall ei gamweddau? glanhâ fi oddi wrth fy meiau cuddiedig.

13 Attal hefyd dy wâs oddi wrth bechodau rhyfygus, na arglwyddiaethant arnaf: yna i'm perffeithir, ac i'm glanheir oddiwrth anwiredd lawer.

14 Bydded ymadroddion fy ngenau, a myfyrdod fy nghalon, yn gymmeradwy ger dy fron, ô Arglwydd, fy nghraig, a'm prynwr.

Exaudiat te Dominus. *Pſal.* 20.

GWrandawed yr Arglwydd arnat yn nydd cyfyngdert: enw Duw Iacob a'th ddeffynno.

2 Anfoned i ti gymmorth o'r cyſſegr: a nerthed di o Sion.

3 Cofied dy holl offrymmau: a bydded fodlon i'th boeth offrwm. *Selah.*

4 Rhodded i ti wrth fodd dy galon: a chyflawned dy holl gyngor.

5 Gorfoleddwn yn dy iechydwriaeth di, a derchafwn faner yn enw ein Duw: cyflawned yr Arglwydd dy holl ddymuniadau.

6 Yr awr hon y gwn y gwared yr Arglwydd ei eneiniog, efe a wrendy arno o nefoedd ei ſancteiddrwydd, yn nerth iechyd ei ddeheu-law ef.

7 Ymddiried rhai mewn cerbydau, a rhai mewn meirch: ond nyni a gofiwn enw yr Arglwydd ein Duw.

8 Hwy a gwympaſant, ac a ſyrthiaſant: ond nyni a gyfodaſom, ac a ſafaſom.

9 Achub Arglwydd: gwrandawed y Brenin arnom, yn y dydd y llefom.

Domine in virtute tua. *Pſal.* 21.

ARglwydd yn dy nerth y llawenycha y brenin: ac yn dy iechydwriaeth di, mor ddirfawr yr ymhyfryda?

2 Deiſyfiad ei galon a roddaiſt iddo: a dymuniad ei weſuſau ni's gommeddaiſt. *Selah.*

3 Canys achubaiſt ei flaen ef â bendithion daioni: goſodaiſt ar ei ben ef goron o aur coeth.

4 Gofynnodd oes gennit, a rhoddaiſt iddo ir hir-oes, byth ac yn dragywydd.

5 Mawr yw ei ogoniant yn dy iechydwriaeth: goſodaiſt arno ogoniant a phrydferthwch.

6 Canys gwnaethoſt ef yn fendithion yn dragywyddol, llawenychaiſt ef â llawenydd â'th wynebpryd.

7 O herwydd bod y brenin yn ymddiried yn yr Arglwydd, a thrwy drugaredd y Goruchaf, nid yſcogir ef.

8 Dy law a gaiff afael ar dy holl elynion: dy ddeheu-law a gaiff afael ar dy gaſeion.

9 Ti a'i gwnei hwynt fel ffwrn danllyd yn amſer dy lid: yr Arglwydd yn ei ddigllonedd a'i llwngc hwynt, a'r tân a'i hyſa hwynt.

10 Eu ffrwyth hwynt a ddiniſtri di oddi ar y ddaiar: a'i hâd o blith meibion dynion.

11 Canys bwriadaſant ddrwg i'th erbyn: meddyliaſant amcan, heb allu o honynt ei gwplau.

12 Am hynny y gwnei iddynt droi eu cefnau: ar dy llinynnau y paratoi di ſaethau yn erbyn eu hwynebau.

13 Ymdderchafa Arglwydd yn dy nerth: canwn, a chan-molwn dy gadernid.

Deus, Deus meus. *Pſal.* 22.

FY Nuw, fy Nuw, pa ham i'm gwrthodaiſt? pa ham yr ydwyt mor bell oddi wrth fy iechydwriaeth, a geiriau fy llefain.

Prydnhawnol weddi.

2 Fy Nuw, llefain yr ydwyf y dydd, ac ni wrandewi: y nôs hefyd, ac nid oes oſteg i mi.

3 Ond tydi wyt ſancteiddiol, ô dydi yr hwn wyt yn cyfanneddu ym moliant Iſrael.

4 Ein tadau a obeithiaſant ynot: gobeithiaſant, a gwaredaiſt hwynt.

5 Arnat ti y llefaſant; ac achubwyd hwynt: ynot yr ymddiriedaſant, ac ni's gwradwyddwyd hwynt.

6 A minnen pryf ydwyf, ac nid gwr: gwarthrudd dynion, a dirmyg y bobl.

7 Pawb a'r a'm gwêlant a'm gwatwarant: llaeſant wefl, eſcydwant ben, gan ddywedyd,

8 Ymddiriedodd yn yr Arglwydd, gwareded ef: achubed ef, gan ei fod yn dda ganddo.

9 Canys ti a'm tynnaiſt o'r grôth: gwnaethoſt i mi obeithio pan oeddwn ar fronnau fy mam.

10 Arnat ti i'm bwriwyd o'r brû: o grôth fy mam fy Nuw ydwyt.

11 Nac ymbellhâ oddi wrthif, o herwydd cyfyngder ſydd agos: canys nid oes cynnorthwy-wr.

12 Teirw lawer a'm cylchynaſant: gwrdd deirw Baſan, a'm hamgylchaſant.

13 Agoraſant arnaf eu genau fel llew rheipus, a rhuadwy.

14 Fel dwfr i'm tywalltwyd, a'm heſcyrn oll a ymwahanaſant: fy nghalon ſydd fel cwyr, hi a doddodd ynghanol fy mherfedd.

15 Fy nerth a wywodd fel pridd-leſtr, a'm tafod a lynodd wrth daflod fyngenau: ac i lwch angeu i'm dygaiſt.

16 Canys cwn a'm cylchynaſant, cynnulleidfa y drygionus a'm hamgylchaſant: trywanaſant fy nwylaw a'm traed.

17 Gallaf gyfrif fy holl eſcyrn: y maent yn tremio, ac yn edrych arnaf.

18 Y maent yn rhannu fy nillad yn eu myſc: ac ar fy ngwiſc yn bwrw coelbren.

19 Ond tydi Arglwydd nac ymbellhâ: fy nghadernid bryſsia i'm cynnorthwyo.

20 Gwaret fy enaid rhag y cleddyf: fy unic enaid o feddiant y ci.

21 Achub fi rhag ſafn y llew: canys o blith cyrn unicorniaid i'm gwrandewaiſt.

22 Mynegaf dy enw i'm brodyr: ynghanol y gynnulleidfa i'th folaf.

23 Y rhai ſy yn ofni 'r Arglwydd, molwch ef, holl hâd Iacob, gogoneddwch ef: a holl hâd Iſrael, ofnwch ef.

24 Canys ni ddirmygodd, ac ni ffieiddiodd gyſtudd y tlawd, ac ni chuddiodd ei wyneb rhagddo: ond pan lefodd efe arno, efe a wrandawodd.

25 Fy mawl fydd o honot ti yn y gynnulleidfa fawr: fy addunedau a dalaf ger bron y rhai a'i hofnant ef.

26 Y tlodion a fwyttânt, ac a ddiwellir, y rhai a geiſiant yr Arglwydd a'i moliannant ef: eich calon fydd byw yn dragywydd.

27 Holl derfynau y ddaiar a gofiant, ac a droant at yr Arglwydd: a holl dylwythau y cenhedloedd a addolant ger dy frondi.

28 Canys eiddo 'r Arglwydd yw'r deyrnas: ac efe ſydd yn llywodraethu ym mhlith y cenhedloedd.

29 Yr holl rai breiſion ar y ddaiar a fwyttânt, ac a addolant: y rhai a ddeſcynnant i'r llwch a ymgrymmant ger ei fron ef: ac nid oes neb a all gadw yn fyw ei enaid ei hun.

30 Eu hâd a'i gwaſanaetha ef: cyfrifir ef i'r Arglwydd yn genhedlaeth.

31 Deuant, ac adroddant ei gyfiawnder ef i'r bobl a enir: mai efe a wnaeth hyn.

Dominus regit me. Pſal.23.

YR Arglwydd yw fy mugail: ni bydd eiſieu arnaf.

2 Efe a wna i'm orwedd mewn porfeydd gwelltoc: efe a'm tywys ger llaw y dyfroedd tawel.

3 Efe a ddychwel fy enaid, efe a'm harwain ar hyd llwybrau cyfiawnder, er mwyn ei enw.

4 Ie pe rhodiwn ar hŷd glyn cyſgod angeu, nid ofnaf niwed; canys yr wyt ti gyd â mi: dy wialen, a'th ffon a'm cyſſurant.

5 Ti a arlwyi fort ger fy mron, yngwydd fy ngwrthwyneb-wŷr: iraiſt fy mhen ag olew, fy phiol ſydd lawn.

6 Daioni, a thrugaredd yn ddiau a'm canlynant, holl ddyddiau fy mywyd: a phreſſwyliaf yn nhŷ 'r Arglwydd yn dragywydd.

Domini eſt terra & plenitudo eius. Pſal.24.

EIddo yr Arglwydd y ddaiar, a'i chyflawnder: y bŷd, ac a breſſwylia ynddo. *Bore wedd*

2 Canys efe a'i ſeiliodd ar y moroedd: ac a'i ſiccrhaodd ar yr afonydd.

3 Pwy a eſcyn i fynydd yr Arglwydd? a phwy a ſaif yn ei lê ſanctaidd ef?

4 Y glân ei ddwylo, a'r pur ei galon: yr hwn ni dderchafodd ei feddwl at wagedd, ac ni thyngodd i dwyllo.

5 Efe a dderbyn fendith gan yr Arglwydd, a chyfiawnder gan Dduw ei iechydwriaeth.

6 Dymma genhedlaeth y rhai a'i ceiſiant ef: y rhai a geiſiant dy wyneb di, ô Iacob. *Selah.*

7 O byrth, derchefwch eich pennau, ac ymdderchefwch ddryſau tragywyddol: a brenin y gogoniant a ddaw i mewn.

8 Pwy yw yr brenin gogoniant hwn? yr Arglwydd nerthol, a chadarn: yr Arglwydd cadarn mewn rhyfel.

9 O byrth, derchefwch eich pennau, ac ymdderchefwch ddryſau tragywyddol, a brenin y gogoniant a ddaw i mewn.

10 Pwy yw'r brenin gogoniant hwn? Arglwydd y lluoedd, efe yw brenin y gogoniant. *Selah.*

Ad te Domine leuaui animam. Pſal.25.

ATtat ti ô Arglwydd, y derchafaf fy enaid.

2 O fy Nuw, ynot ti 'r ymddiriedais, na'm gwradwydder: na orfeledded fy ngelynion arnaf.

3 Ie na wradwydder neb ſydd yn diſgwyl wrthit ti: gwradwydder y rhai a droſeddant heb achos.

4 Par i mi wybod dy ffyrdd ô Arglwydd: dyſc i mi dy lwybrau.

5 Tywys fi yn dy wirionedd, a dyſc fi: canys ti yw Duw fy iechydwriaeth, wrthit ti y diſgwyliaf ar hyd y dydd.

6 Cofia Arglwydd dy dosturiaethau, a'th drugareddau: canys erioed y maent hwy.

7 Na chofia bechodau fy ieuengctid, na'm camweddau: yn ôl dy drugaredd meddwl di am danaf, er mwyn dy ddaioni Arglwydd.

8 Da ac uniawn yw yr Arglwydd: o herwydd hynny y dyſc efe bechaduriaid yn y ffordd.

9 Y rhai llariaid a hyfforddia efe mewn barn: a'i ffordd a ddyſc efe i'r rhai goſtyngedic.

10 Holl lwybrau 'r Arglwydd ydynt drugaredd, a gwirionedd, i'r rhai a gadwant ei gyfammod, a'i deſtiolaethau ef.

11 Er mwyn dy Enw, Arglwydd, madden fy anwiredd: canys mawr yw.

12 Pa wr yw efe ſy 'n ofni yr Arglwydd? efe a'i dyſc ef yn y ffordd a ddewiſo.

13 Ei enaid ef a erys mewn daioni: a'i hâd a etifedda y ddaiar.

14 Dirgelwch yr Arglwydd ſydd gydâ 'r rhai a'i hofnant ef: a'i gyfammod hefyd, i'w cyfarwyddo hwynt.

15 Fyllygaid ſydd yn waſtad ar yr Arglwydd: canys efe a ddwg fy nhraed allan o'r rhwyd.

16 Trô attaf, a thrugarhâ wrthif: canys unic, a thlawd ydwyf,

17 Goſidiau

17 Gofidiau fy nghalon a helaethwyd: dwg di fi allan o'm cyfyngderau.

18 Gwêl fy nghyſtudd, a'm helbul: a maddeu fy holl bechodau.

19 Edrych ar fy ngelynion, canys amlhaſant: â chaſineb traws hefyd i'm caſſaſant.

20 Cadw fy enaid, ac achub fi: na'm gwradwydder, canys ymddiriedais ynot.

21 Cadwed perffeithrwydd, ac vniondeb fi, canys yr wyf yn diſgwyl wrthit.

22 O Dduw, gwared Iſrael o'i holl gyfyngderau.

Iudica me Domine. Pſal. 26.

BArn fi Arglwydd, canys rhodiais yn fy mherffeithrwydd, ymddiriedais hefyd yn yr Arglwydd, am hynny ni lithraf.

2 Hôla fi Arglwydd, a phrawf fi: chwilia fy arennau, a'm calon.

3 Canys dy drugaredd ſydd o flaen fy llygaid: ac mi a rodiais yn dy wirionedd.

4 Nid eiſteddais gyd â dynion coegion, a chyd â'r rhai troſans nid âf.

5 Caſſeais gynnulleidfa y drygionus: a chyd â'r annuwolion nid eiſteddaf.

6 Golchaf fy nwylo mewn diniweidrwydd: a'th allor ô Arglwydd, a amgylchynaf:

7 I gyhoeddi â llef clodforedd: ac i fynegi dy holl ryfeddodau.

8 Arglwydd, hoffais drigfan dy dŷ: a lle preſſwylfa dy ogoniant.

9 Na chaſgl fy enaid gyd â phechaduriaid: na'm bywyd gyd â dynion gwaedlyd:

10 Y rhai y mae ſcelerder yn eu dwylo, a'i deheulaw yn llawn gwobrau.

11 Eithr mi a rodiaf yn fy mherffeithrwydd: gwared fi, a thrugarhâ wrthif.

12 Fy nhroed ſydd yn ſefyll ar yr vnion: yn y cynnulleidfaoedd i'th fendithiaf ô Arglwydd.

Dominus illuminatio mea. Pſal. 27.

YR Arglwydd yw fy ngoleuni, a'm hiechydwriaeth, rhag pwy yr ofnaf? yr Arglwydd yw nerth fy mywyd, rhag pwy y dychrynaf?

2 Pan neſſaodd y rhai drygionus, fy ngwrthwyneb-wŷr, a'm gelynion i'm herbyn, i fwytta fy nghnawd: hwy a dramgwyddaſant, ac a ſyrthiaſant.

3 Pe gwerſyllei llu i'm herbyn, nid ofna fy nghalon: pe cyfodei câd i'm herbyn, yn hyn mi a fyddaf hyderus.

4 Vn peth a ddeiſyfiais i gan yr Arglwydd, hynny a geiſiaf, ſef caffel trigo yn nhŷ 'r Arglwydd holl ddyddiau fy mywyd: i edrych ar brydferthwch yr Arglwydd, ac i ymofyn yn ei Deml.

5 Canys yn y dydd blin i'm cuddia o fewn ei babell: yn nirgelfa ei babell i'm cuddia, ar graig i'm cyfyd i.

6 Ac yn awr y dercha efe fy mhen goruwch fy ngelynion o'm hamgylch: am hynny 'r aberthaf yn ei babell ef ebyrth gorfoledd: canaf, ie can-molaf yr Arglwydd.

7 Clyw ô Arglwydd fy lleferydd pan lefwyf: trugarhâ hefyd wrthyf, a gwrando arnaf.

8 Pan ddywedaiſt, ceiſiwch fy wyneb, fy nghalon a ddywedodd wrthit, dy wyneb a geiſiaf, ô Arglwydd.

9 Na chuddia dy wyneb oddi wrthif, na fwrw ymmaith dy wâs mewn ſoriant: fy nghymmorth fuoſt; na âd fi, ac na wrthod fi, ô Dduw fy iechydwriaeth.

10 Pan yw fy nhâd, a'm mam yn fy ngwrthod: yr Arglwydd a'm derbyn.

11 Dyſc i mi dy ffordd Arglwydd: ac arwain fi ar hŷd llwybrau vniondeb, o herwydd fy ngelynion.

12 Na ddyro fi i fynn i ewyllys fy ngelynion: canys gau dyſtion, a rhai a adroddant drawſter a gyfodaſant i'm herbyn.

13 Deffygiaſwn, pe na chredaſwn weled daioni 'r Arglwydd yn nhîr y rhai byw.

14 Diſgwil wrth yr Arglwydd, ymwrola, ac efe a nertha dy galon: diſgwyl meddaf wrth yr Arglwydd.

Ad te Domine clamaui. Pſal. 28.

ARnat ti Arglwydd y gwaeddaf, fy nghraig na ddiſtawa wrthif: rhag o thewi wrthif, i'm fod yn gyffelyb i rai yn deſcyn i'r pwll.

2 Erglyw lef fy ymbil, pan waeddwyf arnat: pan dderchafwyf fy nwylo tu ag at dy gafell ſanctaidd.

3 Na thynn fi gyd â'r annuwolion, a chyd â gweithred-wŷr anwiredd, y rhai a leſarant heddwch wrth eu cymmydogion, a drwg yn eu calon.

4 Dyro iddynt yn ôl eu gweithred, ac yn ôl drygioni eu dychymmygion, dyro iddynt yn ôl gweithredoedd eu dwylo: tâl iddynt eu haeddedigaeth.

5 Am nad yſtyriant weithredoedd yr Arglwydd, na gwaith ei ddwylo ef, y diniſtria efe hwynt, ac nis adeilada hwynt.

6 Bendigedic fyddo 'r Arglwydd: canys clybu lêf fy ngweddiau.

7 Ar Arglwydd yw fy nerth a'm tarian, ynddo ef yr ymddiriedodd fy nghalon, ac myfi a gynnorthwywyd: o herwydd hyn y llawenychodd fy nghalon, ac ar fy nghân y clodforaf ef.

8 Yr Arglwydd ſydd nerth i'r cyfryw rai, a chadernid iechydwriaeth ei eneiniog yw efe.

9 Cadw dy bobl, a bendithia dy etifeddiaeth: portha hwynt hefyd, a dyrcha hwynt yn dragywydd.

Afferte Domino filij Dei. Pſal. 29.

MOeſwch i'r Arglwydd chwi feibion cedyrn: moeſwch i'r Arglwydd ogoniant, a nerth.

2 Moeſwch i'r Arglwydd ogoniant ei Enw: addolwch yr Arglwydd ym mhrydferthwch ei ſancteiddrwydd.

3 Llef yr Arglwydd ſydd ar y dyfroedd, Duw y gogoniant a darana: yr Arglwydd ſydd ar y dyfroedd mawrion.

4 Llef yr Arglwydd ſy mewn grym: llêf yr Arglwydd ſy mewn prydferthwch.

5 Llef yr Arglwydd ſy yn dryllio y cedrwydd: ie dryllia 'r Arglwydd gedrwydd Libanus.

6 Efe a wna iddynt lammu fel llô: Libanus a Syrion fel llwdn vnicorn.

7 Llef yr Arglwydd a waſcara y fflammau tân.

8 Lef yr Arglwydd a wna i'r anialwch grynu: yr Arglwydd a wna i anialwch Cades grynu.

9 Llef yr Arglwydd a wna i'r ewigod lydnu, ac a ddinoetha y coedydd: ac yn ei Deml, pawb a draetha ei ogoniant ef.

10 Yr Arglwydd ſydd yn eiſtedd ar y llifeiriant, ie yr Arglwydd a eiſtedd yn Frenin yn dragywydd.

11 Yr Arglwydd a ddyry nerth i'w bobl: yr Arglwydd a fendithia ei bobl â thangnefedd.

Exaltabo te Domine. Pſal. 30.

Boreuol weddi.

MAwrygaf di ô Arglwydd, canys derchefaiſt fi: ac ni lawenhêaiſt fy ngelynion o'm plegit.

2 Arglwydd, fy Nuw, llefais arnat, tithau a'm hiachêaiſt.

3 Arglwydd dercheſaiſt fy enaid o'r bedd, cedwaiſt fi yn fyw, rhag deſcyn o honof i'r pwll.

4 Cenwch i'r Arglwydd ei ſainct ef: a chlodforwch wrth goffadwriaeth ei ſancteiddrwydd ef.

5 Canys ennyd fechan y bydd yn ei lid, yn ei fodlonrwydd y mae bywyd: tros brŷd nawn yr erys wylofain, ac erbyn y borau y bydd gorfoledd.

6 A mi a ddywedais yn fy llwyddiant, ni'm ſyflir yn dragywydd.

7 O'th ddaioni Arglwydd, y goſodaiſt gryfder yn fy mynydd: cuddiaiſt dy wyneb, a bum helbulus.

8 Arnat ti Arglwydd y llefais ac â'r Arglwydd yr ymbiliais.

9 Pa fudd ſydd yn fy ngwaed pan ddeſcynnwyf i'r ffôs? a glodfora y llwch di? a fynega efe dy wirionedd?

10 Clyw Arglwydd, a thrugarhâ wrthif: Arglwydd bydd gynnorthwywr i mi.

11 Troaiſt fy ngalar yn llawenydd i mi: dioſgaiſt fy ſach-wiſc, a gwregyſaiſt fi â llawenydd.

12 Fel y cano fy ngogoniant i ti, ac na thawo: ô Arglwydd fy Nuw, yn dragywyddol i'th foliannaf.

In te Domine ſperavi. *Pſal. 31.*

YNot ti Arglwydd yr ymddiriedais, na'm gwradwydder yn dragywydd: gwared fi yn dy gyfiawnder.

2 Gogwydda dy gluſt attaf, gwared fi ar frys: bydd i mi yn graig gadarn, yn dŷ amddeffyn, i'm cadw.

3 Canys fy nghraig a'm caſtell ydwyt: gan hynny er mwyn dy Enw, tywys fi, ac arwain fi.

4 Tynn fi allan o'r rhwyd a guddiaſant i mi: canys ti yw fy nerth.

5 I'th law y gorchymynnaf fy yſpryd: gwaredaiſt fi ô Arglwydd Dduw y gwirionedd.

6 Caſeais y rhai ſy yn dal ar ofer-wagedd: minnau a obeithiaf yn yr Arglwydd.

7 Ymlawenhâf, ac ymhyfrydaf yn dy drugaredd: canys gwelaiſt fy adfyd: adnabuoſt fy enaid mewn cyfyngderau.

8 Ac ni warcheaiſt fi yn llaw y gelyn, onid goſodaiſt fy nhraed mewn ehangder.

9 Trugarhâ wrthif Arglwydd, canys cyfyng yw arnaf: dadwinodd fy llygad gan ofid, ie fy enaid, a'm bol:

10 Canys fy mywyd a ballodd gân ofid, a'm blynyddoedd gan ochain: fy nerth a ballodd o herwydd fy anwiredd, a'm heſcyrn a bydraſant.

11 Yn warthrudd yr ydwyf ym mysg fy holl elynion, a hynny yn ddirfawr ymmyſg fy nghymmydogion: ac yn ddychryn i'r rhai a'm hadwaenant; y rhai a'm gwelent allan, a gilient oddi wrthif.

12 Anghofiwyd fi fel un marw allan o feddwl, yr ydwyf fel lleſtr methedic.

13 Canys clywais ogan llaweroedd, y dychrynnedd o bob parth: pan gyd-ymgynghoraſant yn fy erbyn, y bwriadaſant fy nieneidio.

14 Ond mi a obeithiais ynot ti Arglwydd, dywedais, fy Nuw ydwyt.

15 Yn dy law di y mae fy amſerau: gwared fi o law fy ngelynion, ac oddi wrth fy erlid-wŷr.

16 Llewyrcha dy wyneb ar dy wâs: achub fi er mwyn dy drugaredd.

17 Arglwydd na wradwydder fi, canys gelwais arnat: gwradwydder yr annuwolion, torrer hwynt i'r bedd.

18 Goſteger y gwefuſau celwyddoc, y rhai a ddywedant yn galed drwy falchder, a diyſtyrwch, yn erbyn y cyfiawn.

19 Mor fawr yw dy ddaioni a roddaiſt i gadw i'r ſawl a'th ofnant: ac a wnaethoſt i'r rhai a ymddiriedant ynot, ger bron meibion dynion?

20 Cuddi hwynt yn nirgelfa dy wyneb, rhag balchder dynion: cuddi hwynt mewn pabell, rhag cynnen tafodau.

21 Bendigedic fyddo'r Arglwydd, canys dangoſodd yn rhyfedd ei garedigrwydd i mi, mewn dinas gadarn.

22 Canys mi a ddywedais yn fy ffrwſt, fe'm bwriwyd allan o'th olwg: er hynny ti a wrandewaiſt lais fy ngweddiau, pan lefais arnat.

23 Cerwch yr Arglwydd; ei holl ſainct ef: yr Arglwydd a geidw y ffyddloniaid, ac a dâl yn ehelaeth i'r neb a wna falchder.

24 Ymwrolwch, ac efe a gryfhâ eich calon: chwychwi oll y rhai ydych yn gobeithio yn yr Arglwydd.

Beati quorum. *Pſal. 32.*

GWyn ei fyd y neb y maddeuwyd ei droſedd: ac y cuddiwyd ei bechod.

2 Gwyn ei fyd y dyn ni chyfrif yr Arglwydd iddo anwiredd: ac ni bo dichell yn ei yſpryd.

3 Tra y tewais, heneiddiodd fy eſcyrn, gân fy rhuad ar hyd y dydd.

4 Canys trymhâodd dy law arnaf ddydd a nos: fy irder a drowyd yn ſychder hâf. *Selah.*

5 Addefais fy mhechod wrthit, a'm hanwiredd ni chuddiais: dywedais, cyffeſſaf yn fy erbyn fy hun fy anwireddau i'r Arglwydd, a thi a faddeuaiſt anwiredd fy mhechod. *Selah.*

6 Am hyn y gweddia pob duwiol arnat ti yn yr amſer i'th geffir: yn ddiau yn llifeiriant dyfroedd mawrion, ni chânt neſſau atto ef.

7 Ti ydwyt loches i mi: cedwi fi rhag ing: amgylchyni fi â chaniadau ymwared. *Selah.*

8 Cyfarwyddaf-di, a dyſcaf di yn y ffordd yr elych: a'm llygad arnat i'th gynghoraf.

9 Na fyddwch fel march, neu fûl, heb ddeall, yr hwn y mae rhaid attal ei ên â genfa, ac â ffrwyn, rhag ei ddineſau attat.

10 Gofidiau lawer fydd i'r annuwiol, ond y neb a ymddiriedo yn yr Arglwydd, trugaredd a'i cylchyna ef.

11 Y rhai cyfiawn, byddwch lawen a hyfryd yn yr Arglwydd: a'r rhai vniawn o galon oll, cenwch yn llafar.

Exultate iuſti in Domino. *Pſal. 33.*

YMlawenhewch y rhai cyfiawn, yn yr Arglwydd: i'r rhai vniawn gweddus yw mawl.

2 Molwch yr Arglwydd â'r delyn: cenwch iddo â'r nabl, ac â'r dectant.

3 Cenwch iddo ganiad newydd: cenwch yn gerddgar, yn ſoniarus.

4 Canys vniawn yw gair yr Arglwydd; a'i holl weithredoedd a wnaed mewn ffyddlondeb.

5 Efe a gâr gyfiawnder, a barn: o drugaredd yr Arglwydd y mae y ddaiar yn gyflawn.

6 Trwy air yr Arglwydd y gwnaethpwyd y nefoedd: a'i holl luoedd hwy trwy yſpryd ei enau ef.

7 Caſclu y mae efe ddyfroedd y môr ynghyd, megis pentwrr: y mae yn rhoddi y dyfnderoedd mewn tryſorau.

8 Ofned yr holl ddaiar yr Arglwydd: holl drigolion y byd arſwydant ef.

9 Canys efe a ddywedodd, ac felly y bu: efe a orchymynnodd, a hynny a ſafodd.

10 Yr Arglwydd ſydd yn diddymmu cyngor y cenhedloedd: y mae efe yn diddymmu amcanion pobloedd.

11 Cyngor yr Arglwydd a ſaif yn dragywydd: meddyliau ei galon, o genhedlaeth i genhedlaeth.

12 Gwyn ei fyd y genedl y mae yr Arglwydd yn Dduw iddi: a'r bobl a ddetholes efe yn etifeddiaeth iddo ei hun.

13 Yr Arglwydd ſy yn edrych i lawr o'r nefoedd: y mae yn gweled holl feibion dynion.

14 O breſwyl ei drigfa yr edrych efe ar holl drigolion y ddaiar.

15 Efe a gyd-luniodd eu calon hwynt: efe a ddeall eu holl weithredoedd.

16 Ni waredir brenin gan lliaws llu: ni ddiangc cadarn drwy ei fawr gryfder.

17 Peth ofer yw march i ymwared: ac ni achub efe neb drwy ei fawr gryfder.

18 Wele, y mae llygad yr Arglwydd ar y rhai a'i hofnant ef: ſef ar y rhai a obeithiant yn ei drugaredd ef:

19 I waredu eu henaid rhag angeu: ac i'w cadw yn fyw yn amſer newyn.

20 Ein henaid ſydd yn diſgwil am yr Arglwydd: efe yw ein porth a'n tarian.

21 Canys ynddo ef y llawenycha ein calon, oherwydd i ni obeithio yn ei enw ſanctaidd ef.

22 Bydded dy drugaredd Arglwydd arnom ni, megis yr ydym yn ymddiried ynot.

Benedicam Domino. *Pſal.* 34.

BEndithiaf yr Arglwydd bob amſer: ei foliant ſydd yn fy ngenau yn waſtad.

2 Yn yr Arglwydd y gorfoledda fy enaid: y rhai goſtyngedic a glywant hyn, ac a lawenychant.

3 Mawrygwch yr Arglwydd gyd â mi: a chydddyrchafwn ei enw ef.

4 Ceiſiais yr Arglwydd, ac efe a'm gwrandawodd: gwaredodd fi hefyd o'm holl ofn.

5 Edrychaſant arno, a hwy a oleuwyd: a'i hwynebau ni chywilyddiwyd.

6 Y tlawd hwn a lefodd, a'r Arglwydd a'i clybu, ac a'i gwaredodd o'i holl drallodau.

7 Angel yr Arglwydd a gaſtella o amgylch y rhai a'i hofnant ef, ac a'i gwared hwynt.

8 Profwch, a gwelwch mor dda yw'r Arglwydd: gwyn ei fyd y gŵr a ymddiriedo ynddo.

9 Ofnwch yr Arglwydd ei ſainct ef: canys nid oes eiſiau ar y rhai a'i hofnant ef.

10 Y mae eiſieu, a newyn ar y llewod ieuaingc, ond y ſawl a geiſiant yr Arglwydd, ni bydd arnynt eiſieu dim daioni.

11 Deuwch blant, gwrandewch arnaf: dyſcaf i chwi ofn yr Arglwydd.

12 Pwy yw'r gŵr a chwennych fywyd, ac a gâr hir ddyddiau, i weled daioni?

13 Cadw dy dafod rhag drwg: a'th wefuſau rhag traethu twyll.

14 Cilia oddi wrth ddrwg, a gwna dda: ymgais â thangnheddyf, a dilyn hi.

15 Llygaid yr Arglwydd ſydd ar y cyfiawn: a'i glustiau ſydd yn agored i'w llefain hwynt.

16 Wyneb yr Arglwydd ſydd yn erbyn y rhai a wnant ddrwg: i dorri eu coffa oddi ar y ddaiar.

17 Y rhai cyfiawn a lefant, a'r Arglwydd a glyw, ac a'i gwared o'i holl drallodau.

18 Agos yw'r Arglwydd at y rhai drylliedic o galon: ac efe a geidw y rhai briwedic o yſpryd.

19 Aml ddrygau a gaiff y cyfiawn: ond yr Arglwydd a'i gwared ef oddi wrthynt oll.

20 Efe a geidw ei holl eſcyrn ef: ni thorir un o honynt.

21 Drygioni a ladd yr annuwiol: a'r rhai a gaſânt y cyfiawn a anrheithir.

22 Yr Arglwydd a wared eneidiau ei weiſion: a'r rhai oll a ymddiriedant ynddo ef, nid anrheithir hwynt.

Judica Domine. *Pſal.* 35.

DAdleu fy nadl Arglwydd, yn erbyn y rhai a ddadleuant i'm herbyn: ymladd â'r rhai a ymladdant â mi.

[illegible]

2 Ymafael yn y darian a'r aſtalch, a chyfod i'm cymmorth.

3 Dwg allan y waywffon, ac argaea yn erbyn fy erlid-wyr: dywed wrth fy enaid, myfi yw dy iechydwriaeth.

4 Cywilydddier, a gwaradwydder y rhai a geiſiant fy enaid: ymchweler yn eu hôl, a gwarthaer, y ſawl a fwriadant fy nrygu.

5 Byddant fel us o flaen y gwynt: ac Angel yr Arglwydd yn eu herlid.

6 Bydded eu ffordd yn dywyll, ac yn llithrigfa: ac Angel yr Arglwydd yn eu hymlid.

7 Canys heb achos y cuddiaſant eu rhwyd i mi mewn pydew, yr hwn heb achos a gloddiaſant i'm henaid.

8 Deued arno ddiſtryw ni wypo, a'i rwyd yr hon a guddiodd a'i dalio: ſyrthied yn y diſtryw hwnnw.

9 A llawenycha fy enaid i yn yr Arglwydd: efe a ymhyfryda yn ei iechydwriaeth ef.

10 Fy holl eſcyrn a ddywedant, ô Arglwydd, pwy ſydd fel tydi, yn gwaredu y tlawd rhag yr hwn a fyddo trêch nag ef, y truan hefyd a'r tlawd, rhag y neb a'i hyſpeilio?

11 Tyſtion gau a gyfodaſant: holaſant i mi yr hyn nis gwn oddi wrtho.

12 Talaſant i mi ddrwg dros dda, i yſpeilio fy enaid.

13 A minneu pan glafychent hwy, oeddwn a'm gwiſc o ſach-len, goſtyngais fy enaid ag ympryd: a'm gweddi a ddychwelodd i'm mynwes fy hun.

14 Ymddygais fel pe buaſei 'n gyfaill, neu yn frawd i mi: ymoſtyngais mewn galar-wiſc, fel un yn galaru am ei fam.

15 Ond ymlawenhaſant hwy yn fy adfyd i, ac ymgaſclaſant: ymgaſclodd efryddion yn fy erbyn, ac nis gwyddwn: rhwygaſant fi, ac ni pheidient.

16 Ym myſc y gwatwarwyr rhag-rithiol mewn gwleddoedd, yſcyrnygaſant eu dannedd arnaf.

17 Arglwydd, pa hyd yr edrychi di ar hyn? gwared fy enaid rhag eu diſtryw hwynt, fy unic enaid rhag y llewod.

18 Mi a'th glodforaf yn y gynnulleidfa fawr: moliannaf di ym mhlith pobl lawer.

19 Na lawenychant o'm herwydd y rhai ſydd elynion i mi heb achos: y ſawl a'm caſânt yn ddiachos, nac amneidiant â llygad.

20 Canys nid ymddiddanant yn heddychol: eithr dychymygant eiriau dichellgar, yn erbyn y rhai llonydd yn y tir.

21 Lledaſant eu ſafn arnaf, gan ddywedyd, Ha, ha, gwelodd ein llygad.

22 Gwelaiſt hyn Arglwydd, na thaw di ſôn: nac ymbellhâ oddi wrthif, ô Arglwydd.

23 Cyfod, a deffro i'm barn, ſef i'm dadl, fy Nuw, a'm Harglwydd.

24 Barn fi Arglwydd fy Nuw, yn ol dy gyfiawnder: ac na lawenhânt o'm plegit.

25 Na ddywedant yn eu calonnau, [illegible]: na ddywedant, llyngcaſom ef.

26 Cywilydddier, a gwaradwydder hwy i gyd, y

rhai ſy lawen am fy nrhyg-fyd: i gwiſcer â gwarth ac â chywilydd, y rhai a ymfawrygant i'm herbyn.

27 Caned a llawenyched y rhai a hoffant fy nghyfiawnder, dywedant hefyd yn waſtad, mawryger yr Arglwydd, yr hwn a gâr lwyddiant ei wâs.

28 Fy nhafod innau, a leſara am dy gyfiawnder, a'th foliant, ar hyd y dydd.

Dixit iniuſtus. *Pſal. 36.*

YMae anwiredd yr annuwiol yn dywedyd o fewn fy nghalon, nad oes ofn Duw o flaen ei lygaid ef.

2 O herwydd ymwenhieithio y mae efe iddo ei hun, yn ei olwg ei hunan, nes cael ei anwiredd yn atcas.

3 Geiriau ei enau ydynt anwiredd a thwyll: peidiodd â bod yn gall i wneuthur daioni.

4 Anwiredd a ddychymmyg efe ar ei wely, efe a'i goſyd ei hun ar ffordd nid yw dda: nid ffiaidd gantho ddrygioni.

5 Dy drugaredd Arglwydd ſydd hyd y nefoedd, a'th wirionedd hyd y cymylau.

6 Fel mynyddoedd cedyrn y mae dy gyfiawnder, dyfnder mawr yw dy farnedigaethau: dŷn ac anifail a gedwi di, Arglwydd.

7 Mor werth-fawr yw dy drugaredd ô Dduw! am hynny 'r ymddiried meibion dynion tan gyſcod dy adenydd.

8 Llawn-ddigonir hwynt â braſder dy dŷ: ac ag afon dy hyfrydwch y diodi hwynt.

9 Canys gyd â thi y mae ffynnon y bywyd: yn dy oleuni di y gwelwn oleuni.

10 Eſtyn dy drugaredd i'r rhai a'th adwaenant, a'th gyfiawnder i'r rhai uniawn o galon.

11 Na ddeued troed balchder i'm herbyn: na ſyfled llaw yr annuwiol fi.

12 Yno y ſyrthiodd gweith wŷr anwiredd: gwthiwyd hwynt i lawr, ac ni allant gyfodi.

Noli æmulari. *Pſal. 37.*

Prydnhawnol weddi.

NAc ymddigia o herwydd y rhai drygionus, ac na chenfigenna wrth y rhai a wnant anwiredd.

2 Canys yn ebrwydd y torrir hwynt i'r llawr fel glaſ-wellt, ac y gwywant fel gwyrdd lyſſiau.

3 Gobeithia yn yr Arglwydd, a gwna dda: felly y trigi yn y tîr, a thi a borthir yn ddiau.

4 Ymddigrifa hefyd yn yr Arglwydd, ac efe a ddyry i ti ddymuniadau dy galon.

5 Treigla dy ffordd ar yr Arglwydd, ac ymddiried ynddo, ac efe a'i dwg i ben.

6 Efe a ddwg allan dy gyfiawnder fel y goleuni: a'th farn fel haner dydd.

7 Diſtawa yn yr Arglwydd, a diſgwyl wrtho, nac ymddigia o herwydd yr hwn a lwyddo ganddo ei ffordd, wrth y gŵr ſydd yn gwneuthur ei ddrwg amcanion.

8 Paid â digofaint, a gâd ymmaith gynddaredd: nac ymddigia er dim, i wneuthur drwg.

9 Canys torrir ymmaith y drwg-ddynion, ond y rhai a ddiſgwiliant wrth yr Arglwydd, hwynt-hwy a etifeddant y tîr.

10 Canys etto ychydigyn, ac ni *welir* yr annuwiol, a thi a edrychi am ei le *ef*, ac ni bydd dim o honaw.

11 Eithr y rhai goſtyngedic a etifeddant y ddaiar, ac a ymhyfrydant gan liaws tangneddyf.

12 Yr annuwiol a amcana yn erbyn y cyfiawn, ac a yſgyrnyga ei ddannedd arno.

13 Yr Arglwydd a chwardd am ei ben ef, canys gwêl fod ei ddydd ar ddyfod.

14 Yr annuwiolion a dynnaſant eu cleddyf, ac a annelaſant eu bwâu, i fwrw i lawr y tlawd, a'r anghenog, ac i ladd y rhai uniawn eu ffordd.

15 Eu cleddyf a â yn eu calon eu hunain, a'i bwâu a ddryllir.

16 Gwell yw 'r ychydig ſydd gan y cyfiawn, nâ mawr olud annuwolion lawer.

17 Canys breichiau 'r annuwolion a dorrir: ond yr Arglwydd a gynnal y rhai cyfiawn.

18 Yr Arglwydd a edwyn ddyddiau y rhai perffaith, a'i hetifeddiaeth hwy fydd yn dragywydd.

19 Nis gwradwyddir hwy yn amſer drygfyd, ac yn amſer newyn y cânt ddigon.

20 Eithr collir yr annuwolion, a gelynion yr Arglwydd fel braſter ŵyn a ddiflannant: yn fŵg y diflannant hwy.

21 Yr annuwiol a echwyna, ac ni thâl adref: ond y cyfiawn ſydd drugarog, ac yn rhoddi.

22 Canys y rhai a fendigo efe, a etifeddant y tir: a'r rhai a felldithio efe, a dorrir ymmaith.

23 Yr Arglwydd a fforddia gerddediad gŵr da: a da ſydd ganddo ei ffordd ef.

24 Er iddo gwympo, ni lwyr fwrir ef i lawr: canys yr Arglwydd ſydd yn ei gynnal ef â'i law.

25 Mi a fûm ieuangc, ac yr ydwyf yn hên: etto ni welais y cyfiawn wedi ei adu, na'i hâd yn cardotta bara.

26 Pob amſer y mae efe yn drugarog, ac yn rhoddi benthyg: a'i hâd a fendithir.

27 Cilia di oddi wrth ddrwg, a gwna dda, a chyfannedda yn dragywydd.

28 Canys yr Arglwydd a gâr farn, ac ni edy ei ſainct: i cedwir hwynt yn dragywydd, ond hâd yr annuwiol a dorrir ymmaith.

29 Y rhai cyfiawn a etifeddant y ddaiar, ac a breſwyliant ynddi yn dragywydd.

30 Genau y cyfiawn a fynega ddoethineb, a'i dafod a draetha farn.

31 Deddf ei Dduw ſydd yn ei galon ef, a'i gamrau ni lithrant.

32 Yr annuwiol a wilia ar y cyfiawn, ac a gais ei ladd ef.

33 Ni âd yr Arglwydd ef yn ei law ef, ac ni âd ef yn euog pan ei barner.

34 Gobeithia yn yr Arglwydd, a chadw ei ffordd ef, ac efe a'th dderchafa, fel yr etifeddech y tir: pan ddifether yr annuwolion, ti a'i gweli.

35 Gwelais yr annuwiol yn gadarn, ac yn frigoc, fel y lawryf gwyrdd.

36 Er hynny efe a aeth ymmaith, ac wele nid oedd mwy o honaw: a mi a'i ceiſiais, ac nid oedd i'w gael.

37 Yſtyr y perffaith, ac edrych ar yr uniawn, canys diwedd y gŵr hwnnw fydd tangneddyf.

38 Ond y troſedd-wyr a gyd-ddeſtrywir, diwedd yr annuwolion a dorrir ymmaith.

39 Ac iechydwriaeth y cyfiawn ſydd oddiwrth yr Arglwydd: efe yw eu nerth yn amſer trallod.

40 A'r Arglwydd a'i cymmorth hwynt, ac a'i gwared, efe a'i gwared hwynt rhag yr annuwolion, ac a'i ceidw hwynt, am iddynt ymddiried ynddo.

Domine ne in furore. *Pſal. 38.*

Boreu weddi.

ARglwydd na cherydda fi yn dy lid: ac na choſpa fi yn dy ddigllonedd.

2 Canys y mae dy ſaethau ynglŷn ynof: a'th law yn drom arnaf.

3 Nid oes iechyd yn fy nghnawd, o herwydd dy ddigllonedd: ac nid oes heddwch i'm heſcyrn, oblegit fy mhechod.

4 Canys fy nghamweddau a aethant dros fy mhen, megis baich trwm y maent yn rhy drwm i mi.

5 Fy nghleiſiau a bydraſant, ac a lygraſant gan fy ynfydrwydd.

6 Crymmwyd a daroſtyngwyd fi 'n ddirfawr: beunydd yr ydwyf yn myned yn alarus.

7 Canys fy lwynau a lanwyd o ffieidd-glwyf, ac nid oes iechyd yn fy nghnawd.

8 Gwanhawyd, a dylliwyd fi 'n dramawr: rhuais gan aflonyddwch fy nghalon.

9 O'th flaen di Arglwydd y mae fy holl ddymuniad, ac ni chuddiwyd fy uchenaid oddi wrthit.

10 Fy nghalon ſydd yn llammu, fy nerth a'm gadawodd, a llewyrch fy llygaid nid yw ychwaith gennif.

11 Fy ngharedigion, a'm cyfeillion a ſafent oddi ar gyfer fy mhlâ, a'm cymneſeifiaid a ſafent a hirbell.

12 Y rhai hefyd a geiſient fy einioes, a oſodaſant faglau, a'r rhai a geiſient fy niwed a draethent anwireddau, ac a ddychmygent ddichellion ar hyd y dydd.

13 A minneu fel byddar ni chlywn, eithr oeddwn fel mudan heb agoryd ei enau.

14 Felly 'r oeddwn fel gŵr ni chlywei, ac heb argyoeddion yn ei enau.

15 O herwydd i'm obeithio ynot Arglwydd, ti Arglwydd fy Nuw a wrandewi.

16 Canys dywedais, gwrando fi, rhag llawenychu o honynt i'm herbyn, pan lithrei fy nhroed, ymfawrygent i'm herbyn.

17 Canys parod wyf i gloffi: a'm dolur ſydd ger fy mron yn waſtad.

18 Diau y mynegaf fy anwiredd, ac y pryderaf o herwydd fy mhechod.

19 Ac y mae fy ngelynion yn fyw, ac yn gedyrn, amlhawyd hefyd y rhai a'm caſſant ar gam:

20 A'r rhai a dalant ddrwg dros dda, a'm gwrthwynebant: am fy mod yn dilyn daioni.

21 Na âd fi, ô Arglwydd: fy Nuw, nac ymbellhâ oddi wrthif.

22 Bryſia i'm cymmorth, ô Arglwydd fy iechydwriaeth.

Dixi cuſtodiam vias. Pſal. 39.

DYwedais, cadwaf fy ffyrdd rhag pechu â'm tafod: cadwaf ffrwyn yn fy ngenau, tra fyddo 'r annuwiol yn fy ngolwg.

2 Tewais yn ddiſtaw, ie tewais â daioni: a'm dolur a gyffrodd.

3 Gwreſogodd fy nghalon o'm mewn: tra oeddwn yn myfyrio, ennynnodd tân, a mi a leferais â'm tafod.

4 Arglwydd, pâr i mi wybod fy niwedd; a pheth yw meſur fy nyddiau: fel y gwypwyf o ba oedran y byddaf fi.

5 Wele, gwnaetheſt fy nyddiau fel dyrnfedd, a'm heinioes ſydd megis diddim yn dy olwg di: diau mai cwbl wagedd yw pôb dyn, pan fo ar y goreu. *Selah.*

6 Dyn yn ddiau ſydd yn rhodio mewn cyſcod, ac yn ymdrafferthu yn ofer: efe a dyrra olud, ac ni's gŵyr pwy a'i caſgl.

7 Ac yn awr, beth a ddiſgwiliaf, ô Arglwydd: fy ngobaith ſydd ynot ti.

8 Gwared fi o'm holl gamweddau: ac na oſod fi yn wradwydd i'r ynfyd.

9 Aethum yn fud, ac nid agorais fy ngenau: canys ti a wnaetheſt hyn.

10 Tyn dy bla oddi wrthif: gan ddyrnod dy law y darfûm i.

11 Pan goſpit ddyn â cheryddon am anwiredd, dattodit fel gwyfyn ei ardderchawgrwydd ef: gwagedd yn ddiau yw pôb dyn. *Selah.*

12 Gwrando fy ngweddi Arglwydd, a chlyw fy llef, na thaw wrth fy wylofain: canys ymdeithydd ydwyf gyd â thi, ac alltud fel fy holl dadau.

13 Paid â mi, fel y cryfhawyf cyn fy myned: ac na byddwyf mwy.

Expectans expectavi. Pſal. 40.

DIſgwiliais yn ddyfal am yr Arglwydd, ac efe a ymoſtyngodd attaf: ac a glybu fy llefain.

2 Cyfododd fi hefyd o'r pydew erchyll, allan o'r pridd tomlyd: ac a oſododd fy nhraed ar graig, gan hwylio fy ngherddediad.

3 A rhoddodd yn fy ngenau ganiad newydd o foliant i'n Duw ni: llawer a welant hyn, ac a ofnant, ac a ymddiriedant yn yr Arglwydd.

4 Gwyn ei fyd y gŵr a oſodo 'r Arglwydd yn ymddiried iddo: ac ni thry at feilchion, nac at y rhai a wyrant at gelwydd.

5 Lluoſog y gwnaetheſt ti, ô Arglwydd fy Nuw, dy ryfeddodau, a'th amcanion tuag attom, ni ellir yn drefnus eu cyfrif hwynt i ti: pe mynegwn, a phe traethwn hwynt, amlach ydynt nag y gellir eu rhifo.

6 Aberth ac offrwm nid ewyllyſiaiſt, agoraiſt fy nghluſtiau: poeth offrwm a phech aberth ni's gofynnaiſt.

7 Yna y dywedais, wele 'r ydwyf yn dyfod; yn rhol y llyfr yr ſcrifennwyd am danaf.

8 Da gennif wneuthur dy ewyllys, ô fy Nuw: a'th gyfraith ſydd o fewn fy nghalon.

9 Pregethais gyfiawnder yn y gynnulleidfa fawr: wele, nid atteliais fy ngwefuſau, ti Arglwydd a'i gwyddoſt.

10 Ni chuddiais dy gyfiawnder o fewn fy nghalon, treuthais dy ffyddlondeb a'th iechydwriaeth: ni chelais dy drugaredd na'th wirionedd, yn y gynnulleidfa luoſog.

11 Titheu Arglwydd, nac atal dy drugareddau oddi wrthif: cadwed dy drugaredd, a'th wirionedd fi byth.

12 Canys drygau aniferiol a'm cylchynaſant o amgylch, fy mhechodau a'm daliaſant, fel na allwn edrych i fynu: amlach ydynt na gwallt fy mhen, am hynny y pallodd fy nghalon gennif.

13 Rhynged bodd it Arglwydd fy ngwaredu: bryſſia Arglwydd i'm cymmorth.

14 Cyd-gywilyddier, a gwradwydder y rhai a geiſiant fy einioes iw difetha; gyrrer yn eu hôl, a chywilyddier, y rhai a ewyllyſiant i mi ddrwg.

15 Anrheithier hwynt yn wobr am eu gwradwydd y rhai a ddywedant wrthif, Ha, ha.

16 Llawenyched, ac ymhyfryded ynot ti y rhai oll a'th geiſiant: dyweded y rhai a garant dy iechydwriaeth bôb amſer, mawryger yr Arglwydd.

17 Ond yr wyf fi yn dlawd, ac yn anghenus, etto yr Arglwydd a feddwl am danaf, fy nghymmorth a'm gwaredydd ydwyt ti: fy Nuw na hir drig.

Beatus qui intelligit. Pſal. 41.

Pryd-nhawnol weddi.

GWyn ei fyd a yſtyria wrth y tlawd: yr Arglwydd a'i gwared ef yn amſer blinfyd.

2 Yr Arglwydd a'i ceidw, ac a'i bywhâ, gwynfydedic fydd ar y ddaiar: ac na ddod ti ef wrth ewyllys ei elynion.

3 Yr Arglwydd a'i nertha ef ar ei glaf-wely: cyweiri ei holl wely ef yn ei glefyd,

4 Mi a ddywedais, Arglwydd trugarhâ wrthiſ: iachâ fy enaid, canys pechais i'th erbyn.

5 Fyngelynion a leſarent ddrwg am danaf, gan ddywedyd: pa bryd y bydd efe farw, ac y derfydd am ei enw ef?

6 Ac os daw i'm hedrych, efe a ddywed gelwydd, ei galon a gaſcl atti anwiredd: pan êl allan, efe a'i traetha.

7 Fy holl gaſeion a gyd hustyngant i'm herbyn: yn fy erbyn y dychymygant ddrwg i mi.

8 Aflwydd, meddant, a lŷn wrtho: a chan ei fod yn gorwedd, ni chyfyd mwy.

9 Hefyd y gŵr oedd anwyl gennif, yr hwn yr ymddiriedais iddo, ac a fwytaodd fy mara, a dderchafodd ei ſodl i'm herbyn.

10 Eithr ti Arglwydd, trugarhâ wrthiſ; a chyfod fi, fel y talwyf iddynt.

11 Wrth hyn y gwn hoffi o honot fi: am na chaiff fy ngelyn orfoleddu i'm herbyn.

12 Ond am danaf fi, yn fy mherffeithrwydd i'm cynheli; ac i'm goſodi ger dy fron yn dragywydd.

13 Bendigedic fyddo Arglwydd Dduw Iſrael, o dragywyddoldeb a hyd dragywyddoldeb, Amen, ac Amen.

Quemadmodum deſiderat. Pſal. 42.

Fel y brefa'r hŷdd am yr afonydd dyfroedd: felly'r hiraetha fy enaid am danat ti ô Dduw.

2 *Sychedic* yw fy enaid am Dduw, am y Duw byw: pa bryd y deuaf, ac yr ymddangoſaf ger bron Duw?

3 Fy nagrau oedd fwyd i'm ddydd a nôs: tra dywedant wrthiſ bôb dydd, pa le y mae dy Dduw?

4 Tywalltwn fy enaid ynof, pan gofiwn hynny: canys aethwn gyd â'r gynnulleidfa, cerddwn gyd â hwynt i dŷ Dduw, mewn lais ein amoliant, fel tyrfa yn cadw gŵyl.

5 Pa ham fy enaid i'th ddaroſtyngir, ac yr ymderfyſci ynôf? gobeithia yn Nuw, oblegit moliannaf ef etto, am iechydwriaeth ei wyneb-pryd.

6 Fy Nuw, fy enaid a ymddaroſtwng ynof: am hynny y cofiaf di, o dir yr Iorddonen, a'r Hermoniaid, o fryn Miſſar.

7 Dyfnder a eilw ar ddyfnder, wrth ſŵn dy biſtylloedd di: dy holl donnau a'th lifeiriant a aethant troſof.

8 Etto yr Arglwydd a orchymmyn ei drugaredd liw dydd, a'i gân fydd gyda mi liw nôs, ſef gweddi ar Dduw fy einioes.

9 Dywedaf wrth Dduw fy nghraig, pa ham yr anghofiaiſt fi? pa ham y rhodiaf yn alarus trwy orthrymder y gelyn?

10 Megis â chleddyf yn fy eſcyrn y mae fy ngwrthwyneb-wŷr yn fy ngwradwyddo, pan ddywedant wrthiſ bôb dydd, pa le y mae dy Dduw?

11 Pa ham i'th ddaroſtyngir fy enaid? a pha ham y terfyſci ynof? ymddiried yn Nuw, canys etto y moliannaf ef, ſef iechydwriaeth fy wyneb, a'm Duw.

Iudica me Deus. Pſal. 43.

Barn fi ô Dduw, a dadleu fy nadl yn erbyn y genhedlaeth anhrugarog: gwared fi rhag y dŷn twyllodrus, ac anghyfiawn.

2 Canys ti yw Duw fy nerth, pa ham i'm bwri ymaith? pa ham yr âf yn alarus trwy orthrymder y gelyn?

3 Anfon dy oleuni, a'th wirionedd, tywyſant hwy fi, ac arweiniant fi i fynydd dy ſancteiddrwydd, ac i'th bebyll.

4 Yno 'r âf at allor Duw, at Dduw hyfrydwch fy ngorfoledd, ac mi a'th foliannaf ar y delyn, ô Dduw fy Nuw.

5 Pa ham i'th ddaroſtyngir fy enaid? a pha ham y terfyſci ynof? gobeithia yn Nuw, canys etto y moliannaf ef, ſef iechydwriaeth fy wyneb, a'm Duw.

Deus auribus noſtris. Pſal. 44.

Duw, clywſom â'n clustiau, ein tadau a fynegaſant i ni y weithred a wnaethoſt yn eu hamſer hwynt, yn y dyddiau gynt.

2 Ti â'th law a yrraiſt allan y cenhedloedd, ac a'i plennaiſt hwythau; ti a ddrygaiſt y bobloedd, ac a'i cynnyddaiſt hwythau.

3 Canys nid â'i cleddyf eu hun y goreſcynnaſant y tîr, nid eu braich a barodd iechydwriaeth iddynt; eithr dy ddeheu-law di, a'th fraich, a llewyrch dy wyneb, o herwydd it eu hoffi hwynt.

4 Ti Dduw yw fy Mrenin: gorchymmyn iechydwriaeth i Iacob.

5 Ynot ti y cilgwthiwn ni ein gelynion: yn dy enw di y ſathrwn y rhai a gyfodant i'n herbyn.

6 O herwydd nid yn fy mwa 'r ymddiriedaf: nid fy nghleddyf chwaith a'm hachub.

7 Eithr ti a'n hachubaiſt ni oddi wrth ein gwrthwyneb-wŷr, ac a wradwyddaiſt ein caſeion.

8 Yn Nuw yr ymffroſtiwn bôb dydd: ac ni a glodforwn dy enw yn dragywydd. *Selah.*

9 Ond ti a'n bwriaiſt ni ymaith, ac a'n gwradwyddaiſt, ac nid wyt yn myned allan gyd a'n lluoedd.

10 Gwnaethoſt i ni droi yn ôl oddi wrth y gelyn: a'n caſeion a anrheithiaſant iddynt eu hun.

11 Rhoddaiſt ni fel defaid iw bwytta, a gwaſcaraiſt ni ym myſc y cenhedloedd.

12 Gwerthaiſt dy bobl heb elw, ac ni chwanegaiſt dy olud o'i gwerth hwynt.

13 Goſodaiſt ni yn warthrudd i'n cymmydogion, yn watwargerdd, ac yn wawd i'r rhai iddynt o'n hamgylch.

14 Goſodaiſt ni yn ddihareb ym myſc y cenhedloedd, yn rhai i eſcwyd pen arnynt ym myſc y bobloedd.

15 Fy ngwarthrudd ſydd beunydd ger fy mron: a chywilydd fy wyneb a'm tôdd.

16 Gan lais y gwarthrudd-wr, a'r cablwr, o herwydd y gelyn, a'r ymddial-wr.

17 Hyn oll a ddaeth arnom: etto ni'th anghofiaſom di, ac ni buom anffyddlon yn dy gyfammod.

18 Ni thrôdd ein calon yn ei hôl, ac nid aeth ein cerddediad allan o'th lwybr di.

19 Er i ti ein curo yn-nghigfa dreigiau, a thoi troſom â chyſgod angeu.

20 Os anghofiaſom enw ein Duw: neu eſtyn ein dwylo at Dduw dieithr:

21 Oni chwilia Duw hyn allan? canys efe a ŵyr ddirgeloedd y galon.

22 Ie er dy fwyn di i'n lleddir beunydd, cyfrifir ni fel defaid iw lladd.

23 Deffro, pa ham y cyſci, ô Arglwydd? cyfod, na fwrw ni ymmaith yn dragywydd.

24 Pa ham y cuddi dy wyneb; ac yr anghofi ein cyſtudd, a'n gorthrymder?

25 Canys goſtyngwyd ein henaid i'r llwch: glynodd ein bol wrth y ddaiar.

26 Cyfod yn gymmorthwy i ni, a gwared ni er mwyn dy drugaredd.

Eructavit cor meum. Pſal. 45.

Traetha fy nghalon beth da, dywedyd yr ydwyf y pethau a wneuthym i'r brenin: fy nhafod ſydd bin ſcrifennydd buan.

2 Tegach ydwyt na meibion dynion; tywalltwyd grâs ar dy wefuſau, o herwydd hynny i'th fendithiodd Duw yn dragywydd.

3 Gwregyſa dy gleddyf ar dy glûn ô gadarn, â'th ogoniant, a'th harddwch.

4 Ac yn dy harddwch marchog yn llwyddiannus, o herwydd gwirionedd, a lledneiſrwydd, a chyfiawnder : a'th ddeheu-law a ddyſc i ti bethau ofnadwy.

5 Pobl a ſyrthiant tanat : o herwydd dy ſaethau llymion yn glynu ynghanol gelynion y brenin.

6 Dy orſedd di ô Dduw, ſydd byth, ac yn dragywydd : teyrn-wialen vniondeb yw teyrn-wialen dy frenhiniaeth di.

7 Ceraiſt gyfiawnder, a chaſeaiſt ddrygioni : am hynny i'th eneiniodd Duw, ſef dy Dduw di, ag olew llawenydd yn fwy nâ'th gyfeillion.

8 Arogl Myrr, Aloes, a Chaſia ſydd ar dy holl wiſcoedd : allan o'r palâſau Ifori, â'r rhai i'th lawenhaſant,

9 Merched brenhinoedd oedd ym-mhlith dy bendefigeſau, ſafei y frenhines ar dy ddeheu-law mewn aur coeth o Ophir.

10 Gwrando ferch, a gwêl, a goſtwng dy glust : ac anghofia dy bobl dy hun, a thŷ dy dâd.

11 A'r brenin a chwennych dy degwch : canys efe yw dy Iôr di : ymoſtwng dithau iddo ef.

12 Merch Tyrus hefyd ſydd yno ag anrheg, a chyfoethogion y bobl a ymbiliant â'th wyneb.

13 Merch y brenin ſydd oll yn ogoneddus o fewn : gem-waith aur yw ei gwiſc hi.

14 Mewn gwaith edyſ a nodwydd y dygir hi at y brenin ; y morwynion y rhai a ddeuant ar ei hôl, yn gyfeilleſau iddi, a ddygir attat ti.

15 Mewn llawenydd, a gorfoledd y dygir hwynt ; deuant i lŷs y brenin.

16 Dy feibion ſydd yn lle dy dadau : y rhai a wnei yn dywyſogion yn yr holl dir.

17 Paraf gofio dy enw ym mhob oenhedlaeth, ac oes : am hynny y bobl a'th foliannant byth, ac yn dragywydd.

Deus noster refugium. Pſal. 46.

DVw ſydd noddfa, a nerth i ni, cymorth hawdd ei gael mewn cyfyngder.

2 Am hynny nid ofnwn pe ſymmudai y ddaiar, a phe treiglid y mynyddoedd i ganol y môr :

3 Er rhuo a therfyſcu o'i ddyfroedd, er crynu o'r mynyddoedd gan ei ymchwydd ef. *Selah.*

4 Y mae afon, a'i ffrydiau a lawenhânt ddinas Duw ; cyſſegr preſſwylfeydd y Goruchaf.

5 Duw ſydd yn ei chanol, nid yſcog hi : Duw a'i cynnorthwya yn foreu iawn.

6 Y Cenhedloedd a derfyſcaſant, y teyrnaſoedd a yſcogaſant : efe a roddes ei lef, toddodd y ddaiar.

7 Y mae Arglwydd y lluoedd gyd â ni : y mae Duw Iacob yn amddiffynfa i ni. *Selah.*

8 Deuwch, gwelwch weithredoedd yr Arglwydd : pa anghyfannedd-dra a wnaeth efe ar y ddaiar.

9 Gwna i ryfeloedd beidio hyd eithaf y ddaiar, efe a ddryllia 'r bwâ, ac a dyrr y waywffon, efe a lyſc y cerbydau â thân.

10 Peidiwch, a gwybyddwch mai myfi ſydd Dduw : derchefir fi ym myſc y cenhedloedd, derchefir fi ar y ddaiar.

11 Y mae Arglwydd y lluoedd gyd â ni : amddiffynfa i ni yw Duw Iacob. *Selah.*

Omnes gentes. Pſal. 47.

YR holl bobl curwch ddwylo ; llafar genwch i Dduw â llef gorfoledd.

2 Canys yr Arglwydd goruchaf ſydd ofnadwy : brenin mawr ar yr holl ddaiar.

3 Efe a ddwg y bobl tanom ni : a'r cenhedloedd tan ein traed.

4 Efe a ddethol ein etifeddiaeth i ni, ardderchawgrwydd Iacob, yr hwn a hoffodd efe, *Selah.*

5 Derchafodd Duw â llawen-floedd, yr Arglwydd â ſain vdcorn.

6 Cenwch fawl i Dduw, cenwch : cenwch fawl i'n Brenin, cenwch.

7 Canys Brenin yr holl ddaiar yw Duw : cenwch fawl yn ddeallus.

8 Duw ſydd yn teyrnaſu ar y cenhedloedd : eiſtedd y mae Duw ar orſedd-faingc ei ſancteiddrwydd.

9 Pendefigion y bobl a ymgaſclâſant ynghyd, ſef pobl Duw Abraham : canys tariannau y ddaiar ydynt eiddo Duw ; dirfawr y derchafwyd ef.

Magnus Dominus. Pſal. 48.

MAwr yw 'r Arglwydd, a thra moliannus yn ninas ein Duw ni, yn ei fynydd ſanctaidd.

2 Tegwch bro, llawenydd yr holl ddaiar yw mynydd Sion yn yſtlyſau y gogledd : dinas y Brenin mawr.

3 Duw yn ei phalâſau, a adwaenir yn amddiffynfa.

4 Canys wele, y brenhinoedd a ymgynnullaſant : aethant heibio ynghyd.

5 Hwy a welſant, felly y rhyfeddaſant : brawychaſant, ac aethant ymmaith ar ffrwſt.

6 Dychryn a ddaeth arnynt yno, a dolur megis gwraig yn eſcor.

7 A gwynt y dwyrain y drylli longau y môr.

8 Megis y clywſom, felly y gwelſom yn ninas Arglwydd y lluoedd, yn ninas ein Duw ni : Duw a'i ſicrhâ hi yn dragywydd. *Selah.*

9 Meddyliaſom ô Dduw, am dy drugaredd, ynghanol dy Deml.

10 Megis y mae dy enw ô Dduw, felly y mae dy fawl hyd eithafoedd y tîr : cyflawn o gyfiawnder yw dy ddeheu-law.

11 Llawenyched mynydd Sion : ac ymhyfryded merched Iuda, o herwydd dy farnedigaethau.

12 Amgylchwch Sion, ac ewch o'i hamgylch hi : rhifwch ei thyrau hi.

13 Yſtyriwch ei rhagfuriau, edrychwch ar ei phalâſau, fel y mynegoch i'r oes a ddêlo yn ôl.

14 Canys y Duw hwn yw ein Duw ni byth, ac yn dragywydd : efe a'n tywys ni hyd angeu.

Audite hæc omnes. Pſal. 49.

CLywch hyn yr holl bobloedd, gwrandewch hyn holl drigolion y bŷd.

2 Yn gyſtal gwrêng a bonheddig, cyfoethog a thlawd ynghyd.

3 Fy ngenau a draetha ddoethineb : a myfyrdod fy nghalon ſydd am ddeall.

4 Goſtyngaf fy nghlust at ddihareb, fy nammeg a ddatguddiaf gyd â'r delyn.

5 Pa ham yr ofnaf yn amſer adfyd, pan i'm hamgylchyno anwiredd fy ſodlau?

6 Rhai a ymddiriedant yn eu golud, ac a ymffroſtiant yn lluoſogrwydd eu cyfoeth.

7 Gan waredu ni wared neb ei frawd : ac ni all efe roddi iawn troſto i Dduw :

8 (Canys gwerth-fawr yw prynniad eu henaid, a hynny a baid byth.)

9 Fel y byddo efe byw byth, ac na welo lygredigaeth.

10 Canys efe a wêl fod y doethion yn meirw, yr vn ffunyd y derfydd am ffôl ac ynfyd, gadawant eu golud i eraill.

11 Eu meddwl yw y pery eu tai yn dragywydd, a'i trigfeydd hyd genhedlaeth a chenhedlaeth : henwant ei tiroedd ar eu henwau eu hunain.

12 Er hynny dŷn mewn anrhydedd nid erys : tebyg yw i anifeiliaid a ddifethir.

13 Eu ffordd ymma yw eu ynfydrwydd : etto eu hiliogaeth ydynt fodlon iw hymadrodd, *Selah.*

14 Fel defaid y goſodir hwynt yn vffern, angeu a ymborth arnynt, a'r rhai cyfiawn a lywodraetha arnynt y boreu: a'i tegwch a dderfydd yn y bedd o'i cartref.

15 Etto Duw a wared fy enaid i o feddiant vffern: canys efe a'm derbyn i. *Selah.*

16 Nac ofna pan gyfoethogo vn, pan chwanego gogoniant ei dŷ ef.

17 Canys wrth farw ni ddwg efe ddim ymaith, ac ni ddeſcyn ei ogoniant ar ei ôl ef.

18 Er iddo yn ei fywyd fendithio ei enaid: canmolant ditheu o byddi da wrthit dy hun.

19 Efe a â at genhedlaeth ei dadau, ac ni welant oleuni byth.

20 Dŷn mewn anrhydedd, ac heb ddeall, ſydd gyffelyb i aniſeiliaid a ddifethir.

Deus Deorum. *Pſal.* 50.

Borenol weddi.

DVw y duwiau, ſef yr Arglwydd a leſarodd, ac a alwodd y ddaiar, o godiad haul hyd ei fachludiad.

2 Allan o Sion perffeithrwydd tegwch, y llewyrchodd Duw.

3 Ein Duw ni a ddaw, ac ni bydd diſtaw, tân a yſa o'i flaen ef, a themheſtl ddirfawr fydd o'i amgylch.

4 Geilw ar y nefoedd oddi vchod: ac ar y ddaiar, i farnu ei bobl,

5 Caſclwch fy ſainct ynghyd attafi, y rhai a wnaethant gyfammod â mi trwy aberth.

6 A'r nefoedd a fynegant ei gyfiawnder ef, canys Duw ai hun ſydd farn-wr. *Selah.*

7 Clywch fy mhobl, a mi a leſaraf, ô Iſrael, a mi a dyſtiolaethaf i'th erbyn: Duw ſef dy Dduw di ydwyf fi.

8 Nid am dy aberthau i'th geryddaf, na'th boeth offrymmau, am nad oeddynt ger fy mron i yn waſtad.

9 Ni chymmeraf fuſtach o'th dŷ, na bychodd o'th gorlannau.

10 Canys holl fwyſt-filod y coed ydynt eiddo fi: a'r aniſeiliaid ar fîl o fynyddoedd.

11 Adwaen holl adar y mynyddoedd: a gwyllt aniſeiliaid y maes ydynt eiddo fi.

12 Os bydd newyn arnaf ni ddywedaf i ti: canys y bŷd â'i gyflawnder, ſydd eiddo fi.

13 A fwyttafi gig teirw? neu a yfaf fi waed bychod?

14 Abertha foliant i Dduw, a thâl i'r Goruchaf dy addunedau;

15 A galw arnofi yn nydd trallod; mi a'th waredaf, a thi a'm gogoneddi.

16 Ond wrth yr annuwiol y dywedodd Duw, beth ſydd i ti a fynegech ar fy neddfau, neu a gymmerech ar fy nghyfammod yn dy enau?

17 Gan dy fod yn caſſau addyſc, ac yn taflu fy ngeiriau i'th ôl.

18 Pan welaiſt leidr, cyttunaiſt ag ef: a'th gyfran oedd gyd â'r godineb-wŷr.

19 Gollyngaiſt dy ſafn i ddrygioni, a'th dafod a gyd-bletha ddichell.

20 Eiſteddaiſt, a dywedaiſt yn erbyn dy frawd: rhoddaiſt enllib i fab dy fam.

21 Hyn a wnaethoſt, a mi a dewais; tybiaiſt ditheu fy mod yn gwbl fel ti dy hun: ond mi a'th argyoeddaf, ac a'i treſnaf o flaen dy lygaid.

22 Deellwch hyn yn awr, y rhai ydych yn anghofio Duw, rhag i mi eich rhwygo, ac na byddo gwaredudd.

23 Yr hwn a abertho foliant, a'm gogonedda i: a'r neb a oſodd ei ffordd yn iawn, dangoſaf iddo iechydwriaeth Duw.

Miſerere mei Deus. *Pſal.* 51.

TRugarhâ wrthif ô Dduw, yn ôl dy drugarogrwydd: yn ôl lliaws dy doſturiaethau dilea fy anwireddau.

2 Golch fi yn llwyr-ddwys oddiwrth fy anwiredd: a glanhâ fi oddiwrth fy mhechod.

3 Canys yr wyf yn cydnabod fy nghamweddau, a'm pechod ſydd yn waſtad ger fy mron.

4 Yn dy erbyn di, dydi dy hunan y pechais, ac y gwneuthum y drwg hyn yn dy olwg: fel i'th gyfiawnhaer pan leſerych, ac y byddit bur pan farnech.

5 Wele, mewn anwiredd i'm llunniwyd, ac mewn pechod y beichiogodd fy mam arnaf.

6 Wele, ceraiſt wirionedd oddi mewn, a pheri i mi wybod doethineb yn y ddirgel.

7 Glanhâ fi ag Yſop, ac mi a lanheir: golch fi, a byddaf wynnach nâ'r eira.

8 Pâr i mi glywed gorfoledd, a llawenydd; fel y llawenycho yr eſcyrn a ddrylliaiſt.

9 Cuddia dy wyneb oddi wrth fy mhechodau: a dilea fy holl anwireddau.

10 Crea galon lân ynof ô Dduw; ac adnewydda yſpryd vniawn o'm mewn.

11 Na fwrw fi ymmaith oddi ger dy fron: ac na chymmer dy Yſpryd ſanctaidd oddi wrthif.

12 Dyro drachefn i mi orfoledd dy iechydwriaeth: ac â'th hael Yſpryd cynnal fi.

13 Yna y dyſcaf dy ffyrdd i rai anwir: a phechaduriaid a droir attat.

14 Gwared fi oddi wrth waed ô Dduw, Duw fy iechydwriaeth: a'm tafod a gân yn llafar am dy gyfiawnder.

15 Arglwydd, agor fy ngweſuſau, a'm genau a fynega dy foliant.

16 Canys ni chwennychi aberth, pe amgen mi a'i rhoddwn; poeth offrwm ni fynni.

17 Aberthau Duw ydynt yſpryd drylliedic: calon ddryllioc gyſtuddiedic, ô Dduw, ni ddirmygi.

18 Gwna ddaioni, yn dy ewyllyſgarwch, i Sion: adeilada furiau Ieruſalem.

19 Yna y byddi fodlon i ebyrth cyfiawnder, i boeth offrwm, ac aberth lloſc, yna 'r offrymmant fuſtych ar dy allor.

Quid gloriaris in malitia? *Pſal.* 52.

PA ham yr ymffroſti mewn drygioni, ô gadarn? y mae trugaredd Duw yn parhau yn waſtadol.

2 Dy dafod a ddychymmyg ſceleder: fel ellyn llym, yn gwneuthur twyll.

3 Hoffaiſt ddrygioni yn fwy nâ daioni: a chelwydd yn fwy nâ thraethu cyfiawnder. *Selah.*

4 Hoffaiſt bob geiriau dyſtryw, ô dafod twyllodrus.

5 Duw a'th deſtrywia ditheu yn dragywydd, efe a'th gipia di ymaith, ac a'th dynn allan o'th babell: ac a'th ddiwreiddia o dir y rhai byw. *Selah.*

6 Y cyfiawn hefyd a welant, ac a ofnant, ac a chwarddant am ei ben.

7 Wele 'r gŵr ni oſododd Dduw yn gadernid iddo: eithr ymddiriedodd yn lluoſogrwydd ei olud, ac a ymnerthodd yn ei ddrygioni.

8 Ond myfi ſydd fel oliwydden werdd yn nhŷ Dduw: ymddiriedaf yn nhrugaredd Duw byth, ac yn dragywydd.

9 Clodforaf di yn dragywydd, o herwydd i ti wneuthur hyn: a diſgwiliaf wrth dy enw; canys da yw ger bron dy ſainct.

Dixit inſipiens. *Pſal.* 53.

Pryd-
nhaw
weddi

DYwedodd yr ynfyd yn ei galon nid oes vn Duw: ymlygraſant, a gwnaethant ffiaidd anwiredd, nid oes vn yn gwneuthur daioni.

2 Edrychodd Duw i lawr o'r nefoedd ar

feibion dynion, i edrych a oedd neb yn deallus, ac yn ceiſio Duw.

3 Ciliaſei pob vn o honynt yn [illegible] gefn, cydymddifwynaſent, nid oes a wnêl ddaioni, nac oes vn.

4 Oni ŵyr gweithred-wŷr anwiredd, y rhai ſydd yn bwytta fy mhobl fel y bwyttaent fara, ni alwaſant ar Dduw.

5 Yno 'r ofnaſant gan ofn, lle nid oedd ofn: canys Duw a waſcarodd eſcyrn yr hwn a'th warchaeodd, gwradwyddaiſt hwynt, am i Dduw eu dirmygu hwy.

6 Oh na roddid iechydwriaeth i Iſrael o Sion: pan ymchwelo Duw gaethiwed ei bobl, y llawenycha Iacho, ac yr ymhyfryda Iſrael.

Deus, in nomine tuo. Pſal. 54.

ACHub fi ô Ddu, yn dy enw: a barn fi yn dy gadernid.

2 Duw, clyw fy ngweddi, gwrando ymadrodd fy ngenau.

3 Canys dieithriaid a gyfodaſant i'm herbyn: a'r trawſion a geiſiant fy enaid, ni oſodaſant Dduw o'i blaen. *Selah.*

4 Wele, Duw ſydd yn fy nghynnorthwyo: yr Arglwydd ſydd ym myſc y rhai a gynhaliant fy enaid.

5 Efe a dâl ddrwg i'm gelynion: torr hwynt ymmaith yn dy wirionedd.

6 Aberthaf it yn ewyllyſcar; clodforaf dy enw, ô Arglwydd, canys da yw.

7 Canys efe a'm gwaredodd o bob trallod, a'm llygad a welodd ei ewyllys ar fy ngelynion.

Exaudi Deus. Pſal. 55.

GWrando fy ngweddi ô Dduw, ac nac ymguddia rhag fy neiſyfiad.

2 Gwrando arnaf ac erglyw fi, cwynfan yr ydwyf yn fy ngweddi, a thuchan.

3 Gan lais y gelyn, gan orthrymder yr annuwiol, o herwydd y maent yn bwrw anwiredd arnaf, ac yn fy nghaſau yn llidiog.

4 Fy nghalon a oſidia o'm mewn: ac ofn angeu a ſyrthiodd arnaf.

5 Ofn ac arſwyd a ddaeth arnaf; a dychryn a'm gorchguddiodd.

6 A dywedais, ô na bai i mi adenydd fel colommen, yna 'r ehedwn ymaith, ac y gorphwyſwn.

7 Wele crwydrwn ym mhell, ac arhoſwn yn yr anialwch. *Selah.*

8 Bryſiwn i ddiangc rhag y gwynt yſtormus, a'r dymheſtl.

9 Diniſtria ô Arglwydd, a gwahan eu taſodau; canys gwelais drawſder a chynnen yn y ddinas.

10 Dydd a nôs yr amgylchant hi ar ei muriau, ac y mae anwiredd a blinder yn ei chanol hi.

11 Anwireddau ſydd yn ei chanol hi, ac ni chilia twyll a dichell o'i heolydd hi.

12 Canys nid gelyn a'm difenwodd, yna y dioddefaſwn: nid fy nghaſ-ddyn a ymfawrygodd i'm herbyn, yna mi a ymguddiaſwn rhagddo ef.

13 Eithr tydi ddyn, fy nghyd-radd, fy fforddwr, a'm cydnabod.

14 Y rhai oedd felys gennym gyd-gyfrinachu: ac a rodiaſom i dŷ Dduw ynghyd.

15 Rhuthred marwolaeth arnynt, a deſcynnant i vffern yn fyw; canys drygioni ſydd yn eu cartref, ac yn eu myſg.

16 Myfi a waeddaf ar Dduw, a'r Arglwydd a'm hachub i.

17 Hwyr a boreu, a hanner dydd y gweddiaf, a byddaf daer: ac efe a glyw fy lleferydd.

18 Efe a waredodd fy enaid mewn heddwch oddi wrth y rhyfel oedd i'm herbyn: canys yr oedd llawer gyd â mi.

19 Duw a glyw, ac a'i darostwng hwynt, yr hwn ſydd yn aros erioed, *Selah:* am nad oes gyfnewidiau iddynt, am hynny nid ofnant Dduw.

20 Efe a eſtynnodd ei law yn erbyn y rhai oedd heddychlon ag ef, efe a dorrodd ei gyfammod.

21 Llyfnach oedd ei enau nag ymenyn, a rhyfel yn ei galon, tynerach oedd ei eiriau nag olew, a hwynt yn gleddyfau noethion.

22 Bwrw dy faich ar yr Arglwydd, ac efe a'th gynnal di; ni ad i'r cyfiawn yſcogi byth.

23 Titheu Dduw, a'i deſcynni hwynt i bydew dinyſtr: gwŷr gwaedlyd a thwyllodrus ni byddant byw hanner eu dyddiau, onid myfi a obeithiaf ynot ti.

Miſerere mei Deus. Pſal. 56.

Boreuol weddi.

TRugarhâ wrthif ô Dduw, canys dŷn a'm llyngcei: beunydd gan ymladd, i'm gorthrymma.

2 Beunydd i'm llyngcei fy ngelynion, canys llawer ſydd yn rhyfela i'm herbyn, ô Dduw goruchaf.

3 Y dydd yr ofnwyf, mi a ymddiriedaf ynot ti.

4 Yn Nuw y clodforaf ei air, yn Nuw y gobeithiaf, nid ofnaf beth a wnêl cnawd i mi.

5 Beunydd y cam-gymerant fy ngeiriau; eu holl feddyliau ſydd i'm herbyn er drwg.

6 Hwy a ymgaſclant, a lechant, ac a wiliant fy nghamrau, pan ddiſgwiliant am fy enaid.

7 A ddiangant hwy drwy anwiredd? deſcyn y bobloedd hyn ô Dduw yn dy lidiawgrwydd.

8 Ti a gyfrifaiſt fy ſymmudiadau, dod fy nagrau yn dy goſtrel: onid ydynt yn dy lyfr di?

9 Y dydd y llefwyf arnat, yna y dychwelir fy ngelynion yn eu gwrthol: hyn a wn, am fod Duw gyd â mi.

10 Yn Nuw y moliannaf ei air: yn yr Arglwydd y moliannaf ei air.

11 Yn Nuw 'r ymddiriedais, nid ofnaf beth a wnêl dyn i mi.

12 Arnafi ô Dduw y mae dy addunedau: talaf i ti foliant.

13 Canys gwaredaiſt fy enaid rhag angeu; oni waredi fy nhraed rhag ſyrthio? fel y rhodiwyf ger bron Duw yngoleuni y rhai byw.

Miſerere mei Deus. Pſal. 57.

TRugarhâ wrthif ô Dduw, trugarhâ wrthif, canys ynot y gobeithiodd fy enaid; ie yngſyſcod dy adenydd y gobeithiaf, hyd oni êl yr aflwydd hyn heibio.

2 Galwaf ar Dduw goruchaf, ar Dduw a gwplâ â mi.

3 Efe a enfyn o'r nefoedd, ac a'm gwared oddi wrth warthrudd yr hwn a'm llyngcei, *Selah:* denfyn Duw ei drugaredd, a'i wirionedd.

4 Fy enaid ſydd ym myſc llewod, gorwedd yr wyf ym myſc dynion poethion: ſef meibion dynion, y rhai y mae eu dannedd yn wayw-ffyn a ſaethau, a'i tafod yn gleddyf llym.

5 Ymddercha Dduw uwch y nefoedd: a bydded dy ogoniant ar yr holl ddaiar.

6 Darparaſant rwyd i'm traed, crymmwyd fy enaid, cloddiaſant bydew o'm blaen, ſyrthiaſant yn ei ganol. *Selah.*

7 Parod yw fy nghalon ô Dduw, parod yw fy nghalon: canaf a chan-molaf.

8 Deffro fy nghogoniant, deffro Nabl a thelyn; deffroaf yn foreu.

9 Clodforaf di Arglwydd ym myſc y bobloedd, can molaf di ym myſc y cenhedloedd.

10 Canys mawr yw dy drugaredd hyd y nefoedd: a'th wirionedd hyd y cymylau.

11 Ymddercha Dduw uwch y nefoedd: a bydded dy ogoniant ar yr holl ddaiar.

Si vere utique. Pſal. 58.

AI cyfiawnder yn ddiau a draethwch chwi, o gynulleidfa? a fernwch chwi uniondeb, ô feibion dynion?

2 Anwiredd yn hyttrach a weithredwch yn y galon: trawſter eich dwylo yr ydych yn ei bwyſo ar y ddaiar.

3 O'r groth yr ymddieithriodd y rhai annuwiol, o'r bru y cyfeiliornaſant, gan ddywedyd celwydd.

4 Eu gwenwyn ſydd fel gwenwyn ſarph: y maent fel y neidr fyddar, yr hon a gae ei chlustiau,

5 Yr hon ni wrendy ar lais y rhin-wŷr, er cyfarwydded fyddo'r ſwyn-wyr.

6 Dryllia ô Dduw eu dannedd yn eu geneuau: torr ô Arglwydd, gil-ddannedd y llewod ieuaingc.

7 Todder hwynt fel dyfroedd ſydd yn rhedeg yn waſtad: pan ſaetho ef ſaethau, byddant megis wedi eu torri.

8 Aed ymmaith fel malwoden dawdd, neu erthyl gwraig: fel na welont yr haul.

9 Cyn i'ch crochanau glywed y mieri, efe a'i cymmer hwynt ymaith megis â chorwynt, yn fyw, ac yn ei ddigofaint.

10 Y cyfiawn a lawenycha pan welo ddial: efe a ylch ei draed yngwaed yr annuwiol.

11 Fel y dywedo dŷn, diau fod ffrwyth i'r cyfiawn: diau fod Duw a farna ar y ddaiar.

Eripe me Domine. Pſal. 59.

Prydnhawnol weddi.

FY Nuw, gwared fi oddi wrth fy ngelynion: amddiffyn fi oddiwrth y rhai a ymgyfodant i'm herbyn.

2 Gwared fi oddiwrth weithred-wŷr anwiredd: ac achub fi rhag y gwŷr gwaedlyd.

¶ 3 Canys wele, cynllwynaſant yn erbyn fy enaid, ymgaſclodd cedyrn i'm herbyn: nid ar fy mai na'm pechod i, ô Arglwydd.

4 Rhedant, ymbaratoant, heb anwiredd ynofi: deffro dithau i'm cymmorth, ac edrych.

5 A thi Arglwydd Dduw 'r lluoedd, Duw Iſrael, deffro i ymweled â'r holl genhedloedd: na thrugarhâ wrth neb a wnânt anwiredd yn faleiſus. *Selah.*

6 Dychwelant gyd â'r hwyr, cyfarthant fel cŵn, ac amgylchant y ddinas.

7 Wele, bytheiriant â'i genau, cleddyfau ſydd yn eu gwefuſau: canys pwy meddant a glywe?

8 Ond tydi ô Arglwydd, a'i gwatweri hwynt, ac a chwerddi am ben yr holl genhedloedd.

9 O herwydd ei nerth ef, y diſgwiliaf wrthit ti: canys Duw yw fy amddiffynfa.

10 Fy Nuw trugarog a'm rhagflaena: Duw a wnâ i mi weled fy ewyllys ar fyngelynion.

11 Na ladd hwynt, rhag i'm pobl anghofio: gwaſcar hwynt yn dy nerth, a darostwng hwynt ô Arglwydd ein tarian.

12 Am bechod eu genau, ac ymadrodd eu gwefuſau, dalier hwynt yn eu balchder: ac am y felldith a'r celwydd a draethant.

13 Difa hwynt yn dy lîd, difa, fel na byddont: a gwybyddant mai Duw ſydd yn llywodraethu yn Iacob, hyd eithafoedd y ddaiar. *Selah.*

14 A dychwelant gyd â'r hwyr, a chyfarthant fel cŵn, ac amgylchant y ddinas.

15 Crwydrant am fwyd, ac onis digonir, grwgnachant.

16 Minneu a ganaf am dy nerth, ie llafar ganaf am dy drugaredd yn foreu: canys buoſt yn amddiffynfa i mi, ac yn noddfa, yn y dydd y bu cyfyngder arnaf.

17 I ti fy nerth y canaf: canys Duw yw fy amddiffynfa, a Duw fy nhrugaredd.

Deus repuliſti nos. Pſal. 60.

O Dduw bwriaiſt ni ymaith, gwaſceraiſt ni, a ſorraiſt: dychwel attom drachefn.

2 Gwnaethoſt i'r ddaiar grynu, a holltaiſt hi: iachâ ei briwiau, canys y mae yn crynu.

3 Dangosaiſt i'th bobl galedi: diodaiſt ni â gwin madrondod.

4 Rhoddaiſt faner i'r rhai a'th ofnant, iw derchafu o herwydd y gwirionedd. *Selah.*

5 Fel y gwareder dy rai anwyl: achub â'th ddeheu-law, a gwrando fi.

6 Duw a leſarodd yn ei ſancteiddrwydd, llawenychaf, rhannaf Sichem, a meſuraf ddyffryn Succoth.

7 Eiddo fi yw Gilead, ac eiddo fi Manaſſeh a Ephraim hefyd yw nerth fy mhen: Iuda yw fy neddf-wr.

8 Moab yw fy nghrochan golchi: tros Edom y bwriaf fy eſcid, Philiſtia, ymorfoledda di o'm plegid i.

9 Pwy a'm dwg i'r ddinas gadarn? pwy a'm harwain hyd yn Edom?

10 Onid tydi Dduw 'r hwn a'n bwriaiſt ymmaith? a thydi ô Dduw, yr hwn nid ait allan gyd â'n lluoedd?

11 Moes i ni gynhorthwy rhag cyfyngder: canys ofer yw ymwared dŷn.

12 Yn Nuw y gwnawn wroldeb, canys efe a ſathr ein gelynion.

Exaudi Deus. Pſal. 61.

CLyw ô Dduw, fy llefain, gwrando ar fy ngweddi.

2 O eithaf y ddaiar y llefaf attat, pan leſmeirio fy nghalon: arwain fi i graig a fyddo uwch na mi.

3 Canys buoſt yn noddfa i mi, ac yn dŵr cadarn rhag y gelyn.

4 Preſwyliaf yn dy babell byth: a'm ymddiried fydd dan orchudd dy adenydd. *Selah.*

5 Canys ti Dduw a glywaiſt fy addunedau, rhoddaiſt etifeddiaeth i'r rhai a ofnant dy enw.

6 Ti a eſtynni oes y brenin, ei flynyddoedd fyddant fel cenhedlaethau lawer.

7 Efe a erys byth ger bron Duw: darpar drugaredd a gwirionedd, fel y cadwont ef.

8 Felly y can-molaf dy enw yn dragywydd: fel y talwyf fy addunedau beunydd.

Nonne Deo ſubiecta, Pſal. 62.

Boreuol weddi.

WRth Dduw yn vnic y diſgwil fy enaid: o honaw ef y daw fy iechydwriaeth.

2 Efe yn vnic yw fy nghraig, a'm hiechydwriaeth: a'm hamddiffyn, ni'm mawr yſcogir.

3 Pa hŷd y bwriedwch aflwydd yn erbyn gwr? lleddir chwi oll, a byddwch fel magwyr ogwyddedic, neu bared ar ei ogwydd.

4 Ymgynghoraſant yn vnic iw fwrw ef i lawr o'i fawredd, hoffaſant gelwydd, â'i geneuau y bendithiant, ond o'i mewn y melldithiant. *Selah.*

5 Oh fy enaid, diſgwil wrth Dduw yn vnic: canys ynddo ef y mae fy ngobaith.

6 Efe yn vnic yw fy nghraig a'm hiechydwriaeth: efe yw fy amddiffynfa, ni'm hyſcogir.

7 Yn Nuw y mae fy iechydwriaeth a'm gogoniant: craig fy nghadernid, a'm noddfa ſydd yn Nuw.

8 Gobeithiwch ynddo ef bob amſer, ô bobl, tywelltwch

tywelltwch

wellcwch eich calon gèr ei fron ef: Duw ſydd noddfa i ni. *Selah.*

9 Gwagedd yn ddiau yw meibion dynion, gelwydd yw meibion gwŷr: iw goſod yn y clorian, yſcafnach ydynt hwy i gyd nâ gwegi.

10 Nac ymddiriedwch mewn trawſder, ac mewn trais na fyddwch ofer: o chynnydda golud, na roddwch eich calon arno.

11 Vn-waith y dywedodd Duw, clywais hyn ddwy-waith, mai eiddo Duw yw cadernid.

12 Trugaredd hefyd ſydd eiddot ti, ô Arglwydd: canys ti a deli i bob dyn yn ôl ei weithred.

Deus, Deus meus. *Pſal.* 63.

TI ô Dduw, yw fy Nuw i, yn foreu i'th geiſiaf, ſychedodd fy enaid am danat, hiraethodd fy nghnawd am danat, mewn tir cràs a ſychedic heb ddwfr:

2 I weled dy nerth a'th ogoniant, fel i'th welais yn y Cyſſegr.

3 Canys gwell yw dy drugaredd di nâ'r bywyd, fy ngwefuſau a'th foliannant.

4 Fel hyn i'th glodforaf yn fy mywyd, derchafaf fy nwylo yn dy enw.

5 Megis â mêr, ac â braſder y digonir fy enaid: a'm genau a'th fawl â gwefuſau llafar:

6 Pan i'th goffawyf ar fy ngwely, myfyriaf am danat yngwiliadwriaethau y nos.

7 Canys buoſt gymorth i mi, am hynny ynghyſgod dy adenydd y gorfoleddaf.

8 Fy enaid a lŷn wrthit, dy ddeheu-law a'm cynhal.

9 Ond y rhai a geiſiant fy enaid i ddiſtryw, a ânt i iſelderau y ddaiar.

10 Syrthiant ar fin y cleddyf: rhan llwynogod fyddant.

11 Ond y brenin a lawenycha yn Nuw: gorfoledda pob vn a dyngo iddo ef, eithr caeir genau y rhai a ddywedant gelwydd.

Exaudi Deus. *Pſal.* 64.

CLyw fy llef o Dduw, yn fy ngweddi: cadw fy einioes rhag ofn y gelyn.

2 Cudd fi rhag cyfrinach y rhai drygionus, rhag terfyſc gweithredwŷr anwiredd:

3 Y rhai a hogant eu tafod fel cleddyf, ac a ergydiant eu ſaethau, ſef geiriau chwerwon:

4 I ſaethu'r perffaith yn ddirgel, yn ddiſymmwth y ſaethant ef, ac nid ofnant.

5 Ymwrolant mewn peth drygionus, ymchwedleuant am oſod maglau yn ddirgel: dywedant, pwy a'i gwel hwynt?

6 Chwiliant allan anwireddau, gorphennant ddyfal chwilio: ceudod a chalon pob vn o honynt ſydd ddofn.

7 Eithr Duw a'i ſaetha hwynt: â ſaeth ddiſymmwth yr archollir hwynt.

8 Felly hwy a wnant iw tafodau eu hun ſyrthio arnynt: pob vn a'i gwelo a gilia.

9 A phob dyn a ofna, ac a fynega waith Duw: canys doeth-yſtyriant ei waith ef.

10 Y cyfiawn a lawenycha yn yr Arglwydd, ac a obeithia ynddo: a'r rhai vniawn o galon oll a orfoleddant.

Te decet Hymnus. *Pſal.* 65.

MAwl a'th erys di yn Sion ô Dduw: ac i ti y telir yr adduned.

2 Ti yr hwn â wrandewi weddi, attat ti y daw pob cnawd.

3 Pethau anwir a'm gorchfygaſant: ein camweddau ni, ti a'u glânhei.

4 Gwyn ei fyd yr hwn a ddewiſech, ac a neſſech attat; fel y trigo yn dy gynteddoedd; ni a ddigonir â daioni dy dŷ, ſef dy Deml ſanctaidd.

5 Attebi i ni trwy bethau ofnadwy, yn dy gyfiawnder, ô Dduw ein iechydwriaeth: gobaith holl gyrrau y ddaiar, a'r rhai ſydd bell ar y môr.

6 Yr hwn a ſicrhâ y mynyddoedd drwy ei nerth, ac a wregyſir â chadernid.

7 Yr hwn a oſtega dwrf y moroedd, twrf eu tonnau, a therfyſc y bobloedd.

8 A phreſſwyl-wŷr eithafoedd y bŷd a ofnant dy arwyddion; gwnei i derfyn boreu a hwyr lawenycha.

9 Yr wyt yn ymweled â'r ddaiar, ac yn ei dwfrhau hi, yr ydwyt yn ei chyfoethogi hi yn ddirfawr ag afon Duw, yr hon ſydd yn llawn dwfr: yr wyt yn paratoi ŷd iddynt, pan ddarperaiſt felly iddi.

10 Gan ddwfrhau ei chefnau, a goſtwng ei rhychau, yr ydwyt yn ei mwydo hi â chafodau, ac yn bendithio ei chnwd hi.

11 Coroni yr ydwyt y flwyddyn â'th ddaioni, a'th lwybrau a ddiferant fraſder.

12 Diferant ar borfeydd yr anialwch: a'r bryniau a ymwregyſant â hyfrydwch.

13 Y dolydd a wiſcir â defaid, a'r dyffrynnoedd a orchguddir ag ŷd, am hynny y bloeddiant, ac y canant.

Iubilate Deo. *Pſal.* 66.

LLawen-floeddiwch i Dduw, yr holl ddaiar.

2 Dadcenwch ogoniant ei enw: gwnewch ei foliant yn ogoneddus.

3 Dywedwch wrth Dduw, mor ofnadwy wyt yn dy weithredoedd! o herwydd maint dy nerth, y cymmer dy elynion arnynt fod yn ddarostyngedic i ti.

4 Yr holl ddaiar a'th addolant di, ac a ganant i ti, ie canant i'th enw. *Selah.*

5 Deuwch, a gwelwch weithredoedd Duw: ofnadwy yw yn ei weithred tu ag at feibion dynion.

6 Trôdd efe y môr yn ſychdir; aethant drwy 'r afon ar draed; yno y llawenychaſom ynddo.

7 Efe a lywodraetha drwy ei gadernid byth; ei lygaid a edrychant ar y cenhedloedd, nac ymdderchafed y rhai anufydd. *Selah.*

8 Oh bobloedd, bendithiwch ein Duw; a pherwch glywed llais ei fawl ef:

9 Yr hwn ſydd yn goſod ein henaid mewn bywyd, ac ni âd i'n troed lithro.

10 Canys profaiſt ni ô Dduw, coethaiſt ni fel coethi arian.

11 Dygaiſt ni i'r rhwyd, goſodaiſt waſcfa ar ein lwynau.

12 Peraiſt i ddynion farchogaeth ar ein pennau, aethom drwy yr tân, a'r dwfr: a thi a'n dygaiſt allan i le diwall.

13 Deuaf i'th dŷ ag offrymmau poeth, talaf it fy addunedau.

14 Y rhai a adroddodd fy ngwefuſau, ac a ddywedodd fy ngenau yn fy nghyfyngder.

15 Offrymmaf it boeth offrymmau breiſion, ynghyd ag arogl-darth hyrddod: aberthaf ychen a bychod. *Selah.*

16 Deuwch, gwrandewch, y rhai oll a ofnwch Dduw: a mynegaf yr hyn a wnaeth efe i'm henaid.

17 Llefais arno â'm genau, ac efe a dderchafwyd â'm tafod.

18 Pe edrychaſwn ar anwiredd yn fy nghalon, ni wrandawſei 'r Arglwydd.

19 Duw yn ddiau a glybu, ac a wrandawodd ar lais fy ngweddi.

20 Bendigedic fyddo Duw 'r hwn ni throdd fy ngweddi oddi wrtho, na'i drugaredd ef oddi wrthif innau.

Deus miſereatur. Pſal. 67.

DUw a drugarhao wrthym, ac a'n bendithio, a thywynned ei wyneb arnom, a thrugarhaed wrthym. *Selah.*

2 Fel yr adwaener dy ffordd ar y ddaiar, a'th iechydwriaeth ym mhlith yr holl genhedloedd.

3 Molianned y bobl di ô Dduw: molianned yr holl bobl dydi.

4 Llawenhaed y cenhedloedd a byddant hyfryd, canys ti a ferni y bobl yn vniawn, ac a lywodraethi y Cenhedloedd ar y ddaiar. *Selah.*

5 Molianned y bobl di ô Dduw: molianned yr holl bobl dydi.

6 Yna yr ddaiar a rydd ei ffrwyth: a Duw, ſef ein Duw ni, a'n bendithia.

7 Duw a'n bendithia: a holl derfynau yr ddaiar a'i hofnant ef.

Exurgat Deus. Pſal. 68.

Boreuol weddi.

CYfoded Duw, gwaſcarer ei elynion: a ffoed ei gaſeion o'i flaen ef.

2 Chwali hwynt fel chwalu mwg: fel y tawdd cŵyr wrth y tân, difether y rhai annuwiol o flaen Duw.

3 Ond llawenycher y rhai cyfiawn, a gorfoleddant ger bron Duw: a byddant hyfryd o lawenydd.

4 Cenwch i Dduw, can-molwch ei enw, derchefwch yr hwn ſydd yn marchogaeth ar y nefoedd, a'i enw yn IAH: a gorfoleddwch ger ei fron ef.

5 Tâd yr ymddifaid, a barn-wr y gweddwon yw Duw, yn ei breſwylfa ſanctaidd.

6 Duw ſydd yn goſod yr vnig mewn teulu: yn dwyn allan y rhai a rwymwyd mewn gefynnau, ond y rhai cyndyn a breſwyliant graſ-dir.

7 Pan aethoſt ô Dduw, o flaen dy bobl: pan gerddaiſt trwy yr anialwch; *Selah.*

8 Y ddaiar a grynodd, a'r nefoedd a ddiferaſant o flaen Duw, Sinai yntef a grynodd o flaen Duw, ſef Duw Iſrael.

9 Dihidlaiſt law graſlawn ô Dduw, ar dy etifeddiaeth: ti a'i gwrteithiaiſt wedi ei blino.

10 Dy gynnulleidfa di ſydd yn trigo yndDi: yn dy ddaioni ô Dduw, yr wyt yn darparu i'r tlawd.

11 Yr Arglwydd a roddes y gair; mawr oedd mintai y rhai a'i pregethent.

12 Brenhinoedd byddinoc a ffoeſant ar ffrwſt: a'r hon a drigodd yn tŷ a rannodd yr yſpail.

13 Er gorwedd o honoch ymmyſc y crochanau, byddwch fel eſcyll colommen wedi eu gwiſco ag arian, a'i hadenydd ag aur melyn.

14 Pan waſcarodd yr Holl-alluog frenhinoedd ynddi, yr oedd hi yn wen fel eira yn Salmon.

15 Mynydd Duw ſydd fel mynydd Baſan, yn fynydd cribog fel mynydd Baſan.

16 Pa ham y llemmwch chwi fynyddoedd cribog? dymma 'r mynydd a chwennychodd Duw ei breſwylio, ie preſwylia 'r Arglwydd ynddo byth.

17 Cerbydau Duw ydynt vgain mil, ſef miloedd o Angelion: yr Arglwydd ſydd yn eu plith megis yn Sinai yn y Cyſegr.

18 Derchafaiſt yr vchelder, caeth-gludaiſt gaethiwed, derbyniaiſt roddion i ddynion: ie i'r rhai cyndyn hefyd, fel y preſwyliai 'r Arglwydd Dduw yn eu plith.

19 Bendigedic fyddo 'r Arglwydd, yr hwn a'n llwytha beunydd â daioni: ſef Duw ein iechydwriaeth. *Selah.*

20 Ein Duw ni 'ſydd Dduw iechydwriaeth: ac i'r Arglwydd Dduw y perthyn diangfâu rhag marwolaeth.

21 Duw yn ddiau a archolla ben ei elynion; a choppa walltoc yr hwn a rodio rhagddo yn ei gamweddau.

22 Dywedodd yr Arglwydd, dygaf fy mhobl drachefn o Baſan, dygaf hwynt drachefn o ddyfnder y môr.

23 Fel y trocher dy droed yngwaed dy elynion, a thafod dy gŵn yn yr vn-rhyw.

24 Gwelſant dy fynediad ô Dduw, mynediad fy Nuw, fy Mrenin, yn y cyſſegr.

25 Y cantorion a aethant o'r blaen, a'r cerddorion ar ôl: yn eu myſg yr oedd y llangceſau yn canu tympanau.

26 Bendithiwch Dduw yn y cynnulleidfaoedd, ſef yr Arglwydd, y rhai ydwch o ffynnon Iſrael.

27 Yno y mae Beniamin fychan a'u llywydd, tywyſogion Iuda a'u cynnulleidfa: tywyſogion Zabulon, a thywiſogion Nephtali.

28 Dy Dduw a orchymmynnodd dy nerth: cadarnhâ ô Dduw, yr hyn a wnaethoſt ynom ni.

29 Brenhinoedd a ddygant i ti anrheg, er mwyn dy Deml yn Ieruſalem.

30 Cerydda dyrfa y gwaywffyn, cynnulleidfa y gwrdd-deirw, gydâ lloi y bobl, fel y delont yn oſtyngedic â darnau arian: gwaſcar y bobl *ſy* dda ganddynt ryfel.

31 Pendefigion a ddeuant o'r Aipht, Ethiopia a eſtyn ei dwylo 'n bryſur at Dduw.

32 Teyrnaſoedd y ddaiar, cênwch i Dduw, canmolwch yr Arglwydd, *Selah.*

33 Yr hwn a ferchyg ar nef y nefoedd, y rhai oedd erioed: wele efe yn anfon ei lef, a honno yn llef nerthol.

34 Rhoddwch i Dduw gadernid: ei oruchelder ſydd ar Iſrael, a'i nerth yn yr wybrennau.

35 Ofnadwy wyt ô Dduw o'th gyſſegr; Duw Iſrael yw efe, ſydd yn rhoddi nerth, a chadernid i'r bobl; bendigedic fyddo Duw.

Salvum me fac. Pſal. 69.

Prydnhawnol weddi.

ACHub fi ô Dduw, canys y dyfroedd a ddaethant i mewn hyd at fy enaid.

2 Soddais mewn tom dyfn, lle nid oes ſefyllfa: daethum i ddyfnder dyfroedd, a'r ffrŵd a lifodd trosof.

3 Blinais yn llefain, ſychodd fy ngheg, pallodd fy llygaid, tra ydwyf yn diſgwil wrth fy Nuw.

4 Amlach na gwallt fy mhen yw y rhai a'm caſânt heb achos: cedyrn yw fy ngelynion diachos, y rhai a'm difethent: yna y telais yr hyn ni chymmerais.

5 O Dduw, ti a adwaenoſt fy ynfydrwydd, ac nid yw fy nghamweddau guddiedic rhagot.

6 Na chywilydder o'm plegit i, y rhai a obeithiant ynot ti, Arglwydd Dduw y lluoedd: na wradwydder o'm plegit i, y rhai a'th geiſiant ti, ô Dduw Iſrael.

7 Canys er dy fwyn di y dygais warthrudd, ac y todd cywilydd fy wyneb.

8 Euthym yn ddieithr i'm brodyr, ac fel eſtron gan blant fy mam.

9 Canys zêl dy dŷ a'm hyſſodd, a gwradwyddiad y rhai a'th wradwyddent di a ſyrthiodd arnaf fi.

10 Pan wylais gan gyſtuddio fy enaid ag ympryd, bu hynny yn wradwydd i mi.

11 Gwiſcais hefyd ſach-liain, ac euthum yn ddihareb iddynt.

12 Yn fy erbyn y chwedleuei y rhai a eiſteddent

yn y porth : ac i'r meddwon yr oeddwn yn wawd.

13 Ond myfi, fy ngweddi ſydd attat ti ô Arglwydd, mewn amſer cymmeradwy : ô Dduw, yn lluoſogrwydd dy drugaredd, gwrando fi, yngwirionedd dy iechydwriaeth.

14 Gwaret fi o'r dom, ac na ſoddwyf, gwareder fi oddi wrth fy nghaſeion, ac o'r dyfroedd dyfnion.

15 Na liſed y ffrwd ddwfr troſof, ac na lyngced y dyfnder fi : na chaued y pydew ychwaith ei ſafn arnaf.

16 Clyw fi Arglwydd, canys da yw dy drugaredd : yn ôl lliaws dy doſturiaethau edrych arnaf.

17 Ac na chuddia dy wyneb oddi wrth dy was, canys y mae (cyfyngder) arnaf, bryſſia, gwrando fi.

18 Neſſa at fy enaid, a gwared ef ; achub fi o herwydd fy ngelynion.

19 Ti a adwaenoſt fy ngwarthrudd, a'm cywilydd, a'm gwradwydd : fy holl elynion ydynt ger dy fron di.

20 Gwarthrudd a dorrodd fy nghalon, yr ydwyf mewn goſid : a diſgwiliais am rai i doſturio wrthif, ac nid oedd neb ; ac am gyſſurwyr, ac ni chefais neb.

21 Rhoddaſant heſyd fuſtl yn fy mwyd, ac a'm diodaſant yn fy ſyched â finegr.

22 Bydded eu bwrdd yn fagl ger eu bron, a'i llwyddiant yn dramgwydd.

23 Tywyller eu llygaid fel na welont, a gwna iw lwynau gryny bob amſer.

24 Tywallt dy ddig arnynt : a chyrhaedded llidiawgrwydd dy ddigofaint hwynt.

25 Bydded eu preſwylfod yn anghyfannedd, ac na fydded a drigo yn eu pebyll :

26 Canys erlidiaſant yr hwn a darawſit ti, ac am goſid y rhai a archollaiſt ti, y chwedleuant.

27 Dôd ti anwiredd at eu hanwiredd hwynt, ac na ddelont i'th gyfiawnder di.

28 Dileer hwynt o lyfr y rhai byw : ac na ſcrifenner hwynt gyd â'r rhai cyfiawn.

29 Minnau, truan a goſidus ydwyf : dy iechydwriaeth di ô Dduw, a'm derchafo.

30 Moliannaf enw Duw ar gân, a mawrygaf ef mewn mawl.

31 A hyn fydd gwell gan yr Arglwydd nag ych, neu fuſtach corniog, carnol.

32 Y trueniaid a lawenychant pan welant hyn : eich calon chwithau, y rhai a geiſiwch Dduw, a fydd byw.

33 Canys gwrendy'r Arglwydd ar dlodion, ac ni ddiſtyra efe ei garcharorion.

34 Nefoedd, a daiar, y môr a'r hyn oll a ymluſco ynddo, molant ef.

35 Canys Duw a achub Sion, ac a adeilada ddinaſoedd Iuda ; fel y trigont yno, ac y meddiannont hi.

36 A hiliogaeth ei weiſion a'i meddiannant hi : a'r rhai a hoffant ei enw ef, a breſwyliant ynddi.

Deus in adiutorium. Pſal. 70.

O Dduw pryſſura i'm gwaredu, bryſſia Arglwydd i'm cymmorth.

2 Cywilydder, a gwarthrudder y rhai a geiſiant fy enaid : troer yn eu hôl, a gwradwydder y rhai a ewyllyſiant ddrwg i mi.

3 Datroer yn lle gwobr am eu cywilydd, y rhai a ddywedant ha, ha.

4 Llawenyched, a gorfoledded ynot ti y rhai oll a'th geiſiant, a dyweded y rhai a garant dy iechydwriaeth yn waſtad, mawryger Duw.

5 Minnau ydwyf dlawd ac anghenus, ô Dduw bryſſia attaf, fy nghymmorth a'm gwaredudd ydwyt ti, ô Arglwydd, na hir drig.

In te Domine ſperavi. Pſal. 71.

Boreuol weddi.

Ynot ti ô Arglwydd, y gobeithiais na'm cywilydddier byth.

2 Achub fi, a gwaret fi yn dy gyfiawnder : goſtwng dy gluſt attaf ac achub fi.

3 Bydd i mi yn drigfa gadarn, i ddyfod iddi bob amſer : gorchymynnaiſt fy achub, canys ti yw fy nghraig a'm amddeffynfa.

4 Gwaret fi ô fy Nuw, o law'r annuwiol, o law yr anghyfion, a'r traws.

5 Canys ti yw fy ngobaith, ô Arglwydd Dduw, fy ymddiried o'm ieuengctid.

6 Wrthit ti i'm cynhaliwyd o'r bru, ti a'm tynnaiſt o grôth fy mam : fy mawl fydd yn waſtad am danat ti.

7 Oeddwn i lawer megis yn rhyfeddod : eithr tydi yw fy nghadarn noddfa.

8 Llanwer fy ngenau â'th fòliant, ac â'th ogoniant beunydd.

9 Na fwrw fi ymmaith yn amſer henaint : na wrthod fi pan ballo fy nerth.

10 Canys fy ngelynion ſydd yn dywedyd i'm herbyn a'r rhai a ddiſgwiliant am fy enaid, a gyd-ymgynghorant.

11 Gan ddywedyd, Duw a'i gwrthododd ef, erlidiwch, a deliwch ef : canys nid oes gwaredudd.

12 O Dduw, na fydd bell oddi wrthif : fy Nuw, bryſſia i'm cymmorth.

13 Cywilydder, a difether y rhai a wrthwynebant fy enaid, a gwarth ac a gwradwydd y gorchuddier y rhai a geiſiant ddrwg i mi.

14 Minnau a obeithiaf yn waſtad, ac a'th foliannaf di fwy-fwy.

15 Fy ngenau a fynega dy gyfiawnder, a'th iechydwriaeth beunydd : canys ni wn rifedi arnynt.

16 Ynghadernid yr Arglwydd Dduw y cerddaf, dy gyfiawnder di yn unic a goffaf fi.

17 O'm ieuengctid i'm dyſcaiſt ô Dduw, a hyd yn hyn y mynegais dy ryfeddodau.

18 Na wrthod fi ychwaith, ô Dduw, mewn henaint a phen-llwydni ; hyd oni fynegwyf dy nerth i'r genhedlaeth hon, a'th gadernid i bob un a ddelo.

19 Dy gyfiawnder hefyd ô Dduw, ſydd uchel, yr hwn a wnaethoſt bethau mawrion ; pwy, ô Dduw, ſydd debyg i ti?

20 Ti yr hwn a wnaethoſt i mi weled aml a blin gyſtuddiadau, a'm bywhei drachefn, ac a'm cyfodi drachefn o orddyfnder y ddaiar.

21 Amlhei fy mawredd, ac a'm cyſſuri oddi amgylch.

22 Minnau a'th foliannaf ar offeryn nabl, ſef dy wirionedd ô fy Nuw : canaf i ti ar y delyn, ô Sanct Iſrael.

23 Fy ngwefuſau a fyddant hyfryd pan ganwyf i ti, a'm henaid, yr hwn a waredaiſt.

24 Fy nhafod hefyd a draetha dy gyfiawnder beunydd, o herwydd cywilyddiwyd, a gwradwyddwyd y rhai a geiſiant niwed i mi.

Deus iudicium. Pſal. 72.

O Dduw, dôd i'r brenhin dy farnedigaethau : ac i fab y brenhin dy gyfiawnder.

2 Efe a farn dy bobl mewn cyfiawnder : a'th drueniaid â barn.

3 A mynyddoedd a ddygant heddwch i'r bobl, a'r bryniau, trwy gyfiawnder.

4 Efe a farn drueiniaid y bobl, efe a achub feibion yr anghenus : ac a ddryllia y gorthrymmudd.

5 Tra fyddo haul a lleuad i'th ofnant, yn oes oeſoedd.

6 Efe a ddeſcyn fel glaw ar gnaif gwlân, fel cawodydd yn dyfrhau y ddaiar.

7 Yn ei ddyddiau ef y blodeua y cyfiawn, ac amlder o heddwch fydd, tra fyddo lleuad.

8 Ac efe a lywodraetha o fôr hyd fôr, ac o'r afon hyd derfynau y ddaiar.

9 O'i flaen ef yr ymgrymma trigolion yr anialwch : a'i elynion a lyfant y llwch.

10 Brenhinoedd Tarſis, a'r ynyſoedd, a dalant anrheg ; brenhinoedd Sheba a Seba a ddygant rodd.

11 Ie 'r holl frenhinoedd a ymgrymmant iddo : yr holl genhedloedd a'i gwaſanaethant ef.

12 Canys efe a wared yr anghenog pan waeddo : y truan hefyd, a'r hwn ni byddo cynnorthwy-ŵr idde.

13 Efe a arbed y tlawd a'r rheidus, ac a achub eneidiau y rhai anghenus.

14 Efe a wared eu henaid oddi wrth dwyll, a thrawſder : a gwerthfawr fydd eu gwaed yn ei olwg ef.

15 Byw hefyd fydd efe, a rhoddir iddo o aur Seba : gweddiant hefyd troſto efe yn waſtad : beunydd y clodforir ef.

16 Bydd dyrnaid o ŷd ar y ddaiar, ym mhen y mynyddoedd ; ei ffrwyth a yſcwyd fel Libanus : a phobl y ddinas a flodeuant, fel gwellt y ddaiar.

17 Ei enw ſydd yn dragywydd, ei enw a bery tra fyddo haul : ac ymſendithiant ynddo : yr holl genhedloedd a'i galwant yn wynfydedig.

18 Bendigedic fyddo 'r Arglwydd Dduw, Duw Iſrael ; yr hwn yn vnic ſydd yn gwneuthur rhyfeddodau.

19 Bendigedic hefyd fyddo ei enw gogoneddus ef yn dragywydd : a'r holl ddaiar a lanwer o'i ogoniant, Amen, ac Amen.

Gorphen gweddiau Dafydd fab Ieſſe.

Quam bonus. *Pſal.* 73.

YN ddiau da yw Duw i Iſrael ; ſef i'r rhai glân o galon.

2 Minnau, braidd na lithrodd fy nhraed ; prin na thrippiodd fy ngherddediad.

3 Canys cenfigennais wrth y rhai ynfyd ; pan welais lwyddiant y rhai annuwiol.

4 Canys nid oes rhwymau yn eu marwolaeth ; a'i cryfder ſydd heini.

5 Nid ydynt mewn blinder fel dynion eraill, ac ni ddialedir arnynt hwy gyd â dynion eraill.

6 Am hynny y cadwynodd balchder hwynt, ac y gwiſc trawſder am danynt fel dilledyn.

7 Eu llygaid a ſaif allan gan fraſder : aethant tros feddwl calon o gyfoeth.

8 Y maent wedi llygru, yn chwedleua yn ddrygionus am drawſder, yn dywedyd yn vchel.

9 Goſodaſant eu genau yn erbyn y nefoedd ; a'i tafod a gerdd trwy 'r ddaiar.

10 Am hynny y dychwel ei bobl ef ymma, ac y gweſcir iddynt ddwfr phiol lawn.

11 Dywedant hefyd ; pa fodd y gŵyr Duw? a oes gwybodaeth gan y Goruchaf?

12 Wele, dymma y rhai annuwiol, a'r rhai ſydd lwyddiannus yn y bŷd : ac a amlhaſant olud.

13 Diau mai yn ofer y glanheais fy nghalon, ac y golchais fy nwylo mewn diniweidrwydd.

14 Canys ar hyd y dydd i'm maeddwyd, fy ngherydd a ddeuai bôb boreu.

15 Os dywedwn mynegaf fel hyn, wele â chenhedlaeth dy blant di y gwnawn gam.

16 Pan amcenais wybod hyn, blin oedd hynny yn fy ngolwg i.

17 Hyd oni euthum i gyſſegr Duw : yna y deellais eu diwedd hwynt.

18 Diau goſod o honot hwynt mewn llithrigfa, a chwympo o honot hwynt i ddinyſtr.

19 Mor ddiſymwyth yr aethant yn anghyfannedd ; pallaſant, a darfuant gan ofn.

20 Fel breuddwyd wrth ddihuno vn, felly ô Arglwydd, pan ddeffroech y dirmygi eu gwedd hwynt.

21 Fel hyn y goſidiodd fy nghalon : ac i'm pigwyd yn fy arennau.

22 Mor ynfyd oeddwn, ac heb wybod : anifail oeddwn o'th flaen di.

23 Etto yr ydwyf yn waſtad gyd â thi : ymaflaiſt yn fy llaw ddehau.

24 A'th gyngor i'm harweini : ac wedi hynny i'm cymmeri i ogoniant.

25 Pwy ſydd gennifi yn y nefoedd ond tydi? ac ni ewyllyſiais ar y ddaiar neb gyd â thydi.

26 Pallodd fy nghnawd a'm calon ; ond nerth fy nghalon a'm rhan, yw Duw yn dragywydd.

27 Canys wele difethir y rhai a bellhânt oddi wrthit ; torraiſt ymaith bôb vn a butteinio oddi wrthit.

28 Minnau, neſſau at Dduw ſydd dda i mi, yn yr Arglwydd Dduw y goſodais fy ngobaith, i draethu dy holl weithredoedd.

Vt quid Deus. *Pſal.* 74.

PA ham Dduw i'n bwriaiſt heibio yn dragywydd, ac y myga dy ddigofaint yn erbyn defaid dy borfa?

2 Cofia dy gynnulleidfa yr hon a brynaiſt gynt, a llwyth dy etifeddiaeth yr hwn a waredaiſt : mynydd Sion hwn, y preſſwyli ynddo.

3 Dercha dy draed at anrhaith dragywyddol : ſef at yr holl ddrwg a wnaeth y gelyn yn y Cyſſegr.

4 Dy elynion a rhuaſant ynghanol dy gynnulleidfaoedd : goſodaſant eu baneriau yn arwyddion.

5 Hynod oedd gŵr, fel y codaſai fwyill mewn dyryſ-goed.

6 Ond yn awr y maent yn dryllio ei cherfiadau ar vnwaith, â bwyill ac â morthwylion.

7 Bwriaſant dy gyſſegroedd yn tân, hyd lawr yr halogaſant breſwylfa dy Enw.

8 Dywedaſant yn eu calonnau, cyd-anrheithiwn hwynt ; lloſcaſant holl Synagogau Duw yn y tîr.

9 Ni welwn ein harwyddion, nid oes brophwyd mwy, nid oes gennym a wyr pa hŷd.

10 Pa hŷd Dduw, y gwarthrudda 'r gwrthwyneb-wr? a gabla 'r gelyn dy Enw yn dragywydd?

11 Pa ham y tynni yn ei hôl dy law, ſef dy ddeheulaw? tynn hi allan o ganol dy fonwes ;

12 Canys Duw yw fy Mrenin o'r dechreuad : gwneuthur-wr iechydwriaeth o fewn y tîr.

13 Ti yn dy nerth a berthaiſt y môr, drylliaiſt bennau dreigiau yn y dyfroedd.

14 Ti a ddrylliaiſt ben Lefiathan, rhoddaiſt ef yn fwyd i'r bobl yn yr anialwch.

15 Ti a holltaiſt y ffynnon, a'r afon, ti a ddiſpyddaiſt afonydd cryfion.

16 Y dydd ſydd eiddo ti, y nos hefyd ſydd eiddo ti : ti a baratoaiſt oleuni, a haul.

17 Ti a oſodaiſt holl derfynau 'r ddaiar: ti a luniaiſt hâf, a gayaf.

18 Coſia hyn, i'r gelyn gablu, ô Arglwydd, ac i'r bobl ynfyd ddifenwi dy Enw.

19 Na ddyro enaid dy durtur i gynulleidfa y gelynion, nac anghofia gynulleidfa dy druenniaid byth.

20 Edrych ar y cyfammod, canys llawn yw tywyll-leoedd y ddaiar o drigfannau trawſter.

21 Na ddychweled y tlawd yn wradwyddus, molianned y truan, a'r anghenus dy Enw.

22 Cyfod ô Dduw, dadleu dy ddadl, coſia dy wradwydd gan yr ynfyd beunydd.

23 Nac anghofia lais dy elynion: dadwrdd y rhai a godant i'th erbyn, ſydd yn dringo yn waſtadol.

Confitebimur tibi. Pſal. 75.

uol eddi.

CLodforwn dydi ô Dduw, clodforwn, canys agos yw dy Enw: dy ryfeddodau a fynegant hynny.

2 Pan dderbyniwyf y gynulleidfa, mi a farnaf yn vniawn.

3 Ymddattododd y ddaiar, a'i holl drigolion: myfi ſydd yn cynnal ei cholofnau. *Selah.*

4 Dywedais wrth y rhai ynfyd, nac ynfydwch: ac wrth y rhai annuwiol, na dderchefwch eich corn.

5 Na dderchefwch eich corn yn vchel, na ddywedwch yn war-ſyth.

6 Canys nid o'r dwyrain, nac o'r gorllewin, nac o'r dehau, y daw goruchafiaeth.

7 Ond Duw ſydd yn barnu, efe a oſtwng y naill, ac a gyfyd y llall.

8 Oblegit y mae phiol yn llaw 'r Arglwydd, a'r gwin ſydd gôch, yn llawn cymmyſc, ac efe a dywalltodd o hwnnw: etto holl annuwolion y tir a waſcant, ac a yfant ei waelodion.

9 Minneu a fynegaf yn dragywydd, ac a ganaf i Dduw Iacob.

10 Torraf hefyd holl gyrn y rhai annuwiol, a chyrn y rhai cyfiawn a dderchefir.

Notus in Iudæa. Pſal. 76.

HYnod yw Duw yn Iuda, mawr yw ei Enw ef yn Iſrael.

2 Ei babell hefyd ſydd yn Salem, a'i drigfa yn Sion.

3 Yno y torrodd efe ſaethau y bwa, y tarian, y cleddyf hefyd a'r frwydr. *Selah.*

4 Gogoneddufach wyt, a chadarnach, na mynyddoedd yr yſpail.

5 Yſpeiliwyd y cedyrn galon, hunaſant eu hûn: a'r holl wŷr o nerth ni chawſant eu dwylo.

6 Gan dy gerydd di ô Dduw Iacob, y rhoed y cerbyd a'r march i gyſcu.

7 Tydi, tydi wyt ofnadwy, a phwy a ſaif o'th flaen, pan ennyno dy ddigter?

8 O'r nefoedd y peraiſt glywed barn, ofnodd, a goſtegodd y ddaiar.

9 Pan gyfododd Duw i farn, i achub holl rai llednais y tir. *Selah.*

10 Diau, cynddaredd dŷn a'th folianna di, gweddill cynddaredd a waherddi.

11 Addunedwch, a thelwch i'r Arglwydd eich Duw: y rhai oll ydynt o'i amgylch ef, dygant anrheg i'r ofnadwy.

12 Efe a dyrr ymmaith yſpryd tywyſogion, y mae yn ofnadwy i frenhinoedd y ddaiar.

Voce mea ad Dominum. Pſal. 77.

A'M llef y gweddiais ar Dduw; â'm llef ar Dduw, ac efe a'm gwrandawodd.

2 Yn nydd fy nhrallod y ceiſiais yr Arglwydd: fy archoll a redodd liw nôs, ac ni pheidiodd: fy enaid a wrthododd ei ddiddanu.

3 Coſiais Dduw, ac a'm cythryblwyd, cwynais a therfyſcwyd fy yſpryd. *Selah.*

4 Deliaiſt fy llygaid yn neffro, ſynnodd arnaf, fel na allaf lefaru.

5 Myfyriais y dyddiau gynt, blynyddoedd yr hên oeſoedd.

6 Coſio yr ydwyf fy nghân y nôs, yr ydwyf yn ymddiddan â'm calon: fy yſpryd ſydd yn chwilio yn ddyfal.

7 Ai yn dragywydd y bwrw 'r Arglwydd heibio? ac oni bydd efe bodlon mwy?

8 A ddarfu ei drugaredd ef tros byth? a ballu ei addewid ef yn oes oeſoedd?

9 A anghofiodd Duw drugarhau? a gaeodd efe ei drugareddau mewn ſoriant? *Selah.*

10 A dywedais, dymma fy ngwendid, etto coſiaf flynyddoedd deheu-law y Goruchaf.

11 Coſiaf weithredoedd yr Arglwydd; ſe coſiaf dy wrthiau gynt.

12 Myfyriaf hefyd ar dy holl waith, ac am dy weithredoedd y chwedleuaf.

13 Dy ffordd ô Dduw, ſydd yn y cyſegr; pa dduw mor fawr a'n Duw ni?

14 Ti yw y Duw ſydd yn gwneuthur rhyfeddodau, dangoſaiſt dy nerth ym mysc y bobloedd.

15 Gwaredaiſt â'th fraich dy bobl, meibion Iacob, a Ioſeph. *Selah.*

16 Y dyfroedd a'th welſant o Dduw, y dyfroedd a'th welſant; hwy a ofnaſant: y dyfnderau hefyd a gynhyrfwyd.

17 Y cwmylau a dywalltaſant ddwfr, yr wybrennau a roddaſant daranſ: dy ſaethau hefyd a gerddaſant.

18 Twrf dy daran a glywyd o amgylch; mellt a oleuaſant y byd: cyffrôdd, a chrynodd y ddaiar.

19 Dy ffordd ſydd yn y môr, a'th lwybrau yn y dyfroedd mawrion: ac nid adweinir dy ôl.

20 Tywyſaiſt dy bobl fel defaid, drwy law Moſes ac Aaron.

Attendite popule. Pſal. 78.

Prydnhawnol weddi.

GWrando fy nghyfraith fy mhobl, goſtyngwch eich cluſt at eiriau fy ngenau.

2 Agoraf fy ngenau mewn dihareb, traethaf ddammegion o'r cynfyd:

3 Y rhai a glywſom, ac a wybuom, ac a fynegodd ein tadau i ni.

4 Ni chelwn rhag eu meibion, gan fynegi i'r oes a ddêl foliant yr Arglwydd a'i nerth, a'i ryfeddodau, y rhai a wnaeth efe.

5 Canys efe a ſicrhaodd dyſtiolaeth yn Iacob, ac a oſododd gyfraith yn Iſrael: y rhai a orchymynnodd efe i'n tadau eu dyſcu iw plant.

6 Fel y gwybyddai 'r oes a ddêl, ſef y plant a enid, a phan gyfodent, y mynegent hwy iw plant hwythau.

7 Fel y goſodent eu gobaith ar Dduw, heb anghofio gweithredoedd Duw, eithr cadw ei orchymynion ef.

8 Ac na byddent fel eu tadau yn genhedlaeth gyndyn, a gwrthryfelgar, yn genhedlaeth ni oſododd ei chalon yn vniawn, ac nid yw ei hyſpryd ffyddlon gydâ Duw.

9 Meibion Ephraim yn arfog, ac yn ſaethu â bwa, a droeſant eu cefnau yn nydd y frwydr.

10 Ni chadwaſant gyfammod Duw, eithr gwrthodaſant rodio yn ei Gyfraith ef.

11 Ac anghofiaſant ei weithredoedd, a'i ryfeddodau, y rhai a ddangoſaſai efe iddynt.

12 [illegible]

12 Efe a wnaethei wrthiau o flaen eu tadau hwynt yn nhir yr Aipht, ym maes Zoan.

13 Efe a barthodd y môr, ac a aeth â hwynt drwodd: a gwnaeth hefyd i'r dwfr ſefyll fel pentwr.

14 Y dydd hefyd y tywyſodd efe hwynt â chwmmwl, ac ar hŷd y nos â goleuni tân.

15 Efe a holltodd y creigiau yn yr anialwch, a rhoddes ddiod oddi yno megis o ddyfnderau dirfawr.

16 Canys efe a ddug ffrydiau allan o'r graig, ac a dynnodd i lawr megis afonydd o ddyfroedd.

17 Er hynny chwanegaſant etto bechu yn ei erbyn ef, gan ddigio y Goruchaf yn y diffaethwch:

18 A themptiaſant Dduw yn eu calon, gan ofyn bwyd wrth eu blŷs.

19 Llefaraſant hefyd yn erbyn Duw, dywedaſant, a ddichon Duw arlwyo bwrdd yn yr anialwch?

20 Wele, efe a darawodd y graig, fel y piſtyllodd dwfr, ac y llifodd afonydd, a ddichon efe roddi bara hefyd? a ddarpara efe gîg iw bobl?

21 Am hynny clybu'r Arglwydd, ac y digiodd, a thân a ennynnodd yn erbyn Iacob, a digofaint hefyd a gynneuodd yn erbyn Iſrael.

22 Am na chredent yn Nuw, ac na obeithient yn ei iechydwriaeth ef.

23 Er iddo ef orchymyn i'r wybrennau oddi vchod, ac egoryd dryſau y nefoedd:

24 A glawio Manna arnynt iw fwytta: 'a rhoddi iddynt ŷd y nefoedd.

25 Dŷn a fwyttaodd fara angelion, anfonodd iddynt fwyd yn ddigonol.

26 Gyrrodd y dwyrein-wynt yn y nefoedd: ac yn ei nerth y dûg efe ddeheu-wynt.

27 Glawiodd hefyd gîg arnynt, fel llwch: ac adar aſcelloc fel tywod y môr.

28 Ac a wnaeth iddynt gwympo o fewn eu gwerſyll, o amgylch eu preſſwylfeydd.

29 Felly y bwyttaſant, ac y llwyr ddiwallwyd hwynt, ac efe a barodd eu dymuniad iddynt.

30 Ni omeddwyd hwynt o'r hyn a flyſiaſant, er hynny tra yr ydoedd eu bwyd yn eu ſafnau,

31 Digllonedd Duw a gynneuodd yn eu herbyn hwynt, ac a laddodd y rhai braſaf o honynt, ac a gwympodd etholedigion Iſrael.

32 Er hyn oll pechaſant etto, ac ni chredaſant iw ryfeddodau ef.

33 Am hynny y treuliodd efe eu dyddiau hwynt mewn oferedd, a'i blŷnyddoedd mewn dychryn.

34 Pan laddei efe hwynt, hwy a'i ceiſient ef, ac a ddychwelent, ac a geiſient Dduw yn foreu:

35 Cofient hefyd mai Duw oedd eu craig, ac mai y Goruchaf Dduw oedd eu gwaredudd.

36 Er hynny, rhagrithio yr oeddynt iddo ef â'i genau, a dywedyd celwydd wrtho â'i tafod:

37 A'i calon heb fod yn vniawn gyd ag ef, na'i bod yn ffyddlon yn ei gyfammod ef.

38 Er hynny efe yn drugarog a faddeuodd eu hanwiredd, ac ni ddifethodd hwynt: ie trodd ymaith ei ddigofaint yn fynych, ac ni chyffrôdd ei holl lîd.

39 Canys efe a gofiei mai cnawd oeddynt, a gwynt yn myned, ac heb ddychwelyd.

40 Pa ſawl gwaith y digiaſant ef yn yr anialwch, ac y gofidiaſant ef yn y diffaethwch?

41 Ie troeſant, a phrofaſant Dduw, ac a oſodaſant derfyn i Sanct yr Iſrael.

42 Ni chofiaſant ei law ef, na'r dydd y gwaredodd efe hwynt oddi wrth y gelyn.

43 Fel y goſodaſei efe ei arwyddion yn yr Aipht, a'i ryfeddodau ym maes Zoan:

44 Ac y troeſei eu hafonydd yn waed: a'i ffrydiau fel na allent yfed.

45 Anfonodd gymmyſc-blâ yn eu plith, yr hon a'i diſâodd hwynt: a llyffaint iw difetha.

46 Ac efe a roddodd eu cnŵd hwynt i'r lindys, a'i llafur i'r locuſt.

47 Deſtrywiodd eu gwin-wŷdd â chenllyſc, a'i Sycomor-wŷdd â rhew.

48 Rhoddodd hefyd eu hanifeiliaid i'r cenllyſc, a'i golud i'r mellt.

49 Anfonodd arnynt gynddaredd ei lîd, llidiawgrwydd, a digter, a chyfyngder, trwy anfon angelion drwg.

50 Cymmhwyſodd ffordd iw ddigofaint, nid attaliodd eu henaid oddi wrth angeu: ond eu bywyd a roddodd efe i'r haint.

51 Tarawodd hefyd bôb cyntaf-anedic yn yr Aipht, ſef blaenion eu nerth hwynt ym mhebyll Ham.

52 Ond efe a yrrodd ei bobl ei hun fel defaid, ac a'i harweiniodd hwynt fel praidd yn yr anialwch.

53 Tywyſodd hwynt hefyd yn ddiogel, fel nad ofnaſant: a'r môr a orchguddiodd eu gelynion hwynt.

54 Hwythau a ddug efe i oror ei ſancteiddrwydd: i'r mynydd hwn a ennillodd ei ddeheulaw ef.

55 Ac efe a yrrodd allan y cenhedloedd o'i blaen hwynt, ac a rannodd iddynt etifeddiaeth wrth linyn, ac a wnaeth i lwythau Iſrael drigo yn eu pebyll hwynt.

56 Er hynny temptiaſant a digiaſant Dduw goruchaf, ac ni chadwaſant ei dyſtiolaethau:

57 Eithr ciliaſant a buant anffyddlon fel eu tadau: troeſant fel bwa twyllodrus.

58 Digiaſant ef hefyd â'i huchel-fannau: a gyrraſant eiddigedd arno â'i cerfiedic ddelwau.

59 Clybu Duw hyn, ac a ddigiodd, ac a ffieiddiodd Iſrael yn ddirfawr:

60 Fel y gadawodd ef dabernacl Siloh, y babell a oſodaſei efe ym myſc dynion:

61 Ac y rhoddodd ei nerth mewn caethiwed, a'i brydferthwch yn llaw 'r gelyn.

62 Rhoddes hefyd ei bobl i'r cleddyf, a digiodd wrth ei etifeddiaeth.

63 Tân a yſſodd eu gwŷr ieuaingc, a'i morwynion ni phriodwyd.

64 Eu hoffeiriaid a laddwyd â'r cleddyf, a'i gwragedd gweddwon nid wylaſant.

65 Yna y deffrôdd yr Arglwydd fel vn o gyſcu: fel cadarn yn bloeddio gwedi gwin.

66 Ac efe a darawodd ei elynion o'r tu ôl: rhoddes iddynt warth tragywyddol.

67 Gwrthododd hefyd babell Ioſeph, ac ni etholodd lwyth Ephraim:

68 Ond efe a etholodd lwyth Iuda, mynydd Sion, yr hwn a hoffodd.

69 Ac a adeiladodd ei gyſſegr fel llŷs vchel: fel y ddaiar, yr hon a ſeiliodd efe yn dragywydd.

70 Etholodd hefyd Ddafydd ei wâs, ac a'i cymmerth o gorlannau y defaid.

71 Oddi ar ôl y defaid cyfebron, y daeth ag ef i borthi Iacob ei bobl, ac Iſrael ei etifeddiaeth.

72 Yntef a'i porthodd hwynt yn ôl perffeithrwydd ei galon, ac a'i trinodd wrth gyfarwyddyd ei ddwylo.

Deus, venerunt. *Pſal.* 79.

Boreuol weddi.

Y Cenhedloedd, ô Dduw, a ddaethant i'th etifeddiaeth, halogaſant dy Deml ſanctaidd: goſodaſant Ieruſalem yn garneddau.

2 Rhoddaſant gelanedd dy weiſion yn fwyd i

adar y nefoedd, a chig dy ſainct i fwyſt-filod y ddaiar.

3 Tywalltaſant eu gwaed fel dwfr o amgylch Ieruſalem, ac nid oedd a'i claddei.

4 Yr ydym ni yn warthrudd i'n cymmydogion, dirmyg a gwatwargerdd i'r rhai ſydd o'n hamgylch.

5 Pa hŷd Arglwydd, a ddigi di 'n dragywydd? a lyſc dy eiddigedd di fel tân?

6 Tywallt dy lid ar y cenhedloedd ni'th adnabuant: ac ar y teyrnaſoedd ni alwaſant ar dy enw.

7 Canys yſaſant Iacob, ac a wnaethant ei breſſwylfa yn anghyfannedd.

8 Na choffa'r anwireddau gynt i'n herbyn: bryſſia, rhagflaened dy doſtur drugareddau ni: canys llesc iawn i'n gwnaethbwyd.

9 Cynnorthwya ni, ô Dduw ein iechydwriaeth, er mwyn gogoniant dy enw: gwared ni hefyd, a thrugarhâ wrth ein pechodau, er mwyn dy enw.

10 Pa ham y dywed y cenhedloedd, pa le y mae eu Duw hwynt? bydded hyſpys yn mhlith y cenhedloedd yn ein golwg ni, wrth ddial gwaed dy weiſion, yr hwn a dywalltwyd.

11 Deued vchenaid y carcharorion ger dy fron, yn ôl mawredd dy nerth: cadw blant marwolaeth.

12 A thâl i'n cymmydogion ar y ſeithfed iw mynwes eu cabledd, drwy 'r hon i'th gablaſant di, ô Arglwydd.

13 A ninneu dy bobl, a defaid dy borfa, a'th foliannwn di yn dragywydd: dadcanwn dy foliant o genhedlaeth i genhedlaeth.

Qui regis Iſrael. Pſal. 80.

GWrando ô fugail Iſrael, yr hwn wyt yn arwain Ioſeph fel praidd: ymddiſcleiria yr hwn wyt yn eiſtedd rhwng y Cerubiaid.

2 Cyfod dy nerth o flaen Ephraim, a Beniamin, a Manaſſeh, a thyred yn iechydwriaeth i ni.

3 Dychwel ni, ô Dduw, a llewyrcha dy wyneb, ac ni a achubir.

4 O Arglwydd Dduw 'r lluoedd, pa hŷd y ſorri wrth weddi dy bobl?

5 Porthaiſt hwynt â bara dagrau, a diodaiſt hwynt â dagrau wrth feſur mawr.

6 Goſodaiſt ni yn gynnen i'n cymmydogion, a'n gelynion a'n gwatwarant yn eu myſc eu hun.

7 O Dduw 'r lluoedd dychwel ni, a llewyrcha dy wyneb, ac ni a achubir.

8 Mudaiſt win-wydden o'r Aipht, bwriaiſt y cenhedloedd allan, a phlennaiſt hi.

9 Arloeſaiſt o'i blaen, a pheraiſt iw gwraidd wreiddio, a hi a lanwodd y tîr.

10 Cuddiwyd y mynyddoedd gan ei chyſcod: a'i changhennau oedd fel cedr-wŷdd rhagorol.

11 Hi a eſtynnodd ei changau hyd y môr, a'i blagur hyd yr afon.

12 Pa ham y rhwygaiſt ei chaeau, fel y tynno pawb a elo heibio ar hŷd y ffordd, ei grawn hi?

13 Y baedd o'r coed a'i turria, a bwyſt-fil y maes a'i pawr.

14 O Dduw 'r lluoedd, dychwel attolwg: edrych o'r nefoedd a chenfydd, ac ymwel â'r win-wydden hon;

15 A'r winllan a blannodd dy ddeheu-law, ac â'r planhigyn a gadarnheaiſt i ti dy hun.

16 Lloſcwyd hi â thân, torrwyd hi i lawr: gan gerydd dy wyneb y difethir hwynt.

17 Bydded dy law dros ŵr dy ddeheu-law: a thros fab dyn, yr hwn a gadarnheaiſt i ti dy hun.

18 Felly ni chiliwn yn ôl oddi wrthit ti: bywhâ ni, ac ni a alwn ar dy enw.

19 O Arglwydd Dduw 'r lluoedd, dychwel ni, a llewyrcha dy wyneb, ac ni a achubir.

Exultate Deo. Pſal. 81.

CEnwch yn llafar i Dduw ein cadernid: cenwch yn llawen i Dduw Iacob.

2 Cymmerwch pſalm, a moeſwch dympan, y delyn fwyn, a'r nabl.

3 Vd-cenwch vdcorn ar y lloer newydd, ar yr amſer nodedic, yn nydd ein vchelŵyl.

4 Canys deddf yw hyn i Iſrael, a defod i Dduw Iacob.

5 Efe a'i goſododd yn dyſtiolaeth yn Ioſeph: pan aeth efe allan trwy dîr yr Aipht, lle y clywais iaith ni ddeallwn.

6 Tynnais ei yſcwydd oddi wrth y baich; ei ddwylo a ymadawſant â'r crochanau.

7 Mewn cyfyngder y gelwais, ac mi a'th waredais: gwrandewais di yn nirgelwch y daran, profais di wrth ddyfroedd Meribah. *Selah.*

8 Clyw fy mhobl, a mi a dyſtiolaethaf i ti Iſrael, os gwrandewi arnaf.

9 Na fydded ynot Dduw arall, ac nac ymgrymma i Dduw dieithr.

10 Myfi 'r Arglwydd dy Dduw, yw 'r hwn a'th ddûg di allan o dîr yr Aipht: lleda dy ſafn, ac mi a'i llanwaf.

11 Ond ni wrandawei fy mhobl ar fy llef, ac Iſrael ni'm mynnai.

12 Yna y gollyngais hwynt ynghyndynrwydd eu calon, aethant wrth eu cyngor eu hunain.

13 Oh na wrandawſei fy mhobl arnaf: na rodiaſai Iſrael yn fy ffyrdd.

14 Buan y goſtyngaſwn eu gelynion: ac y troeſwn fy llaw'n erbyn eu gwrthwyneb-wŷr.

15 Caſeion yr Arglwydd a gymmeraſant arnynt ymoſtwng iddo ef, a'i hamſer hwythau ſuaſai 'n dragywydd.

16 Bwydaſai hwynt hefyd â braſder gwenith: ac â mêl o'r graig i'th ddiwallaſwn.

Deus ſtetit in Synagoga. Pſal. 82.

Pryd-nhawnol weddi.

DUW ſydd yn ſefyll ynghynnulleidfa y galluog: ym mhlith y duwiau y barn ef.

2 Pa hŷd y bernwch ar gam? ac y derbyniwch wyneb y rhai annuwiol? *Selah.*

3 Bernwch y tlawd a'r ymddifad: cyfiawnhewch y cyſtuddiedig a'r rheidus.

4 Gwaredwch y tlawd a'r anghenus: achubwch hwynt o law y rhai annuwiol.

5 Ni wyddant, ac ni ddeallant, mewn tywyllwch y rhodiant: holl ſylfaenau y ddaiar a ſymmudwyd o'i lle.

6 Myfi a ddywedais, duwiau ydych chwi, a meibion y Goruchaf ydych chwi oll.

7 Eithr byddwch feirw fel dynion, ac vn o'r tywyſogion y ſyrthiwch.

8 Cyfod ô Dduw, barna 'r ddaiar, canys ti a etifeddi 'r holl genhedloedd.

Deus quis ſimilis. Pſal. 83.

O Dduw, na oſtega, na thaw, ac na fydd lonydd, ô Dduw.

2 Canys wele dy elynion ſydd yn terfyſcu, a'th gaſeion yn cyfodi eu pennau.

3 Ymgyfrinachaſant yn ddichellgar yn erbyn dy bobl, ac ymgynghoraſant yn erbyn dy rai dirgel di.

4 Dywedaſant, deuwch, a difethwn hwynt, fel na byddont yn genhedl, na choffaer enw Iſrael mwyach.

5 Canys ymgynghoraſant yn vn-fryd ; ac ymwnaethant i'th erbyn.

6 Pebyll Edom, a'r Iſmaeliaid, y Moabiaid, a'r Hagariaid.

7 Gebal, ac Ammon, ac Amalec, y Philiſtiaid, gyd â phreſwyl-wŷr Tyrus.

8 Aſſur hefyd a ymgyplyſodd â hwynt, buant fraich i blant Lot. *Selah.*

9 Gwna di iddynt fel i Midian, megis i Siſara ; megis i Iabin, wrth afon Ciſon.

10 Yn Endor y difethwyd hwynt, aethant yn dail i'r ddaiar.

11 Gwna eu pendefigion fel Oreb, ac fel Zeeb, a'i holl dywyſogion fel Zebah, ac fel Salmunnah.

12 Y rhai a ddywedaſant ; cymmerwn i ni gyfanneddau Duw iw meddiannu.

13 Goſod hwynt, ô fy Nuw, fel olwyn ; fel ſofl o flaen y gwynt.

14 Fel y llyſc tân goed, ac fel y goddeithia fflam fynyddoedd :

15 Felly erlid ti hwynt â'th demheſtl, a dychryna hwynt â'th gorwynt.

16 Llanw eu hwynebau â gwarth, fel y ceiſiont dy Enw, ô Arglwydd.

17 Cywilydddier, a thralloder hwynt yn dragywydd : ie gwradwydder, a difether hwynt :

18 Fel y gwypont mai tydi, yr hwn yn vnic wyt Iehofa wrth dy enw, wyt Oruchaf ar yr holl ddaiar.

Quam dilecta tabernacula. Pſal. 84.

MOr hawddgar yw dy bebyll di, ô Arglwydd y lluoedd !

2 Fy enaid a hiraetha, ie ac a fyſia am gynteddau'r Arglwydd : fy nghalon, a'm cnawd a waeddant am y Duw byw.

3 Aderyn y tô hefyd a gafodd dŷ, a'r wennol nŷth iddi, lle y goſod ei chywion : ſef dy allorau di, ô Arglwydd y lluoedd, fy Mrenin a'm Duw.

4 Gwynfyd preſwylwŷr dy dŷ : yn waſtad i'th foliannant. *Selah.*

5 Gwyn ei fyd y dŷn y mae ei gadernid ynot, a'th ffyrdd yn eu calon.

6 Y rhai yn myned trwy ddyffryn Baca, a'i gwnânt yn ffynnon, a'r glaw a leinw y llynnau.

7 Ant o nerth i nerth : ymddengys pob vn ger bron Duw yn Sion.

8 O Arglwydd Dduw 'r lluoedd, clyw fy ngweddi : gwrando, ô Dduw Iacob. *Selah.*

9 O Dduw ein tarian, gwel, ac edrych ar wyneb dy eneiniog.

10 Canys gwell yw diwrnod yn dy gynteddau di na mil : dewiſwn gadw drws yn nhŷ fy Nuw, o flaen trigo ym-mhebyll annuwioldeb.

11 Canys haul, a tharian yw 'r Arglwydd Dduw : yr Arglwydd â rydd râs a gogoniant : ni attal efe ddim daioni oddi wrth y rhai a rodiant yn berffaith.

12 O Arglwydd y lluoedd, gwynfŷd y dyn a ymddiried ynot.

Benedixiſti Domine. Pſal. 85.

GRaſ-lawn fuoſt, ô Arglwydd, i'th dîr : dychwelaiſt gaethiwed Iacob.

2 Maddeuaiſt anwiredd dy bobl : cuddiaiſt eu holl bechod. *Selah.*

3 Tynnaiſt ymmaith dy holl lid : troiſt oddi wrth lidiawgrwydd dy ddigter.

4 Trô ni ô Dduw ein iachydwriaeth : a thorr ymmaith dy ddigofaint wrthym.

5 Ai byth y digi wrthym ? a eſtynni di dy ſorriant hyd genhedlaeth a chenhedlaeth ?

6 Oni throi di a'n bywhau ni ; fel y llawenycho dy bobl ynot ti ?

7 Dangos i ni, Arglwydd, dy drugaredd, a dôd i ni dy iechydwriaeth.

8 Gwrandawaf beth a ddywed yr Arglwydd Dduw ; canys efe a draetha heddwch iw bobl, ac iw Saint : ond na throant at ynfydrwydd.

9 Diau fod ei iechyd ef yn agos i'r rhai a'i hofnant : fel y trigo gogoniant yn ein tîr ni.

10 Trugaredd a gwirionedd a ymgyfarfuant : cyfiawnder a heddwch a ymgusanaſant.

11 Gwirionedd a dardda o'r ddaiar ; a chyfiawnder a edrych i lawr o'r nefoedd.

12 Yr Arglwydd hefyd a rydd ddaioni ; a'n daiar a rydd ei chnwd.

13 Cyfiawnder â o'i flaen ef : ac a oſyd ei draed ef ar y ffordd.

Inclina Domine. Pſal. 86.

GOſtwng, ô Arglwydd, dy glust, gwrando fi : canys truan ac anghenus ydwyf.

2 Cadw fy enaid, canys ſanctaidd ydwyf : achub di dy wâs, ô fy Nuw, yr hwn ſydd yn ymddiried ynot.

3 Trugarhâ wrthif Arglwydd, canys arnat y llefaf beunydd.

4 Llawenhâ enaid dy wâs, canys attat y derchafaf fy enaid.

5 Canys ti ô Arglwydd ydwyt dda, a maddeugar : ac o fawr drugaredd i'r rhai oll a alwant arnat.

6 Clyw Arglwydd, fy ngweddi : ac ymwrando â llais fy ymbil.

7 Yn nydd fy nghyfyngder y llefaf arnat : canys gwrandewi fi.

8 Nid oes fel tydi ym myſc y duwiau, ô Arglwydd : na gweithredoedd fel dy weithredoedd di.

9 Yr holl genhedloedd, y rhai a wnaethoſt, a ddeuant, ac a addolant ger dy fron di, ô Arglwydd : ac a ogoneddant dy Enw.

10 Canys ydwyt fawr, ac yn gwneuthur rhyfeddodau : ti yn vnic wyt Dduw.

11 Dyſc i mi dy ffordd ô Arglwydd, mi a rodiaf yn dy wirionedd : vna fy nghalon i ofni dy Enw.

12 Moliannaf di ô Arglwydd fy Nuw, a'm holl galon : a gogoneddaf dy Enw yn dragywydd.

13 Canys mawr yw dy drugaredd tuag attaf : a gwaredaiſt fy enaid o vffern iſſod.

14 Rhai beilchion a gyfodaſant i'm herbyn, ô Dduw, a chynnulleidfa y trawſion a geiſiaſant fy enaid, ac ni'th oſodaſant di ger eu bron.

15 Eithr ti ô Arglwydd, wyt Dduw trugarog, a graſ-lawn ; hwyrfrydic i lid, a helaeth o drugaredd a gwirionedd.

16 Edrych arnaf, a thrugarhâ wrthif : dyro dy nerth i'th wâs, ac achub fab dy waſanaethferch.

17 Gwna i mi arwydd er daioni, fel y gwelo fy nghaſeion, ac y gwradwydder hwynt : am i ti, ô Arglwydd, fy nghynnorthwyo a'm diddanu.

Fundamenta ejus. Pſal. 87.

EI ſail ſydd ar y mynyddoedd ſanctaidd.

2 Yr Arglwydd a gâr byrth Sion, yn fwy na holl breſwylfeydd Iacob.

3 Gogoneddus bethau a ddywedir am danat ti, ô ddinas Dduw. *Selah.*

4 Coffaf Rahab a Babilon wrth fy nghydnabod : wele Philiſtia a Thyrus ynghyd ag Ethiopia ; yno y ganwyd hwn.

5 Ac am Sion y dywedir, y gwr a'r gŵr a anwyd ynddi : a'r Goruchaf ei hun a'i ſicrhâ hi.

6 Yr Arglwydd a gyfrif pan ſcrifenno y bobl, eni hwn yno. *Selah.*

7 Y cantorion a'r cerddorion a fyddant yno: fy holl ffynhonnau ſydd ynot ti.

Domine Deus ſalutis. Pſal. 88.

O Arglwydd Dduw fy iechydwriaeth, gwaeddais o'th flaen ddydd a nôs.

2 Deued fy ngweddi ger dy fron, goſtwng dy gluſt at fy llefain.

3 Canys fy enaid a lanwyd o flinderau, a'm heinioes a neſſâ i'r beddrod.

4 Cyfrifwyd fi gyd â'r rhai a ddeſcynnent i'r pwll: ydwyf fel gŵr heb nerth:

5 Yn rhydd ym myſc y meirw, fel rhai wedi eu lladd, yn gorwedd mewn bedd: y rhai ni chofi mwy, a hwy a dorwyd oddi wrth dy law.

6 Goſodaiſt fi yn y pwll iſſaf: mewn tywyllwch, yn y dyfnderau.

7 Y mae dy ddigofaint yn pwyſo arnaf: ac â'th holl donnau i'm cyſtuddiaiſt. *Selah.*

8 Pellheaiſt fy nghydnabod oddi wrthif, gwnaethoſt fi yn ffieidd-dra iddynt: gwarchaewyd fi, fel nad awn allan.

9 Fy llygad a ofidiodd gan fy nghyſtudd, llefais arnat Arglwydd beunydd: eſtynnais fy nwylo attat.

10 Ai i'r meirw y gwnei ryfeddod? a gyfyd y meirw a'th foliannu di? *Selah.*

11 A dreuthir dy drugaredd mewn bedd? a'th wirionedd yn neſtryw?

12 A adwaenir dy ryfeddod yn y tywyllwch? a'th gyfiawnder yn nhîr angof?

13 Ond myfi a lefais arnat Arglwydd: yn foreu yr achub fy ngweddi dy flaen.

14 Pa ham Arglwydd y gwrthodi fy enaid? y cuddi dy wyneb oddi wrthif?

15 Truan ydwyf fi, ac ar drangcedigaeth o'm hieuengctid, dygais dy ofn, ac yr ydwyf yn petruſo.

16 Dy ſoriant a aeth troſof, dy ddychrynnedigaethau a'm torrodd ymmaith.

17 Fel dwfr i'm cylchynaſant beunydd: ac i'm cyd-amgylchaſant.

18 Câr a chyfaill a yrraiſt ym mhell oddi wrthif, a'm cydnabod i dywyllwch.

Miſericordias Domini, Pſal. 89.

Boreuol weddi.

TRugareddau 'r Arglwydd a ddatcanaf byth, â'm genau y mynegaf dy wirionedd, o genhedlaeth hyd genhedlaeth.

2 Canys dywedais, adeiledir trugaredd yn dragywydd: yn y nefoedd y ſicrhei dy wirionedd.

3 Gwneuthum ammod â'm etholedig, tyngais i'm gwâs Dafydd.

4 Yn dragywydd y ſicrhâf dy hâd ti: ac o genhedlaeth i genhedlaeth yr adeiladaf dy orſedd-faingc di. *Selah.*

5 A'r nefoedd, ô Arglwydd, a foliannant dy ryfeddod, a'th wirionedd yngynulleidfa y Sainct.

6 Canys pwy yn y nef a gyſtedlir â'r Arglwydd? pwy a gyffelybir i'r Arglwydd ym myſc meibion y cedyrn?

7 Duw ſydd ofnadwy iawn yngynulleidfa'r Sainct: ac iw arſwydo yn ei holl amgylchoedd.

8 O Arglwydd Dduw 'r lluoedd, pwy ſydd fel tydi, yn gadarn Iôr? a'th wirionedd o'th amgylch?

9 Ti wyt yn llywodraethu ymchwydd y môr, pan gyfodo ei donnau, ti a'u goſtegi.

10 Ti a ddrylliaiſt yr Aipht, fel un lladdedic: drwy nerth dy fraich y gwaſcaraiſt dy elynion.

11 Y nefoedd ydynt eiddoti, a'r ddaiar ſydd eiddo ti: ti a ſeiliaiſt y bŷd a'i gyflawnder,

12 Ti a greaiſt ogledd a dehau: Tabor a Hermon a lawenychant yn dy Enw.

13 Y mae i ti fraich, a chadernid: cadarn yw dy law, ac vchel yw dy ddeheu-law.

14 Cyfiawnder, a barn yw trigfa dy orſeddfaingc: trugaredd a gwirionedd a ragflaenant dy wyneb.

15 Gwyn ei fyd y bobl a adwaenant yr hyfrydlais: yn llewyrch dy wyneb ô Arglwydd, y rhodiant hwy.

16 Yn dy Enw di y gorfoleddant beunydd, ac yn dy gyfiawnder yr ymdderchafant.

17 Canys godidawgrwydd eu cadernid hwynt ydwyt ti: ac yn dy ewyllys da y derchefir ein corn ni.

18 Canys yr Arglwydd yw ein tarian: a Sanct Iſrael yw ein Brenin.

19 Yna'r ymddiddenaiſt mewn gweledigaeth â'th ſainct ac a ddywedaiſt, goſodais gymmorth ar vn cadarn: derchefais vn etholedic o'r bobl.

20 Ceſais Ddafydd fy ngwaſanaethwr: enneiniais ef â'm holew ſanctaidd.

21 Yr hwn y ſicrheir fy llaw gyd ag ef: a'm braich a'i nertha ef.

22 Ni orthrymma y gelyn ef, a'r mab anwir nis cyſtuddia ef.

23 Ac mi a goethaf ei elynion o'i flaen, a'i gaſeion a darawaf.

24 Fy ngwirionedd hefyd, a'm trugaredd ſydd gyd ag ef: ac yn fy Enw y derchefir ei gorn ef.

25 A goſodaf ei law yn y môr, a'i ddeheulaw yn yr afonydd.

26 Efe a lefa arnaf, ti yw fy Nhâd, fy Nuw, a chraig fy eichydwriaeth.

27 Minneu a'i gwnâf yntef yn gynfab, goruwch brenhinoedd y ddaiar.

28 Cadwaf iddo fy nhrugaredd yn dragywydd: a'm cyfammod ſydd ſicr iddo.

29 Goſodaf hefyd ei hâd yn dragywydd: a'i orſeddfaingc fel dyddiau y nefoedd.

30 Os ei feibion a adawant fy nghyfraith: ac ni rodiant yn fy marnedigaethau,

31 Os fy neddfau a halogant: a'm gorchymynion ni chadwant,

32 Yna mi a ymwelaf â'u camwedd â gwialen, ac â'i hanwiredd â ffrewyllau.

33 Ond ni thorraf fy nhrugaredd oddi wrtho: ac ni phallaf o'm gwirionedd.

34 Ni thorraf fy nghyfammod: ac ni newidiaf yr hyn a ddaeth allan o'm genau.

35 Tyngais unwaith i'm ſancteiddrwydd, na ddywedwn gelwydd i Ddafydd.

36 Bydd ei hâd ef yn dragywydd, a'i orſeddfaingc fel yr haul ger fy mron i.

37 Sicrheir ef yn dragywydd fel y lleuad, ac fel tyſt ffyddlon yn y nef. *Selah.*

38 Ond ti a wrthodaiſt ac a ffieiddiaiſt, ti a ddigiaiſt wrth dy eneiniog.

39 Diddymmaiſt gyfammod dy wâs, halogaiſt ei goron gan ei thaflu i lawr.

40 Drylliaiſt ei holl gaeau ef, gwnaethoſt ei amddiffynfeydd yn adwyau.

41 Yr holl fforddolion a'i hyſpeiliant ef: aeth yn warthrudd iw gymmydogion.

42 Derchefaiſt ddeheu-law ei wrthwynebwyr, llawenheaiſt ei holl elynion.

43 Troiſt hefyd fin ei gleddyf, ac nis cadarnheaiſt ef mewn rhyfel.

44 Peraiſt iw harddwch ddarfod, a bwriaiſt ei orſedd-faingc i lawr.

45 Byrhaiſt ddyddiau ei ieungctid, toaiſt gywilydd troſto ef. *Selah.*

46 Py hŷd Arglwydd yr ymguddi, ai yn dragywydd? a lŷſc dy ddigofaint di fel tân?

47 Cofia pa amſer ſydd i mi: pa ham y creaiſt holl blant dynion yn ofer?

48 Pa ŵr a ſydd byw, ac ni wêl farwolaeth? a wared efe ei enaid o law'r bedd? *Selah.*

49 Pa le y mae dy hên drugareddau ô Arglwydd, y rhai a dyngaiſt i Ddafydd yn dy wirionedd?

56 Cofia ô Arglwydd wradwydd dy weiſion, yr hwn a ddygais yn fy mynwes gan yr holl bobloedd fawrion.

51 A'r hwn y gwaradwyddodd dy elynion ô Arglwydd; â'r hwn y gwradwyddaſant ôl troed dy eneiniog.

52 Bendigedic fyddo yr Arglwydd yn dragywydd. Amen, ac Amen.

Domine refugium. Pſal. 90.

Boreuol weddi.

TI Arglwydd fuoſt yn breſwylfa i ni ym mhob cenhedlaeth:

2 Cyn gwneuthur y mynyddoedd, a llunio o honot y ddaiar, a'r bŷd; ti hefyd wyt Dduw o dragywyddoldeb hyd dragywyddoldeb.

3 Troi ddyn i ddinistr; a dywedi, dychwelwch feibion dynion.

4 Canys mil o flynyddoedd ydynt yn dy olwg di fel doe, wedi 'r êl heibio, ac fel gwiliadwriaeth nôs.

5 Dygi hwynt ymaith megis â llifeiriant, y maent fel hûn: y borau y maent fel llyſieuyn a newidir.

6 Y boreu y blodeua, ac y tŷf: pryd nawn y torrir ef ymmaith, ac y gwywa.

7 Canys yn dy ddig y difethwyd ni, ac yn dy lidiawgrwydd i'n brawychwyd.

8 Goſodaiſt ein anwiredd ger dy fron, ein dirgel bechodau yngoleuni dy wyneb.

9 Canys ein holl ddyddiau ni a ddarfuant gan dy ddigofaint di: treuliaſom ein blynyddoedd fel chwedl.

10 Yn nyddiau ein blynyddoedd y mae deng mhlynedd a thrugain, ac os o gryfder y cyrhaeddir pedwar vgain mhlynedd, etto eu nerth ſydd boen, a blinder: canys ebrwydd y derfydd, ac ni a ehedwn ymmaith.

11 Pwy a edwyn nerth dy ſorriant: canys fel y mae dy ofn, y mae dy ddigter.

12 Diſc i ni felly gyfrif ein dyddiau, fel y dygom ein calon i ddoethineb.

13 Dychwel Arglwydd, pa hŷd? ac edifarhâ o ran dy weiſion.

14 Diwalla ni yn foreu â'th drugaredd, fel y gorfoleddom, ac y llawenychom dros ein holl ddyddiau.

15 Llawenhâ ni yn ôl y dyddiau y cyſtuddiaiſt ni, a'r blynyddoedd y gwelſom ddrygfyd.

16 Gweler dy waith tu ag at dy weiſion: a'th ogoniant tu ag at eu plant hwy.

17 A bydded prydſerthwch yr Arglwydd ein Duw arnom ni: a threfna weithred ein dwylo ynom ni, ie trefna waith ein dwylo.

Qui habitat. Pſal. 91.

YR hwn ſydd yn trigo yn nirgelwch y Goruchaf a erys ynghyſgod yr Holl-alluoc.

2 Dywedaf am yr Arglwydd, fy noddfa a'm amddiffynfa ydyw, fy Nuw, ynddo yr ymddiriedaf.

3 Canys efe a'th wareda di o fagl yr heliwr: ac oddiwrth haint echryſlon.

4 A'i aſgell y cyſgoda efe troſot, a than ei adenydd y byddi diogel: ei wirionedd ſydd darian, ac aſtalch i ti.

5 Nid ofni rhag dychryn nôs; na rhag y ſaeth a ehetto 'r dydd.

6 Na rhag yr haint a rodio yn y tywyllwch, na rhag y diniſtr a ddiniſtrio ganol dydd.

7 Wrth dy yſtlys y cwymp mil, a dengmil wrth dy ddehen law: ond ni ddaw yn agos attat ti.

8 Yn vnig ti a ganfyddi â'th lygaid, ac a weli dâl y rhai annuwiol.

9 Am i ti wneuthur yr Arglwydd fy noddfa, ſef y Goruchaf, yn breſſwylfa i ti:

10 Ni ddigwydd i ti niwed, ac ni ddaw pla yn agos i'th babell.

11 Canys efe a orchymyn iw Angelion am danat ti, dy gadw yn dy holl ffyrdd.

12 Ar eu dwylo i'th ddygant, rhag taro dy droed wrth garrec.

13 Ar y llew, a'r aſp y cerddi: y cenew llew, a'r ddraig a ſethri.

14 Am iddo roddi ei ſerch arnaf: am hynny y gwaredaf ef: am iddo adnabod fy Enw.

15 Efe a eilw arnaf, a mi a'i gwrandawaf: mewn ing y byddaf fi gyd ag ef, y gwaredaf, ac y gogoneddaf ef.

16 Digonaf ef â hir ddyddiau: a dangoſaf iddo fy iechydwriaeth.

Bonum eſt confiteri. Pſal. 92.

DA yw moliannu 'r Arglwydd: a chanu mawl i'th Enw di, y Goruchaf:

2 A mynegi y boreu am dy drugaredd, a'th wirionedd y noſweithiau.

3 Ar ddectant, ac ar nabl, ac ar delyn yn ſyſyriol.

4 Canys llawenychaiſt fi ô Arglwydd, â'th weithred: yngwaith dy ddwylo y gorfoleddaf.

5 Mor fawredic ô Arglwydd, yw dy weithredoedd, dwfn iawn yw dy feddylian.

6 Gŵr annoeth ni ŵyr, a'r ynfyd ni ddeall hyn.

7 Pan flodeno y rhai annuwiol fel llyſieun, a blaguro holl weithredwŷr anwiredd, hynny ſydd iw diniſtrio byth bythoedd.

8 Titheu Arglwydd wyt dderchafedic yn dragywydd.

9 Canys wele dy elynion ô Arglwydd, wele dy elynion, a ddifethir; gwaſcerir holl weithredwŷr anwiredd.

10 Ond fy nghorn i a dderchefi fel vnicorn, ag olew îr i'm enneinir.

11 Fy llygad hefyd a wêl fy ngwynfyd ar fy ngwrthwyneb-wŷr: fy nghluſtiau a glywant fy ewyllys am y rhai drygionus a gyfodant i'm herbyn.

12 Y cyfiawn a flodeua fel palm-wydden, ac a gynnydda fel cedr-wŷdden yn Libanus,

13 Y rhai a blannwyd yn nhŷ 'r Arglwydd, a flodeuant ynghynteddoedd ein Duw.

14 Ffrwythant etto yn eu henaint, tirfion, ac iraidd fyddant,

15 I fynegi mai vniawn yw 'r Arglwydd fy nghraig: ac nad oes anwiredd ynddo.

Dominus regnauit. Pſal. 93.

Prydnhawnol weddi.

YR Arglwydd ſydd yn teyrnaſu, efe a wiſcodd ardderchawgrwydd, gwiſcodd yr Arglwydd nerth ac ymwregyſodd: y bŷd hefyd a ſicrhawyd, fel na ſyſo.

2 Darparwyd dy orſeddfainge erioedd: ti wyt er tragywyddoldeb.

3 Y llifeiriaint, ô Arglwydd, a dderchafaſant, y llifeiriaint a dderchafaſant eu twrwf: y llifeiriaint a dderchafaſant eu tonnau.

6 Yr Arglwydd yn yr vchelder ſydd gadarnach

nâ thwrwf dyfroedd lawer, nâ chedyrn donnau y môr.

5 Sicer iawn yw dy dyſtiolaethau; ſancteiddrwydd a weddei i'th dŷ ô Arglwydd, byth.

Deus ultionum. *Pſal. 94.*

O Arglwydd Dduw 'r dial, ô Dduw 'r dial, ymddiſcleiria.

2 Ymddercha farnwr y bŷd: tâl eu gwobr i'r beilchion.

3 Pa hŷd Arglwydd y caiff yr annuwolion? pa hyd y caiff yr annuwiol orfoleddu?

4 Pa hyd y ſiaradant, ac y dywedant yn galed? yr ymfawryga holl weithred-wŷr anwiredd?

5 Dy bobl Arglwydd a ddrylliant: a'th etifeddiaeth a gyſtuddiant.

6 Y weddw a'r dieithr a laddant, a'r ymddifad a ddieneidiant.

7 Dywedant heſyd, ni wêl yr Arglwydd: ac nid yſtyria Duw Iacob hyn.

8 Yſtyriwch chwi rai annoeth ym myſc y bobl: ac ynfydion, pa bryd y deellwch?

9 Oni chlyw 'r hwn a blannodd y gluſt? oni wêl yr hwn a luniodd y llygad?

10 Oni cherydda 'r hwn a goſpa y cenhedloedd? oni ŵyr yr hwn ſydd yn dyſcu gwybodaeth i ddŷn.

11 Gŵyr yr Arglwydd feddyliau dŷn, mai gwagedd ydynt.

12 Gwyn ei fŷd y gŵr a geryddi di ô Arglwydd; ac a ddyſci yn dy gyfraith;

13 I beri iddo lonydd oddi wrth ddyddiau drygfyd; hyd oni chloddier ffôs i'r annuwiol.

14 Canys ni âd yr Arglwydd ei bobl, ac ni wrthyd efe ei etifeddiaeth.

15 Eithr barn a ddychwel at gyfiawnder, a'r holl rai vniawn o galon a ânt ar ei ôl.

16 Pwy a gyfyd gyd â mi yn erbyn y rai drygionus? pwy a ſaif gyd â mi yn erbyn gweithredwŷr anwiredd?

17 Oni buaſei 'r Arglwydd yn gymmorth i mi, braidd na thrigaſei fy enaid mewn diſtawrwydd.

18 Pan ddywedais, llithrodd fy nhroed, dy drugaredd di ô Arglwydd, a'm cynhaliodd.

19 Yn amlder fy meddyliau o'm mewn, dy ddiddanwch di a lawenycha fy enaid.

20 A fydd cydymdeithas i ti â gorſeddfainge anwiredd: yr hon a lunia anwiredd yn lle cyfraith?

21 Yn finteioedd y denant yn erbyn enaid y cyfiawn: a gwaed gwirion a farnant yn euog.

22 Eithr yr Arglwydd ſydd yn amddeffynfa i mi, a'm Duw yw craig fy nodded.

23 Ac efe a dâl iddynt eu hanwiredd, ac a'i tyrr ymmaith yn eu drygioni: yr Arglwydd ein Duw a'i tyrr hwynt ymmaith.

Venite, exultemus. *Pſal. 95.*

Boreuol weddi.

DEuwch, canwn i'r Arglwydd; ymlawenhawn yn nerth ein hiechyd.

2 Deuwn ger ei fron ef â diolch: canwn yn llafar iddo â Pſalmau.

3 Canys yr Arglwydd ſydd Dduw mawr, â brenin mawr goruwch yr holl dduwiau.

4 Yr hwn y mae gorddyfnderau y ddaiar yn ei law: ac vchelderau y mynyddoedd yn eiddo.

5 Y môr ſydd eiddo, ac efe a'i gwnaeth: a'i ddwylo a luniaſant y ſych-dir.

6 Deuwch addolwn, ac ymgrymmwn: goſtyngwn ar ein gliniau ger bron yr Arglwydd ein gwneuthur-wr.

7 Canys efe yw ein Duw ni: a ninneu yw bobl ei borfa, a defaid ei law: heddyw os gwrandewch ar ei leferydd,

8 Na chaledwch eich calonnau, megis yn yr ymryſonfa, fel yn nydd Profedigaeth yn yr anialwch.

9 Pan demptiodd eich tadau fi: y profaſant fi, ac y gwelſant fy ngweithredoedd.

10 Deugain mlynedd yr ymryſonais â'r genhedlaeth hon, a dywedais: pobl gyfeiliornus yn eu calon ydynt hwy, ac nid adnabuant fy ffyrdd.

11 Wrth y rhai y tyngais yn fy llid: na ddelent i'm gorphwyſfa.

Cantate Domino. *Pſal. 69.*

CEnwch i'r Arglwydd ganiad newydd: cenwch i'r Arglwydd, yr holl ddaiar.

2 Cenwch i'r Arglwydd, bendigwch ei enw: cyhoeddwch o ddydd i ddydd ei iechydwriaeth ef.

3 Dadcenwch ym myſc y cenhedloedd ei ogoniant ef, ym mhlith yr holl bobloedd ei ryfeddodau.

4 Canys mawr yw 'r Arglwydd, a chanmoladwy iawn, ofnadwy yw efe goruch yr holl dduwiau.

5 Canys holl dduwiau 'r bobloedd ydynt eulynnod, ond yr Arglwydd a wnaeth y nefoedd.

6 Gogoniant, a harddwch ſydd o'i flaen ef, nerth a hyfrydwch ſydd yn ei gyſſegr.

7 Tylwythau y bobl, rhoddwch i'r Arglwydd, rhoddwch i'r Arglwydd ogoniant a nerth.

8 Roddwch i'r Arglwydd ogoniant ei enw: dygwch offrwm, a deuwch iw gynteddoedd.

9 Addolwch yr Arglwydd mewn prydferthwch ſancteiddrwydd: yr holl ddaiar ofnwch ger ei fron ef.

10 Dywedwch ym myſc y cenhedloedd, yr Arglwydd ſydd yn teyrnaſu: a'r byd a ſicrhaodd efe, fel nad yſcogo: efe a farna y bobl yn vniawn.

11 Llawenhaed y nefoedd, a gorfoledded y ddaiar: rhûed y môr ai gyflawnder.

13 O flaen yr Arglwydd. Canys y mae yn dyfod, canys y mae 'n dyfod i farnu 'r ddaiar: efe a farna 'r byd drwy gyfiawnder, a'r bobloedd â'i wirionedd.

Dominus regnavit. *Pſal. 97*

YR Arglwydd ſydd yn teyrnaſu, gorfoledded y ddaiar, llawenyched yr yniſoedd lawer.

2 Cymmylau a thywyllwch ſydd o'i amgylch ef: cyfiawnder, a barn yw trigfa ei orſedd-fainge ef.

3 Tân â allan o'i flaen ef, ac a lyſc ei elynion o amgylch.

4 Ei fellt a llewyrchaſant y byd, y ddaiar a welodd, ac a grynodd.

5 Y mynyddoedd a doddaſant fel cwyr o flaen yr Arglwydd yr holl ddaiar.

6 Y nefoedd a fynegant ei gyfiawnder ef: a'r holl bobl a welant ei ogoniant.

7 Gwradwydder y rhai oll a waſanaethant ddelw gerfiedic, y rhai a ymffroſtiant mewn eulynnod: addolwch ef yr holl dduwiau.

8 Sion a glywodd, ac a lawenychodd: a merched Iuda a orfoleddaſant: o herwydd dy farnedigaethau di, ô Arglwydd.

9 Canys ti Arglwydd wyt oruchel goruwch yr holl dduwiau.

10 Y rhai a gerwch y Arglwydd, caſewch ddrygioni: efe ſydd yn cadw eneidiau ei ſaint; efe a'i gwared o law y rhai annuwiol.

11 Hauwyd goleuni i'r cyfiawn, a llawenydd i'r rhai vniawn o galon.

12 Y rhai cyfiawn, llawenychwch yn yr Arglwydd: a molienwch wrth goffadwriaeth ei ſancteiddrwydd ef.

Cantate Domino. *Pſal. 98.*

Pryd-
[illegible]
weddi.

CEnwch i'r Arglwydd ganiad newydd: canys efe a wnaeth bethau rhyfedd: â'i ddeheulaw, â'i fraich ſanctaidd y parodd iddo fuddugoliaeth.

2 Yſpyſodd yr Arglwydd ei iechydwriaeth : a datcuddiodd ei gyfiawnder yngolwg y cenhedloedd.

3 Cofiodd ei drugaredd, a'i wirionedd i dŷ Iſrael : a holl derfynau y ddaiar a welſant iechydwriaeth ein Duw ni.

4 Cenwch yn llafar i'r Arglwydd, yr holl ddaiar : llefwch, ac ymlawenhewch, a chenwch.

5 Cenwch i'r Arglwydd gyd â'r delyn : gyd â'r delyn, â llef Pſalm.

6 Cenwch yn llafar o flaen yr Arglwydd y Brenin : ar yr vd-cyrn, a ſain cornet.

7 Rhued y môr ac ſydd ynddo, y byd a'r rhai a drigant o'i fewn.

8 Cured y llifeiriaint eu dwylo : a chyd-ganed y mynyddoedd o flaen yr Arglwydd, canys efe a ddaeth i farnu y ddaiar.

9 Efe a farna yr bŷd mewn cyfiawnder : a'r bobloedd mewn vniondeb.

Dominus regnauit. *Pſal.* 99.

YR Arglwydd ſydd yn teyrnaſu, cryned y bobloedd : eiſtedd y mae rhwng y Cherubiaid, ymgynhyrfed y ddaiar.

2 Mawr yw 'r Arglwydd yn Sion, a derchafedic yw ef goruwch yr holl bobloedd.

3 Moliannant dy Enw mawr ac ofnadwy : canys ſanctaidd yw.

4 A nerth y brenin a hoffa farn, ti a ſicrhei vniondeb, barn, a chyfiawnder a wnai di yn Iacob.

5 Derchefwch yr Arglwydd ein Duw, ac ymgrymmwch o flaen ei ſtôl draed ef, canys ſanctaidd yw.

6 Moſes ac Aaron ym mhlith ei offeiriaid ef ; a Samuel ymmyſc y rhai a alwant ar ei Enw, galwaſant ar yr Arglwydd, ac efe a'i gwrandawodd hwynt.

7 Llefarodd wrthynt yn y golofn gwmmwl, cadwaſant ei dyſtiolaethau, a'r Ddeddf a roddodd efe iddynt.

8 Gwrandewaiſt arnynt ô Arglwydd ein Duw : Duw oeddit yn eu harbed, ie pan ddielit am eu dychymmygion.

9 Derchefwch yr Arglwydd ein Duw, ac ymgrymmwch ar ei fynydd ſanctaidd ; canys ſanctaidd yw 'r Arglwydd ein Duw.

Jubilate Deo. *Pſal.* 100.

CEnwch yn llafar i'r Arglwydd, yr holl ddaiar : 2 Gwaſanaethwch yr Arglwydd mewn llawenydd, deuwch o'i flaen efe â chân.

3 Gwybyddwch mai yr Arglwydd ſydd Dduw : efe a'n gwnaeth, ac nid ni ein hunain ; ei bobl ef ydym, a defaid ei borfa.

4 Ewch i mewn iw byrth ef a diolch, ac iw gynteddau a mawl, diolchwch iddo, a bendithiwch ei Enw.

5 Canys da yw 'r Arglwydd, ei drugaredd ſydd yn dragywydd, a'i wirionedd hyd genhedlaeth a chenhedlaeth.

Miſericordiam & iudicium. *Pſal.* 101.

CAnaf am drugaredd a barn : i ti Arglwydd y canaf.

2 Byddaf ddeallus mewn ffordd berffaith : hyd y deui attaf ? rhodiaf mewn perffeithrwydd fy nghalon, o fewn fy nhŷ.

3 Ni oſodaf ddim anwir o flaen fy llygaid, cas gennif waith y rhai cildynnus, ni lŷn wrthif fi.

4 Calon gyndyn a gilia oddi wrthif, nid adnabyddaf ddrygionus.

5 Torraf ymmaith yr hwn a enllibio ei gymmydog yn ddirgel : yr uchel olwg a'r balch ei galon, ni allaf ei ddioddef.

6 Fy llygaid fydd ar ffyddloniaid y tir, fel y trigent gyd â mi : yr hwn a rodio mewn ffordd berffaith, hwnnw a'm gwaſanaetha i.

7 Ni thrig o fewn fy nhŷ yr vn a wnelo dwyll : ni thrig yn fy ngolwg yr vn a ddywedo gelwydd.

8 Yn foreu y torraf ymmaith holl annuwolion y tir : i ddiwreiddio holl weithredwŷr anwiredd o ddinas yr Arglwydd.

Domine exaudi. *Pſal.* 102.

ARglwydd clyw fy ngweddi, a deled fy llef attat.

Boreuol weddi.

2 Na chudd dy wyneb oddi wrthif, yn nydd fy nghyfyngder goſtwng dy gluſt attaf : yn y dydd y galwyf, bryſſia, gwrando fi.

3 Canys fy nyddiau a ddarfuant fel mŵg : a'm heſcyrn a boethaſant fel aelwyd.

4 Fy nghalon a darawyd, ac a wywodd fel llyſſieun : fel yr anghofiais fwytta fy mara.

5 Gan lais fy nhuchan y glynodd fy eſcyrn wrth fy nghnawd.

6 Tebyg wyf i belican yr anialwch, ydwyf fel dylluan y diffaethwch.

7 Gwiliais, ac ydwyf fel aderyn y tô, vnic ar ben y tŷ.

8 Fy ngelynion a'm gwaradwyddant beunydd : y rhai a ynfydant wrthif a dyngaſant yn fy erbyn.

9 Canys bwytteais ludw fel bara : a chymmyſcais fy niod ag wylofain,

10 O herwydd dy lid ti a'th ddigofaint : canys codaiſt fi i fynu, a theflaiſt fi i lawr.

11 Fy nyddiau ſydd fel cyſcod yn cilio ; a minneu fel glaſwelltyn a wywais.

12 Titheu Arglwydd a barhei yn dragywyddol : a'th goffadwriaeth hyd genhedlaeth a chenhedlaeth.

13 Ti a gyfodi, ac a drugarhei wrth Sion : canys yr amſer i drugarhau wrthi, ie yr amſer nodedic, a ddaeth.

14 Oblegit y mae dy weiſion yn hoffi ei meini : ac yn toſturio wrth ei llwch hi.

15 Felly y cenhedloedd a ofnant enw 'r Arglwydd : a holl frenhinoedd y ddaiar dy ogoniant.

16 Pan adeilado yr Arglwydd Sion, y gwelir ef yn ei ogoniant.

17 Efe a edrych ar weddi y gwael : ac ni ddiyſtyrodd eu dymuniad.

18 Hyn a ſcrifennir i'r genhedlaeth a ddêl, a'r bobl a greir a foliannant yr Arglwydd.

19 Canys efe a edrychodd o vchelder ei gyſſegr : yr Arglwydd a edrychodd o'r nefoedd ar y ddaiar.

20 I wrando vchenaid y carcharorion : ac i ryddhau plant angeu.

21 I fynegi Enw 'r Arglwydd yn Sion, a'i foliant yn Ieruſalem :

22 Pan gaſcler y bobl ynghyd : a'r teyrnaſoedd i waſanaethu 'r Arglwydd.

23 Goſtyngodd efe fy nerth ar y ffordd, byrhaodd fy nyddiau.

24 Dywedais, fy Nuw na chymmer fi ymmaith ynghanol fy nyddiau : dy flynyddoedd di ſydd yn oes oeſoedd.

25 Yn y dechreuad y ſeiliaiſt y ddaiar, a'r nefoedd ydynt waith dy ddwylo.

26 Hwy a ddarfyddant, a thi a barhêi, ie hwy oll a heneiddiant fel dilledyn : fel gwiſc y newidi hwynt, a hwy a newidir.

27 Titheu 'r vn ydwyt, a'th flynyddoedd ni ddarfyddant.

28 Plant dy weiſion a barhânt, a'i hâd a ſicrheir ger dy fron di.

Benedic anima mea. Pſal. 103.

FY enaid, bendithia 'r Arglwydd, a chwbl ſydd ynof, ei Enw ſanctaidd ef.

2 Fy enaid, bendithia 'r Arglwydd, ac nac angefia ei holl ddoniau ef.

3 Yr hwn ſydd yn maddeu dy holl anwireddau: yr hwn ſydd yn iachâu dy holl leſcedd.

4 Yr hwn ſydd yn gwaredu dy fywyd o ddiſtryw, yr hwn ſydd yn dy goroni â thrugaredd, ac â thoſturi.

5 Yr hwn ſydd yn diwallu dy enau â daioni: fel yr adnewyddir dy ieuengtid fel yr eryr.

6 Yr Arglwydd ſydd yn gwneuthur cyfiawnder, a barn i'r rhai gorthrymmedic oll.

7 Yſpyſſodd ei ffyrdd i Moſes; ei weithredoedd i feibion Iſrael.

8 Trugarog, a graſ-lawn yw 'r Arglwydd: hwyrfrydic i lid, a mawr o drugarogrwydd.

9 Nid byth yr ymryſſon efe, ac nid byth y ceidw efe ei ddigofaint.

10 Nid yn ôl ein pechod y gwnaeth efe â ni; ac nid yn ôl ein anwireddau y talodd efe i ni.

11 Canys cyfuwch ac yw 'r nefoedd uwchlaw 'r ddaiar, y rhagorodd ei drugaredd ef ar y rhai a'i hofnant ef.

12 Cyn belled ac yw 'r dwyrain oddi wrth y gorllewin, y pellhaodd efe ein camweddau oddi wrthym.

13 Fel y toſturia tâd wrth ei blant, felly y toſturia yr Arglwydd wrth y rhai a'i hofnant ef.

14 Canys efe a edwyn ein defnydd ni: coſia mai llwch ydym.

15 Dyddiau dŷn ſydd fel glaſwelltyn: megis blodeuyn y maes, felly y blodeua efe.

16 Canys y gwynt â troſto, ac ni bydd mwy o honaw; a'i le nid edwyn ddim o honaw ef mwy.

17 Ond trugaredd yr Arglwydd ſydd o dragywyddoldeb hyd dragywyddoldeb, ar y rhai a'i hofnant ef: a'i gyfiawnder i blant eu plant:

18 I'r ſawl a gadwant ei gyfammod ef: ac a gofiant ei orchymynion, iw gwneuthur.

19 Yr Arglwydd a baratôdd ei orſeddfa yn y nefoedd: a'i frenhiniaeth ef ſydd yn llywodraethu ar bôb peth.

20 Bendithiwch yr Arglwydd, ei angelion ef: cedyrn o nerth yn gwneuthur ei air ef, gan wrando ar leferydd ei air ef.

21 Bendithiwch yr Arglwydd, ei holl luoedd ef: ei holl weiſion yn gwneuthur ei ewyllys ef.

22 Bendithiwch yr Arglwydd, ei holl weithredoedd ef: ym mhob man o'i lywodraeth. Fy enaid, bendithia 'r Arglwydd.

Benedic anima mea. Pſal. 104.

Prydnhawnol weddi.

FY enaid, bendithia 'r Arglwydd, ô Arglwydd fy Nuw tra mawr ydwyt: â gwiſcaiſt ogoniant, a harddwch.

2 Yr hwn wyt yn gwiſco goleuni fel dilledyn: ac yn tannu y nefoedd fel llen.

3 Yr hwn ſy yn goſod tylathau ei ſtafelloedd yn y dyfroedd, yn gwneuthur y cwmylau yn gerbyd iddo: ac yn rhodio ar adenydd y gwynt.

4 Yr hwn ſydd yn gwneuthur ei gennadon yn yſprydion: a'i weinidogion yn dân fflamllyd.

5 Yr hwn a ſeiliodd y ddaiar ar ei ſylfeini: fel na ſymmudo byth, yn dragywydd.

6 Toaiſt hi â'r gorddyfnder, megis â gwiſc: y dyfroedd a ſafent goruwch y mynyddoedd.

7 Gan dy gerydd di y ffoeſant; rhag ſŵn dy daran y pryſuraſant ymaith.

8 Gan y mynyddoedd yr ymgodant, ar hyd y dyffrynnoedd y diſcynnant, i'r lle a ſeiliaiſt iddynt.

9 Goſodaiſt derfyn, fel nad elont troſodd, fel na ddychwelont i orchguddio 'r ddaiar.

10 Yr hwn a yrr ffynhonnau i'r dyffrynnoedd, y rhai a gerddant rhwng y bryniau.

11 Diodant holl fwyſtfilod y maes: yr aſynnod gwylltion a dorrant eu ſyched.

12 Adar y nefoedd a drigant ger llaw iddynt: y rhai a leiſiant oddi rhwng y cangau.

13 Y mae efe yn dwfrhau y bryniau o'i ſtafelloedd: y ddaiar a ddigonir o ffrwyth dy weithredoedd.

14 Y mae yn peri i'r gwellt dyfu i'r anifeiliaid, a llyſiau i waſanaeth dŷn: fel y dygco fara allan o'r ddaiar:

15 A gwin, yr hwn a lawenycha galon dŷn, ac olew i beri iw wyneb ddiſcleirio: a bara, yr hwn a gynnal galon dŷn.

16 Prennau 'r Arglwydd ſydd lawn ſugn: cedrwydd Libanus y rhai a blannodd efe.

17 Lle y nytha 'r adar: y ffynidwydd yw tŷ y Ciconia.

18 Y mynyddoedd uchel ſydd noddfa i'r geifr: a'r creigiau i'r cwningod.

19 Efe a wnaeth y lleuad i amſerau nodedic: yr haul a edwyn ei fachludiad.

20 Gwnei dywyllwch, a nôs fydd: ynddi yr ymluſca pôb bwyſt-fil coed.

21 Y cenawon llewod a rûant am yſclyfaeth, ac a geiſiant eu bwyd gan Dduw.

22 Pan gôdo haul, ymgaſclant, a gorweddant yn eu llocheſau.

23 Dŷn a â allan iw waith, ac iw orchwyl hyd yr hwyr.

24 Mor lluoſog yw dy weithredoedd, o Arglwydd! gwnaethoſt hwynt oll mewn doethineb, llawn yw 'r ddaiar o'th gyfoeth.

25 Felly y mae y môr mawr, llydan: yno y mae ymluſciaid heb rifedi, bwyſt-filod bychain a mawrion.

26 Yno 'r â y llongau: yno y mae 'r Lefiathan, yr hwn a luniaiſt i chwarae ynddo.

27 Y rhai hyn oll a ddiſgwiliant wrthit, am roddi iddynt eu bwyd yn ei brŷd.

28 A roddech iddynt a gaſclant, agori dy law a diwellir hwynt â daioni.

29 Ti a guddi dy wyneb, hwythau a drallodir: dygi ymaith eu hanadl, a threngant, a dychwelant iw llwch.

30 Pan ollyngych dy yſpryd y crëir hwynt, ac yr adnewyddi wyneb y ddaiar.

31 Gogoniant yr Arglwydd ſydd yn dragywydd: yr Arglwydd a lawenycha yn ei weithredoedd.

32 Efe a edrych ar y ddaiar, a hi a gryna, efe a gyffwrdd â'r mynyddoedd, a hwy a fygant.

33 Canaf i'r Arglwydd tra fyddwyf fyw, canaf i'm Duw tra fyddwyf.

34 Bydd melys fy myfyrdod amdano: mi a lawenychaf yn yr Arglwydd.

35 Derfydded y pechaduriaid o'r tîr, na fydded yr annuwolion mwy: fy enaid bendithia di 'r Arglwydd. Molwch yr Arglwydd.

Confitemini Domino. Pſal. 105.

Boreuol weddi.

CLodforwch yr Arglwydd, gelwch ar ei Enw: mynegwch ei weithredoedd ym myſc y bobloedd.

2 Cenwch iddo, canmolwch ef: ymddiddenwch am ei holl ryfeddodau ef.

3 Gorfoleddwch yn ei Enw ſanctaidd; llawenyched calon y rhai a geiſiant yr Arglwydd.

4 Ceiſiwch yr Arglwydd a'i nerth: ceiſiwch ei wyneb ef bôb amſer.

5 Coſiwch ei ryfeddodau, y rhai a wnaeth efe: ei wrthiau, a barnedigaethau ei enau;

6 Chwi hâd Abraham ei wâs ef: chwi meibion Iacob ei etholedigion.

7 Efe yw 'r Arglwydd ein Duw ni, ei farnedigaethau ef ſydd trwy 'r holl ddaiar.

8 Coſiodd ei gyfammod byth: y gair a orchymynnodd efe i fil o genhedlaethau:

9 Yr hwn a ammododd efe ag Abraham, a'i lŵ i Iſaac.

10 A'r hwn a oſododd efe yn ddeddf i Iacob, ac yn gyfammod tragywyddol i Iſrael;

11 Gan ddywedyd, i ti y rhoddaf dir Canaan, rhandir eich etifeddiaeth.

12 Pan oeddynt ychydig o rifedi, ie ychydig, a dieithriaid ynddi:

13 Pan rodient o genhedlaeth i genhedlaeth: o'r naill deyrnas at bobl arall:

14 Ni adawodd i neb eu gorthrymmu, ie ceryddodd frenhinoedd o'i plegit:

15 Gan ddywedyd, na chyffyrddwch â'm rhai eneiniog, ac na ddrygwch fy mhrophwydi.

16 Galwodd hefyd am newyn ar y tîr: a diniſtriodd holl gynhaliaeth bara.

17 Anfonodd ŵr o'i blaen hwynt, Ioſeph yr hwn a werthwyd yn wâs.

18 Cyſtuddiaſant ei draed ef mewn gefyn: ei enaid aeth mewn heirn:

19 Hyd yr amſer y daeth ei air ef; gair yr Arglwydd a'i profodd ef.

20 Y brenin a anfonodd, ac a'i gollyngodd ef, llywodraeth-wr y bobl, ac a'i rhyddhâodd ef.

21 Goſododd ef yn Arglwydd ar ei dŷ, ac yn llywydd ar ei holl gyfoeth:

22 I rwymo ei dywyſogion ef wrth ei ewyllys, ac i ddyſcu doethineb iw henuriaid ef.

23 Aeth Iſrael hefyd i'r Aipht, ac Iacob a ymdeithiodd yn nhîr Ham.

24 Ac efe a gynnyddodd ei bobl yn ddirfawr; ac a'i gwnaeth yn gryfach na'i gwrthwynebwŷr.

25 Trôdd eu calon hwynt i gaſau ei bobl ef, i wneuthur yn ddichellgar â'i weiſion.

26 Efe a anfonodd Moſes ei wâs, ac Aaron yr hwn a ddewiſaſei.

27 Hwy a ddangoſaſant ei arwyddion ef yn eu plith hwynt: a rhyfeddodau yn nhîr Ham.

28 Efe a anfonodd dywyllwch, ac a dywyllodd: ac nid anufyddhaſant hwy ei air ef.

29 Efe a drôdd eu dyfroedd yn waed, ac a laddodd eu pyſcod.

30 Eu tîr a heigiodd lyffaint, yn ſtafelloedd eu brenhinoedd.

31 Efe a ddywedodd, a daeth cymmyſc-bla, a llau yn eu holl fro hwynt.

32 Efe a wnaeth eu glaw hwynt yn genllyſc, ac yn fflammau tân yn eu tîr.

33 Tarawodd hefyd eu gwinwŷdd, a'i ffigyſwydd: ac a ddrylliodd goed eu gwlad hwynt.

34 Efe a ddywedodd, a daeth y locuſtiaid, a'r lindys yn aneirif,

35 Y rhai a ſwyttaſant yr holl laſ-wellt yn eu tîr hwynt: ac a ddifaſant ffrwyth eu daiar hwynt.

36 Tarawodd hefyd bôb cyntaf-anedic yn eu tîr hwynt, blaen-ffrwyth eu holl nerth hwynt.

37 Ac a'i dûg hwynt allan ag arian, ac ag aur: ac heb yn llesc yn eu llwythau.

38 Llawenychodd yr Aipht pan aethant allan, canys ſyrthiaſei eu harſwyd arnynt hwy.

39 Efe a daenodd gwmmwl yn dô, a thân i oleuo liw nôs.

40 Goſynnaſant, ac efe a ddûg ſoſ-ieir, ac a'i diwallodd â bara nefol.

41 Efe a holltodd y graig, a'r dyfroedd a ddyliſodd, cerddaſant ar hyd lleoedd ſychion yn afonydd.

42 Canys efe a goſiodd ei air ſanctaidd, ac Abraham ei wâs.

43 Ac a ddûg ei bobl allan mewn llawenydd: ei etholedigion mewn gorfoledd.

44 Ac a roddes iddynt diroedd y cenhedloedd: a meddiannaſant lafur y bobloedd.

45 Fel y cadwent ei ddeddfau ef, ac y cynhalient ei gyfreithiau. Molwch yr Arglwydd.

Confitemini Domino. *Pſal.* 106.

Pryd nhaw wedd

MOlwch yr Arglwydd. Clodforwch yr Arglwydd, canys da yw: o herwydd ei drugaredd a bery yn dragywydd.

2 Pwy a draetha nerthoedd yr Arglwydd? ac a fynega ei holl fawl ef?

3 Gwyn eu byd a gadwant farn: a'r hwn a wnêl gyfiawnder bôb amſer.

4 Coſia fi Arglwydd yn ôl dy raſlonrwydd i'th bobl, ymwel â mi â'th iechydwriaeth.

5 Fel y gwelwyf ddaioni dy etholedigion, fel y llawenychwyf yn llawenydd dy genhedl di: fel y gorfoleddwyf gyd â'th etifeddiaeth.

6 Pechaſom gyd â'n tadau, gwnaethom gamwedd, anwireddus fuom.

7 Ein tadau ni ddeallaſant dy ryfeddodau yn yr Aipht, ni choſiaſant luoſogrwydd dy drugareddau, eithr gwrth-ryfelgar fuant wrth y môr, ſef y môr coch.

8 Etto efe a'i hachubodd hwynt er mwyn ei enw: i beri adnabod ei gadernid.

9 Ac a geryddodd y môr coch, fel y ſychodd efe: a thywyſodd hwynt trwy 'r dyfnder megis trwy 'r anialwch:

10 Achubodd hwynt hefyd o law eu digaſog: ac a'i gwaredodd o law y gelyn.

11 A'r dyfroedd a doeſant eu gwrthwynebwŷr: ni adawyd un o honynt.

12 Yna y credaſant ei eiriau ef: canaſant ei fawl ef.

13 Yn y ſan yr anghofiaſant ei weithredoedd ef, ni ddiſgwiliaſant am ei gyngor ef.

14 Eithr blyſiaſant yn ddirfawr yn yr anialwch: a themptiaſant Dduw yn y diffaethwch.

15 Ac efe a roddes eu dymuniad iddynt, eithr efe a anfonodd gulni iw henaid.

16 Cynfigennaſant hefyd wrth Moſes yn y gwerſyll: ac wrth Aaron ſanct yr Arglwydd.

17 Y ddaiar a agorodd, ac a lyncodd Ddathan, ac a orchguddiodd gynnulleidfa Abiram.

18 Cynneuodd tân hefyd yn eu cynnulleidfa hwynt: fflam a loſcodd y rhai annuwiol.

19 Llô a wnaethant yn Horeb: ac ymgrymmaſant i'r ddelw dawdd.

20 Felly y troeſant eu gogoniant i lûn eidion yn pori glaſ-wellt.

21 Anghofiaſant Dduw eu hachub-wr, yr hwn a wnelſei bethau mawrion yn yr Aipht:

22 Pethau rhyfedd yn nhîr Ham: pethau ofnadwy wrth y môr coch.

23 Am hynny y dywedodd y diniſtriai efe hwynt, oni buaſe i Moſes ei etholedig ſefyll ar yr adwy o'i flaen ef, i droi ymmaith ei lidiawgrwydd ef, rhag eu diniſtrio.

24 Diſtyraſant hefyd y tîr dymunol: ni chredaſant ei air ef:

25 Onid grwgnachaſant yn eu pebyll: ac ni wrandawſant ar lais yr Arglwydd.

26 Yna y dyrchafodd efe ei law yn eu herbyn hwynt, iw cwympo yn yr anialwch;

27 Ac i gwympo eu hâd ym myſc y Cenhedloedd, ac iw gwaſcaru yn y tiroedd.

28 Ymgyſſylltaſant hefyd a Baal-peor, a bwyttaſant ebyrth y meirw.

29 Felly y digiaſant ef â'i dychymmygion eu hun: ac y tarawodd plâ yn eu myſc hwy.

30 Yna y ſafodd Phinches, ac a iawn farnodd: a'r plâ a attaliwyd.

31 A chyfrifwyd hyn iddo yn gyfiawnder: o genhedlaeth i genhedlaeth byth.

32 Llidiaſant ef hefyd wrth ddyfroedd y gynnen: fel y bu ddrwg i Moſes o'i plegit hwynt:

33 O herwydd cythruddo o honynt ei yſpryd ef, fel y camddywedodd â'i weſuſau.

34 Ni ddiniſtriaſant y bobloedd, am y rhai y dywedaſei 'r Arglwydd wrthynt:

35 Eithr ymgymmyſcaſant â'r Cenhedloedd: a dyſcaſant eu gweithredoedd hwynt:

36 A gwaſanaethaſant eu delwau hwynt, y rhai a fu yn fagl iddynt.

37 Aberthaſant hefyd eu meibion, a'i merched i gythreuliaid,

38 Ac a dywalltaſant waed gwirion, ſef gwaed eu meibion, a'i merched, y rhai a aberthaſant i ddelwau Canaan, a'r tir a halogwyd â gwaed.

39 Felly 'r ymhalogaſant yn eu gweithredoedd eu hun, ac y putteiniaſant gyd â'i dychymmygion.

40 Am hynny y cynneuodd dîg yr Arglwydd yn erbyn ei bobl, fel y ffieiddiodd efe ei etifeddiaeth.

41 Ac efe a'i rhoddes hwynt yn llaw 'r cenhedloedd, a'i caſeion a lywodraethaſant arnynt.

42 Eu gelynion hefyd a'i gorthrymmaſant; a darostyngwyd hwynt tan eu dwylo hwy.

43 Llawer gwaith y gwaredodd efe hwynt, hwythau a'i digiaſant ef â'i cyngor eu hun: a hwy a wanhychwyd am eu hanwiredd.

44 Etto efe a edrychodd pan oedd ing arnynt: pan glywodd eu lleſain hwynt.

45 Ac efe a gofiodd ei gyfammod â hwynt, ac a edifarhaodd yn ôl lluoſogrwydd ei drugareddau:

46 Ac a wnaeth iddynt gael trugaredd gan y rhai oll a'i caethiwai.

47 Achub ni ô Arglwydd ein Duw, a chynnull ni o blith y cenhedloedd, i glodfori dy Enw ſanctaidd: ac i orfoleddu yn dy foliant.

48 Bendigedic fyddo Arglwydd Dduw Iſrael, er ioed, ac yn dragywydd: a dyweded yr holl bobl, Amen. Molwch yr Arglwydd.

Confitemini Domino. Pſal. 107.

Boreuol weddi.

CLodforwch yr Arglwydd canys da yw: o herwydd ei drugaredd ſydd yn dragywydd.

2 Felly dyweded gwaredigion yr Arglwydd, y rhai a waredodd efe o law y gelyn;

3 Ac a gaſclodd efe o'r tiroedd, o'r dwyrain, ac o'r gorllewin, o'r gogledd, ac o'r dehau.

4 Crwydraſant yn yr anialwch mewn ffordd ddiſathr: heb gael dinas i aros ynddi:

5 Yn newynog ac yn ſychedig: eu henaid a lewygodd ynddynt.

6 Yna y lleſaſant ar yr Arglwydd yn eu cyfyngder: ac efe a'i gwaredodd o'i gorthrymderau.

7 Ac a'i tywyſodd hwynt ar hŷd y ffordd vniawn, i fyned i ddinas gyfanneddol.

8 O na foliannent yr Arglwydd am ei ddaioni, a'i ryfeddodau i feibion dynion.

9 Canys efe a ddiwalla yr enaid ſychedig, ac a leinw yr enaid newynog â daioni.

10 Y rhai a breſwyliant yn y tywyllwch a chyſcod angeu, yn rhwym mewn cyſtudd a haiarn:

11 O herwydd annufyddhau o honynt eiriau Duw, a dirmygu cyngor y Goruchaf:

12 Am hynny yntef a oſtyngodd eu calon â blinder; ſyrthiaſant, ac nid oedd cynnorthwywr.

13 Yna y gwaeddaſant ar yr Arglwydd yn eu cyfyngder: efe a'i hachubodd o'i gorthrymderau.

14 Dug hwynt allan o dywyllwch, a chyſcod angeu: a drylliodd eu rhwymau hwynt.

15 O na foliannent yr Arglwydd am ei ddaioni, a'i ryfeddodau i feibion dynion.

16 Canys efe a dorrodd y pyrth prês, ac a ddrylliodd y barrau heirn.

17 Ynfydion oblegit eu camweddau, ac o herwydd eu hanwireddau a gyſtuddir.

18 Eu henaid a ffieiddiei bôb bwyd: a daethant hyd byrth angeu.

19 Yna y gwaeddaſant ar yr Arglwydd yn eu cyfyngder: ac efe a'i hachubodd o'i gorthrymderau.

20 Anfonodd ei air, ac iachaodd hwynt, ac a'i gwaredodd o'i diniſtr.

21 O na foliannent yr Arglwydd am ei ddaioni, a'i ryfeddodau i feibion dynion.

22 Aberthant hefyd aberth moliant: a mynegant ei weithredoedd ef mewn gorfoledd.

23 Y rhai a ddeſcynnant mewn llongau i'r môr, gan wneuthur eu gorchwyl mewn dyfroedd mawrion:

24 Hwy a welant weithredoedd yr Arglwydd: a'i ryfeddodau yn y dyfnder.

25 Canys efe a orchymmyn, a chyfyd tymheſtlwynt: yr hwn a dderchafa ei donnau ef.

26 Hwy a eſcynnant i'r nefoedd, deſcynnant i'r dyfnder, tawdd eu henaid gan flinder.

27 Ymdroant, ac ymſymmudant fel meddwyn: a'i holl ddoethineb a ballodd.

28 Yna y gwaeddant ar yr Arglwydd yn eu cyfyngder, ac efe a'i dwg allan o'i gorthrymderau.

29 Efe a wna yr ſtorm yn dawel: a'i tonnau a oſtegant.

30 Yna y llawenhânt am eu goſtegu, ac efe a'i dwg i'r porthladd a ddymunent.

31 O na foliannent yr Arglwydd am ei ddaioni, a'i ryfeddodau i feibion dynion.

32 A derchafant ef ynghynnulleidfa y bobl, a moliannant ef yn eiſteddfod yr henuriaid.

33 Efe a wna afonydd yn ddiffaethwch: a ffynhonnau dyfroedd yn ſychder.

34 A thir ffrwythlawn yn ddiffrwyth: am ddrygioni y rhai a drigant ynddo.

35 Efe a dry yr anialwch yn llyn dwfr: a'r tir cras yn ffynhonnau dwfr.

36 Ac yno y gwna i'r newynog aros: fel y darparont ddinas i gyfanneddu:

37 Ac yr hauont feuſydd, ac y plannont winllannoedd, y rhai a ddygant ffrwyth toreithiog:

38 Ac efe a'i bendithia hwynt fel yr amlhânt yn ddirfawr, ac ni âd iw hanifeiliaid leihau.

39 Lleiheir hwynt hefyd, a goſtyngir hwynt, gan gyfyngder, dryg-fyd, a chyni:

40 Efe a dywallt ddirmyg ar foneddigion, ac a wna iddynt gyrwydro mewn anialwch heb ffordd.

41 Ond efe a gyfyd y tlawd o gyſtudd, ac a wna iddo deuluoedd fel praidd.

42 Y rhai vniawn a welant hyn, ac a lawenychant: a phob anwiredd a gae ei ſafn.

43 Y neb ſydd ddoeth ac a gadwo hyn, hwy a ddeallant drugareddau 'r Arglwydd.

Paratum cor meum. Pſal. 108.

Prydnhawnol weddi.

PArod yw fy nghalon ô Dduw, canaf a chanmolaf â'm gogoniant.

2 Deffro y nabl a'r delyn, minnau a ddeffroaf yn forau.

3 Clodforaf di Arglwydd ym myſc y bobloedd: canmolaf di ym myſc y cenhedloedd.

4 Canys mawr yw dy drugaredd oddi ar y nefoedd, a'th wirionedd a gyrraedd hyd yr wybren.

5 Ymddercha ô Dduw, uwch y nefoedd: a bydded dy ogoniant ar yr holl ddaiar.

6 Fel y gwareder dy rai anwyl: achub â'th ddeheu-law, a gwrando fi.

7 Duw a lefarodd yn ei ſancteiddrwydd: llawenychaf, rhannaf Sichem, a meſſuraf ddyffryn Succoth.

8 Eiddo fi yw Gilead, eiddo fi Manaſſeh: Ephraim hefyd yw nerth fy mhen: Iuda yw fy neddfwr.

9 Moab yw fy nghrochan golchi, tros Edom y taflaf fy eſcid: buddugoliaethaf ar Philiſtia.

10 Pwy a'm dŵg i'r ddinas gadarn? pwy a'm dŵg hyd yn Edom?

11 Onid tydi o Dduw, yr hwn a'n bwriaiſt ymaith, ac onid ai di allan, ô Dduw, gyd â'n lluoedd?

12 Dyro i mi gynnorthwy rhag cyfyngder, canys gau yw ymwared dŷn.

13 Trwy Dduw y gwnawn wroldeb, canys efe a ſathr ein gelynion.

Deus laudem. Pſal. 109.

NA thaw, ô Dduw fy moliant.

2 Canys genau'r annuwiol, a genau y twyllodrus a ymagoraſant arnaf: â thafod celwyddog y llefaraſant i'm herbyn.

3 Cylchynaſant fi hefyd â geiriau cas, ac ymladdaſant â mi heb achos.

4 Am fy ngharedigrwydd i'm gwrthwynebant: minneu a arferaf weddi.

5 Talent hefyd i mi ddrwg am dda: a châs am fy nghariad.

6 Goſod titheu yr annuwiol arno ef: a ſafed Satan wrth ei ddeheu-law ef.

7 Pan farner ef, eled yn euog, a bydded ei weddi yn bechod.

8 Ychydig fyddo ei ddyddiau: a chymmered arall ei ſwydd ef.

9 Bydded ei blant yn ymddifaid: a'i wraig yn weddw.

10 Gan gyrwydro hefyd cyrwydred ei blant ef, a chardottant: ceiſiant hefyd eu bara o'r hanghyfannedd leoedd.

11 Rhwyded y ceiſiad yr hyn oll ſydd ganddo: ac anrheithied dieithriaid ei lafur ef.

12 Na fydded neb a eſtynno drugaredd iddo: ac na fydded neb a drugarhâo wrth ei ymddifaid ef.

13 Torrer ymaith ei hiliogaeth ef, dileer eu henw yn yr oes neſſaf.

14 Cofier anwiredd ei dadau o flaen yr Arglwydd: ac na ddileer pechod ei fam ef.

15 Byddant bob amſer ger bron yr Arglwydd: fel y torro efe ymmaith eu coffadwriaeth o'r tîr.

16 Am na chofiodd wneuthur trugaredd, eithr erlid o honaw y truan a'r tlawd, a'r cyſtuddiedic o galon, iw ladd.

17 Hoffodd felldith, a hi a ddaeth iddo: ni fynnei fendith, a hi a bellhaodd oddi wrtho.

18 Ie gwiſcodd felldith fel dilledyn, a hi a ddaeth fel dwfr iw fewn, ac fel olew iw eſcyrn.

19 Bydded iddo fel dilledyn, yr hwn a wiſco efe, ac fel gwregys a'i gwregyſo ef yn oeſtadol.

20 Hyn fyddo tâl fy ngwrthwyneb-wŷr gan yr Arglwydd: a'r rhai a ddywedant ddrwg yn erbyn fy enaid.

21 Titheu Arglwydd Dduw, gwna erofi er mwyn dy Enw, am fod yn dda dy drugaredd, gwared fi.

22 Canys truan a thlawd ydwyf fi, a'm calon a archollwyd o'm mewn.

23 Aethum fel cyſcod pan gilio, fel locuſt i'm heſcydwir.

24 Fy ngliniau a aethant yn egwan gan ympryd, a'm cnawd a guriodd o eiſieu braſder.

25 Gwradwydd hefyd oeddwn iddynt: pan welent fi, ſiglent eu pennau.

26 Cynnorthwya fi ô Arglwydd fy Nuw: achub fi yn ôl dy drugaredd.

27 Fel y gwypont mai dy law di yw hyn: mai ti Arglwydd a'i gwnaethoſt.

28 Melldithiant hwy, ond bendithia di, cywilyddier hwynt, pan gyfodant: a llawenyched dy wâs.

29 Gwiſcer fy ngwrthwyneb-wŷr â gwarth: ac ymwiſcant â'u cywilydd megis â chochl.

30 Clodforaf yr Arglwydd yn ddirfawr â'm genau: ie moliannaf ef ym myſc llawer.

31 O herwydd efe a ſaif ar ddeheu-law'r tlawd: iw achub oddi wrth y rhai a farnant ei enaid.

Dixit Dominus. Pſal. 110.

Bore weddi.

DYwedodd yr Arglwydd wrth fy Arglwydd, eiſtedd ar fy neheu-law: hyd oni oſodwyf dy elynion yn faingc i'th draed.

2 Gwialen dy nerth a enfyn yr Arglwydd o Sion: llywodraetha di ynghanol dy elynion.

3 Dy bobl a fyddant ewyllyſgar, yn nydd dy nerth, mewn harddwch ſancteiddrwydd o groth y wawr: y mae gwlith dy enedigaeth i ti.

4 Tyngodd yr Arglwydd, ac nid edifarhâ: ti wyt offeiriad yn dragywyddol yn ôl vrdd Melchiſedec.

5 Yr Arglwydd ar dy ddeheu-law, a drywana frenhinoedd yn nydd ei ddigofaint.

6 Efe a farn ym myſc y cenhedloedd, lleinw leoedd â chelaneddau: archolla ben llawer gwlad.

7 Efe a ŷf o'r afon ar y ffordd, am hynny y dercha efe ei ben.

Confitebor tibi. Pſal. 111.

ryd- awn ddi.

MOlwch yr Arglwydd. Clodforaf yr Arglwydd â'm holl galon: ynghymmanfa y rhai vniawn, ac yn y gynnulleidfa.

2 Mawr yw gweithredoedd yr Arglwydd: wedi eu ceiſio gan bawb a'i hoffant.

3 Gogoniant a harddwch yw ei waith ef: a'i gyfiawnder ſydd yn parhau byth.

4 Gwnaeth gofio ei ryfeddodau: graſlawn a thrugarog yw'r Arglwydd.

5 Rhoddodd ymborth i'r rhai a'i hofnant ef, efe a gofia ei gyfammod yn dragywydd.

6 Mynegodd iw bobl gadernid ei weithredoedd: i roddi iddynt etifeddiaeth y Cenhedloedd.

7 Gwirionedd a barn yw gweithredoedd ei ddwylaw ef: ei holl orchymynion ydynt ſicr:

8 Wedi eu ſicrhau byth ac yn dragywydd, a'i gwneuthur mewn gwirionedd, ac vniawnder.

9 Anfonodd ymwared iw bobl, gorchymynnodd ei gyfammod yn dragywyddol: ſancteiddiol, ac ofnadwy yw ei enw ef.

10 Dechreuad doethineb yw ofn yr Arglwydd: deall da ſydd gan y rhai a wnant ei orchymmynion ef: y mae ei foliant ef yn parhau byth.

Beatus vir. Pſal 112.

MOlwch yr Arglwydd. Gwyn ei fyd y gŵr a ofna'r Arglwydd, ac ſydd yn hoffi ei orchymynion ef yn ddirfawr.

2 Ei hâd fydd cadarn ar y ddaiar: cenhedlaeth y rhai vniawn a fendithir.

3 Golud a chyfoeth fydd yn ei dŷ ef: a'i gyfiawnder ſydd yn parhau byth.

4 Cyfyd goleuni i'r rhai vniawn yn y tywyllwch: trugarog, a thoſturiol, a chyfiawn yw efe.

5 Gŵr da ſydd gymmwynaſcar, ac yn rhoddi benthyg: wrth farn y llywodraetha efe ei achoſion.

6 Yn ddiau nid yſcogir ef byth, y cyfiawn ſydd byth mewn coffadwriaeth.

7 Nid ofna efe rhag chwedl drwg, ei galon ſydd ddiſigl, yn ymddiried yn yr Arglwydd.

8 Attegwyd ei galon, nid ofna efe hyd oni welo ei ewyllys ar ei elynion.

9 Gwaſcarodd, rhoddodd i'r tlodion, a'i gyfiawnder ſydd yn parhau byth: ei gorn a dderchefir mewn gogoniant.

10 Yr annuwiol a wêl hyn, ac a ddigia, efe a yſcyrnyga ei ddannedd, ac a dawdd ymmaith: derſydd am ddymuniad y rhai annuwiol.

Laudate pueri. *Pſal.* 113.

MOlwch yr Arglwydd. Gweiſion yr Arglwydd molwch: ie molwch Enw 'r Arglwydd.

2 Bendigedic fyddo enw 'r Arglwydd, o hyn allan ac yn dragywydd.

3 O godiad haul hyd ei fachludiad, moliannus yw Enw 'r Arglwydd.

4 Vchel yw yr Arglwydd goruwch yr holl genhedloedd: a'i ogoniant ſydd goruwch y nefoedd.

5 Pwy ſydd fel yr Arglwydd ein Duw ni, yr hwn ſydd yn preſwylio yn vchel?

6 Yr hwn a ymddaroſtwng, i edrych y pethau yn y nefoedd, ac yn y ddaiar?

7 Efe ſydd yn codi y tlawd o'r llwch: ac yn derchafu yr anghenus o'r dommen:

8 Iw oſod gyd â phendefigion: ie gyd â phendefigion ei bobl.

9 Yr hwn a wna i'r amhlantadwy gadw tŷ, a bod yn llawen fam plant. Canmolwch yr Arglwydd.

In exitu Iſrael. *Pſal.* 114.

PAn aeth Iſrael o'r Aipht, tŷ Iacob oddi wrth bobl anghyfiaith:

2 Iuda oedd ei ſancteiddrwydd: ac Iſrael ei arglwyddiaeth.

3 Y môr a welodd hyn, ac a giliodd: yr Iorddonen a drôdd yn ôl.

4 Y mynyddoedd a neidiaſant fel hyrddod, a'r bryniau fel ŵyn defaid.

5 Beth ddarfu i ti ô fôr, pan giliaiſt? titheu Iorddonen, pa ham y troaiſt yn ôl?

6 Pa ham fynyddoedd y neidiech fel hyrddod? a'r bryniau fel ŵyn defaid?

7 Ofna di ddaiar rhag yr Arglwydd: rhag Duw Iacob:

8 Yr hwn ſydd yn troi 'r graig yn llyn dwfr, a'r galleſtr yn ffynnon dyfroedd.

Non nobis Domine. *Pſal.* 115.

NId i ni ô Arglwydd, nid i ni, ond i'th Enw dy hun dod ogoniant, er mwyn dy drugaredd, er mwyn dy wirionedd.

2 Pa ham y dywedai y cenhedloedd, pa le yn awr y mae eu Duw hwynt?

3 Ond ein Duw ni ſydd yn y nefoedd: efe a wnaeth yr hyn a fynnodd oll.

4 Eu delwau hwy ydynt o aur, ac arian, gwaith dwylo dynion.

5 Genau ſydd iddynt, ond ni leſarant, llygaid ſydd ganddynt, ond ni welant.

6 Y mae clustiau iddynt, ond ni chlywant, ffroenau ſydd ganddynt, ond ni aroglant.

7 Dwylo ſydd iddynt, ond ni theimlant: traed ſy iddynt, ond ni cherddant: ni leiſiant chwaith â'i gwddf.

8 Y rhai a'i gwnânt ydynt fel hwythau, a phob vn a ymddiriedo ynddynt.

9 O Iſrael, ymddiried ti yn yr Arglwydd, efe yw eu porth, a'i tarian.

10 Tŷ Aaron, ymddiriedwch yn yr Arglwydd: efe yw eu porth, a'i tarian.

11 Y rhai a ofnwch yr Arglwydd, ymddiriedwch yn yr Arglwydd: efe yw eu porth, a'i tarian.

12 Yr Arglwydd a'n cofiodd ni, efe a'n bendithia; bendithia efe dŷ Iſrael; bendithia efe dŷ Aaron.

13 Bendithia efe y rhai a ofnant yr Arglwydd, fychain, a mawrion.

14 Yr Arglwydd a'ch chwanega chwi fwyfwy: chwychwi a'ch plant hefyd.

15 Bendigedic ydych chwi gan yr Arglwydd, yr hwn a wnaeth nef a daiar.

16 Y nefoedd, ie 'r nefoedd, ydynt eiddo yr Arglwydd: a'r ddaiar a roddes efe i feibion dynion.

17 Y meirw ni folianant yr Arglwydd, na'r neb ſydd yn diſcyn i ddiſtawrwydd.

18 Ond nyni a fendithiwn yr Arglwydd, o hyn allan, ac yn dragywydd. Molwch yr Arglwydd.

Dilexi quoniam. *Pſal.* 116.

Borewol weddi.

DA gennif wrando o'r Arglwydd ar fy llef a'm gweddiau.

2 Am oſtwng o honaw ei glust attaf. Am hynny llefaf tros fy nyddiau arno ef.

3 Gofidion angeu a'm cylchynaſant, a gofidiau vffern a'm daliaſant, ing a blinder a gefais.

4 Yna y gelwais ar Enw 'r Arglwydd, attolwg Arglwydd gwared fy enaid.

5 Graſlawn yw 'r Arglwydd, a chyfiawn; a thoſturiol yw ein Duw ni.

6 Yr Arglwydd ſydd yn cadw y rhai annichellgar: tlodais, ac efe a'm hachubodd.

7 Dychwel ô fy enaid i'th orphywyſfa, canys yr Arglwydd fu dda wrthit.

8 O herwydd it waredu fy enaid oddi wrth angeu, fy llygaid oddi wrth ddagrau, a'm traed rhag llithro:

9 Rhodiaf o flaen yr Arglwydd yn nhir y rhai byw.

10 Credais, am hynny y lleferais: cyſtuddiwyd fi 'n ddirfawr.

11 Mi a ddywedais yn fy ffrwst, pob dyn ſydd gelwyddoc.

12 Beth a dalaf i'r Arglwydd am ei holl ddoniau i mi?

13 Phiol iechydwriaeth a gymmeraf, ac ar enw 'r Arglwydd y galwaf.

14 Fy addunedau a dalaf i'r Arglwydd, yn awr yngŵydd ei holl bobl ef.

15 Gwerth-fawr yngolwg yr Arglwydd yw marwolaeth ei Sainct ef.

16 O Arglwydd, yn ddiau dy wâs di ydwyf, dy wâs di ydwyf, mab dy wasanaeth wraig; dattodaiſt fy rhwymau.

17 Aberthaf i ti aberth moliant: a galwaf ar Enw 'r Arglwydd.

18 Talaf fy addunedau i'r Arglwydd, yn awr yngŵydd ei holl bobl;

19 Ynghynteddoedd tŷ 'r Arglwydd: yn dy ganol di ô Ierusalem. Molwch yr Arglwydd.

Laudate Dominum. *Pſal.* 117.

MOlwch yr Arglwydd yr holl genhedloedd: clodforwch ef yr holl bobloedd.

2 O herwydd ei drugaredd ef tu ag attom ni ſydd fawr: a gwirionedd yr Arglwydd a bery yn dragywydd. Molwch yr Arglwydd.

Confitemini Domino. *Pſal.* 118.

CLodforwch yr Arglwydd, canys da yw, o herwydd ei drugaredd a bery yn dragywydd.

2 Dyweded Iſrael yr awr hon, fod ei drugaredd ef yn parhau yn dragywydd.

3 Dyweded tŷ Aaron yn awr, fod ei drugaredd ef yn parhau yn dragywydd.

4 Yn awr dyweded y rhai a ofnant yr Arglwydd, fod ei drugaredd ef yn parhau yn dragywydd.

5 Mewn ing y gelwais ar yr Arglwydd; yr Arglwydd a'm clybu, ac a'm goſododd mewn ehangder.

6 Yr Arglwydd ſydd gyd â mi, nid ofnaf: beth a wna dŷn i mi?

7 Yr Arglwydd ſydd gyd â mi, ym mhlith fy nghynnorthwy-wŷr: am hynny y câf weled fy ewyllys ar fy nghaſeion.

8 Gwell yw gobeithio yn yr Arglwydd, nag ymddiried mewn dŷn.

9 Gwell yw gobeithio yn yr Arglwydd, nag ymddiried mewn tywyſogion.

10 Yr holl genhedloedd am hamgylchynaſant: ond yn Enw 'r Arglwydd, mi a'i torraf hwynt ymmaith.

11 Amgylchynaſant fi, ie amgylchynaſant fi, ond yn Enw 'r Arglwydd, mi a'i torraf hwynt ymmaith.

12 Amgylchynaſant fi fel gwenyn, diffoddaſant fel tân drain: o herwydd yn Enw 'r Arglwydd, mi a'i torraf hwynt ymmaith.

13 Gan wthio y gwthiaiſt fi fel y ſyrthiwn: ond yr Arglwydd a'm cynnorthwyodd.

14 Yr Arglwydd yw fy nerth a'm cân: ac ſydd iechydwriaeth i mi.

15 Llef gorfoledd, ac iechydwriaeth ſydd ym mhebyll y cyfiawn: deheulaw 'r Arglwydd ſydd yn gwneuthur grymmuſder.

16 Deheu-law 'r Arglwydd a dderchafwyd: deheulaw 'r Arglwydd ſydd yn gwneuthur grymmuſder.

17 Ni byddaf farw, onid byw: a mynegaf weithredoedd yr Arglwydd.

18 Gan goſpi i'm, coſpodd yr Arglwydd: ond ni'm rhoddodd i farwolaeth.

19 Agorwch i mi byrth cyfiawnder: âf i mewn iddynt, a chlodforaf yr Arglwydd.

20 Dymma borth yr Arglwydd, y rhai cyfiawn a ânt i mewn iddo.

21 Clodforaf di, o herwydd i ti fy ngwrando, a'th fod yn iechydwriaeth i mi.

22 Y maen a wrthododd yr adeilad-wŷr a aeth yn ben i'r gongl.

23 O'r Arglwydd y daeth hyn, oedd ryfedd yn ein golwg ni.

24 Dymma 'r dydd a wnaeth yr Arglwydd; gorfoleddwn, a llawenychwn ynddo.

25 Attolwg Arglwydd, achub yn awr; attolwg Arglwydd, pâr yn awr lwyddiant.

26 Bendigedic yw a ddêl yn Enw 'r Arglwydd: bendithiaſom chwi o dŷ 'r Arglwydd.

27 Duw yw 'r Arglwydd, yr hwn a lewyrchodd i ni: rhwymwch yr aberth â rhaffau hyd wrth gyrn yr allor.

28 Fy Nuw ydwyt ti, mi a'th glodforaf, derchafaf di, fy Nuw.

29 Clodforwch yr Arglwydd, canys da yw: o herwydd yn dragywydd y pery ei drugaredd ef.

Prydnhawnol weddi.

Beati immaculati. Pſal. 119

GWynfyd y rhai perffaith eu ffordd: y rhai a rodiant ynghyfraith yr Arglwydd.

2 Gwynfyd y rhai a gadwant ei dyſtiolaethau ef: ac a'i ceiſiant ef â'i holl galon.

3 Y rhai hefyd ni wnaent anwiredd, hwy a rodiant yn ei ffyrdd ef.

4 Ti a orchymynnaiſt gadw dy orchymynion yn ddyfal.

5 O am gyfeirio fy ffyrdd, i gadw dy ddeddfau.

6 Yna ni'm gwradwyddid, pan edrychwn ar dy holl orchymynion.

7 Clodforaf di ag vniondeb calon, pan ddyſcwyf farnedigaethau dy gyfiawnder.

8 Cadwaf dy ddeddfau: na âd fi 'n hollawl.

In quo corriget.

PA fodd y glanhâ llange ei lwybr? wrth ymgadw yn ôl dy air di.

10 A'm holl galon i'th geiſiais, na âd i mi gyfeiliorni oddi wrth dy orchymynion.

11 Cuddiais dy ymadroddion yn fy nghalon, fel na phechwn i'th erbyn.

12 Ti Arglwydd wyt fendigedic: dyſc i mi dy ddeddfau.

13 A'm gwefuſau y treuthais holl farnedigaethau dy enau.

14 Bu mor llawen gennif ffordd dy dyſtiolaethau a'r holl olud.

15 Yn dy orchymynion y myfyriaf, ac ar dy lwybrau yr edrychaf.

16 Yn dy ddeddfau 'r ymddigrifaf, nid anghofiaf dy air.

Retribue ſervo tuo.

BYdd dda wrth dy wâs, fel y byddwyf byw, ac y cadwyf dy air.

18 Dadcuddia fy llygaid, fel y gwelwyf bethau rhyfedd allan o'th Gyfraith di.

19 Dieithr ydwyf ar y ddaiar, na chudd di rhagof dy orchymynion.

20 Drylliwyd fy enaid gan awydd i'th farnedigaethau bob amſer.

21 Ceryddaiſt y beilchion melltigedic: y rhai a gyfeiliornant oddi wrth dy orchymynion.

22 Trô oddi wrthif gywilydd a dirmyg, oblegit dy dyſtiolaethau di a gedwais.

23 Tywyſogion hefyd a eiſteddaſant, ac a ddywedaſant i'm herbyn; dy wâs dithau a fyfyriei yn dy ddeddfau.

24 A'th deſtiolaethau oeddynt fy hyfrydwch a'm cynghor-wŷr.

Adhæſit pavimento.

GLŷnodd fy enaid wrth y llwch, bywhâ fi 'n ol ol dy air.

26 Fy ffyrdd a fynegais, a gwrandewaiſt fi: dyſc i mi dy ddeddfau.

27 Gwna i mi ddeall ffordd dy orchymynion, ac mi a fyfyriaf yn dy ryfeddodau.

28 Diferodd fy enaid gan ofid: nertha fi 'n ôl dy air.

29 Cymmer oddi wrthif ffordd y celwydd, ac yn raſlawn dôd i mi dy Gyfraith.

30 Dewiſais ffordd gwirionedd: goſodais dy farnedigaethau o'm blaen.

31 Glynais wrth dy dyſtiolaethau: ô Arglwydd, na'm gwradwydda.

32 Ffordd dy orchymynion a redaf, pan ehangech fy nghalon.

Legem pone.

Boreuol weddi.

DYſc i mi ô Arglwydd, ffordd dy ddeddfau, a chadwaf hi hyd y diwedd.

34 Gwna i mi ddeall, a chadwaf dy Gyfraith: ie cadwaf hi â'm holl galon.

35 Gwna i mi gerdded yn llwybr dy orchymynion: canys ynddo y mae fy ewyllys.

36 Goſtwng fy nghalon at dy dyſtiolaethau: ac nid at gybydd-dra.

37 Tro heibio fy llygaid, rhag edrych ar wagedd: a bywhâ fi yn dy ffyrdd.

38 Siccrhâ dy air i'th wâs, yr hwn ſy 'n ymroddi i'th ofn di.

49 Tro heibio fy ngwradwydd yr wyf yn ei ofni: canys dy farnedigaethau ſydd dda.

40 Wele awyddus ydwyf i'th orchymynion: gwna i mi fyw yn dy gyfiawnder.

Et veniet ſuper me.

DEued i mi dy drugaredd Arglwydd, a'th iechydwriaeth yn ôl dy air.

42 Yna yr attebaf i'm cabludd: o herwydd yn dy air y gobeithiais.

43 Na ddwg dithau air y gwirionedd o'm genau yn llwyr: o herwydd yn dy farnedigaethau di y gobeithias.

44 A'th Gyfraith a gadwaf yn waſtadol, byth ac yn dragywydd.

45 Rhodiaf hefyd mewn ehangder, o herwydd dy orchymynion di a geiſiaf.

46 Ac am dy dyſtiolaethau di y lleſaraf, o flaen brenhinoedd, ac ni bydd cywilydd gennif.

47 Ac ymddigrifaf yn dy orchymynion, y rhai a hoffais.

48 A'm dwylo a dderchafaf at dy orchymynion y rhai a gerais, ac mi a fyfyriaf yn dy ddeddfau.

Memor eſto verbi tui.

COfia y gair wrth dy wâs, yn yr hwn y peraiſt i mi obeithio.

50 Dymma fy nghyſſur yn fy nghyſtudd, canys dy air di a'm bywhaodd i.

51 Y beilchion a'm gwatwaraſant yn ddirfawr: er hynny ni throais oddi wrth dy Gyfraith di.

52 Cofiais, o Arglwydd, dy farnedigaethau er ioed, ac ymgyſſurais.

53 Dychryn a ddaeth arnaf, oblegit yr annuwolion, y rhai ſydd yn gadu dy Gyfraith di.

54 Dy ddeddfau oedd fy nghân, yn nhŷ fy mhererindod.

55 Cofiais dy Enw Arglwydd, y nôs; a chedwais dy Gyfraith.

56 Hyn oedd gennif a'm gadw o honof dy orchymynion di.

Portio mea Domine.

O Arglwydd fy rhan ydwyt, dywedais y cadwn dy eiriau.

58 Ymbiliais â'th wyneb â'm holl galon: trugarhâ wrthif yn ôl dy air.

59 Meddyliais am fy ffyrdd, a throais fy nhraed at dy dyſtiolaethau di.

60 Bryſiais, ac nid oedais gadw dy orchymynion.

61 Minteioedd yr annuwolion a'm hyſpeiliaſant: ond nid anghofiais dy Gyfraith di.

62 Hanner nôs y cyfodaf i'th foliannu, am farnedigaethau dy gyfiawnder.

63 Cyfaill ydwyf fi i'r rhai oll a'th ofnant, ac i'r rhai a gadwant dy orchymynion.

64 Llawn yw 'r ddaiar o'th drugaredd, ô Arglwydd: dyſc i mi dy ddeddfau.

Bonitatem feciſti.

GWnaethoſt yn dda a'th wâs, ô Arglwydd, yn ôl dy air.

66 Dyſc i mi iawn ddeall, a gwybodaeth: o herwydd dy orchymynion di a gredais.

67 Cyn fy nghyſtuddio yr oeddwn yn cyfeiliorni; ond yn awr, cedwais dy air di.

68 Da ydwyt, a daionus, dyſc i mi dy ddeddfau.

69 Y beilchion a glyttiaſant gelwydd i'm herbyn: minneu a gadwaf dy orchymynion â'm holl galon.

70 Cyn fraſed a'r bloneg yw eu calon: minneu a ymddigrifais yn dy Gyfraith di.

71 Da yw i mi fy nghyſtuddio, fel y dyſcwn dy ddeddfau.

72 Gwell i mi Gyfraith dy enau, na miloedd o aur, ac arian.

Manus tuæ fecerunt me.

DY ddwylo a'm gwnaethant, ac a'm lluniaſant: pâr i mi ddeall, fel y dyſcwyf dy orchymynion.

74 Y rhai a'th ofnant a'm gwelant, ac a lawenychant, oblegit gobeithio o honof yn dy air di.

75 Gwn, Arglwydd, mai cyfiawn yw dy farnedigaethau: ac mai mewn ffyddlondeb i'm cyſtuddiaiſt.

76 Bydded attolwg dy drugaredd i'm cyſſuro, yn ôl dy air i'th waſanaeth-wr.

77 Deued i mi dy drugareddau, fel y byddwyf byw: o herwydd dy Gyfraith yw fy nigrifwch.

78 Cywilyddier y beilchion, canys gwnaant gam â mi yn ddiachos: ond myfi a fyfyriaf yn dy orchymynion di.

79 Troer attafi y rhai a'th ofnant di, a'r rhai a adwaenant dy dyſtiolaethau.

80 Bydded fy nghalon yn berffaith yn dy ddeddfau, fel na'm cywilydder.

Defecit anima mea.

DEffygiodd fy enaid am dy iechydwriaeth: wrth dy air yr ydwyf yn diſgwil.

82 Y mae fy llygaid yn pallu am dy air, gan ddywedyd, pa bryd i'm diddeni?

83 Canys ydwyf fel coſtrel mewn mŵg: ond nid angofiais dy ddeddfau.

84 Pa niſer yw dyddiau dy wâs? pa bryd y gwnei farn ar y rhai a'm herlidiant?

85 Y beilchion a gloddiaſant byllau i mi, yr hyn nid yw wrth dy Gyfraith di.

86 Dy holl orchymynion ydynt wirionedd: a'r gam i'm herlidiaſant, cymmorth fi.

87 Braidd na'm difaſant ar y ddaiar, minneu ni adewais dy orchymynion.

88 Bywhâ fi yn ôl dy drugaredd: felly y cadwaf dyſtiolaeth dy enau.

In æternum Domine.

YN dragywydd ô Arglwydd, y mae dy air wedi ei ſiccrhau yn y nefoedd.

90 Dy wirionedd ſydd hyd genhedlaeth a chenhedlaeth: ſeiliaiſt y ddaiar, a hi a ſaif.

91 Wrth dy farnedigaethau y ſafant heddyw: canys dy weiſion yw pob peth.

92 Oni bai fod dy ddeddf yn hyfrydwch i mi, darfuaſei yna am danaf yn fy nghyſtudd.

93 Byth nid anghofiaf dy orchymynion: canys â hwynt i'm bywhaiſt.

94 Eiddo ti ydwyf, cadw fi; o herwydd dy orchymynion a geiſiais.

95 Y rhai annuwiol a ddiſgwiliaſant am danaf i'm difetha: ond dy dyſtiolaethau di a yſtyriaf.

96 Yr ydwyf yn gweled diwedd ar bob perffeithrwydd: ond dy orchymmyn di ſydd dra ehang.

Quomodo dilexi.

MOr gu gennif dy Gyfraith di! hi yw fy myfyrdod beunydd.

98 A'th orchymynion yr ydwyt yn fy ngwneuthur yn ddoethach na'm gelynion: canys byth y maent gyd â mi.

99 Deallais

99 Deellais fwy nâ'm holl athrawon : o herwydd dy dyſtiolaethau yw fy myfyrdod.

100 Deellais yn well nâ'r henuriaid, am fy mod yn cadw dy orchymynion di.

101 Atteliais fy nhraed oddi wrth bob llwybr drwg, fel y cadwn dy air di.

102 Ni chiliais oddi wrth dy farnedigaethau, herwydd ti a'm dyſcaiſt.

103 Mor felus yw dy eiriau i'm genau! meluſach nâ mêl i'm ſafn.

104 Trwy dy orchymynion di y pwyllais : am hynny y caſeais bob gau lwybr.

Lucerna pedibus meü.

Boreuol weddi.

LLuſern yw dy air i'm traed : a llewyrch i'm llwybr.

106 Tyngais, a chyflawnaf, y cadwn farnedigaethau dy gyfiawnder.

107 Cyſtuddiwyd fi yn ddirfawr : bywha fi ô Arglwydd, yn ôl dy air.

108 Attolwg, Arglwydd, bydd fodlon i ewyllyſcar offrymmau fy ngenau, a dyſc i mi dy farnedigaethau.

109 Y mae fy enaid yn fy llaw yn oeſtadol : er hynny nid wyf yn anghofio dy Gyfraith.

110 Y rhai annuwiol a oſodaſant fagl i mi : ond ni chifeiliornais oddi wrth dy orchymynion.

111 Cymmerais dy orchymynion yn etifeddiaeth dros byth : o herwydd llawenydd fy nghalon ydynt.

112 Goſtyngais fy nghalon, i gwneuthur dy ddeddfau byth hyd y diwedd.

Iniquos odio habui.

MEddyliau ofer a gaſeais, a'th Gyfraith di a hoffais.

114 Fy lloches a'm tarian ydwyt : yn dy air y gobeithiaf.

115 Ciliwch oddi wrthif rai drygionus : canys cadwaf orchymynion fy Nuw.

116 Cynnal fi yn ôl dy air, fel y byddwyf byw : ac na âd i mi gywilyddio am fy ngobaith.

117 Cynnal fi, a diangol fyddaf, ac ar dy ddeddfau yr edrychaf yn waſtadol.

118 Sethraiſt y rhai oll a gyfeiliornant oddi wrth dy ddeddfau : canys twyllodrus yw eu dichell hwynt.

119 Bwriaiſt heibio holl annuwiolion y tîr fel ſothach : am hynny 'r hoffais dy dyſtiolaethau.

120 Dychrynodd fy nghnawd rhag dy ofn, ac ofnais rhag dy farnedigaethau.

Feci iudicium.

GWneuthum farn, a chyfiawnder : na ad fi i'm gorthrym-wŷr.

122 Mechnia dros dy wâs er daioni : na âd i'r beilchion fy ngorthrymmu.

123 Fy llygaid a ballaſant am dy iechydwriaeth, ac am ymadrodd dy gyfiawnder.

124 Gwna i'th wâs yn ôl dy drugaredd : a dyſc i mi dy ddeddfau.

125 Dy wâs ydwyfi, pâr i mi ddeall : fel y gwypwyf dy dyſtiolaethau.

126 Amſer yw i'r Arglwydd weithio : diddymmaſant dy Gyfraith di.

127 Am hynny 'r hoffais dy orchymynion yn fwy nag aur, ie yn fwy nag aur coeth.

128 Am hynny vnion y cyfrifais dy orchymynion am bob peth : a chaſeais bob gau lwybr.

Mirabilia.

RHyfedd yw dy dyſtiolaethau, am hynny y ceidw fy enaid hwynt.

130 Agoriad dy eiriau a rydd oleuni, pair ddeall i rai annichellgar.

131 Agorais fy ngenau a dyheais, oblegit awyddus oeddwn i'th orchymmynion di.

132 Edrych arnaf, a thrugarhâ wrthif : yn ôl dy arfer i'r rhai a garant dy Enw.

133 Cyfarwydda fy nghamrau yn dy air, ac na lywodraethed dim anwiredd arnaf.

134 Gwaret fi oddi wrth orthrymder dynion : felly y cadwaf dy orchymynion.

135 Llewyrcha dy wyneb ar dy wâs, a dyſc i mi dy ddeddfau.

136 Afonydd o ddyfroedd a redant o'm llygaid, am na chadwaſant dy Gyfraith di.

Iuſtus es Domine.

CYfiawn ydwyt ti, ô Arglwydd, ac vniawn yw dy farnedigaethau.

138 Dy dyſtiolaethau y rhai a orchymynnaiſt, ydynt gyfiawn a ffyddlon iawn.

139 Fy Zêl a'm difaodd, o herwydd i'm gelynion anghofio dy eiriau di.

140 Purwyd dy ymadrodd yn ddirfawr : am hynny y mae dy wâs yn ei hoffi.

141 Bychan ydwyfi, a dirmygus : ond nid anghofiais dy orchymynion.

142 Dy gyfiawnder ſydd gyfiawnder byth ; a'th Gyfraith ſydd wirionedd.

143 Adfyd a chyſtudd a'm goddiweddaſant : a'th orchymynion oedd fy nigrifwch.

144 Cyfiawnder dy dyſtiolaethau a bery yn dragywydd : gwna i mi ddeall, a byw fyddaf.

Clamaui in toto corde meo.

Pry uol whan di. wedd

LLefais a'm holl galon, clyw fi ô Arglwydd : dy ddeddfau a gadwaf.

146 Llefais arnat, achub fi : a chadwaf dy dyſtiolaethau.

147 Achubais flaen y cyfddydd, a gwaeddais : wrth dy air y diſgwiliais.

148 Fy llygaid a achubaſant flaen gwiliadwriaethau y nos, i fyfyrio yn dy air di.

149 Clyw fy llef yn ôl dy drugaredd : Arglwydd, bywhâ fi yn ôl dy farnedigaethau.

150 Y rhai a ddilynant ſcelerder a neſſaſant arnaf : ymbellaſant oddi wrth dy Gyfraith di.

151 Titheu Arglwydd wyt agos : a'th holl orchymynion ſydd wirionedd.

152 Er yſtalm y gwyddwn am dy dyſtiolaethau, ſeilio o honot hwynt yn dragywydd.

Vide humilitatem.

GWêl fy nghyſtudd, a gwared fi : canys nid anghofiais dy Gyfraith.

154 Dadleu fy nadl, a gwared fi : bywhâ fi yn ôl dy air.

155 Pell yw iechydwriaeth oddi wrth y rhai annuwiol : o herwydd ni cheiſiant dy ddeddfau di.

156 Dy drugareddau Arglwydd ſydd aml : bywhâ fi yn ôl dy farnedigaethau.

157 Llawer ſydd yn fy erlid, ac yn fy ngwrthwynebu : er hynny ni throais oddi wrth dy dyſtiolaethau.

158 Gwelais y troſedd-wŷr, a greſſynais : am na chadwent di air di.

159 Gwêl fy mod yn hoffi dy orchymynion : Arglwydd, bywhâ fi 'n ôl dy drugarogrwydd.

160 Gwirionedd o'r dechreuad yw dy air : a phob vn o'th gyfiawn farnedigaethau a bery yn dragywydd.

Principes

Principes perſecuti ſunt.

TYwyſogion a'm herlidiaſant heb achos, er hynny fy nghalon a grynei rhag dy air di.

162 Llawen ydwyf fi oblegit dy air: fel vn yn cael yſclyfaeth lawer.

163 Celwydd a gaſeiais, ac a ffieiddiais: a'th Gyfraith di a hoffais.

164 Seith-waith yn y dydd yr ydwyf yn dy glodfori: o herwydd dy gyfiawn farnedigaethau.

165 Heddwch mawr ſydd i'r rhai a garant dy Gyfraith: ac nid oes dramgwydd iddynt.

166 Diſgwiliais wrth dy iechydwriaeth di, ô Arglwydd: a gwneuthum dy orchymynion.

167 Fy enaid a gadwodd dy dyſtiolaethau: a hoff iawn gennif hwynt.

168 Cedwais dy orchymynion a'th dyſtiolaethau: canys y mae fy holl ffyrdd ger dy fron di.

Appropinquet deprecatio.

NEſſaed fy ngwaedd o'th flaen, Arglwydd: gwna i mi ddeall yn ôl dy air.

170 Deued fy ngweddi ger dy fron: gwared fi yn ôl dy air.

171 Fy ngwefuſau a draetha foliant: pan ddyſcech i mi ddeddfau.

172 Fy nhafod a ddatcan dy air: o herwydd dy holl orchymynion ſydd gyfiawnder.

173 Bydded dy law i'm cynnorthwyo: o herwydd dy orchymynion di a ddewiſais.

174 Hiraethais ô Arglwydd, am dy iechydwriaeth: a'th Gyfraith yw fy hyfrydwch.

175 Bydded byw fy enaid, fel i'th folianno di: a chynorthwyed dy farnedigaethau fi.

176 Cyfeiliornais fel dafad wedi colli: cais dy wâs, oblegit nid anghofiais dy orchymynion.

Ad Dominum. *Pſal.*120.

Pryd
hawnol
eddi.

AR yr Arglwydd y gwaeddais yn fy nghyfyngder: ac efe a'm gwrandawodd i.

2 Arglwydd, gwared fy enaid oddi wrth wefuſau celwyddoc, ac oddi wrth dafod twyllodrus.

3 Beth a roddir i ti? neu pa beth a wneir i ti, dydi dafod twyllodrus?

4 Llymmion ſaethau cawr ynghyd a marwor meryw.

5 Gwae fi fy mod yn preſſwylio ym Meſech: yn cyfanneddu ym mhebyll Cedar.

6 Hir y trigodd fy enaid gyd â'r hwn oedd yn caſau tangneddyf.

7 Heddychol ydwyf fi, ond pan leſarwyf, y maent yn barod i ryfel.

Levavi oculos. *Pſal.*121.

DErchafaf fy llygaid i'r mynyddoedd, o'r lle y daw fy nghymmorth.

2 Fy nghymmorth a ddaw oddi-wrth yr Arglwydd, yr hwn a wnaeth nefoedd a daiar.

3 Ni âd efe i'th droed lithro, ac ni huna dy geidwad.

4 Wele, ni huna ac ni chwſc ceidwad Iſrael.

5 Yr Arglwydd yw dy geidwad, yr Arglwydd yw dy gyſcod ar dy ddeheu-law.

6 Ni'th dery 'r haul y dydd, na'r lleuad y nôs.

7 Yr Arglwydd a'th geidw rhag pob drwg: efe a geidw dy enaid.

8 Yr Arglwydd a geidw dy fynediad, a'th ddyfodiad, o'r pryd hyn hyd yn dragywydd.

Lætatus ſum. *Pſal.*122.

LLawenychais pan ddywedent wrthif, awn i dŷ 'r Arglwydd.

2 Ein traed a ſafant o fewn dy byrth di, ô Ieruſalem.

3 Ieruſalem a adeiladwyd fel dinas wedi ei chydgyſſylltu ynddi ei hun.

4 Yno 'r eſcyn y llwythau, llwythau 'r Arglwydd, yn dyſtiolaeth i Iſrael, i foliannu Enw 'r Arglwydd.

5 Canys yno y goſodwyd gorſedd-feingciau barn: gorſedd-feingciau tŷ Dafydd.

6 Dymunwch heddwch Ieruſalem: llwydded y rhai a'th hoffant.

7 Heddwch ſydd o fewn dy ragfur: a ffyniant yn dy balaſſau.

8 Er mwyn fy mrodyr a'm cyfeillion, y dywedaf yn awr, heddwch ſyddo i ti.

9 Er mwyn tŷ 'r Arglwydd ein Duw, y ceiſiaf i ti ddaioni.

Ad te levavi oculos. *Pſal.*123.

ATtat ti y derchafaf fy llygaid, ti yr hwn a breſſwyli yn y nefoedd.

2 Wele, fel y mae llygaid gweiſion ar law eu meiſtred, neu fel y mae llygaid llawforwyn ar law eu meiſtres: felly y mae ein llygaid ni ar yr Arglwydd ein Duw, hyd oni thrugarhao efe wrthym ni.

3 Trugarhâ wrthym Arglwydd, trugarhâ wrthym, canys llanwyd ni â dirmyg yn ddirfawr.

4 Yn ddirfawr y llanwyd ein henaid â gwatwargerdd y rhai goludog, ac â diyſtyrwch y beilchion.

Niſi quia Dominus. *Pſal.*124.

ONi buaſei 'r Arglwydd, yr hwn a fu gyd â ni: y gall Iſrael ddywedyd yn awr:

2 Oni buaſei 'r Arglwydd, yr hwn a fu gyd â ni, pan gyfododd dynion yn ein herbyn;

3 Yna i'n llyngcaſent ni yn fyw, pan enynnodd eu llid hwynt i'n herbyn.

4 Yna 'y dyfroedd a lifaſei troſom: y ffrwd a aethei tros ein henaid.

5 Yna 'r aethei tros ein henaid ddyfroedd chwyddedig:

6 Bendigedic fyddo 'r Arglwydd, yr hwn ni roddodd ni yn yſclyfaeth iw dannedd hwynt.

7 Ein henaid a ddiangodd, fel aderyn o fagl yr adar-wŷr: y fagl a dorrwyd, a ninneu a ddianghaſom.

8 Ein porth ni ſydd yn Enw 'r Arglwydd, yr hwn a wnaeth nefoedd a daiar.

Qui confidunt. *Pſal.*125.

YRhai a ymddiriedant yn yr Arglwydd, fyddant fel mynydd Sion: yr hwn ni ſyſlir, ond a bery yn dragywydd.

2 Fel y mae Ieruſalem a'r mynyddoedd o'i hamgylch; felly y mae 'r Arglwydd o amgylch ei bobl, o'r pryd hyn hyd yn dragywydd.

3 Canys ni orphywys gwialen anwiredd ar randir y rhai cyfiawn: rhag i'r rhai cyfiawn eſtyn eu dwylo at anwiredd.

4 Oh Arglwydd, gwna ddaioni i'r rhai daionus: ac i'r rhai vniawn yn eu calonnau.

5 Ond y rhai a ymdroant iw trofeydd, yr Arglwydd a'i gyrr gyd â gweithred-wŷr anwiredd: a bydd tangneddyf ar Iſrael.

In convertendo. *Pſal.*126.

Pryd-
nhawnol
weddi.

PAn ddychwelodd yr Arglwydd gaethiwed Sion, yr oeddym fel rhai yn breuddwydio.

2 Yna y llanwyd ein genau â chwerthin, a'n tafod â chanu: yna y dywedaſant ym myſc y cenhedloedd, yr Arglwydd a wnaeth bethau mawrion i'r rhai hyn.

3 Yr Arglwydd a wnaeth i ni bethau mawrion, am hynny 'r ydym yn llawen.

4 Dychwel Arglwydd ein caethiwed ni, fel yr afonydd yn y dehau.

5 Y rhai ſydd yn hau mewn dagrau, a fedant mewn gorfoledd.

6 Yr hwn ſydd yn myned rhagddo, ac yn ŵylo, gan ddwyn hâd gwerthfawr, gan ddyfod a ddaw mewn gorfoledd, dan gludo ei yſcubau.

Niſi Dominus. Pſal. 127.

OS yr Arglwydd nid adeilada y tŷ, ofer y llafuria ei adeilad-wŷr wrtho: os yr Arglwydd ni cheidw 'r ddinas, ofer y gwilia y ceidwaid.

2 Ofer i chwi foreu-godi, myned yn hwyr i gyſcu, bwytta bara gofidiau: felly y rhydd efe hûn iw anwylyd.

3 Wele, plant ydynt etifeddiaeth yr Arglwydd, ei wobr ef yw ffrwyth y groth.

4 Fel y mae ſaethau yn llaw y cadarn, felly y mae plant ieuengctid.

5 Gwyn ei fyd y gŵr a lanwodd ei gawell ſaethau â hwynt: ni's gwradwyddir hwy, pan ymddiddanant â'r gelynion yn y porth.

Beati omnes. Pſal. 128.

GWyn ei fyd pob vn ſydd yn ofni yr Arglwydd: yr hwn ſydd yn rhodio yn ei ffyrdd ef.

2 Canys mwynhei lafur dy ddwylo: gwyn dy fyd a da fydd it.

3 Dy wraig ſydd fel gwinwydden ffrwyth-lawn ar hyd yſtlyſau dy dŷ: dy blant fel planhigion oliwydd o amgylch dy ford.

4 Wele fel hyn yn ddiau y bendithir y gŵr a ofno yr Arglwydd.

5 Yr Arglwydd a'th fendithia allan o Sion, a thi a gei weled daioni Ieruſalem holl ddydiau dy einioes,

6 A thi a gei weled plant dy blant, a thangneddyf ar Iſrael.

Sepe expugnauerunt me. Pſal. 129.

LLawer gwaith i'm cyſtuddiaſant o'm hieuengctid, y dichon Iſrael ddywedyd yn awr:

2 Llawer gwaith i'm cyſtuddiaſant o'm hieuengtid, etto ni'm gorfuant.

3 Yr arddwŷr a arddaſant ar fy nghefn, eſtynnaſant eu cwyſau yn hirion.

4 Yr Arglwydd ſydd gyfiawn, efe a dorrodd raffau y rhai annuwiol.

5 Gwradwydder hwy oll, a gyrrer yn eu hôl, y rhai a gaſânt Sion.

6 Byddant fel glaſ-wellt pen tai, yr hwn a wywa cyn y tynner ef ymmaith.

7 A'r hwn ni leinw y pladurwr ei law: na'r hwn ſyddo yn rhwymo yr yſcubau, ei fonwes,

8 Ac ni ddywed y rhai a ânt heibio, bendith yr Arglwydd arnoch: bendithiwn chwi yn Enw 'r Arglwydd.

De profundis clamaui. Pſal. 130.

O'R dyfnder y llefais arnat, ô Arglwydd.

2 Arglwydd clyw fy llefain, yſtyried dy gluſtiau wrth lef fy ngweddiau.

3 Os creffi ar anwireddau, Arglwydd: ô Arglwydd, pwy a ſaif?

4 Onid y mae gydâ thi faddeuant, fel i'th ofner.

5 Diſgwiliaf am yr Arglwydd, diſgwil fy enaid, ac yn ei air ef y gobeithiaf.

6 Fy enaid ſydd yn diſgwil am yr Arglwydd, yn fwy nag y mae y gwilwyr am y boreu; yn fwy nag y mae y gwilwyr am y boreu.

7 Diſgwilied Iſrael am yr Arglwydd, o herwydd y mae trugaredd gyd â'r Arglwydd, ac aml ymwared gyd ag ef.

8 Ac efe a wared Iſrael, oddi wrth ei holl anwireddau.

Domine non eſt. Pſal. 131.

O Arglwydd nid ymfalchiodd fy nghalon, ac nid ymdderchafodd fy llygaid: ni rodiais ychwaith mewn pethau rhy fawr, a rhy vchel i mi.

2 Eithr goſodais, a goſtegais fy enaid, fel vn wedi ei ddiddyfnu oddi wrth ei fam: fy enaid ſydd ynof fel vn wedi ei ddiddyfnu.

3 Diſgwilied Iſrael wrth yr Arglwydd, o'r pryd hyn hyd yn dragywydd.

Memento Domine. Pſal. 132.

O Arglwydd, cofia Ddafydd, a'i holl flinder:

2 Y modd y tyngodd efe wrth yr Arglwydd, ac yr addunodd i rymmus Dduw Iacob.

3 Ni ddeuaf i fewn pabell fy nhŷ, ni ddringaf ar erchwyn fy ngwely;

4 Ni roddaf gwſc i'm llygaid, na hun i'm amrantau:

5 Hyd oni chaffwyf le i'r Arglwydd; preſwylfod i rymmus Dduw Iacob.

6 Wele, clywſom am dani yn Ephrata: cawſom hi ym meuſydd y coed.

7 Awn iw bebyll ef, ymgrymmwn o flaen ei faingc draed ef.

8 Cyfod Arglwydd i'th orphywyſfa, ti ac Arch dy gadernid.

9 Gwiſced dy offeiriaid gyfiawnder: a gorfoledded dy Sainct.

10 Er mwyn Dafydd dy wâs, na thro ymmaith wyneb dy eneiniog.

11 Tyngodd yr Arglwydd mewn gwirionedd i Ddafydd, ni thrŷ efe oddi wrth hynny: o ffrwyth dy gorph y goſodaf ar dy orſedd-faingc.

12 Os ceidw dy feibion fy nghyfammod a'm tyſtiolaeth, y rhai a ddyſcwyf iddynt: eu meibion hwythau yn dragywydd a eiſteddant ar dy orſedd-faingc.

13 Canys dewiſodd yr Arglwydd Sion, ac a'i chwennychodd yn drigfa iddo ei hun.

14 Dymma fy ngorphywyſfa yn dragywydd: ymma y trigaf, canys chwennychais hi.

15 Gan fendithio y bendithiaf ei llyniaeth: diwallaf ei thlodion â bara.

16 Ei hoffeiriaid hefyd a wiſcaf ag iechydwreiaeth: a'i Sainct dan ganu a ganant.

17 Yna y paraf i gorn Dafydd flaguro: darperais lamp i'm heneiniog.

18 Ei elynion ef a wiſcaf â chywilydd, arno yntef y blodeua ei goron.

Ecce quam bonum. Pſal. 133.

WEle, mor ddaionus, ac mor hyfryd, yw trigo o frodyr ynghyd.

2 Y mae fel yr ennaint gwerthfawr ar y pen, yn deſcyn ar hŷd y farf, ſef barf Aaron: yr hwn oedd yn deſcyn ar hyd ymyl ei wiſcoedd ef.

3 Fel gwlith Hermon, ac fel y gwlith yn deſcyn ar fynyddoedd Sion: canys yno y gorchymynnodd yr Arglwydd y fendith, ſef bywyd yn dragywydd.

Ecce nunc benedicite. Pſal. 134.

WEle, holl weiſion yr Arglwydd, bendithiwch yr Arglwydd: y rhai ydych yn ſefyll yn nhŷ 'r Arglwydd y nôs.

2 Derchefwch eich dwylo yn y cyſſegr: a bendithiwch yr Arglwydd.

3 Yr Arglwydd yr hwn a wnaeth nefoedd a daiar, a'th fendithio di allan o Sion.

Laudate nomen. Pſal. 135.

MOlwch yr Arglwydd. Molwch Enw 'r Arglwydd; gweiſion yr Arglwydd, molwch ef.

2 Y rhai

2 Y rhai ydych yn ſefyll yn nhŷ 'r Arglwydd ; ynghynteddoedd tŷ ein Duw ni.

3 Molwch yr Arglwydd, canys da yw yr Arglwydd : cenwch iw Enw, canys hyfryd yw.

4 Oblegit yr Arglwydd a ddetholodd Iacob iddo ei hun, ac Iſrael yn briodoriaeth iddo.

5 Canys mi a wn mai mawr yw 'r Arglwydd ; a bod ein Harglwydd ni goruwch yr holl dduwiau.

6 Yr Arglwydd a wnaeth yr hyn oll a ſynnei, yn y nefoedd, ac yn y ddaiar, yn y môr, ac yn yr holl ddyfnderau.

7 Y mae yn codi tarth o eithafoedd y ddaiar, mellt a wnaeth efe ynghyd â'r glaw : gan ddwyn y gwynt allan o'i dryſſorau.

8 Yr hwn a darawodd gyntaf-anedic yr Aipht, yn ddŷn ac yn aniſail.

9 Danfonodd arwyddion a rhyfeddodau i'th ganol di 'r Aipht, ar Pharao, ac ar ei holl weiſion.

10 Yr hwn a darawodd genhedloedd lawer, ac a laddodd frenhinoedd cryfion :

11 Sehon brenin yr Amoriaid ; ac Og brenin Baſan : a holl frenhiniaethau Canaan :

12 Ac a roddodd eu tîr hwynt yn etifeddiaeth, yn etifeddiaeth i Iſrael ei bobl.

13 Dy Enw ô Arglwydd, a bery yn dragywydd : dy goffadwriaeth, ô Arglwydd, o genhedlaeth i genhedlaeth.

14 Canys yr Arglwydd a farna ei bobl, a bydd edifar gantho o ran ei weiſion.

15 Delwau y cenhedloedd ydynt arian ac aur, gwaith dwylo dŷn.

16 Genau ſydd iddynt, ond ni leſarant : llygaid ſydd ganddynt, ond ni welant.

17 Y mae cluſtiau iddynt, ond ni chlywant : nid oes ychwaith anadl yn eu genau.

18 Fel hwynt y mae y rhai a'i gwnant, a phob vn a ymddiriedo ynddynt.

19 Tŷ Iſrael, bendithiwch yr Arglwydd : bendithiwch yr Arglwydd, tŷ Aaron.

20 Tŷ Lefi, bendithiwch yr Arglwydd : y rhai a ofnwch yr Arglwydd, bendithiwch yr Arglwydd.

21 Bendithier yr Arglwydd o Sion, yr hwn ſydd yn trigo yn Ieruſalem. Molwch yr Arglwydd.

Confitemini Domino. *Pſal.* 136.

CLodforwch yr Arglwydd, canys da yw : o herwydd ei drugaredd ſydd yn dragywydd.

2 Clodforwch Dduw y duwiau : oblegit ei drugaredd ſydd yn dragywydd.

3 Clodforwch Arglwydd yr arglwyddi : o herwydd ei drugaredd ſydd yn dragywydd.

4 Yr hwn yn vnic ſydd yn gwneuthur rhyfeddodau : canys ei drugaredd ſydd yn dragywydd.

5 Yr hwn a wnaeth y nefoedd mewn doethineb : o herwydd ei drugaredd ſydd yn dragywydd.

6 Yr hwn a eſtynnodd y ddaiar oddi ar y dyfroedd : oblegit ei drugaredd ſydd yn dragywydd.

7 Yr hwn a wnaeth oleuadau mawrion : canys ei drugaredd ſydd yn dragywydd.

8 Yr haul i lywodraethu 'r dydd : canys ei drugaredd ſydd yn dragywydd.

9 Y lleuad a'r ſêr i lywodraethu 'r nos : canys ei drugaredd ſydd yn dragywydd.

10 Yr hwn a darawodd yr Aipht, yn eu cyntaf-anedic : o herwydd ei drugaredd ſydd yn dragywydd.

11 Ac a ddug Iſrael o'i myſc hwynt : o herwydd ei drugaredd ſydd yn dragywydd.

12 A llaw gref, ac â braich eſtynnedic : o herwydd ei drugaredd ſydd yn dragywydd.

13 Yr hwn a rannodd y môr côch yn ddwy-ran : o herwydd ei drugaredd ſydd yn dragywydd.

14 Ac a wnaeth i Iſrael fyned trwy ei ganol : o herwydd ei drugaredd ſydd yn dragywydd.

15 Ac a eſcyttiodd Pharao a'i lû, yn y môr côch : o herwydd ei drugaredd ſydd yn dragywydd.

16 Ac a dywyſodd ei bobl drwy 'r anialwch : o herwydd ei drugaredd ſydd yn dragywydd.

17 Yr hwn a darawodd frenhinoedd mawrion : o herwydd ei drugaredd ſydd yn dragywydd.

18 Ac a laddodd frenhinoedd ardderchog : o herwydd ei drugaredd ſydd yn dragywydd.

19 Sehon brenin yr Amoriaid : o herwydd ei drugaredd ſydd yn dragywydd.

20 Ac Og brenin Baſan : o herwydd ei drugaredd ſydd yn dragywydd.

21 Ac a roddodd eu tîr hwynt yn etifeddiaeth : o herwydd ei drugaredd ſydd yn dragywydd.

22 Yn etifeddiaeth i Iſrael ei wâs : o herwydd ei drugaredd ſydd yn dragywydd.

23 Yr hwn yn ein hiſel-radd a'n cofiodd ni : o herwydd ei drugaredd ſydd yn dragywydd.

24 Ac a'n hachubodd ni oddi wrth ein gelynion : o herwydd ei drugaredd ſydd yn dragywydd.

25 Yr hwn ſydd yn rhoddi ymborth i bob cnawd : canys ei drugaredd ſydd yn dragywydd.

26 Clodforwch Dduw 'r nefoedd : canys ei drugaredd ſydd yn dragywydd.

Super flumina. *Pſal.* 137.

WRth afonydd Babilon, yno yr eiſteddaſom, ac wylaſom, pan feddyliaſom am Sion.

2 Ar yr helyg o'i mewn y crogaſom ein telynau.

3 Canys yno y gofynnodd y rhai a'n caethiwaſent i ni gân, a'r rhai a'n anrheithiaſei, lawenydd, gan ddywedyd, cenwch i ni rai o ganiadau Sion.

4 Pa fodd y canwn gerdd yr Arglwydd, mewn gwlad ddieithr?

5 Os anghofiaf di Ieruſalem, anghofied fy neheulau ganu.

6 Glyned fy nhafod wrth daflod fy ngenau, oni chofiaf di, oni chodaf Ieruſalem goruwch fy llawenydd pennaf.

7 Cofia Arglwydd blant Edom yn nydd Ieruſalem : y rhai a ddywedent, dinoethwch, dinoethwch hi, hyd ei ſylfaen.

8 Oh ferch Babilon a anrheithir, gwyn ei fyd a dalo i ti, fel y gwnaethoſt i ninnau.

9 Gwyn ei fyd a gymmero, ac a darawo dy rai bâch wrth y meini.

Confitebor tibi Domine. *Pſal.* 138.

CLodforaf di a'm holl galon : yngŵydd y duwiau y canaf it.

2 Ymgrymmaf tu a'th deml ſanctaidd : a chlodforaf dy Enw, am dy drugaredd a'th wirionedd : o blegit ti a fawrheaiſt dy air vwchlaw dy Enw oll.

3 Y dydd y llefais i'm gwrandawaiſt : ac a'm cadarnheaiſt â nerth yn fy enaid.

4 Holl frenhinoedd y ddaiar a'th glodforant, ô Arglwydd : pan glywant eiriau dy enau.

5 Canant hefyd am ffyrdd yr Arglwydd : canys mawr yw gogoniant yr Arglwydd.

6 Er bod yr Arglwydd yn vchel, etto efe a edrych ar yr iſſel, ond y balch a edwyn efe o hir-bell.

7 Pe rhodiwn ynghanol cyfyngder, ti a'm bywhait : eſtynnit dy law yn erbyn digofaint fy ngelynion, a'th ddeheulaw a'm hachubei.

8 Yr Arglwydd a gyflawna â mi : dy drugaredd Arglwydd, ſydd yn dragywydd, nac eſcculuſa waith dy ddwylo.

Domine probaſti. *Pſal.*139.

Boreuol weddi.

ARglwydd chwiliaiſt, ac adnabuoſt fi.

2 Ti a adwaenoſt fy eiſteddiad, a'm cyfodiad: deelli fy meddwl o bell.

3 Amgylchyni fy llwybr a'm gorweddfa: ac yſpys wyt yn fy holl ffyrdd.

4 Canys nid oes air ar fy nhafod, ond wele Arglwydd, ti a'i gwyddoſt oll.

5 Amgylchynaiſt fi yn ôl, ac ym mlaen: a goſodaiſt dy law arnaf.

6 Dymma wybodaeth ry ryfedd i mi: vchel yw, ni fedraf oddi wrthi.

7 I ba le'r âf oddi wrth dy Yſpryd? ac i ba le y ffoaf o'th wydd?

8 Os dringaf i'r nefoedd, yno yr wyt ti; os cyweiriaf fy ngwely yn vffern, wele di yno.

9 Pe cymmerwn adenydd y wawr, a phe trigwn yn eithafoedd y môr.

10 Yna hefyd i'm tywyſei dy law, ac i'm daliai dy ddeheu law.

11 Pe dywedwn, diau y tywyllwch a'm cuddia: yna y byddei y nos yn oleuni o'm hamgylch.

12 Ni thywylla y tywyllwch rhagot ti, ond y nôs a oleua fel dydd: vn ffunyd yw tywyllwch a goleuni i ti.

13 Canys ti a feddiennaiſt fy arennau, toaiſt fi ynghroth fy mam.

14 Clodforaf dydi, canys ofnadwy, a rhyfedd i'm gwnaed: rhyfedd yw dy weithredoedd, a'm henaid a wŷr hynny yn dda.

15 Ni chuddiwyd fy ſylwedd oddi wrthit, pan i'm gwnaethbwyd yn ddirgel, ac i'm cywreiniwyd yn iſſelder y ddaiar.

16 Dy lygaid a welſant fy anelwig ddefnydd, ac yn dy lyfr di yr ſcrifennwyd hwynt oll, y dydd y llunniwyd hwynt, pan nad oedd yr vn o honynt.

17 Am hynny mor werthfawr yw dy feddyliau gennif, ô Dduw! mor fawr yw eu ſwm hwynt!

18 Pe cyfrifwn hwynt, amlach ydynt nâ'r tywod: pan ddeffrowyf, gyd â thi 'r ydwyf fi yn waſtad.

19 Yn ddiau ô Dduw, ti a leddi yr annuwiol: am hynny y gwŷr gwaedlyd, ciliwch oddi wrthif.

20 Y rhai a ddywedant ſcelerder yn dy erbyn, dy elynion a gymmerant dy Enw yn ofer.

21 Onid câs gennif, ô Arglwydd, dy gaſeion di? onid ffiaidd gennif y rhai a gyfodant i'th erbyn?

22 A châs cyflawn y caſeais hwynt: cyfrifais hwynt i mi yn elynion.

23 Chwilia fi ô Dduw, a gwybydd fy nghalon: prawf fi, a gwybydd fy meddyliau.

24 A gwêl, a oes ffordd annuwiol gennif: a thywys fi yn y ffordd dragywyddol.

Eripe me Domine. *Pſal.*140.

GWared fi, ô Arglwydd, oddi wrth y dŷn drwg: cadw fi rhag y gŵr traws.

2 Y rhai ſydd yn bwriadu drygioni yn eu calon: ymgaſclant beunydd i ryfel.

3 Golymmaſant eu tafodau fel ſarph: gwenwyn aſp ſydd tan eu gwefuſau. *Selah.*

4 Cadw fi, ô Arglwydd, rhag dwylo 'r annuwiol, cadw fi rhag y gŵr traws; y rhai a fwriadaſant fachellu fy nhraed.

5 Y beilchion a guddiaſant faglau i mi, ac a eſtynnaſant rwyd wrth dannau ar ymmyl y llwybrau: goſodaſant hoenynnau ar fy medr. *Selah.*

6 Dywedais wrth yr Arglwydd, fy Nuw ydwyt ti: clyw, ô Arglwydd, lef fy ngweddiau.

7 Arglwydd Dduw, nerth fy iechydwriaeth: gorchguddiaiſt fy mhen yn nydd brwydr.

8 Na chaniadhâ Arglwydd, ddymuniad yr annuwiol: na lwydda ei ddrwg feddwl, rhag eu balchio hwynt. *Selah.*

9 Y pennaf o'r rhai a'm hamgylchyno, blinder eu gwefuſau a'i gorchguddio.

10 Syrthied marwor arnynt, a bwrier hwynt yn tân: ac mewn ceu ffoſydd, fel na chyfodant.

11 Na ſicrhaer dŷn ſiaradus ar y ddaiar: drwg a hêla y gŵr traws iw ddiſtryw.

12 Gwn y dadleu yr Arglwydd ddadl y truan, ac y barna efe y tlodion.

13 Y cyfiawn yn ddiau a glodforant dy Enw di: y rhai vniawn a drigant ger dy fron di.

Domine clamavi. *Pſal.*141.

ARglwydd, yr wyf yn gweiddi arnat; bryſia attaf; clyw fy llais pan lefwyf arnat.

2 Cyfeirier fy ngweddi ger dy fron fel arogldarth, a derchafiad fy nwylo fel yr offrwm prydnhawnol.

3 Goſod Arglwydd, gadwraeth o flaen fy ngenau: cadw ddrws fy ngwefuſau.

4 Na oſtwng fy nghalon at ddim drwg, i fwriadu gweithredoedd drygioni, gyd â gwŷr a weithredant anwiredd; ac na âd i mi fwyta o'i danteithion hwynt.

5 Cured y cyfiawn fi yn garedig, a cherydded fi: na thorred eu holew pennaf hwynt fy mhen: canys fy ngweddi fydd etto yn eu drygau hwynt.

6 Pan dafler eu barn-wŷr i lawr mewn lleoedd caregog, clywant fy ngeiriau, canys melus ydynt.

7 Y mae ein heſcyrn ar waſcar ar fîn y bedd, megis vn yn torri, neu yn hollti coed ar y ddaiar.

8 Eithr arnat ti ô Arglwydd Dduw, y mae fy llygaid: ynot ti y gobeithiais, na âd fy enaid yn ddiymgeledd.

9 Cadw fi rhag y fagl a oſodaſant i mi: a hoenynnau gweithred-wŷr anwiredd.

10 Cyd-gwymped y rhai annuwiol yn eu rhwydau eu hun, tra elwyf fi heibio.

Voce mea ad Dominum. *Pſal.*142.

GWaeddais â'm llef ar yr Arglwydd: â'm llef yr ymbiliais â'r Arglwydd.

2 Tywelltais fy myfyrdod o'i flaen ef: a mynegais fy nghyſtudd ger ei fron ef.

3 Pan ballodd fy yſpryd o'm mewn, tithau a a adwaenit fy llwybr; yn y ffordd y rhodiwn y cuddiaſant i mi fagl.

4 Edrychais ar y tu dehau, a deliais ſylw, ac nid oedd neb a'm hadwaenai: pallodd nodded i mi, nid oedd neb yn ymofyn am fy enaid.

5 Llefais arnat ô Arglwydd, a dywedais, ti yw fy ngobaith, a'm rhan, yn nhîr y rhai byw.

6 Yſtyr wrth fy ngwaedd, canys truan iawn ydwyf: gwared fi oddi wrth fy erlid-wŷr canys trêch ydynt nâ mi.

7 Dwg fy enaid allan o garchar, fel y moliannwyf dy Enw: y rhai cyfiawn a'm cylchynant, canys ti a fyddi da wrthif.

Domine exaudi. *Pſal.*143.

ARglwydd clyw fy ngweddi, a gwrando ar fy neiſyfiadau: erglyw fi yn dy wirionedd, ac yn dy gyfiawnder.

2 Ac na ddôs i farn â'th wâs, o herwydd ni chyfiawnheir neb byw yn dy olwg di.

3 Canys y gelyn a erlidiodd fy enaid, curodd fy enaid i lawr, gwnaeth i mi drigo mewn tywyllwch, fel y rhai a fu feirw er yſtalm.

4 Yna y palledd fy yſpryd o'm mewn: ac y [illegible] fy nghalon ynof.

5 Coffais y dyddiau gynt, myfyriais ar dy holl [illegible]: ac yng-weithredoedd dy ddwylo y myfyriaf.

6 Lledais fy nwylaw attat: fy enaid ſel tir ſychedic ſydd yn hiraethu am danat. Selah.

7 [illegible] Arglwydd, gwrando fi yn ebrwydd: pallodd fy yſpryd: na chuddia dy wyneb oddi wrthif, [illegible] yn gyffelyb i'r rhai a ddeſcynnant i'r pwll.

8 Pâr i mi glywed dy drugarogrwydd y borau: o herwydd ynot ti y gobeithiaf: pâr i mi [illegible] y ffordd y rhodiwyf, o blegit attat ti y derchafaf fy enaid.

9 Gwared fi oddi wrth fy ngelynion, ô Arglwydd: gyd â thi 'r ymguddiais.

10 Dyſc i mi wneuthur dy ewyllys di: canys ti yw fy Nuw: cywyſed dy Yſpryd daionus fi i [illegible].

11 Bywhâ fi ô Arglwydd er mwyn dy Enw: dwg fy enaid allan o [illegible] er mwyn dy gyfiawnder.

12 Ac er dy drugaredd, diniſtria fy ngelynion: a diſtrywia holl gyſtudd-wyr fy enaid: o blegit dy wâs di ydwyf.

Benedictus Dominus. Pſal. 144.

BEndigedic fyddo 'r Arglwydd fy nerth yr hwn ſydd yn dyſcu fy nwylo i ymladd, a 'm byſedd i ryfela.

2 Fy nhrugaredd a'm hamddeffynfa, fy nhŵr, a'm gwaredudd, fy nharian yw efe, ac ynddo y gobeithiais: yr hwn ſydd yn darostwng fy mhobl tanaf.

3 Arglwydd, beth yw dyn, pan gydnabyddit ef? neu fab dyn, pan wnait gyfrif o honaw?

4 Dyn ſydd debyg i wagedd: ei ddyddiau ſydd fel cyſcod yn myned heibio.

5 Arglwydd, goſtwng dy nefoedd, a diſgyn: cyffwrdd â'r mynyddoedd, a mygant.

6 Saethâ fellt, a gwaſcar hwynt: ergydia dy ſaethau, a difa hwynt.

7 Anfon dy law oddi [illegible], achub, a gwared fi o ddyfroedd mawrion, o [illegible].

8 Y rhai y lleſara eu genau wagedd, ac y mae eu deheulaw yn [illegible] ffalſder.

9 Canaf i ti ô Dduw, ganiad newydd: ar y nabl, a'r [illegible] i ti.

10 Efe ſydd yn rhoddi iechydwriaeth i frenhinoedd, yr hwn ſydd yn gwaredu Dafydd ei wâs oddi wrth y cleddyf niweidiol.

11 [illegible] fi, a gwared fi o law meibion eſtron, y rhai y lleſara eu genau wagedd: ac y mae eu deheulaw yn ddeheulaw ffalſter.

12 Fel y byddo ein meibion fel planhigion yn tyfu yn eu hieuengctid, a'n merched fel congl-fain nâdd, wrth gyffelybrwydd palâs.

13 Fel y byddo ein celloedd yn llawn, yn trefnu pob rhyw luniaeth, a'n defaid yn dwyn miloedd, a myrddiwn yn ein heolydd.

14 A'n hychen yn gryfion i lafurio, heb na rhuthr i mewn, na myned allan, na gwaedd yn ein heolydd.

15 Gwyn ei fyd y bobl y mae felly iddynt, gwyn ei fyd y bobl y mae'r Arglwydd yn Dduw iddynt.

Exaltabo te Domine. Pſal. 145.

DErchafaf di fy Nuw, ô Frenhin: a bendithiaf dy Enw byth, ac yn dragywydd.

2 Beunydd i'th fendithiaf, a'th Enw a folaf byth, ac yn dragywydd.

3 Mawr yw 'r Arglwydd, a chanmoladwy iawn: a'i fawredd ſydd anchwiliadwy.

4 Cenhedlaeth wrth genhedlaeth a fawl dy weithredoedd, ac a fynega dy gadernid.

5 Ardderchawgrwydd gogoniant dy fawredd, a'th bethau rhyfedd a draethaf.

6 Traethant hwy gadernid dy weithredoedd ofnadwy: a mynegaf finnau dy fawredd.

7 Coffadwriaeth amlder dy ddaioni a draethant: a'th gyfiawnder a ddatganant.

8 Graſlawn, a thrugarog yw'r Arglwydd: hwyrfrydic i ddig, a mawr o drugaredd.

9 Daionus yw'r Arglwydd i bawb: a'i drugaredd ſydd ar ei holl weithredoedd.

10 Dy holl weithredoedd a'th glodforant, ô Arglwydd: a'th Saint a'th fendithiant.

11 Dywedant am ogoniant dy frenhiniaeth: a thraethant dy gadernid.

12 I beri i feibion dynion adnabod ei gadernid ef: a gogoniant ardderchawgrwydd ei frenhiniaeth.

13 Dy frenhiniaeth di ſydd frenhiniaeth [illegible]: a'th lywodraeth a bery [illegible].

14 Yr Arglwydd ſydd yn cynnal y rhai oll a ſyrthiant: ac ſydd yn codi pawb a ddarostyngwyd.

15 Llygaid pob peth a ddiſgwiliant wrthit ti: ac yr ydwyt yn rhoddi eu bwyd iddynt yn ei bryd.

16 Ti a agoryd dy law, a diwalli pob peth byw â'th ewyllys da.

17 Cyfiawn yw 'r Arglwydd yn ei holl ffyrdd: a ſanctaidd yn ei holl weithredoedd.

18 Agos yw 'r Arglwydd at y rhai oll a alwant arno: at y rhai oll a alwant arno mewn gwirionedd.

19 Efe a wna ewyllys y rhai a'i hofnant: [illegible] eu llefain, ac a'i hachub hwynt.

20 Yr Arglwydd ſydd yn cadw pawb a'i carant: ond yr holl rai annuwiol a ddiſtrywia efe.

21 Traetha fy ngenau foliant yr Arglwydd: a bendithied pob cnawd ei Enw ſanctaidd ef, byth ac yn dragywydd.

Laudate Dominum anima. Pſal. 146.

MOlwch yr Arglwydd. Fy enaid, mola di yr Arglwydd.

2 Molaf yr Arglwydd yn fy mywyd: canaf i'm Duw tra fyddwyf.

3 Na hyderwch ar dywyſogion, nac ar fab dyn, yr hwn nid oes [illegible].

4 Ei anadl a â allan, efe a ddychwel i'w ddaiar: y dydd hwnnw y derfydd am ei holl amcanion ef.

5 Gwyn ei fyd yr hwn y mae Duw Jacob yn gymmorth iddo: ſydd â'i obaith yn yr Arglwydd ei Dduw.

6 Yr hwn a wnaeth nefoedd a daiar, y môr, a'r hyn oll ſydd ynddynt: yr hwn ſydd yn cadw gwirionedd yn dragywydd.

7 Yr hwn ſydd yn gwneuthur barn i'r rhai gorthrymmedic, yn rhoddi bara i'r newynoc: yr Arglwydd ſydd yn gollwng y carcharorion yn rhydd.

8 Yr Arglwydd ſydd yn agoryd llygaid y deillion: yr Arglwydd ſydd yn codi y rhai a ddaroſtyngwyd, yr Arglwydd ſydd yn hoffi y rhai cyfiawn.

9 Yr Arglwydd ſydd yn cadw y dieithriaid, efe a gynnal yr ymddifad a'r weddw: ac a ddadymchwel ffordd y rhai annuwiol.

10 Yr Arglwydd a deyrnasa byth: ſef dy Dduw di Sion, dros genhedlaeth a chenhedlaeth. Molwch yr Arglwydd.

Laudate Dominum. Pſal. 147.

Prydnhawnol weddi.

MOlwch yr Arglwydd, canys da yw canu i'n Duw ni: o herwydd hyfryd yw, ie gweddus yw mawl.

2 Yr Arglwydd ſydd yn adeiladu Jeruſalem, efe a gaſcl waſcaredigion Iſrael.

3 Efe ſydd yn iachau y rhai briwedic o galon: ac yn rhwymo eu doluriau.

4 Y mae efe yn rhifo rhifedi y ſêr: geilw hwynt oll wrth eu henwau.

5 Mawr yw ein Harglwydd, a mawr ei nerth, aneirif yw ei ddeall.

6 Yr Arglwydd ſydd yn derchafu y rhai llariaidd, gan oſtwng y rhai annuwiol hyd lawr.

7 Cyd-genwch i'r Arglwydd mewn diolchgarwch: cenwch i'n Duw â'r delyn.

8 Yr hwn ſydd yn toi y nefoedd â chymylau: yn paratoi glaw i'r ddaiar: gan beri i'r gwellt dyfu ar y mynyddoedd.

9 Efe ſydd yn rhoddi i'r anifail ei borthiant: ac i gywion y gig-fran, pan lefant.

10 Nid oes hyfrydwch ganddo yn nerth march: ac nid hoffa efe yn eſceiriau gŵr.

11 Yr Arglwydd ſydd hoff ganddo y rhai a'i hofnant: ſef y rhai a ddiſgwiliant wrth ei drugaredd ef.

12 Jeruſalem mola di 'r Arglwydd, Sion molianna dy Dduw.

13 O herwydd efe a gadarnhaodd farrau dy byrth, efe a fendithiodd dy blant o'th fewn.

14 Yr hwn ſydd yn gwneuthur dy fro yn heddychol, ac a'th ddiwalla â braſter gwenith.

15 Yr hwn ſydd yn anfon ei orchymyn ar y ddaiar: a'i air a red yn dra buan.

16 Yr hwn ſydd yn rhoddi eira fel gwlân: ac a daena rew fel lludw.

17 Yr hwn ſydd yn bwrw ei iâ fel tammeidiau, pwy a erys gan ei oerni ef?

18 Efe a enfyn ei air, ac a'i tawdd hwynt: â'i wynt y chwyth efe, a'r dyfroedd a lifant.

19 Y mae efe yn mynegi ei eiriau i Jacob: ei ddeddfau a'i farnedigaethau i Iſrael.

20 Ni wnaeth efe felly ag un genedl: ac nid adnabuant ei farnedigaethau ef. Molwch yr Arglwydd.

Laudate Dominum, Pſal. 148.

MOlwch yr Arglwydd. Molwch yr Arglwydd o'r nefoedd: molwch ef yn yr uchelderau.

2 Molwch ef ei holl Angelion: molwch ef ei holl luoedd.

3 Molwch ef haul a lleuad: molwch ef yr holl ſêr goleuni.

4 Molwch ef nef y nefoedd a'r dyfroedd y rhai ydych oddi ar y nefoedd.

5 Molant Enw 'r Arglwydd: o herwydd efe a orchymynodd, a hwy a grewyd.

6 A gwnaeth iddynt barhau byth yn dragywydd: goſododd ddeddf, ac nis troſeddir hi.

7 Molwch yr Arglwydd o'r ddaiar, y dreigiau a'r holl ddyfnderau.

8 Tân a chenllyſc, eira, a tharth: gwynt yſtormus, yn gwneuthur ei air ef.

9 Y mynyddoedd a'r bryniau oll, y coed ffrwythlawn a'r holl gedr-wŷdd.

10 Y bwyſt-filod, a phob anifail: yr ymlusciaid, ac adar aſcellog.

11 Brenhinoedd y ddaiar a'r holl bobloedd: tywyſogion a holl farnwŷr y byd.

12 Gwŷr ieuaingc a gweryſon hefyd: henafgwŷr a llangciau:

13 Molant Enw 'r Arglwydd: o herwydd ei Enw ef yn unic ſydd dderchafadwy: ei ardderchawgrwydd ef ſydd uwch law daiar a nefoedd.

14 Ac efe ſydd yn derchafu corn ei bobl, moliant ei holl Saint, ſef meibion Iſrael, pobl agos atto. Molwch yr Arglwydd.

Cantate Domino. Pſal. 149.

MOlwch yr Arglwydd. Cenwch i'r Arglwydd ganiad newydd: a'i foliant ef yng-hynnulleidfa y Saint.

2 Llawenhaed Iſrael yn yr hwn a'i gwnaeth: gorfoledded meibion Sion yn eu brenin.

3 Molant ei Enw ef ar y dawns: canant iddo ar dympan, a thelyn.

4 O herwydd hoffodd yr Arglwydd ei bobl: efe a brydfertha y rhai llednais ag iechydwriaeth.

5 Gorfoledded y Saint mewn gogoniant: a chanant ar eu gwelau.

6 Bydded ardderchog foliant Duw yn eu genau: a chleddyf daufiniog yn eu dwylo,

7 I wneuthur dial ar y cenhedloedd, a chosb ar y bobloedd:

8 I rwymo eu brenhinoedd â chadwynau: a'i pendefigion â gefynnau heirn:

9 I wneuthur arnynt y farn ſcrifennedic: yr ardderchawgrwydd hyn ſydd iw holl Saint ef. Molwch yr Arglwydd.

Laudate Dominum. Pſal. 150.

MOlwch yr Arglwydd. Molwch Dduw yn ei ſancteiddrwydd: molwch ef yn ffurfafen ei nerth.

2 Molwch ef am ei gadernid: molwch ef yn ôl amlder ei fawredd.

3 Molwch ef â llais udcorn: molwch ef â nabl, ac â thelyn.

4 Molwch ef â thympan, ac â dawns: molwch ef â thannau, ac ag organ.

5 Molwch ef â ſymbalau ſoniarus: molwch ef â ſymbalau llafar.

6 Pob perchen anadl moliannued yr Arglwydd. Molwch yr Arglwydd.

DIWEDD.

Llyfr y Pſalmau,

WEDI EV CYFIEITHV, A'ï CYFANSODDI
Ar Feſur Cerdd, yn
Gymraeg.

DRWY WAITH
EDMWND PRYS
ARCHDIACON
MEIRIONNYDD.
(⁂)

A'I PRINTIO
YN LLVNDAIN.
1630.

¶ AT Y DARLLEYDD YSTYRIOL.

TRi pheth a wnaeth na chyfiaithwyd y Pſalmau bendigaid ar yr vn o'r pedwar meſur ar hugain.

Vn yw, am na allwn ryfygu clymu yr Scrythur ſanctaidd ar feſur cyn gaethed, rhac i mi wrth geiſio cadw y meſurau, golli deall yr Yſpryd, ac felly pechu yn erbyn Duw er mwyn bodloni dyn.

Yn ail, y mae gair Duw iw ganu mewn cynnulleidfa ſanctaidd o lawer ynghyd, i foliannu Duw yn vn llais, vn feddwl, vn galon; yr hyn a allant ei wneuthur ar y meſur gwael hwn, ac ni allai ond vn ganu cywydd neu awdl.

Yn drydydd, pob plant, gweinidogion, a phobl annyſcedic à ddyſcant bennill o garol, lle ni allai ond yſgolhaig ddyſcû Cywydd neu gerdd gyfarwydd arall. Ac o achos bôd yn berthynol i bob Chriſtion wybod ewyllys Duw, a'i foliannu ef, mi a ymadewais â'r gelfyddyd, er mwyn bod pawb yn rhwymedic i wario ei dalent at y gorau. Hefyd nid wyf fi yn cadw mor meſûr eſmwyth hwn yn gywir ymhob man, am nad oes dim yn ein iaith ni mewn ſynwyr i ſcinio nac i odli â Duw. Am hynny i roi iddo ef ei ragor pioedd y gerdd, mi a rois amryw ddiphthongau eraill i gyfatteb â'r gair hwnnw, yn neſaf ac y medrwn.

Te Deum.

TYdi (o Dduw) a folwn ni,
addefwn di yn Arglwydd,
Y ddaiar oll, (dragwyddol Dad)
gwna yt addoliad hylwydd.
Arnat ti oll Angylion nef
a ront eu llef heb dewi,
Y nefoedd hefyd oddiar hyn,
a'r nerthoedd ſy'n y rhei'ni,

Cherub, a Seraphin, a ſydd
yn llefain beunydd attat,
Sanct, Sanct, Sanct, Arglwydd Saboth glan,
fal hyn y galwan arnat.
Nefoedd, a daiar ſydd yn llawn
o'th wirddawn, a'th ogoniant.
Yr Apoſtolion, hefryd gor,
a rón yt' ragor foliant.

Moliannus rif y Prophwydi
ſy i'th folt o'r dechreuad,
A'r Merthyron ardderchog lu,
ſydd i'th foliannu'n waſtad.
Dy Eglwys wir gatholig lan,
(hon ſydd ar dân drwy'r holl fyd)
O Arglwydd, a'th addola di,
yn vn ac yn dri hefyd.

Y Tad o anfeidrol fawredd:
gwir Fab gogonedd vnig:
A hefyd y glan Yſpryd par,
ſydd i ni'n gyffur diddig.
Ti wyt (O Chriſt yr vnig Sanct)
frenin gogoniant graſol,
Wyt hefyd i'r tragwyddol Dad
yn wirfab rhad tragwyddol.

Pan gym'raiſt arnat wared dyn
o feddiant gelyn anfwyn,
Diyſtyr gennit ti ni bu
dy eni o fru y forwyn.
Pan ſethraiſt angau: teyrnas nef
i bob ffydd gref agoraiſt.
Yn gogoniant yr hael-dad byw,
ar ddeau Duw eiſteddaiſt.

Credu yr ym ſi diſigl ffydd
mai ti ſydd barnwr arnom:
Am hyn, er ein cynorthwyaw,
bid dy ddeheulaw droſom.
Dy bobl di ydym (o Dduw 'n nerth)
prid werth dy waed ſancteiddiol;
Par gael ein cyfrif gyda'th ſaint
mewn gogoniant tragwyddol.

Cadw dy bobl (o Arglwydd da)
bendithia d'etifeddiaeth.
Dyrcha hwynt byth: gwna iddynt fod
dan gyſgod dy lywodraeth.
O ddydd i ddydd i'th glodforwn:
mawrhygwn dy enw bythoedd.
Teilynga ein cadw ni heddyw
rhag pechu (o Dduw 'r lluoedd)

O Arglwydd wrthym trugarha,
trugaredd gwna a'r eiddod.
Dy ſerch di arnom tywynned,
bydd ein ymddiried ynod.
Mewn dim nid ymddiriedais i
ond ynot ti (o Arglwydd)
N'ad byth ym' gwilydd achos hyn,
o Dduw, na derbyn gwradwydd.

Benedicite omnia opera.

CHwi holl weithredoedd Arglwydd nef,
bendithiwch ef ein llywydd:
Gogoneddwch, a chlodforwch,
mawrhygwch yn dragywydd.
Chwi yr angylion glan o'r nef
moliennwch ef yn hyfryd.
Chwithau nefoedd, a ffurfafen,
a'r dyfroedd vwchben hefyd.

Chwithau nerthoedd mawr: haul a lloer,
Caſodau oer a gwyntoedd,
Chwi dân a gwres; gauaf, a haf:
a gwlith araf o'r nefoedd.
Chwithau oerfel, rhewlyd, ag iâ,
a rhew ac eira tewdrwch,
Chwi noſweithiau a dyddiau, chwi
oleuni a thywyllwch.

Mellt, cymylau, a daiar gron,
ac ſydd ar hon yn tyfu:
Mynyddoedd vchel, a'r brynian,
a'r gloyw ffynonau oeru.
Y moroedd, a'r llifeiriant mawr,
rhyd eigion llawer a'i helynt:
Morfilod braiſg, a phyſgod mân,
y rhai a nofian' yntddynt.

Holl adar is yr awyr fen,
a phob perchen anianydd,
Anfeilieid maes, bwyſtfilod coed,
i'r Arglwydd dôd a'i gwrydd.
Chwi holl ddynion, eu plant, a'i hil,
a'i heppil darbodedig,
Ty Iſrael yn anad vn,
ei bobl ei hun enwedig.

Chwi offeiriaid ſydd iw deml wên,
a'i hollawl lawen weiſion.

Chwi 'ſprydoedd ac eneidiau glan,
a phawb ſydd burlan galon,
Ananias, Azarias,
y ſy a'r awen ddwiol,
Tithau yn drydydd Miſael,
O Iſrael ddewiſol.

Chwi holl weithredoedd, &c.
fel yn y dechreu.

Cân Zecharias.

68 HWn ſydd dros Iſrael Arglwydd Dduw,
bendigaid yw vwch oeſoedd:
Am ymweled â ni mor gu,
ac am bryn ei bobloedd.
69 Yr hwn a roes gorn a nerth ffaeth
yn iechydwriaeth ddedwydd,
A'i godi i ni o'i air a'i ras
o deulu ei was Dafydd.

70 Yr hwn addewid nid oedd an
o enau y prophwydi,
Y rhai oedd o ddechrau y byd:
wele ei gyd-gyflawni.
71 Sef, y rhoe'i ni'r ymwared hon
rhag ein gelynion hynny:
A'n gwared o ddwylo'n holl gas,
wel dyna'i ras yn ffynny.

72 Y rhoe nawdd i'n tadau nyni,
a chofio'i ſanct ddygymod,
73 A'i lw i Abraham ein Tad,
yn rhwymiad o'r cyfamod.
74 Sef gwedi'n rhoddi ni ar led
oddiwrth gaethiwed gelyn:
Cael heb ofn ei waſanaethu ef,
heb vn llaw gref i'n herbyn.

75 Holl ddyddiau'n heinioes gar ei fron
yn vnion ac yn ſanctaidd,
Holl ddyddiau'n heinioes, &c.
Cenwch ddwywaith.

76 Tithau fab bychan, fe'th elwir
yn brophwyd i'r Goruchaf;
Cans ai o'i flaen i baratoi
ei ffyrdd, a'n troi iw noddfa.
77 I roi gwybodaeth i'w bobl ef
ddyfod o'r nef ag iechyd,
Drwy ei faddeuant i'n rhyddhau
oddiwrth bechodau enbyd.

78 O ferion trugaredd Duw tad
a'i ymwelediad tyner
Tywynnodd arnom ymhob man
yr haulgan o'r vchelder.
79 I roddi llewyrch diſglair glod
i rhai ſy'nghyſgod angau,
A chyfeirio ein traed i'w ol
ar hyd heddychol lwybrau.

Gogoniant fyth a fô i'r Tad,
i'r Mâb rhâd, a'r glân Yſpryd,
Fel y bû, y mae, ac y bydd,
yn Duw tragywydd hyfryd.

Cân Mair forwyn.

46 FY enaid a fawrha'r Arglwydd,
yr vnſwydd gwna fy yſpryd,
47 Yr hwn ynof hefyd yw,
drwy gredu'n Nuw fy iechyd.
48 Cans edrychodd ar iſel wedd
a gwaeledd ei lawforwyn.
A dedwydd fyth y gelwir fi
gan bob rhieni addwyn.

49 Cans hwn ſydd allnog bennaeth
a'm gwnaeth i yn fawr hygar:
Bendigaid fytho ei enw ef,
yr Arglwydd nef a daiar.
50 A'i drugaredd ef byth a ſai
dros bob rhai ar a'i hofnant:
51 A'r beilch gwaſgarodd ef, a'i nerth,
mae'n brydferth ei ogoniant.

52 Fe dynnodd y rhai cedyrn mawr
i lawr o'i holl gadernyd:
Fe a gododd ac a fawrhadd
y rhai iſel-radd hefyd.
53 A phethau da y llanwodd rai
a fyddai yn newynog:
Ac ef a anfonodd yn wag,
drwy nag, y rhai goludog.

54 Fe helpiodd Iſrael ei was,
gan gofio ei ras a'i ammod:
I'n tadau (Abraham a'i had)
byd byth, a'i rad gyfammod.

Gogoniant, &c.

Cân Simeon a'r Ieſu yn ei freichiau.

29 ARglwydd bellach gollwng dy was
mewn heddwch addas ynny,
Yn ol dy air, hwn oedd ynghyd
a'm hyſpryd i'm diddany.
30 Cans gwelais i â'r golwg hyn
y Chriſt a bryn ein iechyd,
31 Hwn a roiſt ynny yn Arglwydd,
a hyn yngwydd yr hollfyd.

32 Hwn a oſodaiſt di yn ddrych,
i lewych i'r cenhedloedd:
Hefyd i Iſrael, dy blant
yn ogoniant byth bythoedd.

Gogoniant, &c.

Neu fel hyn.

WRth d'air caf bellach Arglwydd ei
ymadu yn heddychlon,
30 Canys i'm golwg i y daeth
dy iechydwriaeth dirion:
31 Hon a ddarperaiſt yn ddiddrwg,
yngolwg pawb o'r hollfyd,
32 Yn oleu i'r byd, i Iſrael blant
yn fawr ogoniant hyfryd.

Gogoniant fyth a fô i'r Tad,
i'r Mâb rhâd, a'r glân Yſpryd,
Fel y bû, y mae, ac y bydd
yn Duw tragywydd hyfryd.

Beatus

17 Yr annuwiol i uffern aed,
ac yno gwnaed ei wely:
A'r rhai' ollyngant Dduw dros goſ,
bydd yno ſyth eu lletty.
18 Cans byth y gwirion a'r dyn tlawd
hyd ddyddbrawd nis anghofir:
Y gweiniaid a'r trueiniaid hwy,
eu gobaith mwy ni chollir.

19 O cyfod Arglwydd yn dy wyn,
na âd i ddyn mo'th orfod:
Barna'r cenhedloedd gar dy fron,
a'th farn yn union goſod.
20 Gyrr arnynt Arglwydd ofn dy rym,
yn dychlym i'th elynion.
Fel y gwybyddont, pe baent hwy,
nad ydynt hwy ond dynion.

Vt quid Domine. Pſal. 10.

Achwyn rhag trais cedyrn hydol.



2 Y drygrai ſydd yn blino'r tlawd,
gan drallawd, a chas falchder:
Yn y dichellion a wnai' rhai'n,
hwynt hwy eu hunain dalier.

3 Hoff gan ddyn drwg ei chwant ei hyn,
pawb yn gytun â'i bechod:
Bendithio mael ydyw eu ſwydd,
a'r Arglwydd maent iw wrthod.
4 Yr annuwiol ni chais Dduw nef,
(mae ef iw falchder cyfuwch)
Ni chred ef, ac ni feddwl fod,
un ſlith awdurdod goruwch.

5 Am fod ei ffyrdd mewn llwyddiant hir,
ni wyl mo'th wir gyfiawnfod:
Bydd dordyn wrth elynion mân,
fel chwythu tân mewn ſorod.
6 Fe ddwedodd hyn â'i feddwl ſyth,
ni ddigwydd byth y'm adfyd:
Ni'm ſymudir o oes i oes,
ni chaf na gloes, na dryg fyd.

7 Yn ddichellgar, yn dwyllgar iawn,
a'i ſafn yn llawn melldithion:
Tan ei dafod y mae camwedd,
a thraws enwiredd creulon.
8 Mewn cilfechydd y diſgwyl ſan
i lâdd y truan gwirion:
Ac ar y tlawd â llygad llym
yn dangos grym ei galon.

9 Fe orwedd fel y llew iw ſau,
i fwrw ei faglau trowſion:
Y gwan a'r tlawd a ddyna iw rwyd,
ac yno 'y daliwyd gwirion.
10 Fe ddychan, fe a'mgrymma ei hun,
fel un ar farw o wendid,
Ac ef yn gryf â fel yn wael,
ar wan i gael ei ergyd.

11 Yn ei galon, dwedodd am Dduw,
nad ydyw yn goffiadur:
Cuddiodd ei wyneb, ac ni wel
pa beth a wnel creadur.
12 Cyfod Arglwydd, dercha dy law,
dy fod i'n ceidwaw dangos:
Ac nag anghofia, pan fo rhaid,
dy weiniaid a'th werinos.

13 Paham y cablant hwy wir Dduw,
yr enwir annuw lledfrom?
Pam' y meddyliant arnat ti
nad ymofynni am danom?
14 Gwelaist hyn: canys canfyddi drais,
a chospi falais anfad:
Tydi yw gobaith tlawd, a'i borth,
a chymorth yr ymddifad.

15 Tor ymaith yr annuwiol rym
yn gyflym, a'r maleiſus,
Cais allan eu hanwiredd hwy,
ni chai di mwy 'n ddrygionus.
16 Yr Arglwydd ſydd yn frenin byth,
ef yw'r gwehelyth ſywydd:
Diſtrywiwyd pob cenhedlaeth gref
o'i dir ef, yn dragywydd.

17 Duw, gweddi'r gwan a glywaiſt di,
ac a gyſuri'r galon:
Tro eilwaith attom' y glust dau,
a chlyw weddiau ffyddlon.
18 Tros yr ymddifaid y rhoi farn,
a'r gwan fydd cadarn bellach:
Megis nas gall daiarol ddyn
mo'r pwyso arnyn mwyach.

Domine confido. Pſal. 11.

Aml brofedigaethau, Duw yn gwared oddi wrthynt, ac yn llywodraethu y da a'r drwg.


C
Redaf i'r Arglwydd yn ddi nam,
paham y dywedwch weithian
Wrth fy enaid, hwnt, a hed i'th fryn,
fel wrth aderyn bychan?

2 Wele 'r annuwiol a'i fwa,
a'i cawell ſaethau'n barod,

Am wirioniaid yn llechu'n ſain,
i ſaethu 'r rhai'n o gyſgod.

3 Y ſeilſain oll i lygredd aeth?
ond beth a wnaeth y gwirion?
4 Mae 'r Arglwydd yn ei ddinas gref,
ſe weryd ef y cyſion.
Yr Arylwydd o'i orſeddfa fry
at y tlawd try ei olwg,
Gweithredoedd holl hiliogaeth dyn,
iw lygaid ydyn amlwg.

5 Mae 'r Arglwydd o'r naturiaeth hon,
prawf gyſion er ymgeledd,
Ond câs yw gan ei enaid fo
ddyn drwg a hoffo wagedd.
6 Ar bechaduriaid marwor, tân,
a brwmſtan a ddaw'n gawod,
A gwynt tymeſtlog vchel iawn,
fal dyna lawn wialennod.

7 Canys cyſion ydyw'r Arglwydd nerj
cyſiawnder mae'n ei garu;
A'i wyneb at yr vnion try,
a hynny iw ymgleddu.

Salnum me fac. Pſal. 12.

Wrth weled anllywodraeth, y mae efe yn prophwydo, pan addſedo drygioni, y daw tro gwell.


O
Achub bellach Arglwydd ni,
fe ddarfu'r trugarogion:
A'r holl wirionedd a'r ball aeth
o blith hiliogaeth dynion.

2 A gwefus gwenieith dwedant ffug,
er twyll a hug i'r eiddyn:
A chalon ddyblyg yr vn wedd
y cair oferedd ganthyn.

3 Yr Arglwydd torred o'i farn faith
wefuſau'r gweniaith difeth:
A'r holl dafodau ffroſtus iawn
a fytho llawn o rodres.
4 Gallwn orfod o nerth tafod,
dwy wefus y ſydd eiddom:
Fal hyn y dwedant hwy yn rhwydd,
a piwy ſydd Arglwydd arnom?

5 Yna ein Duw a ddwedodd hyn,
rhag llethu'r gwaelddyn codaf:
Y dyn gofidus, tlawd, a'r caeth,
mewn iechydwriaeth dodaf.
6 Pur iawn yw geiriau'r Arglwydd nef
a'i ddewid ef ſydd berffaith,
Fel arian o ffwrn, drwy dân dri
wedi'i goeth buro ſeithwaith.

7 Ti Arglwydd, yn ol dy air di,
a'i cedwi mewn byfrydwch
Byth rhag y ddrwg genhedlaeth hon,
dy weiſion i gael heddwch.
8 Pan dderchafer y trowſion blin,
da ganthyn driu anwiredd:
Felly daw dynion o bob parth
i fwyſwy gwarth o'r diwedd.

Vſquequo Domine. Pſal. 13.

Ymreſymmu â Duw, drwy boethai yr Yſpryd, a thrwy weddi cael gobaith.

Caner hon fel Pſal. 2.

PA hyd fy Arglwydd, Dduw dilythi?
a'i byth yr wyf mewn angof?
Pa guddio t'wyd, (o Dduw) pa hyd
dy lân wynebpryd rhagof?
2 Pa hyd y rhed meddyliau tro
bob awr i flino 'nghalon?
Pa hyd y goddefaf y dir?
dra codir fy nghaſeion.

3 O Arglwydd edrych arnaf fi,
a chlyw fy ngweddi ffyddlon.
Egor fy llygaid, rhag eu cau
ynghyſgu angau ddigllon.
4 Pe llithrwn ddim, (rhag maint yw'r llid
fo ddwedid fy ngorchfygu:
A llawen fyddai fy holl gaſ
dal fi o'th râs i fynu.

5 Minnau'n dy nawdd a rois fy ffydd,
a'm holl lawenydd eithaf:
Canaf i'm Duw am helpodd i,
gwnaf gerddi i'r Goruchaf.

Dixit inſipiens. Pſal. 14.

Yn erbyn traha ar Dduw, a dynion.

FE ddwedai 'r ynfyd nad oes Duw,
ac felly byw drwy goegni;
Ymlygru'n ffiaidd, ni chais gel;
nid oes a wnel ddaioni.
2 O'r nef yr edrychodd yr Ion
ar holl drigolion daear,
A roddai neb ei goel a'r Duw,
a cheiſio byw'n ddeallgar.

3 Fe giliodd bawb at lygredd byd,
ymdroent i gyd mewn brynti:
Nid oes vn a wnel well nâ hyn,
nac vn a fyn ddaioni.
4 Eu gwddf ſy fedd agored can
maent â thafodau 'ſtrywgar,
A gwenwyn lindis ſy'n parhau
dan eu gwefuſau twyllgar.

5 A'i genau llawn (fel gwenwyn llith)
o felldith, ac o ſuſtledd;
Ac anian eſgud yw eu traed
i dywallt gwaed a dialedd.
6 Diſtryw ac anhap ſy'n eu ffyrdd
ni' dwaenant briffyrdd heddwch:
Nid oes ofn Duw'n eu golwg hwy,
ni cheiſiant mwy 'diſeirwch.

7 Pam? oni wyddant hwy eu bod
drwy bechod, y modd yma,

Yn ysu fy mhobl a'i cildros,
vn wedd a chnoi y bara?
8 Gweddio 'r Arglwydd hwy ni wnânt,
yn hyn dychrynant lunedd;
Am fod Duw 'n dala gyda 'r iawn,
yn vn a'r cyfiawn bobloedd.

9 Gwradwyddech gynt gyngor y tlawd
fal y gwnewch drallawd ettoe:
Am i'r tlawd gredu y doe llwydd
oddiwrth yr Arglwydd iddo.
10 Pwy a all roi i Israel,
o Sion vchel iechyd?
Pwy ond ein Duw? yr hyn pan wnel,
bydd Iago ac Israel hyfryd.

Domine quis habitabit. Psal. 15.

Dull a chyflog buchedd dda.

DYwaid i mi pa ddyn a drig,
i'th lys barchedig, Arglwydd?
A phwy a erys ac a fydd
ym mynydd dy sancteiddrwydd?
2 Yr hwn a rodia 'n berffaith dda,
yr hwn a wna gyfiawnder;
A'r hwn a draetha o'i galon wir,
a drig ar dir vchelder.

3 Yr hwn ni ddywaid, ac ni wna,
ddim ond o'r da bigilydd:
Ac ni chynnwys y rhai a ro
iw cymydogion gwilydd.
4 Y'r hwn sydd isel yn ei fryd,
yn caru 'i gyd-gristnogion.
Yr hwn sy 'n ofni 'r Arglwydd Dduw,
ac sydd yn byw yn ffyddlon.

5 Yr hwn ni thyng ddim ond y gwir,
er dir neu niwed iddo:
Ac ni ro ei arian yn llog,
er dwyn cymydog dano.
6 Na gobr, na rhodd, yr hwn ni fyn,
er dal yn erbyn gwirion.
7 A wnelo hyn ni lithra fyth,
fe gaiff y ddilyth goron.

Conserua me. Psal. 16.

Mae Dafydd yn enw 'r eglwys yn ymroi i Dduw, yn coffau ei ddaioni, ac yn cyfaddef fod ein holl ddedwyddwch ni ynddo ef, drwy Grist, a'i gyfodiad.

CAdw fi Duw, cans rhois fy mhwys
a'm coel yn dradwys arnad:
2 Fy Arglwydd wyd: mae dan fy mron,
y gyffes hon yn wastad:
Nad lles yt yw na'm da, na'm rhin
3 ond i drin sanct daiarol,
I Iesu 'r rhai'n fy 'wyllys yw,
y rhai sy'n byw'n rhinweddol.

4 I'r rhai a redant at Dduw gau
y daw gofidiau amlder:
Eu diod offrwm o waed, ni
offrymaf fi vn amser.
5 Ni henwaf chwaith. Yr Arglwydd yw
fy medd i fyw, a'm phiol:
A thydi Ior sy'n rhoi 'mi ran,
a chyfran yn ddigonol.

6 A thrwy Dduw syrthiodd i mi ran
o fewn y fan hyfrydaf:
Digwyddodd ymy, er fy maeth,
yr etifeddiaeth lanaf.
7 Bendithiaf finnau Dduw fy Ior,
hwn a roes gyngor ymmy,
F'arennau hefyd ddydd a nos,
sydd ym yn dangos hynny.

8 Rhois fy Ner (bob awr) gar fy mron,
o'r achos hon ni lithraf,
Cans mae ef ar fy nehau law,
yma na thraw ni syflaf.
9 O herwydd hyn, llawen a llon
yw fy nghalon: ac eilwaith
Hyfryd yw fy mharch a diddig,
a'm cnawd a drig mewn gobaith.

10 Cans yn vffern ni fyddi di
mo'm henaid i, i aros:
Na'th anwyl sanct (drwy natur y bedd)
i weled llygredd ceufos.
11 Dangosi ym lwybr a fydd 'n iawn,
dy fron yw 'r llawn llawenydd,
Cans yn dy nerth, nid yn y llwch,
mae digrifwch tragywydd.

Exaudi Domine iustitiam. Psal. 17.

Achwyn rhag brenin Saul, a dangos ei ddilyngdod yn yr achos.

O Clyw gyfiawnder Arglwydd mâd,
ystyr fy nâd i'th grybwyll,
Clust ymwrando a'r weddi fau
sydd o wefusau didwyll.
2 Disgwilia 'marn oddiwrthyt ti,
cans da y gweli 'r vnion:
Profaist a gwyddost ganol nos
mor ddiddos ydyw 'nghalon.

3 Ban chwiliaist fi (da yw dy gof)
ni chefaist ynof gamwedd,
Fy myfyr mâd na'm meddwl llace,
na ddoed ymaes o'm dannedd.
4 I ochel cydwaith dynion drwg,
drwy d'air a'th amlwg gyngor,
Fordd y dyn trawsgryf hacrllyd llym,
fe ddysgwyd ym ei hepgor.

5 Ond yn dy vnion lwybrau di,
Duw, cynal fi yn wastad,
Rhag llithro allan o'th iawn lwybr,
Duw disgwyl fy ngherddediad.
6 Galw yr wyf arnad, am dy fod
yn Dduw parod i wrando,
Gostwng dy glust, a chlyw yn rhodd
fy holl ymadrodd etto.

7 Cyfranna dy ddaioni rhad,
(ti rhwn wyt geidwad ffyddlon)
I'r rhai sy'n ymroi dan dy law,
rhag broch, a braw y trowsion.
8 Cadw fi'n anwyl rhag eu twyll,
os anwyl canwyll llygad,
Ynghysgod dy adenydd di
o cadw fi yn wastad.

9 Rhag yr annuwiol sy mawr hwyl,
a rhag fy nghyfrwys elyn,
Y rhai a gais fy enaid i,
gan godi yn fy erbyn.
10 Maent hwy mor dewion a mor frâs,
ac yn rhy gâs eu geiriau:
Ac yn rhoi allan ffrost a llid,
gan falchedd eu parablau.

11 Maent hwy yn amgylchu yn ſin
y lle yr ym ni'n cyniwer,
Ac â'i golygon tua'r llawr
mewn gwg a thramawr hyder.
12 Maent hwy fel llew, dan godi gwrych,
a fai'n chwennych yſglyfaeth:
Neu fel llew ifangc (er i les)
a geiſiai loches hyfaeth.

13 Cyfod Arglwydd, o'i flaen ef ſaf,
dy help a gaf i'm henaid,
A tharo'i lawr â'th gleddyf noeth
yr enwir fflamboeth tanbaid.
14 Rhag gwyr dy law, rhag gwyr y byd,
ſy'ai rhan i gyd oddiyma,
Gan lenwi eu boliau, a rhoi iw plant
yn fawr eu chwant a'i traha.

15 Minnau mewn myſyr; fel mewn hun,
a welaf lun d'wynebpryd,
A phan ddihunwyf o'r hun hon
y byddaf ddigon hyfryd.

Diligam te. Pſal. 18.

Dafydd yn diolch i Dduw, am ei orfoledd a'i fuddugoliaeth, gan ddatgan gweithiau Duw, yn rheoli hinon: y mae yn prophwydo am Griſt.

O Ior fy ngrym caraf di'n fawr
fy nghreiglawr, twr i'ymwared,
2 Fy Nâf, fy nerth, fy nawdd, fy Nuw,
hwn yw fy holl ymddiried.
3 Pan alwyf ar fy Ior hynod,
i'r hwn mae clod yn gyſion,
Yna i'm cedwir yn ddiau
rhag drygau fy nghaſeion.

4 Goſidion angau o bob tu
oeddynt yn cyrchu i'm herbyn,
A llifodd afonydd y fall
yn ddiball, er fy nychryn.
5 Pan ydoedd fwyaf ofn y bedd,
a gwaedlyd ddiwedd arnaf,
Ag arfau angau o bob tu,
am câs yn neſu attaf:

6 Yna y gelwais ar fy Ner,
ef o'r vchelder clywodd,
A'm gwaedd a ddaeth hyd gar ei fron,
a thirion y croeſaſodd.
7 Pan ddigiodd Duw, daeth daeargryn,
a ſail pob bryn a ſiglodd:
A chyffro drwy'r wlad ar ei hyd,
a'r holl fyd a gynhyrfodd.

8 O'i enau tan, o'i ffroenau tarth,
yn nynnu pob parth wybrent:
9 A chan gymylau dan ei draed,
du y gwnaed y ffurfafen.
10 Ac fal yr oedd ein Ior fel hyn,
vwch Cherubyn yn hedeg:
Ac vwch law adenydd y gwynt,
mewn nefol helynt hoywdeg.

11 Mewn dyfroedd a chymylau fry,
mae'i wely heb ei weled.
12 Ac yn eu gyrru'n genllyſg mân,
a marwor tân i wared.
13 Gyrrodd daranau, llyna'i lef,
gyrrodd o'r nef gennadon,
14 Cenllyſg, marwar tân, mellt yn gwan,
fal dyna 'i ſaethau poethion.

15 Diſtrywiwyd dy gas: felly gynt
gan chwythiad gwynt o'th enau:
Gwaſgeraiſt di y moroedd mawr,
gwelwyd y llawr yn olau.
16 Felly gwnaeth Duw a mi'r vn modd,
anfonodd o'r vchelder,
Ac a'm tynnodd, o'r lle yr oedd
i'm hamgylch ddyfroedd lawer.

17 Fe a'm gwaredodd Duw fal hyn,
oddiwrth fy ngelyn cadarn:
Yn rhydrwm imi am ei fod,
rhof finnau glod hyd dydd farn.
18 Safent o'm blaen ni chawn ffordd rydd
tra fum yn nydd fy ngofid:
Ond yr Arglwydd ef oedd i'm dal,
a'm cynal yn fy ngwendid.

19 Fy nâf ei hun a'm rhoes yn rhydd,
fe fu waredydd ymy:
Ac o dra ſerch i mi y gwnaeth,
na bawn i gaeth ond hynny.
20 Yr Arglwydd am gobrwya'n ol,
fy ngwaſtadol gyfiawnder:
Ac yn ol glendid fy nwy law,
tal i'm a ddaw mewn amſer.

21 Cans ceiſiais ffyrdd fy Arglwydd ner,
ni wneuthym hyder ormod,
Na dim ſceler erbyn fy Nuw,
gochelais gyfryw bechod.
22 Cans ei ddeddfau, maen ger fy mron
a'i hollawl gyfion farnau:
Ac ni rois heibio'r vn or rhai'n,
hwy ynt fyngholfau innau.

23 Bum berffaith hefyd o'i flaen, ac
ymgedwais rhag byw'n rhyddrwg:
24 A'r Arglwydd gobrwyodd fi'n llawn
vr hyn fu'n iawn iw olwg.
25 I'r trugarog trugaredd rhoi,
i'r perffaith t'roi berffeithrwydd.
26 A'r glan gwnei lendid, ac i'r tyn,
y byddi gyndyn Arglwydd.

27 Cans mawr yw dy drugaredd di,
gwaredi'r truan tawel:
Ac a oſtyngi gar dy fron,
rai a golygon vchel.
28 Ti a oleui'nghanwyll i,
am hynny ti a garaf,
Tydi a droi fy nos yn ddydd,
a'm tywyll fydd goleuaf.

29 Oblegid ynot ti, fy Nâf,
y torraf trwy y fyddin:
Ie yn fy Nuw y neidia'n llwyr,
be tros y fagwyr feinin.
30 Ys perffaith ydyw ffordd Duw nef,
a'i air ef ſydd buredig:
Ac i bob dyn yntho a gred
mae'n ſwccled bendigedig.

31 Cans pwy ſydd Dduw? dwedwch yn rhwydd,
pwy ond yr Arglwydd nefol?
A phwy ſydd graig onid ein Duw?
ef, diſigl yw'n dragwyddol.
32 Duw a'm gwregyſodd i a nerth,
a rhoes ym brydferth lwybrau.

33 Fo roes fy nhraed at hy-lwybr da,
gorſeddfa'r uchel fannau.

34 Efe ſy'n dyſgu rhyfel ym'
gan roi grym i'm pawennau:
Fel y torrir bwâ o ddur
yn bryſur rhwng fy mreichiau.
35 Daeth o'th ddaioni hyn i gyd,
i hoiſt darian iechyd ymy:
A'th law ddeau yr wyd im' dwyn,
o'th fwynder yr wyn tyfu.

36 Ehengaiſt ymy lwybrau teg,
i redeg buan gamrau:
Nid oes ynof un cymal gwan,
ni weggian fy mynyglau.
37 Erlidiais i fy nghas yn llym,
a daethym iw goddiwedd:
Ac ni throis un cam i'm hol mwy
nes eu bod hwy'n gelanedd.

38 Gwnaethym arnynt archollion hyll
fel ſefyll nas gallaſant:
Ond trwy amarch iw cig, a'i gwaed,
i lawr dan draed ſyrthiaſant.
39 Gwregyſaiſt fi a gwregys nerth,
at wres ac angerch rhyfel:
A'r rhai a ddaeth i'm herbyn i,
a gwympaiſt di'n ddiogel.

40 Fal hyn y gwnaethoſt imi gan
ar warrau fy ngelynion,
A'm holl gas a ddifethais i,
rhois hwynt i weiddi digwn.
41 Ac er gweiddi drwy gydol dydd
ni ddoe achubydd attynt,
Er galw 'r Arglwydd: ni ddoe neb
a roddai atteb iddynt.

42 Maluriais hwy fel llwch mewn gwynt,
fal dyna helynt efrydd;
Ac mi a'i ſethrais hwynt yn ffrom,
fel pridd neu dom heolydd.
43 Gwaredaiſt fi o law fy nghas,
rhoiſt bawb o'm cwmpas danaf:
Doe rai ni welſent fi er ioed
a llaw, a throed, hyd attaf.

44 Addaw ufydd-dod, ond fo gaid
gan blant eſtroniaid gelwydd:
45 A phlant eſtroniaid twyll a wnant,
ond crynant iw ſtafellydd.
46 Eithr byw yr Arglwydd ar fy mhlaid,
fy nghraig fendigaid hefyd:
Derchafer Duw: yntho ef trig
fy nerth a'm unig iechyd.

47 Fy Nuw tra fo a'i nerth i'm dal,
rhoi dial hawdd y gallaf.
A rholi pobloedd: cans efo
ſydd yn eu twyſo attaf.
48 Fy ngwaredydd, a'm derchafydd,
o chyfyd thai i'm herbyn,
Wyt ti o Dduw: a'm dug ar gais
rhag drwg a thrais y gelyn.

49 Am hyn canmolaf di yn rhwydd
o Arglwydd, Dduw y lluoedd:
Ganaf dy glod: a hyn ſydd dyſg,
ymyſg yr holl genhedloedd.
50 Duw ſydd yn gwneuthyr (o'i fawr rad)
fawrhad i frenin Dafydd,
Ac iw eneiniog ei wellad,
ac iw had yn dragywydd.

Coeli enarrant. Pſal. 19.

Dangos gogoniant Duw yn eu greaduriaid, a'i gyfraith, a'i râs.

DAtgan y nefoedd fowredd Duw,
yr unrhyw gwna'r ffurfafen.
2 Y dydd i ddydd, a'r nos i nos,
ſy'n dangos cwrs yr wybren.
3 Er nad oes ganthynt air nac iaith,
da y dywaid gwaith Duw lywydd,
Diau nad oes na mor, na thir,
na chlywir eu lleferydd.

4 Aeth eu ſain hwy drwy yr holl fyd,
a'i geiriau hyd eithafoedd.
Yr haul teg a'i gwmpas ſydd bell,
a'i babell yn y nefoedd.
5 O'r hon y cyfyd ef yn rhod,
fel priod o'i orweddfa.
Iw gwrs cyrch drwy lawenydd mawr
fel cawr yn rhedeg gyrfa.

6 O eithaf hyd eithafoedd nef
y mae ef a'i amgylchiad,
Ac ni all dim (lle rhydd ei dro)
ymguddio o'i oleuad.
7 Dyſg yr Arglwydd ſydd berffaith ddawn
a dry i'r iawn yr enaid,
Felly rhydd ei wir dyſtiolaeth
wybodaeth i'r ffyddloniaid.

8 Deddfau Duw Ion ydynt union,
llawenant galon ddiddrwg:
A'i orchymyn ſydd bur diau
a rydd olau i'r golwg.
9 Ofn yr Arglwydd ſydd lân: ac byth
y pery'n ddilyth hefyd.
Barnau 'r Arglwydd ynt yn wir llawn
i gyd, a chyfiawn hefyd.

10 Mwy delſyſedig ynt nac aur,
ie na choethaur lawer,
Melyſach hefyd ynt na'r mel,
ſef dagrau terfel tyner.
11 Cans ynthynt dyſgir fi dy wâs
ar addas a'r uniondeb:
A'r holl gamp ſy o'i cadw hwy,
felly cair gobrwy lawer.

12 Er hynny i gyd, pwy a all
iawn ddeall ei gamweddau?
O gwna fi'n lân, (a bydd ddiddig)
o'm holl guddiedig feiau.
13 Duw attal feiau rhyfyg, chwant,
na thyfant ar fy uwchaf:
Yno byddaf wedi 'nglanhau
o'm holl bechodau mwyaf.

14 O Arglwydd, fy mhrynwr a'm nerth,
bydded yn brydferth gennyd.
Fy 'madrodd, pan ddel gair dy fron,
a'm myfyr calon hefyd.

Exaudiat te Dominus. Pſal. 20.

Y bobl yn bendithio eu brenin, ac yn gweddio yn erbyn eu gelynion y rhai ſydd allan i ryfela.

GWrandawed di yr Arglwydd Nêr
pan ddel cyfyngder arnad.

Enw Duw Iacob, ein Duw ni,
a'th gadwo di yn waſtad.
2 O'i gyſegr rhoed yt help a nerth,
a braich o brydferth Seion:
3 Cofied dy offrwm poeth a'th rodd,
bo 'rhai'n wrth fodd ei galon.

4 Rhoed yt ty wrth dy fodd dy hun,
dy ddymun a'th adduned:
Dy fwriad iach a'th arfaeth tau,
a'th weddiau gwrandawed.
5 Yn Enw ein Duw gorfoleddwn
yn hy, a chodwn faner:
A'th ddeiſyfiadau gwnaed yn rhwydd,
yr Arglwydd o'r vchelder.

6 Yr Arglwydd gweryd (felly gwn)
o'i gyſegr draw ei eneiniog:
Gwrendy ei arch, gyrr iddo rym,
yn gyflym ac yn gefnog.
7 Rhai ar gerbydau rhoent eu pwys,
rhai ar feirch ddiwys ymddiried:
Ninnau ar enw 'r Arglwydd Duw,
mai hwnnw yw 'n ymwared.

8 Hwy a ymroeſant a ſyrthiaſant,
yn eu nerth elloes yno:
Codaſom a ſafaſom ni,
O Dduw, a thi 'n harglwyddo.
9 Cadw ni Arglwydd a'th law gref,
boed brenin y nef [illegible]:
Gwrandawed hwnnw arnom ni,
a'n gweddi pan y llefom.

Domine in virtute. Pſal. 21.

Gorfoledd dros y brenin am orchfygu amryw dyrnaſoedd a chenhedloedd.

O Arglwydd, yn dy nerth a'th rin,
mae 'r brenin mawr llawenydd:
Ac yn dy iechyd, yr vn wedd,
mae ei orfoledd beunydd.
2 Holl ddeiſyfiad ei galon lân,
iddo yn gyfan dodaiſt:
Cael pob dymuniad wrth ei fodd,
ac o vn rhodd ni phellaiſt.

3 Canys da 'r achubaiſt ei flaen ef,
a doniau nef yn gyntaf:
Ac ar ei ben, (ddaioni Ion,)
rhoiſt goron aur o'r puraf.
4 Ef a ofynnodd gennyd oes,
a rhoddaiſt hiroes iddo:
A hon dy rodd, dros fyth y bydd,
nid a'n dragywydd heibio.

5 I'th iechydwriaeth y mae 'n byw,
a mawr yw ei ogoniant:
Goſodaiſt arno barch a nerth,
a phrydferth yw ei lwyddiant.
6 Rhoiſt ei fendithion uwch pob rhawl,
yn rhodd dragwyddawl iddo:
A llewyrch d'wyneb byth a fydd
yn fawr lawenydd arno.

7 Am fod y brenin yn rhoi 'i gred,
a'i 'mddiried yn yr Arglwydd:
Drwy nawdd y Goruchaf tra fu,
gwn [illegible] iddo dragwydd.
8 A thydi Arglwydd a'th law lan,
cei allan dy elynion:
Rhag dy ddeheulaw (er a wnant)
ni ddiangant dy gaſeion.

9 Di a'i goſodi 'n wydd dy ddig,
fel ffwrnais ffyrnig danllyd:
Yr Arglwydd iw lid a'i difa,
a'r tân a'i hyſa 'n enbyd.
10 Diwreiddi di eu ffrwyth o'r tir,
a'i had yn wir ni thyccian:
11 Am fwriadu yt ddrwg ddilen,
heb ddwyn i ben mo'r hamcan.

12 Ti a'i goſodi hwy 'r naill du,
a thi a'th lu iw herbyn:
Ac a leſeli dy ſwau,
at eu hwynebau cyndyn.
13 Ymddercha dithau Arglwydd gwn,
i'th nerth dy hun a'th erſid:
Ninnau a ganwn, o'n rhan ni,
i foli dy gadernid.

Deus, Deus meus. Pſal. 22.

Prophwydoliaeth o ddioddefaint Chriſt, a'i weddi dros yr eglwys, a'i ſwyddau tragwyddol, yn brophwyd, yn offeiriad, yn frenin.

DAngos fy Nuw, fy Nuw, a'm grym,
ba achos ym gadewaiſt.
Pell wyd o'm iechyd, ac o nâd
fy 'mloeddiad, llwyr i'm pellaiſt.
2 Fy Nuw 'rwy 'n llefain, tithau heb
roi ym' mor atteb etto,
Bob dydd a nos mae 'nghri 'n ddiffael,
a heb gael mo'm dihuddo.

3 A thi wyd ſanct, ſanct i barhau,
lle daw gweddiau 'n waſtad:
A holl dy Iſrael a'i clod,
a'i pwys a'i hyfryd attad.
4 Ynot gobeithiai 'n tadau ni,
a thydi oedd eu bwccled:
Ymddiried ynot, Arglwydd hael,
ac felly cael ymwared.

5 Llefaſant drwy ymddiried gynt,
da fuoſt iddynt, Arglwydd:
Eu hachub hwynt a wnaethoſt di
rhag cyni a rhag gwradwydd.
6 Fo'm rhifir innau megis pryf,
nid fel gwr cryf ei arfod:
Fel dirmig dynion, a gwarth gwael
a thybiant gael eu hyſod.

7 Pawb a'm gwelent a'm gwatworent,
ac a'm minigamment hefyd,
Yſgwyd eu pennau yn dra hy,
a chwedi hynny dwedyd.
8 Ar yr Arglwydd rhoes hwn ei gred,
doed ef iw wared allan:
Os myn ei ollwng ef yn rhydd,
cymered iddo ei hunan.

9 Duw tynnaiſt fi o groth fy mam,
rhoiſt ynof ddiſathr obaith,
Pan oeddwn i yn ſugno hon,
ac o'i dwy fronau 'n harchwaith.
10 Arnat ti bwriwyd fi o'r bru,
arnat ti bu fy 'mddiried:
Fy Nuw wyt ti o groth fy mam,
fyddiais yt am fy ngwared.

11 Oddiwrthif fi yn bell na ddos,
tra fo yn agos flinder,
I'm cymorth i, gan nad oes neb
a drocho 'i wyneb tyner,

12 Buſtych lawer, a chryfion iawn,
daethant yn llawn i'm gogylch,
A theirw Baſan o bob parth,
yn codi tarth o'm hamgylch.
13 Egorant arnaf enau rhwth,
i'm bygwth, fel y llewod,
A ſaent yn rhuo eiſiau maeth,
o raib yſclyſaeth barod.
14 Fel dwfr rwyf fi yn diferu'n chwyrn,
a'm heſgyrn, ſigla'r [illegible]
Fy nghalon o'm mewn darfu'n llwyr,
fel cwyr a fai yn toddi.

15 Fel priddleſtr mae fy nerth mor ſwrth
ynglyn wrth fy ngorchfannau
Mae fy nhafod, yr wyf mor drwch,
fy nghyfle yw llwch angau.
16 Cans cwn cylchaſant fi, fy Nér,
a chadfa ſceler ddiffaith:
Cloddiaſant fy nwy law a'm traed,
ac felly gwnaed fy artaith.

17 A rhifo fy holl eſgyrn i,
gan gulni hawdd y gallaf,
Maent hwythau'n gweled hynny'n wych,
bob tro yn edrych arnaf.
18 Rhyngthynt iw myſg y dillad mau
yn rhannau doſbarthaſant,
A hefyd ar fy mhaiſ-wiſc i
coel brenni a fwriaſant.

19 Tithau fy nerth a'm harglwydd da,
nac ymbella oddiwrthy,
O bryſia, tydi yw fy mhorth,
a thyr'd a chymorth ymy.
20 O dyr'd, ac achub yr oes fau
rhag ofn y cleddau ffyrnig,
A gwared o feddiant y ci
fy enaid i ſy'n vnig.

21 Ymddiffyn fi rhag y llew glwth,
dwg o'i ſafn rhwth fy enaid,
Achub a gwrando fi yn chwyrn
rhag cyrn yr vnicorniaid.
22 Mynega f'enau d'enw yn bur
i'm brodur yn yr orſedd.
Lle mwya'r gynulleidfa lân,
dy glod a wna'n gyfannedd.

23 Hâd Iacob ac Iſrael, chwychwi
rhai ych yn ofni'r Arglwydd,
Drwy ofn y rhowch iddo foliant,
a rhowch ogoniant chwyrwydd.
24 Cans ni'ch llyſodd, ni'ch dirmygodd,
ni chuddiodd ei wynebpryd,
Eithr gwrandawodd weddi y gwan,
a'i duchan yn ei adfyd.

25 Honot ti bydd, ac i ti gwedd
mewn aml orſedd fy moliant.
I Dduw rhof f'addunedau'n ffon
gar bron y rhai a'i hofnant.
26 Diwellir y tlodion: a'r rhai
a geiſiai at yr Arglwydd
A'i molant ef, fo gaiff (ſwinyw)
eich enaid fyw'n dragywydd.

27 Trigolion byd a droant yn rhwydd
at yr Arglwydd pan gofiant:
A holl dylwythau'r ddaear hon
dônt gar ei fron, ymgrymiant.

28 Cans yr Arglwydd biau'r deyrnas,
a holl gwmpas y bydoedd:
Ac vwch eiddiw, ef vnigydd
ben llywydd y cenhedloedd.

29 Y cyfoethogion a fwytânt,
addolant yn eu gwnfyd:
Rhai a ânt i'r llwch gar ei fron,
a rhai, braint meirwon heſyd.
30 Y rhai'n oll a'i hâd, yn vn fryd
gwnânt iddo gyd waſanaeth:
A'r rhai'n i'r Arglwydd drwy'r holl dir
a rifir yn genhedlaeth.

31 Dont, dangoſant ei vniondeb
y rhai ſydd heb eu geni:
Hyn a addawodd, ef a'i gwnaeth,
hynny a ddaeth o ddifri.

Dominus regit me. Pſal. 23

Gobaith yn naioni Duw.

YR Arglwydd yw fy mugail clau,
ni âd byth eiſiau arnaf:
2 Mi a gâf orwedd mewn porfa fras,
ar lan dwfr gloywlas araf.
3 Fe goledd f'enaid, ac a'm dwg
rhyd llwybrau diddrwg cyfion,
Er mwyn ei enw mawr di lys
fo'm tywys ar yr vnion.

4 Pe rhodiwn (nid ofnwn am hyn)
Yn nyffryn cyſgod angau,
Wyd gyda mi, a'th nerth, a'th ffon,
ond tirion ydyw'r arfau?
5 Goſodaiſt fy mwrdd i yn fras,
lle'r oedd fy nghâs yn gweled:
Olew i'm pen, a chwppan llawn,
daionus iawn fu'r weithred.

6 O'th nawdd y daw y doniau hyn
i'm canlyn byth yn hylwydd:
A minnau a breſwaliaf byth
a'm nyth yn nhy yr Arglwydd.

Domini eſt terra. Pſal. 24.

Clod i'r tabernacl, a dengys fod eglwys Dduw yma yngyffelyb i'r eglwys nefol, a prophwyda am Ieruſalem, cyneddfau y rhai a fydd cyfrannogion o'r ddwy.

YR Arglwydd pia'r ddaiar iawn,
a'i llawnder mawr ſy'n eiddo:
Yr Arglwydd biau'r holl fyd,
a'r bobl i gyd ſydd ynddo.
2 Cans fo roes ei ſail hi a'i gwreiddyn,
yn rhyfedd vwch y moroedd:
Ac a'i goſododd hi yn lân
yn drigfan vwch llifddyfroedd.

3 Er hyn: pwy a ddringa yn hy
i gyſſegr fry yr Arglwydd?
A phwy a ſaif, a theilwng weddy
yngorſedd ei ſancteiddrwydd?
4 Dyn a llaw lân, a meddwl da,
ac yn ddidraha ei enaid,
Diarwag, ac ni rega yn [illegible]
er twyllo 'i gyfneſeifiaid.

5 Gan yr Arglwydd y caiff hwn wlith
ei rad llawn ſendith helaeth,

A chyfiawnder i bob [illegible]
gan Dduw yr iechydwriaeth.
6 Hon ſy gan Dduw'n genhedlaeth gref,
a'i ceiſiant ef yn [illegible],
A geiſiant d'wyneb, dyma eu maeth,
ſef gwir genhedlaeth Iago.

7 Derchefwch chwi byrth eich pennau,
a chwithau ddorau bythol,
Cans brenin mawr daw i'ch mewn chwi,
ſef pen bri gogoneddol.
8 Pwy yw'r brenin hwn gogonedd?
Arglwydd rhyfedd ei allu:
Yr Arglwydd yw, cyfion ei farn,
a chadarn i ryſelu.

9 Derchefwch chwi byrth ych pennau,
ehengwch ddorau bythol:
Cans brenin mawr daw i'ch mewn chwi
teyrn o fri gogonol.
10 Pwy meddwch ydyw'r brenin hwn,
a goſiwn ei ogoniant?
Ior y lluoedd yw, brenin hedd,
a gogonedd, a ffyniant.

Ad te Domine. Pſal. 25.

Dafydd yn ei drallod yn cydnabod ei fai, a'i fod yn haeddu coſpedigaeth: a thrwy amryw ffyrdod yſprydol, yn [illegible] edifeirwch, a gobaith; ac yn rhoi diolch.

F'Arglwydd derchefais f'enaid i
hyd attad ti yn vnion.
2 Fy Nuw, fy ngobaith, gwarth ni châ,
na lawenhâ 'ngelynion:
3 Sawl a obeithiant ynoc ti,
y rhei'ni ni wradwyddir,
Gwarth i'r rhai a wnel am i ham
ryw dwyll neu gam yn ddihir.

4 Arglwydd dangos ym' dy ffordd di,
a phâr i mi ei deall:
Dyſg ac arwain fi yr vn wedd
yn dy wirionedd diball.
5 Cans tydi ydwyd Dduw fy maeth,
a'm iechydwriaeth vnig.
Dy ddiſgwyl yr wyf rhyd y dydd,
a hynny fydd i'm diddig.

6 O cofia dy nawdd a'th ferch di,
a'th fawr doſturi Arglwydd,
Coſia fod ynoc ti erioed,
lawn ddioed drugarogrwydd.
7 Na chofia yr enwiredd mau,
na llwybrau fy ieuenctyd:
Ond Arglwydd, coſia fy ngwir i
er dy ddaioni hyfryd.

8 Yr Arglwydd ſydd vnion a da,
a'i ffyrdd yn noddfa ydynt:
Fe arwain, (fel y mae yn rhaid)
y pechaduriaid yn eu hynt.
9 Fe ddyſg ei lwybrau mewn barn iawn,
i'r rhai vſydd [illegible],
Hyddyſg yw ei ffyrdd i bob rhai
a fyddai oſtyngedig.

10 I'r ſawl a gatwo ddedfau'r Ion,
a'i vnion dyſtiolaethau,
Gwirionedd, a thrugaredd ſydd [illegible]
ei lywydd yn ei lwybrau.
11 Er mwyn dy enw (o Arglwydd mau)
Duw maddau fy enwiredd,
Cans fy nrhoſeddiad i mawr yw,
mwy ydyw dy drugaredd.

12 Mae, pa ryw wr yn ein myſg ni
ſydd yn pur ofni'r Arglwydd?
Fe ddengys y ffordd iddaw fo,
hon a ddewiſo'n ebrwydd.
13 O hyn y caiff fy enaid ei
le i letteu'n eſmwyth:
A'r holl ddaear hon a'i gwellâd,
a gânt ei hâd a'i dylwyth.

14 Ei holl ddirgelwch a ddyſg fo,
i'r ſawl a ofno'r Arglwydd:
Ac oi' holl gyfanneddau glan,
efe a'i gwna'n gyfarwydd.
15 Tueddu'r wyf fy Arglwydd mâd,
yn waſtad â'm golygon:
Cans ef yn vnic, (yn ddi oed)
rhydd fy nau droed yn rhyddion.

16 Tro attaf, dod y'm nawdd diddig,
cans vnic wyf, a rhydlawd.
17 Gofidiau 'nghalon ynt ar led,
Duw gwared fi o'm nychdawd.
18 Duw, gwel fy mlinder, a'm poen ſawr,
a madde'n awr fy mhechod:
19 Gwel fy ngelynion a amlhânt,
ac a'm caſant yn ormod.

20 Cadw f'enaid, ac achub fi,
na wnel o'r rheini 'm wradwydd:
Rhois fy mhwys arnat ti fy Nâf,
a rhodiaf mewn perffeithrwydd.
21 Cadwed fi fy vniondeb maith,
cans rhois fy ngobaith ynod.
22 Duw, cadw di holl Iſrael,
gwared, a gwel ei drallod.

Indica me Domine. Pſal. 26.

Y mae Dafydd yn dangos ei ddiniweidrwydd ac yn ddangos nâd ffug yw ei weddi, mae fe yn crio yn erbyn y rhai ſydd yn arfer ffug ſancteiddrwydd, ſef ei elynion.

BArn fi (o Dduw) a chlyw fy llais,
mi a rodiais mewn perffeithrwydd:
Ac ni lithraf, am ym roi 'mhwys,
yn llowndwys ar yr Arglwydd.
2 Prawf di fy muched Arglwydd dda,
a hola dull fy mywyd?
A manwl chwilia fy nghalon ſiw,
a phrawf f'arennau hefyd.

3 O flaen fy llygaid, wyd ar led
yn gweled dy drugaredd:
Gwnaeth dal ar hynny ar bob tro,
y'm rodio i'th wirionedd.
4 Nid cyd eiſtedd gyda gwagedd,
neu goegwyr yn llawn malais:
5 Câs gennif bob annuwiol rith,
ac yn eu plith ni 'ſteddais.

6 Mi olchaf fy nwy law yn lân,
cans felly byddan, f'Arglwydd,
Ac a dueddaf tua'th gôr,
ac allor dy ſancteiddrwydd.
7 Y modd hyn teilwng yw i mi
lloſogi dy foliant:
Sef, addas i mi fod yn lân,
i ddatcan dy ogoniant.

8 Arglwydd cêrais drigfan dy dŷ,
lle'r ery 'dy anrhydedd:
9 Na'd fy enaid i a'm hoes ynghyd
â'r gwaedlyd llawn enwiredd.
10 Eu dwylaw hwynt ſy ſceler lawn,
y maent yn llawn maleiſiau.
A dehau law yr holl rai hyn,
ſy'n arfer derbyn gwobrau.

11 Minnau'n ddiniwed, (felly gwedd)
ac mewn gwirionedd rhodiaf:
Gwared fi drwy dy yngeledd,
cymer drugaredd arnaf.
12 Fe ſaif fy nthroedi ar yr iawn,
ni ſyfl o'r vniawn droedfedd:
Mi a'th glodforaf, Arglwydd da,
lle bytho mwya'r orſedd.

Dominus illuminatio. Pſal. 27.

Ffydd Dafydd tuag at Dduw, tra orſu arno fod allan o'r orſedd: a'i gyſur i bawb yn eu blinder.

YR Arglwydd yw fy ngolau gyd,
a'm iechyd: rhag pwy'r ofnaf?
Yr Arglwydd yw nerth fo'es: am hyn,
rhag pwy doe ddychryn arnaf?
2 Pan ddaeth rhai anfad, ſef fy nghas,
o'm cwmpas er fy llyngcu,
Llithraſant a chwympaſant hwy,
ni ddaethant mwy i fynu.

3 Ni ddoe ofn ar fy nghalon gu,
pe cyrchai llu i'm herbyn:
Neu pe codai gâd y modd hwn,
mi ni wanffyddiwn ronyn.
4 Vn arch a erchais ar Dduw nêf,
a hynny a archaf etto:
Cael dyfod i dy'r Arglwydd glân,
a bod a'm trigfan yntho:

I gael ymweled a'i Deml deg,
a hyfryd oſteg ynthi
Holl ddyddiau fy einioes ſef wyf gaeth
o fawr hiraeth am dani.
5 Cans y dydd drwg fo'm cudd efe
iw Babell neu ddirgelfa:
Iw breſwylfod, fel mewn craig gref,
caf gantho ef orphwyſfa.

6 Bellach fo'm codir vwch fy nghâs,
ſydd mewn galanas ymy:
Aberthaf, caraf, mola'r Ion.
yn ffyddlon byth am hynny.
7 Gwrando arnaf fy Arglwydd byw,
bryſia a chlyw fy ocrnad:
Trugarhâ wrthif, gwyl fy nghlwyf,
y pryd y galwyf arnad.

8 Fel hyn mae 'nghalon a'm gwna i
yn holi ac yn atteb,
Ceiſiwch fy wyneb ar bob tro:
fy Nuw rwy'n ceiſio d'wyneb.
9 Na chudd d'wyneb, na lys dy wâs,
fy mhorth a'm urddas fuoſt:
Duw fy iechyd na wrthod fi,
o paid a ſorri'n rhyfoſt.

10 O gwrthyd fi fy nhâd a'm mam
a'm dinam gyfneſeſiaid:
Gweddia'r Arglwydd, af er hyn
o'i râs a dderbyn fenaid.
11 Duw dyſg i mi dy ffordd yn rhwydd,
o herwydd fy ngelynion,
Ac arwain fi o'th nawddol râd
yn waſtad ar yr vnion.

12 Ac na ddyro fi, er dy râs,
wrth fodd yr atcas elyn.
Cans ceiſiodd fy nghaſeion mau
dyſtion gau yn fy erbyn.
13 Oni bai gredu hono fi,
bum wrth fron torri 'nghalon:
Y cawn i weled da Duw 'n rhâd
o fewn gwlâd y rhai bywion.

14 Diſgwyl di ar yr Arglwydd da,
ymwrola dy galon:
Ef a rydd nerth i'th galon di,
os iddo credi'n ffyddlon.

Ad te Domine. Pſal. 28.

Gweddi trefſo ef hun, yn erbyn rhai trahaus ar Dduw a dyn: a bendithio'r eglwys.

ATtad (Ion fy nerth) y rhof lef,
Duw nef na fydd diſyddlar:
Os tewy, rhag fy myned mor ddiſt,
a bod mewn ciſt dan ddaiar.
2 O Arglwydd, erglyw fy llais i,
a derbyn weddi bruddaidd:
Pan godwyf fy nwy law o bell,
Duw, tua'th gafell ſanctaidd.

3 Ac na ddaroſtwng fi, fy Ior,
dan ddwylo'r annuwolion
Y rhai ſy'n arwain minau mel,
a rhyfel yn eu calon.
4 Yn ol bwriad eu calon gau,
a'r twyll ddyfeiſiau eiddynt,
Yn ol eu drwg weithredoedd hwy,
Duw tâl eu gobrwy iddynt.

5 Am na 'ſtyriant weithredoedd Duw,
ef a wna ddiſtryw arnynt:
Am na welent ef wyrth a'i râd,
ni wna adeilad honynt.
6 Bendigaid fytho'r Arglwydd nef,
fe glybu lef fy ngweddi.
7 Yr Arglwydd yw fy nerth, a'm rhan,
a'm tarian, a'm daioni.

Ymddiriedais iddo am borth,
a chefais gymorth gantho.
Minnau o'm calon, drwy fawr chwant,
a ganaf foliant iddo.
8 Yr Arglwydd ſydd nerth i bob rhai
a ymddiriedai 'n hylyn:
A'i eneiniog ef a fydd maeth,
ac iechydwriaeth iddyn.

9 Gwared dy bobl dy hun yn ddâg
bendithia d'etifeddiaeth,
Bwyda, cyfod hwy, a'm ben hyn
dod iddyn dragwyddolfraeth.

Afferte Domino. Pſal. 29.

Erchi i gedyrn gydnabod yr Arglwydd ei fod yn hollalluog: a dwyn y taranau a'i [illegible] i arwydd hynny.

RHowch i'r Arglwydd, a rhowch yn gywir,
chwi blant y cedyrn, foliant:
Cydnabyddwch ei barch, a'i nerth,
mor brydferth, ai ogoniant.
2 Rhoddwch i enw yr Arglwydd glod,
heb oedfod mwy tuedd cymmell,
Addolwch Arglwydd yr holl fydd
mor hyfryd yw ei Babell!
3 Llais yr Arglwydd ſydd vwch dyfroedd,
Duw cryf gwlâ ffloedd y daran.

Vwch dyfroedd lawer mae ei drwn,
nid yw ei ſwn ef fychan.
4 Llais yr Arglwydd, pan fytho llym,
a ddengys rym a chyffro:
A llais yr Arglwydd a fydd dwys,
fel y bo cymwys gantho.

5 Llais yr Arglwydd a dyr yn ſân
y Cedrwydd hirlân vnion,
Yr Arglwydd a dyr yn yſwydd,
y Cedrwydd o Libânon.
6 Fel llwdn vnicorn a wna llon
fe wna'i Libanon lammu.
7 A Sirion oll: llais ein Iôr glân
a wna'i fflam dân wasgaru.

8 Llais yr Arglwydd, drwy ddyrys lyn,
a godai ddychryn eres.
Yr Arglwydd a wna ddychryn fflwch
drwy holl anialwch Cades.
9 Llais yr Arglwydd y piau'r glod,
pair i'r ewigod lydnant:
Dinoetha goed: i'w deml iawn yw
i bob rhyw ei foliannu.

10 Yr Arglwydd gynt yn bennaeth oedd,
ar y llif-ddyfroedd cethrin;
Yr Arglwydd fu, ef etto fydd,
ac byth a fydd yn frenin.
11 Yr Arglwydd a rydd i'w bobl nerth,
drwy brydferth gyſanneddwch.
Yr Arglwydd a rydd ei bobl ymhlith
ei fendith, a hir heddwch.

Exaltabo te Domine. Pſal. 30.

Dafydd cyn cyſegru ei dy i Dduw a aeth yn glaf, ac wedi myned yn iach mae fe yn diolch i Dduw, gan ddangos i eraill faint trugaredd Duw: adduned i fod yn ddiolchgar.

F Arglwydd mi a'th fawrygaf di,
cans myfi a ddyrchefaiſt,
A'm gelynion i yn llawen,
vwchlaw fy mhen ni pheraiſt.
2 Fy Nuw, pan lefais arnat ti
y rhoddaiſt i mi iechyd.
3 Cedwaiſt fy enaid rhag y bedd,
a rhag diwedd anhyfryd

4 Cenwch i'r Iôn chwi ei holl ſaint,
a maint yw gwrthiau'r Arglwydd;
A chlodforwch ef gar ei fron:
drwy goffion o'i ſancteiddrwydd.
5 Ennyd fechan y ſai'n ei ddig,
o gael i fodd trig bywyd:
Heno brydnawn wylofain fydd,
y borau ddydd daw iechyd.

6 Dywedais yn fy llwyddiant hir,
ni'm ſyflir yn dragywydd:
O'th ddaioni dodaiſt Dduw Nêr,
ſail cryſder yn fy mynydd.
7 Cuddiaiſt dy wyneb ennyd awr,
a blinder mawr a gefais.
8 Arnad (o Arglwydd) drwy lef ddir,
fy Arglwydd, i'r ymbiliais.

9 Pa fudd (o Dduw) fydd yn fy ngwaed,
pan fwyf dan draed yngorwedd?
A phwy a gân yt' yn y llwch,
dyglod a'th fawr wirionedd?
10 Clyw fi Arglwydd, a thrugarha,
dod gymorth da i'm bywyd,
11 Canys yn rhad y troiſt fy mâr,
a'm galar, yn llawenfyd:
Am ytty ddattod fy ſachgrys,
rhoiſt wregys o lawenydd:
12 Molaf a chanaf, â'm tafod,
i'm Arglwydd glod dragywydd.

In te Domine ſperaui. Pſal. 31.

Dafydd gwedi diangc o beryglon, yn dangos beth oedd ei fyfyrdod ef a'i ffydd pan oedd gaethaf arno: parod ddaioni Duw i'r ſawl a'i hofnant. Cyngor i'r ffyddloniaid i ymddiried yn Nuw eu hymwaredydd.

M I a'mddiriedais ynod Nêr,
fel na'm gwradwydder bythoedd:
Duw o'th gyfiownder gwared fi,
a chlyw fy nghri hyd nefoedd.
2 Gogwydd dy glust attaf ar frys.
o'th nefol lys i wared.
3 A bydd ym' yn graig gadarn ſiwr,
yn dy a thwr i'm gwared.

4 Sef fy-nghraig wyd, a'm caſtell cryf,
wyf finnau hyf o'th fowredd.
Er mwyn dy enw tywys fi,
ac arwain i drugaredd.
5 A thynn fy fi o'r rhwydd i'r lann,
a roeſan er fy maglu:
Cans fy holl nerth ſydd ynot ti,
da gelly fy ngwaredu.

6 Dodaf fy yſpryd yn dy law,
ac âf gar llaw i orwedd,
Da y gwaredaiſt fi yn ſiwr
(o Arglwydd Dduw'r gwirionedd)
7 Llwyr y caſeis y neb a fâg,
i'w galon orwag aflwydd,
Ac mi a oſodais yn llwyr ffaith
fy ngobaith yn yr Arglwydd.

8 Mi a'mhyfrydaf ynot ti,
canſtoſt fi mewn amſer,
Ac adnabuoſt, wrth fy rhaid,
fy enaid mewn cyfyngder.
9 Llawen fyddaf finnau am hyn,
i'm gelyn ni'm gwarchaeiſt;
Eithr fy nrhaed i yn eang rydd
da beunydd y ſefydlaiſt.

10 O dangos dy drugaredd Dduw,
cans cyfyng ydyw arnaf,
Fy lygaid, f'enaid, a'm bol ſydd,
yn dioddef cyſtydd gwaethaf.
11 Fy mywyd ym' gwir oſid oedd,
fy holl flynyddoedd, blinion,
12 Fy nerth a ballodd o'm drwg gynt,
a'm eſgyrn ydynt bydron.

13 A gwatwar i'm gelynion wyf,
fy nghydblwyf a'm gwatwarent:
Fy holl gym'dogion, a phob dyn,
gan ddychryn a'm gochelent.
14 Fe a'm gollyngwyd 'i dros gof,
fal marw a fo eſgeulus:
A hawdd yw hepgor y lleſtr twn,
o byddai hwn drwg flaſus.

15 Cans clywais ogan llawer dyn,
o'm dautu, dychryn oedloedd:

Hwy a'm gynghorent ar bob twyn,
bwriadent ddwyn fy einioes.
16 Ond yn fy ngobaith (Arglwydd byw)
y dwedais fy Nuw ydwyd,
Y mae f'amſeroedd a'r dy law,
nid oes na braw nac arſwyd.

17 Dyred a gwared fi dy was,
oddiwrth fy nghâs a'm herlid.
18 A dangos d'wyneb ym'o'th râd,
rhag brâd y rhai ſy'm hymlid.
19 O Arglwydd, na wradwydder fi
a rois fy ngweddi arnad:
Ond i'r annuwiol gwarth a wedd,
yn fud i'r bedd o lygriad.

20 Cae gelwyddog wefuſau y rhai 'n
y ſydd yn darſtain craſder,
O ddiyſtyrwch, a thor tynn,
yn erbyn y cyfiawnder.
21 O mor fawr yw dy râd di-dral,
a roiſt i'r rhai a'th ofnant!
Cai o flaen meibion dynion glod,
ac ynod ymddiriedant.

22 Oddiwrth ſythſeilchion (o'th flaen di)
y cuddi hwynt yn ddirgel:
Cuddi yn ddâ i'r babell wiw,
rhag ſenn tafodau uchel.
23 Mi a fendigaf Dduw yn hawdd:
dangoſawdd y'm ei gariad,
A gwnaeth ryfeddod dros ei was,
mewn cadarn ddinas gaead.

24 Ofnais i gynt o'm gobaith drwg
fy nrhoi o'th olwg allan:
25 Eithyr pan leſais arnat ti,
y clywaiſt fi yn fuan.
26 O cerwch Dduw ei holl ſaint ef,
da y clyw lef ffyddloniaid:
Ac ef a dâl yn helaeth iawn,
i'r beilch anghyfiawn tanbaid.

27 Cymmerwch gyſur yn Nuw Iôn,
ef a rydd galon ynoch:
Ac os gobeithiwch ynddo ef,
ei law yn gref bydd drosoch.

Beati quorum. Pſal. 32.

Dedwyddwch y ſawl y maddeuwyd eu pechodau: cyfaddef ei bechodau y mae, a chael maddeuant: cyngor i'r annuwiol i wellau, ac i'r duwiol i orfoleddu.

Y Sawl ſy ddeilwng, gwyn ei fyd,
drwy faddau i gyd ei droſedd,
Ac y cyfgodwyd ei holl fai,
a'i bechod, a'i anwiredd.
2 A'r dyn (a gwynfyd Duw a'i llwydd)
ni chyfri'r Arglwydd iddo
Mo'i gamweddau: yr hwn ni chêdd
dim twyll dichellfrâd ynddo.

3 Minnau, tra celwn i fy mai,
yn hen yr ai 'mhibellion:
A thrwy fy rhuad i bob dydd,
cyſtuddio y bydd fy nghalon.
4 Dy law dithau, y dydd a'r nos,
ſydd drom drwy achos arnaf:
Troi ireidd-dra fy eſgyrn mêr
fel ſychder y gorphennaf.

5 Yna y trois innau ar fai,
addefais fy anwiredd:
6 Tyſt yn fy erbyn fy hun fûm,
maddeuaiſt y'm fy nghamwedd.
7 Amſerol weddiau am hyn,
a rydd pob glanddyn arnad:
Rhag ofn mewn ffrydau dyfroedd maith
na chaer mo'r daith hyd atad.

8 Rhyw loches gadarn wyd i mi,
rhag ing i'm cedwi'n ffyddlon:
Amgylchyni fy fi ar led,
â cherdd ymwared gyſon.
9 Dithau (o ddyn) dyſg gennif fi
y fordd y rhodi'n waſtad,
Mi a'th gynghoraf di rhag drwg,
y mae fy ngolwg arnad.

10 Fel y march neu y ful na fydd,
y rhai y ſydd heb ddeall:
Mae yn rhaid genfa neu ffrwyn dèn,
i ddal eu pen yn waſtad.
11 Caiff annuwolion, a wnânt gam,
fawr ofid am eu trahâ:
A ffyddloniaid Duw, da y gwedd,
trugaredd a'i cylchyna.

12 Chwithau'r cyfion yn Nuw cenwch
a llawenhewch yn hyfrydd,
A phob calon ſydd union ſyth,
clodforwch fyth yr Arglwydd.

Exultate iuſti. Pſal. 33.

Mae yn annog y duwiol i foliannu a diolchgar i Dduw am ei amryw ddaioni; gan ddangos na 'll vn creadur gadw dyn, ond gallu Duw.

PA rai bynnag, yn Nuw yr Iôn,
ſy gyfion, llawenychwch:
I bawb y ſydd yn iawn yn byw
gweddus yw diolchgarwch.
2 A thannau telyn molwch ef,
rhowch hyd y nef ogoniant:
Ar y nabl gywair ei chwau,
ac ar y gyſon ddectant.

3 Cenwch i'r Iôn fawl a moliant,
wiw gerdd o ganiad newydd:
Cenwch iddo yn llafar glod,
bid parod eich lleferydd.
4 Am mai uniawn yw ei air,
ffyddlon y cair ei weithred.
5 Cyfiownder a barn ef a gâr,
a'r ddaiar llawn o'i nodded.

6 Gair yr Arglwydd a wnaeth y nef,
a'i Yſpryd ef eu lluoedd:
7 Caſclai efe ynghyd y môr,
a'i dryſor yw'r dyfnderoedd.
8 Yr holl ddaiar ofned ein Duw,
a phob dyn byw a'i preſwyl.
9 Ei arch a ſaif a'i air a fydd,
a hynny ſydd i'w ddiſgwyl.

10 Ef a ddirymmodd (fy Nuw Iôn)
holl gyngor y cenhedloedd:
A thrwy ſymant gwnai yn ddi rym,
amcanion llym y bobloedd.
11 Ond ei gyngor ef oddi fry,
a bery'n dragwyddoliaeth:
A'i galonfryd efe ei hun,
ywch para yn genhedlaeth,

11 A

12 A phob cenhedloedd, dedwydd ynt,
os Duw iddynt ſydd Arglwydd:
A'i etholion, efe a'i gwnaeth
yn etifeddiaeth hylwydd.
13 O'r nefoedd fry yr edrych Duw,
a'i lwybrau pob rhyw ddynion,
Ac o'i breſwylfa edrych ar,
y ddaiar a'i thrigolion.

14 Yr hwn a luniodd galon dyn,
a edwyn ei weithredoedd:
15 Ac ni chedwir vn bydol gun,
o'i nerth ei hun na'i luoedd.
16 A pheth palledig ydyw march,
i gael parch ac ymwared:
Ac ni all achub o law 'r Ner,
mo'i farchog er ei gryfed.

17 Wele lawn olwg Duw, a'i wawl,
maent ar y ſawl a'i hofno:
A'i drugaredd ef ſydd ar lled,
i'r ſawl a ymddiried yntho.
18 Er mwyn gwared, pan fo yn rhaid,
rhag angau enaid addynt:
Ac i borthi y tlawd yn glan,
rhag eiſiau, a rhag newyn:

19 Ein henaid gan yr Arglwydd hael,
ſy'n diſgwyl cael ei bywyd:
Efe a byrth ein henaid gwan,
efe yw'n tarian hefyd.
20 Sef yn vnig yn Nuw yr Ion,
mae 'n calon yn llawenu:
Ac yn ei Enw ſanctaidd ef.
mae hon yn gref yn credu.

21 Duw dy drugaredd dod i ni,
ſef ynot ei y credwn:
Dy drugaredd a'th nawdd i'n dod,
Cans ynod ymddiriedwn.

Benedicam Domino, Pſal. 34.

Dafydd wedi dianc rhag Achis, yn moli Duw, drwy roi addyſg i ymddiried yn Nuw.

DIolchaf fi â chalon rwydd
i'r Arglwydd bob amſerau:
Ei foliant ef, a'i wir fawrhâd,
ſy'n waſtad yn fy ngenau.
2 Fy enaid ſydd yn hoffion rhwydd,
o'n Harglwydd, ac o'm perchent
A phob diſalch hynny a glyw,
ac a fydd byw yn llawen.

3 Molwch fy Arglwydd gyd â mi,
cydfolwn ni ei enw ef.
4 Criais arno yn fy oſn caeth,
a gwrando wnaeth fy ymgleſ.
5 Y ſawl a edrych arno ef,
â llewych nef eglurir:
Ni wradwyddir o honynt neb,
a'i hwyneb ni chwilyddir.

6 Wele, y truan a roes lef,
a Duw o'r nef yn gwrando
A'i gwaredodd ef o'i holl ddrwg,
a'i waedd oedd amlwg iddo.
7 Angel ein Duw â dry yn gylch,
o amgylch pawb a'i hofnant:
Ceidw ef hwynt: a llawer gwell
na chaſtell yw eu gwarant.

8 O profwch, gwelwch, ddaed yw,
yr Arglwydd byw yr eiddo:
A gwyn ei fyd pob dyn a gred,
roi ef ymddiried yntho.
9 Ofnwch Dduw ei holl ſainct (heb gel)
a'i gwnel ni bydd pall arnyn:
10 Nag eiſlau dim ſydd dda: er bod,
ar gnawon llewod newyn.

11 Chwychwi feibion deuwch yn nes,
gwrandewch hanes yſtyriol.
Dowch a dyſgaf i chwi yn rhwydd,
ofni yr Arglwydd nefol.
12 Y ſawl a chwennych fywyd hir,
a gweled gwir ddaioni:
Cae dy enau rhag drwg di bwyll,
a'th ſafn rhag twyll a gwegi.

13 Gwrthod ddrwg, gwna dda, a chais hedd,
hon hyd y diwedd dylyn:
A chadw 'r heddwch wedi ei chael,
fal dyna ddiwael deſtyn.
14 Y mae yr Arglwydd a'i olwg
ar y dyn diddrwg cyfion:
A'i gluſtiau ef o'i lawn wir fodd,
egorodd i'r rhai gwirion.

15 Wyneb yr Ion a'i gwnech fy dynn,
yn erbyn gweithwyr diffaith:
Y coffa o honynt ef a'i tyr s
ar fyrr o'r ddaiar ymaith.
16 Hawdd y clybu fy Naf o'r nef,
leferydd llef y cyfion:
A thra buan (o'i râd a'i rodd)
y tynnodd o'i trallodion.

17 Agos iawn yw ein Duw at gur
y galon bur ddrylliedig:
A da y ceidw ef bob pryd
yr yſpryd cyſtuddiedig.
18 Trwch, ie ac afrwyddiannus iawn,
a fydd gwr cyfiawn weithiau:
Ei ddrygau oll, Duw oddi fry
a'i tyn, a'i try i'r gorau.

19 Ceidw ei eſgyrn ef ei hun,
o honynt vn ni ddryllir:
A drwg a laddo y drwg was,
â ffrwyth ei gas y lleddir.
20 Eithr holl waſanaethwyr Duw ei hun,
yr Arglwydd gun a'i gwared:
I'r ſawl a ymddiried yntho ef,
ni all llaw gref mo'r niwed.

Iudica me Domine. Pſal. 35.

Dafydd yn gweddio am ddial ar erlidwyr Saul, y rhai a'i herlidient, a fuont ei gyfeillion ef. Ac yn addaw moli Duw yn [illegible].

PLeidia (o Arglwydd) yn fy hawl,
â'r ſawl a dery 'n fy erbyn:
Lle 'r ymryſonant â myfi,
ymwana di a'r gelyn.
2 Mae dy gymorth? o moes ei gael,
ymafael yn y tarian:
O cyfod cais dy aſtalch, gwn,
a dwg dy waywffon allan.

3 Argaua ar y rhai ſy ar gam,
i'm herlid am fy mywyd:
Wrth fy enaid, dywaid fal hyn,
ſy fi a fynn yt' iechyd.

4 Gwarth, a gwradwydd a fo i bob gradd,
a geiſio ladd fy enaid:
A thrwy gywilydd troed iw hol
y ffals niweidiol gablaid.

5 Fel yr vs o flaen gwynt y bon,
Angel yr Ion i'w chwalu:
6 A rhyd ffordd dywyll lithrig lefn,
a hwn wrth gefn iw gyrru.
7 Cloddio pwll, a chuddio y rhwyd,
a wnaethbwyd ym heb achos:
Heb achlyſur, maglau a wnaid
i'm henaid yn y cyfnos.

8 O deued, cwymped yn ei rwyd,
yr hon a guddiwyd allan:
Syrthied a glyned iw dyfn rwyll,
a'i drapp o'i dwyll ei hunan.
9 Eithr am fy enaid i (Amen)
bid llawen yn yr Arglwydd:
Fe a fydd hyfryd gantho hyn,
lle daw i'r gelyn aflwydd.

10 O Arglwydd dywaid fy eſgyrn i,
pwy ſydd a thi yn gyſtwr?
Rhag ei drech yn gwared y gwan,
a'r truan rhag ei ſpeiliwr.
11 Tyſtion gau a godent yn llym,
a holent ym' beth anſad:
12 Drwg ym' dros dda talent heb raid,
a'm henaid braint ymddifad.

13 Ond fi, tra fyddent hwy yn glaf,
rhown i'm neſaf liain-ſach:
Drwy hir ymoſtwng ac ympryd,
cymrais fy myd yn bruddach.
Yr vn doſturiol weddi fau,
a ddaeth o'm genau allan,
A droes ellwaith (er fy lles)
i'm mynwes i fy hunan.

14 Mi a ymddygais mor brudd dlawd,
fel am fy mrawd neu'ngheraint:
Neu fel arwyl dyn dros ei fam,
ni cherdda'i gam heb alar.
15 Hwythau yn llawen doent ynghyd,
pan bwyſodd adfyd attaf:
Ofer ddynion, ac echrys lu
fyth yn mingammu attaf.

16 Rhai'n rhagrithwyr, rhai'n watworwyr,
torrent hwy eirlau [illegible]:
Hwy a'ſgyrnygent attaf fi,
bob daint, a'r rheini'n gleiddiau.
17 Arglwydd edrych, ow pa hyd
yw'r pryd y dof o'i herfod?
Gwared fy enaid rhag y bedd,
ſoes o ewinedd llewod.

18 Minnau a ganaf i ti glod,
lle bo cynulleidfa lluoedd:
Ac a folaf dy enw a'th ddawn,
wrth lawer lawn o bobloedd.
19 Na fydded lawen fyngha's ddyn,
i'm herbyn heb achoſion:
Ac na throed (er bwriadu'n ddig)
mo gwr ei lygad diglon.

20 Nid ymddiriedant ddim mewn hedd,
dychmygant ryfedd [illegible],
Dirwyn dichell, a goſod [illegible]
i'r rhai ſy'n byw yn [illegible].

21 Lledu ſafnau, taeru [illegible]
a dwedyd hyn yn ymladd:
Ffei ffei o honot, hwnt a thi,
ni a'th welſom ni â'n llygaid.

22 Tithau (o Arglwydd) a welaiſt hyn,
mor daer yn f'erbyn ſonni:
Ac na ddos oddiwrthif ymhell,
rhag dichell fy nghaſeion.
23 Cyfod, deffro, fy Nuw i'm barn,
yn gadarn gyd â'm goſod:
24 Dydi a fynni'r vnionder,
ni watwar neb o'm plegid.

25 Na âd i'r gelyn calon wael
ddiweddu cael i wynfyd:
Na rhodreſu fy llyncu'n grwn,
llyncaſwn hwn yn ddybryd.
26 Gwarth a gwradwydd iddynt addel
ſy'n codi vchel chwerthin:
Gwiſger hwynt â neſi a gwarth,
ſydd ym alanas ryſtim.

27 Llawen fo'r llaill a llawn o glod
ſy'n coelio 'mod yn gyfion:
Dwedant, bid i'n Duw ni fawrhant,
am roi llwyddiant iw weiſion.
28 Minnau fy Arglwydd gyda'r rhai'n,
myfyriaf arwain beunydd
Dy gyfiownder di, a'th fawr glod,
â'm tafod yn dragywydd.

Dixit iniuſtus. Pſal. 36.

Cwyno rhag y drygionus, eithr (drwy gydnabod daioni Duw) y mae efe yn ymgyſuro.

WRth gamwedd dyn annuwiol ſur
mae'n eglur yn fy nghalon,
Nad oes ofn Duw, na'i farn, na'i ddig
o flaen ei olwg trowſion.
2 Mae yn cyd ddwyn â'i fai ei hun,
ni wyl mo'i wrthun droſedd:
Nes cael yn eglur i'r holl fyd
ei gâs wyd, a'i anwiredd.

3 Os ei ymadrodd, mae heb wir,
ei enau dihir hydwyll,
Ni fyn wneuthur dim na ychwaith,
yr adyn diffaith ddibwyll.
4 Ef yn ei wely ni chais hun,
ond goſod llun ar ddichwydd:
Os yn effro, neu yn ei waith,
ni ochel daith annedwydd.

5 Dy drugaredd (fy Arglwydd Ion)
ſydd hyd eithafion nefoedd:
A'th wirionedd di ſydd yn gwaug
hyd y cymylau dyfroedd.
6 Dy vniondeb fel mynydd mawr,
dy farn fel llawr yr eigion,
Dy nerth fyth felly a barha
i gadw da, a dynion.

7 O mor werth fawr (fy Arglwydd Duw)
i bawb yw dy drugaredd!
I blant dynion da fawr yw bod
ynghyſgod dy adanedd.
8 Cyflawn o fraſder yw'r ty tau,
lle llenwir hwythau'n hyfryd:
Lle y cânt ddiod gennyt hyn
o ffrwd afon hyfryd.

Gyda

9 Gyda thi mae y loywffrwd hon,
a dardd o ffynnon einioes:
A'th deg oleuni, ac i'th wydd,
y cawn oleuad eiſoes.
10 O eſtyn etto i barhau
dy drugareddau tirion:
Ni a'th adwaenom di, a'th ddawn,
i'r rhai ſydd vniawn galon.

11 O Dduw im' erbyn i na ddoed,
na ffyrdd, na throed y balchffol,
A lleſtair attaf, fel na ddaw
na gwaith, na llaw'r annuwiol.
12 Felly y ſyrthiodd gynt, yn wir,
y rhai enwir a'i drygwaith,
Felly gwthiwyd i lawr hwyntwy,
heb godi mwy yr eilwaith.

Noli æmulari. Pſal. 37.

Pob peth a roddir i'r neb a garo ac a oſna Dduw, ond er i'r annuwiol lwyddo dros amſer, etto hwy a ddarfyddant.

NA ddal ddrygddyn yn dy ben,
nac o gynfigen wrthyn,
Er llwyddo'r enwir, a wnai gam:
cai weled llam yn canlyn.
2 Sef hwy a dorrir fel gwellt glâs,
neu luſiau diflas gwywon:
A hwy a grinant yn ddilwydd,
a hynny 'n ebrwydd ddigon.

3 Cred yn yr Arglwydd, a gwna dda,
gobeithia yr hyn gorau:
Bydd ymarhous yn y tir,
di a borthir yn ddiau.
4 Bydd di gyſurus yn dy Dduw,
di a gei bob gwiw ddymuniad:
5 Dy ffyrdd cred iddo, yn ddilys
fe rydd d'ewyllys attad.

6 Cred yntho ef, fe'th ddwg i'r llann,
myn allan dy gyfiawnder:
Mor olau a'r haul hanner dydd,
fal hynny bydd d'eglurder.
7 Ymddiried i Dduw, diſgwyl, taw,
a heb ymddigiaw gronyn:
Er llwyddo'i ddrygddyn ei fawr fai,
yr hwn a wnai yn gyndyn.

8 Paid â'th ddig, na ofidia chwaith:
gad ymaith wyllt gynddaredd:
Rhag i hynny dyſu i ſod
yn bechod yn y diwedd.
9 O herwydd hyn, diſgwyl yr Ion,
gwyl ddiwedd dynion diffaith:
A diſgwyl ef: meddianna'r tir,
a'r drwg i'r ol torrir ymaith.

10 Goddef y drygddyn dros dro bâch,
ni welir mwyach hwnnw,
Ti a gai weled y llê y bu,
heb ddim yn ſynnu ganthaw.
11 Ond y rhai ſydd a hawddgar,
y ddaiar a feddiannant;
Ar rhei'ni a thagnheſedd hir,
diddenir yn eu meddiant.

12 Bwriada'r drygddyn o'i chwerw ddaint,
ar ddrygu braint cyfiawnddyn:
13 Duw yn ei watwar ſuan a fydd,
ſy'n gweled dydd ei [illegible].

14 Ymylu bwa tynnu cledd,
yw trowſodd yr annuwiol,
Er llâdd y truan: fel dydd brawd,
i'r tlawd a'r defoſionol.

15 Ei ſwa torrir yn ddellt mân,
a'i gledd a â'n ei galon:
16 Mawr yw golud yr yſceler,
ond gwell prinder y cyfion.
17 Yr Arglwydd a farn bob rhyw fai,
tyr freichiau'r rhai annuwiol,
Ac ef a gynnail yn ddi ddig,
y cyfion, yſtig, gweddol.

18 Sef edwyn Duw ddyddiau, a gwaith
pob rhai o berffaith helynt:
Ac yn dragywydd Duw a wnaeth,
deg etifeddiaeth iddynt.
19 Efe a'i ceidw hwynt i gyd,
na chânt ar ddrygfyd wradwydd,
Amſer newyn hwyntwy a gânt,
o borthiant ddigonolrwydd:

20 Y rhai traws enwir, heb ddim cwyn,
fel braſder wyn a doddant:
Caſeion Duw ſydd dynion drwg,
hwy gyda'r mwg diflannant.
21 Y gwr annuwiol a fyn ddwyn
yn echwyn, byth ni thalai:
A'r gwyr cyfion trugarog fydd,
ac a rydd, nis gommeddai.

22 Sawl a fendigo Duw (yn wir)
y tir a etifeddant:
A'r rhai a felldithio, o'r tir
i gyd a fwrir allan.
23 Duw a fferddia, ac a hoffa,
hyffordd y gwr calonnog:
24 Er ei gwympo efe ni friw,
fo'i deil llaw Dduw'n ſefydlog.

25 Aethym i bellach yn wr hen,
bum fachgen 'rwy'n cydnabod:
Ni welais adu hâd gwr da,
na cheiſio'i bara 'ngherdod.
26 Echwyn a benthyg cair bob dydd,
trugarog fydd y cyfion:
A'i hâd ef drwy y nefol wlith,
a gaiff o'i fendith ddigon.

27 Arſwyda ddrwg, a gwna di dda,
a chyfannedda rhag llaw:
28 Cans Duw a gâr y farn ddidwyll
ninnau a roddwn arnaw.
Nid ymedy efe â'i Saint,
ceidw heb haint y rhei'ni:
Ond hâd yr annuwiol gwan
a ddont i angau diſri.

29 Y ddaear caiff y cyfion gwyl,
lle y preſwyl byth mewn undeb.
30 A'i enau mynaig wybodaeth,
a'i dafod traeth ddoethineb.
31 Deddf ei Dduw y ſydd yn ei fron
a'i draed (gan hon) ni lithrant:
32 Dyn drwg a ddiſgwyl lâdd y da,
ond ni chaiff yna ſyniant.

33 Ni âd yr Arglwydd er ei gais
nac er ei falais [illegible]
Y gwirion yn ei [illegible] law,
i hwn ni ddaw barn euog.

34 Gobeithia yn yr Arglwydd tau,
a chadw ei lwybrau 'n gywir;
Cei ſeddiannu, cei vwch o radd,
a gweled lladd yr enwir.

35 Gwelais enwir yn llym ei big,
a'i frig fel gwyrddbren lawri;
36 Chwiliais, a cheiſiais yr ail tro,
'r oedd efo wedi colli.
37 Yſtyria hefyd y gwr per,
ac edrych du'r cyfiawnwr:
Di a gei weled cyfryw ddyn,
ma'i derfynſydd tangnhefedd.

38 A gwyl y rhai drwy drais ſy'n byw,
ynghyd i ddiſtryw cwympant:
Fe a ddiwreiddir plant y fall,
i ddiwedd gwall, a methiant.
39 Iechyd y cyfion ſy o Dduw Nef,
a'i nerth mewn amſer cyffro:
40 Cymorth, ceidw, o ddrwg y tynn,
a hyn am gredu yntho.

Domine ne. Pſal. 38.

Dafydd yn glaf yn cydnabod mai oddiwrth yr Arglwydd y mae [illegible] yn dyfod iddo am ei bechodau, ac yn dymuno ar Dduw [illegible], ac yno drwy ffydd, yn ymroi i Dduw, y mae yn gobeithio iechyd.

FY Arglwydd, na cherydda fi,
ym mhoethni dy gynddaredd;
Ac na choſba fi yn dy lid
oblegid fy enwiredd.
2 Cans glyn dy ſaethau ynof fi,
a phennau'r rhain i'm llymion:
A dodaiſt arnaf y llaw dau,
a rhoiſt ddyrnodiau trymion.

3 Nid oes mo'r iechyd gan dy lid,
i'm cnawd, ond gofid creulon:
Ac nid oes (gan fy mhechod chwyrn)
mor hedd i'm heſgyrn ſychion.
4 Cans fy nghamweddau aent i'r nen,
a thros fy mhen tyfaſant,
Yn wedd a baich rhy drwm o bwys:
fal hyn mor ddwys i'm llethant.

5 Fy ngleiſiau ſydd fal yn bwdr ddu
yn llygru gan f' ynfydrwydd:
6 Crymais, a phallais beth, bob dydd,
ſef galar ſydd ac aflwydd.
7 Cans mae fy lwynau'n llawn o wres,
a'm cnawd heb les nac iechyd.
8 Lleſg wan ac yſig yw fy mron,
lle gwaedda calon nychlyd.

9 Clyw Arglwydd fi, [illegible] a'th flaen
yn hollawl mae 'nymuniad,
Ni chuddiwyd mo'm ochenaid fi
oddiwrthit di [illegible].
10 Llamma 'nghalon, pallodd fy nerth,
a'm golwg prydferth, hefyd.
11 Cyfneſaf, cyfaill, câr, a'm gwell,
hwy aent ym mhell i'm hadfyd.

12 A'm caſeion i yn [illegible]
a'i maglau ffug a'i dichell:
Safai fy ngheraint i yn [illegible]
i edrych hyn o bell.
13 Minnau fel dyn byddar a wnawn
[illegible] pe bawn heb glywed,
Neu fel y mudan (dan drallod)
heb enau yn egored.

14 Yn ſud fel hyn y gwn fy mod,
fel vn a thafod efrydd,
Heb ddwedyd vnwaith air o'm pen,
i dalu ſen a cherydd.
15 Gan ym' gredu i ti yn rhwydd,
o Arglwydd Dduw [illegible],
Rhwydd a hyſpys iawn gennif fi
yw y gwrandewi arnaf.

16 Mi a ddymunais arnat hyn,
rhag bod i'm gelyn wowdio,
O llithrai fy nhroed ronyn bach,
fo fydd llawenach gantho.
17 Cloffi yn barod rwyf yn wir,
a dolur hir ſy'm poeni:
18 Addef yr wyf mai iawn ym' fod,
fy mechod ſy'n ei beri.

19 A'm gelynion i ſydd yn fyw
yn aml ei rhyw, a chryfion,
Sydd yn dwyn cas i mi ar gam,
ſef am fy mod yn gyfion.
20 Y rhai a dalant ddrwg dros dda
a'm gwrthwynebant hefyd:
A hyn am ddylyn honof i
y pur ddaioni beunydd.

21 Duw, nac ymâd, na fydd ym mhell,
pen ddelo dichell ffyrnig.
22 Bryſia, cymorth fi yn y byd,
fy Nuw, a'm iechyd unig.

Dixit cuſtodiam. Pſal. 39.

Dafydd heb allu [illegible] yn dengos meddwl blin, ac yn edrych yn [illegible] marwolaeth ac [illegible].

ADdewais gadw 'ngenau'n gu,
rhag pechu yn fy ngeiriau:
2 Y dyn annuwiol lle y bo,
bwriedais ffrwyno 'ngenau.
3 Tewais, tewais fel y mudo,
rhag dwedyd [illegible]
Pan y cyffroais o hir [illegible]
ymattal oedd [illegible]
4 Yn fy nghalon y cododd gwres:
a'm [illegible]
Fel y tân yn ynnu a [illegible]
a rhydd yr [illegible]
5 O dangos ym' (fy Arglwydd nef)
pa amſer y diweddaf,
Rifedi 'nyddiau: a pha hyd
o fewn y byd y byddaf.

6 Rhoddaiſt fy nyddiau fel lled llaw,
i'm heinioes daw [illegible]
Dian yn dy olwg di (O Dduw)
fod pob dyn byw'n [illegible].
7 Sef mewn cyſgod y rhodia gŵr,
dan gaſglu pentwr afraid:
Odid a wyr wrth [illegible]
pwy a'i mwynha [illegible]

8 Beth bellach a obeithiaf fi,
Duw rhoi'i i ti fy [illegible]
9 Tyn fi o'm [illegible]
nad fi'n watwar i ffoliaid.

10 Yn ſudan gwael yr aethym i,
a hyn tydi a'i parodd:
11 O tyn dy goſp oddiwrthif ſwrn,
ſef pwys dy ddwrn a'm briwodd.

12 Pan goſbech di am bechod wr
ſo wywa'n ſwr ei ſowredd,
Fel y gwyfyn: gwelwch wrth hyn
nad yw pob dyn ond gwagedd.
13 Clyw fy ngweddi o Dduw o'r nef,
a'm llef: a gwyl fy nagrau
Dy wâs caeth wyf (o clyw fy mloedd)
ac felly'r oedd fy nheidiau.

14 O paid a mi gâd ym gryfhau,
cyn darfod dyddiau 'mywyd.
15 O gwna â mi ſy'mron ſy medd
drugaredd a ſyberwyd.

Expectans expectavi. Pſal. 40.

Diolchgarwch i Dduw am ei ddaioni i ddynion: addaw ymroi i wasanaethu Duw, ar modd i hynny: gwedi diolch y mae yn achwyn rhag ei elynion, ac yn myned at Dduw am gymorth.

BVm yn dyfal ddiſgwyl fy Ner,
ef o'r vchelder clybu,
Cluſtymwrandawodd ef fy llais
pan lefais ar i fynu.
2 Cododd fyfi o'r pydew blin,
a'r pridd tra gerwin tomlyd,
A rhoes ar graig fy nhraed i wau,
a threfnu fy nghamrau hefyd.

3 A newydd gerdd im' genau rhoes,
clod iddo troes yn hylwydd.
4 Pawb ofnant pan y gwelant hyn,
a chredant yn yr Arglwydd.
5 Pob gwr yn ddiau dedwydd yw
a rotho ar Dduw ei helynt:
A'r beilch, a'r ffeils a'r chwedlau tro
nid edrych efo arnynt.

6 Aml (o Dduw) yw y gwyrthiau tau,
fel dy feddyliau ynny,
A heb vn dyn yn dygu i'ti,
nac yn blaenyrru hynny.
7 Y rhai pe y cyfrifwn i drwy gred
eu rhoi ar led, a'i canu,
Mwy amlach ydynt nag y gall
yn dyn heb pall eu traethu.

8 Ni fynnaiſt offrwm rhodd, na gwerth,
na chwaith vn aberth cennyf,
Er hyn fy nghluſtiau i mewn pryd,
hwy a egoryd ynny.
9 Hyn pan wrthodaiſt dwedais i,
Duw wele fi yn dyfod,
10 Megis o honof mae gair pur
yn dy yſgrythur hynod,

11 Y rhyngwn i dy fodd yn llawn,
(o Dduw) rwyf ffyddlawn ddigon,
Dy ewyllys di a'th lân ddeddf
ſy'n greddf yn [illegible]'r galon.
12 Mi a bregethais dy air yn
ynghanol llu mawr anian.
Ac ni thawaf (fy Arglwydd gwyn)
ti wyddoſt hyn dy hunan.

13 Dy iawnder, iechyd, wrth air gwir
ni bum chwaith hir i'w celu,
Na'th drugaredd, na'th roddion da
rhag vn gynlleidfa meithlon.
14 Dithau (O Dduw) rhagof na chel
dy dawel drugareddau,
Dy nawdd a'th wir goſod ar lled,
bont byth i'm gwared innau.

15 Dagrau o'm hamgylch ſydd vwch rhif,
a throſo'n lliſ mae pechod,
Amlach ydynt na'm gwallt i'm brig,
a'm calon ddig ſy'n darfod.
16 Tyred (fy Arglwydd) helpa'n rhodd,
a rhynged bodd yt hynny.
Bryſia i'm gwared, na thrig yn hwy,
a bydd gynhorthwy ymy.

17 A chyd wradwydder hwynt ar gais
a fyn drwy drais fy nifa:
A throer iw hol y rhai yſy
yn chwennych ymy ddirdra.
18 Bont hwy anhedd-wâg yn lle tâl
y rhai a dyfal dafod
Er gwradwydd ym' a ddwedant hyn,
ffei, ffei, ar deſtyn dannod.

19 Y rhai a'th geiſiant di bob pryd
bont lawen hyfryd hylwydd,
A dweded a'th gâr di (Dduw ner)
mawryger enw'r Arglwydd.
20 Coſia (o Dduw) fy mod yn wan,
ac yn druan, a dyred,
(O Dduw ſynerth) na thrig yn hir,
dyrd rhag y dir i'm gwared.

Beatus qui intelligit. Pſal. 41.

Bendithio y rhai trugarog wrth wael. Achwyn rhag anffyddlon gyfeillion. Diolchgarwch.

GWyn ei fyd yr yſtyriol frawd,
a wnel a'r tlawd ſyberwyd,
Yr Arglwydd yſtyriol o'r nef
a'i ceidw ef rhag drygfyd.
2 Duw a'i ceidw, a byw a fydd
yn ddedwydd yn daſirol;
O na ddyro efo yn rhodd
wrth fodd y rhai gelynol.

3 Yn ei wely pan fo yn glâf
rhydd y Goruchaf iechyd:
A Duw a gweiria iddo fry
ei wely yn ei glefyd.
4 Dywedais innau ym'n rhwydd,
dod Arglwydd dy drugaredd,
Iachâ di'r dolur ſy dan ſais,
lle y pechais mewn anwiredd.

5 Traetha y gwaethaf a wnai nghâs
amdanaf, ſwrth ei acen:
Pa bryd y bydd marw y gwan,
a'i enw o dan yr wybren?
6 Os daw i'm hedrych, dywaid ſiom,
dangaſglu crug i'w galon,
Ac a'i traetha pan el i ffordd
i gyſwrdd a'r gyfeillion.

7 Fy holl gaſeion doent ynghyd,
i ſradu 'i gyd yn ſrethyn,
Ac i ddychmygu i mi ddrwg,
a minneu'n ddiddrwg hefyd.
8 Ym dywedent hwy yn rhwydd,
tywalldwyd [illegible]

Mal

Mae ef yn gorwedd yn ei nyth;
ni chyfyd byth oddiyno.

9 Panwyl gyfaill mwyaf ym wrth gred,
fy'nddireid a'm dewiſddyn,
A fu yn bwyta' mara erioed,
a godai'i droed yn f'erbyn.
10 Eithyr dy hunan cyfod fi,
o'th ddaioni Duw o'r nef;
Felly y gallaf fi ar hynt
gael talu iddynt adref.

11 Da y gwn fy mod i wrth dy fodd,
wrth hyn, na chafodd caſddyn,
A gwna na chaiff vn gelyn glas
ddim vrddas yn fy erbyn.
12 Felly y gwn am danaf fi,
di a'm cynhelſin berffaith;
Gan fy rhoi i byth gar dy fron
o ſyſg y dynion diffaith.

13 I Dduw Iſrael boed ymhlith
y fendith, (Ior goruchaf)
Yn oes oeſoedd: a thrwy air llen,
Amen, Amen a draethaf.

Quemadmodum. Pſal. 42.

Dafydd heb gael gan ei erlidwyr ddyfod i'r gynulleidfa ſanctaidd, yn dangos fod ei galon ef yn breſennol gydâ hwy, a fod ei holl ymddiried ef yn yr Arglwydd.

YR vn wedd ag y bref yr hydd
am yr afonydd dyfroedd;
Felly y mae fy hiraeth i
am danat ti o'r nefoedd.
2 Fy enaid i ſychedig ŵyr,
am fy Nuw byw, a'i gariad:
Pa bryd y dof fi gar dy fron!
fy Nuw a'm cyfion ynad.

3 Fy nagrau oeddynt ddydd a nos
yn fwyd ym', achos gofyn
Ym am fy Nuw bob pen awr bach,
ple, mae fo bellach? meddyn.
4 O gofio hyn wrthif fy hun,
fel tywallt ffun fy enaid;
Ynghyd a theulu Duw yr awn,
be cawn fy meddwl eiſoes.

Hyd at dy Dduw yn eilio iawn
yr awn dan gann clodydd,
Fel tyrfa a fai'n cadw gwyl,
hyn bum iw ddiſgwyl beunydd.
5 Trwm yw f'enaid o'm mewn: paham
y rhoi brudd lam ochenaid?
6 Diſgwyl wrth Dduw, a doi gar bron
ei wyneb tirion cannaid.

7 Fy enaid o'm mewn pan fo prudd,
a â yn rhydd o'th goffion,
A chofio yr Iorddonen [illegible]
ar mynydd bach a Hermon.
8 Dyfnder is dyfnderau rhydd
ac ar eu gilydd galwant;
A dwfr pob ffrwd, pob llif, pob ton,
hwy dros fy mron a aethant.

9 Fy Nâf a roes y dydd [illegible],
a'r nos gyfannedd gann,
I ganmawl fy Nuw, hwn a roes
ym' einioes iw foliannu.

10 Paham im' gedyt draw, gof cyd!
Duw, wrthyd yr achwynaf.
Er gorthrymder y gelyn cûn
mewn galar pa'm y rhodiaf?

12 Trwy f'eſgyrn taro' cleddyf llym
mewn gwarthlid ym oedd edliw
Ym'om gelynion ar fy ngwae,
dy Dduw p'le mae fo heddiw?
13 Trwm wyd f'enaid o'm mewn: paham
y rhoi brudd lam ochenaid?
14 Diſgwyl wrth Dduw, a doi gar bron
ei wyneb tirion cannaid.

Iudica me Domine. Pſal. 43.

Gweddio am gael ei waredu o ddwylo yr anwir, modd y gallai foli Duw yn ei gynulleidfa ſanctaidd.

BArn fi (o Dduw) a dadleu'n dyn
yn erbyn pobloedd enwir,
Rhag y gwr twyllgar gwared fi,
a rhag drygioni'r dihir.
2 Cans ti yw Duw fy nerth i gyd,
paham ym' bwriyd ymaith?
A pha'm yr âf mor drwm a hyn,
gan bwys y gelyn diffaith?

3 Gyr dy oleu, a moes dy wir,
ac felly twyſar finnau,
A'm harwain i i'th breſwylfydd,
i'th fynydd, ac i'th demlau.
4 Yna yr âf at allor Duw,
ſef goruchel Dduw hyfryd,
Ac ar y delyn canaf fawl,
Duw, Duw, fy hawl a'm gwynfyd.

5 Trwm wyd f'enaid o'm mewn: paham
y rhoi brudd lam ochenaid?
Diſgwyl wrth Dduw, a doi gar bron
ei wyneb tirion cannaid.

Deus, auribus. Pſal. 44.

Gweddi y ffyddlon [illegible] ar i Dduw famtymio ei achos cyfion.

CLywſom â'n clustiau, (o Dduw cu)
a'n tadau fu'n mynegy,
I ni, dy wyrthiau gynt a wnaed
yn yr amſeroedd hynny.
2 Sef y cenhedloedd gyrraiſt hwy,
a'th bobl yn lwyr a blennaiſt:
Lladd eſtroniaid heb adu vn,
a'th bobl dy hun a gedwaiſt.

3 Cans nid â'i cleddau eu hun yn wir
y cawſant dir yn etifeddu,
Nid â nerth eu breichiau yn glodfawr
y cadwyd hwy [illegible]
Ond dy law ddeau, a'th lawn nerth,
a'th olwg [illegible]
O herwydd ys eu hoffi [illegible]
a barodd iddyn lwyddo.

4 Ti Dduw, fy mrenin ydwyd: o
[illegible]
5 [illegible]
[illegible]
6 Nid yn fy mwa [illegible]
na'm cleddyf llym [illegible]
7 Ond tydi [illegible]
a rhoiſt warth [illegible]

8 Am hynny molwn di bob dydd,
 ei yn dragywydd fawredd.
Canwn i'th enw gerdd gan dant,
 o glod a moliant ryfedd.
9 Ond ti a giliaiſt ymaith beth,
 daeth arnom ſeth a gwradwydd;
Nad ait ti allan gyd â'n llu,
 cyfages fu i dramgwydd.

10 Gwnaethoſt i ffoi heb drefn,
 ein cefn at y gelynion.
Felly yr aeth ein da o'n gwlad
 yn ſclyfiad i'n caſeion.
11 Rhoiſt ni yn fwyd (fel defaid gwâr)
 ar waſgar i'r cenhedloedd.
12 A gwerthaiſt dy bobl ar bris bach,
 nid cyfoethach dy oludoedd.

13 Rhoiſt ni yn watwar (o Dduw Iôn)
 i'n cymydogion gwrthrym,
A diyſtyrwch oll a gwarth
 i bawb o bobparth ydym.
14 Dodaiſt ni yn ddihareb chwith
 ymlhith yr holl genhedloedd,
Ac yn arwydd i yſgwyd pen,
 a choeg gyſitter'n pobloedd.

15 Fy ngwarth byth o'm blaen daw yn hawdd,
 fy chwys a dawdd fy rhagdâl,
16 Gan lais gwarthruddwr, cablwr câs,
 a gwaith galanas dial.
17 Er dyfod arnom hynny i gyd
 ni throes na'n bryd na'n ſomion,
Ac ni buom i'th air (o Nêr)
 yn amſer yn anffyddlon.

18 Ein calon yn ei hol ni throes,
 ni lithrai'n troed o'th lwybrau;
19 Er ein gyrru i ddreigiaidd gell
 a'n toi â mantell angau.
20 Os aeth enw ein Duw o'n co,
 ac eſtyn dwylo' i arall,
21 Oni wyl Duw y gangred hon?
 ein calon mae'n ei deall.

22 O herwydd er dy fwyn yn wir
 o Dduw i'n lleddir beunydd,
Fal y defaid ymron eu lladd,
 fal dyna rádd y llonydd.
23 O deffro cyfod, Ddüw, mewn pryd,
 pa'm yr wyd cyd yn gorweddu?
A dihuna, a chlyw fy nghri,
 a chofia fi o'r diwedd.

24 Paham y cuddi d'wyneb pryd
 o darbod hyd ein blinder,
Ein henaid mathrwyd yn y llwch
 gan driſtwch a gorthrymder.
25 Wrth y llwch mae ein bol ynglyn,
 fal dyn dderſyn gwagaid.
26 Duw, cyfod, cymorth, gwared ni
 o egni dy drugaredd.

Eructavit cor meum. Pſal. 45.

Anrhydedd, nerth, a phrydferthwch Salomon: i bendithion ei hiliogaeth ef, a'r addyſc i'w ymwrthodiad â'i thylwyth gan ddilyn ei gwr: a hyn yn arwydd o Grist a'r eglwys o'r holl genhedloedd.

TRaethadd fy nghalon bethau da,
 i'r brenin gwnaf fyfyrdod:
Fy nhafod fel y pin, y ſydd
 yn llaw ſcrifennydd parod.
2 Uwch meibion dynion tegach wyd,
 tywalltwyd rhad i'th enau,
Herwydd i Dduw roi arnat wlith
 ei fendith byth a'i radau.

3 Gwiſg dy gleddau yngwaſg dy glun,
 o gadarn gun gogonedd,
A hyn ſydd weddol a hardd iawn,
 mewn llwydd a llawn orfoledd.
4 Marchog ar air y gwir yn rhwydd,
 lledneiſrwydd, a chyfiownedd,
A'th law ddeau di a â drwy
 bethau ofnadwy rhyfedd.

5 A thanat ti pobloedd a ſyrth,
 gan wyrth dy ſaethau llymion;
Briwant hwy, a glynant yn glau
 ym mronnau dy elynion.
6 Dy lân orſeddfaingc (o Dduw fry)
 a bery o dragywyddoldeb,
Awdurfaingc dy deyrnas y ſydd
 awdurol: rhydd uniondeb.

7 Ceraiſt uniondeb, caſe'iſt gam,
 o achos pa'm; Duw lywydd,
Dy Dduw rhoes arnat ragor fraint,
 ſef ennaint y llawenydd.
8 Arogl myrr, ac aloes da,
 a chaſia ſy ar dy ddillad,
Pan ddelych di o'th ifyrn dai,
 lle i'th lawenai'r hollwlad.

9 Sef merched brenhinoedd yn gwau
 gyda'th gareſau cywir,
O'th du deau'r frenhines deccach
 mewn gwiſg aur coeth o Ophir.
10 Clyw hyn, o ferch, a hefyd gwel,
 ac a chlust iſel gwrando;
Mae'n rhaid yt ollwng pawb o'th wlâd,
 a thy dy dad yn angof.

11 Yna'i bydd (gan y brenin) wych
 gael edrych ar dy degwch:
Dy Arglwydd yw, gwna iddo foes,
 i gael i'th oes hyfrydwch.
12 Merched Tirus eddy a rhodd dda;
 a'r bobloedd applu o olud,
A ymryſonent gar dy fron,
 am roi anhegion hefyd.

13 Ond merch y brenin, glân o fewn,
 anrhydedd llawn ſydd iddi,
A gwiſg o aur a gemmau glân
 oddiallan ſydd am dani.
14 Mewn gwaith gwe nodwydd y daw hon
 yn wych gar bron ei harglwydd,
Ac a'i gwyryfon gyda hi
 daw attat ti yn rhwydd.

15 Ac mewn llawenydd mawr a hedd
 ac mewn gorfoledd difeſur,
Hwyntwy a ddeuant [illegible]
 i gyd i lys y brenin.
16 Dy feibion yn [illegible]
 yn lle dy dadau fyddant,
Tywyſogaethau drwy [illegible],
 yn yr holl wlâd a feddant.

17 Coffâf dy enw di ymhob oes,
 tra caffwyf einioes ymy;

Am hyn y bobloedd a rydd fawl,
byth yn dragwyddawl ytty.

Deus noſter, Pſal. 46.

Diolch i Dduw am wared yr eiddo, ac annog y ffyddloniaid iw gorchymyn eu hunain i Dduw.

Gobaith a nerth i'n yw Duw hael;
mae help iw gael mewn cyſwng.
2 Daiar, mynydd, aent hwy i'r mor:
nid ofnaf i'r angor deilwng.
3 Pe ymgymyſgai'r tir a'r dwfr,
nid ofnwn gynwfr rhuad,
Ped ai'r mynyddoedd i'r mor mawr
ar brynnieu i lawr y gwaſtad.

4 Dinas Duw lle llawen a ſydd,
cyſagos glennydd afon,
Cyſſegr preſwylfa y rhad,
ganddyfal rediad Cedron.
5 Duw ſydd yn trigo o'i mewn hi
ni âd hi'ſcogi vnwaith:
Duw a'i cymyrth ar y wawr ddydd,
a phreſwylfeydd perffaith.

6 Y cenhedloedd pan fyddent ddig,
a ffyrnig y tyrnaſydd,
Toddai y ddaiar o'i flaen ef
pan glywid llef Duw ddofydd.
7 Y mae yr Arglwydd gyda ni,
Ior anifeiri'y lluoedd:
Y mae Duw Iago yn ein plaid,
gyr help wrth raid o'r nefoedd.

8 Y wlad, o dowch i gyd yn rhwydd,
a gwaith yr Arglwydd gwelwch,
Y modd y goſododd ef ar,
y ddaiar anialddawch.
9 Gwna i ryfeloedd beidio 'n wâr
hyd eitha'r ddaiar lychlyd:
Dryllia y bwa, tyr y ffon,
llyſg y cerbyddon hefyd.

10 Peidiwch, gwybyddwch mai fi yw
eich vnig Dduw a'ch gwanar,
Ymyſg cenhedloedd mi'a gâf barch,
a'm cyfarch ar y ddaiar.
11 Y mae yr Arglwydd gyda ni,
Ior anifeiri y lluoedd,
Y mae Duw Iago yn ein plaid,
gyr help wrth raid o'r nefoedd.

Omnes gentes. Pſal. 47.

Peri addoli Duw am ei dangnefedd i had Iago, a prophwydoliaeth am deyrnas Chriſt.

Cenwch, a churwch ddwylo 'nghyd:
holl bobl y byd cyfannedd,
A llafargenwch i Dduw nef,
gan leiſio â llef gorfoledd.
2 Sef ofnir Duw vwch daiar gron,
ef ſydd dros hon yn frenin,
3 Dwg bobloedd danom, a phob gwaedd,
a than ein traed fo'i dyglin.

4 Fe a rydd ini feddiant ſwyr,
gwlad Iago, gwr a garai.
5 Duw a dderchafodd wrth y ſain,
yr vtgorn gain pan leiſiai.
6 O cenwch, cenwch, glod ein Duw,
ein brenin yw, o cenwch.
7 Duw dros y byd ſy frenin call,
drwy ddeall ymhyfrydwch.

8 Brenin yw ef, a ddâ y gwnaeth
lywodraeth ar wyr bydol,
Ac y mae'n eiſtedd yn ei drwn
gorſeddfa ſwn ſancteiddiol.
9 Ymgaſglant bendefigion byd:
ynghyd â llu Duw Abra'm,
Duw biau tariannau y tir,
drwy foliant hir yn ddiammau.

Magnus Dominus. Pſal. 48.

Diolch i Dduw dros Ieruſalem.

Mawr ei enw'n ninas ein Duw,
a hynod yw yr Arglwydd,
A'i drigfan ef yno y ſydd,
ym mynydd ei ſancteiddrwydd.
2 Tegwch bro, a llawenydd gwlâd,
yw Seion lathriad fynydd,
Yn yſtlyſau y gogledd ſawr,
tre'r brenin mawr tragywydd,

3 Adweinir Duw 'mhalaſau hon
yn gymorth digon hynod.
4 Ac wele nerth brenhinoedd byd
doent yno i gyd-gyfarfod.
5 A phan welſant, rhyfeddu a fu,
ar frys brawychu rhagor.
6 Dychryn a dolur ar bob ſaig,
fel dolur gwraig wrth eſgor.

7 Ti â dwyreinwynt dryllit'n fran
eu llongau ar y moroedd.
8 Fel y clywſom y gwelſom ni,
yn ninas rhi'y lluoedd:
Sef hyn, yn ninas ein Duw ni,
ſicrha Duw hi byth bythoedd.
9 Duw diſgwyliaſom am dy râs
i'th deml, ac addas ydoedd.

10 Duw, fel yr aeth dy enw o hyd,
felly drwy'r byd i'th folir.
Dy law ddeau y ſydd gyflawn,
a chyfiawn i'th adweinir.
11 A bryn Sion a lawenhâ,
a merched Iuda hefyd;
A'i llawenydd hwy yn parhau
O ran dy farnau hyfryd.

12 Ewch, ewch, oddiamgylch Sion ſail,
a'i thyrau adail rhifwch,
Ei chadarn fur a'i phlaſau draw
i'r oes a ddaw mynegwch.
13 Cans ein Duw ni byth yw'r Duw hwn
hyd angau credwn ynddo,
A hyd angau hwnnw a fydd
yn dragywydd i'n tywyſo.

Audite hæc omnes. Pſal. 49.

Yr Yſpryd yn dangos nad y cyfoethoccaf y ſydd ddedwyddaf, ond mai Duw ſydd yn llywio pob peth.

Gwrandewch chwi y bobloedd i gyd,
trigolion byd deellwch.
2 Gwerin, tlawd, bonheddig, a chryf
cyfoethog hyf yſtyriwch.
3 O'm genau daw doethair di dwyll,
â'm calon pwyll fyfyriaf.

4 A'm cluſt gwrandawaf ddameg ddwys
a'm llais cerdd ſwys a ganaf.

5 Paham yr ofnaf ddrygau'r byd
yn amſer adfyd atcas?
Pan fo anwiredd wedi cau,
wrth fy ſodlau o'm cwmpas.
6 Mae llawer rhai o wyr y byd
mewn golud a'mddiriedant,
A thrwy ſiarad am werth, a'r rhi
y rhei'ni y rhodreſant.

7 Ond ni wareda neb mo'i frawd,
ni thâl ſyn ddidlawd droſto,
Ac ni chymer Duw y fath dâl,
mae iawn mor ſâl am dano.
8 Sef pryniad enaid dyn drud ſydd,
a hyn byth gorſydd peidio,
9 Fel y gallo efe fyw byth,
heb fynd i nyth yr amdo.

10 Gwelir mai'r bedd yw lletty'r doeth,
y ffol ar anoeth vnwedd;
Marw yw'r naill, a marw yw'r llall,
i arall gâd ei annedd.
11 Meddwl am ei hadeilad byth,
yn ddilyth y parhiant,
Am hyn wrth eu henwau yn wir
henwau eu tir a alwant.

12 Ni pherv dyn o gnawdol dras,
mewn vrddas er ei adail,
Diau pob dyn, pan ddel ei ddydd,
a dderfydd fal anifail.
13 Dyma eu ffordd, ffordd ffoledd ſydd,
na welant ddydd yn paſſio.
Er hyn eu hil a ddel iw hol
ſydd yn eu canmol etto.

14 Angeu yw terfyn pob dyn byw,
i hwn nid yw ond tamaid;
Myned ſydd raid o'r ty i'r bedd;
yn rhwym vnwedd a'r defaid.
15 Daw dydd i'r cyſion dranoeth teg,
daw ym'vchwaneg yſtyn;
Daw ym'o'r bedd godiad i fyw,
deheulaw Duw a'm derbyn.

16 Er codi o wr mewn parch neu dda,
nac ofna di vn gronyn:
Ei olud ef, na'i barch, na'i dda,
i'r bedd nid â iw ddylyn.
17 Hwn tra fu fyw yn rhodio llawr,
gwnai'n fawr o hono'i hunan,
Gwna hanot ti dy hun yn fyw,
a hwynt hwy a'th ganmolan.

18 At oes ei dadau hwn pan ddel,
â i'r bedd dirgel efrydd.
19 Dyn mewn anrhydedd heb ddeall
(fal llwdn o wall) a dderfydd.

Deus deorum. Pſal. 50.

Prophwydoliaeth am alwedigaeth y cenhedloedd, ac na fyn Duw aberth ond diolchgarwch, yn erbyn y rhai a arferant Ceremoniau o flaen gair Duw.

Duw y duwiau, yr Arglwydd cu,
gan leſaru a alwodd,
O godiad haul hyd fachlud hwn,
yr hollfyd crwn cyſroedd.
2 O fryn Sion y daeth Duw naf,
hon ſydd berffeithiaf ddinas,
Mewn tegwch a goleuni mawr,
a llewych gwawr o'i gwmpas.

3 Doed rhagddo'n Duw, na fid fel mud,
o'i flaen fflam danllud yſed,
A mawr dymeſtloedd iw gylch ef,
pan ddel o nef i wared.
4 Geilw ef am y nefoedd fry,
a'r ddaiar obry iſod,
I gael barnu ei bobloedd ef,
fal hyn rhydd lef am danom.

5 O ceſglwch attaf fi fy ſaint,
y rhai drwy ryddfraint brydferth,
A wnaethan ammod a myfi,
a'i rhwymo hi drwy aberth.
6 A phan ddangoſo mintai nef
ei farnau ef yn vnion,
Sef Duw ſydd yn barnu ei hun,
yr vnic gun ſydd gyſon.

7 Clyw di fy mhobl, traethaf yn ffraeth
dyſtiolaeth yn dy erbyn,
Dithau Iſrael: ac iawn yw,
Duw, ſef dy Dduw a'th ofyn.
8 Ni chai di am yr ebyrth tân.
na'th boeth offrymau gerydd:
Nac am na baent hwy gar fy mron,
y cyfryw roddion beunydd.

9 Ni chymeraf o'th dy vn llo,
na hyfr a fo'n dy gorlan,
10 Mi biau'r da'n y maes ſy'n gwan
ar fil o frynniau allan.
11 Pob aderyn erbyn ei ben,
a adwen ar y mynydd,
Pob da maeſydd, y lle y maen,
y maent o'mblaen i beunydd.

12 Nid rhaid ym'ddangos i ti hyn,
pe delai newyn arnaf,
Ac yn eiddo fi yr holl fyd,
a'i dda i gyd yn llownaf.
13 A'i cig y teirw ſydd fy mwyd?
na thyb: nid wyd ond angall,
Ai gwaed hyfrod ſydd fy niod?
dyſg o newydd ddeall.

14 Dod dy oglud ar Dduw yn drwm,
a thal yr offrwm pennaf;
Cân ei fawl ef: a dod ar led
d'addunedi'r Goruchaf;
15 Galw arnaf yn dy ddydd blin,
yno cai fi'n waredydd.
Yna y ceni i mi glod
am droi y rhod mor ddedwydd.

16 Duw wrth yr enwir dywaid hyn:
ai ti perthyn fy neddfau?
Paham y cym'ri di, na'm clod,
na'm hammod yn dy enau?
17 Sef, cas fu gennyt ti iawn ddyſg
ac addyſg ni chymeraiſt,
A'm geiriau i (fel araith ffol)
i gyd o'th ol a deflaiſt.

18 A phan welaiſt leidr rhedaiſt
a rhwydaiſt ran oddiwrtho:
Ac os godderchwr brwnt aflan,
mynnaiſt ti gyfran gantho.

19 Goll:

19 Gollyngaiſt di dy ſafn yn rhydd
yn efrydd ar ddrygioni,
A'th dafod a lithrai ym mhell
at ddichell a phob gwegi.

20 Eiſteddaiſt di, dwedaiſt ar gam
ar fab dy fam ei enllib.
21 Pan wnaethoſt hyn, ni'th goſbais di,
a thybiaiſt fi'n gyffelib.
22 Ond hwy na hyn tewi ni wnaf,
mi a'th geryddaf bellach,
Mi a ddangoſaf dy holl ddrwg
o flaen dy olwg hayach.

23 Gwrandewch: a pheidiwch tra foch byw
a gollwng Duw yn angof i;
Pan ni bo neb i'ch gwared chwi,
rhag ofn imi eich rhwygo.
24 Yr hwn a abertho'i mi ſawl
yw'r ſawl a'm gogonedda,
I'r neb a drefno'i ffordd yn wiw
gwir iechyd Duw a ddyſgaf.

Miſerere mei Deus. Pſal. 51.

Dafydd yn cyffeſſu ei anwiredd, ac wrth ymgydnabod a brynti ei anian, yn dymuno cael gan Dduw faddeuant, ac adnewyddu ei ddonian: ac mae hefyd yn gweddio dros yr eglwys.



TRugaredd dod i mi, Duw, o'th
ddaioni tyner; Ymaith tyn fy enwiredd
mau o'th drugareddau lawer.

2 A golch fi yn llwyr oddwyn
oddiwrth fawr bwys fy meiau:
Fy Arglwydd, gwna'n bur lân fyfi,
rhag brynti fy nghamweddau.

3 Cans adwen fy nghamwedd,
a'm brwnt anwiredd yſig,
Sef beunydd maent gar fy mron i.
4 Yn d'erbyn di yn unig,
Y gwneuthym hyn oedd ddrwg
yn dy lanolwg diſtrych,
Fel i'th gyfiowner yn ol d'air,
yn burair pan y bernych.

5 Mewn pechod lluniwyd fi,
ac mewn drygioni dygaſe,
Felly yr wyf o groth fy mam
yn byw bob cam yn argae.
6 Ac wele ceiſi'r gwir
o fewn y gywir galon,
Am hyn dyſgaiſt ddoethineb iach
y'm o'th gyfrinach ffyddlon.

7 Ag Iſop golch fi'n lân,
ni byddaf aflan mwyach,
Byddaf a'm golchi mal hyn,
fel eira gwyn neu wynnach.

8 Par i mi weled hedd,
gorfoledd, a llawenydd,
I adnewyddu f'eſgyrn i
a ddrylliaiſt di a cherydd.

9 O cuddia d'wyneb-pryd
rhag fy mhechodau i gyd,
Fy anwireddau tyn ymaith,
o Arglwydd bid wiw gennyd.
10 Duw, crea galon bur,
dod i mi gyſur beunydd.
I fyw yn well tra fwy'n y byd,
dod ynof yſpryd newydd.

11 O Dduw na dyro chwaith,
fi ymaith o'th olygon,
Ac na chymer dy Yſpryd glân
oddiwrthif, drwy'n gwirion.
12 Gorfoledd dwg i mi,
drwy roddi ym dy iechyd,
A chynnal a'th yſprydol ddawn
fi, i fyw'n uniawn hefyd.

13 A dyſgaf dy ffordd wir
i'r enwir, a'th addoliad:
A phob pechadur try i'r iawn,
a chyrch yn uniawn attad.
14 Rhag gwaed gwared fi Dduw,
ſef Duw fy iechydwriaeth,
A'm tafod o'th gyfiawnder di
a gân gerdd wiſgi hyffraeth.

15 Duw, egor y min mau,
a'm genau mi a ganaf,
O Arglwydd, gerdd o'th fawl, a'th nerth,
fal dyna'r Aberth pennaf.
16 Cans Aberth ni's ceiſi,
ac ni fynni offrwm poeth:
Pe y mynaſyt cawſyt hyn,
nid rhaid yt dderbyn cyfoeth.

17 Aberthau Duw i gyd,
yw yſpryd pur drylliedig,
Ac ni ddiſtyri (o Dduw lon)
y galon gyſtuddiedig.
18 Bydd dda wrth Sion fryn,
o Arglwydd, hyn a fynni,
Ac wrth Gaerſelem dy dreftad,
a gwna adeilad arni.

19 Cei aberth iownedd coeth,
cei offrwm poeth yn rhagor,
Cei aberth lloiſg, a bodlon lych,
cei fuſtych ar dy allor.

Quid gloriaris? Pſal. 52.

Dangos dull gorthrymydd, ac am ei ddiwedd a cyſur i'r ffyddlon yn Nuw. Mae y Pſalm hon yn goſod allan yn eglur dyrnaſiad yr Anghriſt.

PA'm y rhodreſi yn dy frâd,
a'th ddrwg fwriad (o gadarn?)
A maint trugaredd Duw bob dydd,
ac felly bydd hyd dyddfarn.
2 Dychymyg drwg yw'r ſyfyrdawd,
a gwaith dy dafawd ſceler,
Hwn ſydd fel ellyn llym o ddur,
a'i ſwydd yw gwneuthur ffalſder.

3 Mi hoffaiſt dda, gwnait ddrwg yn hawſ,
yw traws, yn fwy na'r uniawn,

4 Hoffaiſt eiriau diſtryw a bar,
ti gelyn twyllgar, creulon.
5 Duw a'th ddiſtrywia ditheu byth,
fo dyn dy chwyth o'th gaban:
Ac a dyn dy wraidd di i gyd,
o dir y bywyd allan.

6 Rhai a'i gwelant a arſwydant,
cans hwy a ydynt gyfion,
A hwy a chwarddant am ei ben,
pan welont ddilen greulon.
7 Gwelwch y gwr ni rodd yn ddwys
ar Dduw na'i bwys na'i oglud,
Ond ar ddrygioni yn rhoi nerth,
a rhif a gwerth ei olud.

8 Minnau fel oliwydden werdd
yn nhy Dduw, cerdd a ganaf,
Ymddiriedaf iddo yn hawdd,
byth dan ei nawdd y byddaf.
9 Mi a'th folaf, a'th obeithiaf,
bythoedd drwy ymddiried.
Da yw dangos gar bron dy Saint
dy enw, a maint dy weithred.

Dixit inſipiens. Pſal. 53.

Dangos drwg naturiaeth dyn, a chosbedigaeth y drygionus. Gweddi dros y duwiol.

DWedai'r ynfyd wrtho'i hun
nad oes vn Duw na dial:
Ei ddrwg ffieidd-dra a'i drais tynn,
a ddengys hyn yn ddyfal.
Llygru yn ffiaidd maent drwy'r byd,

Oedd neb a geiſiai Dduw yngall,
nac oedd yn deall gronyn,

3 Ciliaſai bawb yn ol ei gefn,
a hwy drachefn cydlygrynt:
Nid oedd neb a wnelai yr iawn,
nac vn yn gyfiawn honynt.
4 Pa'm na ſyrria gweithwyr trais
eu bod yn bwyta 'mhobloedd:
Fel y bara? ac heb ddim hid i
ni alwent fi o'r nefoedd.

5 Ofn heb achos arnynt a ddaeth
y rhai a'ch caeth warchaeodd:
Cans trwy eu gwaſgar hwy i bob parth,
mewn gwarth Duw a'i gwaſgarodd.
6 Och fi na roid i Iſrael
o Sion vchel iechyd?
Pan roddo Duw ei bobl ar led
o drom gaethiwed adfyd.

7 Yna y bydd Iago yn iach,
ac Iſrael bach yn hyfryd:
Yna, &c. drachefn.

Deus in nomine. Pſal. 54.

Dafydd yn galw ar Dduw i ddinistrio ei elynion, drwy addo diolchgarwch.

DVw yn d'enw cadw fi'n dda,
a barna i'th gadernid,
2 Duw clyw fy ngweddi, gwrando 'nghwyn
a'm llef yn achwyn wrthyd.
3 Cans codi'm herbyn i yn chwyrn
mae cedyrn ac eſtroniaid.
Ac heb oſod Duw gar eu bron,
mor greulon ynt i'm henaid.
4 Wele Duw ſydd yn cymorth rhag
pwy bynnag a gais dial,
Duw ſydd gyda'r rhai ſy'ar blaid
fy enaid, er ei gynnal.
5 Efe a dâl o'r achos hon
i'm gelynion eu drygedd,
O torr di ymaith hwynt (fy Ion)
yn eigion dy wirionedd.

6 Rhof aberth yt o wllys da,
a chlod-fora 'dy enw
Fy Arglwydd cymmwys ydyw hyn,
ſef ti wyd yn fy nghadw,
7 Gwir yw, Duw a'm gwaredodd i
o'm cyni a'm trallodion,
A'm llygad a gafodd ei fryd,
a'i wynfyd o'm caſeion.

Exandi Deus. Pſal. 55.

Dafydd yn ofni Saul yn aruthr, ac yn gweddio, ac yn achwyn faint ei greulondeb ef.

O Dduw gwrando fy ngweddi brudd,
nac ymgudd rhag fy nghwynfan,
2 Erglyw a gwyl fy ngwael yſtâd,
a llais fy nâd a'm tuchan.
3 Hymrhag rhuadaidd llais fy nghâs,
a phwys dyn llym-iâs enwir,
Y rhai a daerant arnaf ddrwg,
a'i llid yn amlwg gwelir.

4 Gofid calon ſy'n dwyn fy oes,
daeth angeuloes hyd attaf,
5 Mae ofn ac arſwyd arnaf caeth,
a dychryn daeth ar f'uchaf.
6 O dra ofn dywedwn yn fy nghri,
gwae fi am esgyll colommen,
Yna'r ehedwn i lechydd,
i gael ym' lonydd amgen.

7 Wele, awn i grwydro ym mhell,
lle cawn yſtafell fachog.
8 Yna y bryſiwn ar fy hynt
rhac rhuad gwynt tymeſtlog.
9 Diniſtria di hwynt, (Arglwydd da)
gwahana eu tafodau.
Sef yn y ddinas amlwg drais
a welais, a chynnennau.

10 Dydd a nos ei chylchu yn dro,
a rhodio rhyd ei chaerau,
O'i mewn y mae enwiredd mawr,
ac ar ei llawr bechodau.
11 Gan faint ei hanwireddau hi,
a maint drygioni hennydd,
Nid ymâd twyll na dichell chwaith
ſyth ymaith o'i heolydd.

12 Ac ni wnaeth fy nghas y gwaith hyn
pe gelyn, goddefaſwn:
A phe dyn atgas yn ei roch,
yn hawdd y gochelaſwn.
13 Ond tydi wr, fy nghyfaill gwar,
fy nghymmar a'm cydnabod,
14 A fu mewn cyd-gyfrinach ddwys
yn eglwys Dduw'n cydfod.

15 Terfyſg angau arnaw y del,
i'r pwll yr el yn Hedfyw:
Sef ymherfedd eu cartref can
nid oes ond drygau diſtryw.

16 Minnau gweddiaf ar Dduw byw,
yr hwn a'm clyw mewn amſer.
17 Hwyr, a boran, a chanol dydd,
a hyn a fydd drwy daerder.

18 Gwaredodd Duw yr enioes lân
mewn hedd yn ymddiân drygnaws,
Lle'r oedd o'r blaen yn ſerbyn lu,
ſef ar fy nhu troea llaws.
19 Duw a'i goſtwng hwynt, ac a'm clyw,
ſef brenin yw er cynnoes.
Hwythau heb ymado a'i chwant,
fy Nuw nid ofnant eiſoes.

20 Ef wedi cymmod, a rhoi llaw,
drwy godi braw a ſrochodd,
Ef â'r vn llaw (yn erbyn hedd)
yr vn glyfammodd torrodd.
21 Ei eiriau ſal ymenyn gwyrf,
a'i ſwriad ſyrf am ryfel:
Pan fo oel ar ei dafod doeth
tyn gleddyf noeth yn ddirgel.

22 O bwrw d'ofal ar dy Dduw,
o mynni fyw heb ſyrthio.
Duw a geidw y cyfion byth,
a'r drwg ſi ei chwyrth i gwympo.
23 Sef pob dyn gwaedlyd bradog drô
nid oeſa fo hyd hanner,
(Fy Arglwydd Dduw) ond ynot ti
mae'ngobaith i bob amſer.

Miſerere mei. Pſal. 56.

Dafydd yn achwyn rhag ei elynion: ac yn gofyn cymorth, ac yn ymddiried yn Nuw. Ac yn addaw ei foli ef yn ei Sylwyr.

DVw dy nawdd yn rhag marwol ddyn
hwn yn ei wŷn a'm llyngcai,
Sef ymryſela mi bydd-
a beunydd i'm gorthrymmai.
2 Llyngcent fi beunydd o dra châs
(dy râs o Dduw goruchaf)
Rhai beilch rhy dynion maent yn llu
yn poeth ryſelu arnaf.

3 Y dydd y bai mwyaf fy ofn
rhown ynot ddofn ymddiried.
4 Molaf, credaf, nid ofnaf gnawd,
doi yn ddidlawd i'm gwared.
5 Yn fy ymadrodd i fy hun
y ceiſiant lun i'm maglu
Ac ar bob meddwl a phob tro
y maent yn ceiſio'm drygu.

6 Ymgaſglu, llechu, dergel hwy'n ddig,
a diſgwyl fy holl gerddediad,
Drwy ymſwriadu imi loes,
a dwyn i'm heinioes niwed.
7 A ddiangant hwy? Duw tâl y pwyth,
dod iddynt [illegible]
Diſgyn y bobloedd [illegible] lid
Duw felly lidd [illegible]

8 Duw rhifaiſt bob tro ar fy rhod,
fy nagrau dod i'th goſtrel:
Ond yw pob peth a'th lyfr di
a wneuthym i yn ddirgel?
9 Y dydd y llefwyf, gwn yn iach
dychwelir fy ngelynion,
Am fod droſof fy Nuw ei law
mi a wn y daw yn vnion.

10 Gorfoleddaf yngair fy Nuw,
gair f'Arglwydd byw a folaf.
11 Yn Nuw y rhod ymddiried ſiwr,
beth a wnel gwr nid ofnaf.
12 O Dduw mae arnaf fi yn ddled
lawer addunned ffyddlon,
Ac mi a'i talaf hwynt yn rhwydd
i ti fy Arglwydd cyſon.

13 Am yt ludd dwyn fy oes a'm gwared,
a lleſtair i'm traed lithro,
Fel y rhodiwyf fi gar dy fron
yngolau'r bywion etto.

Miſerere mei. Pſal. 57.

Dafydd yn anialwch Ziph yn gweddio ar Dduw drwy ymddiried yn ei addewid ef. Ac yn [illegible] ei ogoniant. Am hynny y mae ef yn rhoi diolch a mawl.

DY ras, dy nawdd, (fy Nuw) ynt i'm dod,
ſef ynod ymddiriedaf.
Nes myned heibio'r aflwydd hyn
dan d'edyn ymgyſcodaf.
2 Ymddiried f'enaid ar Dduw fydd,
ar Dduw drwy ffydd mi a alwaf,
Ac a gwbllaf ei air yn iawn,
ſef cyflawnwr y'r Goruchaf.

3 O'r nef yr enfyn geidwad ym,
rhag nerth dyn llym a'm llyngcai,
Enfyn fy Nuw ei nawdd a'i hedd,
a'i lân wirionedd didrai.
4 Ym myſg y llewod mae fy oes,
plant dynion poeth oes eiriau,
Eu dannedd ſydd fel gwayw neu ſaeth,
a'i tafod gwaeth na'r cleddau.

5 Ymddercha Dduw y nef vwchlaw,
oddiyno daw d'arwyddion,
A bydded dy ogoniant ar
y ddaiar, a'i thrigolion.
6 A ſaen fy nrhaed y rhoeſant rwyd,
ac felly'm rhwymwyd weithian,
Ar fy ffordd y cloddiaſant glawdd,
i'r hwn yn hawdd ſyrthiaſan.

7 Parod yw fynghalon (o Dduw)
o parod yw fy nghalon.
Canaf yt' a datcanaf wawd
o fawl fy nhafawd cyſon.
8 Deffro dafod, a deffro dant,
a chân ogoniant beunydd,
Nabl a thelyn, gyda hwy'n,
deffroaf fy hun ar las-ddydd.

9 Mawl yt (o Arglwydd) pan ddeffroaf
a roſ ymmyſg y bobloedd,
A chlodfori dy enw a wnaf
lle amlaf y cenhedloedd.
10 Cans cyrhaeddyd y mae dy râs
hyd yn nhyrnas y nefoedd,
A'th wirionedd di hyd at len
yr wybren, a'i thyrnaſoedd.

11 Ymddercha (Dduw) y nef vwchlaw
oddiyno daw d'arwyddion,
A bydded dy ogoniant ar
y ddaiar a'i thrigolion.

Si vere vtique. Pſal. 58.

Y mae efe yn goſod allan ddial ei elynion; y rhai yn ddirgel a geiſient ei ddifa ef; ac y mae efe *yn troi at ſarn Duw; ac yn dangos y caiff yr vnion lawenydd pan gwypo'r [illegible]. A hyn er gogoniant i Dduw.*

AI'r vniondeb (o bobloedd wych)
yr ydych yn ei ddywedyd?
A ydych chwi, o blant dynion,
yn barnu'r vnion hefyd?
2 Hyttrach malaiſ ſy ymeich bron
ac yſtryw calon dwyllgar:
A gwaith eich dwylo trowſder blin,
tra foch yn trin y ddaiar.

3 Y rhai annuwiol aent ar gam,
o groth eu mam newidient,
Ac ar gyfeiliorn mynd o'r bru,
a chelwydd ſu a draethent.
4 Vn wedd a gwenwyn y ſarph yw
y gwenwyn byw ſydd ynddyn.
Neu'r neidr fyddar yn trofâu,
dan gau ei chluſtiau cyndyn:

5 Yr hon ni wrendy ddim ar lais,
na'r wers a gais rhinwyr,
Nac vn gyfaredd ar a wna
y cyfarwyddaf ſwynwyr.
6 Duw, torr eu dannedd yn eu ſafn,
diwreiddia'r llafn o dafod:
Duw dryllia'r bonau, a gwna'n donn
bob grudd i'r c'nawon llewod.

7 Todder hwynt fel dwr ar y tir,
felly diflennir hwythau:
Os mewn bwa rhoeſant ſaeth gron,
boed torri hon yn ddrylliau.
8 Boent hwy mor ddiffrwyth, ac mor hawdd
a malwen dawdd y todder:
Neu fel rhai bach ni welai'r byd,
o eiſiau pryd ac amſer.

9 Tâl Duw iddynt ffrwythau cyllid,
cynt nac y lloſgyd ffagldân:
Tynn hwyntwy ymaith yn dy ddig,
cyn twymnai cig mewn crochan.
10 A phan weler y dial hyn,
fo chwardd y glanddyn cyfion.
Pan fo rhydd iddo olchi eu draed
yngwaed yr annuwiolion.

11 Yna dywaid dynion fod iawn
a ffrwyth i gyfiawn bobloedd,
A bod ein Duw yn farnwr ar
y ddaiar a'i therfynoedd.

Eripe me. Pſal. 59.

Dafydd yn ofni Saul, yn dangos ei ddiniweidrwydd ei hun, a chreulondeb ei elynion, yn gweddio yn erbyn pechaduriaid maleiſus, ac yn moli Duw.

FY Nuw gwareda fi rhag brâd
a rhag twyll ſwtiad gelyn,
Derbyn di droſof rhag y rhai
a godai yn fy erbyn.
2 Ac ymddiffyn fi yn bybyr
oddiwrth weithredwyr camwedd,
Achub fy fi rhag [illegible] y byd,
a rhag gwyr gwaedlyd hyglodd.

3 Ac wele, maent hwy i'm cynllwyn,
amcanent ddwyn fy mywyd,
Nid ar fy mai yr haeddais hyn,
ond tynder gelyn gwaedlyd
4 Duw rhedent hwy yn barod iawn,
a dim ni wnawn iw herbyn.
Edrych dithau, fy Arglwydd rhed,
a thyred i'm hymddiffyn.

5 Ti Ddnw y llu: Duw Iſrael,
o deffro gwel eu wiredd,
I'r cenhedloedd na âd di'n rhâd,
lle y gwnant drwy frâd eu trawſedd.
6 Maent hwy yn arfer gyda'r hwyr,
o'mdroi ar wyr o bobparth,
A thrwy y ddinas clywch eu ſwn,
vn wedd a'r cwn yn cyfarth.

7 Wele maent a thafodau rhydd,
awch cledd a fydd iw genau,
Pwy meddant hwy all glywed hyn?
ac a wna i'n herbyn ninnau.
8 Ond tydi fy Arglwydd a'm Duw,
a'i gwel, ai clyw, a'i gwatwar,
Am ben eu gwaith y chwerddi di
y cenhedlaethi twyllgar.

9 Ti a attebi ei nerth ef,
a'th law gref a'm hamddiffyn
10 Duw a'm rhagflaena innau [illegible]
caf weled trip i'm gelyn.
11 Na lâdd hwynt rhag i'm pobloedd i
anghofi dy weithredoedd:
Gwaſgar, goſtwng hwy yn dy nerth
Duw darian prydferth lluoedd.

12 Am bechod eu tafodau hwy,
a'i geiriau, mwy fwy balchedd,
Telir iddynt ni cont air teg
ond celwydd, rheg, a choegedd.
13 Duw difa, difa hwynt i'th lid,
a byth na fid vn mwyach,
Gwybyddant mai Duw Iago fydd
drwy'r byd yn llywydd hyttrach.

14 Maent hwy yn arfer gyda'r hwyr
o'mdroi yn llwyr o bobparth,
A thrwy y ddinas clywch ei ſwn,
vn wedd a'r cwn yn cyfarth.
15 I gael ymborth crwydro a wnant,
ac oni chânt eu digon,
Nes cael byddant ar hyd y nos
yn aros dan ymryſon.

16 Minnau a ganaf o'r nerth cry,
a'th nawdd yn forau molaf:
Nerth ym' a nawdd buoſt (o Nêr)
pan fu gorthrymder arnaf.
17 Iti canaf, o Dduw fy nerth,
a'm hymadferth rymuſol,
Ses tydi yw fy Nuw, fy Nâf,
fy'nhwr, fy noddfa raſol.

Deus repuliſti, &c.

Dafydd pan oedd yn frenin ar Judah, yn dangos drwy arwyddion mai Duw a'i dewiſaſai, ac yn dangos hynny yr bobl: dymuno ar Dduw orphen yr hyn a ddechreuaſai

O Dduw, dydi a'n gwrthodaiſt,
ar waſgar gyrraiſt ymaith,
O ſorraiſt wrthym yn dy ddigel,
tro attom, dychwel eilwaith,
2 Dychrynaiſt di y ddaiar gron,
a hollcaiſt hon yn ddrylliau,

Cans o'th lid ti ſiglo y maes,
 iachâ, a chae ei briwiau.
3 Dangoſaiſt i'th elynion di
 o bwys caledi ormod,
A'r ddiod a roiſt yn eu min,
 oedd megis gwin madrondod.
4 Rhoddaiſt faner, er hyn i gyd,
 i bawb o'r byd a'th ofnant,
I fanera drwy dy air gwir,
 dros lu y tir lle y trigant.

5 Fel y gwareder drwy lîn hwyl,
 bob rhai o'th anwyl ddynion.
O achub hwynt â'th law ddeau,
 a gwrando finnau'n ffyddlon.
6 Yn ei ſancteiddrwydd dwedodd Duw,
 llawen yw fy nghyfafnod,
Mi a rannaf Sichem rhydd y glyn,
 meſuraf ddyffryn Succoth.

7 Myfi bian y ddwy dref tad,
 ſef Gilead, a Manaſſe,
Ephraim hefyd yw nerth fy mhen;
 a Iuda wen f'anneddle.
8 Ym Moab ymolchi a wnaf,
 dros Edom taflaf f'eſgid,
A chwardded Paleſtina gaeth,
 a'i chwerthin aeth yn thybrid.

9 Duw, pwy a'm dwg i'r ddinas gref?
 pwy a'm dwg i dref Edom?
10 Er yt ein gwrthod, pwy ond ti
 o Dduw a'mleddi drosom!
Ynot yn vnig mae'n coel ni,
 perthon i ti a'n gwrthod,
Er nad aetheſt o flaen ein llu,
 bydd ar ein tu mewn trallod.

11 O vnig Dduw, bydd di' ni'n borth,
 ofer yw cymorth vndyn.
12 Yn Nuw y gwnawn wrolaeth fawr
 fo ſathra'i lawr y gelyn.

Exaudi Deus. Pſal. 61.

Y mae yn dymuno ar Dduw ei achub rhag ei erlidwyr, a'i gadarnhau yn ei deyrnas, drwy addo mawl tragwyddol.

ERglyw (o Dduw) fy llefain i,
 ac ar fy ngweddi gwrando:
2 Rhof lef o eithaf daear gron,
 a'm calon yn llyſmeirio.
Dwg fi i dollgraig uwch na mi,
 ac iddi bydd i'm derbyn.
3 Cans craig o obaith, twr diſeth,
 y'm ſioſt rhag y gelyn.

4 O fewn dy Babell y bydd byth,
 fy nrhigfan dilyth ddedwydd:
A'm holl ymddiried a fyn fod
 ynghyſgod dy adenydd.
5 Sef tydi Dduw glywaiſt yn glau,
 fy addunedau puraidd:
Rhoiſt etifeddiaeth i bob rhai
 a ofnai dy enw ſanctaidd.

6 Rhoi oes i'r brenin aid oes [illegible]
 fo fydd fyw lawer blwyddyn.
7 (Duw) gar dy fron y trig yn hir,
 dod nawdd a gwir iw ganlyn.

8 A thrwy y rhai'n y molaf fi
 dy enw di yn dragywydd.
Ac felly peri i mi gwplau
 fy addunedau beunydd.

Nonne Deo. Pſal. 62.

Dafydd yn dangos fod yn rhaid i bob cristion ymddiried yn Nuw, ac na thâl dim heb Dduw.

FY vnig Dduw ydyw fy mhlaid,
 mae f'enaid yn ei ddiſgwyl,
O honaw ef, a thrwy ei fyn
 daw iechyd ym' o'm hanhwyl.
2 Duw yw fy nghraig, a'm vnig nerth,
 ac ymadferth fy einioes,
Ac am hyn drwy ymddiffyn hir
 mi ni'm yſgogir eiſoes.

3 Pa hyd y mae'n eich bryd barhau,
 i fwrw eich maglau allwydd.
Lleddir chwi oll, a gwnair yn llwyr
 fel magwyr ar ei gogwydd.
4 Ymgaſglent, lluniant ac hwydd mawr
 iw roi i lawr o'i fowredd,
Ar eu tafodau rhoi bendith
 a melldith dan ei dannedd.

5 Fy enaid dod (er hyn i gyd)
 ar Dduw dy fryd yn ddyfal,
Yntho gobeithiaf fi er hyn,
 efo a'm tyn o'm gofal.
6 Sef craig ymddiffyn ydyw ym',
 fy nhwr, a grym fy mywyd,
Am hynny y credaf yn wir
 na'm mawr yſgogir ennyd.

7 Yn Nuw yn vnig mae i gyd,
 fy iechyd, a'm gogoniant,
Fy nghraig yw, a'm cadernid maith,
 a'm gobaith yn ddilyſiant.
8 Gobeithiwch ynthaw, gar ei fron
 tywelltwch galon berffaith,
Ac ymddiriedwch tra fo'ch byw,
 a dwedwch, Duw yw'n gobaith.

9 Plant Adda, gwagedd ynt i gyd,
 plant gwyr ſydd hud a gwag,
Gwagach na gwagedd yn eu tawl,
 mewn mantawl wrth eu codi.
10 Na rowch eich coel ar gam na thrais,
 [illegible]
Os cynnydda cyfoeth y byd
 na rowch mo'ch [illegible]

11 Duw a lefarodd hyn unwaith,
 mi a glywais ddwywaith hynny,
Sef, mai Duw bia'r nerth i gyd,
 goſtyngaid byd [illegible]
12 O Arglwydd, ti biau hefyd
 drugaredd a [illegible]
I bawb dan gwmpas [illegible]
 yn ol ei waith y teli.

Deus Deus meus. Pſal. 63.

Dafydd wedi dianc o [illegible] am ei warchu, [illegible] ar Dduw, a [illegible] yntho.

TYdi o Dduw yw y Duw mau,
 [illegible]

Y mae fy enaid yn dra ſych,
a'm cnawd mewn nych am danad,
2 Mewn lle heb ddwfr, mewn crinder gwlâd
ceiſiais o'th ras dy weled,
Mal i'th welſwn yn dy Deml gynt,
ac helynt nerth gogoned.

3 Cans dy drugaredd (o Dduw byw)
llawer gwell yw nâ'r bywyd,
A'm gwefuſau y rhof yt fawl,
a cherdd ogonawl hyfryd.
4 Felly tra fwyf fi fyw y gwnaf,
ac felly'th folaf etto,
Ac yn dy enw di ſydd gu
y caf dderchafu'n dwylo.

5 Digonir f'enaid fel â mer
a chyflawn fraſder helyd,
A'm genau a gân y moliant tau,
â phur weſuſau hyfryd.
6 Tra fwy fi yn fy ngwely clyd,
caf yn fy mryd dy goffa,
Ac yn wiliadwriaethau'r nos
câf achos i fyfyrio.

7 Ac am dy fod yn gymmorth ym',
drwy fawr rym dy drugaredd,
Fy holl orfoledd a gais fod
dan gyſgod dy adenedd.
8 Y mae f'enaid wrthyd yn glyn
dy ddeau ſy'n ynghynnal.
9 Elont i'r eigion drwy drom loes,
y rhai a'm rhoes mewn gofal.

10 Syrthiant hwyntwy ar fin eu harf,
ſy noeth er tarf i'r gwirion.
A chwedi eu meirw hwyntwy dod
yn fwyd llwynogod gwyllſion.
11 Ond y brenin yn enw ei Dduw
boed tra fo byw yn llawen,
A phawb a dyngo iw ſwyddedd
a gaiff orfoledd amgen.

12 Ond o'r diwedd y daw yn wir,
fe a dywelldir tywod,
I gau ſafnau y rhai y ſydd
yn tywallt celwydd parod.

Exaudi Deus. Pſal. 64.

Dafydd yn gweddiaw rhag celwydd a chabl gyhuddiad ei [illegible] er cyſur i'r cyfion y mae yn dangos coſpedigaeth yr annuwir.

O Arglwydd Dduw, erglyw fy llef,
a chlyw o'r nef fi'n erfyn:
O Dduw cadw fy enioes i
y ſydd yn ofni'r gelyn.
A chuddia fi dros dymmor bach
rhag cyfrinach y gwaelddrwg,
A rhag terfyſg y rhai ſy'n gwau
i wneuthur cammau [illegible].

3 Hogi tafodau fel y cledd,
a dwedyd buſſledd digon,
Saethant ergydion i'm ſyrhau,
[illegible] chwerwon,
[illegible] ſaethau dirgel [illegible],
[illegible] pur ei galon,
Yn ddiſymmwth heb ofni neb,
a thrwy gaſineb eu calon.

4 Ymgryfhânt hwy yn gwaith y fall,
gan gadw o'u gall eu rhwydau,
Yna y dwedant pwy a'n gwel
yn bwrw dirgel faglau?
6 Gan chwilio dyfnder drygau crwthig
o fewn dirgelwch eigion,
A phawb iw gilydd yn rhoi nod
o genedd gwaelod calon.

7 Ond y mae Duw a'i ſaeth ynghudd,
rhydd yn ddirybudd ergyd,
Ef a dal adref yr hawl hon,
yn ddyfn archollion gwaedlyd.
8 Gwaith y tafodau drwg lle y bon
a fynn lwyr ſyrthio arnynt,
Pob dyn a'i gwel a dybia'n well
gilio ymhell oddiwrthynt.

9 Yna y dywaid pawb a'i gwel,
gwaith y Goruchel yw hyn,
Cans felly y deallant hwy
y cosbir fwyfwy'r gelyn.
10 Ond yn yr Arglwydd llawenhâ,
ac y gobeithia'r cyfion,
A gorfoledda ynddo'n iawn
pob dyn ag vniawn galon.

Te decet hymnus. Pſal. 65.

Y ffyddloniaid yn diolch i Dduw, am eu [illegible] a'i lywodraeth hwy, ac am ei fendithion i'r ddaiar.

I Ti (o Dduw) y gweddai mawl
yn y ſancteiddiawl Sion,
I ti y telir drwy holl gred,
bob gwir adduned calon.
2 Pawb ſydd yn pwyſo attad ti,
a wrendy weddi doſtur,
Ac attat ti y daw pob cnawd,
er mwyn gollyngdawd llafur.

3 Pethau trowſion, a geiriau mawr,
myfi i'r llawr bwriaſant,
Ond tydi Dduw, rhoi am gamwedd
drugaredd a maddeuant.
4 Dy etholedig dedwydd yw,
caiff neſnes fyw i'th Babell,
Trig i'th gynteddau, ac i'th lys,
a'th ſanctaidd weddus gangell.

5 Duw'n ceidwad attebi i ni
o'th ofni i'th gyfiawnedd.
Holl obaith wyd drwy'r ddaiar hon,
a'r mor cynhyrfedion rhyfedd.
6 Hwn a ſicrhâ bob vchel fryn
â'i wregys yn gadernid,
7 Hwn a oſtega'r mor ei dôn,
a rhuad eigion enbyd.

8 A holl breſwylwyr eithaf byd
ſy'n ofni 'gyd d'arwyddion,
I ti gan forau, a chan hwyr,
y canant laſwyr ffyddlon.
9 Dyfrhau y ddaiar ſech yr wyd,
afon Duw llawnwyd [illegible].
Darperaiſt lifddyfr rhyd ei llawr
iw thramawr gyfoethogi.

10 Pob rhych yr wyd yn ei ddyfrhau,
a'i chwyſau'r wyd iw goſtwng,
A'i rhoi ym mwyd mewn tafod wlith,
iw chnwd rhoi ſendith ddilwng.
11 Coroni'r ydwyd ei ſal hyn
y flwyddyn i'th ddaioni,

Y ffordd

ffordd hyn a'r modd (Duw ſy'n nêr)
diferaiſt fraſder arni.

12 Ef a ddifera ffrwyth dy ſerch
ar bob rhyw lannerch ddyrus,
Pob mynydd ſych yn uchder gwlad
o ffrwyth dy râd y dengys.
13 Drwy dy fendith y gwaſtad dir
a guddir oll â defaid,
Crechwennant, canant bawb ynghyd,
a'r wlâd ac yd ei llonaid.

Iubilate Deo. Pſal. 66.

Y mae'n annog pawb i ſoli Duw yn ei weithredoedd, ac yn dangos ei allu ef a'i drugaredd i Iſrael, ac yn dyſgu i bawb ei ofni a'i ſoli ef.

YN Nuw ymlawenhewch i gyd,
yr hollfyd, a datcenwch
2 Ogoniant ei enw hyd y nef,
a'i foliant gref adraethwch.
3 Wrth Dduw dywedwch fo bair dy law
i'th elyn oerfraw arswyd,
Rhag amled yw nerth y llaw hon
â dy gaſeion danad.

4 Felly 'r holl fyd i gyd a'i chwi
i ti a ymoſtyngant,
Canant yt' fawl, ac ânt hyd lawr,
i'th enw mawr y canant.
5 O dowch, edrychwch ofnus yw
gweithredoedd ein Duw cyhoedd,
Ofn ei weithredoedd a rydd ddyſg
ymyſg holl feibion dynion.

6 Fo droes y mor coch yn dir ſych
ni wyr yn droed-ſych drwyddo,
A thrwy yr afon i llawen fu,
ei bod heb wlychu yno.
7 Ef byth bydd, lywydd cadarn gwych
a'i olwg edrych beunydd
Ar y cenhedloedd drwy 'r holl fyd,
ni chyfyd rhai anufydd.

8 O bobloedd molwch Dduw ar gais,
a moeſwch lais ei foliant;
9 Hwn ſy'n dal bywyd yn y gwaed
a ddeil ein traed na lithrant.
10 O Dduw, profaiſt a choethaiſt ni
yn wedd a choethi arian.
11 Yn gaeth y dygaiſt ni i'th rwyd,
ein cyrph a waſgwyd weithian.

12 Aethom drwy ddwfr a thân yn gaeth,
bu rai'n marchogaeth arnom:
O peraiſt hyn i ni barchwaith hir,
i ddiwall dir y daethom.
13 Ac offrwm poeth i'th dŷ yr af
talaf fy addunedau,
14 Y rhai mewn cyfwng, cyn mwy trais,
addewais â'm gwefuſau.

15 Poeth ebyrth breiſion yt a rof,
aroglaeth cof cyſanned,
Ychen, hyrdd, offrymmau a wnaf,
ac etto rhoddaf fychod,
16 O dowch yn nes, a gwrandewch chwi
ſy'n ofni Duw tragwyddol,
Mi a fynegaf i chwi'n ffraeth
pa les a wnaeth i'm heinioes,

17 Llefais i arno â'm genau,
a'r tafod man a'i molawdd.
18 Pe troeſwn fy nghalon at fai,
Duw a'm gwrandawai'n anhawdd.
19 Diau Duw a'm clybu yn hawdd,
gwrandawodd ar fy ngweddi,
Bendigaid yw: fo a'm clywawdd,
ni throes mo'i nawdd oddiwrthi.

Deus miſereatur. Pſal. 67.

Gweddi am lewych wynebpryd Duw, fel yr adwaener ei iechydwriaeth. A dangos mai Duw ſy'n llywodraethu pob peth.

Caner hon fel Pſal. 51.

TRugaredd Duw i'n plith,
a rhoed ei fendith droſom,
A thywynned ei wynebpryd,
a'i nawdd, a'i iechyd arnom.
2 Fel y gwyper dy ffyrdd
drwy'r ddaiar [illegible],
A'th iechydwriaeth di (ô Dduw)
y'myſg pob rhyw genhedloedd.

3 Duw, moled pobloedd di,
rhoent fawl a bri drwy'r hollfyd,
4 A'r holl genhedloedd [illegible]
byddant lawen a hyfryd.
Cans ti a ferni'n iawn
y bobl drwy lawn wybodaeth,
Ac a roi'r holl genhedloedd ar
y ddaiar mewn llywodraeth.

5 Duw, moled pobloedd di,
rhoent fawl a bri drwy'r hollfyd.
6 Yna rhydd y tir ffrwyth i'n plith,
a Duw ei fendith hefyd.
7 A Duw, ſef Duw ein tâd,
a rotho ei râd a thycciant,
A therfynau y ddaiar gron,
a phawb ar hon a'i hofnant.

Exurgat Deus. Pſal. 68.

Dafydd yn dangos trugareddau Duw i'w bobl, a bod Eglwys Duw yn rhagori ar bob peth bydol.

YMgyfoded un Duw ein Nêr,
gwaſgarer ei elynion,
Vn drygddyn hwynt nac arhoed,
o'i flaen ffoed ei gaſeion.
2 Os chwalu mwg mewn gwynt ſy hawdd,
os tawdd cwyr wrth eirias dân,
Fel hynny o flaen Duw (yn wir)
yr enwir a ddiflannan.

3 Ond llawenycher ger bron Duw
y cyfion, iw orfoledd;
A'i hyfrydwch hwyntwy a fydd
yn llawenydd cyfannedd.
4 Cenwch, a molwch enw Duw,
ſef hwn yw uwch y nefoedd
Yn marchogaeth, megis ar farch,
iw enw rhowch barch byth bythoedd.

5 A gorfoleddwch ger ei fron,
Duw tirion, tâd ymddifaid,
Ac i'r gweddwon mae'n farnwr da
yn ei bryſwylfa gannaid,
6 Duw a wna rai mewn tŷ'n gytun,
ei hun mae'n gollwng gefyn,
Ac yn rhoi trigfan mewn tir crâs,
i ddynion atcas cyndyn.

7 Pan aethoſt (Dduw) o flaen dy lu,
dy daith a fu drwy ddyryſni.
8 Y ddaiar crynodd o flaen Duw,
a'r nef rhoes amryw ddefni.
Ac felly Sinai o flaen Duw,
ſef (vnduw Iſrael howddgar.)
9 Ar dy etifeddiaeth hidlaiſt law,
i ddiflinaw y ddaiar.

10 Gwrteithiaiſt hon, dy bobloedd di
ſydd ynthi yn preſwylio.
O'th râd darperaiſt Dduw i'r tlawd,
i gael digondawd yno.
11 Yr Arglwydd Dduw a roddair gair,
mawr mintai'r cantoreſau:
12 Cilient gedyrn: gweiniaid athont,
yr yſbail rhont yn rhannau.

13 Pês ymdroech mewn paradu a llwch,
chwi a fyddwch fel y glommen,
A'i phlu yn aur ac arian teg,
yn hedeg is yr wybren.
14 Hon, pan waſgarodd Duw yn chwyrn
bob cedyrn o'i gafelion,
Oedd mor ddiſgleirwych, ac mor wenn,
ac eira'ar ben bryn Salmon.

15 Mynydd Duw (ſef Sion) y ſydd
fel Baſan fynydd tirion:
Mynydd Baſan vchel ei grib
cyffelib yw i Sion.
16 Chwychwi fynyddoedd cribog pam
y bwriwch lam mewn cyffro?
Duw ar Seion ei ſerch a roes,
lle myn ef eiſoes drigo.

17 Rhif vgain mil o filoedd yw
angylion Duw mewn cerbyd:
Ynghyſſegr Sinai y bu ei waith,
bydd Duw iw plith hwy hefyd.
18 I'r vchelder y derchafaiſt,
a chaethgludaiſt gaethiwed,
Cymeraiſt, dodaiſt ddoniau Duw [illegible]
i ddynion oedd ddiniwed.

19 Bendigaid fyth fo'r Arglwydd mau
am ddoniau ei ddaioni,
A'i iechydwriaeth i ni'n llwyth
o berffrwyth ei haelioni.
20 Efe ei hun yw'n Duw ni i gyd,
ſef Duw ein iechyd helaeth,
Drwy'r Arglwydd Dduw cawn yn ddi ſwrth
ddiangc oddiwrth farwolaeth.

21 Duw yn ddiammau a dyrr ben,
a thalcen ei elynion,
A choppa walltog rhai a fo
yn rhodio mewn drwg arferion.
22 Dygaf fy mhobloedd (meddai ef)
hyd adref fel o Baſan,
A dygaf hwynt iw hol drachefn,
fel o'r mor dyfnion allan.

23 Fel y gwlychech dithau dy droed
yn llif gwaed dy ddigaſedd,
Ac y llyfo dy gwn heb gel
y gwaed a ddel o'i orwedd.
24 Gwelodd pawb (o Dduw) dy yſtâd
yn dy fyned ſanctaidd,
Mynediad fy Nuw-frenin fry,
fel hyn iw dy gyſegraidd.

25 Y cantorion, aent hwy o'r blaen,
cerddorion aen ol ynol,
Yna'r gweryſon, bennaid gân,
a'r tympan yn y canol.
26 Clodforwch Dduw hynny ſydd dda
ym mhob cyn'lleidfa ddiwael,
A chlodforwch yr Arglwydd Ion,
chwi ſydd o ffynnon Iſrael.

27 Doed Beniamin y llywydd bach,
doed bellach dugiaid Iuda,
Doed Nephtali, a Zabulon,
a'i tywyſogion yna.
28 Dy Dduw a drefnodd i ti nerth,
a'i law ſydd brydferth geidwad,
Duw cadarnhâ etto yn faith
arnom ni waith dy gariad.

29 Er mwyn Caerſalem adail deg,
rhydd cedyrn anrheg yty.
30 Difetha dyrfa y gwaywffyn,
a'r rhai a fyn ryfely.
a Dewr fel teirw, nwyfus fel lloe,
y rhei'ni a roe yr arian:
Delont i'r iawn: tyn nerth a wny'
a goſtwng hwy yn fuan.

31 Y pendefigion o'r Aipht draw
a ddaw, ac Ethiopia
At Dduw yn bryſur i roi rhodd,
ac aberth gwirfodd yna.
32 Holl dyrnaſoedd y ddaiar lawr,
i Dduw mawr cenwch foliant,
Cenwch, cenwch ei glod yn rhwydd,
ſef Arglwydd y gogoniant.

33 Hwn a farchogodd y nef fry,
a hynny o'r dechreuad:
Wele, daw nerthol ſain ei lef
o eitha'r nef i waſtad.
34 Rhoddwch gadernid i Dduw nef,
ſef vchder ei ragoriaeth,
Y ſydd ar Iſrael, a'i nerth
vwch wybrau prydferth gywaeth.

35 Duw, o'th gyſegr i'th ofnir di,
Duw Iſrael dodi nerthoedd,
A chadernid mawr wyd i'th blaid,
bendigaid fych oes oeſoedd.

Salvum me fac. Pſal. 69.

Serch Dafydd, a'i flinder mawr, creulondeb ei elynion, ei gyſur, a'i glod i Dduw: y mae efe hefyd yn annog pob creadur i foli Duw, ac yn prophwydo am deyrnas Chriſt: ac yn y pſalm hon y mae Dafydd yn arwydd o Griſt.

Achub fi Dduw (y gwr a'm gwnaeth)
tros f' enaid daeth llif-ddyfr-loes,
2 Yr wyf mewn dyfnder tom ynglyn,
heb le i'm ddiffyn i'm einioes.
O'r dyfnder daethym fel ar frwdd,
a'r ffrwd a lifawdd vchod:
3 Sychodd fy ngheg, blinodd fy llais,
f'm llygaid pellais ganfod.

4 A hyn wrth ddiſgwyl Duw a'i rân,
wele fy nghâs yn amlach
Nâ'r gwallt ar ben fy nghoppa fry,
a'r trawſion ſy'n gadarnach.
Y rhai celwyddog, taerion ynt,
rhois iddynt beth ni chefais,

Y ddaiar ofnodd, a'i holl lu,
  rhoiſt i oſtegu ennyd.

9 I farn pan gyfododd Duw
  i gadw yn fyw y gwirion,
A'r rhai oedd lonydd yn y tir,
  yr oeddyn gywir galon.
10 Cans poethder dyn yw dy fawl di,
  felly goſtegi dralled:
En gwedd, i'r da a fag gref ſydd,
  i'r drwg a ſydd yn ddyrnod.

11 Eich rhodd i'r Arglwydd Dduw addewch,
  a llawn gwbllhewch eich gobrwy,
Pawb ſydd o amgylch Siondeg,
  rhowch anrheg i'r ofnadwy.
12 Ef a oſtyngodd uchel fryd,
  ac yſpryd gwyr rhyfelgar:
Fo a yrr ofn ynghanol hedd,
  ar holl frenhinoedd daiar.

Voce mea ad Dominum. Pſal. 77.

Dafydd yn coffo yr amryw brofedigaethau, a'r blinderau oedd arno: yn dangos mawredd Duw, ac yn ymgryfhau mewn ffydd.

FY llais at Dduw, pan roddais lef,
  fy llais o'r nef fo'i clybu;
A'm llais gweddiais ar Dduw Ner,
  pan oedd blinder yn tarddu.
2 Y dydd y rhedai 'mriw, a'r nos
  ni pheidiai achos llafur,
Mewn blin gyfyngder gwn fy mod,
  a'm hoes yn gwrthod cyſur.

3 Yna y coffwn Dduw a'i glod,
  pan ſyrthiai dralled enbyd:
Yn a gweddiwn drwy fy llais,
  pan derfyſgai fy yſpryd.
4 Tra fawn yn effro, ac mewn ſynn,
  heb allel allan ddwedyd,
5 Yſtyriais ynnte'r dyddiau gynt,
  a'r helynt hen o'r cynfyd.

6 Coffwn fy ngherdd y nos fy hun,
  heb gael amrantun, chwiliwn
A chalon effro, genau mud,
  a'm hyſpryd ymddiddanwn:
7 Ai'n dragywydd y cilia'r Ion?
  a fydd ef boddlon mwyach?
8 A ddarfu byth ei nawdd a'i air?
  a gair ei addaw bellach?

9 Anghofiodd Duw drugarhau?
  a ddarfu cau ei galon?
A baid efe byth (meddwn i)
  fal hyn â torri'n ddigllon?
10 Marwolaeth ym' yw'r meddwl hwn?
  a throis yn grwn i goffa
Ei fawr nerth gynt: coffa a wnaf
  waith y Goruchaf etto.

11 Coffaf dy weithredoedd (O Arglwydd)
  a'th wrthiau hylwydd coffaf,
12 Am bob rhyfeddod a phob gwaith,
  â myfyr maith y traethaf.
13 O Dduw: pa Dduw ſydd fal ti Dduw?
  dy ffordd di ywyn ſancteiddiol:
14 Dy waith dengys dy nerth i'r byd,
  pair yn' i gyd dy ganmol.

15 Dy nerth fawr hen a roiſt ar led,
  wrth wared yr hen bobloedd,
Iagof, a Ioſeph, a'u garch,
  a'i holl hiliogaeth hynodd.
16 Y dyfr gwelſant, ofnaſant hyn,
  a dychryn cyn eu ſymmod.
17 Cymylau dwfr cylch wybr yn gwau,
  a mellt fal ſaethau enbyd.

18 Dy daran rhuodd fry'n y nen,
  dy fellt gwnaent wybren olau,
Y ddaiar iſod a gyffrodd,
  ac a ddychrynodd hithau.
19 Yn eigion mor mae y ffordd dau,
  a'th lwybrau mewn dyfr ſugnedd,
Ac ni adweinir byth mo'th ol,
  yn dy anfeidrol fowredd.

20 Dy bobloedd a dywyſaiſt di
  drwy anial ddryſni efrydd.
Gan law Moſes, a'i frawd Aaron,
  fel defaid gwirion lloeydd.

Attendite populi. Pſal. 78.

Dangos ddarfod i Dduw ddethol ei eglwys o hâd Abraham: annog y plant i gydnabod trugaredd Dduw, ac i gymhwyſo drwg aml ddrygau eu tadau; dangos gweithredoedd Duw.

FY mhobl i gyd gwrandewch fy neddf,
  a boed fy ngreddf i'ch calon,
Cluſt ymoſtyngwch a'm genau
  i yſtyr geiriau ffyddlon,
2 Mewn dihaerebion i barhau,
  fy ngenau a egoraf:
A hen ddamhegion oedd ar hyd
  y cynfyd a ddangoſaf.

3 Y rhai a glywſom gynt eu bod,
  ac ym yn gwybod hefyd,
Ac a fynegodd yn ddiau,
  ein tadau er y cynfyd,
4 Heb gel mynegwn ninnau'n ffraeth,
  hyn iw hiliogaeth hwythau:
Canmolwn Dduw i'r oes a ddel,
  ei nerth a'i uchel wrthiau.

5 Felly gorchymynodd ef ſod coff
  yn Iago ac i'r hynaf
Yn Iſrael ddyſgu iw blant y
  ogoniant y Goruchaf.
6 Fel y gwypid o oes i oes,
  y rhoes ef ei dyſtiolaeth:
O Dâd i fâb, o fâb i wyr,
  i gadw llwyr wybodaeth.

7 Gobeithio 'n Nuw, coffa ei waith,
  y ſydd mal rhaith eneidiol:
I gael cadw ei orchymmyn,
  rhoes Duw'r wers hyn yn rheidiol,
8 Rhag eu myned o'r genhedlaeth hyn
  yn gyndyn ac anufydd:
A chalon wan, ac yſpryd gwael,
  heb afael gyda'r llywydd.

9 Eu tadau, fel plant Ephraim,
  yn arfog lym er ſaethu,
Troeſant eu cefnau yn y gâd,
  ymroi a [illegible].
10 Cyfammod Duw a wrthodent,
  ni rodient yn ei Gyfraith,
11 Anghofie'i wyrth a welſant gynt,
  a'i addeſau oeddynt berffaith.

12 Yn nhir yr Aipht, ym maes Zoan,
gwnaeth Duw gyflafan fwyfwy.
13 Rhoi dwfr y mor yn ddau dwrr crych,
a'r llawr yn ſych i drammwy.
14 Y dydd mewn niwl, y nos a thân,
tywyſai'n lân ei bobloedd:
15 Holldi'r creigiau a'i troi'n llynniau,
a llenwi ei lu a dyfroedd.

16 Er tynnu dwfr o'r garreg lâs,
er llithro'n loyw fras ffrydau:
17 Yn yr anialwch digient Dduw,
chwanegent amryw feiau.
18 Yn y diffaethwch profent Dduw,
oes fwyd i fyw? meddylient:
19 A all Duw gael i'n ymma fwyd,
mewn cyfryw lochwyd? dwedent.

20 Er taro'r graig a rhedeg dwr,
yn ffrydau, cyflwr diball:
A eill efe roi i'n fara'a chig,
i'n cadw yn ddiddig ddiwall?
21 Pan glybu Duw yr araith hon,
fel tân yn wreichion ymmodd,
Yn Iago ac yn Iſrael,
gan lid yn vchel digiodd.

22 A'i ddig oedd am na chredent hwy
i Dduw a'i fwyfwy fowredd,
Ac na welent pa iechyd oedd
yn ei weithredoedd rhyfedd.
23 Gorchymmyn wybren, a'i gwarhau,
egoryd dryſau'r nefoedd:
24 A Manna'n fwyd, fel gwenith nef,
a lawiodd ef iw luoedd.

25 Rhoi i ddyn gael rhyw luniaeth da,
ſef bara yr Angylion:
26 Gyrru rhyd wybren ddwyrain-wynt,
gydâ'r deheuwynt nerthlon.
27 Fel y llwch y rhoes gig iw hel,
ac adar fel y tywod!
28 Ynghylch eu gwerſyll a'i trigfydd,
y glawiai beunydd gawod.

29 Bwyta digon o wledd ddiwael,
a chael eu bwyd dymmunol:
30 Ac heb ommedd dim ar eu blys,
nac mo'i hewyllys cnawdol.
31 A'i tameidiau hwy iw ſafnau,
(ys ofnwn y Goruchaf!)
Yn Iſrael lladdodd iw ddig
wyr etholedig braſaf.

32 Er hyn pechent, ac ni chredent,
iw iach radau rhyfedd:
33 Treuliodd Duw eu hoes hwy am hyn,
mewn dychryn ac oferedd.
34 Tra fyddai Duw yn eu lladd hwy,
os ceiſient dramwy atto:
Os doent drwy hiraeth ac ei râs,
yn forau glâs iw geiſio.

35 Os cofient fod Duw iw holl hynt,
graig iddynt a gwaredydd:
36 (Er ceiſio ſiommi Duw'n y drich,
â'i gweniaith, ac â'i celwydd:
37 Er nad oedd eu calon yn iawn,
na ffyddlawn iw gyfammod?)
38 Er hyn trugarhei Duw o'r nef,
a'i noddedd ef oedd barod.

Rhag eu difa, o'i lid y troes,
ac ni chyffroes iw hartaith!
39 Cofiodd ddyn, os marw a wnai,
nas gallai ddychwyl eilwaith.
40 Pa ſawl gwaith y cyffroeſant hwy,
wrth fyned trwy'r anialwch!
Gan ddigio Duw a'i lwyr driſthau,
ynghreigiau y diffeithwch.

41 Troeſant, profaſant Dduw â'i chwant,
gan demptio Sanct yr Iſrael:
42 Anghofio eu cadw hwynt fal hyn,
rhag cael o'i caſddyn afael.
43 Rhoeſai'n yr Aipht arwydd o'i râs,
a'i wyrth yn ninas Zoan;
44 Y modd y troes eu dwfr yn waed,
ni chaed dim glan-ddwfr allan.

45 Rhoes Duw yngwlâd yr Aipht iw plant,
waed, gwybed, llau, a llyffaint:
46 Lindys, locuſt, i ddifa'i ffrwyth,
a chenllyſg lwyth, a mallhaint.
47 Diſtrywiodd Duw eu hyd, gwellt, gwydd
48 Eu coedydd, a'i hanifeiliaid:
A chenllyſg ceſſair, mellt a roes,
bu wrth eu heinioes danbaid.

49 Rhoes arnynt bwys ei lid, a'i fâr,
ac ing anghreugar digllon:
Ffrwyth ei lidiowgrwydd ef, a'i wg,
anfonodd ddrwg angylion.
50 Rhyw ffordd a lun iw lid a droes,
heb ludd iw heinioes angau,
Ond dwyn eu bywyd hwy drwy haint,
yn ei ddigofaint yntau.

51 Yna y tarawodd vn Duw Naf
y plant cyntaf-anedig:
Yn nhir yr Aipht, a phebyll Cam,
ſef am ei fod yn llawnddig.
52 Ond (gan droi at ei bobl yn hawdd,)
fo'i twyſawdd drwy'r anialſan,
Fel arwain defaid, lwybrau pell,
yn wael ddiadell fechan.

53 Arweiniodd hwyntwy yn ddiofn,
drwy'r mor (ffordd ddofn) heb wlychu,
A'i holl elynion heb fwy ſtor,
fe wnaeth i'r mor eu llyngcu.
54 Rhoes hwy i etifeddu'n rhydd,
ym mynydd ei ſancteiddrwydd:
Yr hwn a ddarfu ei warhau,
â llaw ddeau yr Arglwydd.

55 Rhoes ef y wlad i ddwyn pob ffrwyth
rhoes i bob llwyth ei gyfran
O Iſrael, ac yn eu plaid,
rhoi'r hen drigolaid allan.
56 Er hyn temptient, a digient Dduw,
hwn vnic yw ſancteiddiol:
Ac ni fynnent mo'r vfyddhau,
iw dyſtiolaethau nefol.

57 Ond mynd ar gil, ac ymlaccau,
fel eu holl dadau twyll-naws:
Megis bwa a fai mewn cûd,
ac yntho dafliad gwyrdraws.
58 Hwyntwy yn fynych a'i cyffroent,
mewn camwedd troent oddiwrtho
At wylfa uch, a delw o bren,
fal hyn y digien efo.

59 Ond y Goruchaf yn gweled hyn,
a ddigiodd wrthyn bwythau;
Felly dirmyſgodd Iſrael,
a gadel ei ammodau.
60 Yna'r ymadawodd efe,
â chyſegr Shilo dirion:
Ei bebyll a'i brif yſgol ddyſg,
lle buaſai'mysg ei ddynion.

61 Ei nerth a roes i garchar caeth,
dan elyn daeth eu mowredd:
62 Ei bobl ei hun i'r cleddau llym,
(fal dyna rym' ei ddigedd:)
63 Ei wyr ieuainc fe'i rhoes i'r tân,
gweryſon glân rhoes heibio:
64 Ei offeiriaid i'r cleddyf glâs,
a'i weddw ni chafas wylo.

65 Yr Arglwydd gwedi hyn deffroes,
fal un a ddoe o gyſgu:
Neu fal gwr cadarn wedi gwin,
yn erwin iw dychrynu.
66 Tarodd y gelyn yn ei ol,
rhoes mewn tragwyddol waradwydd.
67 Rhoes wyrion Ioſeph dan yn pwyth,
ac Ephraim lwyth a dramgwydd.

68 Gwedi cwlio y rhai'n i gyd,
fo roes ei fryd ar Iuda:
Ar fynydd Seion (ei drefâd)
o gariad iw breſwylfa.
69 Yno yr adeiladodd ef
adeilad gref a howddgar,
Yn gyſegr-lys byth i barhau,
fel hen ſeiliadau'r ddaiar.

70 Etholodd ef Ddafydd ei was,
yr hwn oedd ddiſas fugail:
Ac a'i dug ef i maes yn lân,
o'i gorlan a'i ddefeid-gail.
71 O borthi defaid mammogwyn,
iw ddwyn i borthi dynion:
Iagof, ac Iſrael, a'i plant,
dyna ei feddiant ffyddlon.

72 Yntau a'i porthodd hwynt yn ol
ei berffaith rasol galon:
Ac a'i trinodd hwy yn bwyllſerch,
o nerth ei ddwylaw cyfion.

Deus venerunt. Pſal. 79.

Achwyn rhag y difaſtr a wnaethai Antiochus ar Deml Dduw a Ieruſalem i ofyn cymorth gan Dduw rhag ei orthrwm elynion.

LLawer cenedl (o Dduw) a ddaeth,
i'th etifeddiaeth ynol:
Rhoed Caerſelem a'i chyſegr hi
yn garneddi o gerrig.
2 Rhoi cyrph dy weiſion, wrth eu rhaid,
i hediaid y ffurfafen:
I'nfeiliaid maes rhoi cig dy ſaint,
fel dyma fraint aflawen.

3 Fel ffrydiau dwfr, tywallt a wnaed,
eu gwaed o amgylch dinas
Caerſelem, heb roi corph mewn bedd,
fel dyna ddiwedd atgas.
4 Yn ddirmyg, gwradwydd, ac yn wartha
i bawb o'n pob parth ydym.
5 O Dduw pa hyd? wyd byth yn ddig?
ai fel tân ffyrnig poethlym?

6 Tywallt dy lid ar bobl eſtron,
rhai nid adwaenant m'onot:
Ac ar dyrnaſoedd ni eilw,
(Duw) ar dy enw hynod.
7 Cans wyrion Iagof (bobl oedd gu)
y maent iw hyſu'n wrbyledd;
Ac a wnaethant i'r rhei'ni ſod
preſwylfod anghyfannedd.

8 Na chofia'n camwedd gynt i'n hoes,
Duw bryſia moes drugaredd:
Dy nodded a'n rhagflaeno ni
ſy'mewn trueni'n gorwedd.
9 O Dduw ein iechyd cymorth ni,
er mwyn dy fri gogonol:
A gwared er mwyn dy enw tau
ni rhag pechodau marwol.

10 Pan y gofynant p'le mae'n Duw,
dod arnynt amryw ffonnod:
I ddial gwaed dy ddwyfol blant,
ac yno cânt hwy wybod.
11 Duw, doed ochenaid ger dy fron
dy garcharorion rhygaeth:
Ac yn dy ddirfawr ogoniant,
ymddiffyn blant marwolaeth.

12 Ein cymdogion a'th gablodd di,
tâl i'r rhei'ni yn gwbl ol
Eu cabledd iw mynwefau'i hun,
o Arglwydd gun gorcheſtol.
13 Ninnau dy bobl a'th ddefaid mân,
a wnawn yt gân ogonawl,
O oes i oes byth i barhau,
ac i'th lawrhau'n dragwyddol.

Qui regis Iſrael. Pſal. 80.

Gweddi at Dduw dros yr Eglwys, ar iddo barhau ei ddaioni a ddechreuaſai iddi.

CLyw di fugail i Iſrael,
ſy'n arwain fel y defaid,
Hil Iagof, a llewycha di,
a'ſteddi ar Gerubiaid.
2 Fel y gwelo Ephraim hyn,
Beniamin a Manaſſes:
Cyfod, cymorth a gwared ni,
o'th fawr ddaioni cynnes.

3 Llewycha d'wyneb, dychwel ni,
Duw, di a'n cedwi'n gyfan:
Duw y lluoedd, clyw ein gweddi,
pa hyd y ſorri wrthym?
Llewa'i bara, drwy wylo yn doſt,
a wnaethoſt di i'r eiddod:
A rhoi iddynt ddagrau bob awr,
drwy feſur mawr yn ddiod.

6 Duw i'n gelynion o bob parth
rhoiſt ni yn warth i'n gwatwar:
7 Llewycha d'wyneb, dychwel ni,
felly i'n cedw i'n gynnar.
8 Dugoſt o'r Aipht winwydden ir,
rhoiſt iddi dir i dyfu:
A'r holl genhedloedd o bob man
troiſt allan cyn ei phlannu.

9 Arloeſaiſt y tir o'i blaen hi,
a pheraiſt iddi wreiddio:
10 Llanwodd, cuddiodd bob [illegible],
fel cedrwydd mawr yn brigo.

11 A'i hiraidd frig yſtyn yr oedd
hyd foroedd ac afonydd:
12 Pam y rhwygaiſt gae'r ſath ber lwyn,
i bawb i ddwyn ei ffrwythydd?

Pawb ai heibio yn tynnu ei grawn,
pan oedd hi'n llawn ffrwyth arni?
13 A'r baedd o'r coed yn tirio'r llawr,
a'r bwyſtfil mawr i'w phori.
14 O Dduw y lluoedd, edrych, gwyl,
a dychwel i'th ymgleddu
Y winllan hon a blennaiſt di,
â'th law, a'i rhoddi i dyfu.

15 Lle cadarnheiſt i ti dy hun,
dy brif blanhigyn dedwydd:
16 Llygrwyd â'r cledd, a'r tân yn faith,
a hyn o waith dy gerydd.
17 I gryſhau gwr dy ddehau law,
boed droſtaw dy fraich nerthol,
Hwn a ſiccrheiſt i ti dy hun,
ſef dros fab dyn dewiſol.

18 Troshwn tra rhoddych di dy law,
oddiwrthaw ni ddychwelwn:
O Dduw, dadebra, bywha ni,
ar d'enw di y galwn.
19 A dadymchwel nyni i fyw,
o Arglwydd Dduw y lluoedd:
Tywynna arnom d'wyneb-pryd,
ni a gawn iechyd bythoedd.

Exultate Dom. Pſal. 81.

Cyngor i foli Duw am ei ddaioni, ac i gydnabod ein anniolchgarwch.

O Cenwch fawl i Dduw ein nerth,
cerdd brydferth cenwch iddo:
A llafar lais, a genau ffraeth,
gerdd wrlaeth i Dduw Iago.
2 Cymerwch gathl y pſallwyr lân,
a moeſwch dympan hefyd:
A cheiſiwch gann gydâ hyn
y nabl a'r delyn hyfryd.

3 Cenwch vdcyrn ar loer newydd,
y pryd ſydd nodol iddo:
4 Sef deddf yw hon ar wyl vchel,
Duw Iſrael ac Iago.
5 Yn Ioſeph clymmodd hyn yn ddyſg,
pan ddaeth o fyſg yr Aiphtwyr:
Lle clywais iaith oedd ddieithr im',
heb ddeall dim o'i hyſtyr.

6 Dwedodd fy Nuw, drwy nerth fy mraich
tynnais faich eich yſgwyddau:
Ac felly tynnais eich dwy law,
i'madaw â'r ffwrneiſiau.
7 I'th flinder gelwaiſt arnaf fi,
gwaredais di ſut yma:
Wrth lais taran fy mhrofiad oedd,
ynglan dyfroedd Meriba.

8 Fy mhobl Iſrael gwrando fi,
os yſtyri yn ffyddlon:
9 Na fid ynot arall yn Dduw:
na chrymma i gandaw eſtron.
10 Myfi yr Arglwydd Dduw a'th ddug
o'r Aipht tir caddug allan:
Llanwaf dy ſafn heb ddiffyg daſn,
lleda dy ſafn yn llydan.

11 Ni choeliai Iſrael fy rhybudd,
ni fyddent vfudd ymy:
12 Gollyngais hwynt i'w ffyrdd eu hun,
i'w cyngor cyndyn hynny.
13 Och na wrandawſai Iſrael,
gan rodio'n ffel fy llwybrau:
14 A phwys fy llaw llethaswn fron
eu holl elynion hwythau.

15 Caſeion ein Duw, yn ei lid,
a oſtyngeſid iddaw.
Ac ef a roeſai yn y tir
ammodau hir i'r eiddaw.
16 Ein Duw a roeſai iddynt borth,
drwy fraſder cymorth rhadol:
Rhoi mel o'r graig, rhoi llaeth yn ffith,
a gwenith yn ddigonol.

Deus ſtetit. Pſal. 82.

Yn erbyn tuedd ac anghyfiawnder barnwyr: a'u dymuno cyfiawnder ar law Duw ei hun.

HOll farnwyr byd mae Duw'n eu myſg,
pe cymrent addyſg gantho:
Duw yw ymyſg y duwiau mân,
a'i farn fy lân heb wyro.
2 Pa hyd y rhoddwch farn ar dro,
gan bleidio gydâ'r trowſion?
3 I'r tlawd, ymddifad, rheidus trwch,
paham na fernwch vnion.

4 Gwrandewch chwi ar y gwan a'r gwael,
a'r tlawd heb gael mo'i gyfraith:
(Pan ddel y rhei'ni gar eich bron)
o ddwylo'r trowſion diriaid.
5 Gwyr heb wybod, heb ddeall chwaith,
ſy'n rhodio taith tywyllni:
Ni ſyflent hwy, pe ſiglai'n gyd,
yr hollfyd a'i ſylfeini.

6 Dwedais mai duwiau ydych ſiwr,
a phlant i'r Gwr goruchaf:
Er hyn mal dyn marw a wnewch,
yn gwymp a gewch a'ch hynaf.
7 Duw cyfod, a dyro farn ar
y ddaiar a'i theyrnasoedd:
Cans mawr yw d'etifeddiaeth di
a feddi'r holl genhedloedd.

Deus quis ſimilis. Pſal. 83.

Plant Iſrael yn gweddio, ar i Dduw eu gwared rhag eu gelynion: ac ar iddo goſbi y rhai drwg fel yr ofnent ef.

NA oſtega, na thaw, na fydd
di lonydd Duw y lluoedd:
2 Wele, d'elynion yn cryſhau,
gan godi 'pennau i'r nefoedd.
3 Ymgyfrinachu dichell wnaent,
y lle mae ganthyn [illegible],
A dychymygu dilen brudd,
i ni ſy'n ynguddiad.

4 Dwedaſant, dewch diſethwn hwynt
na byddo hwynt yn genhedl:
Ac na bytho byth (meddant hwy)
am Iſrael mwy mor chwedl.
5 Ymgynghoraſant bawb yngbyd,
ac yn vn fryd i'th erbyn,
6 Edom, Iſmael, Moab blaid,
a'r holl Hagariaid cyndyn,

7 Gebal, Ammon, Amalechiaid,
Philiſtiaid a gwyr Tirus:
8 Aſſur, yn gydfrawch â phlant Lot,
fal dyna gnot maleiſus.
9 Tâl dithau adref yn y man,
megis i Madian greulon,
I Siſera, ne'i Iabin ſwrth,
a laddwyd wrth lan Ciſon.

10 Yn Endor gynt bu laddſa fawr,
ar hyd y llawr yn wâſgar:
Gwna hwynt hwythau laddſa ail,
a'i cyrph yn dail i'r ddaiar.
11 Goſod eu bonedd hwy fel Zeb,
ac Oreb yr vn diwedd:
A'i tywyſogion fel Zebe,
a Salmunna i orwedd.

12 Dwedent y mynnent yr ein byw
gyſegrfa Duw i'w meddiant:
13 Fel troad rhod, neu wellt mewn gwynt,
dyna yr hynt â gaffant.
14 Fal y llyſg y tân bob pren crin,
a'r fflam yr eithin mynydd,
15 Felly â'th ſtorm, ymlid hwy'n gynt
nâ dychryn corwynt efrydd.

16 Llanw eu tâl o warth a chwys,
ceiſiant ar frys yr Arglwydd.
17 Ac yn dragwyddol iddynt bydd,
gywilydd, meſyra gwradwydd.
18 Difether hwynt: a gwyped dyn byw,
mai d'enw di yw Iehouah:
Ac mai ti vnic Dduw ſydd ar
y ddaiar yn oruchaf.

Quam dilecta. Pſal. 84.

Dafydd yn hiraethu am Deml Dduw, ac am gynulleidfa y Sainct: a chlod y bobl a ymdeithiant i Sion.

DY Babell di mor hyfryd yw
(o Arglwydd Dduw y lluoedd)
2 Mynych chwenychais weled hon,
rhag mor dra thirion ydoedd.
Mae f'enaid i (fy Iôn) mewn blys,
i'th gyſſegr lys duwiolon:
Fyng-halon i, a'm holl gnawd yw,
yn Nuw byw'n gorfoleddu.

3 Aderyn y tô (cafodd dŷ,)
a'r wennol fry lle'i chywion
Ger wrth dy allor di [illegible],
fy Nuw a'm brenin tirion.
4 Gwyn ei fyd a drig yn dy dŷ,
caiff dy foliannu'n ddigon:
5 Ac ynot ti ſy'n cadarnhad,
a'th lwybrau yn eu calon.

6 Pe rhon a gofiodd y rhai'n
rhyd glyn wylofain dwyfron?
Goſodant ffynnonau yn hon,
a'r glaw a leinw ffoſydd.
7 Ant rhagddynt hwy o nerth i nerth,
nes cael yn brydferth ddyfod:
I ymddangos i Dduw, gar ei fron,
yn Sion ei breſwylfod.

8 Arglwydd Dduw y lluoedd, clyw fi,
a'm gweddi o Dduw Iago:
9 Gwel wyneb d'enneiniog, a'i blaid,
Duw'n tarian [illegible].

10 Gwell yw nâ mil, vn dydd i'th dŷ,
am fyny mewn dewiſol.
Ym fod ar riniog y drws tau,
nâ phlaſau yr annuwiol.

11 Sef, haul a tharian yw Duw nêr,
a rydd rad â gogoniant:
Ni leſtair ef ddaioni moeth,
i'r rhai a berffaith rodiant.
12 O Arglwydd Dduw y lluoedd mawr,
anfon i lawr dy gymmod:
Dedwydd yw'r dyn a roddo'i gred,
a'i holl ymddiried ynod.

Benedixiſti Domine. Pſal. 85.

Er mwyn nad oedd Duw yn tynnu ei wialen oddiar ei Eglwys gwedi ei dyfod adref o Babel, maen hwy yn gyntaf yn goffau ef i arbed arnynt waith ei vn. Ac yn achwyn rhag eu hir gyſtudd, ac yn olaf, yn ymlawenychu yn eu gobaith o addewidion Duw.

DA wyd i'th dir (Iehouah Nêr)
dychwelaiſt gaethder Iago:
2 Maddeuaiſt drawſedd dy bobl di,
mae 'i camwedd wedi 'i guddio.
3 Tynnaiſt dy lid oddiarnom ni,
troiſt dy ddiglloni awchlym:
4 (O Dduw ein nerth) tro ninnau'n well,
a'th lid bid bell oddiwrthym.

5 Ai byth y digi wrthym ni?
a ſorri di hyd ddiwedd?
A ſaif dy lid o oes i oes?
Duw gwrando, moes drugaredd.
6 Pam? oni throi di a'n bywhau,
a llawenhau yr eiddod?
7 O dangos i ni dy nawdd mewn pryd,
felly cawn iechyd ynod.

8 Beth a ddywaid Duw am danaf,
mi a wrandawaf hynny:
Fe draetha heddwch i'w bobl, a'i Sainct,
rhag troi ym mraint ynfydu.
9 I'r rhai a ofnant, Arglwydd nef,
mae 'i iechyd ef yn agos:
Felly y caiff gogoniant hir,
o fewn ein tir [illegible].

10 Ei drugaredd, a'i wirionedd,
ar vnwaith cyfarfuant:
Ei vniondeb, a'i hedd ynghyd,
drwy'r tir [illegible].
11 Gwirionedd o'r ddaiar a dardd,
vniondeb chwardd o'r nefoedd:
12 Duw a ddenfyn yn ddaioni,
a'n tir i roddi [illegible].

13 Vniondeb oedd o flaen Duw nef,
a'r cyfion ef aed rhagddo:
A Duw a rodio yn ei waith,
fel i'r vn daith ni efo.

Inclina Domine. Pſal. 86.

Dafydd yn gweddio ar Dduw am gymmorth, ac yn dymuno ar Dduw ei ddyſgu ef. Ac gwedi hyſe yn achwyn rhag ei elynion.

GOſtwng o Arglwydd y glust ataf,
clyw fy [illegible]
Gwrando fi [illegible],
a'th barawd drugareddion.

2 Cadw fy enaid, gwr cyfiawn wy',
ac ytti 'r ydwy'n credu:
Duw bydd achubwr da i'th wâs,
o'th râs dyrd i'm gwaredu.

3 Trugarha wrthif Arglwydd mau,
cans arnad llefa'n ddibaid.
4 Einioes dy wâs Duw llawenhâ,
cans attad codaf f'enaid.
5 Cans ti o Arglwydd ydwyd dda,
i'th bobloedd a thrugarog,
I'r rhai a alwant arnat ti,
mae dy ddaioni 'n bleidiog.

6 O Arglwydd clyw fy llais mor llym,
a'm gweddi y'm myfyrdod.
7 Clywi fy llais, gwel fy nghlwyf,
y dydd y bwyf i'm trallod.
8 Ymyſg y duwiau nid oes vn,
fel dydi gun gogonedd:
Ymyſg gweithredoedd cymmaint hyn,
nid oes yr vn ym weithred.

9 Y bobloedd oll a wnaethoſt (Ion)
o'th flaen down ac addolant:
A pha le bynnag ar y bont
i'th enw rhont ogoniant.
10 Cans tydi ydwyd fawr a gwych
yn gwneuthur rhyfeddodau:
A thydi'n vnig wyd yn Dduw,
ni cheiſiwn amryw dduwiau.

11 Dyſg imi dy ffordd (o Arglwydd)
caf yn rhwydd dy wirionedd:
Gwna fy nghalon yn un i'th ofn,
ac ofnaf fi dy fawredd.
12 Fy Arglwydd Dduw moliannaf di
â holl egni fy nghalon:
Ac i'th fawr enw byth gan dant,
y rhof ogoniant cyſon.

13 Cans mawr yw dy drugaredd di,
tu ac attaf fi yn barod,
Gwaredaiſt f'enaid i o'r bedd,
ac o'r gorddyfnedd iſod.
14 Duw, daethant attaf fi wyr beilch,
fel llu o weilch ewinddrud:
Ceiſient ddwyn f'einioes o'r byd hwn,
i'w golwg [illegible].

15 Ond tydi'n vnig wyd hawddgar,
a chlaear dy drugaredd:
Hwyr i'th lid, ac i gymmod hawdd,
llawn o nawdd a gwirionedd.
16 O edrych arnaf, moes dy râs
i'th wâs y sydd i'th [illegible]:
Dod ym' dy nerth, cadw fal hyn
fi, plentyn dy lawforwyn.

17 O Dduw dod o'th ſerch ymwared,
er gwradwydd i'm caſeion:
Pan welant dy fod yn rhoi nerth
ym', ac ymadferth ddigon.

Fundamenta eius. Pſal. 87.

Yr Yſpryd glân yn prophwydo am ryddhâd yr eglwys a'r cyſſur ſydd o fod yn vn o honi.

SAilfeini hon (ſef Sion) ſydd
ar gyſſegr fynydd vchel:
2 Acar dy byrth rhoes Duw ei ſerch
uwch pob trig-lannerch Iacob.

3 O ddinas Duw, preſwylfa'r Ion,
mawr ydyw'r ſôn am danad:
A gogoneddus air yt' ſydd,
vwch trigfennydd yr holl-wlad.

4 Rahab, Babel, a Phaleſtin,
a Thirus ſlin, a'r Mwriaid,
A fu i'th blant elynion gynt,
mae rhai o honynt vnblaid.
5 Ond dwedir hyn am Sion ber,
fe anwyd llawer ynthi.
Nid ymbell vn: cans ſwccwr da
yw Duw goruchaf iddi.

6 Fe rydd yr Arglwydd yn ei ſiri
y neb fe cyfrif hono:
Efe a eſyd hyn ar led
ſef, Hwn a aned yno.
7 Cantor tafod, a cherddor tant,
pob rhai yt' canant fawr-glod
A thrwy lawenydd mae'n parhau
fy holl ffynhonnau ynod.

Domine Deus. Pſal. 88.

Y ffyddloniaid yn eu cyſtudd yn galw ar Dduw trwy ffydd.

O Dduw fy iechyd, nos a dydd,
mae 'ngweddi 'n rhydd arnad.
2 Goſtwng dy gluſt, o Arglwydd nef,
a doed fy llef hyd attad.
3 Cans mae fy enaid mewn dull caeth,
a'm heinioes aeth i'r beddrod.
4 Fel gwr marw y rhifwyd fi,
a'm nerth oedd wedi darfod.

5 Mor fawr a rhai wedi eu lladd,
a'r taſu 'nghladd mewn angof,
A laddwyt di mor fawr a hyn,
na bai byth honyn atgof.
6 Goſodaiſt fi mewn dyfnder trwch,
ac mewn tywyllwch eithaf.
7 Rhoiſt bwys dy ddig ar y corph mau,
a'th holl for-donnau arnaf.

8 Pellheiſt fy holl gydnabod di,
r'wy fyn ffieiddbeth iddynt:
Ni chaf fi fyned at [illegible],
yr wyf mewn carchar rhydyn.
9 Y mae fy ngolwg (gan dy lid)
mewn gofid o fawr gyſtudd:
Duw llefais arnad yn fy [illegible],
gan godi 'mdwylaw beunydd.

10 Ai i'r meirw y dangoſi wyrthiau
a ddeunt i'th byrth i'th foli?
11 A draethir dy fawl yn y bedd,
a'th lân wirionedd hwnni?
12 Ai mewn tywyll y mae dy wedd
a'th iowndeb yngwlad angof?
13 Fal hyn (Duw) llefais arnat ti,
o clyw fy ngweddi [illegible].

14 Pam (o f'Arglwydd a'm Duw) i'm rhaid
y rhoi f'enaid ar wrthod?
Ac y cuddi dy wynebpryd?
fy nghoel [illegible]
15 Truan [illegible] wyf,
mewn trymglwyf o'm ieuenctyd:
A'th ofni [illegible],
gan amman cael [illegible].

16 Dy ddig a lifodd drosof fi,
d'ofn ſydd i'm torri 'n [illegible]:
Fel deifr y daethant yn fy nghylch-
do, do, o'm hamgylch beunydd.
17 Ymhell oddiwrthyf rhoiſt bob câr,
pob cyfaill hygar heibio,
A'm holl gydnabod a fu gynt,
yr ydynt yn ymguddio.

Miſericordias. Pſal. 89.

Dafydd yn moli Duw am ei gyfamod, ac yn achwyn weithied oedd ei dyrnod i: ac yn olaf y mae efe yn gweddio am ei [illegible] ei [illegible], ac yn dangos byrred oes dyn.

MYfyriaf gerdd byth i barhau
o drugareddau'r Arglwydd:
A'i wirionedd i'm genau fydd
hyd dragywydd yn [illegible].
2 Sef dwedais hyn: cair byth yn wir,
adeiledir trugaredd:
I barhau byth cair yn y nef
dy gadarn gref wirionedd.

3 Fal hyn (o Dduw) atebaiſt ym',
mi a wneuthym ammod [illegible]:
I Ddafydd f' etholedig was
a'r gair o'm gras yn [illegible].
4 Fal hyn ſicrhâf dy hâd di byth,
a gwnaf wehelyth drefnad,
I'th gadarn faingc o oed i oed,
mi a rof bob troed yn wastad.

5 Am hyn y ſicrwyd tragwyddawl
y nef o fawl dy wyrthiau,
Ynghorſedd Saint, [illegible]
am hir wirionedd d' eiriau.
6 Pwy ſydd cyſtal â'n Harglwydd ni
pe chwilid [illegible]:
Ymyſg Angylion pwy mal hwn,
fel ymhlith meibion [illegible].

7 Drwy gynnulleidfa ei Saint ef,
Duw o'r nef ſydd ofnadwy:
A thrwy'r holl lyd o'i hamgylch ef
i ofni ſydd ddyladwy.
8 Pwy ſydd debig i ti Dduw byw,
o Arglwydd Dduw y lluoedd?
Yn gadarn Ior, a'th wir a'th [illegible]
o amgylch yr holl [illegible].

9 Ti a oſtyngi y mor mawr,
a'r don hyd lawr [illegible]:
10 A nerth dy fraich [illegible]
yr Aipht, fal [illegible].
11 Eiddod nef a daiar: [illegible]
ſeiliaiſt y byd a'i [illegible]:
12 Gogledd, dehau, [illegible]
[illegible] yn dy enw.

13 I'th fraich mae grym, mae nerth i'th law,
a'th gref ddeheulaw [illegible]:
14 Nawdd a barn yw dy orſedd [illegible],
a nawdd a gwir [illegible].
15 Gwynfyd i'r holl bobl a [illegible]
a fo 'i llawenydd ynod:
Ac yn llewych dy wyneb glân
y rhodian i [illegible].

16 [illegible]
[illegible]
Yn dy gyfiawnder [illegible]
ac felly byddant ddedwydd.
17 Cans ei wyd gryfder eu nerth hwy,
lle y caffent fwy o [illegible]:
Dydi a ddarchefi ein corn,
ac felly cedyrn fyddant.

18 Cans o'r Arglwydd a'i ddaioni
y daw i ni amddiffyn,
O Sanct Iſrael drwy ei law,
oddiyno daw ein brenin.
19 I'th ſanct y rhoiſt [illegible] wybodaeth,
drwy weledigaeth nefol:
Goſodais gymorth ar gryf [illegible],
derchefais un dewiſol.

20 Cefais (eneiniais ef yn llyw)
fy ngwas dewiſol Dafydd,
Ag olew ſanct: 21 [illegible] a [illegible]
rhoiſt gyd ag ef yn [illegible].
22 Ni chaiff gelyn ei orthrymu,
na'i ddrygu un mab [illegible]:
23 O'i flaen y coetha'i elynion,
a'i holl gaſeion diſur.

24 Fy ngwirionedd a'm trugaredd,
rhof fi trwy gariad iddo:
Ac yn fy enw fi 'n ddi wad,
dyrchefir ei [illegible].
25 Goſodaf ei law ar y mor,
ac o'r [illegible]:
A goſodaf ei law ddeau,
hyd terfynau'r afonydd.

26 Ef a weddia arnaf fi
iw galedi, gan ddywedyd,
Ti yw fy nhad fy Nuw, fy [illegible],
yn gadarn o'm [illegible].
27 Minnau a gwnaf [illegible]
yn gynfab ac etifedd,
Ar frenhinoedd y ddaiar lawr,
yn uwch ei ras a'i fawredd.

28 A chadwaf iddo (yn [illegible])
drugaredd yn dragywyddol:
A'm cyfammod iddo yn [illegible],
yn ffyddlawn [illegible].
29 Goſodaf hefyd byth ei had,
nerth a mawrhâd uwch [illegible]:
A'i orſeddfaingc ef i [illegible],
yn wedd a dyddiau'r nefoedd.

30 Ond os ei blant ef (drwy [illegible])
nid ſy yn ol fy [illegible]:
Os hwy ni rodiant, [illegible]
i'm barn [illegible]:
31 Os fy neddfau a halogant,
ni chadwant fy [illegible]:
32 Yna ymwelaf a'i camweddau,
â gwiail fonrd, am [illegible].

33 Ond ni thorraf ag ef [illegible]
o'm hammod a'm [illegible]:
Ac ni byddaf fi ddim yn [illegible]
o'm hyſbyſiol wirionedd.
34 Ni thorraf fi [illegible]
a ddaeth allan o'm [illegible]:
Ac ni [illegible]
[illegible]
35 Yn fy [illegible]
na [illegible] i Ddafydd.

36 Bydd ei hâd a'i drwn, yn ddi draul
o'm blaen fel haul tragywydd.
37 Yn dragywydd y ſicrheir ef,
fel cwrs y nef planedau
Haul neu leuad, felly y bydd
ei gwrs tragywydd yntau.

38 Ond ti a'n ffieiddiaiſt ar fyrr,
ac yn ddiyſtyr llidiog
Di a gyffroaiſt yn dra blin,
wrth dy frenin eneiniog.
39 Diddymaiſt di dy air i'th was,
a'th râs, a'th addewidion:
A'i halogaiſt ef yn fawr,
gan daſlu'i lawr ei goron.

40 A drylliaiſt ei fagwyrydd ef,
a'i gaer gref rhoiſt yn adwy.
41 Yn egored felly y mae
yn brae i bawb ſy'n tramwy.
42 Iw gym'dogion gwaradwydd yw ef,
a than law gref ei elyn;
A llawen iawn y codent floedd,
bob rhai a oedd i'w erbyn.

43 Troiſt hefyd fin ei gleddau ef,
a'i law oedd gref a blygaiſt:
44 Darfu ei lendid ef a'i wawr,
a'i drwn i'r llawr a fwriaiſt.
45 Pryd ei ieuengctyd heibio'r aeth,
a thi a'i gwnaeth cyn fyrred,
A bwriaiſt drosto wradwydd mawr,
o nen hyd lawr y torred.

46 Pa hyd fy Nuw y byddi'n nghudd
ai byth, fy llywydd nefol?
A lyſg dy lid ti fel y tân
yn gyfan yn dragywyddol?
47 O cofia f'oes ei bod yn ferr,
ai'n ofer gwnaethoſt ddynion?
Holl blant dynion o dal dy law
ac yn' ni ddaw yn ſydyn.

48 Pa wr y ſydd a'i oes dan ſêl,
na ddel marwolaeth atto?
Pwy a all ddiangc, ac hi ddaw
y crib a'r rhaw i'w guddio?
49 O mae dy nodded Arglwydd gynt?
mae helynt dy drugaredd?
Mae dy lw, o'r yſtiriol ſydd,
i Ddafydd i'th wirionedd?

50 Coſia Arglwydd yn wradwydd llym'
lle'r ydym ni dy weiſion.
Yr hwn a dawdd i'm mynwes i,
gan ffroſt y Cowri mawrion.
51 Yr hwn warth y rhoddi d'elynion di
yt' yn ei roddi i'n eiddiog.
(Fy Arglwydd Dduw) ar ei ôl ſyt-hîd
i droediad dy eneiniog.

52 Moler yr Arglwydd byth, Amen,
a byth Amen, hyn fytho.
Moler yr Arglwydd byth, Amen,
a byth Amen, hyn fytho.

Domine refugium. Pſal. 90.

Moſes wrth weled y bobl dan yſtyried dîg o ddicllon Duw, [illegible] yn gweddio ar Dduw a'u dwyn [illegible] calonau hwy i'r dragwyddol.

Duw! buoſt ini yn Arglwydd da,
ac yn breſwylfa i drigo,
O bryd i bryd, felly yr aeth
bob rhyw genhedlaeth heibio.
2 Er cyn rhoi ſail yn mynydd mawr,
cyn llunio llawr cwmpas-fyd,
Duw! o dragwyddol wyd cyn neb,
hyd dragwyddoldeb hefyd.

3 Weithiau i ddiniſtr y troi ni,
troi dithau wedi'n rhydda.
A dwedi cyn ein mynd i'r llwch,
dychwelwch meibion Adda.
5 Cans dec mlynedd fel doe ynt,
pan elo 'it helynt heibio;
O'th flaen di, megis gwylfa nos,
ni chaiff ymddangos etto.

5 Nid yw dyn ond fel hûn, neu ail
i addail, neu lifeirjant.
Neu megys glâs lyſieun gwan,
mor fuan y newidiant.
6 Yr hwn y borau gwyrddlas fydd,
a gwawr o newydd arno:
Ond pan y torrer ef brydnawn,
yn fuan iawn mae'n gwywo.

7 Cans yn dy lid difethwyd ni
gan ofni dy ddigofaint,
8 Rhoiſt di ein beiau gar dy fron,
a'n holl ddirgelion drygfaint?
9 Cans drwy dy ddig mae 'n dyddiau ni
a'n tegwch gwedi darfod,
A'n holl flynyddoedd ynt ar ben,
fel gorphen henchwedl gorfod.

10 Ein holl flynyddoedd yw ſaith ddeg,
dan bump chwaneg os bydd grym
Yna ein nerth ai'n bod yn blin iawn,
i ffordd yr awn yn gyflym.
11 Ond pwy a edwyn nerth dy lid?
mawr ofid fydd o'th farn!
Sef fel y mae dy ofn di'n fawr,
dy ddig fydd ddirfawr inni.

12 Dyſg felly 'n rhifo'n dyddiau gwael,
i'n calon gael doethineb,
13 Duw ba hyd? dyred a dod yn hawdd
i'th weiſion nawdd ac undeb.
14 Yn foreu iawn diwalla ni
â'th fawr ddaionol ddigon,
Fel y caffom ni lawenydd
yn hyfryd dros yn heinioes.

15 Gwna ni yn llawen, hyd y buom
ban oedd yn' gyſtudd dybryd:
A chwedi llawer blwyddyn drwm,
y rhai y cowſom adfyd.
16 O Dduw, gwna weled dy fawr waith,
a'th wrthiau maith i'th weiſion,
A'th odidowgrwydd, a'th ſyniant,
ymyſg eu plant a'i hwyrion.
17 Arnom ni dod rhîd Duw a'i nerth,
i lwyddo prydferth weithion,
Duw dod ein gwaith mewn trefnid dda
Duw trefna waith ein dwylaw.

Qui habitat. Pſal. 91.

Dyma ſicrwydd o ddiogelwch y dyn a ſo yn rhoi ei hyder ar Dduw rhag pob profedigaeth.
Athanaſius

Addewid Duw yr rhai a'i hofnant ac a'i carant ef, o ddiogelrwydd, a gogoniant tragwyddol.

Y Sawl a drigo, doed yn nes,
yn lloches y Goruchaf,
Ef a ymerys i gael bod
yngbyſgod hwn ſydd bennaf.
2 Fy holl ymddiffynwyd a'm llwydd,
wrth fy Arglwydd y dwedaf,
A'm holl ymddiried tra fwy fyw
ſydd yn fy Nuw Goruchaf.

3 Cans ef a weryd yr oes dan,
oddiwrth faglau yr heliwr,
A hefyd oddiwrth bla, a haint,
echryſaint, ac anghyſtwr.
4 Ei eſgyll droſod ef a rydd,
dan ei adenydd byddi
Yn ddiogel: a'i wiredd gred
ſydd gylch a bwccled itti.

5 Ni ddychryni er twrf y nos,
na'r dydd o achos hedſaeth,
6 Er haint, neu bla mewn tywyll ſydd,
neu hanner dydd marwolaeth.
7 Wrth dy yſtlys y cwympa mil,
a dengmil o'th law-ddeau:
Ac ni ddaw drwg yn dy gyfyl,
a thi a'i gwyl yn ddiau.

8 A'th lygaid y gweli di ddiâl
i'r enwir gwammal anian.
9 Sef fy holl obaith wyd (o Dduw)
ac vchel yw dy drigfan.
10 Ni ddigwydd niwed yt, ond da,
na phla, na haint echryſion,
I'th Eglwys a'th gyfanheddfa nawdd,
11 cans archawdd i'w Angylion,

I'th ffyrdd dy gadw, a'th gynnllwyn,
a'th ddwyn â'i dwylaw hardd-deg,
12 Rhag digwydd yn ddrwg (hyd yn oed)
taro dy droed wrth garreg.
13 Dy ſangu fydd ar y llew dig,
a'r aſp wenwynig ſethri:
Ar greulon genau'r llew o'r graig,
ac ar y ddraig y ſengi.

14 Mi a'i gwaredaf ef rhag brâd,
am roi ei gariad arnaf,
Am adnabod fy enw mau,
yn ddiau y derchafaf.
15 Geilw arnaf, mi a'i gwrandawaf,
mewn ing y byddaf barod,
Gwaredaf hefyd rhag ei gâs,
a chaiff drwy vrddas fawrglod.

16 Fo gaiff fyw yn ddigon o hyd,
caiff yn y byd hir ddyddiau.
Dangoſaf iddo radlawn ffeth,
a'm iechydwriaeth innau.

Bonum eſt. Pſal. 92.

Pſalm i gynhyrfu y bobl i gymmeryd ar i foliannu Duw yn ei weithredoedd. Dywedd diſymwth yr enwir: a dedwyddwch y cyfion yn hael moli Duw yn ei Deml.

MOliannu'r Arglwydd da iawn yw,
a chyfarch Duw yn bennaf:
A chanu i'th enw di ſawl,
a'th gammawl (y Goruchaf).
2 Y borau am dy drugaredd,
a'th wirionedd ſon y nos,
3 Ar ddectant, nabl, a thelyn,
myfyrio hyn a'i ddangos.

4 Sef drwy dy weithred llawenydd
ynnyn a wyſt yn fy Nuw Naf,
Yngwaith dy ddwylaw fy Nuw Iôr,
beunydd y gorfoleddaf.
5 Dy weithredoedd ſydd mawrion ynt:
6 Dy helynt nis gwyr anghall:
Dy feddyliau a ddwfn iawn ſydd,
hyn nis gwyr ynfyd ddeall.

7 Pan ſodent yr enwir ddyn,
megis llyſieuyn iraidd,
Pan fo drygweilch yn gryf eu plaid,
Duw yno rhaid eu diwraidd.
Y drwg ſagur vchel yr ânt,
a hwy a ſyrthiant beunydd.
8 Tithau yr Arglwydd yn ddigel,
wyt vchel yn dragywydd.

9 O Arglwydd wele dy elynion,
dy gaſeion diffethir,
A holl weithredwyr trais a cham
yn ddinam a waſgerir.
10 Tydi a ddyrchefi fy nghorn,
fel yr vnicorn perffaith,
Hefyd â gwerthfawr olew ir,
i'm taenellir eilwaith.

11 Fy llygaid a welant hefyd,
fy ngwynfyd o'm gelynion.
A'm clustiau a glywant ar frys
fy ewyllys am ddrwg ddynion.
12 Y cyfion blodeua'n wiw,
fal y balmwydden vniawn,
Cynnyddu yn iraidd y bydd,
fel cedrwydd yn Libanon.

13 Y rhai a blannwyd yn nhy Dduw,
yn goedwydd byw y tyfant,
Ac yngbyrteddau ein Duw ni
y rhei'ni a flodeuant.
14 A dwyn eu ffrwyth a wnânt o faint,
yn amſer henaint etto,
Tirfion, iraidd, a phrofadwy
a fyddant hwy yn hilio)

15 I ddangos mai iawn, ac nad cam
fy Arglwydd a'm cadernyd,
Ac nad oes ynthaw ddim camwedd,
na dim anwiredd hefyd.

Dominus regnavit. Pſal. 93.

Moliant i allu Duw: yn erbyn y bobl a wrthnebant awdurdod.

TEyrnaſa y mae yr Arglwydd,
mewn ardderchowgrwydd gwiſgiadd,
Ymwiſgodd fy Arglwydd, yn brydferth,
a nerth yr ymwregyſodd.
2 Fe a ſicrhaodd ſail y byd,
heb ſyſyd, yn [illegible]
Dy faingc erioed a ddarparwyd,
ti wyd er tragwyddoldeb.

3 Y llifeiriaint, (fy Arglwydd) ſeinn,
y llifeiriaint yn codi,
Tyrfan a llif yn rhwygo'r llawr,
a thonnau mawr yn ſoethi.

4 Cadarn yw tonnau y moroedd,
gan dyrfau dyfroedd lawer.
Cadarnach yw yr Arglwydd mawr
yn nhyrau yr vchelder.
5 Dy dyſtiolaethau ynt ſiwr iawn,
ſef cyfiawn yw ſancteiddrwydd,
A gweddus yn dy dŷ diſydd,
byth yn dragywydd i'r Arglwydd.

Deus ultionum. Pſal. 94.

Gweddi at Dduw yn erbyn y gorthrymwyr, a chyſur i'r gorthrymedig.

O Arglwydd Ddûw, Duw mawr ei rym,
dialwr llym pob trahà,
O Dduw y nerth, ti biau'r tâl
a'r dial, ymddiſgleiria.
2 Ymddercha di farnwr y byd,
a thâl i gyd eu gobrwy,
I'r beilchion a'r trahaus ddod
y tâl a fo dyladwy.

3 Ba hyd? (o Arglwydd) o ba hyd
y chwardd gwyr byd drygionus?
4 Yr ymfalchiant yn eu drwg,
gan fygwth amlwg ffroſtus?
5 A'th bobl di (Arglwydd) a faeddiant,
a chyſtuddiant dy dretâd,
6 Y weddw, a'r dieithr a laddant,
lliaſant yr amddifad.

7 Dwedaſant hyn heb geiſio coel,
ein gwaith ni wel yr Arglwydd.
Ac ni ddeall Duw Iago hyn,
ynny ni ddiſgyn ofnwydd.
8 Ymyſg y bobloedd dilram dor,
yſtyriwch ddynion angall,
Chwithau ynfydion, o ba hyd
y rhowch eich bryd ar ddeall?

9 Hwn a wnaeth y gluſt i bob dyn,
oni chlyw ef yn amlwg?
Ac oni wyl hwnnw yn hawdd
a luniawdd i ni olwg?
10 Oni cheryddâ hwnnw chwi
ſy'n coſbi pob cenhedlaeth?
Ac oni wyr hwnnw y ſy'n
dyſgu i ddyn wybodaeth?

11 Gwyr yr Arglwydd feddyliau dyn
mai gwagedd ydyn diffaith,
12 Duw, dedwydd yw a goſpech di,
a'i fforddi yn dy gyfraith.
13 Yr hon a ddyſg i ddyn warhau,
i fwrw dyddiau dihir,
Tra ſoer yn darparu y clawdd
y fan y bawdd yr enwir.

14 Cans ein Ior ni ei bobl ni âd,
a'i wir dretâd ni wrthyd,
15 Ef ac iawn farn a gadarnhâ,
a phob dyn da a'i dilyd.
16 Pwy a gyfyd gyda myfi,
yn erbyn egni trawſedd?
Pa rai a ſafant ar fy rhan
yn erbyn llu anwiredd?

17 Oni bai fod Duw imi yn borth,
ac yſty n cymorth i mi,
Braidd ſuna ddaethai ym y loes
a roeſai i'r oes i dewi.

18 Pan ſawn yn cwyno dan drymhau,
rhag bod i'm camrau lithro.
Fy Arglwydd, o'th drugaredd drud,
di a'm cynheliud yno.

19 Pan fo ynof amlaf yn gwau,
bob rhyw feddyliau trymion,
Doe dy ddiddanwch di ar dro,
i gyſuro fy nghalon.
20 A oes gyfeillach i ti Dduw,
a maint yr annuwolion?
Hwn a lunia enwiredd maith
yn lle y gyfraith vnion.

21 Y rhai ſy'n ymdyrru ynghyd,
ar fryd dwyn oes y cyfion?
Ac yn eu cynger yr ymwnaed
i geiſio gwaed y gwirion.
22 Ond yr vnic Ior ſydd er hyn,
yn llwyr amddiffyn i'r enaid?
Efe yw fy nerth o'm hol a'm blaen,
a ſailfaen fy ymddiriaid.

23 Efe a dâl i bob dyn drwg,
yn amlwg am ei gamwedd?
Y maleiſus tyn Duw o'r byd,
am ei chwyd o enwiredd.

Venite exultemus. Pſal. 95.

Y mae'n annog i foli Duw am lywodraethu y byd, a dwyn yr eglwys: ac i ochel cyffelybu ein tadau, y rhai am demptio Duw, ni chawſant ddyfod i dir y bywyd.

O Dowch a chanwn i'r Arglwydd,
efe yw llwydd ein bywyd?
Ac ymlawenhawn yn ei nerth,
ef yw ein prydferth iechyd.
2 O down yn vn-fryd gar ei fron,
â chalon bur ddiolchgar.
Bryſiwn at Dduw dan lawenhau,
a chanwn pſalmau 'n llafar.

3 Herwydd yr Arglwydd nef a llawr
y ſy Dduw mawr yn ddiau:
Tywyſog mawr yw ef mewn trin,
a brenin yr holl dduwiau.
4 Efe biau holl ddaiar gron,
a'r dyfnder eigion danaw?
Vchelder hefyd, eithafoedd,
mynyddoedd ſydd yn eiddaw.

5 Ef biau'r moroedd vwch pob traeth,
ac ef a'i gwnaeth i ſuo:
Ei ddwylaw ffurfiaſant yn wir
y ſych-dir ac ſydd ynddo.
6 O dowch, addolwn, cyd-ymgrymmwn,
ac ymoſtyngwn iddaw:
Ef yw ein Arglwydd vn-ben ni,
ef a'n gwnaeth ni â'i ddwylaw.

7 Cans ef i ni y ſydd Dduw da,
a phobl ei borfa ydym:
A'i ddefaid yn, os chwi a glyw
ei air ef heddyw'n gyflym.
8 Meddyliwch fod eich bai ar lled,
na fyddwch galed galon:
Fel yn nydd prawf, mewn anial dir,
lle y coſir hyd ymryſon.

9 Y lle temtiodd eich tadau fi
gan brofi i'm adnabod.

Faint ydoedd y gweithredoedd man,
yn ddiarcawſant wybod.
10 Dros ddeugain mlynedd â'r llin hon
drwy fawr ymryſon, dwedais,
Pobloedd ynt cyfeiliornus iawn,
a'i calon yn llawn malais.

Cans nid adwaenent y ffyrdd mau,
onid amlhau eu tuchan:
11 Wrthynt i'm-llid y tyngais hyn,
na ddelyn i'm gorphwyſfan.

Cantate Domino. Pſal. 96.

Cyngor i bob cenhedlaeth i foli Duw am ei drugaredd.

O Cenwch glod i'r Arglwydd mâd,
a moeſwch ganiad newydd:
Yr holl ddaiar datcenwch fawl,
yr Arglwydd nefawl beunydd.
2 Cenwch chwi glod i'r Arglwydd nef,
a'i enw ef bendigwch,
A'i iechydwriaeth drwy grefydd,
o ddydd i ddydd cyhoeddwch.

3 Datcenwch byth ei glod a'i râd,
yngwlad y cenhedlaethoedd,
A'i ryfeddodau ef ym mhlith,
pob amryw, amrith bobloedd.
4 Cans ein Arglwydd ni ſydd Dduw mawr,
a rhagawr canmoladwy,
Vwch yr holl dduwiau y mae ef,
yn frenin nef ofnadwy.

5 Duwiau y bobl eulynnod ynt,
ni ellynt mwy na chyſgod:
A'n Duw ni a wnaeth nef a llawr,
fal dyna ragawr gormod.
6 Cans mawr ydyw gogoniant nef,
ac o'i flaen ef mae harddwch,
Yn ei gyſſegr ef y mae nerth,
a pharydferth yw'r hyfrydwch.

7 Chwi dylwythau y bobloedd, trowch,
yn llawen rhowch i'r Arglwydd,
I'r Arglwydd rhowch ogonedd fry,
a nerth, a hynny'n ebrwydd.
8 Rhowch ogoniant iw enw ef,
yr Arglwydd nef byth bythoedd,
A bwyd offrwm iddo a rowch,
a chwi dowch iw gynteddoedd.

9 Addolwch i'r Arglwydd gar ei fron
iw gyſſegr, digon gweddol:
A'r ddaiar rhagddo, hyd, a lled,
dychryned yn aruthrol.
10 I'r holl genhedloedd dwedwch hyn
yr Arglwydd ſy'n teyrnaſu:
Nid yſgog y byd ſy'n ſicr iawn,
ef a wyr vniawn farnu.

11 O llawenhaed nefolaidd do,
i'r ddaiar bo gorfoledd:
Rhued y mor a'i donnau llawn,
a'r pyſg ſy' mewn ei [illegible].
12 A gorfoledded y maes glâs,
ei dwf, a'i addas ffyniant:
A phob pren gwyrdd ſydd yn y coed
i'r Arglwydd rhoed ogoniant.

13 Am ei ddyfod, am ei ddyfod,
a'i farn ſydd [illegible].

Barna yn gyfion yr holl fyd,
a'r bobl, ſ'i gyd-wirionedd.

Dominus regit. Pſal. 97.

Dafydd yn cynghori pawb i lawenychu am ddyfod teyrnas Chriſt, yn ofnadwy i'r annuw, ac yn llawenydd i'r cyfion.

YR Arglwydd ydyw ein pen rhaith,
bo perffaith y ddaiarent:
Ynyſoedd cedyrn yr holl fyd,
bont hwy i gyd yn llawen.
2 Niwl a thywyllwch ſy iw gylch ef,
hyfrydwch nef gyfannedd:
Iawnder a barn ydynt yn ſail,
ac adail mainge ei orſedd.

3 Tân â o'i flaen ef, ac a lyſg
ym myſg ei holl elynion:
4 A'i fellt yn fflamio trwy'r holl fyd,
oedd olwg enbyd ddigon.
5 O flaen Duw, fel y tawdd y cwyr,
y bryniau'n llwyr a doddent:
O flaen hwn (ſef yr Arglwydd) ar
y ddaiar y diflannent.

6 Yr holl nefoedd yn dra hyſbys
a ddengys ei gyfiownedd,
A'r holl genhedloedd a welſant
ei fawr ogoniant rhyfedd.
7 Gwradwydd i'r rhai a waſanaethant
y delwau mân cerfiedig:
Addolwch ef (nid delwau cau)
holl dduwiau datfodedig.

8 Dy farnedigaeth (o Dduw Iôn)
a glybu Sion ddedwydd:
Merched Iuda (o herwydd hyn)
ſy'n ymun o lawenydd.
9 Cans ti (o Arglwydd) yw ſy'n flaen,
oruchaf dros y ddaiar:
Rhagorol yw'r dyrchafiad tau
vwchlaw'r holl dduwiau twyllgar.

10 Pob drygioni chwi a gaſewch,
cara a wnewch yr Arglwydd,
Hwn ſydd yn cadw oes ei Saint,
i'w dwyn o ddrygfraint aflwydd.
11 Mewn daiar yr egin a'i hâd
goleuad daw i'r cyfion,
Yn ol triſtwch fo dry y rhod
i lân gydwybod union.

12 Yn yr Arglwydd, o'r achos hon,
chwi gyfion llawenychwch,
Drwy goffa ei ſancteiddrwydd ef,
â llais hyd nef moliennwch.

Cantate Domino. Pſal. 98.

Annog pob creadur i foli Duw, am ei allu, ei drugaredd, a ffyddlondeb ei gyfammod yngh-Riſt, drwy'r hwn y mae ein iachawdigaeth ni.

CEnwch i'r Arglwydd newydd gân,
ei waith ſy lân ryfeddod:
Ei law ddeau a'i fraich a wnaeth
i'n iechydwriaeth parod.
2 Yr Arglwydd hyſbys in' y gwnaeth
ei iechydwriaeth gyhoedd,
A'i gyfiownder ef yn dra hawdd
datguddiawdd i'r cenhedloedd.

3 M

3 Fe goſodd ei drugaredd hir,
a'i wir i dy Iſrael,
Fel y gwelodd terſynau'r byd
ei iechyd yn ddiymgel.
4 I'r Arglwydd â chaniad llafar,
chwi yr holl ddaiar cenwch,
A llafar lais, ac eglur leſ,
fry hyd y neſ y lleiſiwch.

5 Cenwch i'r Arglwydd Ddaw ſal hyn
â'r delyn, a chywirdant:
A chydâ'r delyn lais a thon,
rhowch iddo gyſon ſoliant.
6 Canu yn llafar ac yn rhwydd,
o flaen yr Arglwydd frenin:
Ar yr vdcyrn, a'r chwythgyrn pres,
ſal dyna gyffes ddibrin.

7 A rhued y mor mawr i gyd,
a'r byd, ac oll ſydd ynthynt,
8 Y llifddyfroedd, a'r mynyddoedd,
y mae yn addas iddynt.
9 Cenant, canant, o flaen Duw cu,
yr hwn ſy'n barnu'r bydoedd.
I'r byd y rhydd ei farn yn iawn,
ac yn vniawn i'r bobloedd.

Dominus regnauit. Pſal. 99.

Mawl teyrnas Griſt, dros yr Iddewon a'r cenhedloedd: gan eu hannog i foli ac i waſanaethu Duw, ac i weddio arno.

YR Arglwydd Dduw yw ein brenin,
er maint yw trin y bobloedd:
Mae'n eiſtedd rhwng dau gerubyn,
fe gryn' pobl daiar leoedd.
2 Canys brenin mawr ydyw'r Ion
yn Seion o'i ddyrchafel:
Ac vwchlaw bobloedd yr holl fyd,
y ſydd o radd yn vchel.

3 Cydfoliannant o'r neſ i'r llawr,
dy enw mawr rhagorol:
Ofnadwy, ſanctaidd, yw i'w drin.
4 Tithau (o frenin nerthol)
A geri farn, darperi iawn:
yn gyfiawn heb droſſ-oſgo,
A barnedigaeth bur ddidoſt,
a wnaethoſt di yn Iago.

5 Derchefwch yr Arglwydd ein Duw,
ſef ſanctaidd yw i'w fawredd:
Ymgrymmwch o flaen ei ſtol draed,
felly parhaed ei fawledd.
6 Moſes, ac Aaron ſanctaidd blaid,
ymhlith offeiriaid gyrrodd:
Samuel galwai ei enw ef,
yntau o'r neſ attebodd.
7 Mewn colofn o niwl y bu wiw,
gan Dduw lefaru wrthynt;
Tra [illegible] yn cadw ei fodd,
a'r [illegible] a roddodd iddynt.
8 Gwrandewaiſt arnynt, dodaiſt ged,
a'i harbed, pan ymattal:
Duw ein Nâf, dy gawdd parod fu,
a bwythau 'n haeddu dial.

9 Derchefwch ein Duw Ior am hyn,
yn Sion fryn cyſſegraidd,
Ymgrymmwch iddo yn eich byw,
Fel vnig Dduw ſydd ſanctaidd.

Iubilate Deo. Pſal. 100.

Mae yn cynghori pob dyn i waſanaethu yr Arglwydd, ac i fyned iw gynulleidfa i'w foli.


I'R Arglwydd cenwch laſar glod,
a gwnewch vfydd-dod llawen fryd,
2 Dowch o flaen Duw a pheraidd don,

trigolion y ddaear i gyd.

3 Gwybyddwch mai'r Arglwydd ſydd Dduw,
a'n gwnaeth ni'n fyw fel hyn i fod,
Nid ni'n hunain, ei bobl ym ni,
a defaid rhai ei borfa a'i nod.

4 O ewch i'w byrth a diolch brau,
yn ei gynteddau molwch ef,
Bendithiwch enw Duw hynod,
rhowch iddo glod drwy lafar lef.
5 Cans da yw'r Arglwydd, awdur hedd,
da ei drugaredd a dilyth,
A'i wirionedd ini a roes,
o oes, i oes, a bery byth.

Miſericordiam. Pſal. 101.

Dafydd yn dangos trefn a rheol ei dy: ſef yn gyrru ymaith y rhai drwg, ac yn mawrygu y da.

DAtcanaf drugaredd a barn,
i'r Arglwydd cadarn canaf.
2 Byddaf ddeallus mewn ffordd wych,
hyd oni ddelych attaf.
A rhodiaf yn fy nhy yn rhwydd,
a thrwy berffeithrwydd calon.
3 Pob peth drwg ſydd gennif yn gâs,
a childyn ddyrras ddynion.

4 Calon gyndyn ymof ni bydd,
drwg weithydd ni'd adnabyddaf.
5 Sclandrwr dirgel, a'r balch vchel
o'r achos ni oddefaf.
6 Ar ffyddloniaid mae 'ngolwg i,
fe lyn y rhei'ni wrthy':
7 A'r hwn a rodio mewn ffordd ddifai,
hwn a waſanaetha ymmy.

8 Ni chaiff aros o fewn fy nhy,
vn dyn ac ſy dwyllodrus,
Yn fy ngolwg vn dyn ni bydd,
a lunio gelwydd trefnus.
9 Holl annuwiolion fy ngwlad faith,
yn forau ymaith torraf:
Fel na ddelont i ddinas Duw,
y cyfryw a ddiwreiddiaf.

Domine

Domine exaudi. Pſal. 102.

Gweddi y ffyddloniaid yn amſer caethiwed Babel,

O Arglwydd, erglyw fy ngweddi,
a doed fy nghri hyd attad:
2 Na chudd dy wyneb mewn ing tra fwyf,
clyw, clyw, pan alwyf arnad.
3 Fy nyddiau aethant fel y mwg,
ſef cynddrwg im cyfnaddiwyd:
Fy eſgyrn poethant achos hyn,
fel tewyn ar yr aelwyd.

4 Fy nghalon trawyd a chryn iſa,
ac fel y gwellt glas gwywodd:
Fel yr anghofiais fwyta' mwyd
dirmygwyd fi yn ormodd.
5 Glynodd fy eſgyrn wrth fy nghroen,
gan faint fy nhoen a'm tuchan.
6 Fel vn o'r anialwch, lle y trig
y pelig, neu'r dylluan.

7 Neu fel vn o adar y to,
a fai yn gwilio 'i fywyd,
Yn rhodio 'n vnic ben y ty:
wyf anhy ac anhyfryd.
8 Fy ngelynion a thafod rhydd,
hwy beunydd a'm difenwant:
A than ynfydu yn ei gwyn,
i'm herbyn y tyngaſant.

9 Fel llwch a lludw yn fy mhlas,
fu'r bara a fwyteais:
Yr vnwedd yn y ddiod fain
fy nagrau a gymyſgais.
10 A hyn fu o'th ddigofaint di,
am yt fy nghodi vnwaith:
Ac herwydd bod dy ddig yn fawr,
i'r llawr i'm teflaiſt eilwaith.

11 Fy nyddiau troeſant ar y rhod,
ac fel y cyſgod ciliant;
A minnau a wywais achos hyn,
fel y glaſwelltyn methiant.
12 Ond tydi Dduw, fy Arglwydd da,
a barhei yn dragwyddol,
O oes i oes dy Enw a aeth
mewn coffadwriaeth graſol.

13 O cyfod bellach trugarha,
o Dduw bydd dda wrth Sion:
Mae 'n fadws wrthi drugarhau,
fel dyma 'r nodau 'n vnion;
14 Cans hoff iawn gan dy weiſion di,
ei meini a'i magwyrau,
Maent yn toſturio wrth ei llwch,
a'i thriſtwch, a'i thrallodau.

15 Yno yr holl genhedloedd byw
yr Arglwydd Dduw a ofnant,
A'r holl frenhinoedd trwy y byd,
a ront yt gyd ogoniant.
16 Pan adeilader Sion wych,
a hon yn ddrych i'r bobloedd,
Pan weler gwaith yr Arglwydd nef,
y molir ef 'n dragywydd.

17 Edrychodd hwn ar weddi'r gwael,
rhoes iddynt gael ei harchau:
18 Scrifennir hyn: a'r oes yn ol
a gaiff ei gannol yntau.
19 Cans Duw edrychodd o'r nef fry,
ar ei gyſſegr dy Sion;

20 Clybu ei griddfan, er rhyddhau
plant angau 'i garcharorion.

21 Fel y cydleiſient hwy ar gân
yn Seion lân ei foliant,
Ac ynghaer-Salem yr vn wedd,
ei fowredd a'i ogoniant.
22 Hyn fydd pan gaſglo pawb ynghyd,
yn vfryd iw folianu;
A'r holl deyrnaſoedd dont ynghyd
yr Arglwydd, iw waſanaethu.

23 Duw ar y ffordd lleihâdd fy nerth,
byrrhâdd fy mhrydferth ddyddiau,
A mi'n diſgwyl rhyddhâd ar gân,
24 yno y dywedais innau;
O Dduw na thorr fy oes yn frau,
ynghanol dyddiau f'oedran:
Dy flynyddoedd di ſydd erioed,
o oed i oed y byddan.

25 Di yn y dechrau dodaiſt ſail,
oddi iſod adail daiar;
A chwmpas wybren vwch ein llaw,
yw gwaith dy ddwylaw hawddgar.
26 Darfyddant hwy, parhei di byth,
treuliant fel llyth trwſiadau.
27 Troi hwynt fel gwiſg, fel gwiſg a wnant,
felly newidiant hwythau.

Tithau Arglwydd, yr vn wyt ti,
a'th flwyddau ni ddarfyddant.
28 Holl blant dy weiſion gai dy fron,
a'i hwyrion a breſwyliant.

Benedic anima. Pſal. 103.

Y mae'n cyngori pob creadur i foli yr Arglwydd am ei aneiriſ drugareddau, a'i ymwared i'w ffyddloniaid.

FY enaid mawl ſanct Duw yr Ion,
a chwbl o'm eigion ynof.
2 Fy enaid n'ad ſawl i'r Arglwydd nef,
na'i ddoniau ef yn angof.
3 Yr hwn ſy'n maddau dy holl ddrwg,
yr hwn a'th ddwg o'th leſgedd;
4 Yr hwn a weryd d'oes yn llon,
drwy goron o'i drugaredd.

5 Hwn a ddiwalla d'enau di
a'i lawn ddaioni pybyr:
Drwy adnewyddu yt dy nerth,
mor brydferth a'r hen eryr.
6 Yr Ion cyfiawnder, barn a wna
i'r rhai ſydd orthrymedig.
7 Dangos a wnaeth ei holl ffyrdd hen
i Moeſen yn nodedig:

Ac i Iſrael ei holl ddawn,
8 Duw llawn yw o drugaredd:
Hwyr yw ei lid, parod ei ras,
fal dyna gariad rhyfedd.
9 Nid ymryſon ef a ni byth,
nid beunydd chwyth digofaint,
10 Nid yn ol ein drygau y gwnai
a ni, a ni'n cosbai cymmaint.

11 Cyhyd ac yw'r ffurfafen fawr
oddi ar y llawr o vchder,
Cymaint i'r rhai a'i hofnant ef,
ſydd nawdd Duw nef bob amſer;
12 Os pell yw'r dwyrain oddi hin
oddiwrth orllewin [illegible]

Cyn belled ein holl bechod llym,
  oddiwrthym ef a'i symmud.

13 Ac fel y bydd nawdd, serch, a chwant
  tâd da iw blant naturiol,
Felly cawn serch ein tâd o'r nef,
  os ofnwn ef yn dduwiol.
14 Efe a'n hadwaen ni yn llwyr,
  fe wyr mai llwch yw'n defnydd:
15 Oes dyn fel gwellt-glas sy'n tegau,
  mal dail, neu flodau maesydd.

16 Yr hwn, cyn gynted ac y dêl
  y gwynt a'i awel drosodd,
A chwythir ymaith felly o'i le,
  na wyddis ple y cyfodd.
17 Ond grasslawn drugaredd a fydd,
  yn lân dragywydd feddiant,
O oes i oes heb drangc, heb drai
  gan Dduw i'r rhai a'i hofnant.

18 A'i gyfiawnder i blant y plant
  a gadwant ei gyfammod:
A chofiant ei orchmynion ef,
  mae teyrnas nef yn barod.
19 Yno y mae'i orseddfa ef,
  sef yn y nef tragwyddol:
A llywio y mae ef bob peth,
  drwy ei frenhiniaeth nefol.

20 Bendithiwch chwi yr Arglwydd Iôr,
  angylion, a'i holl gedyrn.
Ei lân orchymmyn ef a wnewch,
  a'i lais gwrandewch yn dechwyrn.
21 Bendithiwch chwi yr Arglwydd Iôr,
  ei luoedd tyner tirion.
Ei wyllys gwnewch, canlynwch wir,
  chwychwi ei gywir weision.

22 Bendithiwch chwi yr Arglwydd nef,
  ei holl waith ef sy hylwydd:
Ymmhob man oll o'i drefn a'i hawl,
  O f'enaid mawl di'r Arglwydd.

Benedic anima. Psal. 104.

Diolch am wneuthuriad, a llywodraeth hyd y byd, drwy ryfedd raglunniaeth Duw.

Fy enaid mola'r Arglwydd byw,
  o f'Arglwydd Dduw y mawredd.
Mawr wyt, gogoniant a gai di,
  ymwisgi ag anrhydedd.
2 Megis ei ddillad, ymwisg fo
  am dano y goleuad:
Rhydd yn ei gylch yr wybr ar daen,
  yn llydan, fel llen wastad.

3 Ar ddeifr rhoes sail ei stafell gain,
  gwnaeth y cymylau iddo
Yn drwn olwynog: mae ei hynt
  uwch esgyll gwynt yn rhodio.
4 Gwnaeth bob chwythad iddo'n gennad,
  gogonedd y ffurfafen:
A'i weinidogion o fflam dân,
  a wibian rhyd yr wybren.

5 Cref y rhoes sail y ddaiar gron,
  fel na syfl hon oddiyno:
Yr hon a bery fel y [illegible],
  o oes i oes, heb [illegible].
6 Tydi (Dduw) a'i dilleddaist hon
  â'r eigion yn [illegible].

Ac oni bai dy ddeheu law,
  ai'r deifr vwchlaw y bryniau.
7 Gan dy gerydd maent hwy yn ffo,
  fel pan y synio taran:
Drwy fraw a brys ar hyd y ddôl,
  y deifr iw hôl a lithran.
8 Weithiau y codai'r deifr yn fryn:
  weithiau fel glyn panhylent,
Lle y trefnaist iddynt bannwl cân,
  ac weithiau y gorphwysent.

9 Gosodaist derfyn lle yr arhont,
  ac fel nad elont drosto:
Ac na ddelont hwy fyth dros lawr
  y ddaiar fawr, iw chuddio.
10 Rhoes Duw ffynnon i bob afon,
  a phawb a yfant beunydd:
A rhed y ffrydiau ar hyd y glynn,
  a rhwng pob bryn a'i gilydd.

11 Yfant yno anifeiliaid maes,
  a'ssynnod mynyg-laes gwylltion,
Heb ymadel a llawr y nant
  hyd onid yfant ddigon.
12 Ac adar awyr dont gar llaw,
  i leisiaw rhwng y coedydd:
Yn canu ei fawl o bren i bren,
  cethlyddiaeth lawen ysydd.

13 Dwfr ar fynyddoedd lle ni ddaw,
  fo wlych â glaw oddiarno:
A'r gwastad tir efe a'i gwlych,
  bob grwn a rhych i ffrwytho.
14 Parodd i'r gwelt dyfu wrth raid
  anifeiliaid: a'r llysiau,
Er da i ddyn: Lle rhoes o'r llawr,
  ymborthiant mawr rhag angau.

15 A gwin llawena calon dyn,
  ag oleu tywyn wyneb.
A bara nerthir calon gwr,
  mewn cyflwr digonoldeb.
16 Preniau'r Arglwydd o sugn llawn,
  o'i unic ddawn y tyfan.
Sef y coed cedrwydd brigog mawr,
  a roes e'n llawr y Liban.

17 Lle y mae nythod yr adar mân,
  mewn preniau glân cadeirir:
Lle mewn ffynnidwydd glwysfrwydd glyn,
  mae ty'r aderyn trwynhir.
18 Y mynydd uchel a'r bryn glas,
  yw llwybr y danas sychedig:
Ogof y doll-graig a wna lês,
  yn lloches i'r cwningod.

19 Fe roes i'r lleuad i chwrs clau,
  a'i chyfnewidiau hefyd:
A'r haul o amgylch y byd crwn
  fo edwyn hwn ei fachlud.
20 Tywyllwch nos a gaed wrth raid,
  i fwystfiliaid y coedydd.
21 Y llewod rhuant am gael maeth
  gan Dduw, ysclyfaeth beunydd.

22 A chwedi cael yr ymborth hyn,
  pan ddel haul, a ffoant ymaith,
Ymgasglant hwy i fynd iw ffau:
  ac iw llochesau eilwaith.
23 Y pryd hwn rhed dyn iw waith,
  ac iw orchwyliaeth [illegible]:

Ac felly yr erys tan yr hwyr,
lle y caiff yn llwyr ei fywyd.

24 O Dduw, mor rhyfedd yw dy waith
o'th synwyr berffaith radlon!
Gwnaethost bob peth â doethder [illegible],
a'r tir sy lawn o'th gyfoeth.
25 A'r llydan for y deifr ymmysg,
lle aml yw pysg [illegible]
Lle yr ymlusgant, rif yr od,
bwystfilod mawr a bychain.

26 Yna yr â y llongau glân
dros y Leuiathan heibio.
Yr hwn a osodaist di, lle y mae
yn cael ei chwarae yntho.
27 Hwynt oll disgwyliant yn ei bryd
am gael oddiwrthyd borthiant:
I gael dy rodd ymgasglu ynghyd,
ie am ei bywyd byddant.

28 Duw, pan agorech di dy law,
oddi yno daw daioni:
Pob anifail a phob rhyw beth,
a ddaw yn ddifeth ini.
29 Pan guddiech di dy wyneb pryd,
a chasglu d'yspryd allan,
Crynant, trengant, ac ant i'w llwch,
mewn diwedd trwch a [illegible],

30 Duw pan ollyngech di dy râd,
fel rhoddi cread newydd,
Y modd hyn wyneb yr holl dir
a adnewyddir beunydd.
31 Yr Arglwydd gogoneddus fydd
drwy fawr lawenydd bythoedd,
Yr Arglwydd yn ddiau a fedd,
orfoledd yn y nefoedd.

32 Ein Duw o'r nef a edrych ar
y ddaiar, a hi a ddychryn.
Os cyffwrdd a'r mynyddoedd draw,
y mwg a ddaw o honyn.
33 Canaf i'r Arglwydd yn fy myw,
canaf i'm Duw tra fyddwyf.
34 Mi a lawenhaf yn fy Iôn,
bydd ffyddlon hyn a wnelwyf.

35 Y trawsion oll o'r tir a ânt hwy,
ni bydd mwy annuwiolion.
Fy enaid, mola Dduw yn rhodd:
mae hyn wrth fodd fy nghalon.

Confitemini Domino. Psal. 105.

Mae fe yn canmol daioni Duw, am ei dewis hwy yn bobl iddo, [illegible] daioni a [illegible] ei addewid.

Clodfored pawb yr Arglwydd nef,
ar ei enw ef y gelwch,
A'i weithredoedd ymmysg bobloedd,
yn gyhoedd a fynegwch.
2 Cenwch ei gerdd, clodforwch hwn,
a'i ddidwn ryfeddodau.
3 Y rhai a gais ei enw, [illegible]
llawenant yn eu calonnau.

4 Ceisiwch yr Arglwydd a'i nerth mawr,
a'i fodd bob awr yn rhadlon,
5 Cofiwch ei holl ryfeddodau,
a barn ei enau cyfion,

6 O hâd Abraham ei was fo,
o feibion Iaco 'r [illegible]
7 Ef yw'n Duw, a'i farn ef sydd
dros holl diriogaeth fydol.

8 Bob amser cofiodd ei [illegible],
ei air, a'i rwym ammodau
9 Ag Abraham, Isaac, a'i hil,
a mil o genedlaethau.
10 Fe roes i Iaco hyn yn ddeddf,
ac yn rwym greddf dragwyddol,
11 Ac i Israel y rhoes lân
wlâd Canaan yn gartrefol.

12 Pan oedd yn anaml iawn eu plaid,
a hwy 'n ddieithriaid ynddi;
13 Ac yn rhodio o'r wlâd i'r llall,
yn dioddef gwall a chyni:
14 Llesteiriodd iddynt gam yn dynn:
o'r achos hyn brenhinoedd
A geryddodd ef yn eu plaid:
a'i air a gaid yn gyhoedd,

15 A'm eneiniog na chyffyrddwch â,
na ddrygwch fy mhrophwydi.
16 Galwodd am newyn ar y tîr,
yn wir dug fara' [illegible].
17 O flaen ei blant y gyrrodd râs,
Ioseph yn wâs a werthwyd.
18 Ar ei draed y rhoed haiarn tynn,
mewn gefyn y [illegible].

19 Gwisgodd y gefyn hyd y [illegible]
nes i air Duw amseru:
Drwy Dduw y cafas ef ryddhâd,
a phrifiad er ei garu.
20 Yna y gyrrwyd i'w gyrchu fo
gar bron hen Pharo frenin:
Ac y gollyngwyd ef ar lled,
o'i gam gaethiwed [illegible].

21 O hyn ei osod ef a wnaeth
yn bennaeth ar ei deulu:
Ac o'i holl gyfoeth ef ar led,
ys da fawr-hâd oedd hynny,
22 I ddysgu, [illegible]
ei wllys a'i fodlondeb:
I ddysgu henuriaid y wlâd
yn wastad mewn doethineb.

23 Daeth Israel i'r Aipht tir Cham,
lle'r oedd yn ddinam [illegible]
24 Lle llwyddodd Duw hil Iaco bach
yn amlach na'i caseion.
25 Yna y troes ei calon hwy,
i lwyr gasau ei bobl ef:
I'w weision ef i wneuthur twyll,
a llid (nid amwyll) [illegible].

26 Duw gyrrodd Moesen ei wâs hen,
ac Aron llen dewisol,
27 Yn nhir Ham i arwyddoccau
ei nerth a'i wrthiau nodol.
28 Rhoes Duw dywyllwch dros y wlâd,
er hyn ni chaid ufudd-dod.
29 Eu dyfroedd oll a droes yn waed,
a lladd a wnaed eu pysgod.

30 I'w tir rhoes lyffaint, heidiau hyll,
yn ystafell ei brenhinoedd.
31 Daeth ar ei air gwybed a llau,
yn holl [illegible].

32 Fel

32 Fe lawiodd arnynt genllyſc mân,
a'i tir â thân a yſodd:
33 Eu gwinwydd a'i ffigyſwydd mâd,
a choed y wlâd a dryllïodd.

34 Ceiliog rhedyn, a lindys brwd,
yn difa cnwd eu meuſydd,
35 Vwchlaw rhif, drwy yd, gwellt, a gwair,
a hyn drwy air Duw ddofydd.
36 Cyntaf-anedig pob pen llwyth,
a'i blaenffrwyth ef a drawodd:
Yn heb mân drwy holl dir ei gâs,
a'i bobl o'i râs a gadwodd:

37 Ac a'i dug hwynt yn rhydd mewn hedd,
o'winedd eu caſeion,
Heb fod o honynt vn yn wân,
ac aur ac arian ddigon.
38 A llawen fu gan wyr y wlad,
o'r Aipht pan gâd eu gwared.
Daeth arnynt arſwyd y llaw greſ
a ddaeth o'r nef i wared.

39 Rhoes Duw y dydd gwmwl vwchben,
fel mantell wen y toddi,
A'r nos goleuodd hwynt â thân,
fal hyn yn llin y twyſodd.
40 Fe a roes iddynt ar y gair
gig ſofli-air iw bodloni;
A bara, o'i orchymmyn ef,
a ddaeth o'r nef iw porthi.

41 Holltodd y graig, daeth deifr yn llif,
fel be baent brif afonydd:
Cerddodd yr hedlif, a rhoes wlych
rhyd pob lle ſych o'r gwledydd.
42 Cofio a wnaeth ei air a'i râs,
i Abrâm ei wâs ffyddlon.
43 A thrwy fawr nerth yn rhydd o gaeth
y gwnaeth ei ddewiſolion.

44 Tir y cenhedloedd iddynt rhoes,
a'i llafur troes iw meddiant:
45 Er cadw ei air a'i gyfraith ef,
rhowch hyd y nef ei foliant.

Confitemini Domino. Pſal. 106.

Y bobl (wedi ei tanu dan Antiochus) yn datcan daioni Duw i'r Iſraeliaid, ac yn dymuno ar Dduw eu caſglu ynghyd, er mwyn ei enw.

Molwch yr Arglwydd, cans da yw,
moliennwch Dduw y llywydd:
O blegid ei drugaredd fry
a bery yn dragywydd.
2 Yr Arglwydd pwy all draethu ei nerth
a'i holl dirionferth foliant?
3 A wnel gyfiawnder gwynion byd,
ei farn i gyd a gadwant.

4 O Arglwydd, cofia fi dy wâs,
yn ôl dy râs i'r eiddod:
Ymwel â mi i'm cyflwdd caeth,
â'th iechydwriaeth barod.
5 Fel y gwelwyf, ac y chwarddwyf,
wych vrddas d'etholiadaeth.
Ac y cydganwyf fawl yn don,
a'th ddewiſolion odiaeth.

6 Pechod, camwedd, ac anwiredd,
gwnaethom gyda'n tadau:
Ef a gaed arnom ormod gwall,
heb ddeall dy fawr wrthiau.
7 Ynghwlâd yr Aipht wrth y môr coch,
yn gyndyn groch amſydd:
Heb gofio amled fu dy râs
haeddaſom atgas gerydd.

8 Etto er mwyn ei enw ei hun,
Duw cun a ddaeth i'n gwared:
I beri i'r byd gydnabod hyn,
ei fod ef cyn gadarned.
9 Y dyfnfor coch a'i ddyfrllyd wlych,
a wnaeth e'n ſych â'i gerydd:
Trwy ddyfnder eigion aent ar frys,
fel mynd rhyd yſtlys mynydd.

10 Fel hyn y dug hwynt trwodd draw,
o ddwylaw eu caſeion:
Ac y tywyſodd ef ei blant
o feddiant eu gelynion.
11 Y deifr a guddiodd yr Aipht ryw,
nid oedd vn byw heb foddi:
12 Yna y credant iw air ef,
a'i gerdd hyd nef, a'i 'n wiſgi.

13 Er hyn, tros gof mewn amſer byrr,
y rhoent ei hybyr wrthiau:
Heb ſefyll wrth air vn Duw Iôr,
na'i gyngor, na'i ammodau.
14 Ond cododd arnynt chwant a blys,
yn nytrys yr anialwch:
Gan demptio Duw â rheibus fol,
ynghanol y diffeithwch.

15 Rhoes iddynt lenwi ei holl fyt,
rhoes an-nhyccianus aflwydd.
16 Lle digient Foſes wrth eu chwant,
ac Aron Sant yr Arglwydd:
17 Egorai 'r ddaiar yn y man,
a llyngcai Ddathan ddybryd,
Ac a gynhullodd i'r vn llam,
holl lu Abiram hefyd.

18 Ac yn ei ddig ennynodd tân,
yn fuan yn eu canol:
Llosgi y rhai'n, eu terfyn fu,
vn vlw, y llu annuwiol.
19 Yn Horeb gwnaethant dawdd-lun llê,
ac iddo ymgrymmaſant:
20 I lun llo a borai wellt mân,
y troeſan eu gogoniant.

21 Anghofient wrthiau Duw ar hynt,
(a fuaſei gynt achubwr.
Ynghwlâd yr Aipht. 22 Môr coch, tir Hâm,)
heb feddwl am eu cyflwr.
23 Dwedodd mai eu difetha wnai
oni bai iw wâs Moeſen
Drwy ſefyll o'i flaen iw lid maith
droi ymaith eu drwg ddilen.

24 Dirmygent hwy y prydferth dir,
ac iw air gwir ni chredent:
25 Ond yn eu pebyll grwgnach trô,
ac arno ni wrandawent.
26 Yno y derchafodd Duw ei law,
iw cwympiaw drwy'r anialwch:
27 Rhyd tiroedd a phobloedd anghu,
iw tanu mewn diſtrywch.

28 A Baal Peor aent ynghyd,
yngredu i gyd ag efo:

Ebyrth y meirwon a fwytaent,
a Duw a roddent heibio.
29 Fal hyn digiaſant i'r Arglwydd Dduw
â chyfryw goeg ddychmygion;
Yntau anfonodd bla 'n eu myſg,
fal dyna derfyſg greulon.

30 Yna cyfododd Phinehes,
mewn cyfiawn wres i ddial;
A phan roes hwn ei farn yn dda,
Duw ar y pla rhoes atal.
31 A chyfrifwyd y weithred hon,
yn weithred gyfion yntho,
O oes, i oes (drwy air Duw Ion)
pan ddelai ſon am dano.

32 Ac wrth lan dwfr Meribbah gynt,
yno 'y cyffroynt gynnen,
Lle 'y digient Dduw a'i craſder ffraeth,
am hyn bu 'n waeth i Foeſen.
33 Wrth gythruddo yſpryd y Sanct,
hwy a baraſant hefyd
Iw enau draethu gair ar fai,
ar na pherthynai 'i ddwedyd.

34 Ni laddent chwaith bobloedd y wlad
wrth archiad Duw y llwoedd,
35 Ond ymgymyſcu â hwynt yn gu,
a dyſgu eu gweithredoedd.
36 Gwaſanaethu eu duwiau gau,
y rhai fu faglau iddyn.
37 Aberthu eu plant, yn fab, yn ferch,
o ferch i'r cythraul culyn.

38 A thywalltaſant wirion waed,
dan draed gau-dduwiau Canaan.
Y tir (wrth aberthu eu plant)
â gwaed llygraſant weithian.
39 Felly o'i gweithredoedd eu hun,
yn vn ymhalogaſant,
Putteinio wrth ei cwrs a'i bryd,
ac felly cyd-lygraſant.

40 Wrthynt enynnodd Duw mewn dig
am hyn â ffyrnig gyffro.
Câs a ffiaidd felly yr aeth
ei etifeddiaeth gantho.
41 O'r achos hyn eu rhoddi a wnaeth
dan bob cedheallaeth gyndyn,
Mewn cyſtwr câs dan eſtron blaid,
a'i câs yn ſeiſiaid arnyn.

42 Eu gelynion aethant yn drom,
a'i llaw fu drom â ffyrnig,
Felly y darostyngwyd hwy,
a mwyfwy fu eu dirmyg.
43 Mynych-waredodd Duw ei blant,
hwy a'i digiaſant ynta,
A'i cwrs eu hun i daeth cyfnod hir
am waith eu henwir [illegible].

44 Pan welai arnynt bîg na thrais,
fo glywai lais eu gweddi,
45 Gan gofio 'i air troi a wnaeth
o'i helaeth fawr ddaioni.
46 A throi yn drugarog a wnaeth,
y gwyr yn gaeth a'i daliynt,
Y rhai y buaſai 'n fawr eu câs
cael mwy cymwynas ganthynt.

47 Achub ninnau o blith y bobl, i
i arwain d'enw hyglod.

[illegible]

O Arglwydd Dduw, gwnell ni'n gu
i orfoleddu ynod.
48 Duw Iſrael bendigaid fydd,
yn dragywydd Jehofah:
A dweded yr holl bobl Amen,
molwch Dduw llen goruchaf.

Confitemini Domino. Pſal. 107.

Dafydd yn cynghori y rhai a gaſglodd, ac a waredodd Duw i ddiolch iddo. Yr hwn (gan fod daioni iſy gyſon) ſydd yn cau ſafn yr enwir.

MOlwch yr Arglwydd, cans da yw,
moliennwch Dduw ein llywydd,
O blegid ei drugaredd fry
a bery yn dragywydd.
2 Y gwaredigion caent fawl,
i Dduw gerdd nodawl gyſon:
Y ſawl a achubwyd, caent hyn
o law y gelyn creulon.

3 A gaſglodd o bedwar-ban byd,
dowch drwy i gyd-ganu.
O dir y dwyrain dowch mewn hedd,
gorllewin, gogledd, deau.
4 Drwy yr anialwch, wyrdraws hynt,
y buaſent gynt yn crwydro.
Allan o'r ffordd: heb dref na llan,
lle caent hwy fan i drigo.

5 Drwy newyn, ſyched bu 'r daith hon,
a'i calon ar lewygu:
6 Ar Dduw y galwent y pryd hyn,
pan oeddyn ymron trengu.
Yna eu gwared hwynt a wnaeth,
o'i holl orthrym-gaeth [illegible].
7 Rhyd yr iawn ffordd fe i dug mewn hedd,
i dref gyfannedd dirion.

8 Addefant hwythau gan ei fawl
ei ſwynion drugareddau:
Ac er plant dynion fal y gwnaeth
yn helaeth ryfeddodau.
9 Ddiwallu hwnnw einioes dyn
rhag newyn a rhag ſyched:
Ac o'i fawr râs yn cadw i gyd,
pan oedd y byd yn galed.

10 Y rhai mewn tywyllwch a drig,
ynghyſgod llewig angau,
Yn rhwym mewn ychydod, ac mewn bâr,
â heyrn ar eu ſodlau.
11 A hyn o herwydd ſiddent ſiod
mewn anufydd-dod eithaf,
A llwyr ddiſtrywgu gair Duw Ior,
a chyngor y Goruchaf.

12 A thrymder calon cympirwyd hwy,
nid oedd neb mwy a'i cododd.
13 Ar Dduw mewn ing y rhoeſant lef,
ac yntef a'i gwaredodd.
14 Ef a'i gwaredodd hwynt o'i drwg,
ſef o dywyllwch [illegible],
O gyſgod angau eu rhyddhau,
a thorri eu rhwymau hefyd.

15 Addefant hwythau gan ei fawl
ei ſwynion drugareddau,
Ac i blant dynion fal y gwnaeth
yn helaeth ryfeddodau.
16 Cans y pyrth pres torrodd yn drylliau
a'r barrau heyrn hefyd.

[illegible]

17 Am eu bai a'i camwedd yn wir,
y poenir y rhai ynfyd.

18 A hwynt yn larn ar bod bwyd,
fe'i dygwyd at byrth angau.
19 Ar Dduw mewn ing y rhoeſant lef,
achubodd ef hwynt hwythau.
20 Gan yrru ei air iw iachau,
ac iw rhyddhau yn fuan,
A hwynt â'i air tynnu a wnaeth
o'i methedigaeth allan.

21 Addefant hwythau gar ei fron,
ei fwynion drugareddau
Ac i blant dynion fel y gwnaeth
yn helaeth ryfeddodau.
22 Aberthant hefyd aberth mawl,
iw ogoneddawl fowredd,
A mynegant ei waith a'i wyrth,
yn ei byrth mewn gorfoledd.

23 Y rhai ânt mewn llongau i'r don,
a'i taith vwch mawrion ddyfroedd,
24 A welſant ryfeddodau'r Iôn,
a hyn mewn eigion moroedd.
25 A'i air cyffroe dymeſtloedd gwynt,
y rhai'n a godynt donnau
26 Hyd awyr fry, hyd eigion llawr,
ac ofn bob awr rhag angau.

27 Gan yſgwyd a phendroi, fal hyn,
dull meddwyn, ſynnai arnynt.
28 Ar Dduw mewn ing y rhoeſant lef,
daeth ef a chymorth iddynt.
29 Gwnaeth e'r yſtorm yn dawel deg,
a'r tonnau 'n oſteg waſtad.
30 Yn llawen ddiſtaw doent i'r lan,
i'r man y bai 'i dymuniad.

31 Cyffeſent hwythau gar ei fron,
ei fwynion drugareddau,
Ac i blant dynion fel y gwnaeth
yn helaeth ryfeddodau.
32 Holl gynulleidfa ei bobl ef,
clod Duw hyd nef dyrchafant:
Holl eiſteddfeydd pennaethiaid hen,
yn llawen a'i moliannant.

33 Y ffrydau'n ddyrys dir a wnai,
fe ſychai ddwfr lle tarddo.
34 A thir ffrwythlawn a wnai 'n ddiffrwyth,
lle trig drwg dylwyth ynddo.
35 Troes yr anialwch yn llyn glas,
a'r tir cras yn ffynhonnydd.
36 Lle y gwnai ef drigfan i'r gwael ddyn,
i dorri ei newyn beunydd.

37 Lle yr heuaſant faeſydd glas,
a llawer gwinllan dyner,
Y rhai a roddant lawnder ffrwyth,
a chnydlwyth yn ei amſer.
38 Cans cynyddaſant hwy gan wlith
graſol fendith yn Nuw Iôn,
A'i hanifeiliaid hysb a blith,
rhoes yr un fendith arnun.

39 Daeth caethder gwedi hyn i gyd,
a drygfyd er eu goſtwng,
Gadawodd eu gorthrymmau a'i plau,
cawſant flinderau teilwng.
40 Eu dirmyg ar y [illegible] troes,
ac ef a'i rhoes i grwydro
Mewn dryſni heb hyd ffordd i'w chael,
lle buant wael eu gortho.

41 Yna rhoes y tlawd i well ſtâd,
dug e'r trueni allan,
Gan lwyddo ei deulu, a'i holl blaid,
fel defaid wrth y gorlan.
42 Y rhai cyfiawn a welant hyn,
a chanthynt bydd yn hyfryd,
A'r enwir cauir ei ddwy en
ar ei gynfigen fowlyd.

43 Pa rai ſy ddoeth i ddeall hyn,
fe roddir iddyn wybod
Faint yw daioni i'r Arglwydd yn',
wrth hyn y cân gydnabod.

paratum cor meum. Pſal. 108.

Dafydd yn clodfori yr Arglwydd i gan ymffrostiaw yn ei addewidion ef, yr hwn yn y diwedd a ddifa y gelynion i'r llawr, yr rhoi i ni ac iddyn dderfodedigaeth yn efengylaidd dros amſer.

PArod yw fy nghalon (o Dduw)
o parod yw fy nghalon,
Canaf yt a datcanaf wawd,
o fawl fy nhafawd ffyddlon.
2 Deffro dafod, a deffro dant,
a chân ogoniant beunydd,
Y nabl ar delyn yn gytun,
deffrof fy hun ar las-ddydd.

3 Mawl ytty i'r Arglwydd, pan ddeffrof,
a rof ymmyſc y bobloedd:
A chlodfori dy enw a wnaf,
lle amlaf y cenhedloedd.
4 Cans cyrhaeddyd y mae dy râs,
hyd yn nheyrnas nefoedd.
A'th wirionedd ei hyd at len
yr wybren a'i therfynoedd.

5 Ymddercha Dduw y nef vwchlaw,
oddiyno daw d'arwyddion.
A bydded dy ogoniant ar
y ddayar a'i thrigolion,
6 Fal y gwareder drwy hon hwyl,
bob rhai o'th anwyl ddynion.
O achub hwynt â'th law ddehau,
a gwrando finnau'n ffyddlon.

7 Yn ei ſancteiddrwydd dwedodd Duw
llawen yw fy nghyfamod,
Mi a rannaf Sichem rhyd y glyn,
meſuraf ddyffryn Succoth.
8 Myfi pian y ddwy dreftad,
ſef Gilead a Manaſſe.
Ac Ephraim yw nerth fy mhen,
a Iuda wen fy neddf-lês.

9 Ym Moab ymolchi a wnaf,
dros Edom taflaf f'eſgid
A chwardded Philiſtia gerch,
ei chwerthin aeth yn rhybudd,
10 Duw pwy a'm dwg i'r ddinas gref?
pwy a'm dwg i dref Edom?
11 Er yt ein gwrthod, pwy ond ti,
o Dduw, a'mleddi droſom?

12 O vaic Dduw, bydd i'n yn borth,
mae'n ofer cymorth vndyn.
13 Yn Nuw y gwnawn wrolaeth fawr,
fe ſathr i lawr ein gelyn.

Deus laudem. Psal. 109.

Dafydd, wedi ei gyhuddo ef ar gam gan wenieithwyr Saul, yn gweddio ar Dduw am help i ddistrio ei elynion.

O Dduw fy moliant i na thaw,
2 cans genau'r annuwiolion,
A'i tafod twyllgar, a'i safn rhwth,
arnaf sy'n bygwth digon.
3 Daethant i'm cylch â geiriau cas,
rhoent ddiflasſen heynad.
4 Fal hyn i'm talent ddrwg dros dda,
5 a chas a gaf am gariad,

Ac fel yr oeddynt hwy fal hyn,
i'm herbyn wedi codi,
Fy wyneb attad ti a droais,
ac arnat rhois fy ngweddi.
6 Bid Sathan ar ei ddeheu law,
i'r swydd y daw yn barod,
7 A phan roer barn, yn euog boed,
a'i weddi troed yn bechod.

8 Bo ei oes yn fer, ac yn ddilwydd,
a'i swydd arall iw chymryd.
9 Poed yn ymddifaid y bo ei blant,
a'i weddw yn fethiant hefyd.
10 A bodd ei blant yn crwydro byd,
i gymryd mân gardodau:
A chwilant hyn rhyd dyrys dir,
lle y bytho hir eu prydiau.

11 Yn rhwyd y ceisiad ei dda syrth,
ei lafur pyrth ddieithriaid:
12 Na ddel iddo nawdd am ei fai,
na chwaith i'w fai ymddifaid.
13 Doed distryw dial ar ei hil,
a'i eppil a ddileer,
14 Am bechodau ei dâd a'i fam
y caiff ef lam ryw amser.

15 A bydded hyn i gyd ger bron
yr Arglwydd [illegible],
Yr hwn a'i torro, fel na bo
mwy gofio [illegible].
16 Erioed ni cheisiodd wneuthur hedd,
na thrugaredd i ddyn gwan,
Ond erlid y tlawd [illegible],
a cheisio lladd y truan.

17 Hoffodd felldith a hi a ddaeth,
ac fel y gwnaeth bid iddo,
Casaodd fendith, hi ni chai,
ond pell yr ai oddiwrtho.
18 Gwisgodd felldith fel dillad gwr,
a daw fal dwr i'w galon,
Fel olew doed iw esgyrn fo,
hyd oni chaffo ddigon.

19 A'r felldith bid iw gylch yn dynn,
fel yn ddilladyn iddo:
A'i gwisgo hi bid iddo 'n dasg,
fel gwregys gwasg am dano.
20 A hyn gan Dduw a gaf yn dâl,
i'r gelyn gwamal enbyd,
A ddweto neu a wnelo gam,
neu niwed am fy mywyd.

21 Dithau Dduw er mwyn d'enw gwna,
herwydd mai da d'ymgeledd:
Gwna dy drugaredd a myfi,
a bryssia di i'm gwared,

22 O herwydd tlawd a rheidus wyf,
a dirfawr glwyf i'm calon,
23 Symudiad cysgod a fai'n ffo,
hyn er ni welo [illegible]

Mor ansefydlog yw fy myd i
a'r mudiad ceiliog rhedyn.
24 Fy nghnawd yn gul, fy ngliniau'n wan
a figlan o dra newyn.
25 Gwarth wyf i'm cas yn fy ngwaeth adfyd,
a hwynt wrth edrych arnaf
A'm diystyrent [illegible],
a than bensiglo attaf.

26 Cymorth di fi Arglwydd fy Nuw,
cadw fi'n fyw â'th nodded:
27 Fel y gwypont mai gwaith dy law,
yw'r lles a ddaw i'm gwared.
28 Melldithiant, nhw ceir iochant hwy:
dod fendith fwy i minnau,
Bid gwarth i'm gwrthwynebwyr cas,
gorfoledd i'th was dithau.

29 A gwarth a gwaradwydd gwisger hwy,
ac fwyfwy y del attynt:
A mantell laes o gywilydd mawr,
gwisg di hyd lawr am danynt.
30 Ond fi, gan ddiolch i'm Iôr mau,
â'm genau moli a ganaf:
Ac a rof glod iw enw ef,
lle bytho'r llu yn amlaf.

31 O herwydd ar ddeheulaw'r tlawd,
y saif ddydd brawd yn gefnog,
I gadw ei enaid ef yn gu,
rhag ei farnu yn euog.

Dixit Dominus. Psal. 110.

Dafydd yn prophwydo am allu a theyrnas Christ, ac am yr offeiriadaeth a [illegible] offeiriadaeth Lefi.

Dwedai'r Arglwydd wrth fy Arglwydd mau,
ar fy llaw ddeau eistedd:
Nes rhoddi'r rhai a gasant dy wedd
yn fainge draed yt, i'th orwedd.
2 'R Arglwydd denfyn ffrewyll dy nerth
o ddinas fawrwerth Seion,
Pan lywodraethech di yn eu mysg,
gwna ddysg ar dy elynion.

3 Yn nydd dy nerth dy bobl a ddaw
ag aberth llaw'n ewyllysgar,
Yn sanctaidd hardd daw'r cynnyrch [illegible]
o wlith y borau hawddgar.
4 Yr Arglwydd tyngodd, ac ni wada,
ti sy'n offeiriad bythol,
Wrth urdd Melchisedech oedd fry,
a bery yn dragwyddol.

5 Yr Arglwydd ar dy ddeheulaw,
brenhinoedd draw a friwa,
Yn nydd ei ddig gwna'n archollion
frenhinoedd cryfion [illegible].
6 Ar y cenedloedd rhodd farn lawn,
a'i gwlad gwna'n llawn [illegible]
A llawer pen dros wledydd [illegible]
a dyrr i lawr yn [illegible].

7 O wir frys i'r ffordd [illegible]
fe yf o'r afon ufel,
A gaiff ar ei ffordd [illegible],
a'r Arglwydd [illegible]

Confitebor

Confitebar tibi. Pſal. 111.

Y mae efe yn y pſalm hon yn diolchy i Dduw am ei aml weithredoedd da i'r eglwys, gan ddangos beth yw iawn ddoethineb a gwybodaeth.

CLodforaf fi fy Arglwydd Ion,
o wyllys calon hollawl,
Mewn cymmanfa gar rhai ſy'n rasawl.
mewn tyrfa gyſon raſawl.
2 Mawr iawn yw gwrthiau'r Arglwydd ni
hyſbys i bawb a'i hoffant.
3 Ei waith a'i iownder pery byth,
a'i wehelyth ogoniant.

4 Yr Arglwydd a wnaeth ei goffau,
am ryfeddodau nerthol:
Can's Arglwydd nawdd-fawr yw i ni,
llawn o dosturi graſol.
5 Ef i bob rhai a'i hofnant ef,
rhydd gyfran gref at fywyd:
Ac yn dragywydd y myn fod
cof o'i gyfammod hefyd.

6 Mynegodd ef iw bobl i gyd,
gadernyd ei weithredoedd:
A rhoddi iddynt hwy a wnaeth
etifeddiaeth y cenhedloedd.
7 Gwirionedd a barn ydyw gwaith
ei ddwy law berffaith efo;
A'i orchymynion ſy ffyddlon iawn,
a da y gwnawn eu gwrando.

8 Y rhai'n ſy gwedi eu ſicrhau,
dros byth yn ddeddfau cyſon:
Gwedi eu gwneuthur hwy mewn hedd,
a thrwy wirionedd vnion.
9 Anfonodd gymmorth iw bobl ef,
cyfammod gref ſafadwy,
A rhoddi hyn: bo iw enw fawl,
ſancteiddiawl ac ofnadwy.

10 Dechreuad pob doethineb ddoeth
i bawb yw ofn yr Arglwydd.
Da yw deall y ſawl a'i gwnai,
a'i ofn a ſai'n dragywydd.

Beatus vir. Pſal. 112.

Mawl dedwyddwch y rhai a ofnant Dduw, A dangos melldith iw ddrwg-wyr ef.

DEdwyddol yw mewn buchedd dda,
y ſawl a ofna'r Arglwydd.
A'i orchymynion anwyl yw,
bydd iddo helynt hylwydd.
2 Ei hâd ſydd nerthol yn y tir,
bendithir holl rhai vnion:
3 Golud a chyfoeth yn ei dy,
tros byth y pery'n gyſon.

4 Yr vnion yn y tywyll cau
caiff ſedd i olau weled:
Yſtyriol, a thoſturiol iawn,
a chyfiawn ſydd ei weithred.
5 Gwr da a ſydd trugarog ſwyn,
rhydd echwyn a chymwynas.
A'i air mewn pwyll a barn a rydd,
a'i weithred ſydd yn addas.

6 Ni ſgogir byth y cyfiawn gwas
ei goffa yn dragywydd:
7 A chalon ddiſigl, ddwys, ddiofn,
a ſail ddofn yn yr Arglwydd.

8 Hwn yn nerth Duw diofnog ſydd,
ac atteg ſydd iw galon:
Hyd oni chaffo drwy lawn wys,
ei wyllys a'i elynion.

9 Rhannodd a rhoes i'r tlawd yn hy,
byth pery ei gyfiownedd,
A chryfder ei gorun yn wir,
dyrchefir mewn gogonedd.
10 Yr anwir edrych, ſromma o ddig,
drwy ffyrnig yſgyrnygiad:
Yr annuwiol a dawdd: tal hyn,
ſydd terfyn eu dymuniad.

Laudate pueri. Pſal. 113.

Cyngor i foli Duw am ei ddaioni iw bobl.


C
Hwi weiſion Duw molwch yr Ion,
Molwch ei enw â llafar don, 2 Bendi-
gaid fytho'i enw ef. 3 O godiad haul
hyd fachlud dydd, Mawr enw yr Ion
moliannus fydd, yn y byd hwn, ac yn y
nef. 4 Derchafodd Duw uwch yr holl
fyd, A'i foliant aeth uwch nef i gyd,
5 pwy ſy gyffelyb i'n Duw ni? Yr hwn a
breſwyl yn y nef, 6 Yr [illegible] hon
darostwng ef, gwyl ef ein cam clyw ef
ein cri,

7 Yr hwn ſy'n codi'r tlawd o'r llwch,
A'r rheidus o'i ddiyſtyrwch,
8 iw goſod uwch pennaethiaid byd.
9 I'r amhlantadwy mae'n rhoi plant,
Hil teg, a thylwyth, a llwyddiant:
am hyn moliennwch Dduw i gyd.
Gogoniant fyth a fytho i'r Tâd,
A bid gogoniant i'r Mab rhad,
i'r Yſpryd glân gogoniant fo:
Megis gynt yn y dechreu yr oedd,
Ac y bydd fyth yn oes oeſoedd:
dwedwn Amen, pawb felly y bo.

In exitu Iſrael. Pſal. 114.

Y mae bywydiaid Iſrael a gareddwyd yn dwyn ar gof i ni ffeinus yw trugaredd Duw iw blant, a maint ſin anniolchgarwch ninnau iddo ef.

Caner hon fel Pſalm 113.

PAn ddaeth Iſrael o'r Aipht faith,
A thy Iaco o eſtron iaith,
2 Iuda oedd ei ſancteiddrwydd ef,
Iſrael oedd benaethiaeth Iôr.
3 Gwelodd hyn a chiliodd y mor,
a throes iw hol Iorddonen gref.
4 Neidiai'r mynyddoedd megis hyrddod,
A'r bryniau mal wyn llamment fyrdd,
cawſant waſtad megis llawr dol.
5 Cilia ſti (o fôr) dywaid yn hawdd?
Tithau Iorddonen lachrudd lawn,
p'am y dadredaiſt dithau'n d'ol?
6 Chwychwi fynyddoedd p'am y ffoech,
Fel hyrddod? a pha'm nad arhoech?
a chwithau fryniau fal wyn mân?
7 Am mawrhaid ofni Duw Iaco.
8 Yr hwn ſy'n troi'r graig yn llyn tro,
a'r calleſtr yn ffynnon ddwfr glân.
Gogoniant fyth, &c. fel yn y Pſalm 113.

Non nobis Domine. Pſal. 115.

Y bobl a orthrymid gan dywyſogion annuwiol, yn addo bod yn ddiolchgar, os Duw a wrandawai ei gweddiau, ac a'i gwaredai hwynt.

NId i ni Arglwydd, nid i ni,
y dodi y gogonedd,
Ond i'th enw dy hun yn hawddgar
er mwyn dy nawdd a'th wirionedd.
2 Pa'm y dwedant am danat ti
y cenedloedd eſtron?
A thrwy watwar hynny yn fwy,
ple'y mae'u Duw hwy yr awron?
3 Sef ein Duw ni mae yn y nef,
lle y gwnaeth ef a fynnodd.
4 Eu delwau hwy, aur, ariannyn',
a dwylo dyn a'i lluniodd.
5 Safn heb dynethu allu lyfaru gair,
y rhai'n ni welan ronyn:
6 Trwyn heb arogl, clustiau ar lled,
heb glywed, y ſydd gennyn.
7 Ac i bob delw y mae dwy law
heb deimlaw, traed heb ſyned:
Mae mwnwgl iddynt heb roi llais,
fal dynion diddais yn hyd.
8 Fel hwythwy yn wy'r rhai a'i gwnaeth,
a'r rhai a gredant iddynt:
Am hyn ni ddylai neb drwy grêd
gael mwy ymddiried ynddynt.

9 O Iſrael, dod ti yn rhwydd
ar yr Arglwydd dy hollfryd,
Ef yw eu nerth a'i dwg i'r lan,
eu porth a'i tarian hefyd.
10 O ty Aron, dod tithau'n rhwydd,
ar yr Arglwydd dy hollfryd:
Ef yw eu nerth a'i dwg i'r lan,
eu porth a'i tarian hefyd.

11 Rhai a ofnwch yr Arglwydd Iôn,
rhowch arno'ch union hollfryd.
Efe yw'r neb a'ch dwg i'r lan,
eich porth a'ch tarian hefyd.
12 Duw nef a'n cofiodd, ac i'n plith
fo roes ei fendith rhadlon:
I dy Iſrael rhydd ei hedd,
ac unwedd i dy Aaron.

13 Sawl a'i hofnant bendithiant ef,
Yr Arglwydd nef cymmolant,
A'i Enw ſanct o'r nef i'r llawr,
bendithied mawr a bychan:
14 Yr Arglwydd arnoch, arnoch chwi,
a wna ddaioni amlach:
Ac a chwanega ar eich plant,
ei fwyniant yn rhyfeddach.

15 Y mae ywch fendith a mawr lwydd
gan y gwir Arglwydd cyfion,
Yr hwn a wnaeth y nefoedd fry,
a'r ddaiar obry yn gyfion.
16 Y nef, ie'r nefoedd uwchlaw,
ſy yn eiddaw Duw yr Iôn:
A'r ddaiar, lle y preſwyliant,
a roes ef i blant dynion.
17 Pwy a folant yr Arglwydd? pwy?
gwn nad hwyntwy y meirwon,
Na'r rhai a ſat i'r bedd yn rhwydd,
lle y mae diſtawrwydd digon.
18 Ond nyni daliwn yn ein oes
fyth fyth fendithio'r Arglwydd.
Molwch yr Arglwydd yn un wedd,
a mawl gylannedd [illegible].

Dilexi quoniam. Pſal. 116.

Diolch Dafydd i Dduw am ei ſerw [illegible] fo ag atto ef, pan oedd Saul yn ei erlid ef yn ſ[illegible] Maon.

DA gennyf wrando'r Arglwydd cu,
ar lais fy llef a'm gweddi:
2 Am iddo fy nghlywed i'n hawddgar,
byth archaf ei nawdd Iôn.
3 Mae maglau angau i'm cylchynu,
ym mron fy uffern i'm hoddiweddu.
Cefais ing. 4 Ond galwaf fy Iôr
i'm hoes, moes dyner gymmorth.

5 Cyfion yw'r Iôn trugarog hefyd,
ein Duw ſy lawn o nodded.
6 Duw a geidw'r gwirion lle
mewn cyni, daeth i'm gwared.
7 O f'enaid dadymchwel o'r lluch,
dyred i'th lonyddwch bellach:
Am i'r Arglwydd fod i'th ddâ,
fal i'th orphwyſa [illegible].

8 O herwydd i Dduw waredd fy enaid
a'm enaid rhag gloes angau,
Fy llygaid rhag llithro i lawr [illegible]
fy'm golwg i rhag dagrau.

9 Yn y fydd hyn o flaen fy Nuw,
ym mysg gwyr byw y rhodiaf.
10 Fel y credais felly y traethais
ar y testyn yma.

11 Yn fy ffrwst dwedais i fal hyn,
mae pob dyn yn gelwyddog.
12 Ond o Dduw, beth a wnaf i ti,
am dy ddaioni [illegible]?
13 Mi a gymeraf, gan roi mawl,
y phiawl iechydwriaeth,
Ac a alwaf, er mwyn fy llwydd,
ar enw yr Arglwydd bennaeth.

14 I'r Arglwydd talaf yn [illegible]
fy addunedau ffyddlon,
Y pryd hyn o flaen ei holl lu,
y modd y bu'n fy [illegible].
15 Marwolaeth ei saint gwerthfawr yw
yngolwg Duw: 16 O ceidwad
Dy wâs, dy wâs wyf, mewn [illegible]
mab dy forwyn [illegible].

16 Dattodaist fy rhwymau yn rhydd,
fy offrwm fydd dy foliant.
17 Enw'r Arglwydd [illegible] o'm co,
i hwnnw bo gogoniant.
18 I'r Arglwydd [illegible] talu'n [illegible]
fy addunedau cyfion.
19 Ynghaer Selem dy [illegible] dyn,
o flaen dy demlu ffyddlone.

Laudate Dominum. Psal. cxvij.

Cynghori y Cenhedloedd i foli Duw, o ran bod yr addewid mor helaeth iddynt hwy, ac i'r Iddewon.

O Cenwch fawl i'r Arglwydd nef,
moliennwch ef genhedloedd,
Molwch ei Enw ef drwy'r byd,
chwithau i gyd bobloedd.
2 Am ei fod [illegible] iawn,
yr Arglwydd llawn trugaredd,
A'i air ef fydd yn parhau byth,
fel ei ddilyth wirionedd.

Confitemini Domino. Psal. cxviij.

Dafydd (wedi i Saul ei erlid ef a cael y frenhiniaeth gan Dduw) yn erchi i bawb o'r sydd [illegible] fyddloniaid.

MOlwch yr Arglwydd, canys da yw,
molianned Duw y llywydd,
O herwydd ei drugaredd ef
fydd yn parhau dragywydd.
2 Dyweded Israel da yw ef,
a'i nawdd o nef yn dragywydd,
3 Dyweded ty Aaron mai da yw,
trugaredd Duw'n dragywydd.

4 Y rhai a'i hofnant ef yn llu,
a ganan yr un gywydd,
Rhon iw drugaredd [illegible]
fef ei bod yn dragywydd.
5 Im hing galwais ar yr Arglwydd da
hawdd gantho fu fy ngwrando,
Ef a'm gollyngodd i yn rhydd
o'i lân dragywydd [illegible].

6 Yr Arglwydd [illegible],
nid [illegible] yn [illegible].

7 Yr Arglwydd sydd ynghyd a mi
er cosbi fy ngelynion.
8 Gwell yw gobeithio yn Nuw cu
nag mewn un dyn a'i [illegible].
9 Gwell yw gobeithio yn yr Ion,
na'r tywysogion pennaf.

10 Doed y cenhedloedd arna'i gyd
a'i bryd ar wneuthur artaith.
Ond yn enw y gwir Arglwydd Naf,
myfi a'i torraf ymaith.
11 Daethant i'm cylch ogylch i'm cau
ac ar berwylau diffaith,
Ond yn enw'r gwir Arglwydd Naf,
myfi a'i torraf ymaith.

12 Daethant i'm cylch fel gwenyn mân
fal diffodd tân mewn goddaith,
Yn enw yr Arglwydd yr wyf fi
yn eu diffoddi ymaith.
13 Fy nghas-ddyn gwthiaist atto'n gryf,
i geisio gennyf syrthio:
Duw am cadwodd, [illegible] fy nghymorth
fy iechyd i'm, ac etto.

15 Am orfoledd Duw y bydd sôn
yn rhai [illegible] duwiol,
Mai'r Arglwydd Dduw a'i law ddehau
a wnaeth y gwyrthiau nerthol.
16 Dehenlaw'r Arglwydd [illegible]
ef a'i derchafodd [illegible],
A dehau law yr Arglwydd nef
a wnaeth rymuster drosom.

17 Nid marw ond byw a wnaf,
mynegaf waith yr Arglwydd.
18 Hwn a'm cospodd, ond ni'm lladdodd
yn hyttrach [illegible] afrwydd.
19 Agorwch [illegible] byrth cyfiawnder,
o'i mewn i Dduw [illegible].
20 Porth yr Arglwydd fal dyma fo,
ânt iddo'n [illegible] cyfiownion.

21 Minnau a'th folaf yn dy dŷ,
o herwydd [illegible],
Yno y canaf nefol glod
yt, am dy fod i'm gwared.
22 Y maen fy ben conglfaen i ni,
a ddarfu i'r seiri ei wrthod.
23 O'r Arglwydd Dduw y [illegible] hyn,
fy gan ddyn yn rhyfeddod.

24 Yr Arglwydd a'i [illegible]
er mawr [illegible],
Yntho cymerwn orfoledd llawn,
ymlawenhawn [illegible].
25 Attolwg Arglwydd y pryd hyn
yr ym yn erfyn [illegible]:
Adolwyn Arglwydd Dduw [illegible]
y pryd hyn [illegible] llwyddiant.

26 Bendigaid yw y sawl a ddêl
yn Enw yr uchel [illegible]:
O dy Dduw bendithiasom chwi
drwy weddi a [illegible].
27 Yr Arglwydd sydd yn Dduw i ni,
rhoes i'n oleuni [illegible]:
Dellwch yr oen a rhowch yn chwyrn
yn rhwym wrth gyrn yr allor.

28 Tydi o Dduw wyt Dduw i mi,
am hyn tydi a folaf.

(Da gwedd it fawl, fy Nuw mau fi)
a thydi a ddyrchafaf.
29 Molwch yr Arglwydd, cans da yw
moliannu Duw y llywydd,
O herwydd ei drugaredd fry,
a bery yn dragywydd.

PSAL. 119.

ALEPH. Beati immaculati. Rhan. 1.

Yn y pſal. 119. y mae y prophwyd yn cammol ac yn mawrhygu cyfraith Dduw, gan ddyſgu i'r ffyddloniaid ymfodloni ynddi, ar air, a myfyrdod: ac yn yr Hebraeg y mae pob 8 wers o'r Pſalm hon yn dechrau ar un llythyren, gan ddechreu yn y llythyren. A. ac felly drwy bob un or 22 mewn trefn.

POb cyfryw ddyn ſydd a'i daith
yn berffaith, mae fe'n ddedwydd.
Y rhai'n fucheddol a rodian
ynghyfraith lân yr Arglwydd.
2 Y rhai i gyd gwynfyd a gânt,
a gadwant ei orchmynion:
Ac ai ceiſiant hwy yn ddi lys,
â holl ewyllys calon.

3 Diau yw nad â y rhai hyn,
i galyn llwybrau gwammal,
4 Ond cadw dy air (a erchaiſt ym)
a dilyn hyn yn ddyfal.
5 Och fi na chawn uniooni'n glau,
fy llwybrau at dy ddeddfod;
6 Byth ni'm gwradwyddid ymodd hwn,
tra cadwn dy gyfammod.

7 Mi a'th glodforaf di er neb,
ac mewn uniondeb calon:
Pan ddyſgwyf adnabod dy farn,
ſy gadarn, ac ſy gyſion.
8 Am dy farn mae fy holl amcan,
dy ddeddfau glân a gadwaf.
Na âd lych fyth fi yn fy nych,
o, tro i edrych arnaf.

BETH. In quo corriget. Rhan. 2.

9 Pa fodd (o Ddw) y ceidw llangc,
ſydd ieuangc, eu holl lwybrau?
Wrth ymgadw yn ol dy air,
pob llwybr a gair yn olau.
10 Dy orchmynion â'm holl galon,
a'i dirgelwch ceiſiais oll,
O lluddias fi ar ofer hynt,
oddiwrthynt at gyfrgoll.

11 I'm calon cuddiais dy air cu,
rhag imi bechu'n d'erbyn:
12 O Arglwydd bendigaid wyt ti,
o dyſg i mi d'orchymmyn.
13 Dy gyfiawn feirn a'r gwir air cu,
a mawl gwefuſau traethais,
14 A'th dyſtiolaethau di i gyd,
uwch holl dda'r byd a hoffais.

15 Dy ddeddf fy myfyr yw a'm dyrch,
dy ffyrdd'r wy'n edrych arnynt.
16 Mor ddirgrif ymy yw dy air,
o'm cof nis cair yn gronyn.

GIMEL. Retribue ſervo tuo. Rhan. 3.

17 Bydd dda i'th wâs, a byw a wnaf
a'th air a gadwa'n berffaith:
18 A'm llygaid egor di ar lled,
i weled rhin dy gyfraith.
19 Dieithr ydwyf fi'n y tir,
dy ddeddf wir na chudd rhagof,
20 O wir awydd i'r gyfraith hon,
mae'n don fy enaid ynof.

21 Curaiſt feilch y daw dy felltith di
i'r rhai ſy'n torri d'eirchion.
22 Tro oddiwrthif fefl ar gais,
cans cedwais dy orchmynion.
23 Er iſwyddogion roi barn gas,
rhoes dy wâs ei fyfyrdod
24 Yn dy ddeddf, hon ſydd ym i gyd
yn gyngor hyfryd ynod.

DALETH. Adhæſit pavimento. Rhan. 4.

25 F'enaid ymron llwch y bedd yw:
o'th air gwna fi'n fyw eilwaith:
26 Mynegais fy ffyrdd clywaiſt fi,
O dyſg i mi dy gyfraith.
27 Pâr i mi ddeall ffordd dy air,
ar hwnnw cair fy myfyr.
28 Gaudſid f'enaid ſu ar dawdd,
a'th air gwnai'n hawdd fi'n bybyr.

29 O'th nawdd oddiwrthif tyn ffyrdd gau
a dyſg y'm ddeddfau crefydd.
30 Dewiſais ffordd gwirionedd, hon
ſydd ger fy mron i beunydd.
31 Glynais wrth dy air o Arglwydd,
o lludd i'w radwydd digllon.
32 Yn dy ddeddfau fy rhedfad ſydd
pan wneych ynrhydd fynghalon.

HE. Legem pone. Rhan. 5.

33 Duw, ffordd dy ddeddfau dyſg i mi.
dros f'einioes hi a gadwaf.
34 O par i'm ddeall y ddeddf hon,
o'm calon mi a'i cyflawnaf.
35 Par i'm fynd llwybr dy ddeddf ar fryn,
hyn yw fy 'wyllys deilwng:
36 A'm calon at dyſtiolaeth dda,
nid at gybydd-dra goſtwng.

37 Tro fi rhag gweled gwagedd gwael,
bywha fi i gael dy ffordd di.
38 Cyflawna d'air â mi dy wâs,
yna caf râs i'th ofni.
39 Ofnais warth, o tro heibio hon,
da yw d'orchmynion tyner.
40 Wele, f'awydd i'th gyfraith yw,
gwna ym fyw o'th gyfiawnder.

VAV. Et veniat ſuper me. Rhan. 6.

41 Arglwydd dod dy drugaredd ym
a hyn o rym d'addewid.
42 Dwy [illegible] d'air rhof atteb crwn
i'm cablwr hwn a'm dilid.
43 O'm genau na ddwg dy air gwir,
i'th farnau hir yw 'ngobaith.
44 Minnau [illegible] cadwaf byth
dy lân [illegible] gyfraith.

45 Mewn [illegible] rhodio a wnaf
a cheiſiaf dy [illegible].

46 A'th dyſtiolaethau rhof ar goedd,
o flaen brenhinoedd cryfion.
47 Heb wradwydd llawen iawn i'm cair
yn d'air, yr hwn a hoffais.
48 Codaf fy nwylo at dy ddeddf
drwy fyfyr, greddf a gredais.

ZAIN. Memor eſto. Rhan. 7.

49 Coſia i'th was dy air a'th raith,
lle y rhoiſ fy ngobaith arno.
50 Yn d'air mae nghyſur i igyd,
yr hwn mae' mywyd yntho.
51 Er gwatwar beilch ni throis ychwaith
oddiwrth dy gyfraith hoyw-bur.
52 Coſias (o Dduw) dy ddeddf erioed,
yn honno rhoed i'm gyſur.

53 Y trowſion a ofnais yn faith,
ſy'n torri'r gyfraith eiddod.
54 O'th ddeddf y cenais gerdd yn hy,
yn nhy fy mhererindod.
55 Coſiais d'enw (fy Iôn) bob nos,
a ſerch i'th ddiddos gyfraith.
56 Ceſais hynny am gadw o'm bron
dy ddeddf: ſef hon ſydd berffaith.

CHETH. Portio mea Dom. Rhan. 8.

57 Ti Arglwydd wyt i mi yn rhan,
ar d'air mae f' amcan innau,
58 Gweddiais am nawdd gar dy fron
o'm calon yn ol d'eiriau.
59 Meddyliais am ffyrdd dy ddeddfau,
a throis fy nghamrau attynt.
60 Dy eirchion ar frys a gedwais,
nid oedais ddim o honynt.

61 Er i draws dorf fy' ſpeiliol,
dy gyfraith ni anghofiais.
62 Gan godi ganol nos yn fuan,
dy farnau a gyffeſais.
63 Cyfaill wyf i'r rhai a'th ofnant,
ac a gadwant dy eiriau.
64 Dy nawdd drwy'r tir ſy lawn i'n myſg,
Duw dyſg i mi dy ddeddfau.

TETH Bonitatem feciſti. Rhan. 9.

65 Arglwydd gwnaethoſt yn dda a'th was,
yn ol dy râs yn addo.
66 Dyſg i'm ddeall dy air yn iawn,
'r wy'n credu'n gyflawn yntho.
67 Cyn fy ngoſtwng euthym ar gam,
yn awr wyf ddiuam eilwaith,
68 Da iawn a graſlawn ydwyt ti,
o dyſg i mi dy gyfraith.

69 Dy air er beilch yn clyttio ffug,
i'm calon orug cadwaf.
70 Breiſion ynt hwy, er hyn myfi,
dy gyfraith di a hoffaf.
71 Fy mlinder maith da iawn i'm fu,
i ddyſgu dy ſtatuſoedd.
72 Gwell fu i'm gyfraith d'enau glân
nag aur ac arian filoedd.

IOD. Manus tuæ fecerunt me. Rhan. 10.

73 A'th ddwylaw gwnaethoſt fi dy hun,
a rhoiſt i'm lun yn berffaith:
O par i'm ddeall dy air di,
a dyſcaf fi dy gyfraith.

74 Y ſawl a'th ofnant gwelant hyn,
bydd llawen genthyn weled,
Am fod fy ngobaith yn dy air,
yr hwn a gair ei glywed.

75 Duw gwn fod dy farnau'n deilwng;
a'm goſtwng i yn ffyddlon:
76 Dod nawdd er cyſur i'm dy was,
o'th ras a'th addewidion.
77 Dod i'm dy nawdd, a byddaf byw,
dy gyfraith yw yn felys.
78 Gwradwydder beilch a'm plyg ar gam,
myfyriaf am d'ewyllys.

79 Y rhai o Dduw a'th ofnant di,
troer y rhei'ni attaf:
A'r rhai adwaenant er cymaeth,
dyſtiolaeth y Goruchaf.
80 Bydded fy nghalon yn berffaith,
yn dy iawn gyfraith Arglwydd,
Fel nas gorchudder yn y byd,
fy wyneb-pryd â gwradwydd.

CAPH. Defecit anima mea. Rhan, 11.

81 Gan ddiſgwyl am dy iechyd di,
mae f' enaid i mewn diffyg
Yn gwilied beunydd wrth dy air,
o Arglwydd cair fi'n ddiddig.
82 Y mae fy llygaid mewn pall ddrych
yn edrych am d'addewyd,
Pa bryd (o Arglwydd, dwedais i)
i'm diddeni a'th iechyd?

83 Cans wyf fel coſtrel mewn mwg caut
coſiais dy eiriau cyſon.
84 Pa hyd yw amſer dy wâs di?
Pa bryd y berni'r trowſion?
15 Cloddiai'r beilchion i'm byllau: hyn
ſy'n erbyn dy gyfreithiau.
86 Gwirionedd yw d'orchmynion di,
cymmorth fi rhag cam faglau.

87 Braidd na'm difent o'r tir ar gais
ond glynais wrth d'orchmynion.
88 Bywha fi Dduw, i gadw'yn glau,
dyſtiolaeth d'enau ffyddlon.

LAMED. In æternum Domine. Rhan. 12.

89 Byth yn y nef y pery d'air.
o Dduw cair dy wirionedd
O oes i oes: ſicrheiſt y tir
na ſiglir mo'i amgylchedd.
90 Safant byth wrth dy farnau di,
maent i ti'n weiſion ufudd.
92 Oni bai fod dy ddeddf yn dda
i'n difa buaſai gyſtudd.

92 A'th orchmynion y bywheiſt fi,
am hyn y rhei'ni a goſiais,
93 Eiddot i wyf, Duw achub fi,
dy ddeddfau di a geiſiais
94 Diſgwyl fy lladd mae'r anwir ſur i
'r wy'n yſtyr dy dyſtiolaeth,
96 Ar bob perffeithrwydd mae terfyn,
ond ar d'orchymmyn helaeth.

MEM. Quomodo dilexi. Rhan. 13.

97 Mor gu (o Arglwydd) gennyf fi,
dy ddeddf di a'th gyfammod

Ac ar y rhai'n o ddydd i ddydd,
y bydd fy holl fyfyrdod.
98 Gwnaethoſt fi â'th orchmynion iach,
yn ddoethach nâ'm gelynion:
Cans gyd â mi yn dragywydd,
y bydd dy holl orchmynion.

99 Gwnaethoſt fi'n ddoethach (o Dduw Ion)
nâ'r athrawon a'm dyſcynt:
Oblegid fy myfyrdod mau,
dy dyſtiolaethau oeddynt.
100 Am gadw o honof dy ddeddf di,
mwy nâ'm rhieni delldais:
101 Rhag dryg-lwybr, fel y cadwn d'air,
fy nhraed ynddiwair cedwais.

102 Rhag dy farnau ni chiliais i,
cans ti a'm dyſgaiſt ynthynt.
103 Mor beraidd gennif d'eiriau iach,
nâ'r mel meluſach ydynt.
104 O Arglwydd â'th orchmynion di,
y gwnaethoſt fi yn bwyllawg:
Am hynny 'r ydwyf yn caſau
pob cyfryw lwybrau geuawg.

NVN. Lucerna pedibus meis. Rhan. 14.

105 Dy air i'm traed i lluſern yw,
a llewych gwiw i'm llwybrau.
106 Tyngais, a chyflowni a wnaf,
y cadwaf dy lân ddeddfau.
107 Cyſtuddiwyd fi'n fawr, Arglwydd da:
bywha fi'n ol d'addewyd:
108 Bodloner di, o Arglwydd mau,
ag offrwm genau diwyd,

A dyſg i'm dy holl farnau draw.
109 F'enaid fy'i'm llaw'n waſtadol:
Am hynny nid anghofiais chwaith,
dy lân gyfraith ſancteiddiol.
110 Yr annuwiolion i'r ffordd fau,
rhoddaſant faglau geirwon:
Ni chyfeiliornais er hyn,
ond dylyn dy orchmynion.

111 Cymrais yn etifeddiaeth lân,
byth weithian dy orchmynion,
O herwydd mai hwyntwy y ſydd,
lawenydd mawr i'm calon.
112 Goſtyngais i fynghalon bur,
i wneuthur drwy orfoledd,
Dy ddeddfau di tra fwy'n y byd,
a hynny hyd y diwedd.

SAMEC. Iniquos odio habui. Rhan. 15.

113 Dychmygion ofer caſeis i,
a'th gyfraith di a hoffais.
114 Lloches a tharian i'm ith gair:
wrth dy air y diſgwyliais.
115 Ciliwch rai drwg oddiwrthifi,
fy Nuw cadwaf ei gyfraith,
116 Cynnal fi â'th air, a byw a wnaf,
ni wridaf am fy ngobaith.

117 O cynnal fi, fy Arglwydd Naf,
a byddaf iach dragywyddol:
Ac yn dy ddeddfau iach y bydd
fy llawenydd gwaſtadol.
118 Sethraiſt, o Arglwydd, yr holl rai
a ai oddiwrth dy ddeddfau:
Am mai oferedd gar dy fron
oedd eu dychmygion hwythau,

119 Difethaiſt holl rai drwg y tir,
fel y dyfethir ſothach.
Am hyn dy dyſtiolaethau di,
a gerais i'n anwylach.
120 O Arglwydd Dduw rhag ofn dy ddig,
fy nghnawd a'm cig a ſynnodd.
Rhag dy farnedigaethau di,
fy yſpryd i a ofnodd.

AIN. Iudicium feci. Rhan. 16.

121 Barn a thrugaredd a wneuthym,
na ddod fi ym caſeion:
122 O Arglwydd, dyſg ddaioni i'th was,
achub Rhag câs y beilchion.
123 Pallai 'n golwg yn diſgwyl llawn
iechyd o'th gyfiawn eiriau.
124 Yn ol trugaredd â'th was gwna,
dyſg imi'n dda dy ddeddfau.

125 Dy was wyf fi, deall i'm dod,
i wybod dy amodau.
126 Madws it (Arglwydd) roddi barn,
torrwyd dy gadarn ddeddfau.
127 Mwy nag aur hoffais dy ddeddf di,
pe rhon a'i goethi yn berffaith.
128 Yn vniawn oll y cyfrifais,
caſeais lwybrau diffaith.

PE. Mirabilia. Rhan. 17.

129 Rhyfedd yw dy dyſtiolaethau,
fy enaid innau a'i cadwodd.
130 Egoriad d'air yn olau y caid,
i weiniaid pwyll a ddyſgodd.
131 Dyheais gan chwant (o Dduw Ion)
i'th lân orchmynion croyw.
132 Edrych di arnaf, megis ar
y rhai a gâr dy enw.

133 Yn ol d'air cyfarwydda 'nhroed,
anwiredd na ddoed arnaf.
134 O gwared fi rhag trawſedd dyn,
a'th orchymmyn a gadwaf;
165 Llewycha d'wyneb ar dy was,
dyſg imi ffas dy ddeddfau.
136 Dagrau o'm golwg lliſo a wnant;
nas cadwant dy gyfreithiau.

TSADE. Iuſtus es Iehoua. Rhan. 18.

137 Cyfiawn ydwyt (o Arglwydd Dduw)
ac vniawn yw dy farnau.
138 Dy dyſtiolaethau yr yn wedd,
ynt mewn gwirionedd hwythau.
139 Fy ſerch i'th air a'm difaodd,
Pan anghofiodd y gelyn.
140 D'ymadrodd purwyd drwy fawr ras,
hoffodd dy wâs d'orchymyn,

141 Nid anghofiais dy gyfraith lân,
er bod yn fychan ſagwedd.
142 Dy gyfiawnder di cyfiawn fydd:
a'th ddeddf di fydd wirionedd.
143 Adfyd ceſais, a chyſtudd maith:
dy gyfraith yw 'nigrifwch.
144 Gwna i'm ddeall cyfiawnder gwiw,
a byddaf fyw mewn heddwch.

KOPH. Toto corde. Rhan. 19.

145 Llefais i'm holl galon, o clyw,
a'th ddeddfau Duw a gadwaf,

146 Arnat i llefais, achub fi,
a'th lwybrau di a rodiaf.
147 Gwaeddais, achubais ſlaen y dydd,
wrth d'air yn vfydd gwiliais.
148 Deffroe fy llygaid ganol nos,
o achos d'air a hoffais.

149 Clyw fi'n ol dy drugaredd dda,
bywha fi'yn ol dy farnau.
150 Arnaf rhai ſceler a neſſant:
troſeddant dy gyfreithiau.
151 Tithau bydd agos, Arglwydd Dduw:
gwirionedd yw d'orchmynion,
152 Gwyddwn fod dy dyſtiolaethau,
gwedi eu ſicrhau yn gryfion.

RESH. Vide humilitatem. Rhan. 20.

153 Gwel fy nghyſtudd, gwared ar gais,
cans cofiais dy gyfreithiau.
154 Dadleu fy nadl, rhyddha fi'n rhodd,
yn ol ymadrodd d'enau.
155 Fordd iechydwriaeth ſydd bell iawn,
oddiwrth anghyfiawn ddynion,
Am nad ydynt yn ceiſio'n glau,
mo lwybr dy ddeddfau vnion.

165 Dy drugaredd Arglwydd aml yw,
gwna i'm fyw'n ol dy farnau.
157 Llawer ſy'm herlid, r'wyf er hyn,
yn dylyn dy lân ddeddfau.
158 Gwelais y traws, a greſyn fu,
iddynt ddirmygu d'eiriau.
159 Hoffais dy ddeddf, bywha fi' Arglwydd,
herwydd dy drugareddau,

160 Dechrau dy air gwirionedd yw,
o Arglwydd Dduw y llywydd:
A'th gyfiawn farnedigaethau,
ſydd yn parhau'n dragywydd.

SCHIN. Principes perſecuti ſunt. Rhan. 21.

161 Y cryf a'r gam f'erlid a wnai,
rhag d'ofn y crynai'nghalon.
162 O blegid d'air wyf lawen iawn,
fel pe cawn dlyſau mowrion.
163 Celwydd ffieidd-dra a gaſais,
a hoffais dy gyfreithiau:
164 Saith waith bob dydd y rhof yt glod,
am fod yn dda dy farnau.

165 Y ſawl a gâr dy air, cânt hedd,
drwg nis goddiwedd mhonyn.
166 Gwiliais Arglwydd wrth dy iechyd,
gan wneuthyd dy orchymmyn.
167 Dy ddeddf cadwodd fy enaid i,
a hi yn fawr a hoffais.
168 Am fod fy llwybrau gar dy fron,
d'orchymynion nid anghofiais.

TAV. Appropinquat deprecatio. Rhan. 22.

169 O'th flaen Arglwydd neſſaed fy nghri,
dyſg imi ddeall d'eiriau,
170 Gwared fi'n ol d'ymadrodd rhâd,
del attad fy ngweddiau.
171 Dy fawl a draetha' ngenau'n wych
pan ddyſgych ym' dy ddeddfau.
172 Datgan fy nhafod d'air yn rhwydd,
herwydd dy gyfiawn' eiriau.

173 Cymhorthed dy law fi ar gais,
Dewiſais dy orchymynion,
174 Cerais dy iechyd, a'th ddeddf ſydd
lawenydd mawr i'm calon.
175 Bo f'enaid byw, a mawl it rhoed:
dy farn boed i'm amddiffyn.
176 Crwydrais fel oen, dy was o cais,
cans cofiais dy orchymmyn.

Ad Dominum. Pſal. 120.

Dafydd wedi dyfod o fyſg yr Arabiaid yn cwyno hyd y bu efe ymyſg y genhedlaeth enwir anghredadwy honno.

I'M ing y gelwais ar f'Arglwydd,
ac ef yn rhwydd a'm clybu.
2 Duw gwared fi rhag tafod gau,
a genau yn bradychu.
3 Dywaid i mi oes les neu fael,
iw gael, oh dafod diſtryw?
4 Geiriau fel llymion ſaethau cawr,
ynghyd a marwawr meryw.

5 Gwae fi aros honof yn llech,
ynghyd â Meſech dwyllgar:
A chyfanneddu a'm gwerſyll,
yn nrhowſion bebyll Cedar.
6 Hir y bu f'enaid i ſut hon
ymyſg caſeion heddwch.
7 Os ſon am lonydd a wnawn i,
rhyfelai rhei'ni 'n 'rhyffiwch.

Levavi oculos. Pſal. 121.

Dangos y dylai y ffyddloniaid ddiſgwyl am gymmorth gan Dduw yn vnic, y modd y mae y Prophwyd yn y pſalm hon.

DIſgwyliaf o'r mynyddoedd draw,
lle y daw i'm help wyllyſgar.
2 Yr Arglwydd rhydd i'm gymmorth gref,
hwn a wnaeth nef a daiar.
3 Dy droed i lithro ef nis gâd,
a'th geidwad ſydd heb huno:
4 Wele, ceidwad Iſrael lân,
heb hun na heppian arno.

5 Ar dy law ddeau mae dy Dduw,
yr Arglwydd yw dy geidwad,
6 Dy lygru ni chaiff haul y dydd,
ar nos nid rhydd i'r lleuad.
7 Yr Ion a'th geidw rhag pob drwg,
a rhag pob cilwg anfad:
8 Cai fynd a dyfod byth yn rhwydd,
yr Arglwydd ſydd dy geidwad.

Lætatus ſum. Pſal. 122.

Dafydd yn ymlawenhau dderfod i Dduw gyflawni yr addewid, a goſod yr Arch yn Sion, gan weddio am gynnyrch yr eglwys.

IDy'r Arglwydd (pan ddwedent) awn,
i'm llawen iawn oedd wrando.
2 Sai'n traed o fewn Caer-Salem byrth,
yr vn ni ſyrth oddiyno.
3 Caerſalem lân ein dinas ni,
ei ſail ſydd ynddi'i hunan;
A'i phobl ſydd ynddi yn gytûn,
a Duw ei hun a'i drigfan.

4 Cans yno y daw y llwythau'nghyd,
yn vnfryd, llwythau'r Arglwydd:
Tyſtiolaeth Iſrael a'i drig-fod,
a chlod iw fawr ſancteiddrwydd.

5 Cans yno cadair y farn ſydd:
eiſteddſod Daſydd yno.
6 Erchwch i'r ddinas hedd a mawl:
a llwydd i'r ſawl a'th garo.

7 O fewn dy gaerau heddwch boed,
i'th lyſoedd doed yr hawddfyd.
8 Er mwyn fy mrodyr mae'r arch hon,
a'm cymydogion hefyd.
9 Ac er mwyn ty'r Arglwydd ein Duw,
hwn ynot yw'n rhagorol:
O achos hyn yr archaf fi,
i ti ddaioni rhadol.

Ad te leuaui. Pſal. 123.

Gweddi y ffyddloniaid, y rhai y mae yr annuwiol, a diyſtyrwyr Duw, yn eu blino.

TVedda'ngolwg at y ne'
(fy Nuw) dy le trigiannol.
2 Fel y try gweiſion eu llygaid
at ddwylo i meiſtraid bydol.
Llygaid llaw-forwyn ar bob tro,
a ddylyn ddwylo'i meiſtres,
Diſgwyliwn arnat (Dduw) 'r vn wedd,
am dy drugaredd gynnes.

3 Dy nawdd Arglwydd, dy nawdd yn rhodd,
dygaſom ormodd dirmig.
4 Gan watwar y tynn a'r balch iawn,
yr ym yn llawn boenedig.

Niſi quia Dominus. Pſal. 124.

Y ffyddloniaid wedi eu gwaredu o'i peryglon, yn cyfaddef nad o'i nerth eu hun, eithr drwy drugaredd Duw y diangaſant.

DYma'r amſer yn ddi ymgel,
gall Iſrael, fynegi,
Yr Arglwydd nef oni bai ei fod,
a'i arfod gydâ nyni.
2 Gydâ ni oni bai ei fod,
pan ddaeth gwrth-drafod dynion:
3 Pan gododd llid i'n, a phoeni,
llyngcaſent ni yn fywion.

4 Y dyfroedd a'n boddaſent ni,
a'n hoes dan gefn lli buan:
5 Chwyddaſent droſom, fel chwydd dwr;
fal dyna gyflwr truan.
6 Bendigaid Ior ei-law a droes:
ac ef ni roes mo honom
Yn yſglyfaeth i'n rhwyge'n frau,
iw gwâg efeilian llymion.

7 Ein henaid aeth yn rhydd o lyn,
fal yr aderyn gwirion,
Rhwyd yr adarwr torri a wnaeth,
a ninnau aeth yn rhyddion.
8 Ein holl gymmorthwy ni, a'n llwydd,
ſy'n nerth yr Arglwydd howddgar,
Yr hwn drwy waith ei ddwylaw ef,
a greawdd nef a daiar.

Qui confidunt. Pſal. 125.

Mae fe yn dangos ſiccr obaith y ffyddloniaid yn eu blinderau, gan ddymuno iddynt lwyddiant: ac i'r rhai anwir ddiſtryw.

SAwl a'mddiriedant yn Nuw Ion,
byddant fel Seion fynydd,
Yr hwn ni ſyfl: a'i ſylwedd fry
a bery yn dragywydd.
2 Fel y ſaif ſail Caerſalem fry,
a'i chylchu mae mynyddoedd:
Felly yr Arglwydd yn gaer ſydd,
dragywydd cylch ei bobloedd.

3 Er na orphywys rhwyſg cledd hir
yr enwir ar gyfiowniaid,
Rhag i'r rhai cyfiawn yſtyn llaw
i deimlaw campau diriaid.
4 O Arglwydd Dduw yn bryſur gwna
i bob dyn da ddaioni;
Sef vnion attad ti yn glau
y bydd calonnau' rhei'ni.

5 Onid y dryg-ddyn Duw a'i gyrr
gydâ gweithwyr anwiredd;
Mewn drwg ymdroes, felly ymdroed,
ar Iſrael boed tangnhefedd.

In conuertendo. Pſal. 126.

Y Pſalm hon ſydd yn dangos ryfeddod fu gwarediad y bobl allan o gaethiwed Babylon, ac mai yr Arglwydd a'i gwnaethei.

PAn ddychwelodd ein gwir Dduw Ion
gaethiwed Seion ſanctaidd;
Mor hyfryd gennym hyn bob vn,
a rhai mewn hun nefolaidd.
2 Nyni fu'n genau yn dda'n gwedd,
gorfoledd ar ein tafod:
3 Ymhlith cenhedloedd dwedynt hyn,
fe wnaeth Duw droſtyn yſtod.

4 Yſtod fawr a wnaeth Duw yn wir,
ein dwyn i'n tir cynnefin
O gaethiwed y gelyn llym,
am hyn yr ym yn chwerthin.
5 O cynnull ein gweddillion ni,
tro adre' rhei'ni eilwaith,
Gan dy lif-ddyfroedd fel y gwlych
y dehau ſych a diffaith.

6 Y rhai ſy'n hau mewn dagrau blin,
hwyntwy dan chwerthin medant:
Felly i' Arglwydd dan droi y byd,
dwg ni i gyd i'r meddiant.
7 Y rhai dan wylo aeth o'r wlâd,
fel tafu hâd rhyd gryniau:
Drwy lawenydd y dont ynghyd,
fel caſglu yd yn dyrrau.

Niſi Dominus. Pſal. 127.

Nad ſynwyr dyn na'i boen, ond trugaredd Duw ſy yn cadw, ac yn dwyn i ben bob peth.

YTy ni adeilado'r Ner,
a'i ofer gwaith y ſaeri:
A'r ddinas hon nis ceidw efo,
ni thyccia gwilio ynthi.
2 Os borau godi, os hun hwyr,
a byw drwy lwyr ofidio,
Ofer i gyd: Duw a rydd hun
i bob rhyw vn a'i caro.

3 Wele, y plant a roir iddyn,
hiliogaeth yw i'r Arglwydd:
Ac o'i rodd ef daw ffrwyth y bru,
iw magu mewn ſancteiddrwydd.

4 Fel gwr cryf, ple bynnag y daw,
ac yn ei law ei ſaethau:
Plant yr ieuengctyd felly y maen
yn barch o flaen y tadau.

5 Sawl honynt ſydd a'i gwiſc yn llawn,
mae'n ddedwydd iawn ei foddion;
Hwy nis gwradwyddir pan ddel man
i'mddiddan a'r gelynion.

Beati omnes. Pſal. 128.

Dangos daioni y rhai priodol a ofno'r Arglwydd, ac addewid o fendithion Duw i'r rhai a fo byw yn ol ei orchymynion ef yn y lân ſtad honno.

A Ofno'r Arglwydd gwyn ei fyd,
a rhodiaw rhyd ei lwybrau,
2 Bwytty o ennill gwaith dy law,
a blith y daw i tithau.
3 Dy wraig ar du'r tŷ dy 'is nen,
fel pêr winwydden ffrwythlon,
Dy blant ynghylch dy fwrdd a fydd
fel olewydd planhigion:

4 Wele, fal dyma'r modd yn wir
bendithir y gwr cyfion,
A ofno'r Arglwydd Duw yn ddwys,
a rhodd arno bwys ei galon.
5 Cei gyflawn fendith gan Dduw Ion,
hyd i orthau Seion ddedwydd,
Fel y gwelych â golau dêm,
Gaerſalem mewn llawenydd

Holl ddyddiau d'einioes. 6 Plant dy blant,
cei weled llwyddiant iddynt,
Ac ar holl deulu Iſrael,
daw hedd diogel arnynt.

Sæpe expugnauerunt. Pſal. 129.

Cynghori y mae i'r eglwys ymlawenhau, er bod erlidwyr ym mhob oes. Duw a'i gweryd hi, ac a ſathr ei chaſeion.

LLawer gwaith ceſais gyſtudd mawr,
Iſrael yn awr dyweded,
O'm hieuengctyd hyd yr awr hon,
fe wyr fy mron eu trymed.
2 A llawer gwaith y ceſais lid,
o'm gwan ieuengctid allan,
A blin gyſtudd ar lawer tro,
ac etto ni'm gorſuan'.

3 Yr arddwyr arddent y cefn man,
drwy rwygo cwyſau hirion:
4 Y cyfion Ner torrodd yn fan,
blethiddau'r annuwiolion.
5 Pa rai bynnag a roeſent gâs
ar degwch dinas Seion,
Gwradwydder hwynt, cilient i'w hol,
y rhai annuwiol creulon.

6 Byddant fel y glâs wellt a fal
ar bennau tai yn tyfu,
Yr hwn ſydd cyn y tynner fo,
yn gwywo, ac yn methu.
7 Ni leinw'r medelwr ei law,
ni chair o honaw ronyn;
I'r caſclwr nis tâl ddim mo'i droi,
na'i drin, na'i roi mewn rhwymyn;

8 Fel na bai byth gwiw gan y rhai
a dramwyai heibio,
Ddwedyd vnwaith, Duw a ro llwydd,
neu'r, Arglwydd a'ch bendithio.

De profundis. Pſal. 130.

Gweddi am drugaredd a maddeuant o'n pechodeu, ac o'r diwedd am gael ein gwaredu o bob drwg.

O'R dyfnder gelwais arnat Ion,
2 O Arglwydd tirion goſtwng
Dy glust, yſtyria y llais man,
clyw fy ngweddiau teilwng.
3 Duw, pwy a ſaif yn d'wyneb di,
os creln ar anwiredd?
4 Ond fel i'th ofner di yn iawn,
yr wyd yn llawn trugaredd.

5 Diſgwyliais i'r Arglwydd, wrth fy rhaid,
diſgwyliodd fy enaid arno.
Rhois fy holl obaith yn ei air,
5 f'enaid a gair yn effro.
Ac am yr Arglwydd gwilio'y bydd,
fwy nâ gwiliedydd dilri,
A edrych blygain bob pen awr,
a welo'r wawr yn codi.

7 Vn wedd diſgwylied Iſrael,
yn ddirgel am yr Arglwydd,
Cans mae nawdd gydâ'r Arglwydd nêſ,
mae yntho ef rywiowgrwydd.
Ei drugareddau ſânt ar lled,
fe rydd ymwared im.
8 Fe weryd Iſrael: fal hyn,
fo'i tyn o'i holl ddrygioni.

Domine non eſt. Pſal. 131.

Dafydd yn ymwrthod â balchder gar bron Duw.

YN fynghalon ni bu ſalch chwydd,
o Arglwydd, na dim tynder,
Ni chodais chwaith drahaus wg
i'm golwg o dra vchder.
2 Ac ni rodiais yma a thraw,
i dreiglaw pethau mowrion;
Ni ſauwl chwiliais am wybod
rhyfeddod a dirgelion.

3 Goſtyngais f'enaid i mewn pryd,
fel pan ddiddyfnyd herlod:
Fy enaid ſydd fel vn a ſu
gwedi ei ddiddyfnu'n barod.
4 Ond diſgwylied ty Iſrael
wrth wir Imanuel beunydd,
Sef wrth yr Arglwydd o'r pryd hyn,
heb derfyn yn dragywydd.

Memento Domine. Pſal. 132.

Y ffyddlon yn ymddiried i addewidion Duw. Dafydd yn dymuno ar Dduw ſicrhau yr vnrhyw.

O Cofia Ddafydd, fy Nuw Nêr,
a'i holl wrth-ſinder hefyd;
2 Pa lw adduned a roes fo
i Dduw Iaco, gan ddwedyd,
3 Nid af o fewn pabell fy nhy,
a'm gwely mwy nis dringaf;
4 Ni roddaf i'm dau lygad hun,
amrantun chwaith ni chyſgaf:

5 Nes caffwyf gyfle yn ddi run,
i Arglwydd grymus Iaco.

6 Wele

6 Wele'n Ephrata clywſom fod
lle o breſwylfod iddo.
Cawſom hi ym meuſydd y coed.
7 pawb doed iw bebyll tirion.
Awn, ymgrymwn, pawb vfyddhaed,
wrth ei faingc draed yn vnion.

8 F'arglwydd, cyfod i'th eſmwyth lys,
a'th arch o rymmus fowredd.
9 Gwiſged d'offeiriaid gyfion fraint,
gwiſged dy Sainct wirionedd.
10 Er mwyn Dafydd dy ffyddlon wâs,
na thyn dy ras yn lladiog:
Ac na wrthneba di er neb,
mo wyneb dy enneiniog.

11 I Ddafydd rhoes yr Ion lw gwir,
a chedwir hwn heb wyredd;
O ffrwyth dy gorph rhoſ ar dy faingc,
yt iraidd gaingc i eiſtedd.
12 Fy neddfau a'm cyfammod i,
dy feibion di os cadwant;
O blant i blant o gaingc i gaingc
hwy ar dy faingc a farnant.

13 Cans fy Arglwydd, o ferch a bodd,
a rag-ddewiſodd Seion:
I drigo ynthi rhoes ei fryd,
gan ddwedyd geiriau tirion;
14 Hon fyth fydd fy ngorphwyſfa i,
o hoffder ynthi trigaf.
15 Bendithiaf hi â bwyd di ball,
a'i thlawd diwall o fara.

16 Ag iechydwriaeth, medd Duw naf,
y gwiſgaf ei heglwyſwyr,
A rhoddaf yngenau pob Sanct
o'i mewn, ogoniant pſallwyr.
17 Paraf hyn oll, ac felly y bydd,
corn Dafydd yn goronog:
Felly darperais, gan fy mhwyll,
brif ganwyll i'm eneiniog.

18 Am ei elynion, o bob parth,
y gwiſcaf warth a gwradwydd,
Paraf hefyd iw goron fo
flodeuo: medd yr Arglwydd.

Ecce quam. Pſal. 133.

Clod cariad brawdol, a'i gyffelybu i'r olew yn y 30. pen. o Exodus.

WEle, fod brodyr yn byw 'nghyd,
mor dda, mor hyfryd ydoedd
2 Tebyg i olew o fawr werth,
mor brydferth ar y gwiſgoedd:
Fel pe diſcynnai draw o'r nen,
rhyd barf a phen offeiriad,
Sef barf Aron a'i wiſg i gyd,
yn hyfryd ei arogliad.

3 Fel pe diſcynnai gwlith Hermon
yn do dros Seion fynydd,
Lle rhwymodd Duw fywyd, a gwlith
ei fendith, yn dragywydd.

Ecce nunc. Pſal. 134.

Cyngor i offeiriaid y Deml i glodfori yr Arglwydd.

WEle, holl weiſion Arglwydd nef,
bendithiwch ef, lle yr ydych
Yn ſefyll yn nhy Dduw y nos,
a'i gyntedd diddos treſn-wych.
2 Dercheſwch chwi eich dwylo glân
yn ei gyſſegr lân annedd:
A bendithiwch â chalon rwydd,
yr Arglwydd yn gyfannedd.

3 Yr Arglwydd, a'i ddeheulaw gref,
hwn a wnaeth nef a daiar,
A rotho ei fendith a'i ras
i Seion ddinas howddgar.

Laudate nomen. Pſal. 135.

Cyngor i'r ffyddloniaid i foli yr Arglwydd am ei ddaioni yn gwaradwyddo addolwyr eilunod.

O Molwch enw'r Arglwydd nef,
ei weiſion ef moliennwch,
2 Y rhai a ſaif iw dy a'i byrth,
i'n Duw a'i fawrwyrth cenwch.
3 Molwch yr Arglwydd, cans da yw,
clod i'r Ior byw a berthyn:
Cenwch ei glod drwy yr holl fyd,
a hyfryd yw y deſtyn.

4 Oblegid yr Arglwydd, a'i nawdd,
ef a etholawdd Iaco,
Ac Iſrael, iw myſg y trig,
yn deulu vnic iddo.
5 Cans mawr yw'r Arglwydd yn ei lys,
mi a wn yn hysbys hynny:
Ym mhell vwchlaw'r holl dduwiau mân,
mae'r Arglwydd glân a'i allu.

6 Hyn oll a fynnodd a wnaeth ef,
yn vchder nef eithafon
Ar ddaiar, ac yn y mor cau,
a holl ddyfnderau'r digion.
7 O eithaf daiar cyfyd tarth,
daw'r mellt o bob parth hwythau,
Ac oer dymeſtloedd, glaw, a gwynt,
a godynt o'i dryſorau.

8 Yn nhir yr Aipht dynion, a da,
â llawer pla y trawodd,
Cyntaf-anedig o bob vn,
â'i law ei hun a laddodd.
9 I'th ganol di, o Aipht greulon,
rhoes Duw arwyddion rhyfedd,
Ar Pharo a'i holl weiſion i gyd:
dug drwy'r holl fyd orfoledd.

10 O nerth ei fraich efe a wnaeth
lawer cenhedlaeth feirwon:
A lladdodd lawer yr vn wedd
o ben brenhinedd cryfion.
11 Sef o'r Amoriaid Sehon fawr,
ac Og, y cawr o Baſan:
A'r vn ddinyſtriad arnynt aeth,
a holl frenhiniaeth Canan,

12 A'i holl diroedd hwyntwy i gyd,
gyd â'i holl fywyd bydol,
I Iſrael i roi a wnaeth
yn etifeddiaeth nerthol.
13 Dy Enw (o Arglwydd) a'th nerth cry,
a bery yn dragywydd,
Ac o genedl i genedl aeth
dy goffadwriaeth lywydd,

14 Cans ar ei bobl y rhydd ef farn,
yr Arglwydd cadarn cyfion.

Ac yn ei holl lywodraeth hun,
bydd deſtur wrth ei weiſion.
15 Y delwau oll, gwaith dwylaw yn,
a dyfais dyn anffyddlon;
O aur ac arian dyn a'i gwnaeth,
o hil cenhedlaeth weigion,

16 O waith dyn, genau rhwth y ſydd,
heb ddim llyferydd iddyn:
Ac mae llun llygaid mawr ar lled,
a'r rhai'n heb weled gronyn.
17 Dwy gluſt dynion ſydd i bob vn,
heb glywed mymryn etto,
Eu ſafn yn ehang, ac ni chaid
na chwyth, nag enaid yntho.

18 Yn ſodd a'r delwau ſydd y rhai
a'i gwnelai hwynt â'i dwylo,
Ac nid yw well na'r rhai'n yr vn,
ynthyn a ymddirietto.
19 Ty Iſrael na choeliwch chwi,
ty Aron: Lefi vfydd,
20 I'r rhai'n ddim, ond i'r Arglwydd nef,
bendithiwch e'n dragywydd.

21 Bendithier ſyth mawr Enw 'r Ion,
o Seion hen a barchem,
Bendithier moler ei enw fo,
ſy'n trigo ynghaer Selem.

Confitemini. Pſal. 136.

Mawr ddiolch i Dduw am wneuthur a llywodraethu pob peth.

MOlwch yr Arglwydd, cans da yw,
moliennwch Dduw y llywydd,
Cans ei drugaredd oddi fry,
a bery yn dragywydd.
2 Molwch chwi Dduw y duwiau'n rhwydd;
3 ac Arglwydd yr arglwyddi,
4 Hwn vnic a wnaeth wrthiau mawr,
drwy ei ddirfawr ddaioni:

5 Gwnaeth â'i ddoethineb nef wchben,
6 a'r ddaiaren a'r dyfredd,
Y rhai yw prif ſylwedd y byd,
ac i gyd o'i drugaredd.

Molwch yr Arglwydd (cans da yw)
moliennwch Dduw y llywydd,
Cans ei drugaredd oddi fry,
a bery yn dragywydd.

7 R' hwn a wnaeth oleuadau mawr,
o'r nef hyd lawr a'i fowredd.
8 Haul y dydd, 9 â'r lleuad y nos,
i ddangos ei drugaredd.
10 'Rhwn a drawodd yr Aipht iw ddig,
a'r blaen-anedig ynthi,
11 Ac a ddug Iſrael i'r daith,
ac ymmaith o'i holl gyni.

12 A hyn drwy law gref a braich hir,
o rym ei wir ogonedd:
13 A hollti'r mor coch yn ddwy ran,
o anian ei drugaredd.
14 Dug Iſrael i'r lan yn wych,
fel dyna ddrych gorfoledd:
15 Yſcyttiau Pharo, a'i holl lu,
a hyn a fu'i drugaredd.

Molwch yr Arglwydd (cans da yw)
moliennwch &c.

16 A dwyn ei bobloedd yn ddichwys,
drwy wledydd dyrys anian:
17 Taro brenhinoedd er eu mwyn,
ac felly eu dwyn hwy allan.
18 Lladd llawer brenin cadarn llon,
19 ſef Sehon yr Amoriaid:
20 Ac Og o Baſan yn vn wedd,
o'i fawr drugaredd dibaid,

21 A'i holl diroedd hwyntwy i gyd,
eu rhoi yn fywyd bydol
22 I Iſrael ei wâs a wnaeth,
yn etifeddiaeth nerthol.

Molwch yr Arglwydd (cans da yw)
moliennwch. &c.

23 Hwn i'n cyſtudd a'n cofiodd ni,
o'i fawr ddaioni tirion.
24 Ac a'n hachubodd yn ddi ſwrth
oddiwrth ein holl elynion.
25 Yr hwn a ymbyrth bob rhyw gnawd,
yn ddidlawd o'i drugaredd.
26 Clodforwch Dduw brenin y nef,
rhowch iddo ef ogonedd.

27 Molwch Arglwydd yr arglwyddi,
vwchben pob rhi o fowredd,
Duw'r duwiau, Ior vwchben pob Ion,
a ffynnon y drugaredd.

28 *Molwch yr Arglwydd (cans da yw)*
moliennwch Dduw y llywydd, &c.

Super flumina. Pſal 137.

Yr Iſraeliaid yn eu caethiwed (wrth glywed y Chaldeaid yn cablu Duw) ſydd yn dymuno ar Dduw goſbi yr Edomiaid, y rhai a baraſent i wyr Babel greuloni wrthynt a phrophwydoliaeth am ddiniſtr Babel.

PAn oeddym gaeth yn Babilon,
ar lan prif afon groyw,
Mewn coffadwriaeth am Seion,
hidlaſom ddagrau'n loyw.
2 Rhoddaſom ein telynau 'nghrog,
ar goed canghennog irion,
Lle yr oedd prennau helyg plan,
o ddeutu glann yr afon.

3 Y rhai a'n dug i garchar caeth,
ini yn ffraeth gofynnen,
A ni'n bruddion, gerdd i Seion,
ſywaith peth nis gallen.
4 O Dduw pa fodd y canai neb,
(rhoem atteb yn yſtyriol)
I chwi o gerdd ein Harglwydd Dâd,
a ni mewn gwlad eſtronol?

5 Os â Caerſalem or cof mau,
anghofied dehau gany;
6 Na throed fy nhafod, oni bydd,
hi'n ben llawenydd ymy.
7 Cofia di Dduw, blant Edom lemm,
yn nydd Caerſalem hawddgar:
Noethwch dynoethwch (meddei rhai'n)
ei mur a'i main i'r ddaiar.

8 Bydd gwyn eu byd i'r ſawl a wnel
iti, merch Babel rydoſt,
Yr vnrhyw feſur, gan dy blan,
i ninnau fel y gwnaethoſt.

9 Y ſawl

9 Y ſawl a gymro dy blant di,
bo'r rhei'ni fendigedig,
Ac a darawo'r eppil tau,
a'i pennau wrth y cerrig.

Confitemur tibi. Pſal. 138.

Dafydd yn canmol daioni Duw tuag atto ef, ac yn gweled drwy ei ffydd y cai ef gymaint daioni gan Dduw rhag llaw, ac o'r blaen.

RHof fawrglod iti, fy Nuw Ion,
o ddyfnder calon canaf:
Yngwydd holl Angylion y nef,
â'm heflef i'th foliannaf.
2 Ymgrymmaf tua'th ſanctaidd dy,
dan ganu o'th drugaredd,
A'th enw mawr uwchlaw pob peth,
a'th air diſeth wirionedd.

3 Y dydd y gelwais arnat ti,
gwrandewaiſt fi yn fuan:
Yno y nerthaiſt â chref blaid,
fy enaid i oedd egwan.
4 Doed brenhinoedd y ddaiar hon,
a rhoen yt vnion foliant:
Addolent oll ein gwir-dduw ni,
cans d'eiriau di a glywſant.

5 Yn ffyrdd yr Arglwydd yr yn wedd,
ac am ei fawredd canant:
Gan ddangos drwy'r holl fyd ei fraint,
a maint yw ei ogoniant.
6 Vchel yw'r Ion, etto fe wel
yr vfydd iſel ddynion:
A gwel o hirbell, er eu plau,
y beilch a'r gwarrau ſythion.

7 Pe bai yn gyfyng arna'r byd,
ti a'm bywheyd eilwaith:
Gan eſtyn llaw i ddwyn dy wâs
oddiwrth rai atcas ymaith.
8 Yr Arglwydd a gyflawna â mi,
Duw dy ddaioni rhag llaw,
Ac yn dragywydd imi dod:
na wrthod waith dy ddwylaw.

Domine probaſti. Pſal. 139.

Dafydd er mwyn ei lanhau ei hun, yn dangos nad oes dim yn guddiedig rhag Duw: a thrwy ddangos ei ferch tuag at Dduw, y mae efe yn ymroi i fod yn elyn i'r rhai a wrthwynebant Dduw.

ARglwydd, manwl y chwiliaiſt fi,
da i'm adwaeni hefyd:
2 Eiſteddiad, codiad, gwyddoſt hyn,
a'm meddwl cyn ei ddwedyd.
3 Yr wyd ynghylch fy lloches i,
a'm ffyrdd ſydd itti'n hysbys:
4 Nid oes air nas gwyddoſt ei fod
ar flaen fy nhafod ofnoga.

5 O'm hôl ac o'm blaen i'm lluniaiſt,
dy law a ddodaiſt arnaf:
6 Gwybodaeth ddieithr yw i mi,
a'i deall hi nis medraf.
7 I ba le r'af fi i roi tro,
i'mguddio rhag dy Yſpryd?
I ba le ffoaf rhag dy wydd,
drwy gael ffordd rwydd i lithryd?

8 Os dringaf tua'r nefoedd fry,
wyd yno i'th dy berffaith;
Os tua'r dyfnder, golwng tro
yr wyd ti yno eilwaith.
9 Pe cawn adenydd boreu wawr,
â mynd i for mawr anial,
10 Yno byddai dy ddehau di,
i'm tywys i a'm cynnal.

11 A phe meddyliwn, yr ail tro,
ymguddio mewn tywyllwg,
Canol y nos fel hanner dydd,
mor olau ſydd yn d'olwg.
12 Nid dim tywyllach nos i ti
nag yw goleuni haf-ddydd;
A'r ddau i ti maent yr vn ddull,
y tywyll a'r goleu-ddydd.

13 Da y gwyddoſt y dirgelwch mau,
f'arennau a feddiennaiſt,
Ynghroth fy mam pan oeddwn i,
yno dydi a'm cuddiaiſt.
14 Cans rhyfedd iawn y gwnaethbwyd fi;
a'th waith di ſy ryfeddod,
A'm henaid a wyr hynny'n ddâ:
a hon a wna yt fawrglod:

15 Ni chuddiwyd fy ngrym rhagot ti,
pan wnaethoſt fi yn ddirgel,
Fel llunio dyn o'r ddaiar hon,
o fewn pridd eigion iſel.
16 Dy lygaid gwelſant fy nhrefn wael,
cyn imi gael perffeith-lun:
'Roedd pob peth yn dy lyfr yn llawn,
cyn bod yn iawn vn gronyn.

17 Mor anwyl dy feddyliau ym,
mor fawr yw ſum y rhei'ni:
18 Wrth fwrw, amlach gwn eu bod
nâ'r tywod o rifedi.
Myfyrio pan ddeffrowyf fi,
'r wyf gyd â thi yn gwblol.
19 O Dduw, ba achos yn dy lid,
na leddid yr annuwiol?

O Dduw pe coſpid rhai o'r rhai'n
y ſydd yn arwain traha,
Wrth y gwaedlyd fe gaid dwedyd:
dydi dos oddiymma.
20 Y rhai am danad f'Arglwydd cu,
ſy'n treuthu pethau ſceler,
A'th elynion dibris eu llw,
cymraſant d'enw'n ofer.

21 Ond câs yw gennif, o Dduw Ion,
dy holl gaſeion gwaedlyd?
Ond ffiaidd gennif fi bob dyn,
a ai yn d'erbyn hefyd?
22 A llawn gâs y caſeais hwynt,
ynt fel ar bwynt gelynion.
23 O chwilia fi o Dduw yn hy.
cei hynny yn fynghalon.

Duw prawf fy meddwl i'n fy môl,
24 Oes ffordd annuwiol genny;
Gwel fi, tywys, dwg fi yn f'ol,
dod ffordd dragwyddol ymy.

Eripe Domine. Pſal. 140.

Dafydd yn achwyn wrth Dduw rhag dichellion ei elynion: a chan ei ſicrhau ei hun o gymorth Duw, mae efe yn annog y cyfion i foli Duw ei helpwr.

RHag y gwr drwg gwared fi (Nêr,)
rhag gwr y trowſder efrydd,
2 Rhai ſy'n bradychu yn ddirgel,
a chaſglu rhyfel beunydd.
3 Fel colyn ſarph yn llithrig wau,
yw eu tafodau llymion:
Gwenwyn yr Aſp ſydd yn parhau
dan eu gwefuſau creulon.

4 Rhag y dyn drwg, rhag y gwr traws,
ſy'n myſyr lliaws faglau,
Duw gwared fi, rhag goſod brâd,
ynghylch fy ngwaſtad lwybrau.
5 Y beilch cuddiaſant fagl a rhwyd,
wrth hon goſodwyd tannau,
Ar draws fy ffyrdd i ddal fy'm hoed,
ynghudd, y rhoed llinynnau.

6 Dwedais wrth f'Arglwydd fy Nuw wyd,
tyn fi o'i rhwyd a'i maglau:
O gwrando'n fuan f'Arglwydd nef,
ar brudd lef fy ngweddiau.
7 Fy Arglwydd yw fy nerth i gyd,
a'm coel a'm iechyd calon;
Ti a roiſt gudd tros fy mhen mau,
yn nydd yr arfau gloywon.

8 I'r dyn annuwiol, Duw, na âd
ddymuniad drwg ei 'wyllys;
Rhag ei wneuthur efo yn gry,
a'i fyned yn rhy drahaus.
9 A'i holl ddymuniad drwg i mi,
a'i rhegen weddi greulon,
Y rhai'n yn llwyr a ddont ymmhen
y capten o'm caſeion.

10 Syrthied arnynt y marwor tân,
ac felly lloſgan ymaith,
Bwrier hwynt mewn cau ffoſydd nant,
fel na chyfodant eilwaith.
11 Dyn llawn ſiarad ſydd anwaſtad,
ni eiſtedd ef yn gryno:
A drwg a ymlid y gwr traws,
o hyn mae'n haws ei gwympo.

12 Da y gwn y rhydd yr Arglwydd dâl
i ddial cam y truan;
Ac yr iawn farna y dyn tlawd
ſy'n byw ar gerdawd fechan.
13 Y rhai-cyfiawn drwy yr holl fyd,
dy enw a gyd-folianant,
A'r holl rai union, heb ofn neb,
o flaen dy wyneb trigant.

Domine clamavi. Pſal. 141.

Dafydd pan oedd Saul yn ei erlid, yn dymuno help gan Dduw: a dioddefgarwch, nes paſſio 'r erlid hwnnw.

O Bryſsia Arglwydd, clyw fy llais,
o bryſur gelwais arnad;
O'r man lle y bwyf gwrando fy llef,
a doed i'r nef hyd attad.
2 Fy ngweddi gar dy fron a ddaw,
gan godi dwylaw'n vchel,
Yn arogl darth ac aberth hwyr,
fel vnion ddiwyr lefel.

3 O Arglwydd goſod, rhag gair ffraeth,
gadwriaeth ar fy ngenau,
Rhag i'm gam-ddwedyd, goſod ddôr
ar gyfor fy ngwefuſau,

4 Na phwyſa 'nghalon at ddrwg beth,
ynghyd-bleth a'r annuwiol:
Nag mewn cydſwriad gwaith neu wedd,
rhag twyll eu gwledd ddaintethol.

5 Boed coſp a cherydd y cyfiawn,
fel olew gwerthlawn arnaf;
Ni friw fy mhen, ba mwyaf fo,
mwy troſto a weddiaf.
6 Eu barnwyr pe bwrid i'r llawr,
ar greigiau dirfawr dyrys:
Gwrandawent ar fymadrodd i,
a chlywent hi yn felys.

Fel darnau cynnyd o goed mân,
a ſwrian ſrhyd y ddaiar,
Mae'n heſgyrn ninnau yr vn wedd,
ym mron y bedd ar waſgar.
8 Mae 'ngolwg a'm holl obaith i,
Duw, arnat ti dy hunan:
Duw bydd di'n vnic yn fy mhlaid,
na fwrw f'enaid allan,

9 Cadw fi Arglwydd rhag y rhwyd,
hon a oſodwyd ymy,
Teml yr annuwiol, hoenyn main,
rhag ofn i'r rhai'n fy magly.
10 Yr anwireddwyr b'ado vn
cwympant eu hun iw rhwydau,
Ymddiried ynot ti a wnaf,
ac felly diangaf innau,

Voce mea. Pſal. 142.

Dafydd, er nag ofn na dig, yn arbed Saul, ac yn gweddio ar Dduw ei geidwad.

RHois weddi ar yr Arglwydd nef,
yn llym fy llef ymbiliais;
2 A'm holl ſyſyrdod gair ei fron,
o'm calon y tywelltais.
3 Ond pan fynegais it fy nghur,
a'm dolur o'm meddyliau,
Da gwyddit ti bob ffordd a'r man,
y rhoeſan i mi faglau.

4 O'r tu deau nid oedd ym' neb,
i'own f'wyneb, a'm hadwaenai,
Na nawdd, na neb, o ddyn y byd,
fy mywyd a 'mgeleddai.
5 Arnad llefais, wrthyt dwedais,
Duw, di a ydwyd vnion:
Fynghwbl obaith wyt ti yn wir,
a'm rhan yn nhir y bywion,

6 O yſtyr Arglwydd, faint fy nghri,
wyf mewn trueni digllon:
Rhag fy erlidwyr gwared fi,
mae rhei'ni yn rhy gryfion.
7 O garchar caeth fy enaid tyun,
dy enw am hyn a folaf:
Pan weler dy fod ar fy rhan,
y cyfion twyſgan attaf.

Domine exaudi. Pſal. 143.

Gweddi am faddeuant pechodau. Dymuno cael ei dderbyn i drugaredd, a chael Yſpryd Duw iw gadw hyd diwedd ei fywyd.

ERglyw fy arch, o Arglwydd mâd,
wyf arnad yn gweddio:
O'th wirionedd, a'th gyfiawnedd,
goſynnaf yt fy ngwrando,

2 Ac na ddos â'r farn â'th wâs gwael,
(pa les i'm gael cyfiownder?)
Am nad oes dyn byw gar dy fron
yn gyfion pan ei teimler.

3 Y gelyn a erlidiodd f'oes,
mewn llwch i'm rhoes i orwedd:
Fal y rhai meirwon a farw hir,
is tywyll dir a'i hannedd.
4 Yna fy yſbryd, mewn blin ing,
a fu mewn cyfing-gyngor:
5 Ac ar fy nghalon drom daeth braw:
ond wrth fyfyriaw rhagor,

Mi a gofiais y dyddiau gynt,
a helynt gwaith dy ddwylo,
Am hyn myfyrais, fy Nuw Nâf,
am hyn myfyriaf etto.
6 Fy nwylaw attad rhois ar led,
lle y mae f'ymddiried vnig,
Am danad f'enaid ſydd yn wir,
yn wedd â'r tir ſychedig.

7 Yn ebrwydd gwrando fi yn rhodd,
o Arglwydd, pallodd f'yſpryd:
Rhag im fyned i'r pwll du,
fel rhai a ddarfu eu bywyd.
8 Par i'm ar frys glywed dy nawdd,
cans ynot hawdd y credais:
A dyſg i'm rodio dy ffyrdd rhâd,
cans f'enaid attad codais.

9 A gwared fi fy Nuw, a'm Ion,
rhag fy ngelynion aſtrys,
Am fod fy lloches gydâ thi?
10 O dyſg i mi d'ewyllys:
Cans tydi ydwyt y Duw mau,
boed d'Yſpryd tau i'm tywys
Ar yr vniondeb yn y tir,
dyna dy wir ewyllys.

11 Duw, er mwyn d'enw fi bywhâ,
a helpa f'enaid tyner,
Allan o ing Duw cais ei ddwyn,
ac er mwyn dy gyfiownder.
12 A gwna ar yr elynol blaid,
caſeion f'enaid, gerydd:
Diſetha hwynt er mwyn dy râs,
cans mi wyf dy was vſydd.

Benedictus Dominus. Pſal. 144.

Daſydd yn moli Duw am iddo ynnill ei dyrnas, ac y mae fe yn dymuno eu tâl i'r annuwiol: ac yn dangos beth yw happuſ rwydd cenedl.

BEendigaid f'or Arglwydd fy nerth,
mor brydferth yr athrawa
Fy nwylo' i ymladd, a'r vn wedd,
fy myſedd i ryfela.
2 Fy nawdd, fy nerth, fy nug, fy nghred,
fy nhwr, f'ymwared vnig:
Cans trwyddo ef fy mhobl a gaf
tanaf yn oſtyngedig.

3 Pa beth yw dyn, dywaid o Dduw,
pan fyddyt iw gydnabod?
A mab dyn pa beth ydyw fo,
pan fych o hono'n darbod?
4 Pa beth yw dyn? peth yr vn wedd
a gwagedd heb ddim hono;
A'i ddyddiau'n cerdded ar y rhod,
fal cyſgod yn mynd heibio,

5 Goſtwng y nefoedd, Arglwydd da,
ac edrych draha dynion:
Duw cyffwrdd a'r mynyddoedd fry,
gwna iddynt fygu digon.
6 Iw gwaſgar hwynt gyrr fellt i wan,
iw lladd gyrr ſaethau enbaid.
7 Diſcyn, tyn fi o'r dyfroedd mawr:
hyn yw, o law'r eſtroniaid

Duw gwared fi. 8 Geneuau 'rhai'n
a fydd yn arwain gwegi,
A'i dehau law ſy yr vn bwyll,
ddeheulaw twyll, a chregni.
9 I ti Dduw, canaf o fawrhad,
yn llafar ganiad newydd,
Ar nabl, ac ar y degtant,
cei gerdd o foliant beunydd.

10 Duw i frenhinoedd rhoi a wnaeth
ei ſwccraeth a'i iawn reol:
Dan ymwared Dafydd ei was,
rhag cleddyf cas niweidiol.
11 Duw gwared, achub fi wrth raid,
rhag plant eſtroniaid digus,
A'i ſafn yn llawn o ffalſder gau,
a'i dehau yn dwyllodrus.

12 Bydd ein meibion mal planwydd ir,
o'r bon yn tyfu'n iraidd:
A'n merched ni fel cerrig nadd,
mewn conglau neuadd ſanctaidd.
13 A'n conglau'n llawnion o bob peth,
a'n defaid, difeth gynnydd,
Yn filoedd (mawr yw'r llwyddiant hwn)
a myrddiwn i'n heolydd.

14 A'n hychen cryſion dan y wedd,
yn hywedd, ac yn llonydd:
Heb dorr na fortant i'n mysg ni,
na gweiddi i'n heolydd.
15 Dedwydd ydyw y bobl y ſy
a phob peth felly ganthynt:
Bendigaid yw'r bobl y rhai'n yw,
a'r Arglwydd yn Dduw iddynt.

Exaltabo te. Pſal. 145.

Dafydd yn dangos daioni Duw yn llywodraethu pob creadur. Mawl i Dduw am ei gyfiownder, ai ras, ai ſerch i bob dyn ai ceiſio, ac a'i caro.

MI a'th fawrygaf di, fy Nuw,
cans tydi yw fy llywydd:
Bendithio dy enw byth a wnaf,
mi a'i molaf yn dragywydd.
2 Dy enw a folaf fi bob dydd,
a'th glod a fydd heb orphen.
3 Yr Arglwydd ſydd glodfawr heb ſwedd,
a'i fowredd ſydd heb ddiben.

4 Cenedl wrth genedl a rônt fawl
i'th ogoneddawl weithiau,
Gan dana dy nerth rhyd y byd,
a dwedyd dy gymmeddſau.
5 Am dy ogonedd mawr, fy Nâf,
mynegaf, a'th gadernyd.
6 Son am dy bethau ofnadwy,
gwnant hwy a minnau helyd.

7 Llwyr goffadwriaeth honot ti,
a'th fawr ddaioni traethant;

Ac o'th gyfiawnder, fy Naw Ion,
a llafar don y canant:
8 Sef graſlawn yw ein Arglwydd ni,
ac o doſturi rhyfedd:
Hwyr ac anniben yw i ddig:
llawn frydig i drugaredd.

9 Da yw yr Arglwydd i bob dyn,
a'i nodded ſy'n dycciannol:
Ac ar ei holl weithredoedd ef
daw nawdd o'r nef yn raſol.
10 Dy holl weithredoedd di i'th lwydd,
o Arglwydd a'th glodforant:
Dy wyrth pan welo dy Sainct di,
y rhei'ni a'th fendithiant:

11 Gan ſon am drugaredd a grâs
dy dyrnas, a'i chadernyd:
Fal dyna'r gerdd ſydd yn parhau,
yn eu genenau hyfryd.
12 Fel y parent drwy hyfryd glod,
gydnabod â'th dyrnaſiad,
A'th nerth yn myſg holl ddynol blant,
a'th lawn ogoniant gwaſtad.

13 Brenhiniaeth dy dyrnas di fry,
a bery yn waſtadol,
A'th lywodraeth o oed i oed,
hon a roed yn dragwyddol.
14 Yr Arglwydd cynnal ef yn llon,
y rhai ſy 'mron eu cwympod.
Ac ef a gyfyd bawb yn wir,
ar a oſtyngir iſod.

15 Wele, mae llygaid yr holl fyd
yn diſgwyl wrthyd Arglwydd,
Dithau a'i porthi hwynt i gyd,
bawb yn ei bryd yn ebrwydd.
16 A phan agorech di dy law,
o honi daw diwall-faeth:
D'ewyllys da yw ymborth byw,
a hynny yw eu llyniaeth.

17 Holl ffyrdd yr Arglwydd cyfion ynt,
a'i wrthiau ydynt ſanctaidd:
18 Agos iawn i bawb ydyw fo,
a eilw arno'n buraidd,
19 Sef ar y gwyr a'i hofnant ef,
fo glyw eu llef iw gwared,
Fe rydd eu 'wyllys hwynt a'i harch,
o'i wir-barch, Ion gogoned.

20 Pob dyn a garo'r Arglwydd nef,
caiff gantho ef ei 'mddiffyn:
A chan ddifetha rhydd oes ferr,
i bob yſceler cyndyn.
21 Fy enaid traetho fendith rhwydd,
a mawl yr Arglwydd nefol:
A phob cnawd rhoed iw enw, y Sanct,
ogoniant yn dragwyddol.

Lauda anima mea. Pſal. 146.

Na all neb ymddiried i ddyn, ond yn Nuw hollalluog, yr hwn a weryd y cyſtuddiedig, a borth y tlodion, a ryddha y carcharorion, a gyſura yr ymddifad, y weddw, a'r dieithr: ac ſydd Frenin yn dragywydd.

FY enaid mola'r Arglwydd nef,
2 Mi a'i molaf ef i'm bywyd:
Dangoſaf glod i'm Harglwydd Dduw,
tra gallwyf fyw na ſymmud.
3 Na wnewch hyder ar dywyſogion,
nac ar blant dynion bydol:
Am nad oes ynthynt hwy i gyd,
na help nac iechyd nerthol.

4 Pan el y ffun o'r genau gwael,
a'r corph i gael daiar-lan;
Felly dychwyl, fel dyna'r dydd
y derfydd ei holl amcan.
5 Y pryd hwn gwyn ei fyd efo
a rotho ei holl obaith
Ar Dduw Iaco yn gymorth da,
pan el oddi yma ymaith.

6 Hwn Dduw a wnaeth nef, daiar, môr,
a'r holl yſtor ſydd ynthynt:
Hwn a ſaif yn ei wir ei hun,
pryd na bo vn o honynt.
7 Yr Hwn i'r gwael a rydd farn ddal
a bara i'r newynllyd,
Fe ollwng Duw y rheidus gwâr,
o'i garchar ac o'i gaethfyd.

8 Yr Arglwydd egyr lygaid dall,
ef a dyr wall gwael ddynion:
Ymgleddu'r gwan mae'n Harglwydd ni,
a hoffi y rhai cyfion.
9 Dieithraid, a'r ymddifad gwan,
a'r weddw druan vnig,
Duw a'i pyrth: ond dyryſu wnai
holl ffyrdd pob rhai cythreulig.

10 Yr Arglwydd yn teyrnaſu a fydd,
dy Dduw tragywydd Seion:
O oes i oes pery dy lwydd:
molwch yr Arglwydd tirion.

Laudate Dominum. Pſal. 147.

Mae'r prophwyd yn moli amryw ddaioni Duw tuag at ei greaduriaid, ac yn enwedig at ei Eglwys, yr hon a gaſclwyd, ac a gafas ragor ddaioni rhagor vn bobl eraill.

MOlwch yr Arglwydd, cans da yw
canu i Dduw yn llafar:
O herwydd hyfryd yw ei glod,
a da yw bod yn ddiolchgar.
2 Caerſalem dinas gyflawn fydd,
yr Arglwydd ſydd iw darpar:
Gan gaſglu Iſrael ynghyd,
a fu drwy'r byd ar waſgar.

3 Yr vnic Arglwydd ſy'n iachâu,
yn rhydd o friwiau'r galon;
Yr Arglwydd rhwym 'eu briwiau'n iawn
y rhai dolur-lawn cleifion.
4 Yr Arglwydd ſydd yn rhifo'r ſer,
a phob rhyw nifer honynt:
Ef a'i geilw hwynt oll yn glan,
wrth briod enwau eiddynt.

5 Mawr yw ein Arglwydd ni o nerth,
a phrydferth o raſoldeb,
Ac mae'n bell iawn vwch ben pob rhif,
ſon am ei brif ddoethineb.
6 Yr Arglwydd vnic ſydd yn dal
i gynnal y rhai gweiniaid,
Ac ef a oſtwng hyd y llawr
y dorf fawr annuwiolaid.

7 Cenwch i'r Arglwydd mal y gwedd,
clodforedd iddo a berthyn;

O chwch,

O cenwch, cenwch gerdd i'n Duw,
da ydyw gydâ'r delyn.
8 Hwn â chymylau toes y nen,
â glaw'r ddayaren gwlychodd:
I wellt gwnaeth dyfu ar y fron,
a llyſiau'i ddynion parodd.

9 Hwn i'r anifail ar y bryn
a rydd yr hyn a'i portho;
Fe bortha gywion y cigfrain,
pan fon yn llefain arno.
10 Nid oes gantho mewn grym vn march,
na ſerch, na pharch, na phleſer:
Nac mewn eſgair, neu forddwyd gwr,
fal dyna gyflwr ofer.

11 Yr Arglwydd rhoes ei ſerch ar ddyn,
yr hwn y ſy'n ei [illegible]:
Ac ſydd yn diſgwyl cael ei nawdd,
caiff hwn yn hawdd ddaioni.
12 O Caerſalem gyflawn o lwydd,
molianna'r Arglwydd eiddod:
O Seion ſanctaidd, dod vn wedd
i'th Dduw glodforedd barod:

13 Herwydd yr Arglwydd â'i fawr wyrth
a wnaeth dy byrth yn gryfion:
A rhoes ei fendith, a thycciant,
ymlhith dy blant a'th wyrion.
14 Hwn a roes heddwch yn dy fro,
fel y cynnyddo llwyddiant,
Ac a ddiwallodd yn eich plith,
o fraſder gwenith, borthiant.

15 Ei orchymmyn ef a ddenfyn,
o'i ddowa-fawr air cymheſur,
Hwn ar y ddaiar â ar led,
ac yno rhed yn bryſur.
16 Eirch i'r eira ddiſgyn fel gwlân:
eirch rew, fe'i tân fel lludw,
17 Eirch ia, fe ddaw yn defyll cri:
pwy'erys oerni hwnnw?

18 Wrth ei air eilwaith ar ei hynt,
fe bair i'r gwynt ochneidio
I doddi'r rhai'n, ac felly bydd
i'r holl afonydd lifo.
19 Grym ei air, a'i ddehaulaw gref,
a ddengys ef i Iaco,
A'i ffyrdd a'i farnj Iſrael,
a'r rhai a ddel o hono.

20 Ni wnaeth efe yn y dull hwn
â neb rhyw naſiwn arall:
Ni wyddent farnau'r Arglwydd nef.
O molwch ef yn ddiball.

Laudate Dominum. Pſal. 148.

Mae efe yn annog pob creadur, o bob lle i foli Duw, yn enwedig am ei ddaioni i Iſrael.

O Molwch yr Arglwydd o'r nef,
rhowch lef i'r vchel-leoedd.
2 Molwch hwn holl angylion nef,
molwch ef ei holl luoedd.
3 Yr haul, a'r lleuad, a'r holl ſer,
y gloywder, a'r goleuni.
4 Nef y nefoedd, a'r ffurfafen,
a'r deifr vwch ben y rhei'ni.

5 Moliannant enw'r Arglwydd nef,
hwynt â'i air ef a wnaethbwyd.
Dwedodd y gair, a hwy fel hyn
ar ei orchymmyn crewyd.
6 Rhoes reol iddynt i barhau,
fel deddfau byth iw dilyn:
Rhoes bob peth yn ei le'n ddi oes,
nad elo dros ei derfyn.

7 Molwch yr Arglwydd o'r ddaiar,
chwychwi yſtrywgar ddreigiau,
8 Y tân, a'r cenllyſg, eira, a tharth,
a'r gwynt o bob parth yntau,
9 Mynyddoedd, brynian, ffrwythlon wydd,
a'r tirion gedrwydd brigog,
10 Anifeiliaid, ac ymluſgiaid maes,
ac adar llaes aſgellog,

11 Brenhinoedd daiar, barnwyr byd,
ſwyddwyr ynghyd â'r bobloedd,
12 Gwyr ieuainc, gwyryfon, gwyr hen,
pob bachgen ym mhob oeſoedd.
13 Molant ei enw ef ynghyd,
vchel a hyfryd ydoedd,
Ei enw ef ſydd vchel ar
y ddaiar oll, a'r nefoedd.

14 Cans corn ei bobl a dderchafawdd,
yn fawl a nawdd i'r eiddo,
I Iſrael ei etholedig,
a drig yn agos atto.

Cantate Domino. Pſal. 149.

Cyngor i'r eglwys i foli Duw am oruchafiaeth y Sainct.

CEnwch i'r Arglwydd, ac iawn fydd,
ryw ganiad newydd rhyfedd:
A chlywer ynghynulleidfa'r Sainct,
ei fawr fraint a'i orfoledd.
2 Boed Iſrael lawen a ffraeth,
yn Nuw a'i gwnaeth yn ddibrin:
A byddant hyfryd blant Seion,
yn Nuw eu tirion frenin.

3 Molant ei Enw ar y bibell,
a thympanell, a thelyn:
4 Cans bodlon iw bobl yw i gyd,
rhydd iechyd i'r lledneiſ-ddyn.
5 Iw Sainct ef doed gorfoledd iawn,
a hon yn llawn gogoniant,
Yn eu gwelau, (yn llawen ddull)
ac yn eu ſefyll canant.

6 Yn eu genau bydd cerdd bob awr,
ein Duw a'i fawr ryfeddod,
Ac yn eu dwylaw bydd iw drin
y cleddyf deufin parod:
7 Ar eſtroniaid i'n dial ni,
ac i goſb boeni'r bobloedd:
8 I roi mewn caethder gadwyn dro,
i rwymo ei brenhinoedd.

I roi eu pendefigion chwyrn,
mewn gefyn heyrn ffyrnig.
9 I wneuthur arnynt [illegible] farn
yn gadarn ſcrifenedig.
Dyma'r glân ardderchowgrwydd fydd
iw Sainct y ſydd yn credu:
Clodforwch oll yr Arglwydd nef,
O molwch ef am hynny.

Laudate Dominum. Pſal. 150.

Mae yn annog i foli Duw yn ddibaid a phob cerdd, am ei weithredoedd mawrion.

MOlwch Dduw yn ei gyſſegr lân,
ſef ei ffurfafen nerthol.
2 Molwch ef jw gadernid llym,
ac amlder grym rhagorol.
3 Ar lais vdcorn rhowch y mawl hyn,
ar nabl, telyn, Tympan.
4 Molwch chwi ef â llawn glod glân,
a thannau, pibell, organ.
5 Ar y ſymbalau molwch ef,
ar rhai'n â'i llef yn ſein gar:
O molwch ef â molant clau,
ar y Symbalau llafar.
6 Holl bethau (molent vndaw byth)
ſydd ynthynt cwyth y bywyd.
Rhoent gyd-gerdd foliant i barhau:
clod-forwn ninnau heſyd.

*Gogonedd a fytho i'r Tad,
i'r Mab rhad a'r glân Yſpryd:
Mal y bu, y mae, ac y bydd
yn Duw tragywydd hyfryd.*

Catrin Davis hir book and
he that steleth her book shall
bee hanged [illegible] a [illegible]

Terfyn Pſalmau Dafydd.

TABL I DDANGOS PA LE y ceir pob vn or Pſalmau, wrth eu dechreuad a'i rhifedi.

A

Achub fi Dduw y gwr a'm gwnaeth. Pſal. 69
Addewais gadw'ngenau'n gu. 39
Ai'r yniondeb, o bobloedd wych. 58
A ofno 'r Argl. gwyn ei fyd. 128
Argl. clyw'ngweddi yn ddiball. 5
Argl. manwl y chwiliaiſt fi. 139
Attad Iôn fy nerth, y rhof lef. 28

B

Barn fi o Dduw, a chlyw fy llais. 26
Barn fi o Dduw, a dadleu'n dyn. 43
Bendigaid fo'r Argl. fy nerth. 144
Bum yn dyfal ddiſgwyl fy Nêr. 40

C

Cadw fi Dduw, cans rhois fy mhwy. 16
Cenwch, a churwch ddwylo'nghyd. 47
Cenwch i'r Argl. ac iawn fydd. 149
Cenwch i'r Argl. newydd gân. 98
Clodforaf fi fy Argl. Iôn. Pſal. 111
Clodfored pawb yr Argl. nef. 105
Clodforwn di dragwyddol Dduw. 75
Clyw di fugail i Iſrael. 80
Clywſam â'n cluſtiau o Dduw cu. 44
Credaf i'r Argl. yn ddinam. 11
Chwi weiſion Duw molwch ef. 113

D

Da gennyf wrando o'r Argl. nef. 116
Dangos fy Nuw, fy Nuw a'm gryn. 22
Datcanaf drugaredd a barn. 101
Datcan y nefoedd fowredd Duw. 19
Da wyd i'th dir Iehofah Nêr. 85
Dedwyddol yw uniawn buchedd dda. 119
Diolchaf fi â'm calon rwydd. 34
Diſgwyliaf o'r mynyddoedd. 121
Duw, buoſt i'n yn Arglwydd da. 90
Duw, dod i'r brenin farn o'r nef. 72
Duw, dy nawdd ym'rhag marwol ddyn. 56
Duw fy nghyfiawnder clywaiſt fi. 4
Duw pryſura i'm gwared [illegible] 70
Duw y Duwiau yr Arglwydd [illegible] 50
Duw yn dy enw cadw fi [illegible] 54
Dwedai'r Arglwydd wrth fy Arglwydd mau. 110
Dwedai yr ynfyd wrtho'i [illegible] 53
Dy Babell di mor hyfryd yw. 84
Dyma'r amſer yn ddiymgel [illegible] 124
Dy râs, dy nawdd, fy Nuw [illegible] 57
Dywed i mi pa ddyn a drig. Pſal. 15

E

Erglyw fy arch o Arglwydd mâd.
Erglyw o Dduw, fy llefain I.

F

F'Arglwydd derchefais f'enaid i.
F'Arglwydd, mi a'th fawrygaf di.
Fy Arglwydd, na cherydda fi.
Fe ddwedai'r ynfyd nad oes Duw. Pſal. 14
F'enaid mawl Sant Duw yr Iôn.
Fy enaid mola 'r Arglwydd byw.
Fy enaid mola 'r Arglwydd nef.
Fy llais at Dduw, pan roddais lef.
Fy mhobl i gyd gwrandewch fy neddf.
Fy Nuw gwareda fi rhag brad.
Fy unig Dduw ydyw fy mhlaid.

G

Gobaitha nerth i'n yw Duw hael.
Goſtwng o Arglwydd y gluſt [illegible]
Gwrandawed fi yr Arglwydd nef.
Gwrandewch chwi y bobloedd i gyd.
Gwyn ei fyd yr [illegible]

H

Holl fawrwyr byd mae Duw'n [illegible] Pſal.

I

I Dy'r Arglwydd pan ddwedent [illegible]
I'm ing y gelwais ar f'Arglwydd.
I'r Arglwydd cenwch lafar glod.
I ti o Dduw, y gweddai mawl.

L

Lawer [illegible] o Dduw, a ddaeth.
Llawer gwaith cefais gyſtudd.

M

Mawr ei enw'n ninas ein Duw.
Mi a'm ddiriedais ynod Nêr.
Mi a'th fawrygaf di fy Nuw.
Moliannu'r Arglwydd da iawn yw.
Molwch Dduw yn ei gyſegr.
Molwch yr Arglwydd mae da yw.
[illegible]
[illegible]

N

NA [illegible]
Na [illegible]
Nid [illegible] Arglwydd [illegible]

[illegible]

R

Rhag y rhai drwg gwared fi Nêr. 140
Rhoi clod mawrglod i ti fy Nêr Iôn. [illegible]
Rhois weddi ar yr Argl. nef. 142
Rhowch i'r Arglwydd a rhowch yn chwyrn. 29

S

Sawl a ymddiriedant yn Nêr Iôn. 125
Seiliesai hon, sef Sion, fydd. 87

T

Teyrnas y mae yr Arglwydd. 93
Traethodd fynghalon bethau da. 45
Trugaredd dod i mi. 51
Trugaredd Duw i'n plith. 67
Tuedda'ngolwg at y nef. 123
Tydi ô Dduw yw y Duw mau. 63

W

Wele, fod brodyr yn byw'nghyd. 133
Wele holl weision Argl. nef. 134
Wrth gamwedd dyn annuwiol fur. 36

Y

Ymgyfoded vn Duw ein Nêr. 68
Yn fy nghalon ni bu falch chwydd. 131
Yng Iuda ac Israel sir. 76
Yn Nuw ymlawenhewch i gyd. 66
Y ty ni adeilado'r Nêr. 127
Yr Argl. Ddûw yw ein brenhin. 99
Yr Argl. piau'r ddaiar lawr. 24
Yr Argl. ydyw ein pennaeth. 97
Yr Argl. yw fy mugail clau. 23
Yr Argl. yw fyngolau gyd. 27
Yr vn wedd ac y bref yr hydd. 42
Y sawl a drigo, dowd yn pes. 91
Y sawl ni rodia, dedwydd yw. 1
Y sawl sy deilwng, gwyn ei fyd. 32
Y da yw Duw i Israel. 73

[illegible] gwybod ar ba don y mae canu pob vn o'r Psalmau yn y gyn[illegible], y mae nodau canu wedi eu gosod wrth rai o honynt; ac wrth [illegible] canu cynnifer o'r llaill ac a fo o'r vn mesur a hwynthau: [illegible] Psalmau o gwynfan a galar, ac eraill o ddiddan[illegible] yn gweddio Duw am ymwared o gyfludd, neu ryw [illegible], ac eraill yn moliannu Duw ac yn diolch iddo am ei ddaioni i'i [illegible] ac yn mynegi mawrion weithredoedd Duw yn yr oe[illegible] ac eraill yn prophwydo am bethau a ddeuai ar ôl: &c. O her[illegible] yw dewis i bob Psalm y dôn a fo cymmhwysaf a chym[illegible] a fyddo ynddi.

DIWEDD.